Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cronfa
Setting Research Free

## Swansea University E-Theses

# S4C: Hanes ymgyrchu, sefydlu ac adolygu sianel 1981-1985.

**Price, Elain**

How to cite:

Price, Elain (2010) *S4C: Hanes ymgyrchu, sefydlu ac adolygu sianel 1981-1985..* thesis, Swansea University.
http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42697

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/

# S4C
# Hanes ymgyrchu, sefydlu ac adolygu sianel 1981 – 1985

Elain Price

Cyflwynwyd i Brifysgol Abertawe i gyflawni gofynion Gradd Doethur mewn Athroniaeth

Prifysgol Abertawe

2010

UNIVERSITY OF WALES SWANSEA LIBRARY

ProQuest Number: 10807466

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS
The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript
and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed,
a note will indicate the deletion.

ProQuest 10807466

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.
This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346

**Crynodeb**

Mae'r astudiaeth hon yn dadansoddi a dehongli hanes sefydlu Sianel Pedwar Cymru (S4C) fel sianel newydd yn nhirlun darlledu Cymru gan drafod, mewn manylder, gyfnod prawf y sianel rhwng 1981–1985. Mae'r astudiaeth yn archwilio paham yr oedd dirfawr angen sianel ar wahân ar gyfer rhaglenni teledu Cymraeg ac yn trafod sut aeth trigolion Cymru ati i'w hennill trwy ddulliau cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol. Prif ffocws y traethawd yw dadansoddi'r hyn a gafwyd yn dilyn yr ymgyrch hirhoedlog i sefydlu S4C, gan holi a sefydlwyd sianel a feddai ar y rhinweddau a ddeisyfwyd gan yr ymgyrchwyr. Mae'r astudiaeth yn ystyried y sialensiau a wynebwyd gan yr Awdurdod newydd, a chan swyddogion a staff y sianel wrth iddynt gynllunio a chyflwyno gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, y polisïau a ffurfiwyd ganddynt a'r cydberthynasau a saernïwyd gyda'r BBC, HTV, Channel 4 a'r cynhyrchwyr annibynnol. Mae'r traethawd hefyd yn pwyso a mesur ymateb y gynulleidfa i'r gwasanaeth a'r rhaglenni ac yn ystyried sut yr aeth y Swyddfa Gartref ati i adolygu'r sianel ar ddiwedd ei chyfnod prawf ym 1985.

Trwy gyfrwng ddadansoddiad manwl o gofnodion y sefydliadau darlledu ym Mhrydain, erthyglau o'r wasg a chyfweliadau gyda nifer o'r unigolion fu'n allweddol i fenter S4C, darlunnir sut y llwyddodd y sianel i newid tirlun darlledu Cymru yn llwyr. Bu'r partneriaethau unigryw a ffurfiwyd rhwng y sianel a'i chynhyrchwyr annibynnol a'r darlledwyr eraill yn fodd o gyflwyno bwrlwm newydd i'r diwydiant darlledu a'r arlwy cyfrwng Cymraeg, bywiogrwydd a fu'n allweddol i lwyddiant y sianel gyda'i chynulleidfa yn ystod y cyfnod prawf. Amlinellir hefyd sut y llwyddodd swyddogion y sianel weithredu strategaeth a wreiddiodd y sianel yn ddwfn yn ffyniant economaidd Cymru gan ei gwneud yn anodd os nad yn amhosibl ei diddymu wedi tair blynedd o arbrawf.

DATGANIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn mewn sylwedd ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod ........................................ (ymgeisydd)

Dyddiad........ 31·12·2010 ..............................

DATGANIAD 1

Mae'r thesis hwn yn ganlyniad o'm hymchwiliadau fy hun, heblaw lle y nodir fel arall. Ble bynnag y defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, nodir i ba raddau y gwnaed hynny a natur y cywiriad yn glir yn y troednodyn/troednodiadau.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau gan roi cyfeiriadau penodol. Mae llyfryddiaeth wedi'i hychwanegu.

Llofnod........................................ (ymgeisydd)

Dyddiad ........ 31·12·2010 ..............................

DATGANIAD 2

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os derbynnir ef, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer ei fenthyg rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod....................................... (ymgeisydd)

Dyddiad........ 31·12·2010 ..............................

**Cynnwys**


Cydnabyddiaethau 1

Lluniau 3

Byrfoddau 4

Rhagymadrodd 6

Pennod 1 15
Sianel deledu Gymraeg - cefndir a chyd-destun

Pennod 2 82
Deunaw mis o baratoi – dyddiau cynnar Awdurdod Sianel Pedwar Cymru

Pennod 3 139
Rhaglenni a darparwyr – perthynas S4C gyda'r BBC, HTV, y cwmnïau teledu annibynnol a Channel 4

Pennod 4 207
Gwireddu'r arbrawf – darllediadau cyntaf ac argraffiadau'r gynulleidfa

Pennod 5 248
Mentrau ariannol – sicrhau telerau teg ac ehangu i feysydd newydd

Pennod 6 295
Adolygu'r sianel – arolygon barn ac archwiliad y Swyddfa Gartref

Casgliadau 341

Atodiad A 361
Aelodau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru (1981 – 1985)

Atodiad B 362
Cynhyrchwyr annibynnol a dderbyniodd gomisiynau gan S4C, 1981 – 1986

Llyfryddiaeth 365

**Cydnabyddiaethau**

Carwn ddiolch i nifer helaeth o bobl am eu cymorth wrth i mi fynd ati i lunio'r astudiaeth hon. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i staff a swyddogion S4C a fu mor barod i ryddhau dogfennau anghenrheidiol ar gyfer yr astudiaeth. Diolchaf yn arbennig i Nia Ebenezer, Carys Evans, Iona Jones, John Walter Jones, Lynette Morris, Kathryn Morris a Jen Pappas am fod mor barod eu cymwynas yn ystod y cyfnod y bûm yn ymweld â'r sianel a thrwy gydol cyfnod yr astudiaeth hon. Dymunaf hefyd ddiolch i nifer o staff BBC Cymru am eu hymateb parod i'm hymholiadau, yn arbennig hoffwn ddiolch i Siôn Brynach, Karl Davies, Edith Hughes, Keith Jones, Yvonne Nicholson a Menna Richards. Hoffwn ddiolch hefyd i James Codd yng Nghanolfan Archifau Ysgrifenedig y BBC am ei gymorth a'i arweiniad yn ystod fy ymweliadau â Caversham. Diolchaf hefyd i Phil Henfrey, Shone Hughes, Owain Meredith a Siôn Clwyd Roberts yn ITV Wales am eu cymorth. Dymunaf hefyd gydnabod y cyngor a'r cymorth a gefais gan staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru, Archif yr ITA/IBA/Cable Authority ym Mhrifysgol Bournemouth a'r Archifau Seneddol yn San Steffan.

Bûm yn ffodus iawn i gael cyfarfod a chyfweld â nifer o unigolion a fu'n weithgar ac yn gwbl allweddol i'r diwydiant teledu Cymraeg gydol y 1970au a dechrau'r 1980au. Carwn ddiolch yn ddiffuant i Wil Aaron, Huw H. Davies, Chris Grace, Dr Glyn Tegai Hughes, Geraint Stanley Jones, Huw Jones, Robin Lyons, Mair Owen, y Parch Dr Alwyn Roberts ac Euryn Ogwen Williams am eu hamser, eu hamynedd a'r gefnogaeth hael a gefais ganddynt oll. Cefais gymorth amhrisiadwy gan y diweddar Owen Edwards, a roddodd yn hael o'i amser a'i gefnogaeth ar waethaef cyflwr ei iechyd. Dymunaf hefyd ddiolch yn fawr i arbennigwyr yn y maes a fu mor barod eu cymwynas - Ifan Gwynfil Evans, John Hefin, Dr Martin Johnes a Kevin Williams a dymunaf ddiolch yn arbennig i Dr Jamie Medhurst am ei arweiniad ac am fod mor barod i fenthyg deunydd.

Rwy'n ddyledus iawn i'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg am y nawdd i gwblhau'r astudiaeth hon. Hoffwn ddiolch i'r holl staff yno am eu cefnogaeth a'r gynhaliaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Carwn ddiolch o waelod calon, yn gwbl ddiffuant, i Dr Gwenno Ffrancon am ei hymddiriedaeth, ei harweiniad a'i hamynedd di-ben-draw. Heb ei chyfeillgarwch a'i chefnogaeth hael rwy'n gwbl argyhoeddedig na fyddai'r astudiaeth hon wedi cyrraedd pen ei thaith.

I gloi, carwn ddiolch i'm cyfeillion a'm teulu oll, yn enwedig fy rhieni, Goronwy a Beryl, fy mrodyr, Elfyn a Guto, ac yn arbennig fy ngŵr Nick am eu cefnogaeth a'u cariad dros y bedair blynedd ddiwethaf. Diolch i chi o waelod calon.

**Lluniau**

Pennod 2


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Logo S4C: Robinson Lambie-Nairn – Hawlfraint S4C | 123 |
| 2 | Logo S4C: Robinson Lambie-Nairn – Hawlfraint S4C | 125 |

**Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| AGSSC | Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru |
| ABS | Association of Broadcasting Staffs |
| ACTT | Association of Cinematograph, Television and Allied Technicians |
| ADA | Awdurdod Darlledu Annibynnol (Independent Broadcasting Authority) |
| AGB | Audits of Great Britain |
| ATA | Awdurdod Teledu Annibynnol (Independent Television Authority) |
| BBC | British Broadcasting Corporation |
| BBFC | British Board of Film Classification |
| BECTU | Broadcasting, Entertainment, Cinematograph and Theatre Union |
| CBI | Confederation of British Industry |
| CDC | Cyngor Defnyddwyr Cymru |
| CPGTH | Casgliad Personol Dr Glyn Tegai Hughes |
| CPJM | Casgliad Personol Dr Jamie Medhurst |
| CS4C | Casgliad S4C |
| C4UK | Channel 4 UK |
| HTV | Harlech Television |
| IBA | Independent Broadcasting Authority |
| IMG | International Management Group |
| IPA | Institute of Practitioners in Advertising |
| ITA | Independent Television Authority |
| ITCA | Independent Television Companies Association |
| ITN | Independent Television News |

| | |
|---|---|
| ITP | Independent Television Publications |
| ITV | Independent Television |
| LWT | London Weekend Television |
| MIP TV | Marché International des Programmes de Television |
| NATTKE | National Association of Theatrical Television and Kine Employees |
| NUJ | National Union of Journalists |
| NUM | National Union of Mineworkers |
| OBA | Open Broadcasting Authority |
| Ofcom | Office of Communications |
| PACT | Producers Alliance for Cinema and Television |
| PDFC | Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| PMM | Peat, Marwick and Mitchell |
| RTS | Royal Television Society |
| SDN | S4C Digital Networks |
| S4C | Sianel Pedwar Cymru |
| TAC | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| TWI | Trans World International |
| TWW | Television Wales and West |
| UCAC | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| WAC | Written Archives Centre (BBC) |
| WFCA | Welsh Fourth Channel Authority |
| WWN | Wales West and North Television (Teledu Cymru) |

**Rhagymadrodd**

Nod y traethawd hwn yw dadansoddi a dehongli hanes sefydlu Sianel Pedwar Cymru (S4C) fel sianel newydd yn nhirlun darlledu Cymru a'r modd y ffurfiwyd trydydd Awdurdod Darlledu i Brydain. Bydd yr astudiaeth yn archwilio paham yr oedd dirfawr angen sianel ar wahân ar gyfer rhaglenni teledu Cymraeg gan drafod sut aeth trigolion Cymru, yn wleidyddion, darlledwyr, academyddion a'r cyhoedd, ati i'w hennill trwy ddulliau cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol. Ystyrir hefyd pwy oedd yr unigolion a fu'n allweddol yn y fenter gan drafod eu cyfraniad a'u rhan yn yr ymgyrch i sicrhau sianel Gymraeg. Er hynny, nid yw'n fwriad ailymweld â deunydd a gwybodaeth sydd yn gwbl hysbys eisoes, prif ffocws y gwaith, ar ôl gosod y cyd-destun angenrheidiol, fydd dadansoddi'r hyn a gafwyd yn dilyn yr ymgyrch hirhoedlog i sefydlu S4C, gan holi a sefydlwyd sianel a feddai ar y rhinweddau a ddeisyfwyd gan yr ymgyrchwyr. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar flynyddoedd cyfnod prawf y sianel mewn manylder, sef 1981 i 1985, gan ystyried y sialensiau a wynebwyd gan yr Awdurdod newydd, a chan swyddogion a staff y sianel wrth iddynt gynllunio a chyflwyno gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, y polisïau a ffurfiwyd ganddynt, a'r cydberthynasau a saernïwyd gyda darlledwyr a chynhyrchwyr eraill. Bydd y traethawd hefyd yn pwyso a mesur ymateb y gynulleidfa i'r gwasanaeth a'r rhaglenni ac yn ystyried sut yr aeth y Swyddfa Gartref ati i adolygu'r sianel ar ddiwedd ei chyfnod prawf ym 1985.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae rhai agweddau ar hanes S4C wedi eu cofnodi, eu trafod a'u hastudio yn fanwl eisoes. Y mae awduron niferus wedi trafod yr ymgyrchu a'r gwrthdystio digynsail a fu er mwyn gwireddu'r egwyddor o sianel ar wahân ar gyfer rhaglenni Cymraeg, er bod y rhan fwyaf o'r cyfrolau yn hunangofiannau yn hytrach nac astudiaethau academaidd.[1] Y mae nifer helaeth o'r astudiaethau hyn yn dod i ben â thrafod ar y sianel Gymraeg ar ôl ail dro-pedol Whitelaw ar 17 Medi 1980, ac os ceir trafod pellach, yr hyn a gyhoeddir yw rhai manylion moel ac ambell i ddatganiad ysgubol sy'n ymgais i gofnodi llwyddiannau a methiannau'r sianel mewn un frawddeg. Fe geir mewn cyhoeddiadau ar hanes darlledu ym Mhrydain

[1] Gweler, er enghraifft, Nicholas Crickhowell, *Westminster, Wales and Water* (Cardiff, 1999); Geraint Talfan Davies, *At Arms Length* (Bridgend, 2008); Gwynfor Evans, *Bywyd Cymro* (Caernarfon, 1982); Rt, Hon. Lord Roberts of Conwy, *Right From the Start – The Memoirs of Sir Wyn Roberts* (Cardiff, 2006); William Whitelaw, *The Whitelaw Memoirs* (London, 1989).

gyfeiriadau cymharol gyson at yr 'eithriad Cymreig' (*Welsh anomaly*) i sefydlu Channel 4, ond ni cheir cyhoeddiad sydd yn cynnig trafodaeth na dadansoddiad pellach na hynny.[2] Ceir yr un math o ymdriniaeth mewn cyfrolau sy'n trin a thrafod hanes Channel 4 yn benodol.[3] Gellid disgwyl hefyd y byddai cyfrolau sydd yn astudio hanes Cymru yn ystod yr Ugeinfed Ganrif yn cynnig mwy i'r darllenwr, ond prin iawn yw'r cyfeiriadau at hynt y sianel ar ôl hanes bygythiad ympryd Gwynfor Evans a throeon pedol y Llywodraeth Geidwadol.[4] Ni cheir ganddynt fwy nag ambell frawddeg sy'n ceisio crynhoi llwyddiant neu aflwyddiant y sianel dros flynyddoedd ei bodolaeth gan greu darlun sydd yn aml yn un dimensiwn ac sydd yn anwybyddu cymhlethdod y sialensiau a wynebwyd gan y sianel gydol ei hanes. Y mae natur gynhwysfawr y cyfrolau hyn, sy'n ceisio crynhoi hanes Cymru i gyhoeddiadau darllenadwy, heb fod yn hirfaith, yn un o'r ffactorau sy'n esbonio'r diffyg trafodaeth yma. O reidrwydd felly, mae'n rhaid trafod rhai agweddau ar hanes Cymru mewn modd arwynebol, ac, ymddengys, yn amlach na pheidio, mai dyna dynged y cyfryngau yn yr astudiaethau hyn. At hynny, gan fod S4C yn sianel gymharol ifanc ac yn ddatblygiad diweddar yng nghyd-destun hanes ehangach Cymru, mae'n ddealladwy pam y rhoddir mwy o sylw i ddylanwad diwydiannau trwm ar fywyd Cymru, megis glo a dur, yn hytrach na'r diwydiant darlledu.

---

[2] Gweler, er enghraifft, Paul Bonner with Lesley Aston, *Independent Television in Britain – Volume 6 – New Developments in Independent Television 1981 – 92: Channel 4, TV-am, Cable and Satellite* (London, 2003); Andrew Crisell, *An Introductory History of British Broadcasting – Second Edition* (London, 2002); Michelle Hilmes, *The Television History Book* (London, 2003); Anthony Smith (gol.), *Television – An International History, 2nd Edition* (Oxford, 1998); Kevin Williams, *Get me a Murder a Day!* (London, 1998). Difyr nodi, er hynny, na cheir yn nghyfrol ddylanwadol James Curran a Jean Seaton, *Power Without Responsibility – The Press and Broadcasting in Britain, Sixth Edition* (London, 2003), unrhyw son am S4C o gwbl.

[3] Maggie Brown, *A Licence to be Different – The Story of Channel 4* (London, 2007); Peter Catterall (gol.), *The Making of Channel 4* (London, 1999); Dorothy Hobson, *Channel 4 – The Early Years and the Jeremy Isaacs Legacy* (London, 2008); Stephen Lambert, *Channel Four – Television with a Difference?* (London, 1982). Yr unig eithriadau i'r rhestr hwn yw Simon Blanchard a David Morley (goln.), *What's this Channel Fo(u)r? – An alternative report* (London, 1982) a Jeremy Isaacs, *Storm Over 4* (London, 1989). Ceir yng nghyfrol Blanchard a Morley ddwy bennod sy'n edrych yn benodol ar y bedwaredd sianel yng Nghymru, ond, gan i'r gyfrol hon gael ei chyhoeddi cyn i'r sianel ddechrau darlledu ni cheir mwy na darlun manwl o'r ymgyrch gan Angharad Tomos a rhai sylwadau cychwynol ar weithgaredd Awdurdod S4C gan Jonathan Coe. Yng nghyfrol Isaacs, prif weithredwr cyntaf Channel 4, ar y llaw arall, ceir atgofion personol o'i ymweliad â'r Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd yn Harlech ym 1981 a rhai sylwadau ar y berthynas a ffurfiwyd rhwng Channel 4 a S4C. Er fod y sylwadau hyn yn ddifyr ac yn ddadlennol, nid ydynt yn dadansoddi pwysigrwydd y berthynas honno i lwyddiant S4C nac yn darparu darlun cynhwysfawr o'r berthynas gan mai argraffiadau un dyn a geir yma.

[4] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007); D. Gareth Evans, *A History of Wales 1906–2000* (Cardiff, 2000); Gwynfor Evans, *The Fight for Welsh Freedom* (Talybont, 2000); Rhys Evans, *Gwynfor – Rhag Pob Brad* (Talybont, 2005); Geraint H. Jenkins, *A Concise History of Wales* (Cambridge, 2007); R. Merfyn Jones, *Cymru 2000* (Caerdydd, 1999).

Y mae hyd yn oed yr haneswyr sydd wedi trin a thrafod darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru, megis David Berry, John Davies, Jamie Medhurst a Kevin Williams, unai wedi canolbwyntio ar ddarlledwyr eraill Cymru, sef y BBC ac ITV yng Nghymru, neu wedi trafod S4C fel un darlledwr ymhlith nifer.[5] Ni thrafodwyd Sianel Pedwar Cymru, felly, mewn cyfrol a neilltuwyd yn arbennig ar ei chyfer.[6] Cyfeirir at S4C yng nghyfrolau Davies a Medhurst yng nghyd-destun eu hymwneud â, a'u dylanwad ar y BBC ac ITV, yn hytrach na holl weithgareddau a chyraeddiadau y sianel. Rhaid cydnabod y ceir trafodaeth ehangach na'r cyfryw yng nghyfrol John Davies, gan y cofnodir nifer o sylwadau difyr a goleuol am berthynas y BBC â S4C yn ôl-ysgrif y gyfrol. Ond, er y crybwyllir nifer o agweddau ar y berthynas a'r tensiynau a gaed, nid edrychir ar holl agweddau'r berthynas honno mewn manylder. Ynghyd â'r cyfrolau hyn ar hanes darlledwyr Cymru, cyhoeddwyd dyrnaid o erthyglau mewn cyfnodolion neu benodau mewn cyfrolau ehangach ar agweddau arbennig a phenodol ar waith S4C. Ceir, er engraifft, astudiaethau ar *genres* arbennig, megis ffilm,[7] neu ddadansoddiadau o ffigurau gwylio siomedig diweddar, ond ni cheir unrhyw astudiaethau sy'n dadansoddi'n benodol flynyddoedd cynnar y sianel.[8] Un eithriad er hynny, yw erthygl dreiddgar David Bevan sy'n ystyried a lwyddodd polisi darlledu rhaglenni poblogaidd S4C i ddiffinio hunaniaeth genedlaethol yn ystod y 1980au,

[5] David Berry, *Wales and Cinema, The First Hundred Years* (Cardiff, 1994), tt. 128–51; David Berry, 'Unearthing the Present: Television Drama in Wales' yn Steve Blandford (gol.), *Wales on Screen* (Bridgend, 2000); John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994); Jamie Medhurst, *A history of Independent Television in Wales* (Cardiff, 2010); Kevin Williams, *Shadows and Substance – The Development of Media Policy for Wales* (Llandysul, 1997). Mae'r gyfrol David M. Barlow, Philip Mitchell a Tom O'Malley, *The Media in Wales – Voices of a Small Nation* (Cardiff, 2005), yn cynnwys pennod sy'n trafod ac yn dadansoddi sianeli teledu Cymru. Ynddi ceir cyfeiriadau at y frwydr i sefydlu S4C a thrafodir rhai agweddau ar raglenni a chynulleidfaoedd y sianel, er hynny, tueddir i ddefnyddio ystadegau cyfoes er mwyn dehongli cyrhaeddiad y sianel.

[6] Yr oedd hi'n fwriad gan Dr Glyn Tegai Hughes i ysgrifennu hanes blynyddoedd cynnar y sianel wedi iddo ymddeol o'r Awdurdod. Ond teimlai ei fod yn rhy agos at y fenter, ac felly ni chwblhaodd y gwaith. Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.

[7] Ceir cyfeiriadau at gyfraniad S4C i ddiwylliant ffilm Cymru yn Berry, *Wales and Cinema*, tt. 321–41; Steve Blandford, *Film, Drama and the Break-up of Britain* (Bristol, 2007), tt. 87–104; Steve Blandford, 'Wales at the Oscars: Heritage Cinema and Welshness in the 1990s', *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, 2 (2005), tt. 101–13.

[8] David Bevan, 'The Mobilization of cultural minorities: the case of Sianel Pedwar Cymru', *Media Culture and Society*, 6 (1984), tt. 103–17; Merris Griffiths, 'Cynrychioliadau o Anabledd mewn Rhaglenni Iaith Gymraeg ar S4C', *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, 2 (2005), tt. 7–31; W. J. Howell Jr., 'Britain's Fourth Television Channel and the Welsh Language Controversy', *Journal of Broadcasting and Electronic Media*, Cyfrol 25, rhifyn 2 (Gwanwyn 1981), tt. 123–37; Nia Cole Jones, 'Dadansoddiad o Ieithwedd Rhaglenni Newyddion Radio Cymru a S4C', *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, 5 (2008), tt. 73–93; Robert Smith, 'Darlledu a'r Iaith Gymraeg' yn Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams (goln.), *'Eu Hiaith a Gadwant'? – Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), tt. 299–329; James Thomas a Justin Lewis, '"Coming out of a mid-life crisis"? – The past, present and future audiences for Welsh Language Broadcasting', *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, 3 (2006), tt. 7–41.

gan ganolbwyntio yn benodol ar ddarpariaeth newyddion y sianel. Y mae blynyddoedd cynnar unrhyw wasanaeth darlledu yn hynod ddylanwadol, ac y mae dylanwad swyddogion cynnar, yn annatod, yn bellgyrhaeddol ar ei ddatblygiad. Ystyrier, er enghraifft, John Reith a'i ddylanwad ef ar ethos a phatrwm gweithredu'r BBC hyd heddiw. Er nad oedd i S4C un ffigwr dylanwadol y gellid ei gydnabod fel 'tad' y gwasanaeth, fel y dengys yr astudiaeth hon, bu dylanwad rhai unigolion yn fawr.

O ystyried fod Sianel Pedwar Cymru yn sianel gwbl unigryw yn hanes darlledu pan y'i sefydlwyd ym 1981, y mae'r diffyg sylw a roddwyd iddi o'i chymharu â'r sefydliadau darlledu Prydeinig eraill yn peri syndod. Un elfen gwbl unigryw i'r sianel, yw ei bod yn sianel y brwydrwyd amdani ac a enillwyd gan y cyhoedd, a chan garfan leiafrifol o'r gymdeithas at hynny. O gofio y sefydlwyd sianeli teledu eraill ym Mhrydain yn sgil datblygiadau technolegol, ewyllys gwleidyddol neu oherwydd dylanwadau masnachol cynhyrchwyr setiau teledu neu'r diwydiant hysbysebu, y mae tarddiad Sianel Pedwar Cymru a'i chwaer sianel, Channel 4, yn gwbl nodedig. At hynny, yng Nghymru yn y 1960au a'r 1970au, prin iawn oedd unrhyw faterion a oedd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg y caed cydsynio yn eu cylch gan y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. Ond ar fater sianel ar wahân ar gyfer rhaglenni teledu Cymraeg, dymunai y rhan helaeth o'r gymuned Gymraeg gael gwasanaeth cynhwysfawr ar un sianel, tra deisyfai'r di-Gymraeg gael gwared ar y rhaglenni Cymraeg a oedd yn tarfu ar eu gwylio nosweithiol ar y prif sianeli. Diau fod yr agweddau unigryw hyn yn hanes geni'r sianel wedi apelio at awduron ac academyddion, fel ei gilydd, gan esbonio yn rhannol pam mai canolbwyntio ar yr ymgyrch a wna'r cyfrolau cyhoeddedig, yn hytrach na datblygiad y sianel yn ystod ei blynyddoedd ffurfiannol.

Elfen gwbl unigryw arall i'r sianel yn y cyfnod oedd ei chyfansoddiad a'r ffaith bod disgwyl iddi greu gwasanaeth unedig ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg trwy gyfrwng amryfal ffynonellau. Ar ddechrau y 1980au, yr oedd darlledwyr yn darlledu rhaglenni a chyfresi a gynhyrchid gan eu staff eu hunain, ond yr oedd S4C, ynghyd â Channel 4, yn cyflwyno egwyddor cwbl newydd i'r diwydiant. Caed gyda'u geni ddarlledwyr a oedd yn comisiynu rhaglenni gan ddarparwyr allanol, ac o amryfal ffynonellau, a oedd yn arwain at amrywiaeth cynnwys a lle i fynegi amrediad o

safbwyntiau. Ond, gan fod y rhan helaeth o'r sylwebyddion a'r academyddion sydd yn arbenigo ar ddarlledu a chyfundrefnau darlledu yn ddi-Gymraeg, i Channel 4 y rhoddid y sylw pennaf yn y cyd-destun hwn, ac fe ddiystyriwyd cyfraniad S4C i ddatblygiad a thwf y patrwm darlledwr-gyhoeddwr. At hynny, anwybyddwyd y ffaith i fodolaeth S4C ehangu y patrwm darlledwr-gyhoeddwr ymhellach, gan i S4C dderbyn a darlledu rhaglenni gan y BBC ynghyd â'r sianel fasnachol yng Nghymru, sef HTV, a chan y sector gynhyrchu annibynnol. Yn hytrach na cheisio asio rhaglenni gan ddwy garfan wahanol yn unig, felly, yr oedd S4C yn ceisio llunio gwasanaeth cynhwysfawr Cymraeg o gynyrchiadau tair carfan gwbl wahanol. At hynny, S4C oedd trydydd awdurdod darlledu Prydain, yr unig awdurdod rheoli newydd i gael ei ffurfio ers sefydlu'r Awdurdod Teledu Annibynnol ym 1954, gan sicrhau annibyniaeth weithredol i'r sianel newydd, ac yn rhinwedd hynny'n unig y mae'r sianel yn deilwng o astudiaethau llawer manylach nag a gaed eisoes. Er yr elfennau unigryw hyn, ceir tystiolaeth o ddiffyg diddordeb a difaterwch ar ran y diwydiant darlledu Prydeinig tuag at gyfraniad S4C a hynny ers ei dyddiau cynnar. Ym 1986, er enghraifft, lluniodd yr Royal Television Society (RTS) raglen ddogfen deg munud a thrigain o hyd i ddathlu hanes teledu ym Mhrydain ond ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at S4C ynddi. Cynddeiriogwyd Owen Edwards, Cyfarwyddwr S4C, i'r fath raddau nes yr ysgrifennodd at y gymdeithas a holi:

> . . . could it really be that the RTS had overlooked the significance of the creation of the third independent broadcasting Authority in the United Kingdom? Is not the unique combination of BBC, ITV and Independent Producers' programmes within a cohesive schedule important and interesting enough to merit at least a passing reference in the history of the first 50 years of British television? Does the RTS not know that S4C is here to stay de jure as well as de facto?[9]

Ymddengys, felly, y ceid difaterwch a diffyg ystyriaeth enbyd tuag at y sianel ymhlith rhai carfannau o'r diwydiant erbyn diwedd cyfnod prawf y sianel. Gellid dadlau i'r difaterwch hwn arwain at ddiffyg trafodaeth ar y sianel a darlledu yng Nghymru yn gyffredinol. Noda y sylwebyddion uchel eu parch, Rhys Evans a Kevin Williams, ill dau, bod diffyg trafodaeth yn andwyol i'r sector ddarlledu yng Nghymru. Meddai Kevin Williams ynghanol y 1990au: 'There has almost been a

[9] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Paul Fox, Llywydd y Royal Television Society, 31 Hydref 1986.

conspiracy of silence around the output of the Welsh media . . .'[10] Datganodd Rhys Evans yntau mewn cynhadledd i ddathlu chwarter canrif S4C yn 2007:

> Mae'r diffygion yn ein dealltwriaeth o stori geni S4C a stori hanes darlledu Cymraeg cynddrwg nad oes diben torri glo mân yn glapiau. Gyda rhai eithriadau prin . . . buom yn or-barod i besgu ar anecdotau a rhag-dybiaethau neilltuol o simsan ynghylch sut a pham y cyraeddasom yma.[11]

Bwriad y traethawd hwn, felly, yw ceisio sicrhau bod dealltwriaeth gyhoeddus o hanes cynnar S4C wedi ei wreiddio mewn astudiaeth o ddogfennau craidd ac y trafodir darlun manwl o lwyddiannau a ffaeleddau y sianel yn ei holl gymhlethdod. Y mae'n gwbl briodol felly bod astudiaeth gynhwysfawr o S4C yn cael ei llunio cyn i anecdotau a hanesion lled gywir gael eu trin fel ffeithiau, ac y mae'n amserol, o ystyried y trafodaethau tyngedfennol a gynhelir yn ystod 2011 ynghylch dyfodol y sianel, i astudiaeth gael ei llunio ar ei blynyddoedd ffurfiannol. At hynny, y mae mwy na wyth mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers i'r sianel ddechrau darlledu ac yn agos i ddeng mlynedd ar hugain ers i Awdurdod S4C gwrdd am y tro cyntaf. Y mae'r sianel bellach o dan reolaeth ei phumed prif weithredwr, a phrin iawn yw'r unigolion sydd yn gweithio i'r sianel ar hyn o bryd a oedd yn gweithio iddi ar ddechrau'r 1980au.[12] Y mae'r ffactorau hyn, gellid dadlau, yn sicrhau bod pellter amser rhwng gweithredoedd y swyddogion gwreiddiol a'r polisïau a weithredir gan y sianel heddiw yn golygu, gellid dadlau, y gall y sector ddarlledu Gymreig dderbyn astudiaeth fanwl a gonest o flynyddoedd ffurfiannol y sianel. Y mae gan yr astudiaeth hon hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod atgofion, argraffiadau a dehongliadau rhai o'r unigolion a oedd yn weithredol yn y sianel yn y cyfnod dan sylw ar gof a chadw gan roi cig ar asgwrn cofnodion y trafodaethau a'r adroddiadau papur newydd.

Fel y dengys yr erthyglau a gyhoeddwyd yn y wasg yn ystod misoedd olaf 2010, y mae S4C yn ennyn trafodaethau tanbaid, ymron i ddeng mlynedd ar hugain ar ôl ei

---

[10] Williams, *Shadows and Substance*, t. 7.

[11] Casgliad personol yr awdur, Rhys Evans, '*"Softly Spoken Fanatics"?*: Teledu, Iaith a'r Wladwriaeth Brydeinig, 1949–1979', *Cynhadledd S4C: 25*, Aberystwyth, Tachwedd 2007.

[12] Llywiwyd y sianel gan yr unigolion canlynol: Owen Edwards (1981–89), Geraint Stanley Jones (1989–94), Huw Jones (1994–2005), Iona Jones (2005–2010), Arwel Ellis Owen (prif weithredwr dros dro, 2010–presennol).

geni. Cyhoeddwyd erthyglau yn beirniadu yn hallt ffigurau gwylio isel tybiedig y sianel, gan arwain at adroddiadau pellach lle bu sylwebyddion yn bwrw eu llach ar y £100 miliwn a mwy o gyllideb a gyflwynwyd i'r sianel yn flynyddol er mwyn ariannu ei gweithgareddau. Yn yr erthyglau hyn, a'r ymateb a gaed iddynt mewn fforymau ar lein, gwelwyd gallu cynhenid darlledu yn yr iaith Gymraeg i gynddeiriogi sylwebyddion a charfannau o'r gymdeithas yng Nghymru a thu hwnt. Yn sgil y trafodaethau cyhoeddus a phenderfyniad Llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i weddnewid patrwm ariannu'r sianel yn 2010, y mae'n gwbl hysbys fod S4C yn mynd trwy gyfnod o newid tyngedfennol a fydd yn gweddnewid, o bosibl, strwythur rheoli a phatrwm cyfansoddiad yr Awdurdod a thîm rheoli'r sianel.[13] Ond, gellid dadlau, cyn gallu mynd i'r afael mewn modd deallus a chynhyrchiol â thrafodaethau am ddyfodol y sianel y mae'n hanfodol bod darlun clir a chywir o flynyddoedd cynnar y sianel ar gael i academyddion, sylwebyddion a gwneuthurwyr polisïau er mwyn goleuo'r trafodaethau tyngedfennol hynny. Y mae'r astudiaeth hon yn gam tuag at gywiro'r diffyg a fu yn ein gwybodaeth.

Er mwyn llunio darlun cynhwysfawr a manwl o flynyddoedd ffurfiannol y sianel, seiliwyd y traethawd hwn ar ymchwil empeiraidd gynhwysfawr ac astudir gyfuniad o ddogfennau gwreiddiol a ffynonellau eilaidd, erthyglau o'r wasg a chyfweliadau ag unigolion allweddol o'r cyfnod hwn yn hanes y sianel. Er mwyn darparu cyd-destun angenrheidiol i ddatblygiad y bedwaredd sianel Gymraeg, trafodir nifer helaeth o gyhoeddiadau seneddol, gan gynnwys adroddiadau Crawford, Siberry, Annan a Trevelyan/Littler, ynghyd â'r dystiolaeth swmpus a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a ymchwiliodd yn fanwl i ddarlledu a'r iaith Gymraeg yn ystod misoedd cyntaf bodolaeth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru. Darparodd y dogfennau hyn dystiolaeth hanfodol ar agweddau nifer o sefydliadau ac unigolion tuag at y syniad o bedwaredd sianel Gymraeg ar ddechrau ei hoes. Adeiladwyd y traethawd hwn ar ddadansoddiad manwl o gofnodion y sefydliadau darlledu a oedd yn ymwneud â'r bedwaredd sianel yng Nghymru ac astudiwyd amryw o ddogfennau nas

---

[13] Maggie Brown, 'S4C: what does the future hold?', *www.guardian.co.uk/media/organgrinder/2010/oct/29/s4-bbc-future*, 29 Hydref 2010 (cyrchwyd Tachwedd 20100; Dienw, '"Anheg" cymharu S4C a BBC Alba', *www.golwg360.com/Celfyddydau/cat85/Erthygl_17527.aspx*, 11 Tachwedd 2010 (cyrchwyd Tachwedd 2010); Dienw, 'Angen ail adeiladu awdurdod y sianel Gymraeg', *www.golwg360.com/Celfyddydau/cat85/ Erthygl_18266.aspx*, 8 Rhagfyr 2010 (cyrchwyd Rhagfyr 2010);

archwiliwyd o'r blaen ar ffurf cofnodion a phapurau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru rhwng 1981 ac 1986, gohebiaeth Cadeirydd yr Awdurdod, Syr Goronwy Daniel, ynghyd â gohebiaeth y Cyfarwyddwr, Owen Edwards. Astudiwyd hefyd gofnodion Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru'r BBC a chofnodion cyfarfodydd ar y cyd y sefydliadau hyn ag Awdurdod S4C, a hynny er mwyn sicrhau y ceir darlun mor gynhwysfawr ac aml-ochrog a phosibl o gyrhaeddiad y sianel yn ystod y cyfnod dan sylw.[14] Er mwyn cefnogi a chyfoethogi'r darlun a gaed gan y dogfennau hyn, astudiwyd amrediad eang iawn o erthyglau yn y wasg, boed hynny'n erthyglau mewn papurau newydd Prydeinig, Cymreig neu leol a chyhoeddiadau diwydiannol. At hynny, aethpwyd ati i gyfweld â nifer o unigolion a fu'n allweddol i fenter S4C yn ystod ei blynyddoedd cynnar. Cyfwelwyd ag aelodau o'r Awdurdod, swyddogion cynnar y sianel ac unigolion a fu'n allweddol er mwyn gweithredu partneriaethau y sianel gyda'r BBC, HTV a'r cynhyrchwyr annibynnol.[15] Ceisiwyd sicrhau cynrychiolaeth deg o'r sefydliadau a oedd yn allweddol yn y fenter, ac amrediad eang o safbwyntiau er mwyn llunio darlun cyflawn a chytbwys.

Er y ceisiwyd sicrhau ystod eang o ffynonellau a safbwyntiau, y mae i bob ffynhonnell hanesyddol ei diffygion, boed yn gofnodion cyfarfodydd, yn gyhoeddiad swyddogol neu'n gyfweliad ag unigolyn a fu'n rhan o'r fenter a astudir. Gall cofnodion fod yn gamarweiniol gan mai dim ond y penderfyniad a wnaed a gofnodir fel arfer, ac ni cheir llawer o wybodaeth am yr hyn a drafodwyd cyn cyrraedd at y penderfyniad hwnnw. O ganlyniad, tasg anodd yw dirnad a fu'r trafodaethau o gwmpas penderfyniadau penodol yn fwy bywiog neu ffyrnig na'i gilydd. Yn ôl eu natur, y mae dogfennau sefydliadau, er enghraifft adroddiadau blynyddol, yn llawn disgrifiadau o lwyddiannau a chyrhaeddiad gyda'r nod o ddarparu darlun iach iawn o gwmni yn ffynnu. Ond mae cyhoeddiadau o'r fath yn enghreifftiau o bropaganda sefydliadol fyddai'n anwybyddu y rhan helaeth o ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd negyddol gan roi sglein a thro cadarnhaol ar bob agwedd o'u gwaith ar gyfer y cyhoedd a'r llywodraeth. Rhaid felly ystyried yn ofalus gyhoeddiadau swyddogol fel

[14] Er y gwnaed cais am fynediad at ddogfennaeth ITV Wales, ni chafwyd ymateb. Dengys ymholiadau pellach na fu patrwm o archifo dogfennau gan y cwmni dros y blynyddoedd, fel y bu gyda'r BBC, er enghraifft. Priodolir peth o'r dryswch dros leoliad dogfennau i'r ffaith y prynwyd HTV gan United News and Media ym 1997, ac yna gan Granada yn 2000, a bellach ITV plc sydd yn berchennog ar y rhyddfraint darlledu.

[15] Gweler y llyfryddiaeth am restr gyflawn o'r cyfweliadau.

y rhain wrth eu defnyddio i greu darlun o'r cyfnod a'r sefyllfa.

Y mae diffygion amlwg hefyd mewn casglu tystiolaeth lafar. Gydag yn agos i ddeng mlynedd ar hugain ers y cyfnod dan sylw, y mae'n ddigon tebygol na fydd y cof yn offeryn gwbl ddibynadwy, 'Memory is always selective, and its accuracy is impaired by unconscious suppression, the confusion of one event with another, and a slow but steady loss through the passage of time.'[16] Er hynny, gall y cof fod yn arf bwysig wrth geisio llenwi'r bylchau a adewir gan ffynonellau eraill, megis cofnodion, gan ddod â barn ac elfen ddynol yn ôl i benderfyniadau moel cofnodion. Yn ogystal, fe all treigl y blynyddoedd fod yn fantais wrth gasglu tystiolaeth lafar, 'A further balancing advantage – although less marked with public figures – is an increasing frankness, so that there is less deliberate suppression or distortion of information than with contemporary evidence.'[17] Defnyddio cyfuniad o'r holl ffynonellau dan sylw yw'r ateb delfrydol, felly, wrth ymgyrraedd at ddarlun cynhwysfawr a dadansoddiad gonest a di-duedd o'r sianel yn y cyfnod dan sylw. Gwneir hynny er mwyn dechrau ar y dasg o unioni'r cam a wnaed â hi yn ystod y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf a'r esgeulustod na chafwyd astudiaeth fanwl o enedigaeth a maboed un o sefydliadau Cymreig a Chymraeg pwysicaf y Gymru fodern. Gwneir hynny hefyd er mwyn sicrhau dadansoddiad a dehongliad manwl o lwyddiannau a methiannau polisi darlledu rhaglenni teledu Cymraeg, a hynny wrth i bennod newydd yn hanes darlledu Cymraeg agor.

---

[16] Paul Thompson a Rob Perks, *An Introduction to the use of Oral History in the History of Medicine* (Bristol, 1993), t. 12.
[17] Ibid.

**Pennod 1**

**Sianel deledu Gymraeg – cefndir a chyd-destun**

Ni ellir cyflawni astudiaeth gynhwysfawr o flynyddoedd cynnar Sianel Pedwar Cymru (S4C) heb yn gyntaf drafod y dadleuon a leisiwyd a'r datblygiadau a welwyd wrth i wleidyddion, darlledwyr, carfannau pwyso a thrigolion Cymru geisio sicrhau lle teilwng i'r Gymraeg a Chymru ar y teledu a hynny ers y darllediadau cyntaf a welwyd yng Nghymru ar 17 Rhagfyr 1949.[1] Ni chrëwyd S4C mewn gwagle, mae ei bodolaeth a phatrwm ei chyfansoddiad yn ganlyniad i ffactorau niferus sy'n ymestyn yn ôl ymhellach nag ymgyrch ddarlledu Cymdeithas yr Iaith a bygythiad ympryd Gwynfor Evans. Er mwyn cael darlun clir a chynhwysfawr o'i sefydlu rhaid bwrw golwg ddadansoddol dros ddatblygiadau'r byd darlledu yn ail hanner yr Ugeinfed ganrif, datblygiadau megis Teledu Cymru a dyfodiad Radio Cymru. Bwriad y bennod hon felly, yw olrhain datblygiadau'r byd darlledu yng Nghymru yn ystod ail hanner yr Ugeinfed ganrif, gan drafod a dadansoddi'r digwyddiadau hynny yng nghyd-destun eu perthnasedd i'r ymgyrch i sicrhau sianel deledu Gymraeg.

*Cefndir cymdeithasol a gwleidyddol y 1970au*

Adlewyrchu'r byd o'n cwmpas a wna darlledu, boed hynny trwy'r rhaglenni a ddarlledir neu yng nghyfansoddiad a pholisiau y cyfundrefnau sydd yn rheoli y cyfrwng. Y mae hyn yn arbennig o wir am amgylchiadau sefydlu'r bedwaredd sianel yng Nghymru, a hynny gan i gyflwr economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol gwledydd Prydain ddylanwadu'n helaeth ar union amseriad bodolaeth y sianel. Yr oedd dylanwad y cyfnod lle ganwyd Sianel Pedwar Cymru hefyd yn arwyddocaol iawn ar hyd a lled ei phwerau a'i dylanwad ym myd darlledu Cymru. Pwysig yw oedi felly, a dadansoddi cyd-destun cymdeithasol cyfnod yr ymgyrchu cyn geni'r sianel.

Erys y 1970au yn y cof cyhoeddus megis degawd helbulus a thywyll i Brydain, sy'n cael ei nodweddu gan gyfnodau o streiciau diwydiannol a thrafferthion enbyd yng

---

[1] O fast Sutton Coldfield y daeth y darllediad teledu cyntaf i gartrefi Cymru. Gweler John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994), t. 171; Jamie Medhurst, *A history of Independent Television in Wales* (Cardiff, 2010), t. 22.

Ngogledd Iwerddon, fel y tystia broliant cyfrol Alwyn W. Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s* :

> The 1970s. Strikes, power-cuts, three-day weeks, inflation, Paki-bashing and the dead left unburied . . . It was the best of times and the worst of times. Wealth inequality was at a record low, but industrial disruption was at a record high. These were the glory days of *Dr Who* and *Coronation Street*, but the darkest days of the Northern Ireland conflict.[2]

Yn unol â'r darlun hwn yr oedd y 1970au yn gyfnod o ansicrwydd gwleidyddol. Cyfnewidiodd yr etholwyr Lywodraeth Harold Wilson, a fu mewn grym ar ddiwedd y 1960au, am Lywodraeth Geidwadol Edward Heath ym 1970, cyn ethol Harold Wilson a Llafur ddwywaith yn rhagor ym 1974, ac yna ddychwelyd at y Ceidwadwyr a Margaret Thatcher ym 1979.[3] Yr oedd yr amhendantrwydd hwn ymysg yr etholwyr ynglŷn â pha blaid i ymddiried ynddi i arwain y wlad yn symptom ac yn ganlyniad ar yr un pryd o amgylchiadau cymdeithasol y cyfnod hwn. Disgrifia Kenneth O. Morgan gymdeithas a oedd yn esblygu ac yn newid i fod yn llawer llai goddefgar a hawddgar. Meddai:

> The temper of public and private life also seemed to be changing. Events like the miners' strikes of 1972 and 1974 suggested a growing mood of confrontation, with more than an undercurrent of violence. British society seemed to be losing that fabled tolerance and gentleness . . . Now something more fundamental appeared to be happening. Living in Britain appeared to be becoming an altogether harsher experience.[4]

Ceid darlun clir o'r trafferthion a wynebai'r wlad yn gynnar iawn yn nheyrnasiad Llywodraeth Edward Heath. Ychydig wythnosau yn unig wedi ei fuddugoliaeth, bu rheidrwydd ar y Prif Weinidog newydd i ddatgan ei bod hi'n argyfwng ar y wlad yn dilyn streic gan weithwyr y dociau ym mis Gorffennaf 1970.[5] Megis arlliw, er hynny,

---

[2] Alwyn W. Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s* (London, 2008).

[3] Am ddadansoddiad pellach o hynt Llywodraethau Ceidwadol a Llafur y 1970au, darllener, Kenneth O. Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace, 3rd Edition* (Oxford, 2001), tt. 317–433; David Childs, *Britain Since 1945 – A Political History, 5th Edition* (London, 2001), tt. 162–212; Peter Clarke, *Hope and Glory – Britain 1900–2000, 2nd Edition* (London, 2004), tt. 319–57; Andy Beckett, *When the Lights Went Out – Britain in the Seventies* (London, 2009) a Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s*.

[4] Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace*, t. 354–5.

[5] Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s*, t. 10.

o'r hyn a oedd i ddod a welwyd yn ystod yr argyfwng hwn. Ym mis Ionawr 1972, cyhoeddodd y National Union of Mineworkers (NUM) eu bod am streicio a hynny gan nad oedd eu cyflogau yn cyfateb â chyflogau gweithwyr cyffelyb.[6] Parodd y streic am saith wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwelwyd picedu hynod effeithiol gan y streicwyr a barodd i'r Prif Weinidog gyhoeddi ei bod hi unwaith eto yn gyfnod o argyfwng.[7] Gwelwyd ffatrïoedd yn cau, diswyddo mwy na miliwn o weithwyr a gwaharddiadau ar ddefnydd helaeth o drydan yn y cartref.[8] Yr oedd gwaeth i ddod, er hynny. Ym mis Tachwedd 1973, gwelwyd cyhoeddi pumed 'Cyflwr Argyfyngus' y Llywodraeth Geidwadol, wrth i gyfuniad o'r argyfwng yn y Dwyrain Canol yn dilyn rhyfel Yom Kippur, gwaharddiad ar oramser gan y glöwyr, a'r ffaith fod y gyfradd fenthyg wedi codi i 13 y cant arwain at lethu'r wlad ymhellach.

Yn ystod yr argyfwng hwn, ar 13 Rhagfyr 1973, gwelwyd cyhoeddi'r drwg-enwog wythnos-dri-diwrnod, er, yn ôl un hanesydd, nid oedd ei heffaith ar ysbryd y boblogaeth yn ddrwg i gyd gan i'r bobl ail-greu peth o ysbryd cymunedol yr Ail Ryfel Byd wrth ymdrin â'u hamgylchiadau newydd. Meddai Peter Clarke, '. . . given the national cult of reliving the hardships of 1940 in a safely miniaturized form; out came the candles and the war time lore, showing that Britain could take it . . .'[9] Er hynny, bu'r gaeaf hwnnw'n andwyol i Lywodraeth Heath wrth i'r argyfwng olew a'r anghydfod gyda'r glöwyr beri i Brydain gofnodi diffyg ariannol sylweddol, y mwyaf ers dechrau cofnodi'r ffigurau.[10]

Gydol y 1970au, teimlwyd dylanwad gwleidyddiaeth y gwledydd Celtaidd yn Llundain. Bu i'r tensiynau yng Ngogledd Iwerddon ddwysáu wrth i'r Llywodraeth Brydeinig gyflwyno polisi o garcharu unrhyw un a ystyrid yn derfysgwr, a hynny

[6] Beckett, *When the Lights Went Out*, t. 61. Yn gefnlen i'r streic hefyd yr oedd pryderon am ddyfodol y diwydiant glo wedi'r lleihad enfawr a fu yn niferoedd y glöwyr yn ystod y 1960au a bod glo yn dechrau colli tir wrth i olew ennill y blaen fel tanwydd mwyaf poblogaidd Prydain. At hynny, ym marn Beckett nid oedd yr NUM wedi anghofio i'r Llywodraeth eu trechu yn achos streic 1926, a bod y streic hon yn ymgais i unioni'r sgôr.

[7] Am ddadansoddiad manylach, darllener Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s,* tt. 11–5, Beckett, *When the Lights Went Out*, tt. 53–87; Childs, *Britain Since 1945 – A Political History*, tt. 175–6, Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace*, tt. 325–9; Clarke, *Hope and Glory*, tt. 333–4.

[8] Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s*, t. 12.

[9] Clarke, *Hope and Glory – Britain 1900 – 2000*, t. 338.

[10] Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace*, t. 349.

heb achos llys, mewn ymgais i ynysu'r unigolion treisgar ymhlith y boblogaeth Gatholig.[11] Yr oedd y penderfyniad hwn gan yr Ysgrifennydd Cartref, Reginald Maudling A.S., yn gamddehongliad trychinebus o'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, a gwelwyd cynnydd rhyfeddol yn y trais a'r gwrthdaro a geid rhwng Catholigion a Phrotestaniaid.[12] Amlygwyd y sefyllfa fel a ganlyn gan Alwyn W. Turner:

> Before internment, thirty-one people had been killed in the province in 1971; between then and the end of the year, the death toll rose by a further 150. The following year was the worst of all, with nearly 500 killed, and ten times that number injured; there were 'almost 2,000 explosions and over 10,000 shooting incidents, an average of around thirty shootings per day'.[13]

Methodd Llywodraeth Heath yn drychinebus wrth geisio tawelu'r dyfroedd. Ar ddiwrnod olaf Mawrth 1972 diddymwyd pwerau llywodraethu senedd Gogledd Iwerddon, a throsglwyddwyd holl bwerau Stormont i San Steffan, a phenodwyd William Whitelaw yn Weinidog Gogledd Iwerddon.[14] Ond nid ar dir Iwerddon yn unig y gwelwyd effaith yr anghydfod, croesodd y trafferthion Fôr Iwerddon gydag ymgyrch fomio a dargedodd Aldershot, Birmingham, Guildford a Llundain rhwng 1972 ac 1974.[15] Bu effaith y trafferthion hyn yng Ngogledd Iwerddon yn bellgyrhaeddol, gan ddylanwadu hyd yn oed ar y ffordd yr ystyrid yr ymgyrch ddarlledu wrth iddi dynnu tua'i therfyn, a hynny yn fwy na dim oherwydd rôl William Whitelaw ym materion y ddwy wlad.[16]

Gydol y 1970au, bu trafferthion ariannol a diweithdra yn ddraenen yn ystlys pob Llywodraeth a fu mewn grym. Ynghyd â thrafferthion y rhyfel Arab-Israelaidd a phrinder olew a grybwyllid eisoes, yr oedd chwyddiant uchel yn creu trafferthion economaidd sylweddol yn ystod y cyfnod, chwyddiant a gai ei wthio yn uwch gan y twf sylweddol a fu mewn cyflogau gweithwyr diwydiannol.[17] At hynny, yr oedd cost

---

[11] Ibid., t. 332.
[12] Beckett, *When the Lights Went Out*, t. 109.
[13] Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s*, t. 69.
[14] Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace,* t. 334.
[15] Turner, *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s*, tt. 70–1.
[16] Ceir trafodaeth fanylach ar rôl a dylanwad cyfnod William Whitelaw yng Ngogledd Iwerddon ar ei benderfyniadau ar fater y bedwaredd sianel ym Mhrydain, yn hwyrach yn y bennod hon.
[17] Ym 1973 bu codiad cyflog o 15 y cant, yna ym 1974 cynnydd o 19 y cant ac yna 23 y cant pellach flwyddyn yn ddiweddarach; Clarke, *Hope and Glory – Britain 190 –2000*, t. 348. Ceir trafodaeth helaeth ar achosion a chanlyniadau chwyddiant economaidd y cyfnod yng nghyfrol Kenneth O. Morgan, *Britain Since 1945 – The People's Peace*, tt. 322–432.

byw yn cynyddu yn sylweddol gyda thwf enfawr o 24 y cant mewn costau byw yn ystod 1975 yn unig.[18] Yr oedd diweithdra hefyd wedi codi i lefelau enbyd, ac o dan Lywodraeth Lafur James Callaghan gwelwyd ail-gyrraedd y garreg filltir alaethus honno o filiwn o bobl yn ddi-waith ym 1976. Arhosodd y ffigwr yn gyson o amgylch y marc hwnnw weddill y degawd, sef pump y cant o'r boblogaeth, neu ddwbl y lefel a welwyd yn ystod y 1950au a'r 1960au.[19] Bu'r trafferthion economaidd dybryd hyn yn rheswm, os nad yn esgus, i'r rheiny mewn grym i beidio â dod i unrhyw gasgliadau terfynol ynglŷn â dyfodol cynlluniau sianel deledu Gymraeg, fel y gwelir yn hwyrach yn y bennod hon.

Bu'r 1970au yn gyfnod cythryblus felly yn hanes Prydain, ac erbyn diwedd y degawd yr oedd hi'n ymddangos nad oedd adfer ar y sefyllfa. Ym mis Ionawr 1979, gwelwyd cyfres o streiciau eraill gan weithwyr awdurdodau lleol a arweiniodd at sbwriel yn casglu ar y strydoedd am wythnosau, cloddwyr beddi yn ardal Lerpwl yn gwrthod claddu'r meirwon, ysgolion yn cau, ysbytai'n methu trin cleifion, ac 1.3 miliwn o bobl yn ddi-waith, fyddai'n ysgogi'r papurau newydd i fedyddio'r cyfnod yn 'Winter of Discontent'.[20]

Yn yr un cyfnod yng Nghymru bu argyfwng o fath arall wrth i drigolion y wlad fwrw eu barn ar ddatganoli llywodraethol. A hwythau hefyd yn dioddef effeithiau'r gaeaf caled hwnnw, yr oedd trin a thrafod datganoli'n ymddangos yn fwyfwy amherthnasol i'r rhan helaeth o bobl Cymru.[21] Yn ystod yr ymgyrch bu gwrthwynebwyr datganoli yn pwysleisio peryglon diffyg undod Prydeinig, gan feithrin ymhellach y rhaniad ieithyddol amlwg a gaed yng Nghymru, ac y gwelwyd tystiolaeth ohono yn ystod yr ymgyrch ddarlledu gydol y 1970au. Afraid dweud bellach mai pleidleisio yn erbyn y cynllun datganoli a wnaeth pobl Cymru, a hynny ar ddydd Gŵyl Dewi 1979.[22] Oherwydd natur yr ymgyrchu, yr oedd y bleidlais nacaol yn llawer mwy na

[18] Ibid., t. 349.
[19] Ibid., t. 353. Erbyn Awst 1978 yr oedd diweithdra wedi codi i 1.6 miliwn, cyn disgyn yn ôl i 1.3 miliwn yn ystod gaeaf a chyn etholiad cyffredinol 1979, ibid., t. 357.
[20] Turner, *Crisis? What Crisis?*, tt. 266–70.
[21] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007) t. 613.
[22] Am fwy ar hyn gweler, John Davies, *Hanes Cymru*, tt. 610–19; Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf – Syniadaeth Plaid Cymru, Cyfrol 1* (Caerdydd, 2007); J. Barry Jones and Denis Balsom (goln.), *The Road to the National Assembly for Wales* (Cardiff, 2000); John Gilbert Evans, *Devolution in Wales: claims and responses, 1937–1979* (Cardiff, 2006).

phleidlais yn erbyn Cynulliad, yr oedd hefyd, ym marn nifer, yn bleidlais yn erbyn Cymreictod.

> Fe'i dehonglwyd fel buddugoliaeth yn erbyn Cymreictod, fel datganiad fod y syniad o genedligrwydd y Cymry yn annerbyniol i'r mwyafrif ohonynt. 'Na thwyllwn mo'n hunain,' ysgrifennodd Hywel Teifi Edwards, 'roedd ymgyrch y negyddwyr yn ei hanfod yn ymgyrch yn erbyn hunaniaeth y Cymry.'[23]

Yn sgil gorchfygu cynlluniau datganoli'r llywodraeth yng Nghymru ac yn Yr Alban, a'r gaeaf trychinebus hwnnw ym mis Mawrth 1979, bu pleidlais o ddiffyg hyder yn Llywodraeth Lafur James Callaghan, a galwyd etholiad cyffredinol i'w gynnal ym mis Mai 1979. Dyma etholiad a esgorodd ar ganlyniadau pellgyrhaeddol ym myd darlledu, ar fywyd cyhoeddus Cymru ac ar iaith a diwylliant y wlad.

*Darlledu yng Nghymru a Phrydain cyn 1981*

Nid Sianel Pedwar Cymru oedd man cychwyn darlledu Cymraeg, nac ychwaith yr ymgais gyntaf i ffurfio sianel Gymraeg. Y mae'n hanfodol, felly, i olrhain hynt y Gymraeg ar y sgrîn cyn bodolaeth Sianel Pedwar Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw y mae trin a thrafod amgylchiadau sefydlu'r cwmni teledu annibynnol Teledu Cymru, neu i roi iddo ei enw swyddogol, Wales (West & North) Television Ltd yn gwbl anhepgor.[24] Teledu Cymru oedd y cwmni cyntaf i roi cais ar greu sianel deledu a oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn ystod yr oriau darlledu.[25] At hynny, Teledu Cymru oedd canlyniad a phen llanw'r dadleuon cyntaf oll am awdurdod darlledu ar wahân i Gymru a geid yn ystod y 1940au a'r 1950au. Er na fu y sianel yn llwyddiannus wrth gyrraedd ei hamcanion o flaenoriaethu'r Gymraeg yn yr amserlen ddarlledu, y mae'n bwysig ystyried amgylchiadau ac achosion y methiant hwnnw cyn symud ymlaen i drafod Sianel Pedwar Cymru. Fel y dywed Ifan Gwynfil Evans:

---

[23] Ibid., t. 615.

[24] 'Wales Television' oedd yr enw gwreiddiol a roddwyd i'r cwmni gan y sefydlwyr, ond cafwyd gwrthwynebiad i'r defnydd o'r enw hwnnw gan Television Wales and West (TWW), y cwmni teledu annibynnol a ddarlledai'n barod ar draws de Cymru a gorllewin Lloegr. O ganlyniad, fe fynnodd yr Awdurdod Teledu Annibynnol (ATA) bod rhaid newid yr enw. Er hynny, fe barhawyd gyda'r defnydd o Teledu Cymru ar gyfer yr enw Cymraeg; Ifan Gwynfil Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals': The Failure of Wales Television, 1959–1963' yn *Llafur*, 7: 2 (1997), t. 90.

[25] Yn ystod y 1950au a dechrau'r 1960au darlledwyd y rhan helaeth o raglenni teledu Cymraeg y tu allan i'r oriau brig, un ai yn ystod y prynhawn neu yn hwyr y nos.

'The story of Sianel Pedwar Cymru (S4C) begins with the failure of Teledu Cymru'.[26]

Er bod gwirionedd i'r datganiad uchod, fe ellir dadlau bod gwreiddyn y syniad o sianel Gymraeg yn ymestyn yn ôl ymhellach na chyfnod Teledu Cymru. Mewn gwirionedd, fe dyfodd yr ymdrechion i sicrhau sianel deledu Gymraeg o'r galwadau a fu, cyn dyfodiad teledu hyd yn oed, am Gorfforaeth ddarlledu annibynnol i Gymru a fyddai'n rheoli'r holl ddarllediadau fyddai i'w clywed yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y radio. Gwelwyd mynegi'r galwadau hyn mewn datganiad a phamffledyn a luniwyd gan Gwynfor Evans ac a ddosbarthwyd ledled Cymru gan T. I. Ellis ac Undeb Cymru Fydd o dan y teitl *'Broadcasting in Wales'* ym 1945.[27] Gwelwyd hefyd ddadleuon tebyg yn cael eu harddel gan sefydliadau Cymreig yn ystod cyfnod yr adolygiad seneddol ar ddarlledu a arweiniwyd gan yr Arglwydd Beveridge rhwng 1949–51.[28] Mae adolygiad Pwyllgor Beveridge yn amlygu bod y dadleuon o blaid sefydlu corfforaeth ddarlledu annibynnol yn ennill eu plwyf yng Nghymru ar ddechrau'r 1950au gyda'r mwyafrif o'r memoranda a luniwyd yn argymell ei fabwysiadu. Er hynny, awgryma Jamie Medhurst mai'r darlun cyffredinol a geir o'r dystiolaeth a geid gerbron Beveridge oedd y diffyg cydsynio a geid rhwng y carfannau gwahanol yng Nghymru ynglŷn â'r dull gorau o sicrhau yr annibynniaeth honno.[29] Byddai'r rhinwedd hon yn parhau'n rhan o'r ymgyrch ddarlledu hyd at sefydlu S4C ym 1981.

Er yr anghytuno a welwyd ymhlith y buddgyfranogwyr ynglŷn â'r ffordd orau o ddatblygu darlledu yng Nghymru, cafwyd mwy o gytundeb yn eu mysg am ddylanwad y cyfryngau, ac yn benodol ar effaith darlledu ar Gymru yn ddiwylliannol

[26] I. G. Evans, 'Teledu Cymru – An Independent Television Service for Wales? (1959–1963)' (Traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 1996), t. 2.

[27] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 153; Rhys Evans, *Gwynfor – Rhag Pob Brad* (Talybont, 2005), t. 110.

[28] Ceir trafodaeth bellach ac ehangach o ddylanwad Pwyllgor Beveridge ar ddarlledu yng Nghymru yng nghyfrol John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 175–81; Medurst, *A history of Independent Television in Wales*, tt. 21–3 ac tt. 76–7; J. L. Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon? Independent television in Wales, 1959–63' (Traethawd Ph.D. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 2004), tt. 48–66.

[29] Argymhellodd tystiolaeth Undeb Cymru Fydd, Plaid Cymru a'r Blaid Seneddol Gymreig mai'r ffordd ymlaen i ddarlledu yng Nghymru fyddai sefydlu corfforaeth annibynnol. Yr oedd y BBC yn ganolog, ar y llaw arall, yn anghytuno â Chyngor Cynghori Cymru y BBC a oedd, er anghytundeb mewnol rhwng yr aelodau, yn argymell y dylid trin Cymru fel uned genedlaethol ac nid rhanbarthol; J. L. Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon? Independent television in Wales, 1959–63', t. 50.

ac mewn termau ieithyddol. Canlyniad hyn oedd bod grwpiau addysgol, gwleidyddol a diwylliannol Cymru yn awyddus i weld y cyfrwng yn cael ei harneisio er budd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant cynhenid, a hynny trwy sicrhau gwasanaeth darlledu annibynnol i Gymru.[30] I'r perwyl hwnnw, y galwodd Huw T. Edwards, un o unigolion mwyaf dylanwadol y byd gwleidyddol Cymreig, ym 1958 ar i'r BBC a TWW gydweithio er mwyn creu sianel arbennig i Gymru.[31]

Gwelwyd anghytuno pellach ar ddiwedd y 1950au a dechrau'r 1960au, a hynny mewn cynadleddau a drefnwyd gan Undeb Cymru Fydd ar gais Plaid Cymru, ac a gynullwyd gan swyddfa Maer Caerdydd.[32] Ar 18 Medi 1959, cynhaliwyd y gyntaf o ddwy Gynhadledd Ddarlledu lle gwelwyd awdurdodau lleol, cynghorau dosbarth, bwrdeistrefi, cynghorau sir a chyrff diwylliannol yn ymgynnull i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer darlledu yng Nghymru.[33] Ni chafwyd consensws yn y gynhadledd ar ba system ddarlledu (darlledu cyhoeddus neu deledu annibynnol) y dylid ei hargymell ar gyfer datblygu darlledu yng Nghymru. O ganlyniad ffurfiwyd Pwyllgor Parhad er mwyn bwrw ymlaen â'r dasg o ymgyrchu i berswadio'r Gweinidog Materion Cymreig a'r Postfeistr Cyffredinol bod angen ymdrin â Chymru fel uned ar wahân yn nhermau darlledu, ac i annog rhyddhau'r bandiau darlledu angenrheidiol a fyddai'n galluogi hynny.[34]

Yn ôl dadansoddiad Ifan Evans o bapurau'r Pwyllgor, Haydn Williams fu'n llywio trafodaethau'r Pwyllgor ac yr oedd ef yn argyhoeddedig mai trwy'r Awdurdod Teledu Annibynnol yr oedd y ffordd orau o sicrhau gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan.[35] I'r perwyl hwnnw y lluniodd femorandwm technegol a fabwysiadwyd yn ei gyfanrwydd gan y Pwyllgor.[36] Ffactor a gyfrannodd at grisialu agwedd Haydn Williams ac eraill ar y pwyllgor oedd penderfyniad yr ATA i ymestyn gwasanaeth ITV i ogledd a gorllewin Cymru, ardal nad oedd wedi ei gwasanaethu'n

---

[30] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', t. 107.
[31] Gwyn Jenkins, *Prif Weinidog Answyddogol Cymru – Cofiant Huw T. Edwards* (Talybont, 2007), t. 219.
[32] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', t. 115.
[33] Evans, 'Teledu Cymru', t. 8.
[34] Am ystyriaeth fanylach o'r trafodaethau a gaed yn ystod y Gynhadledd Ddarlledu gweler Evans, 'Teledu Cymru', tt.8–10, Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals'; Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 113–25 a Medhurst, *A history of Independent Television in Wales*, tt. 81–9.
[35] Haydn Williams oedd Cyfarwyddwr Addysg Sir y Fflint, yn ogystal efe oedd Cadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol; Evans, 'Teledu Cymru', t. 9; Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals', t. 84.
[36] Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals', t. 84.

uniongyrchol hyd hynny gan y sianel annibynnol newydd. Cyhoeddwyd y byddai rhyddfraint newydd yn cael ei chynnig ar 4 Awst 1960 yn ystod wythnos gweithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.[37] Yn dilyn y cyhoeddiad, aeth Haydn Williams ati i ffurfio Cymdeithas Deledu Cymru er mwyn cydlynu cais ar gyfer y rhyddfraint honno.[38] Yr oedd Cymdeithas Deledu Cymru o'r farn y byddai ennill y cytundeb hwn i ddarlledu yng ngogledd a gorllewin Cymru, ardal a fyddai'n defnyddio trosglwyddyddion Preseli, Arfon ac o bosibl mast newydd yn ardal Fflint a Dinbych, yn gyfle i ymestyn y rhanbarth ymhen hir a hwyr i ddarlledu o drosglwyddyddion de Cymru a gwireddu'r amcan o gael sianel ar wahân i Gymru.[39]

Yn dilyn y penderfyniad i ymgeisio gwelwyd addewidion sylweddol yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd ac i ddarpar gyfranddalwyr gan Gymdeithas Deledu Cymru wrth i Blaid Cymru a Haydn Williams anfon gwahoddiadau i Gymry gwlatgar fuddsoddi yn y fenter newydd. Yn y wybodaeth a ddosbarthwyd i fuddsoddwyr, gwelwyd honni mai blaenoriaethau'r cwmni fyddai sicrhau bod rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu yn ystod yr oriau brig ac y byddai'r cwmni'n noddi diwylliant Cymreig.[40] Er yr honiadau mawrion hyn, gwelwyd cynnwys cafeat hefyd nad oedd y fenter yn un a fyddai'n sicrhau elw mawr i'w buddsoddwyr.[41] Er y nodyn hwn o realaeth, yr oedd disgwyliadau'r cwmni yn gwbl afresymol yn nhermau'r incwm hysbysebu y disgwylid ei dderbyn wrth ddilyn polisi o ddarlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod yr oriau brig. Yr oedd y disgwyliadau hyd yn oed yn fwy afrealistig o ystyried bod y cwmni yn mynd yn erbyn cyngor gan arbenigwyr yn y maes, megis y cwmni Border Television.[42]

Trafodwyd naïfrwydd syniadau a disgwyliadau Haydn Williams a'i bwyllgor a Chymdeithas Deledu Cymru drosodd a thro yng ngwaith Sendall, Davies, Medhurst

---

[37] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 149–50.
[38] Am fanylion aelodaeth a gweithgaredd y Gymdeithas hon gweler Evans, 'Teledu Cymru', tt. 11–6, Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals', tt. 85–6, Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 159–75 a Medhurst, *A history of Independent Television in Wales*, tt. 89–101.
[39] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', t. 161.
[40] Evans, 'Teledu Cymru', t. 13.
[41] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 168–9.
[42] Ibid. tt. 159–75.

ac Evans,[43] a gellir deall eu safbwynt o ddarllen y dyfyniad canlynol o un o'r memoranda technegol a ddrafftiwyd gan Williams:

> . . . it is possible to provide an Independent Television Service for Wales in which the Welsh language television programmes could be shown during peak hours . . . it is envisaged that out of approximately 35 television hours per week, 15 hours would be devoted to Welsh language programmes.[44]

Yr oedd addo darlledu 15 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg y tu hwnt i bob rheswm, fel y dywed Ifan Evans: 'Had the Continuation Committee any experience of television broadcasting, it would have seen that a weekly production of fifteen hours was beyond the capacity of any ITV company, let alone one serving probably the poorest contract area.'[45] Noda Medhurst hefyd nad oedd rhai o gwmnïau mwyaf rhwydwaith ITV, megis Associated-Rediffusion, a oedd yn darlledu yn ardaloedd poblog Llundain, yn cynhyrchu cymaint â hynny o ddeunydd gwreiddiol bob wythnos.[46] Afresymol, felly, oedd disgwyliadau'r unigolion a oedd yn ymwneud â'r cwmni, yn fuddsoddwyr a swyddogion, ac, o ganlyniad, y gynulleidfa darged hefyd.

Erbyn yr ail gynhadledd ddarlledu ar 7 Gorffennaf 1961, yr oedd nifer o'r aelodau'n anhapus gyda'r cynnydd a wnaed gan y Pwyllgor Parhad. Pryderai amryw bod y Pwyllgor wedi mynd ati i ffurfio cwmni teledu annibynnol a hynny ar draul prif flaenoriaeth y gynhadledd, sef i ymdrechu i sicrhau y câi Cymru ei thrin fel uned ddarlledu.[47] At hynny, ym 1962, gwelwyd cyhoeddi'r pamffledyn 'Teledu Mamon' gan Sodlau Prysur, sef llysenw Aneurin Talfan Davies, dirprwy bennaeth rhaglenni'r BBC yng Nghaerdydd. Cyflwynodd gondemniad hallt o rai o'r unigolion a oedd yn rhan o fenter Teledu Cymru a hynny am roi elw ac arian uwchlaw'r ymgyrch ehangach o sicrhau sianel ar wahân i Gymru. Dadleuodd yr awdur hefyd nad oedd hi'n bosibl unioni bwriadau teledu masnachol gyda'r ymdrechion i geisio

---

[43] Bernard Sendall, *Independent Television in Britain. Volume 2. Expansion and Change, 1958–68* (London, 1983), tt. 70–82; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales,* tt. 228–30; Evans, 'Teledu Cymru', Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals'; Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?'; Medhurst, *A history of Independent Television in Wales*, tt. 112–128.
[44] Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals', t. 84.
[45] Ibid.
[46] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', t. 128.
[47] Ibid., t. 123.

blaenoriaethu'r Gymraeg ar y teledu.[48] Er y condemniad a welwyd o ymdrechion y Pwyllgor Parhad wrth iddo ddilyn trywydd teledu annibynnol, mae'n rhaid nodi fod rhai o'r cyhuddiadau yn ei erbyn yn anheg gan na anwybyddwyd yn llwyr y pwrpas ehangach o bwyso am gorfforaeth ddarlledu annibynnol i Gymru. Yn ystod gweithgareddau Adolygiad Pilkington, er enghraifft, darparwyd tystiolaeth gan y pwyllgor i'r perwyl hwnnw, gan annog y dylai corfforaeth o'r fath fod â chyfrifoldeb dros holl ddarllediadau clyweledol Cymru.[49]

Yng nghanol yr anghytuno parhaus ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer sicrhau sianel Gymraeg dechreuodd Teledu Cymru ddarlledu am y tro cyntaf ar 14 Medi 1962. Ond ni welwyd gwireddu'r addewidion o ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar yr oriau brig wrth i realaeth a chaledi'r diwydiant teledu masnachol resymoli gweithgareddau'r cwmni. At hyn, gwelwyd darlledu llai o raglenni Cymraeg na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol gyda dim ond dwy awr o raglenni Cymraeg gwreiddiol, yn ychwanegol i'r hyn a gynhyrchwyd gan TWW, yn cael eu darlledu ar y sianel newydd.[50] Bu cyfyngu pellach ar y nifer o raglenni gwreiddiol wrth i'r cwmni suddo yn ddyfnach i drafferthion ariannol, a chwta naw mis ar ôl darlledu am y tro cyntaf gwelwyd atal cynyrchiadau gwreiddiol gan Teledu Cymru yn gyfan gwbl. Erbyn Ionawr 1964 yr oedd TWW wedi traflyncu'r cwmni gan ymestyn ei ymerodraeth a darlledu i Gymru gyfan a gorllewin Lloegr.[51] Eironi y sefyllfa hon yw y llwyddodd TWW i wireddu breuddwyd Teledu Cymru o uno Cymru a chael sianel ar gyfer y wlad, er ni wireddwyd y dyhead yn llawn a hynny gan fod gorllewin Lloegr yn parhau yn rhan o'r ardal darlledu.

Mae'r rhesymau dros fethiant Teledu Cymru yn niferus, gyda gorgyffwrdd rhwng cyrhaeddiad trosglwyddyddion y darlledwr â chyrhaeddiad darllediadau cwmnïau eraill, a'r diffyg sgiliau busnes a phrofiad o'r diwydiant a gafwyd ymhlith y swyddogion yn rhai o'r rhesymau amlycaf y gellid eu nodi. Trafodir y rhesymau hyn i raddau yng ngwaith Davies, Sendall ac Evans ond fe'u dadansoddir yn ehangach yn

---

[48] Am ddadansoddiad manylach o gynnwys y pamffledyn a'i effaith ar fenter Teledu Cymru, gweler Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 217–29.
[49] Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?', tt. 141–2.
[50] Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals, t. 90.
[51] Ibid., t.81. Darllener Medhurst, 'Teledu Cymru – Teledu Mamon?'; Medhurst, *A history of Independent Television in Wales*, tt. 112–128; Evans, 'Teledu Cymru' ac Evans, 'Drunk on Hopes and Ideals' am ddadansoddiad pellach o weithgareddau Teledu Cymru yn ystod misoedd byr ei bodolaeth.

yr astudiaeth fanylach a geir gan Medhurst. Y mae rhai o amgylchiadau methiant Teledu Cymru yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiadau a welwyd wrth lunio strwythur S4C bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, ac yn y cyd-destun hwnnw y trafodir ei methiant yn y bennod hon.

Yn gyntaf, gellid dadlau bod methiant Teledu Cymru wedi dangos nad oedd yn bosibl rhedeg sianel fasnachol na busnes llewyrchus trwy flaenoriaethu'r Gymraeg. Yr oedd yr hysbysebwyr o'r farn y byddai gosod rhaglenni Cymraeg yn ystod prif oriau gwylio'r gynulleidfa yn denu cynulleidfaoedd bach iawn ac, o ganlyniad, yr oedd hi'n anodd gwerthu'r gofod er mwyn sicrhau yr incwm angenrheidiol. Amlygodd achos Teledu Cymru, felly, mai dim ond gydag arian cyhoeddus a chymhorthdal y gellid cynnal sianel o'r fath. Diau y dysgwyd gwersi o brofiadau Teledu Cymru a bod y llywodraeth a sefydlwyr y sianel wedi ystyried hynny wrth greu'r model croesryw a ffurfiwyd trwy fodolaeth S4C, sef cyfuniad o arian masnachol ac arian cyhoeddus.

Gwersi eraill a ddysgwyd gan brofiad aflwyddiannus Teledu Cymru oedd bod S4C wedi sicrhau cyfraniadau gwerthfawr gan unigolion dylanwadol a oedd yn meddu ar gefndir busnes ac, yr un mor hanfodol, wedi eu trwytho ym myd teledu. Diau yr ystyrid hynny wrth benodi'r Parch Dr Alwyn Roberts, Dr Glyn Tegai Hughes, yr Athro Huw Morris-Jones a Gwilym Peregrine yn aelodau o Awdurdod S4C, pob un â phrofiad helaeth o ddiwydiant darlledu Cymru a'r Deyrnas Unedig ac yn cynrychioli'r carfannau gwahanol a oedd yn rhan o'r fenter. At hynny, gwelwyd penodi Goronwy Daniel, a fu ar ddechrau ei yrfa yn ystadegydd gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ac yn Brifathro Prifysgol Cymru Aberystwyth rhwng 1969–79, a D. Ken Jones, a oedd yn ddyn busnes profiadol. Yn ogystal â sicrhau fod y sgiliau perthnasol i'w cael ar Awdurdod y sianel newydd, gellid dadlau i brofiad Teledu Cymru gyda throsglwyddydd Moel-y- Parc yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ddylanwadu ar weithgareddau sefydlu S4C. Ym mhrofiad Teledu Cymru ni chafwyd defnydd o'r trosglwyddydd ar gyfer misoedd cyntaf darlledu'r cwmni, o ganlyniad ni fu'n bosibl i rannau mwyaf poblog y rhanbarth wylio'r sianel ac nid oedd modd i'r cwmni fanteisio ar hynny wrth geisio denu hysbysebwyr. Gellid dadlau, felly, bod profiad anffodus Teledu Cymru gyda rhwydwaith o drosglwyddyddion anghyflawn wedi bod yn un o'r rhesymau pam yr aeth yr Awdurdod Darlledu Annibynnol (ADA)

ati i flaenoriaethu Cymru, a hynny ar draul yr un math o waith yn Lloegr, i sicrhau bod cymaint ag oedd yn bosibl o drosglwyddyddion, is-drosglwyddyddion a gorsafoedd cyfnewid wedi eu haddasu i gario darllediadau S4C pan aeth y sianel ar yr awyr ar 1 Tachwedd 1982.[52]

Gwelir yn amlwg, felly, berthnasedd bodolaeth a methiant Teledu Cymru i Sianel Pedwar Cymru. Gellid ystyried Teledu Cymru megis ymarfer ffug neu arbrawf a fyddai'n amlygu'r meini tramgwydd a wynebid gan S4C wrth geisio sicrhau lle teilwng i'r Gymraeg a Chymru mewn system ddarlledu nad oedd yn gweithio o blaid lleiafrifoedd.

Yn y blynyddoedd rhwng diflaniad Teledu Cymru a'r ymgyrchoedd niferus i sicrhau sianel annibynnol Gymraeg yn ystod y 1970au, gwelwyd nifer o ddatblygiadau a newidiadau i'r gyfundrefn ddarlledu yn y Deyrnas Unedig. Yn genedlaethol gwelwyd lansio ail wasanaeth y BBC ym 1964, ac ym 1967 dechreuwyd darllediadau lliw, ar BBC2 yn y lle cyntaf, ond ymhen hir a hwyr, yr oedd pob gwasanaeth yn cynnig rhaglenni mewn lliw llawn. Yng Nghymru, ym 1968, collodd TWW y drwydded i ddarlledu yng Nghymru a Gorllewin Lloegr wrth i gonsortiwm newydd deinamig o'r enw Teledu Harlech, ond a adwaenid fel HTV, gipio'r fraint.[53] Gwelwyd y datblygiadau pwysicaf, o ran hunaniaeth darlledu i Gymru, er hynny ym 1964 a 1965 wrth i'r BBC a TWW lwyddo i wahanu eu darllediadau ar gyfer Cymru oddi wrth y rhai ar gyfer gorllewin Lloegr. Golygai hyn y câi Cymru ei thrin fel uned ddarlledu ar ei phen ei hun a hynny am y tro cyntaf yn hanes teledu. Llwyddwyd, o'r diwedd, i ateb rhai o'r gofynion gwreiddiol a leisiwyd yn ystod y Cynadleddau Darlledu ym 1959 a 1961.[54]

Gwnaeth nifer o'r esblygiadau yn y gwasanaeth teledu, a ystyrid yn ddatblygiadau cyffrous a phwysig ledled y Deyrnas Unedig, y dasg o gynnig gwasanaeth a oedd yn ateb gofynion pawb yn anos yng Nghymru. Un o'r datblygiadau hynny oedd y newid

---

[52] Ceir trafodaeth ehangach ar ymdrechion yr ADA i sicrhau cyrhaeddiad eang i'r sianel newydd ar noson ei darllediad cyntaf ym Mhennod 2, tt. 104–8.

[53] Ceir dadansoddiad manwl o fethiant TWW a champ Teledu Harlech yn Elain Dafydd '"Lord Hill's Little Revolution", Dymchwel TWW a Buddugoliaeth Teledu Harlech' (traethawd MPhil anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 2006) a Jamie Medhurst, '"Servant of Two Tongues": The Demise of TWW' yn *Llafur: Journal of Wales Labour History*, 8: 3 (2002), tt. 79–87.

[54] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 273–8.

o ddefnyddio tonfeddi VHF i donfeddi UHF yn ystod y 1960au a'r 1970au.[55] Yn dilyn penderfyniad y llywodraeth i osod darllediadau BBC1 ac ITV ar UHF a chyflwyno'r defnydd o raglenni lliw ar y donfedd newydd ym 1967, gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl a oedd yn mynd ati i brynu setiau a dderbyniai'r darllediadau hynny. Ond yng Nghymru yr oedd hyn yn creu trafferthion, a hynny oherwydd natur tonfeddi UHF a oedd â chyrhaeddiad llawer byrrach na thonfeddi VHF. Gyda system ddarlledu VHF gallai nifer fawr o wylwyr yng Nghymru dderbyn pum gwasanaeth darlledu. Y gwasanaethau hyn oedd BBC1, BBC Cymru, BBC2, HTV ac un o'r gwasanaethau rhwydwaith ITV megis HTV West neu Granada. Yn achos UHF, ar y llaw arall, dim ond tri gwasanaeth fyddai ar gael ar gyfer y mwyafrif o'r boblogaeth ac felly yr oedd yn rhaid i wylwyr benderfynu a oeddent am dderbyn gwasanaeth o Gymru neu wasanaeth o Loegr.[56] Canlyniad hyn oedd bod llai o ddewis ar gael i wylwyr yng Nghymru. Crëwyd trafferthion mawr yn sgil hynny, wrth i nifer helaeth o'r boblogaeth sylweddoli nad oedd modd parhau i wylio'r rhaglenni a fu ar gael iddynt cyn dyfodiad y donfedd newydd.[57] Gellid dadlau mai gwylwyr di-Gymraeg Cymru a effeithiwyd fwyaf gan y newidiadau wrth i fwy ohonynt nag o'r blaen fethu gwylio rhaglenni'r rhwydweithiau cenedlaethol pan ddarlledid y rhaglenni Cymraeg ar y BBC ac ITV. At hynny, yr oedd y trosglwyddo o VHF i UHF yn gyfle hwylus i nifer o wylwyr a oedd yn agos at y ffin i anwybyddu darllediadau Cymraeg ac am Gymru yn gyfan gwbl a derbyn rhaglenni newyddion a diddordeb lleol am ardaloedd yn Lloegr yn hytrach na newyddion a rhaglenni Cymreig. Oherwydd y newidiadau hyn fe welwyd nifer y cwynion a leisiwyd gan wylwyr yn cynyddu gan beri i un aelod o Gyngor Darlledu Cymru'r BBC holi a

[55] Cyflwynwyd tonfeddi UHF (Ultra High Frequency) am y tro cyntaf gyda lansiad BBC2 ym 1964, gyda gwasanaeth BBC1 a gwasanaeth rhwydwaith ITV yn parhau ar donfeddi VHF (Very High Frequency) tan 1967; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales,* tt. 276–82.

[56] Rhaid oedd dewis felly rhwng derbyn BBC Cymru, BBC 2 ac HTV neu dderbyn BBC1, BBC2 ac HTV West/Granada. Yr oedd amharodrwydd gwneuthurwyr i greu setiau deuol fyddai'n derbyn signalau VHF ac UHF, gan nad oedd galw amdanynt, yn ychwanegu at y broblem o gyfyngu'r dewis ar gyfer gwylwyr yng Nghymru; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales,* t. 283.

[57] Ceir ystadegau gwahanol sy'n darlunio maint y lleihad yn nifer y cartrefi a allai dderbyn BBC1. Mae adroddiad Pwyllgor Crawford yn nodi y gallai 87 y cant o boblogaeth Cymru dderbyn BBC1 gyda VHF ond bod hynny'n lleihau i 30 y cant gyda UHF, *Report of the Committee on Broadcasting Coverage* (London: HMSO, 1974), t. 38. Ond noda John Davies y bu modd i 70 y cant o gartrefi Cymru dderbyn BBC1 ar VHF ond y disgynnodd hynny i lai na 50 y cant gyda UHF, Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 283. Er gwaethaf y gwahaniaeth mewn niferoedd yn yr ystadegau hyn mae'n deg dweud bod y lleihad yn nifer y gwylwyr yn arwyddocaol ac yn dangos bod nifer helaeth o'r gynulleidfa Gymreig wedi eu heffeithio gan y newidiadau.

fyddai modd i drosglwyddyddion mewn ardaloedd di-Gymraeg ddarlledu BBC1 a throsglwyddyddion mewn ardaloedd Cymraeg ddarlledu BBC Wales.[58]

Yn ychwanegol at y datblygiadau technolegol hyn, yr oedd ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg y diwydiant darlledu a'r cyhoedd ar ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au bod trwydded ar gyfer pedwaredd sianel ddarlledu heb ei dosbarthu. Nododd Maggie Brown yn ei chyfrol ar hanes Channel 4: 'Television sets in the late 1960s came with four buttons . . . but the fourth was blank, even though there was capacity for another service. It was known as the empty channel and became a growing source of vexation.'[59] Gellid olrhain y posibilrwydd o ychwanegu pedwaredd sianel i rwydwaith ddarlledu Prydain yn ôl i adroddiad Pwyllgor Pilkington.[60] Wrth i'r Pwyllgor adrodd ar y posibiliad o ddosbarthu tonfeddi yn y dyfodol, fe nododd y pwyllgor, er ei feirniadaethau hallt o ddiffygion ITV, y byddai modd i'r rhwydwaith deledu annibynnol sicrhau sianel ychwanegol, ond dim ond ar ôl i ITV brofi ei ddealltwriaeth o brif amcanion darlledu. Am nifer o flynyddoedd yn dilyn adroddiad pwyllgor Pilkington, gwthiwyd trafodaethau am ddyfodol y bedwaredd sianel i waelod yr agenda gwleidyddol am resymau gwahanol gan Lywodraeth Lafur Harold Wilson ac yna gan Lywodraeth Geidwadol Edward Heath.[61] Erbyn i'r syniad gael ei atgyfodi unwaith yn rhagor ar ddechrau'r 1970au gwelwyd bod nifer o garfannau eraill yn ogystal â rhwydwaith ITV â diddordeb yn y bedwaredd sianel. Yr oedd y carfannau hyn yn lobïo yn erbyn y syniad o greu ITV2 gan eu bod am i'r sianel gael ei defnyddio er mwyn ehangu natur y darlledu a geid ym Mhrydain ac apelio at gynulleidfaoedd lleiafrifol a sicrhau bod safbwyntiau gwahanol i'w clywed.[62] Yr oedd anfodlonrwydd cynyddol i'w glywed ymysg aelodau o'r diwydiant a charfannau o'r gynulleidfa, fel y darlunia'r datganiad hwn

---

[58] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales,* t. 285.

[59] Maggie Brown, *A Licence to be Different: The Story of Channel 4* (London, 2007), t. 10.

[60] Am fwy ar hyn gweler Simon Blanchard, 'Where do new channels come from?' yn *What's this Channel Four? An alternative report* (London, Comedia, 1982), t. 6. a Paul Bonner with Lesley Aston, *Independent Television in Britain – Volume 6 – New Developments in Independent Television 1981 – 92: Channel 4, TV-am, Cable and Satellite* (London, 2003), t. 3.

[61] Am fwy ar y dadleuon a gaed ynglŷn â'r defnydd o'r bedwaredd sianel yn ystod y cyfnod hwn gweler, Blanchard, 'Where do new channels come from?', Bonner and Aston, *Independent Television in Britain – Volume 6*, tt. 3–35, Brown, *A Licence to be Different*, tt. 10–19.

[62] Y grwpiau a oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor o ffurfio ITV2 oedd TV4 Campaign, a gynrychiolai safbwyntiau nifer o unigolion a oedd yn pryderu am ddyfodol darlledu ym Mhrydain, unigolion megis beirniaid cyfryngol, newyddiadurwyr, Aelodau Seneddol ac unigolion o'r diwydiant hysbysebu; yr Association of Broadcasting Staffs (ABS), yr undeb a gynrychiolai staff y BBC, a'r Association of Cinematograph, Television and Allied Technicians (ACTT) a gynrychiolai'r mwyafrif o dechnegwyr a weithiai i gwmnïau ITV; Blanchard, 'Where do new channels come from?', tt. 8–10.

gan Anthony Smith,[63] un o aelodau'r TV4 Campaign ac un o leisiau amlycaf y ddadl dros dorri'r deuopoli darlledu ym Mhrydain:

> You have to understand the role of the duopoly and why it became a tremendous vexation for thousands of people. The point was that society was no longer homogeneous. There were a great many different interest groups – the 1960s had shown that – but the screens were not catching up . . . we were all made to believe the broadcasting we were getting was very good. I suppose it was by international standards; but it was all in the hands of this rather well-paid, superior civil-service class . . . They couldn't hear, literally and metaphorically, what was going on around them, what demands were really being made – demands that their comfortable duopoly was able to frustrate.[64]

Aeth Anthony Smith ymlaen i lunio cynllun fyddai'n darparu'r sylfaeni ar gyfer y sianel newydd, syniad a fedyddiwyd yn National Television Foundation.[65] Yn yr erthygl a gyhoeddwyd ganddo yn *The Guardian* ar 21 Ebrill 1972 gwelwyd cynnig syniadau cwbl radical ar gyfer y sianel newydd. Un o elfennau pwysicaf y cynllun a gyhoeddwyd gan Smith oedd y syniad na fyddai'r sefydliad darlledu newydd hwn yn cynhyrchu ei raglenni ei hun, ond, yn hytrach, yn comisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr allanol ac yn eu darlledu ar y sianel. Yr oedd hyn yn ehangu cwmpas darlledu ym Mhrydain, gan sicrhau bod lleisiau newydd, nad oedd yn rhan o gyfundrefnau mawrion y BBC ac ITV, i'w clywed am y tro cyntaf. Datblygodd y syniad craidd hwn gan Smith o roi cyfle i leisiau newydd i fod yn gonglfaen y gwasanaeth newydd a grewyd yn y pendraw, ac fe gafodd ddylanwad mawr ar y bedwaredd sianel yng Nghymru, gan newid strwythur darlledu yn y wlad yn gyfan gwbl.

*Ymgyrch y bedwaredd sianel yng Nghymru*

Tra yr oedd y trafodaethau hyn am ddyfodol y bedwaredd sianel yn cael eu gwyntyllu yng ngweddill Prydain, gwelwyd trafodaeth wahanol yng Nghymru am y

---

[63] Yr oedd Anthony Smith yn gyn-gynhyrchydd rhaglenni materion cyfoes gyda'r BBC yn ystod y 1960au, yna'n gymrawd gyda choleg St Anthony, Rhydychen, cyn ei benodi yn Gyfarwyddwr y British Film Institute ac yna'n Lywydd Coleg Magdalen, Rhydychen; Brown, *A Licence to be Different*, t. 13.
[64] Ibid., t. 16.
[65] Am fanylion a dadansoddiad pellach o syniadau gwreiddiol Anthony Smith ar gyfer y National Television Foundation gweler, Blanchard, 'Where do new channels come from?', Bonner and Aston, *Independent Television in Britain – Volume 6,* tt. 3–35, Brown, *A Licence to be Different,* tt. 10–19.

defnydd y gellid ei wneud o'r sianel. Dechreuodd ymgyrch ddarlledu Cymdeithas yr Iaith ar ddiwedd y 1960au gyda galwad am gynnydd yn y nifer o oriau o raglenni Cymraeg a ddarlledid, yn bennaf ar y BBC.[66] Ni fu ymgyrchu diwyd gan Gymdeithas yr Iaith ar faterion darlledu yn y cyfnod hwnnw am nifer o resymau, ond erbyn dechrau'r 1970au yr oedd darlledu unwaith yn rhagor ar flaen yr agenda.[67] Erbyn dechrau'r 1970au yr oedd y Gymdeithas wedi ffurfio ei pholisi cadarn cyntaf ar ddarlledu gyda'r nod o geisio hawlio mwy na dim ond rhagor o raglenni Cymraeg gan y rhwydweithiau. Yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas ym 1969 cytunwyd ar y polisi canlynol: 'Ein bod yn hawlio gan y Llywodraeth sianel genedlaethol i Gymru ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar y teledu, yn ychwanegol at y sianel ar gyfer y Cymry di-Gymraeg, a thonfedd ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar y radio . . .'[68] Dyma'r cyfnod pan ddatblygodd Cymdeithas yr Iaith yn sefydliad llawer mwy strategol wrth iddynt sefydlu, ym 1970, swyddfa lawn amser yn Aberystwyth, ffurfio Senedd a sefydlu grwpiau penodol er mwyn ymwneud â'r amryw ymgyrchoedd a ddatblygwyd yn y cyfnod.[69] Honnwyd gan Gymdeithas yr Iaith mai'r ymgyrch ddarlledu oedd yr ymgyrch gyntaf yn hanes y mudiad lle bu cynllunio manwl arni cyn dechrau ar y gweithredu:

> Y cam cyntaf oedd i benderfynu ar bolisi manwl. A gwelwn yma gychwyn newydd yn natur ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith o ran cynllunio ymgyrch, o ran ymchwilio, gweithio allan polisi, trafod yn fanwl gydag awdurdodau, gwaith cyhoeddusrwydd, protestiadau symbolaidd yn cynnwys ymprydio a gŵyl nosau; a hyn i gyd yn rhagflaenu gweithredu uniongyrchol difrifol er mwyn dwysáu teimladau am yr ymgyrch, ei wneud yn bwnc llosg ac ennyn cefnogaeth carfannau eraill yng Nghymru.[70]

---

[66] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 288. Honnir hefyd yn y llyfryn *S4C Pwy Dalodd Amdani?* a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas ar yr ymgyrch ddarlledu, nad oedd y Gymdeithas ar ddechrau'r ymgyrch yn galw am ragor o raglenni gan HTV a hynny gan fod y cwmni newydd ymgymryd â'r dasg o ddarlledu yn yr ardal; Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani? Hanes Ymgyrch Ddarlledu Cymdeithas yr Iaith* (Aberystwyth, 1985), t. 13.

[67] Collodd yr ymgyrch ddarlledu ychydig o'i momentwm ar ddiwedd y 1960au wrth i'r ymgyrch paentio arwyddion a digwyddiadau'r arwisgo ddwyn sylw'r ymgyrchwyr; Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*, t. 15.

[68] Ibid.

[69] Senedd oedd corff rheoli newydd Cymdeithas yr Iaith a ddisodlodd y Pwyllgor Canol. Yn wahanol i'r Pwyllgor hwnnw byddai'r Senedd yn cyfarfod am ddiwrnod cyfan unwaith y mis o Hydref 1970 ymlaen. Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*, t. 17, Dylan Phillips, 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1998' yn Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams (goln.), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), t. 458.

[70] Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*, t. 17.

Gellir gweld o'r datganiad hwn bod yr ymgyrch ddarlledu yn un llawer mwy strategol na'r hyn a welwyd yn flaenorol gan Gymdeithas yr Iaith. Amlygwyd y naws mwy strategol a threfnus i waith y Gymdeithas yn y pamffledi a gyhoeddwyd gyda nifer ohonynt gan y llenor, cyn-ddarlithydd a chyfarwyddwr dramâu teledu, Emyr Humphreys, yn trafod darlledu yng Nghymru ac yn cynnig cynlluniau gweithredol ar sut y gellid addasu'r gyfundrefn er budd y Gymraeg.[71] Ynghyd â'r gwaith polisi a strategaeth a wnaed, cafwyd cyfnod estynedig o ymgyrchu a phrotestiadau uniongyrchol gan y Gymdeithas fel y disgrifia Dylan Phillips yn ei drafodaeth gynhwysfawr o weithgaredd yr ymgyrchwyr yn y cyfnod:

> Trefnwyd gwrthdystiadau a ralïau y tu mewn a'r tu allan i ganolfannau'r BBC, HTV a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol; dringwyd trosglwyddyddion teledu, gan rwystro darllediadau rhaglenni, darlledwyd rhaglenni radio ar donfedd anghyfreithlon 'Y Ceiliog'; torrwyd ar draws gweithgareddau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a thorrwyd i mewn i stiwdios teledu a gorsafoedd darlledu yng Nghymru a Lloegr gan ddifrodi offer.[72]

Un o'r protestiadau cynnar a ddenodd lawer o sylw i'r ymgyrch oedd gweithred Ffred Ffransis, Goronwy Fellows a Myrddin Williams wrth dorri i mewn i stiwdio ddarlledu Granada ym Manceinion ar 23 Gorffennaf 1971 er mwyn difrodi offer.[73] Hon oedd y weithred fwyaf o dor-cyfraith yn hanes Cymdeithas yr Iaith, ac er i nifer ei diystyru fel fandaliaeth pur, honnai'r Gymdeithas i ddifrifoldeb y weithred hon lwyddo i dynnu sylw'r cyhoedd at yr ymgyrch ddarlledu.[74] Dros gyfnod yr ymgyrch gwelwyd carcharu dros hanner cant o ymgyrchwyr am weithredoedd uniongyrchol megis yr uchod, gyda'r dedfrydau'n amrywio o noson mewn carchar i flwyddyn o dan glo.[75] Er hynny, gellir dadlau mai elfen fwyaf llwyddiannus ac effeithiol yr ymgyrch ddarlledu oedd y gefnogaeth a gaed i'r alwad i bobl Cymru wrthod talu trwyddedau radio a theledu. Denodd yr ymgyrch weithredwyr newydd i gorlan y Gymdeithas gydag athrawon, darlithwyr, gweinidogion a phobl broffesiynol eraill yn

---

[71] Cymdeithas yr Iaith, *Darlledu yng Nghymru: cyfoethogi neu ddinistrio bywyd cenedlaethol?* (Aberystwyth, 1971), Emyr Humphreys, *Diwylliant Cymru a'r Cyfryngau Torfol* (Aberystwyth, 1977), Cymdeithas yr Iaith, *Teledu Cymru i Bobl* Cymru (Aberystwyth, 1977), Emyr Humphreys, *Bwrdd Datblygu Teledu Cymraeg* (Aberystwyth, 1979).
[72] Dylan Phillips, 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1998', tt. 460–1.
[73] Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*, tt. 22–39.
[74] Ibid., t. 26.
[75] Phillips, 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1998', t. 461. Am ragor o fanylion ynglŷn â gweithredoedd uniongyrchol Cymdeithas yr Iaith, yr ysgogiad, a phwy a garcharwyd gweler, Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*.

rhoi eu cefnogaeth yn y modd hwn i'r ymgyrch ddarlledu.[76] Gwelwyd, o ganlyniad, naid sydyn yng nghyfartaledd oedran y gweithredwyr yn ystod yr ymgyrch ddarlledu i ddeugain mlwydd oed, o'i gymharu â chyfartaledd o ddwy ar hugain mlwydd oed yn ystod yr ymgyrch arwyddion ffyrdd, ymgyrch a oedd yn mynnu gweithredu a thor-cyfraith llawer mwy uniongyrchol.[77] At hynny, yr oedd y cynnydd hwn yn oedran yr unigolion a'r parchusrwydd a ystyrid ynghlwm wrth alwedigaethau nifer ohonynt, yn allweddol wrth sicrhau crediniaeth i'r ymgyrch. Bu hyn yn allweddol, yn ogystal, wrth gyfrannu at yr argraff a geid fod llywodraeth y dydd yn prysur golli cefnogaeth y 'farn gymhedrol' yng nghyd-destun darlledu yng Nghymru.

Er bod Cymdeithas yr Iaith wedi llwyddo i berswadio nifer fawr o Gymry mai trwy sicrhau sianel ar wahân ar gyfer rhaglenni Cymraeg y ceid yr amodau gorau i'r iaith, nid oedd pawb yn cytuno. Yr oedd grŵp o Gymry dylanwadol a oedd yn cynnwys y Dr Jac L. Williams, Jennie Eirian Davies, Syr Alun Talfan Davies ac Alun R. Edwards o HTV yn anghytuno gyda'r gosodiad y byddai sianel ar wahan o fudd i'r iaith. Rhybuddiodd Jac L. Williams y byddai'r Gymraeg yn dioddef os byddai'r rhaglenni yn cael eu gwthio i '[g]wt dan staer y bedwaredd sianel'.[78] Credid y byddai'r Gymraeg ar ei cholled petai gwylwyr di-Gymraeg a Chymry Cymraeg nad oedd yn frwd dros yr iaith yn cael eu hynysu o raglenni Cymraeg yn gyfan gwbl. Credid hefyd y byddai geto'n cael ei greu ac y byddai hynny yn niweidio'r Gymraeg ymhellach.[79] Yn hytrach na galw am greu sianel newydd ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg, yr oedd y garfan hon yn argymell cynyddu'r nifer o oriau a ddarlledid ar y sianeli poblogaidd, BBC Wales ac HTV Wales, er mwyn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn ymwybodol o fodolaeth y rhaglenni ac yn dod, felly, i gysylltiad â'r iaith. Ond, fel y noda John Davies, gyda'r tensiynau rhwng y carfannau iaith yn prysur gynyddu, diau mai gwaethygu wnâi'r sefyllfa gyda chynllun o'r fath.[80] Yr oedd yr unigolion hyn yn y lleiafrif wrth iddynt frwydro yn erbyn llif y farn gyffredin ymysg y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. Gwelwyd yr ymgyrch am sianel ar wahân yn denu cefnogaeth o garfannau annisgwyl, megis aelodau seneddol Llafur a oedd yn

---

[76] Dylan Phillips, *Trwy ddulliau chwyldro...? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1992* (Llandysul, 1998) t. 38.
[77] Ibid., t. 34.
[78] *S4C yn 20 Mlwydd Oed* (Cynh. Vaughan Hughes, Ffilmiau'r Bont a ddarlledwyd ar S4C, 31 Hydref 2002).
[79] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 298.
[80] Ibid.

wrthwynebus i'r iaith Gymreig fel George Thomas, a oedd yn Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar y pryd, a Leo Abse. Pryderai rhai nad atal tranc yr iaith oedd cymhelliad yr unigolion hyn, ym marn unigolion megis Aneirin Talfan Davies, yr oedd y ddau yn awyddus i weld y Gymraeg yn cael ei gwthio o'r neilltu ac yn diflannu'n gyfan gwbl o wasanaeth BBC Cymru ac HTV, meddai: 'Pan fydda i'n gweld Mr George Thomas a Mr Leo Abse . . . yn rhuthro i gofleidio Dafydd Iwan, rwyf am awgrymu mai dim ond y mwyaf *naive* o blant dynion fyddai'n barod i gredu mai yr un yw eu cymhellion.'[81] Er gwaethaf ofnau unigolion fel Aneirin Talfan Davies, bu y gefnogaeth hon gan y garfan ddi-Gymraeg yn ddiamau yn rhan annatod o'r penderfyniad terfynol i osod rhaglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel, a hynny gan eu bod yn uchel eu cloch yn cwyno am y rhaglenni rhwydwaith nad oedd ar gael iddynt eu gweld yng Nghymru.

Er honiadau'r gwylwyr di-Gymraeg eu bod yn cael eu hamddifadu o elfennau o'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, noda John Davies nad oedd y golled yr un mor sylweddol ag a ymddangosai ar olwg gyntaf: 'The degree of deprivation suffered by monoglot English speaking viewers should not be exaggerated. When Welsh was broadcast at prime time on BBC Wales, there was always an English-language alternative on BBC2 and also on HTV . . .'[82] Er bod yr ateb hwnnw i'r broblem, o edrych ar amserlenni darlledu'r BBC ac HTV yn ystod y 1970au, gwelir yn glir fod rhaglenni Cymraeg yn ymgripian i mewn i'r oriau brig fwyfwy yn ystod y degawd. O ddewis wythnos ym mis Ionawr, ail wythnos lawn y mis, ac edrych ar y ddarpariaeth Gymraeg ym 1970, 1975 ac ym 1980 ar y BBC ac HTV gellir gweld y bu cynnydd yn y nifer o raglenni Cymraeg a ddarlledwyd yn ystod yr oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ym 1970, darlledwyd pedair awr a chwe munud yn Gymraeg yn ystod yr oriau brig. Cododd y cyfanswm i bum awr a phum munud ym 1975 ac yn yr un wythnos bum mlynedd yn ddiweddarach, ym 1980, ffigwr tebyg a geid sef pum awr a deng munud.[83] Y mae'r diffyg twf a fu yn ail hanner y ddegawd yn awgrymu'n gryf nad oedd lle i'r ddarpariaeth Gymraeg dyfu ymhellach o fewn yr oriau brig ar y

---

[81] Ibid., t. 293.
[82] Ibid., t. 283.
[83] *Radio Times*, 10–16 Ionawr 1970 (London, BBC Magazines), *Radio Times*, 11–17 Ionawr 1975 (London, BBC Magazines), *Radio Times*, 12–18 Ionawr 1980 (London, BBC Magazines); *TV Times*, 10–16 Ionawr 1970 (London, ITV Publications), *TV Times*, 11–17 Ionawr 1975 (London, ITV Publications), *TV Times*, 12–18 Ionawr 1980 (London, ITV Publications).

sianeli teledu prif ffrwd, gan ddarparu cyfiawnhad clir dros alw am sianel ar wahân a fyddai'n galluogi i'r ddarpariaeth ddatblygu ac esblygu'n naturiol.

O edrych yn fanylach ar ddarpariaeth yr oriau brig ym 1970 gwelir bod y rhaglenni newyddion *Heddiw* ac *Y Dydd* yn cael eu darlledu'n ddyddiol (Llun – Gwener). Amrywiai hyd rhaglen *Heddiw* o ugain munud i bum munud ar hugain gan ddechrau am 18.45, tra yr oedd *Y Dydd* yn amrywio rhwng pedwar munud ar ddeg ac ugain munud o hyd gan ddechrau am 18.10.[84] Er amlygrwydd y rhaglenni hyn yn yr amserlen, bychan oedd nifer y rhaglenni eraill a ddarlledwyd yn ystod yr oriau brig. Er enghraifft, yn yr wythnos hon dim ond dwy raglen arall a ddarlledwyd yn ystod yr oriau brig, sef dwy raglen gan y BBC, yn gyntaf y rhaglen boblogaidd *Ryan a Ronnie* am 20.25 ar y nos Fawrth ac yna y cwis *Bob yn Dri* am 19.05 ar y nos Wener.[85] Ond, y tu allan i'r oriau brig, fe ddarlledwyd pedair rhaglen hanner awr yr un, sef *Y Chwedegau*, *Llygad y Ffynnon* a *Dan Sylw* ar HTV a *Bugail Cwm Prysor* ar y BBC.[86] Addasu fu hanes y patrwm o astudio amserlenni darlledu yr un wythnos ym 1975. Unwaith yn rhagor fe gaiff *Heddiw* ac *Y Dydd* eu darlledu yn ystod yr oriau brig, ond erbyn y cyfnod hwn ceid amrywio sylweddol ar hyd y rhaglenni Cymraeg hyn, gyda *Heddiw* yn amrywio rhwng bod yn rhaglen chwarter awr a rhaglen hanner awr ac *Y Dydd* yn amrywio rhwng bod yn rhaglen bum munud dair gwaith yr wythnos (o nos Fawrth i nos Iau), rhaglen ddeuddeg munud ar nos Lun a rhaglen ddeunaw munud ar nosweithiau Gwener. Er hynny, y prif wahaniaeth a geir rhwng amserlen 1970 ac 1975 yw y bu darlledu yn ystod tair noson o'r wythnos raglen Gymraeg yn syth ar ôl y rhaglen newyddion *Heddiw* ar y BBC, gyda *Ryan* (nos Fawrth), *Pobol y Cwm* (nos Fercher) a *Piparbop* (nos Wener), felly, yn creu bron i awr Gymraeg ar ddechrau'r oriau brig.[87] At hynny, ceid dwy raglen hanner awr yng nghanol yr oriau brig am

---

[84] *Radio Times*, 10–16 Ionawr 1970, *TV Times*, 10–16 Ionawr 1970. Yn ystod yr wythnos benodol hon ym 1970 darlledid *Y Dydd* yng Nghymru yn hytrach na darllediad o *Batman* a oedd i'w weld yng ngweddill Prydain.

[85] Ibid.

[86] Nid rhain oedd yr unig raglenni Cymraeg a ddarlledwyd yr wythnos honno, fe ddarlledwyd *Cadi Ha* (BBC) amser cinio ddydd Sadwrn ac yna *Disc a Dawn* (BBC) a *Hyd a Lled* (HTV) ar ddechrau'r oriau brig. Yna ar y Sul, yng nghanol y prynhawn caed hanner can munud o Gymraeg ar y BBC trwy gyfrwng *Cadw Cwmni* gyda Hywel Gwynfryn, y rhaglen *Maes a Môr*, ac yna *Pregeth* ar HTV. Yna, yn ystod yr wythnos, caed dau rifyn o *Ar Lin Mam* (BBC) yn ystod amser cinio ddydd Llun a ddydd Gwener, a dau ddangosiad o'r un bennod o *Dysgu Cymraeg* (BBC) yn ystod y dydd ar ddydd Mercher a dydd Iau ynghyd â *Storiau'r Byd* (HTV) ar brynhawn Mawrth. Fe gaed hefyd ddarllediad o raglenni plant yn hwyr y prynhawn ar ddydd Mawrth a dydd Iau sef *Telewele* (BBC) a *Tins a Lei* a *Pwsi Meri Mew* (HTV). *Radio Times*, 10–16 Ionawr 1970, *TV Times*, 10–16 Ionawr 1970.

[87] *Radio Times*, 11–17 Ionawr 1975.

hanner awr wedi wyth, sef *Yr Wythnos*, rhaglen materion cyfoes HTV, a'r rhaglen amrywiol, *Nos Iau*, ar y BBC.[88] Ynghyd â'r cynnydd mewn darpariaeth oriau brig, bu twf hefyd yn y ddarpariaeth i blant ar ôl oriau ysgol, a hynny gyda *Miri Mawr* a *Miri Mwy* a ddarlledwyd gan HTV dair gwaith yr wythnos rhwng 16.25 a 16.50. Ond er y cynnydd angenrheidiol hwn mewn darpariaeth i'r Cymry Cymraeg ifanc, yr oedd bodolaeth y rhaglenni hyn yn atal plant di-Gymraeg Cymru rhag mwynhau rhaglen *Sooty, Potty Time* a rhaglen *Woody Woodpecker*.[89] Ni fu llawer o newid ar y patrwm ym 1980, ond gwelwyd twf eto yn y nifer o raglenni plant a ddarlledwyd ar ddiwedd y prynhawn megis *Bilidowcar*, *Sêr*, *Sbardun* a *Ni a Nhw*.[90]

Er y darlun gwell na'r disgwyl, o bosibl, o leoliad rhaglenni Cymraeg, y mae'n bwysig nodi nad oedd y ddarpariaeth yn gynhwysfawr. Bychan iawn oedd y ddarpariaeth ar y penwythnosau yn benodol, ac ar achlysuron fel y Nadolig, pan fyddai teuluoedd Cymraeg yn ymgasglu o flaen y teledu, crintachlyd iawn fyddai'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Ar ddiwrnod Nadolig 1970, er enghraifft, awr ac ugain munud yn unig o raglenni Cymraeg a gaed ar y BBC, sef rhaglen hanner awr o'r enw *Naw Llith a Charol* a ddarlledwyd o Eglwys Gadeiriol Bangor am 9 y bore, pennod chwarter awr o *Ar Lin Mam* am 11.45 ac yna, *Drosodd at Alun Williams* am bymtheg munud ar hugain am hanner dydd. Ar HTV cafwyd tri chwarter awr o raglen *Dibyn Dobyn* rhwng 10.15 ac 11.00, rhaglen a gynhwysai Gaynor Morgan Rees yn adrodd stori a dathliad Nadoligaidd gyda phlant Ysgol Coedglas Caerdydd ac Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las Abertawe. Ni ddarlledwyd rhaglen Gymraeg felly ar ôl amser cinio ar gyfer teuluoedd Cymraeg eu hiaith.[91] Erbyn 1975 yr oedd y ddarpariaeth wedi gwaethygu ar y BBC gan mai dim ond awr o ddarpariaeth a gaed, sef dwy raglen hanner awr, *Bili a'r Dowcar Hud* am 13.10 ac yna *Fo a Fe* am 13.40, ac aros yn ei unfan a wnaeth darpariaeth HTV gyda rhaglen tri chwarter awr o hyd o'r enw *Fyny Fan'na* am 11.00. Unwaith eto ni chafwyd darpariaeth Cymraeg gyda'r hwyr dros y Nadolig ar yr union adeg pan fyddai aelwydydd Cymraeg a chynulleidfa

---

[88] Ibid. Darlledwyd *Yr Wythnos* ar yr un pryd ag y darlledwyd *World in Action* i weddill Prydain a byddai HTV yn ail-amseru'r rhaglen Saesneg i'w dangos yn hwyr y nos, am 23.35, ar nos Fawrth. Er nad oedd y gynulleidfa ddi-Gymraeg yn colli'r rhaglen Saesneg yn gyfan gwbl, yr oedd amseriad ei darlledu yn sicr o greu anesmwythyd.
[89] *TV Times*, 11–17 Ionawr 1975.
[90] *Radio Times*, 12–18 Ionawr 1980, *TV Times*, 12–18 Ionawr 1980. Unwaith eto ym 1980 collai plant Cymru peth darpariaeth Saesneg ar gyfer yr ifanc megis y rhaglen bop *Get it Together* a *Book Tower* gyda Tom Baker
[91] *Radio Times*, 19 Rhagfyr 1970 – 1 Ionawr 1971, *TV Times*, 19 Rhagfyr 1970 – 1 Ionawr 1971.

barod ar gyfer y ddarpariaeth.[92] Anghyson oedd y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar y BBC ac HTV felly, ac yr oedd y diffyg arlwy yn ystod gwyliau cyhoeddus yn dangos nad oedd lle i'r Gymraeg ffynnu gyda'r patrwm dwy sianel.

*Pwyllgorau Seneddol*

At yr holl drafodaethau a geid ymysg darlledwyr, gwleidyddion a thrigolion Cymru yn ystod y 1970au, sefydlwyd dau bwyllgor seneddol a dau weithgor er mwyn ymchwilio a thrafod dyfodol darlledu ym Mhrydain. Yr oedd gan bob pwyllgor, er bod ffocws cylch gorchwyl pob un yn wahanol, rywbeth arbennig i'w ddweud am ddarlledu yng Nghymru a sut y gellid lleddfu'r tensiynau cymdeithasol. Sefydlwyd Pwyllgor Crawford ym 1973 i edrych yn bennaf ar ranbartholrwydd gan holi i ba raddau yr oedd y gwasanaethau darlledu yn ateb gofynion gwylwyr yn Yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr.[93] Derbyniodd y pwyllgor dystiolaeth gan nifer o sefydliadau Cymreig, megis Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas yr Iaith a Phwyllgor Darlledu Prifysgol Cymru, ynghyd â nifer helaeth o gyfraniadau gan sefydliadau trefol a rhanbarthol o bob cwr o Gymru, yn eu plith Gyngor Dosbarth Trefol Amlwch, Uwch Gyngor Plwyf Ystradgynlais, Pwyllgor Lles yr Henoed Arthog, Friog a Fairbourne a Changen Felindre o Sefydliad y Merched.[94] Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan nifer fawr o sefydliadau cymharol fychan a threfi ledled Cymru yn arwydd digamsyniol o'r pryderon gwirioneddol a goleddid gan amryw o drigolion Cymru am gyflwr y gyfundrefn ddarlledu a'i phwysigrwydd yn eu bywydau. Derbyniwyd tystiolaeth hefyd a gyflwynodd bob ochr y ddadl, ac er i Bwyllgor Crawford ystyried cynyddu nifer y rhaglenni Cymraeg a ddarlledid ar y prif sianeli, casglwyd fod rhan helaethaf o'r dystiolaeth yn galw am osod rhaglenni Cymraeg ar sianel ar wahân.[95] Perswadiwyd y pwyllgor gan y dystiolaeth fod yr amgylchiadau yng Nghymru yn fwy argyfyngus na'r hyn a geid yng ngweddill Prydain, yn enwedig o safbwynt ffyniant y Gymraeg. I'r perwyl hwnnw felly, y dylid rhyddhau'r bedwaredd sianel ar gyfer darlledu rhaglenni Cymraeg cyn gynted ag yr oedd hynny'n bosibl. Meddid:

---

[92] *Radio Times,* 20 Rhagfyr 1975 – 2 Ionawr 1976, *TV Times*, 20 Rhagfyr 1975 – 2 Ionawr 1976.
[93] *Report of the Committee on Broadcasting Coverage, Cmnd. 5774* (London, 1974), tt. 1–2. Aelodau'r Pwyllgor oedd Syr Stewart Crawford (Cadeirydd), James Grew, Ivor Morten, Gabrielle Pike, Ethel M. Rennie, Eifion Roberts a'r Athro John C. West.
[94] Ibid., tt. 93–6.
[95] Ibid., t. 39.

> We give the highest priority in this field to a solution of the Welsh-language problem by the use in Wales of the Fourth Channel. And recommend that this should be undertaken, without waiting for a decision on its introduction in the rest of the country, and should not be delayed by restrictions on capital expenditure.[96]

Argymhellodd Pwyllgor Crawford hefyd y dylid trosglwyddo rhaglenni Cymraeg y BBC ac HTV i'r sianel newydd, ac y dylid, er mwyn cyrraedd y targed o bum awr ar hugain o raglenni yr wythnos yn y Gymraeg a fynnid gan y tystion, ddarparu cymhorthdal er mwyn galluogi cynnydd yn y nifer o oriau a gynhyrchid. Credai'r pwyllgor y byddai'r arian hwn, er yn torri tir newydd yn y gyfundrefn ddarlledu yng Nghymru, yn fuddsoddiad teilwng. Nodwyd:

> The cost would represent an investment in domestic, cultural and social harmony in the United Kingdom; the money spent would, in effect, be aimed at supporting within the home the other central and local government expenditure which is being incurred to satisfy Welsh aspirations.[97]

Gellir gweld fod Pwyllgor Crawford wedi dechrau amgyffred natur y broblem ddarlledu yng Nghymru, ac i'w aelodau lawn ddeall ei bod hi'n bwysig i unrhyw wasanaeth Cymraeg ddarlledu rhaglenni o safon gydradd â'r hyn a ddarlledid yn Saesneg os am ddenu a chadw gwylwyr.[98]

Er cefnogaeth glir Crawford, yr oedd argymhellion y pwyllgor yn hwb ac yn rhwystr yn yr ymgyrch dros sianel ar wahân i Gymru, a hynny, yn eironig, oherwydd bod y cynnigion yn ateb nifer o ofynion yr ymgyrchwyr. Wedi i'r llywodraeth dderbyn argymhellion Crawford mewn egwyddor, hawdd iawn oedd credu bod y frwydr wedi ei hennill. Cyhoeddodd Alwyn D. Rees, er enghraifft, yn ei golofn olygyddol yn *Barn* ar ddiwedd 1974 fod y Cymry wedi 'Ennill Brwydr y Teledu'[99] a nododd Cymdeithas yr Iaith yn eu cofnod o'r ymgyrch ddarlledu yn y cyfnod hwn 'nad oedd llawer o awydd am weithredu uniongyrchol difrifol . . . pan fod pawb o dan yr argraff fod buddugoliaeth fawr wedi'i hennill.'[100]

---

[96] Ibid., t. 70.
[97] Ibid., t. 41.
[98] Ibid.
[99] Alwyn D. Rees, 'Nodiadau Golygyddol', *Barn*, 145 (Tachwedd/Rhagfyr 1974), t. 558–9.
[100] Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?* t. 45.

Fel rhan o ymrwymiad y llywodraeth i argymhellion pwyllgor Crawford, sefydlwyd gweithgor o dan gadeiryddiaeth Mr J. W. M. Siberry er mwyn ystyried sut y gellid gwireddu sefydlu'r bedwaredd sianel yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor ar 20 Ionawr 1975, cwta ddeufis wedi cyhoeddi adroddiad Crawford, ac yr oedd cyflymder yr ymateb yn rhoi'r argraff fod y llywodraeth yn bwriadu gwireddu argymhellion y pwyllgor.[101] Amserlen wreiddiol gweithgor Siberry oedd adrodd o fewn tri mis, ond mewn gwirionedd ni chyflwynwyd yr adroddiad i'r llywodraeth tan fis Gorffennaf ac ni chyhoeddwyd ei ddarganfyddiadau tan fis Tachwedd 1975.[102] Dengys adroddiad y gweithgor y glynai'r aelodau i ystyried mai gan y BBC ac HTV yn unig y cynhyrchid rhaglenni ar gyfer y bedwaredd sianel. Er hynny gwrthodwyd y syniad o blethu rhaglenni'r sefydliadau hynny rhwng ei gilydd, a nodwyd y dylid rhannu'r wythnos yn ei hanner. Argymhellwyd y dylai HTV ddarlledu ar ddyddiau Llun, Mercher a Gwener a'r BBC ar ddyddiau Mawrth, Iau a Sadwrn, ac y rhenid dydd Sul rhwng y ddau.[103] Yr oedd y patrwm hwn yn hwylus er mwyn sicrhau y gellid gosod hysbysebion rhwng rhaglenni HTV heb iddynt darfu ar ddarpariaeth y BBC. Ond, fel y noda John Davies yn ei ddadansoddiad manwl o weithgareddau Siberry, yr oedd hyn yn wastraffus oherwydd y dyblygu adnoddau fyddai'n angenrheidiol ar y ddwy ochr.[104] Er gwaethaf y rhaniad amlwg rhwng dyddiau darlledu'r ddwy gyfundrefn, ceid rhai argymhellion er mwyn sicrhau lleihau'r gwahaniaethau amlwg fyddai rhwng darpariaeth y BBC ac HTV. Yn gyntaf, gwelwyd fod Siberry yn awyddus i sefydlu un dull cyflwyno clyweledol, at hynny yr oedd yn frwd dros sefydlu patrwm tebyg o raglenni gydol yr wythnos. Er hynny, cafwyd anghytuno taer ar y mater hwn o du'r BBC ac HTV, gan fod y ddau ddarlledwr yn dymuno gweld patrwm gwahanol ar gyfer eu rhaglenni gyda'r BBC yn dymuno darlledu ei raglenni mewn bloc er mwyn sicrhau eu bod yn adnabyddus fel rhaglenni'r Gorfforaeth, tra yr oedd HTV am ddosbarthu ei raglenni ar draws yr amserlen, gan ddarlledu rhaglenni merched yn ystod y dydd, rhaglenni plant ar

---

[101] Rhaid nodi nad yw Cymdeithas yr Iaith yn cytuno gyda'r dadansoddiad hwn, gan i'r Gymdeithas gyhoeddi yn ei hadroddiad ar yr ymgyrch ei bod wedi disgwyl i'r gweithgor adrodd dri mis ar ôl cyhoeddi adroddiad Crawford yn Nhachwedd 1974, sef ym mis Chwefror 1975, ac fe nodir bod yr oedi hwn yn arwydd o ddechrau'r 'Gohirio Mawr'; Ibid., t. 47.
[102] Ibid.
[103] *Report of the Committee on the Future of Broadcasting, Cmnd.6753* (London: HMSO, 1977), t. 413. Mae'r patrwm hwn yn adlais o'r trefniant a welwyd ar ddechrau arbrofion gyda darlledu teledu wrth i'r BBC ddefnyddio systemau EMI/Marconi a chwmni John Logie Baird am yn ail ym 1936 er mwyn penderfynu pa un y dylid ei fabwysiadu yn derfynol, Malcolm Baird (gol.), *Television and me – The Memoirs of John Logie Baird* (Edinburgh, 2004), tt. 123–9.
[104] Davies, *Broadcasting and the BBC*, t. 326.

ddiwedd y prynhawn ac yn y blaen.[105] Ond un o brif argymhellion Siberry oedd y dylid darlledu pum awr ar hugain o raglenni Cymraeg bob wythnos, sef dwbl yr hyn a ddarlledwyd ar y pryd a'r hyn yr oedd yr ymgyrchwyr yn galw amdano. Wrth drafod costau ac amserlen, credai'r gweithgor y dylid blaenoriaethu'r sianel ac y dylid ymdrechu i'w sefydlu cyn gynted ag y bo modd, ond, er y brys, deellid y byddai hynny'n debygol o gymryd deuddeg mis ar hugain ac felly byddai'n rhaid aros tan hydref 1978 am unrhyw lansiad. At hynny, yr oedd y costau yn debygol o fod yn £8.85 miliwn o wariant cyfalaf yn syth ac yn £5.03 miliwn o wariant blynyddol wedi hynny. Er mwyn ariannu'r gwasanaeth byddai'n rhaid cyflwyno cymhorthdal i HTV a chynnyddu'r arian a dderbyniai'r BBC drwy'r drwydded deledu.[106] Er yr adroddiad cadarnhaol a gafwyd gan Siberry, fe'i cyhoeddwyd mewn cyfnod ariannol anodd i'r llywodraeth a oedd yn amharod i wario ar fentrau newydd. At hynny, yr oedd pwyllgor darlledu arall, Pwyllgor Annan, eisoes wrthi'n ymchwilio i ddyfodol darlledu ym Mhrydain ac, o ganlyniad, ni welwyd gweithredu argymhellion gweithgor Siberry.

Mae hanes y pwyllgor darlledu o dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Annan yn un hir. Sefydlwyd y pwyllgor ym misoedd olaf Llywodraeth Lafur Harold Wilson ym 1970. Fe'i diddymwyd gan Lywodraeth Geidwadol newydd Edward Heath ar 23 Gorffennaf 1970, lai na deufis yn ddiweddarach,[107] cyn y'i ail-sefydlwyd ym mis Ebrill 1974 gan Lywodraeth Lafur Wilson.[108] Mewn gwirionedd, ni thrafodwyd mater y bedwaredd sianel yng Nghymru yn fanwl gan Annan, fel y dywed John Davies yn ei gyfrol: 'As the government had by then accepted the Crawford Report and had established the Siberry working party, the Committee's members assumed that, at least where Wales was concered, the fourth channel issue had already been settled.'[109] Bu'r pwyllgor ar ei ail gyfle, mewn bodolaeth am dair blynedd gyfan gan adrodd ym mis Ebrill 1977, ddeunaw mis ar ôl gweithgor Siberry. Yn adroddiad Annan argymhellwyd y dylid rhoi'r bedwaredd sianel i'r Open Broadcasting Association (OBA), sef sefydliad cenedlaethol a fyddai'n comisiynu rhaglenni gan

---

[105] Ibid.
[106] *Report of the Committee on the Future of Broadcasting. Cmnd. 6753*, t. 413.
[107] Staff Reporter, 'Chataway axes TV inquiry' yn *The Times,* 24 Gorffennaf 1970, t. 2.
[108] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 296–7.
[109] Ibid., t. 332.

gyrff megis y Brifysgol Agored, cwmnïau ITV a chwmnïau annibynnol.[110] Sylweddolid na fyddai'r OBA yn debygol o fod yn barod i ddechrau darlledu tan ddechrau'r 1980au[111] ac felly nodwyd y dylid gwireddu cynigion pwyllgor Siberry gan roi'r bedwaredd sianel yng Nghymru yng ngofal y BBC ac HTV cyn ei throsglwyddo i'r OBA pan fyddai hwnnw wedi ei sefydlu. Er hynny nid sianel deledu Gymraeg oedd y brif flaenoriaeth i bwyllgor Annan, amlinellwyd y farn y dylid rhoi'r flaenoriaeth yn gyntaf yng Nghymru i ymestyn y gwasanaeth teledu UHF a gwasanaeth radio VHF ac mai ar ôl cyflawni'r datblygiadau hynny yn unig y dylid ystyried gweithredu sianel Gymraeg ar wahân.[112] Mewn gwirionedd ni symudwyd y ddadl ymlaen o gwbl gan Bwyllgor Annan, fel y noda John Davies, dim ond atgyfnerthu'r hyn a argymhellwyd gan Crawford yn 1974 a wnaed. Gellid dadlau i Annan gymryd cam yn ôl o'r hyn a argymhellwyd gan Siberry a Crawford, a hynny oherwydd yr iaith amhendant a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad: 'The proposals of the Siberry Working Party for establishing a fourth television channel in Wales broadcasting in the Welsh language *should be implemented as soon as the Government can find the necessary finance.*'[113] Y mae'r cymal olaf hwn yn pwysleisio'r cam yn ôl a gymerwyd gan Annan, gan ei fod yn cynnig dihangfa i'r llywodraeth a oedd yn parhau mewn trafferthion ariannol.[114] Yr oedd nifer hefyd yn gweld trosglwyddo'r sianel Gymraeg i ddwylo'r OBA pan fyddai hwnnw'n weithredol, yn broblematig, a hynny oherwydd ei fod yn symud ymhellach oddi wrth y cysyniad o greu 'Sianel Gymraeg' ac awdurdod darlledu ar wahân ar gyfer Cymru. Fel y darluniwyd yn y pamffledyn 'Teledu Cymru i Bobl Cymru' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith ym 1977: '. . . ymddengys mai nod yr Adroddiad oedd dod o hyd i ddull o gadw darlledu Cymraeg a Chymreig o fewn rhigolau'r peirianwaith Prydeinig . . .'[115] Diau hefyd y dylanwadwyd Pwyllgor Annan gan ddadl bwerus Dr Jac L. Williams, un o'r rheiny fu'n darparu tystiolaeth i'r pwyllgor, gan i'r pwyllgor nodi, yn wahanol i'r pwyllgorau eraill, ei fod yn awyddus i weld rhaglenni Cymraeg yn parhau i gael eu darlledu ar y prif sianeli.

---

110 *Report of the Committee on the Future of Broadcasting, Cmnd.6753*, t. 482. Yr oedd gwreiddiau'r OBA i'w darganfod yn syniad gwreiddiol Anthony Smith o ffurfio National Television Foundation.
111 Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 335.
112 *Report of the Committee on the Future of Broadcasting, Cmnd.6753*, t. 414.
113 Ibid., t. 483. (llythrennau italig wedi eu hychwanegu gennyf i).
114 Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 335.
115 Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani?*, t. 60.

> The Siberry Working Party envisaged that there would be no programmes in Welsh on the other television services; but we would regret it if all Welsh language programmes were banished to the fourth channel and we think it would be the worse for the Welsh language and the heritage of Wales.[116]

Gellid awgrymu, felly, fod Annan wedi dad-wneud y cydsyniad a geid rhwng Crawford a Siberry ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen ar gyfer darlledu yng Nghymru. Byddai'r consensws brau hwnnw'n cael ei ddryllio ymhellach gan y gweithgor nesaf, dan gadeiryddiaeth Dennis Trevelyan, a sefydlwyd gan y llywodraeth er mwyn diweddaru gwaith Siberry, a oedd wedi dyddio oherwydd anallu'r Llywodraeth Lafur Callaghan i wireddu ei argymhellion.[117] At hynny, yr oedd y llywodraeth yn awyddus i ddangos ei bod yn gweithredu ar fater sianel deledu Gymraeg, er gwaetha'r ffaith ei bod wedi dod i'r casgliad, yn arolwg gwariant cyhoeddus 1976, na ellid cyfiawnhau gwariant o'r fath oherwydd cyni ariannol y wladwriaeth.[118] Yr oedd hefyd am weld sut y gellid bwrw ymlaen â'r cynllun, er mwyn sicrhau, pan fyddai'r sefyllfa economaidd yn gwella, y gellid gweithredu sianel Gymraeg yn syth.[119] Yn unol ag amcan y gweithgor o ysgogi trafodaethau rhwng adrannau llywodraethol a'r sefydliadau darlledu, ymhlith aelodau'r gweithgor yr oedd nifer o staff Adran Ddarlledu'r Swyddfa Gartref, ynghyd â dau gynrychiolydd o'r BBC, Owen Edwards, Rheolwr BBC Cymru a G. D. Cook, Pennaeth Peirianyddol Trosglwyddyddion o Adran Beirianyddol y Gorfforaeth, a dau gynrychiolydd o'r rhwydwaith ddarlledu annibynnol, Anthony Pragnell, dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Awdurdod Darlledu Annibynnol ac Aled Vaughan, Cyfarwyddwr Rhaglenni Cymru HTV.[120] Yr oedd cyfnod yr egwyddorion a'r syniadau uchelgeisiol ar ben bellach, ac yma caed cyfle i'r dynion a wyddai am fanylion gweithredu y darlledwyr i ddod â dos o realaeth i'r trafodaethau sefydlu sianel Gymraeg. Bu'r

---

116 *Report of the Committee on the Future of Broadcasting. Cmnd 6753*, t. 414. Nis ceir yn Adroddiad Annan y rhesymeg a ysgogodd yr aelodau i gasglu y byddai gosod pob rhaglen Gymraeg ar yr un sianel ar wahân yn waeth i'r iaith Gymraeg. Ni cheir ychwaith unrhyw arlliw o sut y rhagwelodd y pwyllgor y modd y gellid gweithredu cynllun o barhau i ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar y prif sianeli.

117 Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 335. Adwaenir Gweithgor Trevelyan hefyd fel Gweithgor Littler, gan i Mrs S. Littler olynu Mr D. J. Trevelyan fel Cadeirydd yn Ionawr 1978.

118 Cafwyd datganiad i'r perwyl hwnnw gan Merlyn Rees, yr Ysgrifennydd Cartref, wrth iddo gyhoeddi ei fwriadau parthed y gweithgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 1977, *Adroddiad y Gweithgor ar y Cynllun Pedwaredd Sianel i Gymru* (London: HMSO, 1978), t. 53. Cyhoeddwyd adroddiad y gweithgor yn ddwyieithog a bwriedir defnyddio'r testun Cymraeg yn y traethawd hwn wrth gyfeirio at y ddogfen yma.

119 Ibid., t. 90.

120 *Adroddiad y Gweithgor ar y Cynllun Pedwaredd Sianel i Gymru*, t. 95.

gweithgor wrthi am bedwar mis ar ddeg yn trin a thrafod darlledu yng Nghymru, tacteg a ellid ei weld fel rhan o'r 'Gohirio Mawr' fel y'i gelwid gan Gymdeithas yr Iaith, gohirio a oedd bellach yn cael ei gydnabod gan y llywodraeth oherwydd ei bod yn credu bod y consensws ar y bedwaredd sianel yn lleihau yng Nghymru.[121] Pan gyhoeddwyd yr adroddiad, cyhoeddodd Dr Glyn Tegai Hughes nad oedd yn ddim mwy na fersiwn gwanhaëdig o adroddiad Siberry.[122] Diau yr ysgogwyd Glyn Tegai Hughes i feirniadu fel hyn o ystyried y nodai'r adroddiad mai un awr ar hugain o ddarlledu Cymraeg, yn hytrach na'r pum awr ar hugain a argymhellwyd yn flaenorol, a oedd yn rhesymol i'w ddisgwyl petai'r sianel yn lansio ymhen tair blynedd.[123] Yr oedd Gweithgor Trevelyan/Littler yn awyddus i geisio gochel rhag y trafferthion a gaed wrth ymestyn darlledu Cymraeg yn rhy gyflym ym 1964 ac am weld y twf mewn darlledu Cymraeg yn cael ei osod ar seiliau cadarn: '. . . byddai cynyddu'r adnoddau'n raddol o ran cyllid, adnoddau staff a lle stiwdio yn galluogi'r gwahanol gyrff darlledu i wneud eu cyfraniad tuag at y gwasanaeth Cymraeg mewn ffordd ddiffwdan a threfnus.'[124] Yr awgrym a geir yma yw y gellid llyffetheirio gwasanaeth Cymraeg â gofynion cynhyrchu trwm na fyddai modd i'r awdurdodau darlledu eu cynnal, ac, o ganlyniad, methiant fyddai ei hanes.[125] Yr oedd y ffigwr o bum awr ar hugain wedi tyfu yn ffigwr symbolaidd o gynnydd arwyddocaol mewn rhaglenni Cymraeg, gydag adroddiad Siberry wedi nodi nad oedd diben sefydlu gwasanaeth Cymraeg annibynnol oni dechreuid o'r sail hwnnw. Ond er mwyn ei gyrraedd yr oedd angen dirfawr am ragor o ofod stiwdio, cyfleusterau technegol atodol a chyflogi ymron 400 o staff ychwanegol, datblygiadau nad oedd modd eu gwneud ar frys.[126] At hynny, mae'n amlwg bod cyd-destun ariannol y cyfnod wedi cael effaith sylweddol ar drafodaethau'r gweithgor, gan yr awgrymwyd gwariant cychwynol a oedd yn llai na hanner y buddsoddiad a argymhellwyd gan Siberry.[127] Gellid ystyried yr argymhelliad hwn fel bradychiad o'r consensws a fu ar bwysigrwydd buddsoddiad

[121] Erbyn diwedd y 1970au credid bod y cydsynio ymhlith y cyhoedd ar y bedwaredd sianel yn dirywio ac nad oedd yr atgasedd tuag at raglenni Cymraeg yr un mor gryf ag yr oedd wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol. Ceir trafodaeth o'r rhesymau pam, a oedd yn cynnwys y ffaith fod datblygiadau technolegol wedi gwneud newid sianel yn llai trafferthus, yng nghyfrol John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 336.
[122] Ibid., t. 338.
[123] *Adroddiad y Gweithgor ar y Cynllun Pedwaredd Sianel i Gymru*, t. 91.
[124] Ibid., t. 70.
[125] Yr oedd gwersi i'w dysgu yma hefyd o'r cynlluniau uchelgeisiol a gyhoeddwyd gan Teledu Cymru i gynhyrchu pymtheg awr o raglenni Cymraeg yn wythnosol.
[126] Ibid., t. 68.
[127] Ibid., tt. 91–2, Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 338.

digonol er mwyn sicrhau apel a llwyddiant rhaglenni Cymraeg, neu fel penderfyniad pragmataidd a fyddai yn sicrhau wyth awr a hanner ychwanegol o raglenni Cymraeg. Fe argymhellwyd gan y Pwyllgor hefyd y dylid darlledu rhaglenni plant Cymraeg ar BBC2 yn hytrach na phrif sianel y Gorfforaeth, argymhelliad a ellid ei weld fel ymgais i fraenaru'r tir tuag at drosglwyddo holl raglenni Cymraeg y BBC i BBC2, lle byddai llai o gwyno ynglŷn ag amddifadu gwylwyr di-Gymraeg.

Er gwaethaf agwedd bragmataidd gweithgor Trevelyan/Littler a fu'n trafod dan gwmwl amlwg cyni ariannol, dadleua John Davies y lleihawyd dylanwad y gweithgor wrth i'r llywodraeth gyhoeddi Papur Gwyn ar ddarlledu a oedd yn mabwysiadu y rhan helaeth o argymhellion Annan a hynny ar union ddiwrnod cyhoeddi adroddiad gweithgor Trevelyan/Littler.[128] Ond mewn gwirionedd mae astudiaeth fanwl o argymhellion Papur Gwyn Darlledu 1978 yn dangos y bu dylanwad y gweithgor ar gynlluniau'r llywodraeth yn arwyddocaol.[129] Bu i'r llywodraeth, er enghraifft, fabwysiadu agwedd y gweithgor at ddatblygu nifer oriau rhaglenni Cymraeg yn raddol er mwyn sicrhau safon yn hytrach na swmp. Meddid: 'The Government agrees that, in all the circumstances and in view of the need to get the project started, it would be desirable to begin the service at a somewhat lower level than envisaged in the Siberry proposals, adding to it from time to time as appropriate.'[130] At hynny, yr oedd y cymal a ddiffiniai y patrwm rheoli ar gyfer darlledu Cymraeg yn mynd â'r llywodraeth ymhellach oddi wrth awgrymiadau Annan. Anghytunwyd â'r cynllun a gaed gan Annan i drosglwyddo cyfrifoldebau darlledu Cymraeg ar y bedwaredd sianel i wasanaeth Prydeinig yr OBA pan fyddai'r Awdurdod honno wedi ei sefydlu. Yn hytrach, yn y Papur Gwyn nodwyd:

> It would be wrong, moreover, to treat the Welsh language service in isolation from English language programmes originating in Wales, whether these come from the BBC, from the independent system or from the OBA. For these reasons, the Government considers that it would not be appropriate to treat the Welsh language television service of the fourth channel as a service to be provided and supervised exclusively by the OBA: it should be treated as a national

[128] Ibid., t. 339.
[129] Er y cyhoeddiwyd y Papur Gwyn ac adroddiad gweithgor Trevelyan/Littler ar yr un diwrnod, bu'r adroddiad hwnnw ym meddiant y llywodraeth am beth amser cyn ei gyhoeddi, diau felly y bu'n ddylanwad ar eu penderfyniadau.
[130] Home Office, *Broadcasting, Cmnd. 7294* (London: HMSO, 1978), t. 26.

> service for Wales to which all three broadcasting organisations will have an identifiable contribution to make and with the management of which all three broadcasting authorities will need to be associated.[131]

Er mwyn gwireddu'r amcan hon, yr oedd hi'n fwriad gan y llywodraeth i lunio yr hyn a elwid yn *Welsh Language Television Council*, gydag aelodau o BBC Cymru, yr ADA, ITV (sef HTV) a'r OBA yn eistedd arno, gydag aelod yr OBA yn gweithredu fel Cadeirydd.[132] Yr oedd hwn, gellid dadlau, yn gam sylweddol ymlaen i'r ymgyrch, gan ei fod yn cyflwyno corff a fyddai'n goruchwylio darlledu yng Nghymru. Byddai'r Ceidwadwyr yn mabwysiadu y cynllun hwn a'i addasu er mwyn ceisio gwerthu eu syniad hwy o wasanaeth Cymraeg ar ddwy sianel. Ni fabwysiadwyd holl argymhellion Annan felly, ac fe gaed Papur Gwyn a lwyddai i gynnig gobaith ac i siomi'r ymgyrchwyr ar yr un pryd gyda'i gynnwys.

Wrth edrych yn ôl dros gyfraniadau'r pwyllgorau niferus hyn, y mae'n rhaid pwysleisio eu bod i gyd, ac eithrio adroddiad Trevelyan/Littler, wedi argymell cynlluniau a oedd yn bodloni'r ymgyrchwyr yng Nghymru ac wedi nodi pwysigrwydd blaenoriaethu'r gofynion yng Nghymru cyn gweddill Prydain. Ond wedi dweud hynny, nid oedd adroddiadau yr un ohonynt yn ddigon o ysgogiad i lywodraeth y dydd awdurdodi sianel Gymraeg ar fyrder. Yr oeddent, at hynny, wedi gwneud pethau'n anos i'r ymgyrchwyr gan iddynt greu'r argraff fod y llywodraeth yn gwrando ar ddymuniadau'r gymuned Gymraeg, gan ei gwneud hi'n anodd ysgogi pobl i barhau i wrthdystio a mynnu sianel Gymraeg. Er hynny, gellid dadlau eu bod oll wedi cyfrannu at lwyddiant yr ymgyrch trwy sicrhau crediniaeth i nifer o'r gofynion ac i'r trafferthion a wynebai'r iaith Gymraeg yn wyneb diffygion y gwasanaeth teledu Cymraeg.

*Y darlledwyr a'r sianel*

Mae'n anghenrheidiol i unrhyw astudiaeth o wreiddiau S4C groniclo agweddau'r darlledwyr, sef y BBC ac HTV, tuag at fater y bedwaredd sianel, a'r argraff a gafodd y sefydliadau hynny ar yr ymgyrch ac ar farn unigolion dylanwadol o'r llywodraeth, y pwyllgorau, y gweithgorau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Croniclir agwedd y BBC

---

[131] Ibid., t. 25.
[132] Ibid.

yng Nghymru a Chyngor Darlledu Cymru tuag at bob datblygiad a thro yng nghynffon yr ymgyrch yn fanwl iawn yng nghyfrol John Davies. Trafodir yma felly'r prif bwyntiau yn unig er mwyn creu darlun o agweddau y BBC yn y cyfnod.

Agwedd y BBC gydol cyfnod yr ymgyrch i sefydlu sianel Gymraeg bron yn ddi-eithriad oedd cefnogi'r egwyddor o drosglwyddo rhaglenni Cymraeg i un sianel a hynny oherwydd, fel y disgrifia Alwyn Roberts,: 'the BBC was largely influenced by its perception of the difficulty of satisfying any part of its audience by the existing practice of opting out of network schedules to provide a service for its Welsh viewers.'[133] Yr oedd y methiant hwn i ddiwallu anghenion y gynulleidfa yn amlwg iawn i'r gorfforaeth yng Nghymru yn y cyfnod, a hynny oherwydd yr ohebiaeth gyson a dderbyniwyd gan y gynulleidfa Gymraeg a di-Gymraeg. Ysgogai'r patrwm o ddisodli rhaglenni Saesneg am rai Cymraeg deimladau cryfion iawn ymhlith y gynulleidfa, fel y disgrifiodd Alwyn Roberts yn huawdl iawn mewn memorandwm yn edrych yn ôl ar ddadl y bedwaredd sianel:

> It is not easy for those who did not receive this kind of correspondence to believe the rancour and the bitterness which it revealed. It suggested that the question of broadcasting had become a cancer in Welsh life leading not only to the protests and counter protests which marked the period but also to a festering bitterness in the minds of many individuals and for every one who wrote, there were probably a hundred who shared the view and the resentment.[134]

Oherwydd y teimladau cryfion hyn a geid ar ddwy ochr y ddadl, yr oedd yn rhaid i'r BBC fod yn ofalus wrth iddi geisio ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa ddi-Gymraeg. Mewn rhai achosion, ymddengys y bu i'r BBC ddal yn ôl ar ddatblygiadau ar gyfer cynulleidfaoedd cyfrwng Cymraeg a hynny er mwyn osgoi cynddeiriogi'r gynulleidfa ddi-Gymraeg ymhellach. Nododd John Davies, er enghraifft:

---

[133] Alwyn Roberts, 'The BBC and the Welsh Fourth Channel Debate – A Personal Note' (Archif BBC Cymru, Ffeil 3573 – 'S4C 1981–1987'), t. 1.

[134] Ibid., t. 2. Yn anffodus, ymddengys nad yw'r llythyrau hyn gan wylwyr wedi eu cadw gyda'i gilydd yn archif y BBC yng Nghymru ac iddynt, yn hytrach gael eu gwasgaru ar draws y casgliad. Nid tasg hawdd, felly, fyddai canfod y dystiolaeth hon o ymateb y gynulleidfa i'r gwasanaeth yn y 1970au.

> In 1975, the corporation was producing nearly seven hours in Welsh a week; it acknowledged that it had the resources to produce nine hours, but it had refrained from doing so in order to avoid increasing the antagonism of the English-speaking Welsh.[135]

Gellir gweld, felly, nad lles y Gymraeg oedd unig ystyriaeth y BBC wrth roi ei chefnogaeth i'r ymgyrch dros bedwaredd sianel a fyddai'n gwasanaethu'r Cymry Cymraeg. At hynny, yr oedd trosglwyddo'r rhaglenni Cymraeg i sianel newydd yn fantais fawr i'r gorfforaeth gan y byddai'n ei galluogi i ail lansio BBC1 yng Nghymru fel sianel ar gyfer Cymry di-Gymraeg a hynny er mwyn denu'r miloedd o wylwyr yn ne ddwyrain Cymru yn enwedig a oedd â'u herialau'n derbyn darllediadau de orllewin Lloegr o orsaf drosglwyddo Mendip.[136]

Er mynegi cefnogaeth ddiysgog i sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg, nid oedd y BBC yn cefnogi galwadau'r ymgyrchwyr air am air. Nid oedd y BBC, er enghraifft, o blaid sefydlu corfforaeth ddarlledu ar wahân ar gyfer Cymru, gan wireddu syniad a oedd wedi bod yn rhan o'r ymgyrch ddarlledu yng Nghymru ers dyddiau radio. Un o'r prif resymau dros y gwrthwynebiad i gorfforaeth neu awdurdod darlledu annibynnol i Gymru oedd y posibiliad o ddatganoli a sefydlu Cynulliad yng Nghymru. Y rhesymeg y tu ôl i'r dadleuon hyn, ac fe welwyd yr un teimladau'n cael eu mynegi yn Yr Alban, oedd y pryder y byddai'r pleidiau a fyddai mewn grym yn ceisio dylanwadu ar y system ddarlledu. At hynny, gan fod gwleidyddiaeth yn Yr Alban a Chymru'n cael ei ddominyddu gan y Blaid Lafur, yr oedd posibilrwydd gwirioneddol, ym marn rhai y byddai un blaid wleidyddol yn llwyddo i ddylanwadu ar a rheoli'r cyfryngau ynghyd â'r systemau llywodraethol newydd yn y gwledydd hynny.[137] Bu cefnogaeth y BBC i'r bedwaredd sianel yn gyson yn y cyfnod hwn, ond rhaid gochel rhag rhoi'r argraff mai er budd y Gymraeg yn unig y lluniwyd y polisi hwnnw, ac mai penderfyniad pragmataidd ydoedd er mwyn ceisio tawelu teimladau tanllyd rhai gwylwyr.

---

[135] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 327.
[136] Ibid., t. 325–6. Ond nid oedd pob aelod o dîm rheoli BBC Cymru yn cytuno gyda'r syniad o drosglwyddo rhaglenni Cymraeg i sianel newydd. Un o'r enwau mwyaf adnabyddus i dynnu'n groes i bolisi'r gorfforaeth oedd Gareth Price, a oedd yn y cyfnod yn ddirprwy bennaeth rhaglenni. Nid yn gyhoeddus y mynegodd Gareth Price y farn hon, ond mewn cyfarfod preifat, ond fe wnaed ei sylwadau yn gyhoeddus mewn erthygl ym mhapur newydd *The Guardian*.
[137] Ibid., tt. 333–4.

Gellid disgrifio agwedd HTV tuag at greu pedwaredd sianel ar gyfer y Gymraeg, ar y llaw arall, fel un a oedd yn mynd yn erbyn prif ffrwd barn gyhoeddus y cyfnod. O ystyried systemau rheoli a hierarchaeth rhwydwaith ITV gellid honni i agweddau yr Awdurdod Darlledu Annibynnol ddylanwadu ar safbwyntiau a fynegwyd yn gyhoeddus gan HTV.[138] At hynny, yr oedd agweddau cwmnïau eraill rhwydwaith ITV, a gynrychiolid yn gyhoeddus gan yr Independent Television Companies Association (ITCA), yn sicr o bwyso ac effeithio ar yr agwedd a luniwyd gan HTV, heb anghofio'r safbwyntiau gwahanol a fyddai'n sicr o fod ymhlith aelodau Bwrdd Cymreig y cwmni. Yr oedd y dylanwadau hyn yn llunio a siapio'r farn a fynegai'r cwmni yn gyhoeddus ac yn creu delwedd, yn y pendraw, o'r cwmni ym meddyliau'r cyhoedd fel un a oedd yn erbyn ffurfio sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg ar y bedwaredd sianel.

Wrth ystyried agweddau'r cwmni tuag at berchenogaeth y bedwaredd sianel, mae'n rhaid cymryd cam yn ôl ac ystyried canlyniadau Adroddiad Pilkington ym 1962.[139] Un o ganlyniadau amlycaf argymhellion y pwyllgor hwnnw oedd y byddai'r BBC yn derbyn ail sianel er mwyn darlledu ei rhaglenni. Yr oedd beirniadaeth hallt yr adroddiad hwnnw ar rwydwaith ITV, a'r ffaith fod y BBC wedi llwyddo i 'ennill' sianel ychwanegol, yn dân ar groen cwmnïau rhwydwaith ITV a theimlid fod y BBC wedi derbyn ffafriaeth gan y llywodraeth. Pan ddaeth hi'n gyfnod trafod ychwanegu pedwaredd sianel at y rhwydwaith yn ystod y 1970au, credai cwmnïau'r rhwydwaith mai dyma eu cyfle i fod ar yr un tir â'r BBC. Diau hefyd y bu'r posibiliad o dderbyn sianel newydd y gellid gwerthu gofod hysbysebu arni yn abwyd rhy flasus i'w anwybyddu i'r pymtheg cwmni masnachol hwn o dan faner ITV. Gellid awgrymu i gwmnïau ITV ystyried rhoi sianel ychwanegol i gyfundrefn gyhoeddus fel cam ffôl, pan ellid manteisio'n fasnachol ar yr adnodd prin iawn hwn er budd eu cyfranddalwyr. Pan gyhoeddwyd, felly, y byddai'r llywodraeth yn awdurdodi pedwaredd sianel yr oedd y cwmnïau annibynnol, gan gynnwys HTV, yn gweld

---

138 Byddai agwedd pwyllgor canolog yr Awdurdod wedi cael llawer mwy o ddylanwad ar HTV na'r Pwyllgor Cymreig, a hynny gan bod tystiolaeth yn nghofnodion Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Teledu Annibynnol o rwystredigaeth yr aelodau gan nad oedd HTV yn cymryd sylw o'u hargymhellion. Enghraifft amlwg o'r tensiwn hwn oedd amharodrwydd HTV i ddarlledu'r holl raglenni Cymraeg a ddarlledwyd ar VHF ar wasanaeth newydd UHF a hynny wedi argymhelliad ffurfiol i'r perwyl hwnnw gan y Pwyllgor Cymreig. Casgliad Personol Jamie Medhurst (CPJM), Papurau ATA, *Minutes of the Fifty-Ninth Meeting of the Welsh Committee*, 23 Gorffennaf 1971, t. 4.

139 *Report of the Committee on Broadcasting 1960, Cmnd.1753* (London: HMSO, 1962).

hynny fel cyfle i wneud yn iawn am yr annhegwch a oedd yn bodoli o fewn system ddarlledu y Deyrnas Unedig.

Nid yw'n syndod nodi nad oedd y BBC yn cydweld â'r farn gyffredin a geid o fewn y rhwydwaith ddarlledu annibynnol. Ym marn y BBC yr oedd y ffaith fod ganddi ddwy sianel yn sicrhau fod cydbwysedd o fewn y system ac nid anghydbwysedd fel y tystiai'r cwmnïau annibynnol. Mewn memorandwm at Weinidog Post a Thelathrebu'r Llywodraeth, Syr John Eden, ym mis Gorffennaf 1973, dadleuodd y Gorfforaeth fod dwy sianel y BBC yn golygu bod modd iddi gystadlu am y gynulleidfa a darparu, yn ôl gofynion ar ddarlledwr cyhoeddus, ar gyfer cynulleidfaoedd lleiafrifol: 'The present balance protects the programme standards of all three services and makes it possible for minority audiences as well as majority audiences to be served in their schedules.'[140] Aeth y Gorfforaeth ymhellach trwy nodi y byddai ffurfio ITV2 ar y bedwaredd sianel yn dinistrio'r cydbwysedd angenrheidiol o fewn system ddarlledu y Deyrnas Unedig gan y byddai'n gorfodi'r BBC, unwaith yn rhagor, i gystadlu gydag ITV trwy gynhyrchu rhaglenni poblogaidd a gosod rhaglenni lleiafrifol ym mhellafoedd yr amserlen ddarlledu.[141]

Gwrthwynebwyd yr agwedd hon yn llwyr gan rwydwaith ITV yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ITCA gerbron Pwyllgor Annan. Nodwyd y ceid ymysg eu staff gynhyrchwyr talentog a oedd yn awyddus i ehangu natur y rhaglenni yr oeddent yn eu cynhyrchu a hynny er mwyn cynnig darpariaeth fwy cynhwysfawr.[142] At hynny, nodwyd awydd y cwmnïau annibynnol i ymestyn y rhaglenni a oedd ar gael i leiafrifoedd, gan ateb y galwadau a wnaed yng ngweddill y Deyrnas Unedig am y defnydd y dylid ei wneud o'r bedwaredd sianel. Er yr honiadau clodwiw hyn, y rhaglenni a oedd gan gwmnïau ITV mewn golwg oedd rhaglenni a fyddai'n ymdrin â

---

[140] LLGC, Casgliad Alun Llywelyn Williams, *BBC Memorandum to the Minister of Posts and Telecommunications – July 1973*, t. 4.

[141] Yn y blynyddoedd rhwng dyfodiad ITV a sefydlu BBC2 bu'r Gorfforaeth, o dan arweiniad Syr Hugh Greene, yn darlledu rhaglenni mwy poblogaidd eu naws er mwyn cystadlu am gynulleidfaoedd gyda'r sianel newydd. Er bod y gystadleuaeth wedi bod yn fuddiol i raglenni'r BBC, nodwyd '. . . the process narrowed the range of programmes which could be attempted.'; Ibid., t. 5.

[142] *Report of the Committee on the Future of Broadcasting, Cmnd.6753*, t. 155. Ategwyd hynny gan Brian Tesler, Rheolwr-Gyfarwyddwr London Weekend Television, mewn seminar i drafod Channel 4 ym 1994. Datganodd mai'r rheswm y deisyfai cwmnïau ITV sianel ychwanegol oedd er mwyn manteisio ar y syniadau di-rif a gynigiai eu staff i'w penaethiaid na ellid eu defnyddio gan nad oeddent yn ddigon masnachol. Peter Catterall (gol.), *The Making of Channel 4* (London, 1999), tt. 89–90.

diddordebau lleiafrifol mewn cerddoriaeth, arlunio, llyfrau, golff a materion diwydiannol, yn hytrach na rhaglenni ar gyfer carfannau o'r gynulleidfa nad oedd yn derbyn unrhyw ddarpariaeth, megis lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned hoyw.[143] Er gwaethaf y camsyniad hwn dros natur y gair 'lleiafrif', mae agwedd y cwmnïau masnachol i'w gweld yn amlwg yn y datganiad hwn: 'ITV today takes the field against the BBC with one arm tied behind its back.'[144]

Yn ogystal â rhannu pryderon gweddill rhwydwaith ITV, credai HTV fod rhesymau ychwanegol dros pam fod defnydd o'r bedwaredd sianel yn bwysig i'r cwmni wrth ddarlledu yng Nghymru. Gwelwyd cyfle i ddenu gwylwyr yn ôl oddi wrth y cwmnïau eraill a oedd yn tresbasu ar diriogaeth y darlledwr, megis Granada yng ngogledd ddwyrain Cymru, a hynny trwy symud y cynnwys Cymraeg oddi ar brif sianel ITV a'i osod ar y sianel newydd. Yr oedd y cynllun hwn, mewn egwyddor, yn sicrhau nad oedd tarfu ar y ddarpariaeth Saesneg a gaed ar gyfer y Cymry di-Gymraeg ar HTV Wales. Er mwyn gwthio'r ddadl hon byddai HTV yn honni mai y cynlluniau hyn oedd y rhai gorau i Gymru ac i'r Gymraeg, gan fabwysiadu dadl y geto a pheryglon gosod rhaglenni Cymraeg ar un sianel. Pwysleisiwyd hefyd bod yn rhaid edrych y tu hwnt i'r boddhad parod a ddeuai o ddiddymu rhaglenni Cymraeg oddi ar y sianeli a fodolai eisoes. Dadleuwyd y dylid ystyried y byddai'r bedwaredd sianel, ymhen hir a hwyr, yn cael ei lansio ledled Prydain gyda rhaglenni Saesneg a fyddai'n sicr o apelio at rai carfannau yng Nghymru, ac na fyddai'r rhaglenni hynny ar gael i'w gwylio oherwydd y rhaglenni Cymraeg a grynhowyd yno. Meddai yr Arglwydd Harlech, Cadeirydd cwmni HTV:

> It would also be the best solution for Wales (rhoi'r 4ydd [sic] Sianel i'r I.B.A.). The alternative solution rising out of the Crawford Committee would mean confining Welsh exclusively to a single channel of its own with damaging consequences for the language while at the same time depriving the English-speaking Welsh of a service which at some state would be available to the whole of the rest of the U.K. I cannot think that this result would promote social harmony in the Principality.[145]

---

[143] Ibid.
[144] Ibid.
[145] Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?*, t. 62.

Yn wir, nid aelodau di-Gymraeg a Saesneg y cwmni yn unig oedd yn arddel y farn hon, yr oedd nifer o Gymry blaenllaw ar fwrdd Cymreig HTV yn argyhoeddedig mai egwyddor dwy sianel oedd yr ateb gorau ar gyfer yr iaith Gymraeg. Ar y bwrdd ceid unigolion megis Y Fonesig Amy Parry Williams, Syr Alun Talfan Davies ac Alun Llywelyn Williams ac eraill a oedd yn eu ffyrdd eu hunain wedi cyfrannu tuag at fywyd Cymreig mewn amryfal ffyrdd. Ond fel y tystia Geraint Talfan Davies: '. . . HTV found itself out of step with prevailing opinion.'[146] Yr oedd HTV hyd yn oed yn mynd yn erbyn barn Pwyllgor Cymreig yr ADA a fu'n cefnogi'r syniad o un sianel Gymraeg gan anghytuno a thynnu'n groes ag agwedd prif bwyllgor yr Awdurdod am y rhan helaeth o'r 1970au a oedd o'r un farn â chwmnïau rhwydwaith ITV.[147] Er yr holl aelodau Cymreig blaenllaw a geid ar fwrdd HTV gellid awgrymu fod rhai carfannau o'r Cymry yn gweld HTV fel cwmni Seisnig oherwydd y cysylltiadau cryf gyda Gorllewin Lloegr, ac fe ellid awgrymu bod agwedd rhai o aelodau staff mwyaf blaenllaw y cwmni, megis Ron Wordley, y Prif Weithredwr, yn rhwystro'r cwmni rhag ymddangos yn Gymreig i'r carn, fel yr awgryma Geraint Talfan Davies wrth ddisgrifio'r Pennaeth fel a ganlyn: 'On language matters, the Welsh board would teach him the words, but he could never pick up the tune.'[148]

Oherwydd ei bolisi gwelid protestio dwys yn erbyn HTV ac yn erbyn unigolion blaenllaw a oedd yn gysylltiedig â'r cwmni, yn enwedig mewn Eisteddfodau

---

[146] Geraint Talfan Davies, *At Arms Length* (Bridgend, 2008), t. 70.
[147] Mewn gwirionedd bu agwedd Pwyllgor Cymreig yr ADA tuag at grynhoi rhaglenni Cymraeg ar un sianel ar wahân yn simsan gan nad oedd cydsynio ymysg yr aelodau. Darparwyd tystiolaeth i Bwyllgor Crawford ym 1974 gan y Pwyllgor Cymreig yn awgrymu y dylai'r BBC a'r ADA rannu'r bedwaredd sianel er mwyn darlledu rhaglenni Cymraeg. Erbyn trafodaethau Annan ym 1977, yr oedd argyhoeddiad y Pwyllgor Cymreig yn gwegian, gan i'w dystiolaeth nodi ei fwriad i ailystyried ei gefnogaeth os nad oedd y bedwaredd sianel yn cael ei rhyddhau mewn amgylchiadau boddhaol. Un o'r amodau angenrheidiol hynny oedd i'r bedwaredd sianel yng Nghymru ddechrau darlledu dwy os nad tair blynedd ar y blaen i unrhyw bedwaredd sianel yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Wedi ethol y Ceidwadwyr ym 1979, daeth hi'n amlwg i aelodau Pwyllgor Cymreig yr ADA nad oedd modd gwireddu'r amod penodol hwnnw ac bellach yr oedd cynlluniau'r OBA wedi mynd i'r gwellt ac i gorlan yr ADA y deuai'r sianel newydd. Pleidleisiwyd felly yng nghyfarfod 29 Mehefin 1979 dros gefnogi egwyddor o ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar ddwy sianel ar yr amod bod amrywiaeth y rhaglenni Cymraeg yn gwella, bod y rhaglenni yn cael eu darlledu ar amseroedd addas i'w cynnwys, bod parhad i drefniadau trafod ar y cyd rhwng y BBC, ADA ac HTV, ymrwymiad i hyrwyddo rhaglenni Cymraeg ar draws y sianeli ac y ceid yr adnoddau a'r buddsoddiad anghenrheidiol i sicrhau llwyddiant gwasanaeth Cymraeg ar draws dwy sianel. CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the One Hundred and Thirty First Meeting of the Wales Committee*, 29 Mehefin 1979, tt. 2–5, Swyddfa Gymreig, Llythyr gan Y Fonesig Plowden at William Whitelaw, 6 Gorffennaf 1979, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig).
[148] Ibid., t. 65.

Cenedlaethol, megis Dyffryn Lliw ym 1980, pan ddinistriwyd stondin y darlledwr.[149] Awgryma Huw Davies, Pennaeth Rhaglenni HTV yn y cyfnod, y ceid uniongrededd anghredadwy ymysg y gymdeithas Gymreig ar y mater hwn, ac y ceid ymateb ffyrnig yn erbyn unrhyw un a awgrymai fod cynlluniau eraill yn bodoli y gellid eu hystyried. Golygai hyn ei bod hi bron yn amhosibl cael trafodaeth gyhoeddus aeddfed a chall ar y mater. Meddai:

> Ma'n rhaid cael dadl, odd na ddim dadl go iawn dwi ddim yn meddwl yn y cyfnod. Mi gafodd y peth ei fygu yn llwyr . . . odd fiw i neb ddeud gair yn erbyn . . .[150]

Mewn gwirionedd, gellid disgrifio agwedd HTV yn y cyfnod fel un gyfnewidiol, neu, efallai'n agosach at y gwir, fel un fanteisgar. Prif agwedd y cwmni yn ystod y cyfnod oedd y dylai rhaglenni Cymraeg ymddangos ar ddwy sianel yn unig, ond, yn dilyn cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau Crawford, Siberry ac Annan, rhoes HTV yr agweddau hyn o'r neilltu er mwyn dilyn y llwybrau newydd a argymhellwyd sef gosod rhaglenni Cymraeg ar sianel ar wahân. Ond, gellid dadlau, oherwydd yr holl oedi a welid rhwng cyhoeddi argymhellion y pwyllgorau a gweithredu'r argymhellion hyn, rhoddwyd llygedyn o obaith i HTV a rhwydwaith ITV y gallai'r farn swyddogol newid, ac y gellid gwireddu ITV2 wedi'r cyfan. Yn yr achosion hynny gwelwyd HTV yn atgyfodi'r safbwynt mai rhannu rhaglenni Cymraeg dros ddwy sianel fyddai'r ateb gorau i Gymru. Ategwyd hyn mewn pamffledyn a gyhoeddwyd gan HTV ym 1979 yn esbonio safbwynt y cwmni ar y bedwaredd sianel gan ystyried y camau nesaf ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg:

> Y mae awgrymiadau'r Llywodraeth mewn cytgord a (sic) barn HTV Cymru, barn a fu'n rhan o bolisi'r cwmni er dechrau'r trafodaethau ar y bedwaredd sianel, er ei bod hi'n wir i ddweud fod HTV yn barod fel y dylem fod, i gydweithio i weithredu cynlluniau y Llywodraeth flaenorol sef trosglwyddo holl raglenni Cymraeg HTV a'r BBC ar un sianel. Er dweud hyn ni chredodd y cwmni erioed mai dyma fyddai'r dull gorau o weithredu. Nid yw HTV wedi "newid ei feddwl" ynglŷn â'r mater.[151]

---

[149] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 440.
[150] Cyfweliad yr awdur gyda Huw H. Davies, Penarth, 21 Gorffennaf 2008.
[151] HTV Cymru, *Y Bedwaredd Sianel yng Nghymru* (Llandysul, 1979), t. 18.

O ddadansoddi ymddygiad a datganiadau HTV yn ystod y cyfnod hwn, gellid awgrymu mai bod yn bragmataidd yr oedd HTV wrth ymateb i ddatblygiadau yn hynt y bedwaredd sianel. Bu i'r cwmni wthio ei syniadau ef pan yr oedd cil y drws yn agored, ond gan yna dderbyn bod yn rhaid gweithio o fewn y gyfundrefn y penderfynai llywodraeth y dydd arni er mwyn parhau i fod yn rhan o unrhyw fanteision a geid mewn darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma agwedd ac ymddygiad disgwyliedig a chwbl dderbyniol gan unrhyw gwmni masnachol wrth iddo ymaddasu ei gynlluniau i amgylchiadau'r diwydiant. Petai swyddogion a Bwrdd Cymreig HTV wedi derbyn y dadleuon dros un sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg yn ddi-gwestiwn, a hynny pan yr oedd cyfle i geisio sicrhau'r bedwaredd sianel at ddefnydd ITV, byddai'r cwmni wedi anwybyddu ei gyfrifoldebau i'w gyfranddalwyr a'i gyd-gwmnïau o fewn rhwydwaith ITV. Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau masnachol hyn o fanteisio ar newidiadau yn amgylchiadau'r diwydiant, yr oedd hi'n amlwg bod amheuaeth sylweddol hefyd am yr egwyddor o sefydlu sianel ar wahân am resymau y tu hwnt i fasnach ac elw. Fe welwyd felly fynegi agweddau cwbl wahanol gan y ddau ddarlledwr yng Nghymru ar fater y bedwaredd sianel. Byddai'r agweddau hyn yn llywio ac yn dylanwadu'r berthynas a ffurfiwyd rhwng y darlledwyr hyn a'r sianel yn dilyn ei sefydlu ym 1981, ac wrth iddynt geisio cydweithio a chytuno ar delerau cynhyrchu.

Yn ystod y 1970au ceid dau ddatblygiad pwysig a fu'n fodd mewn gwirionedd o baratoi'r ffordd ar gyfer sianel ar wahan ar gyfer y Gymraeg. Yn gyntaf sefydlwyd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales ar ddiwedd y 1970au ac, yn ail, ymestynnwyd y ddarpariaeth ar y teledu ar gyfer plant yn y Gymraeg. Y datblygiad mwyaf arwyddocaol, o ystyried dichonolrwydd sianel Gymraeg, oedd sefydlu Radio Cymru.[152] Cefnogwyd y syniad o greu gwasanaethau radio Cymraeg a Saesneg ar wahân i Gymru gan Bwyllgor Crawford yn ôl ym 1974, ond bu rhaid aros tan ddiwedd y degawd, cyn i'r gwasanaeth gael ei lansio'n ffurfiol ym 1979.[153] Diffyg

[152] Fe geir trafodaeth fanwl o ddatblygiadau Radio Cymru a Radio Wales yng nghyfrol John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 345–54. Yn ogystal fe geir cofnod o atgofion Teleri Bevan o gyfnod sefydlu'r ddau wasanaeth yn ei chofiant, *Years on the Air – Living with the BBC* (Talybont, 2004), tt. 96–154.

[153] Rhestrwyd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales fel gwasanaethau ar wahân yn y *Radio Times* o 1 Ionawr 1977 ymlaen, ond ni chafwyd gwasanaeth llawn gan yr un ohonynt oherwydd bod eu gwasanaeth yn parhau i ddarlledu fel eithriad rhanbarthol i Radio 4. At hynny, ni benodwyd golygyddion ar gyfer y gwasanaethau newydd tan fis Ebrill 1978; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 346–7.

arian a thrafferthion technolegol oedd wrth wraidd yr oedi, a hynny gan fod y gwasanaeth Cymraeg yn eithriad rhanbarthol i'r gwasanaeth cenedlaethol a ddarparwyd gan Radio 4.[154] Pan benderfynwyd trosglwyddo darllediadau Radio 4 i donfedd arall ym mis Tachwedd 1978, er hynny, fe alluogwyd ymestyn gwasanaeth Radio Cymru a Radio Wales.[155] Lansiwyd gwasanaeth Radio Wales yn gyntaf gan greu gwasanaeth fyddai'n llwyddo, er gwaethaf rhai trafferthion cychwynol, i roi llais i gynulleidfa helaeth o Gymry di-Gymraeg, fel y noda Teleri Bevan: 'The disenfranchised majority would no longer to [sic] be known as the Anglo-Welsh, they were Welsh.'[156] Cafwyd ymateb ffafriol hefyd i wasanaeth Radio Cymru gyda rhaglenni cyflwynwyr megis Hywel Gwynfryn a Sulwyn Thomas yn boblogaidd gyda'r gynulleidfa.[157] Ar ddechrau eu cyfnod darlledu, yn dilyn arolwg a wnaed yn Nhalybont, Ceredigion, cafwyd awgrym fod ffigurau gwrando rhaglenni Cymraeg yn is o 30 y cant ar ôl dechrau'r gyfundrefn newydd.[158] Ond ar ôl ymgyrch hyrwyddo gan y BBC cynyddodd y ffigurau hynny wrth i fwy o'r gynulleidfa brynu setiau a oedd yn derbyn tonfedd FM.[159]

Mae pwysigrwydd sefydlu Radio Cymru i ymgyrch y bedwaredd sianel yn ddiamheuol, gan y dangosodd ei bodolaeth a'i llwyddiant y gallai sianel Gymraeg ar wahân lwyddo. At hynny, yr oedd bodolaeth Radio Wales yn dangos bod modd darparu ar gyfer dwy garfan ieithyddol Cymru yn llwyddiannus a hynny ar gyllideb a oedd yn llai na'r hyn a dderbyniai Yr Alban er mwyn darparu un gwasanaeth rhanbarthol.[160] Un o gyfraniadau ehangach BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales i'r tirlun darlledu yng Nghymru oedd iddynt ddod â darlledu yn agosach at drigolion y wlad, yn gorfforol, trwy'r ffaith nad oedd bron unrhyw un yng Nghymru yn byw fwy na deg milltir ar hugain oddi wrth un o feicroffonau'r gorfforaeth,[161] ac yn thematig trwy'r math o raglenni a gynhyrchwyd ganddynt. Rhoes y rhaglenni lais i'r

[154] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 345–51.
[155] Ibid., t. 346.
[156] Bevan, *Years on the Air*, t. 135.
[157] Yn anffodus nid oes ffigurau gwrando ar gael o'r cyfnod hwn er mwyn dangos a oedd y rhaglenni hyn yn boblogaidd a'i peidio.
[158] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 351.
[159] Ibid., t. 351.
[160] Bevan, *Years on the Air*, t. 152.
[161] Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 352.

gwrandawyr trwy eu gwahodd i ymateb i'r trafodaethau a sgwrsio â'r cyflwynwyr ar yr awyr.[162]

Yn ychwanegol at y datblygiadau cyffrous ym myd radio, yn ystod y 1970au cafwyd cynnydd yn y ddarpariaeth rhaglenni teledu i blant. Er hynny, yr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth ar gyfer plant drwy'r Saesneg a'r ddarpariaeth Gymraeg yn nodedig. Erbyn y 1970au yr oedd y mater hwn wedi datblygu'n destun canolog yn y frwydr dros sianel Gymraeg ac ystyriai pwyllgor gwaith Trevelyan/Littler bod y mater hwn wedi tyfu mewn pwysigrwydd. Erbyn 1977, dyma, yn hytrach na sianel Gymraeg, oedd prif flaenoriaeth yr ymgyrch, fel yr amlinellodd John Davies: 'the views of Welsh-speakers place less emphasis than hitherto on the need to transfer all Welsh-language programmes to a single channel, and are now directed more to the need to increase without delay the amount of children's programmes in Welsh.'[163] Ffurfiwyd ymgyrch 'Rhaglenni i'n Plant' yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a anerchwyd gan Dafydd Elis-Thomas A.S. yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam ym 1977. Cefnogwyd yr ymgyrch gan sefydliadau megis Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) a Chymdeithas yr Iaith.[164] Prif fwriad yr ymgyrch oedd ceisio sicrhau dwy awr o ddarlledu Cymraeg ar gyfer plant rhwng 4 a 6 yr hwyr rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gan sicrhau cynnydd o chwe awr yr wythnos gan mai dim ond pedair awr a ddarlledwyd ar ddechrau'r ymgyrch.[165] Er mwyn ceisio gwireddu'r amcan hwn, trefnwyd cynhadledd gan Urdd Gobaith Cymru, yn Aberystwyth ym mis Rhagfyr 1977 lle pasiwyd cynnig a alwai ar y llywodraeth i sicrhau yn ddi-oed gyllid digonol:

> . . . to enable the broadcasting authorities in Wales to increase the number and safeguard the standard of television programmes for the children and young people of Wales as a first step towards establishing a full Welsh language service on the Fourth Channel.[166]

---

[162] Ceir trafodaethau pellach ar ddatblygiadau Radio Cymru yn y cyfrolau canlynol, Bevan, *Years on the Air*; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*; Hywel Gwynfryn, *Y dyn 'i hun* (Caernarfon, 2004); John Roberts Williams, *Yr eiddoch yn gywir: atgofion* (Penygroes, 1990).
[163] Ibid., t. 337.
[164] Dienw, 'Language bodies call for more Welsh TV', *Western Mail*, 15 Medi 1977, t. 11.
[165] Ibid.
[166] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the 119th Meeting of the Welsh Committee*, 6 Ionawr 1978, t. 4.

Lobïwyd yr Ysgrifennydd Cartref, Merlyn Rees, a'r sefydliadau darlledu yng Nghymru gan 'Rhaglenni i'n Plant' ac unigolion megis Dafydd Elis-Thomas, A.S., Geraint Howells, A.S. a Tom Ellis, A.S. Er i'r Swyddfa Gartref ddangos brwdfrydedd tuag at y cynllun a thuag at ei ariannu, mynegwyd amheuon gan y darlledwyr, gyda Llywodraethwyr y BBC yn pryderu am dderbyn arian yn uniongyrchol gan y llywodraeth, ac effaith hynny ar annibyniaeth y Gorfforaeth.[167] Canlyniad yr ymgyrch hon oedd cynnig grant gan y llywodraeth i'r BBC, a sicrhau gostyngiad yn y dreth a dalai HTV i'r ADA er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer plant ar y ddwy sianel. Yn dilyn y buddsoddiad hwn ychwanegwyd awr a hanner o raglenni Cymraeg i blant bob wythnos ar HTV gyda *Ffalabalam*, *Goglis* a *Sêr*, a darlledwyd awr yn fwy o raglenni Cymraeg i blant ar y BBC gyda dyfodiad *Yr Awr Fawr*.[168] Bu'r datblygiadau ym myd rhaglenni plant a'r ffaith y perswadiwyd y llywodraeth i roi cymhorthdal i'r ddarpariaeth yn gam mawr ymlaen yn y frwydr i sefydlu sianel Gymraeg ar wahân. Bu yn gam a roes gydnabyddiaeth i'r ddadl bod gwylio rhaglenni Saesneg yn cael dylanwad ar ddefnydd unigolion, yn enwedig plant, o'r iaith honno, a hynny ar draul y Gymraeg. Bu'n fodd hefyd, fel y nodwyd gan Ifan Gwynfil Evans, o ddangos pa mor ddeinamig a llwyddiannus y gallai ymgyrch dros gynyddu darlledu Cymraeg fod pan ganolbwyntiwyd ar un maes ag iddo gonsensws barn a lle gosodwyd targedau cyraeddadwy.[169] Ond yn yr ymgyrch ehangach, i sicrhau sianel Gymraeg ar wahân, er y bu cydsynio rhyfeddol ar draws y sbectrwm gwleidyddol am gyfnod byr, ni fu'r ymgyrch yr un mor uniongyrchol nac yr un mor chwim.

*Gwleidyddiaeth brwydr y bedwaredd sianel*

Yn ystod ymgyrchoedd etholiadol 1979 ceid cydsynio rhyfeddol yn ystod yr ymgyrchu etholiadol. Cofnododd pob plaid wleidyddol yn eu maniffestos Cymreig eu bwriad o fynd ati i sicrhau y byddai rhaglenni Cymraeg yn cael eu gosod ar y bedwaredd sianel, pe caent eu hethol. Datganodd y Blaid Lafur yn ddiysgog ei fwriad o gyflwyno'r bedwaredd sianel i Gymru er mwyn sicrhau rhagor o ddewis i ddiwallu

[167] Clive Betts, 'More cash on way for children's TV programmes', *Western Mail*, 19 Tachwedd 1977, t. 7. O glywed y safbwynt hwn gan Lywodraethwyr y BBC, penderfynodd Glyn Tegai Hughes fygwth ymddiswyddo petai aelodau'r Cyngor Darlledu yn gwrthod newid eu meddyliau. Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 337.
[168] Betts, 'More cash on way for children's TV programmes', 19 Tachwedd 1977, t. 7
[169] Casgliad personol yr awdur, Ifan Gwynfil Evans, Traethawd PhD anghyflawn ac anghyhoeddedig, Pennod 4, t. 18.

anghenion cenedl ddwyieithog.[170] Yr oedd datganiad y Blaid Ryddfrydol yn fwy amwys gan iddynt gyhoeddi eu bod yn mynnu: '. . . sefydlu ar unwaith wasanaeth teledu yn yr iaith Gymraeg yn bennaf ar y bedwaredd sianel deledu.'[171] Bu peth ansicrwydd, felly, ymysg y Rhyddfrydwyr a ddylid gosod pob rhaglen Gymraeg ar y bedwaredd sianel, gan adael y polisi yn agored i'w addasu. Nododd y blaid Geidwadol yng Nghymru hefyd ei bod yn awyddus i weld rhaglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel mor fuan ac yr oedd hynny'n bosibl. Yn arwyddocaol, o ystyried tro-pedol cyntaf y Ceidwadwyr rai misoedd yn ddiweddarach datganwyd hefyd gred y blaid y gellid: ' . . . gwneud hyn yn rhatach, yn gynt ac o leiaf cyn gyflymed pe bai rhaglenni Cymraeg y BBC ac HTV yn cael eu darlledu ar y bedwaredd sianel . . .'[172] Yr oedd datganiad maniffesto Plaid Cymru, yn wahanol i'r gweddill, yn mynd y tu hwnt i'r egwyddor sylfaenol o osod rhaglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel, gan fynnu sicrhau telerau ffafriol a fyddai yn eu tyb hwy yn arwain at sefydlu sianel lwyddiannus. Meddai: 'Rhaid i'r Sianel Deledu Gymraeg fod yn weithredol o leiaf flwyddyn cyn y dyddiad o 1982 a ragwelwyd gan y Llywodraeth . . . Dylai'r gwasanaeth fod dan reolaeth bwrdd Cymreig annibynnol.'[173]

Er gwaethaf y cytuno ar yr egwyddor sylfaenol, yr oedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng yr hyn a gynigwyd gan y pleidiau. Yr oedd y Ceidwadwyr, er enghraifft, yn awyddus i beidio â sefydlu cyfundrefn ddarlledu newydd gan wrthod syniadaeth yr OBA a argymhellwyd gan Bwyllgor Annan ac a drafodwyd yn y Papur Gwyn ar Ddarlledu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Blaid Lafur ym 1978. Yn hytrach, yr oedd y Ceidwadwyr yn awyddus i gyflwyno'r bedwaredd sianel yn genedlaethol i ofal yr ADA. Yn dilyn buddugoliaeth Maragret Thatcher a'r Blaid Geidwadol yn yr etholiad cyffredinol ar 4 Mai 1979, amlinellwyd cynlluniau'r llywodraeth newydd ar gyfer y bedwaredd sianel gan William Whitelaw, yr Ysgrifennydd Cartref newydd, mewn datganiad yng nghynhadledd y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghaergrawnt ar 12 Medi 1979.[174] Ymysg y datganiadau am natur ariannu'r sianel newydd hon, cyhoeddwyd un eithriad syfrdanol i'r hyn a hyrwyddwyd yn eu maniffesto etholiadol. Cyhoeddwyd y bwriedid cynyddu'r nifer o raglenni Cymraeg

---

[170] S4C, *Teledu yng Nghymru – Y Diwydiant Newydd* (Caerdydd, 1987), t. 3.
[171] Ibid.
[172] Ibid.
[173] Ibid.
[174] Alwyn Roberts, 'Some Political Implications of S4C', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1989) t. 219.

a ddarlledid, ond yn hytrach na'u crynhoi ar un sianel yn unol â'r disgwyl a chyhoeddiadau blaenorol y Ceidwadwyr, y bwriad bellach oedd eu rhannu rhwng sianeli'r BBC a'r ADA. Yn ei gofiant, fe nododd Whitelaw y rhesymeg y tu ôl i'r datganiad hwn:

> My colleagues in Wales did not consider that the proportion of Welsh speakers could justify delivering the whole new channel in the Welsh language. I therefore proposed safeguards in the Bill requiring the IBA to ensure that at least twelve hours a week of programmes broadcast in Wales should be in Welsh. Taken in common with BBC broadcasts, that would mean up to twenty hours of air time in Welsh. Our aim was to foster the further development of the Welsh language, while not consuming so many hours of air time that many good commercially produced English programmes might never be scheduled in Wales.[175]

Ystyriwyd y datganiad hwn gan lawer fel cam mawr yn ôl yn yr ymgyrch ddarlledu, fel y nodwyd gan Alwyn Roberts:

> This was a possibility that had never been seriously canvassed since Crawford's rejection of an IBA proposal on these lines. It implied a worsening of the problems of opting-out and a heightening of the feeling of deprivation. Ironically, the non-Welsh speakers would be the main sufferers and the language would become an even more acute cause of resentment.[176]

Gellir anghytuno â honiad Alwyn Roberts fod y llywodraeth yn atgyfodi syniad a wrthodwyd flynyddoedd ynghynt, a hynny ar sail y ffaith fod rhai atseiniau o adroddiad gweithgor Trevelyan/Littler i'w gweld yn y cynlluniau a fwriedid gan y Ceidwadwyr, megis nifer yr oriau darlledu Cymraeg a argymhellwyd ganddynt. At

---

[175] William Whitelaw, *The Whitelaw Memoirs* (London, 1989), tt. 220–1. Mae'n rhaid nodi yma nad yw'r dystiolaeth a gynigir gan awduron eraill yn cefnogi'r datganiad gan Whitelaw mai ei gyd-weithwyr yng Nghymru oedd yn cael traed oer am sefydlu sianel Gymraeg. Noda Alwyn Roberts ei fod o'r farn mai o'r Swyddfa Gartref y dechreuodd yr amheuon hynny; Roberts, 'Some Political Implications of S4C', t. 224. Mae Rhys Evans hefyd yn awgrymu bod sawl dylanwad ar y penderfyniad terfynol, gan gynnwys y Fonesig Littler, pennaeth adran ddarlledu'r Swyddfa Gartref, a oedd, yn ôl Evans, wedi argyhoeddi Whitelaw 'fod yr anawsterau technegol ynghlwm wrth greu sianel newydd yn rhai anorchfygol'; Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 416. Cyfeiriodd Evans hefyd yr ohebiaeth danllyd a fu rhwng y Swyddfa Gymreig a'r Swyddfa Gartref, sy'n dangos yn sicr nad oedd holl gyd-weithwyr Cymreig Whitelaw yn cytuno ag ef; Ibid., t. 418. Datgelodd Wyn Roberts hefyd yn ei hunangofiant, er iddo gyfaddef ei fod yn gallu gweld manteision yn y cynllun newydd, mai dylanwad gweision sifil megis y Fonesig Littler a '. . . Willie Whitelaw's infinite capacity to vacillate . . .' oedd wrth wraidd y tro-pedol; Rt, Hon. Lord Roberts of Conwy, *Right From the Start – The Memoirs of Sir Wyn Roberts* (Cardiff, 2006), tt. 130–1.

[176] Roberts, 'Some Political Implications of S4C', t. 219.

hynny, er nad oedd y llywodraeth a'i phwyllgorau wedi ystyried y syniad o ddarlledu ar ddwy sianel ers Adroddiad Crawford, yr oedd nifer o unigolion a sefydliadau megis yr ADA a'r ITCA yn parhau i wthio'r cysyniad hwnnw. Mae datganiad Alwyn Roberts, er hynny, yn pwysleisio unwaith yn rhagor anwybodaeth y gwleidyddion Prydeinig o wir natur y broblem ddarlledu yng Nghymru. Tra credai'r Ysgrifennydd Cartref mai rhannu rhaglenni Cymraeg oedd yr ateb gorau, gwyddai'r Cymry mai parhad o'r sefyllfa annerbyniol bresennol a geid trwy hynny, hyd yn oed gyda sianel ychwanegol er mwyn rhannu'r baich. Er bod datganiad Alwyn Roberts yn gywir mai'r Cymry di-Gymraeg fyddai ar eu colled oherwydd y cynnydd yn nifer yr oriau Cymraeg, yn ddi-os byddai'r canlyniadau'n wael hefyd i'r Cymry Cymraeg. Diau y byddai'r dicter y soniodd Alwyn Roberts amdano, ac a fynegwyd i'r darlledwyr yn gryf eisoes gan y gynulleidfa ddi-Gymraeg, yn sicrhau na fyddai hi'n bosibl cynyddu'r nifer o oriau Cymraeg o'r ugain a argymhellwyd gan y Ceidwadwyr. Yr oedd cynllun y llywodraeth yn gwarantu na fyddai modd i'r ddarpariaeth Gymraeg esblygu a thyfu'n wasanaeth cyflawn a ddiwallai angen y gynulleidfa Gymraeg am ddarpariaeth eang a chynhwysfawr. Yr oedd y penderfyniad hwn, felly, yn barhad o'r sefyllfa a fodolai eisoes, gan anwybyddu holl egwyddorion a negeseuon yr ymgyrch ddarlledu i sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg ar y teledu.

Fe ellir hefyd honni mai datganiad Whitelaw oedd yr hwb angenrheidiol yr oedd ei angen ar yr ymgyrch ddarlledu, gan ei bod wedi dioddef o ddiffyg momentwm oherwydd oedi parhaol y llywodraeth yn ystod ail hanner y 1970au. Fel y noda Syr Wyn Roberts: 'We had handed them [Cymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru] a just cause on a plate. We had broken a manifesto promise.'[177] Gellid dadlau bod tro-pedol y Ceidwadwyr wedi ailgynnau fflam anghyfiawnder ymhlith y gweithredwyr, a heb y cyhoeddiad hwnnw y gallai tacteg oedi'r llywodraeth fod wedi claddu'r syniad o sianel Gymraeg mewn trafodaethau hirhoedlog am nifer o flynyddoedd. Llwyddodd datganiad Whitelaw i ennyn ymateb chwyrn gan Gymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru gydag aelodau o'r Gymdeithas yn trafod gweithredoedd torcyfraith mwy eithafol[178] a Phlaid Cymru yn aildanio'r alwad i wrthod talu trwyddedau.[179] Er yr ymdrechion

[177] Lord Roberts of Conwy, *Right From the Start*, t. 131.
[178] Un o'r gweithredoedd amlycaf yn y cyfnod hwn oedd diffodd mast Pencarreg gan Meredydd Evans, Pennar Davies a Ned Thomas, tri o hoelion wyth y gymuned Gymraeg; Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 421; Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?*, tt. 74–84.
[179] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 421; Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?*, tt. 74–84.

hyn, mewn gwirionedd, yr oedd brwydr y sianel yn gwbl ddigyfeiriad.[180] At hynny, troes nifer o ffigurau cyhoeddus a chyn-gefnogwyr yr ymgyrch eu cefnau ar y frwydr i sicrhau sianel ar wahân. Yn ogystal ag unigolion a sefydliadau megis Jennie Eirian Davies ac HTV, a gyhoeddodd bamffledyn yn cefnogi datganiad Whitelaw,[181] bellach ceid sefydliadau megis nifer o gynghorau sir ac unigolion yn cynnwys Tom Ellis, A.S. Llafur Wrecsam, Alun R. Edwards, Llyfrgellydd Dyfed ac Euryn Ogwen Williams, cyn-aelod o staff HTV a oedd bellach yn gynhyrchydd teledu annibynnol, yn mynegi eu cefnogaeth i'r syniad o ddosbarthu rhaglenni Cymraeg dros ddwy sianel.[182]

Ni fu gweithredoedd Cymdeithas yr Iaith na Phlaid Cymru yn ddigon i atal y llywodraeth rhag bwrw ymlaen a'u cynlluniau i ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar ddwy sianel. Cyhoeddwyd y Mesur Darlledu ar 6 Chwefror 1980 ac ynddo ceid fframwaith ar gyfer y bedwaredd sianel. Mewn egwyddor, sianel Brydeinig fyddai'n darlledu rhaglenni Cymraeg cwmni ITV fel eithriadau lleol i'r gwasanaeth cenedlaethol yng Nghymru yn unig fyddai'r bedwaredd sianel. Gwelid cyhoeddi'r mesur hwn fel tystiolaeth bellach o frad y llywodraeth a phatrwm o ddiystyru gofynion a safbwyntiau'r Cymry. Cafwyd datganiadau gan Gymdeithas yr Iaith ei fod yn 'recipe for social conflict'.[183] Yn y Mesur darluniwyd cynllun fyddai, yn ôl gweledigaeth y llywodraeth, yn sicrhau y byddai darllediadau Cymraeg yn cael eu rhannu rhwng dwy sianel, sef un o sianeli'r BBC a sianel newydd yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, sef y bedwaredd sianel.[184]

---

[180] Ibid., tt. 425–6. Fe geir trafodaeth fanwl ar ymdrechion Plaid Cymru a sefydliadau eraill megis Cymdeithas yr Iaith wrth geisio aildanio'r ymgyrch yng nghyfrol Rhys Evans, ac, o'r herwydd, nid eir i fanylder yma; Evans, *Rhag Pob Brad*, tt. 416–30.
[181] HTV Cymru, *Y Bedwaredd Sianel yng Nghymru.*
[182] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 425; Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?*, t. 77.
[183] Tim Jones, 'Broadcasting Bill seen as a betrayal of Welsh Aims', *The Times*, 12 Chwefror 1980, t. 4.
[184] *Broadcasting Bill, 2961, Part II – Provision of Second Television Service by the Authority*(London: HMSO, 1980). Yn ôl y trafodaethau a gafwyd ar lawr y Tŷ Cyffredin gellir dehongli mai ar ail sianel y BBC ac ail sianel yr Awdurdod Darlledu Annibynnol fyddai'r darllediadau Cymraeg yn ymddangos. Byddai'r Gymraeg, felly, yn cael ei gwthio oddi ar y ddwy brif sianel boblogaidd ac yn cael ei rhannu rhwng y ddwy sianel a ystyrid yn lleiafrifol. Awgrymwyd gan Dafydd Wigley ar lawr y Tŷ Cyffredin nad oedd hyn yn dilyn dadl y diweddar Jac L. Williams, gan ei fod mewn egwyddor yn rhoi'r Gymraeg mewn dwy geto; *Hansard*, House of Commons, 24 June 1980, col. 395.

Yn y Mesur hwn gwelwyd, am y tro cyntaf, fwriad y llywodraeth i ddeddfu ar ddarlledu cyfrwng Cymraeg,[185] fodd bynnag, ni cheir unrhyw amcan yn y Mesur Darlledu o nifer y rhaglenni neu oriau Cymraeg y disgwylid i'r sianel newydd hon ddarlledu, gyda'r ymadrodd tila '. . . a suitable proportion of matter in Welsh . . . ' yn ymddangos sawl gwaith yn y ddogfen.[186] Er yr amwysedd, ceir un argymhelliad cadarn yn y Mesur, sef y byddai arian yn cael ei neilltuo er mwyn talu costau ymgynghorydd a fyddai'n cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i rôl fyddai cynghori'r BBC a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol ar faterion amserlennu eu rhaglenni Cymraeg. Er yr argymhelliad clir, fe nodir yn y Mesur y disgwylid i'r costau hynny fod yn fach iawn, sy'n awgrymu nad oedd y mater o'r pwysigrwydd mwyaf yng nghynlluniau'r llywodraeth.[187] Ceid gwrthwynebiad chwyrn i'r cymal hwn o'r Mesur Darlledu o gyfeiriad Dafydd Elis-Thomas yn ystod ail ddarlleniad y Mesur yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Chwefror 1980. Nodwyd ganddo mai 'one-man quango' a geir o dan y Mesur Darlledu, yn hytrach na'r Awdurdod Darlledu y bu'r ymgyrchwyr yn galw amdano, ac y gallai'r ymgynghorydd, ac o ganlyniad y Swyddfa Gartref, ymyrryd mewn materion amserlennu am y tro cyntaf:

> I totally oppose the concept that there should be a person who determines the schedule. It has always been determined by those who make the programmes and by the structures of the broadcasting system, whether the bureaucracy of a commercial company or of the BBC. It has always been the prerogative of those companies to determine scheduling.[188]

Ar ben hynny, ac am reswm mwy ymarferol na'r rhesymau ideolegol dros pam na ddylai un dyn, na'r Swyddfa Gartref, ymyrryd mewn materion amserlennu rhaglenni, holodd yr Aelod Seneddol ar gyfer Meirionnydd a oedd hi'n ddoeth clustnodi'r dasg o benodi unigolyn addas ar gyfer rôl mor bwysig i Ysgrifennydd Cartref. Rhagwelai Dafydd Elis-Thomas na fyddai'r Ysgrifennydd Cartref yn debygol o feddu ar wybodaeth helaeth am faterion Cymreig, ac y gallai'r penodiad hwn fod yn gwbl

---

[185] *Hansard*, House of Commons, 18 February 1980, col. 95.
[186] *Broadcasting Bill, 2961, Part II – Provision of Second Television Service by the Authority*, t. i. Dengys yr ail drafodaeth hon o'r Mesur Darlledu yn Nhŷ'r Cyffredin y nododd William Whitelaw, y byddai nifer yr oriau Cymraeg a ddarlledid gan yr ADA yn cynyddu o 7 awr yr wythnos i 12 awr yr wythnos yn dilyn lansio'r bedwaredd sianel, sef lleiafswm o 3 awr o raglenni Cymraeg bob nos dros ddwy sianel; *Hansard*, House of Commons, 18 February 1980, col. 57, col. 116.
[187] *Broadcasting Bill, 2961, Part II – Provision of Second Television Service by the Authority*, t. iv.
[188] *Hansard*, House of Commons, 18 February 1980, col. 96.

ddibwys ac aneffeithiol os nad ystyrid barn carfannau allweddol, megis Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Awdurdodau Darlledu, wrth ddethol unigolyn.[189]

Yn ogystal, fe geir yn y mesur gymal sy'n nodi y byddai'n ddyletswydd ar y BBC a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol i gwrdd er mwyn trafod eu strategaethau ar gyfer amserlennu rhaglenni Cymraeg:

> **20.**- (1) It shall be the duty of the BBC and the Authority to make arrangements for consultation between them with a view to ensuring that the days of the week on which, and the times of the day at which, television programmes in Welsh are broadcast by them respectively for reception wholly or mainly in Wales are such as will best serve the interests of persons residing in Wales.[190]

Mewn gwirionedd, er nad oedd hynny wedi digwydd ar lefel ffurfiol fel yr awgrymwyd yn y Mesur, yr oedd BBC Cymru ac HTV wedi llwyddo ers sawl blwyddyn i sicrhau nad oedd cyd-daro gormodol rhwng y rhaglenni Cymraeg a ddarlledid ganddynt trwy drafod materion amserlennu.[191] Ar yr olwg gyntaf, mae'r cymal a ddyfynnwyd uchod, yn awgrymu mai sicrhau na fyddai rhaglenni'n cael eu darlledu ar yr un pryd neu ar amseroedd rhy anghyfleus fyddai prif amcan trafodaethau rhwng y darlledwyr. Ond, oherwydd natur amwys y Mesur a'r diffyg manylder a gafwyd ynddi, dadleuodd Dafydd Elis-Thomas y gallai'r Mesur alluogi i holl ddarllediadau Cymraeg y ddau ddarlledwr gael eu trosglwyddo i'r bedwaredd sianel. Cynigiwyd hynny, gan y credid pe gellid dangos mai'r patrwm hwnnw fyddai'n gwasanaethu orau anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd Cymreig, y gellid gwireddu'r Sianel Gymraeg a frwydrwyd amdani.

> If it can be shown that the interests of persons residing in Wales can best be served by a concentration on Service 2, the Government should allow that. The Home Office should not seek to intervene directly. If the buffer-State principle is relevant for the United Kingdom as a whole, the consensus principle must also be acceptable for the structure of broadcasting in Wales.[192]

---

[189] Ibid., t. 97.
[190] *Broadcasting Bill, 2961, A Bill Intitulated,* t. 17.
[191] *Hansard*, House of Commons, 24 June 1980, col. 392.
[192] *Hansard,* House of Commons, 18 February 1980, col. 96.

Er yr amwysedd arwynebol hwn, nad oedd mewn gwirionedd yn rhoi llygedyn o obaith i gefnogwyr cysyniad y bedwaredd sianel, gellir gweld pam nad oedd y Mesur Darlledu hwn yn boblogaidd gyda'r ymgyrchwyr yng Nghymru. Nid oedd ynddo unrhyw fath o ymrwymiad cadarn a oedd yn rhoi darlun clir o'r ffordd y byddai cynulleidfaoedd Cymraeg yn elwa o'r patrwm darlledu newydd a ddarluniwyd yn y Mesur Darlledu nac ychwaith sut y gellid defnyddio'r patrwm newydd er mwyn cynyddu'r nifer o raglenni Cymraeg a ddarlledwyd ar y rhwydweithiau.

Yr oedd y datblygiadau cwbl anfoddhaol hyn a natur ddigyfeiriad yr ymgyrch yn pwyso'n drwm ar gydwybod un dyn yn fwy na neb, Gwynfor Evans, Llywydd Plaid Cymru a chyn-Aelod Seneddol Plaid Cymru yng Nghaerfyrddin. Awgryma Rhys Evans, yn ei gyfrol feistrolgar ar fywyd y gwleidydd, bod gweithred ddifrifol yn fwriad gan Gwynfor ers rai misoedd cyn cyhoeddiad Whitelaw, a hynny er mwyn ailfywiogi'r mudiad cenedlaethol.[193] Profodd yr ymgyrch ddarlledu, felly, yn fachyn cyfleus i Gwynfor Evans ymgymryd â gweithred ddifrifol. Er, fel y dengys llythyr a ysgrifennodd Gwynfor Evans at Dafydd Williams, un o swyddogion Plaid Cymru, yr oedd sicrhau sianel ar wahân yn ail yn ei ystyriaethau:

> Er y byddaf yn anelu at y llywodraeth, pwysicach lawer fydd yr effaith ar y Cymry. Gobeithiaf y gall symbylu'r cenedlaetholwyr i wneud mwy o waith penderfynol, ac y bydd yn rhoi tipyn o haearn yng ngwead y Cymry eraill ac yn cyfeirio eu meddwl. Bydd yr argyfwng diwydiannol yn ogystal â diwylliannol yn y cefndir.[194]

Ympryd fyddai'r weithred honno, hyd farwolaeth, neu hyd y byddai'r llywodraeth yn addo y ceid sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Noda Rhys Evans fod natur y weithred wedi ei hysbrydoli gan lwyddiant gweithredoedd tebyg gan Ghandi, er hynny yr oedd rhai amheuon am foesoldeb y fath weithred.[195] Er ei fod wedi rhannu'r wybodaeth gyda dethol rai ym misoedd cyntaf 1980, ni chyhoeddodd Gwynfor Evans ei fwriad i ymprydio hyd ddechrau mis Mai. Hysbysodd bwyllgor gwaith Plaid Cymru yn gyntaf ar 3 Mai, ac yna rhyddhawyd cyhoeddiad swyddogol

---

[193] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 416.
[194] Ibid., t. 429.
[195] Ceir trafodaeth fanylach o'r amheuon am foesoldeb ymprydio, a sut y gorchfygodd Gwynfor Evans yr amheuon hynny trwy gynnal trafodaethau personol gyda Pennar Davies yng nghyfrol Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 427.

ddeuddydd yn ddiweddarach y byddai'r ympryd yn cychwyn ar 5 Hydref 1980, ar ddechrau'r tymor gwleidyddol newydd.[196]

Cafodd y datganiad effaith uniongyrchol, drannoeth y cyhoeddiad yr oedd Cymdeithas yr Iaith wedi trefnu ers tro y byddai bws yn teithio i Lundain er mwyn gweithredu ar faterion eraill: 'Ychydig iawn o enwau oedd i lawr ar gyfer y bws o Aberystwyth i Lundain, ond y noson gynt, wedi clywed y cyhoeddiad ar y teledu, fe lanwodd y papur o enwau at y bws o fewn awr.'[197] At hynny, bu protestio brwd yn ystod ymweliadau'r Prif Weinidog, Mrs Thatcher, â Chymru, ym Môn ar 18 Gorffennaf ac yn Abertawe ddeuddydd yn ddiweddarach.[198] Cymerodd y protestio dro anfad wrth i ddyfeisiau ffrwydrol gael eu gosod yng nghartref yr Ysgrifennydd Cartref, Nicholas Edwards.[199] Mae'r digwyddiad arswydus hwn yn hanes yr ymgyrch yn dangos pa mor agos oedd y sefyllfa yng Nghymru at ddirywio ymhellach ag efelychu elfennau o'r gweithredu a welwyd yng Ngogledd Iwerddon ac yn adlais o weithgareddau'r Free Wales Army yng Nghymru yn ystod cyfnod yr Arwisgiad.[200]

Ofer fyddai olrhain yn fanwl pob manylyn o'r cyfathrebu a fu rhwng y pleidiau, darlledwyr, gweision sifil, ymgyrchwyr a Gwynfor Evans yn ystod misoedd haf 1980, gan i'r manylion gael eu cofnodi'n gynhwysfawr yng nghyfrol Rhys Evans, hunangofiant Syr Wyn Roberts a darlith Alwyn Roberts i'r Cymmrodorion.[201] Er hynny, y mae'n anghenrheidiol ail ymweld â rhai o brif ddigwyddiadau'r haf tanbaid hwnnw wrth geisio deall sut a pham y penderfynwyd y dylid, wedi'r cyfan, osod rhaglenni Cymraeg ar un sianel.

Daeth ymateb cyhoeddus cyntaf y llywodraeth i ddatganiad Gwynfor Evans ar ffurf consesiwn y gellid adolygu'r patrwm newydd o fewn blwyddyn, gyda'r addewid y

[196] Ibid., tt. 432–4.
[197] Cymdeithas yr Iaith, *S4C – Pwy Dalodd Amdani?*, t. 87.
[198] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 439.
[199] Ibid; Lord Roberts of Conwy, *Right from the Start*, t. 133. Ceir rhywfaint o anghytuno rhwng y ddwy ffynhonnell yma ynglŷn â lleoliad y dyfeisiau ffrwydrol. Noda Evans eu bod wedi eu gosod y tu allan i gartref Nicholas Edwards, tra noda Syr Wyn Roberts i un o'r dyfeisiau gael ei gosod yn ystafell wely ei fab.
[200] Trafodir dylanwad y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon ar yr Ysgrifennydd Cartref yn hwyrach yn y bennod hon.
[201] Evans, *Rhag Pob Brad*, tt. 435–48; Lord Roberts of Conwy, *Right From the Start*, tt. 132–8; Roberts, 'Some Political Implications of S4C', tt. 220–4.

cai ei newid pe bai'r ADA a'r BBC yn eu hadroddiadau yn argymell hynny.[202] Afraid dweud mai gwrthod y consesiwn a wnaeth Gwynfor Evans. Wythnosau yn ddiweddarach, ar ddechrau Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod brys,[203] yn y Swyddfa Gartref rhwng yr Aelodau Seneddol William Whitelaw, Nicholas Edwards, Leon Brittan, Wyn Roberts, Cadeirydd y BBC Syr Michael Swann a Chyfarwyddwyr Cyffredinol y Gorfforaeth Ian Threthowan, Cadeirydd yr ADA, Y Fonesig Bridget Plowden, a Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Awdurdod, Syr Brian Young, Alwyn Roberts (yn ei rôl fel Cadeirydd Cyngor Darlledu'r BBC yng Nghymru), Huw Morris-Jones (cynrychiolydd Cymreig yr ADA) a Glyn Tegai Hughes, a benodwyd fel Aelod Cymreig i Fwrdd Rheoli y Channel 4 newydd, er mwyn trafod sut y gellid datrys y broblem ddarlledu yng Nghymru.[204] Yn y cyfarfod hwnnw, yr oedd yn glir bod y llywodraeth yn pryderu am safiad Gwynfor, gan i William Whitelaw ddatgan ei fod yn llwyr ymwybodol y gallai Gwynfor wrthod unrhyw gyfaddawd newydd ganddynt, ond er hynny, yr oedd yn argyhoeddedig bod rheidrwydd arno i ildio rhagor o dir.[205] Penderfynodd y Swyddfa Gartref gynnig y dylid ffurfio Pwyllgor Cydlynu, gyda chynrychiolaeth o'r BBC a'r IBA, er mwyn gwarchod buddiannau rhaglenni Cymraeg o fewn y ddwy gyfundrefn a sicrhau gwasanaeth cynhwysfawr.[206]

---

[202] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 437; Lord Roberts of Conwy, *Right From the Start*, t. 132. Mae'n annhebygol y byddai'r consesiwn hwn wedi arwain at gyflwyno sianel Gymraeg ar ôl blwyddyn a hynny oherwydd safbwyntiau cadarn y ddwy gyfundrefn ar egwyddor darlledu Cymraeg gydol yr ymgyrch. At hynny, byddai ymron yn amhosibl gweddnewid patrwm darlledu unwaith iddo sefydlu ei hun, fel y cyhoeddwyd yn *Y Cymro,* "Erbyn 1984 bydd y diddordebau masnachol fydd ynglŷn â'r holl fater ynghlwm wrth batrwm disymud. Dim ond bom niwclear allai wneud unrhyw argraff arno." Dienw, 'Gwynfor yn ddiedifar', *Y Cymro*, 1 Gorffennaf 1980.

[203] Yr oedd hwn yn gyfarfod brys yng ngwir ystyr y gair, oherwydd iddo gael ei drefnu lai na pedair awr ar hugain o flaen llaw; Roberts, *Some Political Implications of S4C*, t. 220. Mae'n rhaid nodi bod natur brys y cyfarfod a statws yr unigolion a oedd yn bresennol, yn dangos bod trafferthion darlledu Cymru o bwys digonol i bob un ohonynt sicrhau ei bod yn bosibl iddynt fod yno ar fyr rybudd.

[204] Swyddfa Gymreig, *Note of a Meeting – Fourth Channel/Welsh Language – Broadcasting Bill,* 10 Gorffennaf 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig), Evans, *Rhag pob Brad*, t. 438; Roberts, *Some Political Implications of S4C*, tt. 220–1.

[205] Swyddfa Gymreig, *Note of a Meeting – Fourth Channel/Welsh Language – Broadcasting Bill,* 10 Gorffennaf 1980, t. 1. Nid oedd William Whitelaw yn gwbl sicr y byddai Gwynfor Evans yn fodlon derbyn unrhyw gyfaddawd gan y llywodraeth, mewn cyfarfod rhyngddo â Nicholas Edwards dridiau yn unig cyn y cyfarfod gyda'r darlledwyr, pendronodd Whitelaw: ' . . . if there was a danger that Mr Gwynfor Evans would reject his gesture and continue with his intended fast or indeed find something else to fast about.' Swyddfa Gymreig, *Secretary of State's Meeting with the Home Secretary to discuss the Fourth Channel/Welsh Language – Broadcasting Bill*, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig), t. 1.

[206] Swyddfa Gymreig, *Note of a Meeting – Fourth Channel/Welsh Language – Broadcasting Bill,* 10 Gorffennaf 1980, t. 1.

Credai rhai gweision sifil mai asgwrn cynnen Gwynfor Evans a Phlaid Cymru â'r llywodraeth oedd i'r syniad o Gyngor Darlledu Cymraeg a gynigwyd ym Mhapur Gwyn Darlledu 1978 Llywodraeth Lafur Callaghan, gael ei is-raddio yng nghynlluniau'r Ceidwadwyr i un ymgynghorydd.[207] At hynny, teimlai'r gweision sifil a gweinidogion y llywodraeth bod y cyfaddawd newydd yn agos iawn at yr hyn a gynigwyd gan Dafydd Elis-Thomas mewn gwelliant i'r Mesur Darlledu a drafodwyd ac a wrthodwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Mehefin 1980.[208] Yr oedd swyddogion y llywodraeth felly yn gymharol hyderus y byddai eu cyfaddawd yn un a fyddai'n llwyddo i ynysu Gwynfor Evans os na ellid ei berswadio i atal ei ympryd. Ond nid oedd y cynigion yn ddigon i ateb gofyn y cynrychiolwyr o Gymru, nac yn argyhoeddi Gwynfor Evans na'r ymgyrchwyr i ddod a'r frwydr i ben:

> The Welsh representatives were unanimously of the view that, whatever the practical merits of the proposals, they did not in any way meet the conditions laid down by Mr. Evans and would not be seen in Wales to be a proposal which he could not reasonably refuse to accept.[209]

Lai na mis yn ddiweddarach, ar ddechrau Awst 1980, profodd Eisteddfod Dyffryn Lliw i fod yn un o Eisteddfodau pwysicaf yr ymgyrch. Bu protestio brwd gan yr ymgyrchwyr wrth iddynt falurio stondinau HTV a'r ADA, ac atal car yr Ysgrifennydd Gwladol.[210] Ond nid y protestio oedd unig nodwedd yr Eisteddfod honno, ymddengys nad oedd y llywodraeth wedi llwyddo i ddarbwyllo unigolion cymhedrol eu safbwynt o rinweddau eu cynlluniau, a hynny gan i Lys yr Eisteddfod

[207] Swyddfa Gymreig, *No Title – discussion note for meeting*, 28 Mai 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig). Mae'r ddogfen hon gan awdur anhysbys yn awgrymu bod Dafydd Wigley wedi cynnig y gallai sicrhau pwyllgor, yn hytrach nag ymgynghorydd, atal ympryd Gwynfor Evans. Noda'r ddogfen hefyd y byddai'n anodd perswadio'r Swyddfa Gartref i fabwysiadu'r cynllun hwn, ond chwe wythnos yn ddiweddarach dyma'n union a gynigwyd.
[208] *Hansard*, 24 Mehefin 1980, col. 362–70.
[209] Roberts, *Some Political Implications of S4C*, t. 221. Gellir holi, yn dilyn astudiaeth fanwl o drafodaethau mewnol y Swyddfa Gymreig a'r Swyddfa Gartref ar yr ail gyfaddawd, a fu'r cynrychiolwyr Cymreig yn rhy frysiog i ddiystyru'r Pwyllgor Cydlynu. Credai un gwas sifil y byddai'n anorfod pe sefydlwyd pwyllgor o'r fath y byddai'n rhaid iddo fabwysiadu cyfrifoldebau dros ddarlledu yn Saesneg yng Nghymru hefyd. Os felly, o ystyried galwadau'r ymgyrchwyr yn y 1970au a'r galwadau a geir heddiw i ddatganoli darlledu, gellid dadlau yr aberthwyd yr egwyddor honno ar allor sianel ar wahân. Swyddfa Gymreig, *Note of meeting between Secretary of State for Wales and Home Secretary*, 7 Gorffennaf 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig), t. 2.
[210] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 440.

benodi dirprwyaeth i ymweld â'r Ysgrifennydd Cartref.[211] Yr unigolion a ddewiswyd oedd Syr Goronwy Daniel, Prifathro Prifysgol Cymru Aberystwyth hyd 1979, Archesgob Cymru, G. O. Williams, a'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos, tri gŵr a oedd, yn ôl Rhys Evans, yn 'feistri corn ar y grefft o ddiplomydda'.[212] Ar ôl trin a thrafod eu safbwyntiau a'u tactegau mewn cyfres o lythyrau, ymwelodd y ddirprwyaeth â William Whitelaw ar 10 Medi 1980.[213] Nod y ddirprwyaeth oedd ceisio dwyn perswâd ar y llywodraeth i ddychwelyd at ei haddewid gwreiddiol, a hynny gan fod y dadleuon o blaid darlledu rhaglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel yn rhai cryf, a chan mai dyma'r unig gynllun fyddai'n debygol o foddhau Gwynfor Evans.[214] Er bod ympryd Gwynfor Evans yn rhan annatod o'r rheswm dros ymweliad y tri â San Steffan yr oeddent yn awyddus i beidio ag ymddangos fel ei lysgenhadon, ac i beidio â chael eu '. . . rhwymo draed a dwylo ganddo chwaith . . . '.[215] Pwysleisio agwedd y dyn cyffredin a'r diffyg parch a ffydd a gaed yng Nghymru bellach tuag at y llywodraeth a dulliau cyfansoddiadol fyddai eu prif arf.[216] Yr oedd y tri yn llwyr ymwybodol eu bod yn wynebu tasg 'anarferol o anodd' a hynny gan nad oedd llawer o le i droi wrth geisio dod o hyd i ateb a fyddai'n dderbyniol i Gwynfor Evans ac a fyddai'n galluogi'r llywodraeth i newid ei meddwl heb ymddangos ei bod yn ildio i fygythiadau.[217] Amlinellodd G. O. Williams yn huawdl y dacteg y dylid ei mabwysiadu ganddynt, 'Nid plygu i fygythion yw'r hyn a ofynnwn gan y

---

[211] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth Emyr Jenkins at Goronwy Daniel, 12 Awst 1980.

[212] Ibid., t. 444. Nid Llys yr Eisteddfod oedd yr unig sefydliad a drafododd anfon dirprwyaeth i San Steffan. Anfonwyd llythyr oddi wrth G. O. Williams at Goronwy Daniel wythnos cyn yr Eisteddfod gan ei fod wedi derbyn cais gan Ieuan S. Jones a Noel A. Davies o Gyngor Eglwysi Cymru i drefnu dirprwyaeth i weld y Prif Weinidog. Yr enwau a drafodwyd i ffurfio'r ddirprwyaeth oedd Goronwy Daniel ei hun, Cennydd (gan hyn fe gymerir yn ganiataol mai Cennydd Traherne a olygir gan yr awdur, sef Arglwydd Raglaw siroedd Morgannwg) a George Wright, Ysgrifennydd Undeb y Gweithwyr Cludiant. LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth G. O. Williams at Goronwy Daniel, 24 Gorffennaf 1980 .

[213] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth Cledwyn Hughes at Goronwy Daniel, 20 Awst 1980; Drafft o lythyr oddi wrth Goronwy Daniel at Cledwyn Hughes, dim dyddiad; Llythyr oddi wrth Cledwyn Hughes at Goronwy Daniel, 28 Awst 1980; Llythyr oddi wrth G. O. Williams at Cledwyn Hughes, 1 Medi 1980; Drafft o lythyr oddi wrth Goronwy Daniel at Cledwyn Hughes, 5 Medi 1980. Bu gohebiaeth hefyd rhwng Gwynfor Evans a Goronwy Daniel, gan fod Gwynfor yn pryderu i Goronwy Daniel gamddeall ei safbwynt ar gyfaddawdu. Datganodd Gwynfor Evans yn glir yn ei lythyr nad oedd yn fodlon ystyried ildio unrhyw dir; Llythyr oddi wrth Gwynfor Evans, Islaw'r Dref, Dolgellau, at Goronwy Daniel, dim dyddiad.

[214] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth Cledwyn Hughes at Goronwy Daniel, 28 Awst 1980.

[215] Ibid.

[216] Ibid.; LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth G. O. Williams at Cledwyn Hughes, 1 Medi 1980.

[217] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth Cledwyn Hughes at Goronwy Daniel, 28 Awst 1980.

Llywodraeth ond cydnabod wedi pwyso holl ystyriaethau'r sefyllfa bresennol eu bod wedi gwneud camgymeriad. Ennill ac nid colli urddas y mae pwy bynnag sydd ddigon gwrol i wneud hynny.'[218]

Afraid dweud bellach y bu'r dacteg yn un lwyddiannus ynghyd â'r datrysiad terfynol a gyflwynwyd yn y cyfarfod gan Cledwyn Hughes, ond a gynigwyd yn wreiddiol gan Leopold Kohr, yr economegydd a'r darlithydd gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, mewn llythyr i'r *Times* ac a drafodwyd rhyngddo ef a Gwynfor Evans.[219] Yr hyn a gynigwyd oedd troi cyfaddawd cyntaf yr Ysgrifennydd Gwladol ar ei ben, gan, yn hytrach na rhoi'r cynllun dwy sianel ar brawf am flwyddyn, dreialu'r sianel Gymraeg am ddwy flynedd, gyda'r dewis y gellid dychwelyd at y patrwm gwreiddiol pe na fyddai'n llwyddiannus.[220] Er i'r llywodraeth fabwysiadu'r cynnig hwn, ac ymestyn y cyfnod prawf i dair blynedd, nid oedd yn amlwg ar y pryd i'r ddirprwyaeth i'w hymweliad fod yn llwyddiant.[221] Er hynny, ymhen yr wythnos, yr oedd William Whitelaw a Nicholas Edwards wedi llwyddo i berswadio'r Prif Weinidog a'r Trysorlys mai ildio oedd rhaid. Ar 17 Medi 1980, lai na mis cyn dyddiad cychwyn yr ympryd arfaethedig, cyhoeddwyd y byddai'r llywodraeth yn sefydlu sianel Gymraeg ar y bedwaredd sianel yng Nghymru. Cyflawnodd y ddirprwyaeth gamp ryfeddol wrth wyrdroi agwedd y llywodraeth, yn enwedig gan fod memo a luniwyd ddiwrnod cyn y cyfarfod gan Adran Ddarlledu'r Swyddfa Gartref yn cyfleu hyder y swyddogion y byddai William Whitelaw yn llwyddo i ddwyn perswâd ar unigolion rhesymol pa mor afresymol oedd safbwynt Gwynfor Evans. At hynny, i gydfynd â'r cyfarfod hwn, rhyddhawyd datganiad i'r wasg gan y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi enw Cadeirydd y Pwyllgor Teledu Cymraeg newydd sef Dafydd Jones-Williams.[222] Bu'n berfformiad heb ei ail felly gan y gwŷr a ddaeth i'w hadnabod yn gyhoeddus fel y 'tri gŵr doeth' wrth iddynt lwyddo i ddwyn perswâd ar lywodraeth ystyfnig a oedd wedi ei gwthio i gornel.

---

[218] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Llythyr oddi wrth G. O. Williams at Cledwyn Hughes, 1 Medi 1980, t. 2.
[219] Leopold Kohr, 'Welsh Television', *The Times*, 20 Awst 1980, t. 13.
[220] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Drafft o lythyr oddi wrth Goronwy Daniel at Cledwyn Hughes, 5 Medi 1980; *Notes on the meeting held at the Home Office*, 10 Medi 1980.
[221] Roberts, *Some Political Implications of S4C*, t. 223.
[222] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Home Office News Release, *Welsh Language Television*, 10 Medi 1980. Yr oedd Dafydd Jones-Williams yn gyfreithiwr wrth ei alwedigaeth, yn gyn Glerc Heddwch Sir Feirionnydd ac yn gyn Gomisiynydd Gweinyddiaeth Leol i Gymru.

Ni ellir anwybyddu cyfraniad Gwynfor Evans i'r fuddugoliaeth hon, ac, yn ddi-os, ef sydd yn haeddu'r clod am wthio'r ymgyrch tua'i therfyn. Heb ei fygythiad i ymprydio, hawdd gweld y byddai'r ymgyrch wedi rhygnu ymlaen yn ddigyfeiriad. At hynny, mae'r ffaith mai Gwynfor Evans oedd yr un a oedd yn bygwth yn allweddol, fel y noda Rhys Evans, pe bai unrhyw un arall wedi bygwth ymprydio, mae'n annhebygol y byddai wedi ennyn yr un ymateb nac wedi esgor ar yr un canlyniad.

Er hynny, mae nifer o ffactorau eraill a grybwyllwyd gan gofnodwyr yr hanes yn haeddu mwy o sylw a chydnabyddiaeth. Fe drafodwyd yn ysgrif Alwyn Roberts, ac fe'i ategwyd yng nghyfrol Rhys Evans, fod pryderon am Ogledd Iwerddon yn rhan o'r trafodaethau answyddogol, personol a gaed am frwydr y sianel y tu hwnt i'r cyfarfodydd ffurfiol.[223] Ymddengys y bu'r Ysgrifennydd Cartref yn poeni'n ddirfawr am sut y byddai unrhyw benderfyniad a wnaed ynglŷn ag ympryd Gwynfor Evans yn effeithio ar y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn ystyriaeth deg o gofio y bu William Whitelaw yn Ysgrifennydd Gwladol i'r dalaith rhwng 1972 a 1974 yn ystod un o gyfnodau mwyaf cythryblus yn ei hanes. Gellir awgrymu hefyd fod profiadau Whitelaw yn y dalaith wedi ei annog i ildio i fygythiad Gwynfor yn hytrach na sefyll yn gryf yn ei erbyn. Yn ei hunangofiant, nododd Whitelaw iddo brofi sut y gallai cymunedau ymateb i farwolaeth trwy ympryd gwleidyddol, gan y bu aelodau o'r IRA yng Ngharchar Crumlin Road yn ymprydio er mwyn mynnu hawliau gwleidyddol.[224] Diau y dylanwadodd y profiadau hyn yn fawr ar Whitelaw, ac y rhagwelodd drafferthion enbyd yng Nghymru pe ymprydiai Gwynfor Evans, er nad yw'n cyfeirio atynt wrth drafod mater y sianel yn ei gofiant.

Digwyddiad arall sydd wedi ei anghofio yn hanes sefydlu S4C yw cyfraniad nodyn a ysgrifennwyd gan Geraint Stanley Jones, ac a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gartref ar 29 Gorffennaf 1980 gan Syr Michael Swann.[225] Yr oedd y nodyn hwn yn esbonio pam nad oedd hi'n dechnegol bosibl gwireddu cynlluniau'r llywodraeth o osod rhaglenni Cymraeg ar BBC2. Meddai Alwyn Roberts amdano: 'It was, to my mind, a demonstration that the two-channel solution was not compatible with any notion of

---

223 Roberts, *Some Political Implications of S4C*, t. 221; Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 438.
224 Whitelaw, *The Whitelaw Memoirs*, t. 94.
225 Archif BBC Cymru, Caerdydd, Appendix by BBC Wales Management, *The Placing of Welsh Language Programmes on BBC-2*.

an integrated service.'[226] Yr hyn a gaed gan Geraint Stanley Jones oedd dadlau nad oedd BBC2 yn lleoliad addas ar gyfer llunio gwasanaeth Cymraeg cyson, a hynny oherwydd yr angen am gysondeb amseru er mwyn sicrhau gwasanaeth o'r fath. Nodwyd nad oedd amserlen BBC2 wedi ei dyfeisio i dderbyn cyfres gyson o eithriadau rhanbarthol a hynny gan ei bod wedi ei llunio i fod mor hyblyg â phosibl. Dim ond un amseriad dechrau rhaglen cyson a gaed ynddi bob nos, sef 9 o'r gloch yr hwyr, ac oherwydd hynny nid oedd awr benodol lle gellid gadael ac ailymuno â gwasanaeth BBC2 yn hwylus ar ddechrau'r noson heb adael rhaglenni ar eu hanner. Canlyniad ceisio darlledu rhaglenni Cymraeg yn gyson ar yr un amser bob nos fyddai colli rhannau o rai o raglenni mwyaf poblogaidd y sianel honno megis tenis Wimbledon, snwcer, golff a'r criced.[227] Byddai'r un peth yn wir am y rhaglenni plant Cymraeg y gobeithid eu darlledu rhwng 16.30 a 17.30, gan eu bod yn tarfu ar rediad nifer o'r digwyddiadau o fyd chwaraeon a oedd yn hoelion wyth amserlen BBC2.[228] Darpariaeth a fyddai'n siwr o godi gwrychyn gwylwyr Cymru pe torrid ar ei hanner er mwyn darlledu rhaglenni Cymraeg. Meddai'r ddogfen:

> It would simply not be possible to create the sort of service envisaged by the Government without totally re-scheduling the BBC-2 early-evening schedules. This in turn would create a degree of deprivation of BBC-2 programmes which we know from hard past experience would be bitterly resented by a substantial and influential section of the community. Any limited degree of flexibility which we have at present would be further eroded by the need to avoid clashing with the service in Welsh on ITV-2. It is simply not possible to carve out a new service of this length across two channels in the way which has been promised.[229]

Gydag un o'r partneriaid allweddol, felly, yn tystio nad oedd hi'n ymarferol bosibl gweithredu'r cynlluniau newydd, gellid tybio y byddai swyddogion y llywodraeth wedi dechrau amau eu huniongrededd ar fater y bedwaredd sianel. Yn hytrach, yr hyn a gaed oedd ymateb chwyrn gan weision sifil yn beirniadu'r BBC am eu hymarweddiad anghymwynasgar gan nodi: 'The BBC are being generally unhelpful about this and they have objected to a number of points which have been put to them

---

[226] Roberts, *Some Political Implications of S4C*, t. 222.
[227] *The Placing of Welsh Language Programmes on BBC-2*, t. 5.
[228] Ibid. Yr awgrym a geir yn y ddogfen yw mai'r rhaglenni plant fyddai ar eu colled yn y gystadleuaeth hon, ac, yn ystod tymor y criced, golff, tenis ac ati, y byddai'n rhaid gwthio'r rhaglenni plant o'r neilltu.
[229] Ibid., t. 6.

about the role of the Welsh Language Television Committee and its composition.'[230] Er bod agwedd y gweision sifil tuag at y BBC yn ddilornus ar y mater hwn, bu ei gynnwys yn achos pryder i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac ystyriai ef fod y ddogfen yn un beryglus iawn i gynlluniau'r llywodraeth pe gwelai olau dydd.[231] Er hynny, perswadiwyd Nicholas Edwards nad oedd y trafferthion a drafodwyd yn rhai a oedd yn anorchfygol, a'u bod, mewn gwirionedd, yn rhan o ymgais gan y BBC yng Nghymru i ddychwelyd at yr egwyddor o sianel ar wahân i'r Gymraeg. Er hynny, yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn awyddus i weld dogfen a wrthbrofai honiadau'r datganiad gan y BBC yn gwbl bendant rhag ofn i'r mater godi wrth i'r Arglwyddi drafod y Mesur Darlledu yn yr Hydref.[232] Crëwyd amheuaeth gan y ddogfen benodol hon felly, ond yr hyn a wna'r drafodaeth a gododd yn ei sgil oedd dangos pa mor ddi-hid yr oedd y llywodraeth tuag at y cysyniad o greu gwasanaeth Cymraeg cyson yn ystod yr oriau brig, gwasanaeth y gellid datblygu a thyfu'r gynulleidfa ar ei gyfer. Yr oedd y swyddogion yn rhyfeddol o unplyg yn eu gweledigaeth, gan ystyried unrhyw anhawsterau a ddatgelwyd iddynt fel ymyrraeth ddibwys a oedd yn eu hatal rhag gwthio eu Mesur trwy'r Tŷ Cyffredin.

Sïon eraill fu'n ennill tir yn ystod Awst 1980 oedd y byddai'r wrthblaid yn gwthio gwelliannau i'r Mesur Darlledu yn y drafodaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Hydref. Credid y byddai sawl un o'r Arglwyddi, gan gynnwys Cledwyn Hughes, Elwyn Jones, Goronwy Roberts ac Emlyn Hooson yn cynnig gwelliannau a fyddai'n argymell gosod yr holl ddarllediadau Cymraeg ar y bedwaredd sianel, a hynny ar sail y ffaith nad oedd dadl y Llywodraeth Geidwadol am gost eithriadol cynllun un sianel yn ddilys.[233] O wybod hyn, a gan fod disgwyl i'r trafodaethau yn Nhŷ'r Arglwyddi ddechrau ddeuddydd ar ôl dechrau ympryd Gwynfor Evans, yr oedd Wyn Roberts yn

---

[230] Swyddfa Gymreig, *No Title, re. Welsh Language Television*, 1 Awst 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig).
[231] Swyddfa Gymreig, *Note of meeting between Secretart of State for Wales, PUSS Wales and Officials,* 6 Awst 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig),t. 1.
[232] Ibid.
[233] Swyddfa Gymreig, Llythyr oddi wrth Wyn Roberts at Nicholas Edwards, 9 Awst 1980; Swyddfa Gymreig, *No Title re. Events in SoS's absence*, 9 Awst 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig).Yr oedd Wyn Roberts yn disgwyl i'r wrthblaid ddefnyddio'r ddadl mai unig gost sianel Gymraeg ar wahân fyddai colled yr arian hysbysebu oherwydd darlledu deg awr yr wythnos o raglenni BBC.

pryderu y byddai achos y llywodraeth yn cael ei ddryllio'n sylweddol. Y ddadl ariannol oedd unig arf y llywodraeth bellach, ac mewn rhai carfannau nid oedd honno yn tycio. At hynny, yr oedd yr Arglwydd David Gibson-Watt, cyn Ysgrifennydd Cymru Llywodraeth Geidwadol Heath, wedi nodi na fyddai'n pleidleisio o blaid y llywodraeth yn y trafodaethau hynny. Yr oedd gweinidogion y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Gymreig yn colli cefnogaeth eu plaid eu hunain bellach, gan ei gwneud hi'n anoddach cyfiawnhau eu safbwynt.

Gellid dadlau, felly, bod cyfuniad o ddigwyddiadau wedi arwain at droi llif y farn gyffredin yn erbyn y llywodraeth gan sbarduno ail dro-pedol gan William Whitelaw. Ni ellir gwadu mai gweithred Gwynfor Evans oedd yr amlycaf a'r mwyaf dylanwadol o'u plith, ond llwyddodd cyfuniad o'r holl ffactorau hyn i wthio'r llywodraeth yn agosach at y dibyn, gan orfodi'r Ceidwadwyr i weddnewid cynlluniau darlledu yng Nghymru am yr eildro ers iddynt ennill yr etholiad.

*Hynt y Ddeddf Ddarlledu*

Y cam cyntaf yn y broses o sefydlu'r sianel newydd oedd ei chynnwys yn y Mesur Darlledu a oedd, pan gafwyd yr hyn a fedyddiwyd yn 'w-turn' William Whitelaw, ar ei thaith drwy brosesau'r Tŷ Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.[234] Yr oedd y Mesur Darlledu eisoes wedi gadael Tŷ'r Cyffredin, ar ôl dau ddarlleniad a thrafodaeth gan bwyllgor seneddol. O ganlyniad, er mwyn cyflwyno'r newidiadau a'r gwelliannau i'r Mesur a fyddai'n sicrhau y câi Cymru sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg, yr oedd rhaid atal taith y Mesur trwy brosesau Tŷ'r Arglwyddi. Da o beth felly oedd na fu brys gan y llywodraeth i ddanfon y Mesur Darlledu drwy'r broses seneddol, oherwydd yr amheuon ynglŷn â lansio pedwaredd sianel mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol.

Cyflwynwyd y newidiadau i'r Mesur ar 2 Hydref 1980 oddeutu tair wythnos ar ôl yr ail dro-pedol ac ar ôl trafodaethau rhwng yr Ysgrifennydd Cartref, y Canghellor ac Arweinydd y Tŷ Cyffredin.[235] Ddyddiau yn ddiweddarach, ar 8 Hydref 1980,

---

[234] 'Mr Whitelaw does a W-Turn', *The Times*, 18 Medi 1980, t. 15.

[235] Arts Reporter, 'Welsh TV plans incorporated in Broadcasting Bill', *The Times*, 2 October 1980, t. 3; Swyddfa Gartref, *Note of a meeting re. Welsh Language Broadcasting*, 16 Medi 1980, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig).

cyhoeddwyd yn ystod trafodaethau'r pwyllgor darlledu fanylion y newidiadau ar gyfer Cymru a geid yn y Mesur gan yr Arglwydd Belstead, yr Is-ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Swyddfa Gartref.[236] Ymhen y mis, ar 10 Tachwedd 1980, cafwyd trafodaeth helaethach ar lawr y Tŷ Cyffredin lle croesawyd y datblygiadau yn ddieithriad gan Aelodau Seneddol y Ceidwadwyr, y Blaid Lafur a Phlaid Cymru. Er y gefnogaeth gyffredinol, manteisiodd rhai aelodau Ceidwadol ar y cyfle i nodi eu pryderon ynglŷn â chostau'r sianel newydd, faint o dalent ychwanegol a fyddai ar gael yng Nghymru er mwyn darparu'r rhaglenni Cymraeg a pha mor ddeniadol fyddai rhaglenni'r sianel Brydeinig newydd i wylwyr Cymru.[237] Er gwaethaf y pryderon fe gytunwyd ar y newidiadau i'r Mesur, ac fe'i pasiwyd yn ôl at Dŷ'r Arglwyddi lle y cafwyd Cydsyniad Brenhinol yn fuan iawn wedi hynny ar 13 Tachwedd 1980.[238] Ar ôl blynyddoedd maith o drafod, oedi ac ymgyrchu, prin dros fis yn unig a gymerodd i lywio'r Mesur trwy'r prosesau llywodraethol angenrheidiol ac i fodolaeth.

Y prif newid a welwyd rhwng y Mesur Darlledu gwreiddiol a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin a'r Ddeddf Ddarlledu a weithredwyd oedd ei bod yn mynnu ffurfio Awdurdod cwbl newydd a fyddai'n gofalu am ddarlledu Cymraeg. Yr oedd hyn yn rhywbeth newydd ac annisgwyl i'r rhai a fu'n ymgyrchu dros sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Er bod sefydlu Awdurdod i ofalu am yr holl ddarllediadau radio a theledu yng Nghymru wedi bod yn rhan o alwadau'r ymgyrchwyr, dyma'r tro cyntaf y cyfeiriwyd at Awdurdod annibynnol mewn unrhyw ddogfennau a oedd yn ymwneud â deddfwriaeth y bedwaredd sianel. Ni chafwyd trafod ar hyn hyd yn oed ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Lafur Callaghan lle bu manylu ar gynlluniau'r OBA a lle y bwriedid rhoi'r rhaglenni Cymraeg i gyd ar y bedwaredd sianel. Cyngor Teledu Cymraeg a awgrymwyd yn y Papur Gwyn hwnnw, pwyllgor atodol i'r OBA a fyddai'n cynghori ar faterion Cymreig ac nid Awdurdod ar wahân i Gymru. Er iddo ddatgan ei foddhad bod y llywodraeth o'r diwedd yn deddfu ar bolisïau a arddelwyd gan Gymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru ers degawdau, ceir awgrym o syndod yn natganiad Dafydd Elis-Thomas ar yr addewid o Awdurdod newydd yn y trafodaethau ar y Mesur newydd yn Nhŷ'r Cyffredin:

[236] 'Hope that Welsh Television will not be expensive', *The Times*, 9 October 1980, t. 23.
[237] *Hansard*, House of Commons, 10 November 1980, col. 53–74.
[238] Meic Stephens, 'Sir Goronwy Daniel', *The Independent*, 20 January 2003.

> . . . the Government have gone much further than their predecessors were prepared to do. In their OBA policy the previous Government did not envisage a separate . . . authority for Wales for Welsh language programmes. They envisaged a subsiduary committee of the Open Broadcasting Authority. Now there is to be a full authority with all that that word entails in a statute.[239]

Yr oedd y cynlluniau newydd yma felly yn torri tir newydd. Bwriedid ffurfio'r Awdurdod gyda Chadeirydd a phedwar aelod a fyddai'n cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Cartref, ond, yn ymarferol, byddai'r penderfyniad hwnnw yn cael ei wneud mewn cydweithrediad ag Ysgrifennydd Cymru.[240] Er nad amlinellwyd yn y ddeddf ei hun yr union fath o aelodau a ddylid eu penodi i'r Awdurdod, nodwyd gan William Whitelaw yn y trafodaethau ar lawr y Tŷ Cyffredin ei fwriad i sicrhau cynrychiolaeth o'r BBC a'r ADA ar yr Awdurdod:

> I have it in mind, for example, to appoint the BBC governor for Wales and the IBA member for Wales to the new authority. I think that there may also be advantage in appointing somebody from the board of the IBA's fourth channel subsidiary. From the preliminary consultations I have had with the BBC and the IBA, I believe that the broadcasting authorities also see advantage in some cross-membership of this kind.[241]

Er y darlun hwn o gydsynio rhwng y llywodraeth a'r awdurdodau darlledu, nid pawb oedd yn hapus gyda'r awgrym hwn ar gyfer aelodaeth yr Awdurdod newydd. Mewn ymateb i sylwadau'r Ysgrifennydd Cartref ar lawr y Tŷ, nodwyd gan Dafydd Elis-Thomas bod rhai carfannau amlwg ar goll o'r patrwm arfaethedig:

> I should like the Minister to indicate who will represent the great Welsh public and who will be the representative, if any, of independent producers. It seems to me that there is a danger that the Welsh fourth channel authority will end up perpetuating the duopoly in Welsh broadcasting rather than allowing greater public

---

239 *Hansard,* House of Commons, 10 November 1980, col. 56. Nodwyd hyn hefyd gan y Parch. Dr Alwyn Roberts, Tregarth mewn cyfweliad â'r awdur, 24 Mai 2007.

240 *Hansard,* House of Commons, 10 November 1980, col. 39.

241 Ibid.

> participation and independent participation in the control of the working of the authority.[242]

Er gwaethaf gwrthwynebiad clir Dafydd Elis-Thomas, ni chafwyd gwyntyllu pellach ar y mater yn ystod y drafodaeth honno ar lawr y Tŷ. Ni chafwyd ymateb ychwaith gan Weinidog Gwladol y Swyddfa Gartref, Leon Brittan, wrth iddo ateb y llu cwestiynau a gyflwynwyd ger ei fron yn ystod y drafodaeth ar y Mesur Darlledu.[243] Gellid dirnad o hynny, nad oedd y Swyddfa Gartref am drafod ymhellach natur yr Awdurdod newydd gan ei fod yn fater llawer mwy dadleuol nac yr ymddangosai ac nad oedd cydsyniad ar y mater. Nid oedd Y Fonesig Plowden, Cadeirydd yr ADA, yn awyddus i aelodau'r Awdurdod newydd ddod o'r BBC na'r ADA, gan y mynnai bod annibynniaeth yr Awdurdod newydd yn hanfodol. Yn dilyn ei gwrthwynebiad hi i'r cynllun hwn diddymwyd o'r ddeddf y geiriad y dylai Llywodraethwr Cymru'r BBC ac Aelod Cymreig yr ADA fod yn aelodau *ex officio*.[244]

Prif gyfrifoldebau aelodau'r Awdurdod newydd, fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf Ddarlledu oedd darparu rhaglenni o safon uchel i'w darlledu ar rwydwaith y bedwaredd sianel a ddarperid gan yr ADA yng Nghymru.[245] Rhaglenni fyddai busnes yr Awdurdod newydd, felly, ac ni fyddai ganddo unrhyw gyfrifoldebau ehangach dros y rhwydwaith o drosglwyddyddion a geid yng Nghymru. Byddai'r Awdurdod yn ddibynnol, o ganlyniad, ar allu yr ADA i sicrhau fod cyrhaeddiad y sianel newydd yng Nghymru yn ddigonol pan fyddai'n dechrau darlledu. At hynny, ni fyddai gan yr Awdurdod newydd unrhyw gyfrifoldebau yn ymwneud â'r hysbysebion a ddarlledid ar y sianel newydd gan mai'r ADA a'r cwmni annibynnol yn yr ardal fyddai'n gyfrifol am werthu'r gofod a chasglu'r hysbysebion, yn unol â'r patrwm a geid yng ngweddill Prydain ar gyfer y bedwaredd sianel.

---

[242] Ibid., col. 58. Gellir nodi ar y pwynt hwn fod sylwadau Dafydd Elis-Thomas yn deillio o bosibl o'i gefnogaeth i'r syniad o Open Broadcasting Authority a fwriedid yn wreiddiol ar gyfer y bedwaredd sianel. Yr oedd egwyddor a chynllun yr OBA wedi ei ddatblygu gan garfannau adain chwith gwleidyddol a fyddai wedi galluogi i'r gynulleidfa gael llawer mwy o ddylanwad ar yr hyn a ddarlledid ar y sianel newydd.

[243] Ibid., col.75–8.

[244] Swyddfa Gymreig, *No title re. Welsh Fourth Channel Authority. Draft letter from Home Secretary*, 30 Medi 1980 *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig). Ond, er gwaethaf y gwrthwynebiad hwn, yr oedd William Whitelaw yn awyddus i sicrhau bod yr unigolion hyn yn rhan o'r Awdurdod yn ei blynyddoedd ffurfiannol.

[245] *Broadcasting Act 1981, Chapter 68* (London: HMSO, 1981), t. 49.

Yn achos y bedwaredd sianel Brydeinig, bu Deddf Darlledu 1981 yn hynod gyfarwyddol a chaeth wrth ystyried yr hyn a nodwyd ynddi ynglŷn â'r rhaglenni a ddylid eu dangos ar y sianel newydd. Ceir ynddi dri chanllaw sy'n nodi yn union natur y rhaglenni y dylid eu darlledu:

> **11.** – (1) As regards the programmes (other than advertisements) broadcast on the Fourth Channel it shall be the duty of the Authority –
>
> *(a)* to ensure that the programmes contain a suitable proportion of matter calculated to appeal to tastes and interests not generally catered for by ITV,
>
> *(b)* without prejudice to so much of section 2(2)(a) as relates to the dissemination of education, to ensure that a suitable proportion of the programmes are of an educational nature,
>
> (c) to encourage innovation and experiment in the form and content of programmes,
>
> and generally to give the Fourth Channel a distinctive character of its own.[246]

Amlinellwyd gymeriad a delwedd y bedwaredd sianel Brydeinig yn glir yn y ddeddf, gan ei gosod ar lwybr i ddarparu rhaglenni nad oedd yn ymdebygu i'r hyn a welid yn barod ar y rhwydwaith ddarlledu annibynnol. Er hynny, ni cheir yr un cyfyngiadau yn yr adrannau sy'n trafod natur y rhaglenni a gai eu dangos ar y bedwaredd sianel yng Nghymru. Ceir nodi yng nghymal 47(5) y dylai'r sianel ddilyn patrwm gwasanaeth darlledu cyhoeddus trwy ddangos rhaglenni a fyddai'n trosglwyddo gwybodaeth, addysg ac adloniant i'r gynulleidfa, ond nid eir ymhellach na nodi mai yn nhraddodiad darlledu cyhoeddus y dylai'r sianel newydd gael ei magu.[247] Gellid dadlau nad yw hyn yn destun syndod o ystyried natur y darparwyr ar gyfer y rhan helaethaf o'r rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar y sianel, gan y datblygodd y BBC ac HTV o'r cychwyn gyda gofynion darlledu cyhoeddus yn rhan o'u darpariaeth. At hynny, diau, y sylweddolodd y gwleidyddion mai tasg anos fyddai amlinellu brîff sianel newydd a oedd wedi ei chreu er mwyn darparu gwasanaeth fyddai'n apelio at Gymry Cymraeg o bob oed ac o bob cefndir. Yr oedd y bedwaredd sianel Brydeinig, ar y llaw arall, wedi ei sefydlu er mwyn apelio at garfannau bychain, lleiafrifol ac unigryw o fewn cymdeithas gan fod y tair sianel arall, i bob pwrpas, yn apelio at drwch y gymdeithas.

---

[246] *Broadcasting Act 1981, Chapter 68* (London: HMSO, 1981), tt.13–14.

[247] Ibid.

Er hyn, yr oedd y rhannau o'r ddeddf a oedd yn ymwneud â darparwyr y rhaglenni ar gyfer y bedwaredd sianel Gymraeg yn llawer mwy penodol na'r adran a oedd yn trafod cynhyrchwyr rhaglenni'r bedwaredd sianel Brydeinig. Ceir cymalau sydd yn nodi yr angen i'r BBC a chontractwr yr ADA yng Nghymru ddarparu rhaglenni ar gyfer y sianel newydd.[248] Er y pendantrwydd a geir ynglŷn â rôl y darparwyr hyn yn nyfodol y sianel, ni cheir unrhyw ddeddfu penodol ar nifer yr oriau a ddisgwylid i'r ddau ddarlledwr eu cynhyrchu ar gyfer yr Awdurdod newydd. Yr hyn a geir yn y ddau gymal yw'r ymadrodd amwys canlynol sy'n nodi bod disgwyl i'r BBC a'r cwmni annibynnol ddarparu rhaglenni sy'n bodloni '. . . the reasonable requirements of the Welsh Authority.'[249] Wrth drafod cyfrifoldebau'r BBC, deddfwyd bod disgwyl i'r Gorfforaeth ddarparu rhaglenni yn rhad ac am ddim i'r sianel newydd, a sicrhau na fyddai nifer y rhaglenni Cymraeg a ddarperid ganddi yn disgyn yn is na'r nifer o raglenni a fyddai wedi eu darlledu ganddi ar ei sianeli ei hun petai'r Awdurdod newydd heb ei greu.[250] Yn achos y cwmni teledu annibynnol, er hynny, ni cheir unrhyw ymadroddion sy'n clymu'r darparwr i isafswm o raglenni. Nodwyd yn hytrach y disgwylid darpariaeth rhaglenni ar gyfer yr Awdurdod newydd, nid yn rhad ac am ddim fel yn achos y Gorfforaeth, ond ar delerau masnachol, er na cheir unrhyw ddiffiniad nac esboniad o ystyr telerau masnachol yn y cyd-destun hwn.[251]

Er y pwyslais a geir ar rôl y BBC a chontractwr teledu annibynnol yr ardal yn nyfodol y sianel, y mae'r ddeddf yn nodi'n glir nad yw'r cymalau penodol hyn yn atal yr Awdurdod newydd rhag comisiynu a darlledu rhaglenni Cymraeg o ffynonellau eraill. Ni cheir unrhyw sôn am gwmnïau annibynnol yn y cymal, a hynny, diau gan nad oedd rhwydwaith amlwg o gwmnïau annibynnol ffyniannus yng Nghymru na thu hwnt yn ystod y cyfnod dan sylw. Er hynny, y mae'r cymal yn

---

[248] Mae rheswm amlwg pam nad enwyd HTV yn y ddeddf fel darparwr rhaglenni ar gyfer y sianel newydd. Nid oedd y contractwyr yn cael rhyddfraint ardal am oes, ac felly oherwydd bod disgwyl i'r Ddeddf Ddarlledu ymateb i unrhyw newidiadau yn rhwydwaith ITV yn ystod ei hoes, nid enwyd unrhyw gontractwr yn y ddeddf. At hynny, yn y cyfnod hwn yr oedd yr ADA wrthi'n hysbysebu'r rhyddfreintiau, ac o ganlyniad nid oedd unrhyw sicrwydd mai HTV fyddai'n gwasanaethu ardal Cymru a gorllewin Lloegr yng nghyfnod sefydlu'r bedwaredd sianel.
[249] *Broadcasting Act 1981, Chapter 68* (London: HMSO, 1981), t. 50. Gwelir ym Mhennod 3 effaith yr amwysedd yma ar y trafodaethau a gafwyd rhwng Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, y BBC ac HTV ar natur y rhaglenni yr oeddent yn dymuno eu derbyn gan y darlledwyr.
[250] Ibid.
[251] Ceir trafodaeth ar drafferthion y trafodaethau cytundebol rhwng HTV a S4C, a chymhlethdod telerau masnachol ym Mhennod 3, tt. 157–78.

sicrhau y byddai modd i'r sianel newydd hon gynnig cyfle heb ei ail i sector annibynnol dyfu a chynnig amrywiaeth i'r ddarpariaeth a gaed trwy ddeuopoli cysurus y BBC ac ITV.

Ynghyd â rhoi pwyslais ar ddarlledu rhaglenni a fyddai'n addas ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus, deddfwyd hefyd ar bwysigrwydd yr angen i'r Awdurdod ddarparu a chynnal gwasanaeth o safon uchel. Diau mai pwrpas y cyfeiriad at safonau uchel oedd datgan bod angen codi safon y rhaglenni Cymraeg a gynhyrchwyd gan y darlledwyr yn y cyfnod. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach gan y trafodaethau a fu ar lawr y Tŷ Cyffredin lle clywid crybwyll pwysigrwydd hyfforddiant er mwyn gweld mwy o amrywiaeth mewn rhaglenni Cymraeg yn hytrach na rhaglenni 'pennau'n siarad' a oedd yn frith ar draws yr amserlenni. Meddai Dafydd Elis-Thomas:

> We have often complained about the standard of programmes, and about the continuous talking head programmes in which too many of us have taken part . . . We have often criticised the standard of the programmes and said that the reason for the low standard is lack of funding.[252]

Diau fod pwysleisio safon yn dangos fod y llywodraeth yn ymwybodol bod angen i raglenni Cymraeg fod o ansawdd uchel er mwyn denu gwylwyr oddi wrth y rhaglenni Saesneg a oedd yn cael eu darlledu ar y tair sianel arall. Trwy roi pwyslais ar ansawdd rhaglenni, dangosodd y llywodraeth ddealltwriaeth o broblem hanfodol ac oesol yn achos y gynulleidfa Gymraeg, sef eu bod yn gynulleidfa ddwyieithog ac, o ganlyniad, nid oedd unrhyw orfodaeth arni i wylio rhaglenni Cymraeg yn unig. At hynny, ceir yma ddealltwriaeth pa mor angenrheidiol oedd i'r sianel newydd ddarparu rhaglenni apelgar a safonol, er mwyn cadw ei gwylwyr yn y tymor hir a sicrhau ei llwyddiant a'i phoblogrwydd am flynyddoedd i ddod.

Ynghyd â datgan bod angen rhaglenni safonol ar y sianel newydd, yr oedd y Ddeddf hefyd yn mynnu y byddai: 'A substantial proportion of the programmes included in the programme schedules provided by the Welsh Authority shall be in Welsh . . .'[253] Yr oedd y llywodraeth yn disgwyl i'r mwyafrif o'r cyfran hwnnw o raglenni

---

[252] *Hansard*, House of Commons, 10 November 1980, col. 60.
[253] *Broadcasting Act 1981, Chapter 68* (London: HMSO, 1981), t. 49.

Cymraeg gael eu darlledu yn ystod yr oriau brig, sef rhwng 18.30 ac 22.00, ond gan nad oedd y Ddeddf yn nodi bod rheidrwydd i ddarlledu yr holl oriau Cymraeg yn ystod yr oriau brig, fel y mynnwyd yn wreiddiol gan Gwynfor Evans, caed hyblygrwydd a fyddai'n galluogi i'r sianel ddarlledu rhaglenni ysgolion a phlant ar amseroedd addas.[254] Yr oedd amwysedd yr ymadrodd 'substantial proportion', yn awgrymu, y gallai'r Awdurdod hefyd gomisiynu rhai rhaglenni yn Saesneg i'w darlledu ar y bedwaredd sianel yng Nghymru fel rhan o'u cyfrifoldebau tuag at ddarparu gwasanaeth teledu i bobl Cymru. Diau mai'r hyn a olygir gan y ddeddf mewn gwirionedd yw y byddai rhaglenni Channel 4 yn cael eu darlledu o amgylch y rhaglenni Cymraeg. Ond fe arweiniodd yr amwysedd hwn at unigolion, megis yr Aelod Seneddol Leo Abse yn ystod gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, yn galw ar y sianel newydd i gomisiynu rhaglenni Saesneg o ddiddordeb Cymreig er mwyn sicrhau fod anghenion y di-Gymraeg ynghyd â'r Cymry Cymraeg yn cael eu diwallu.[255] Ynghyd â'r amwysedd hwnnw am hyd a lled cyfrifoldeb yr Awdurdod newydd dros ddarlledu yn yr iaith Saesneg, nid oes unrhyw grybwyll o nifer yr oriau y disgwylid i'r Awdurdod newydd ei ddarparu yn y Gymraeg. At hynny, mae'r geiriad gofalus ond amhendant a ddefnyddir yn dangos yn glir nad sianel lle byddai'r Gymraeg i'w chlywed yn bennaf oedd tynged y sianel newydd hon, ond, yn hytrach, sianel lle caed mwy nag a welwyd o'r blaen o Gymraeg mewn un man.

Ar fater y berthynas rhwng y bedwaredd sianel Brydeinig a'r bedwaredd sianel yng Nghymru, caed cymal a oedd yn nodi'r hyn y disgwylid ei ddarlledu ar y sianel Gymreig o amgylch y rhaglenni Cymraeg y tu hwnt i'r oriau brig. Gan mai dim ond oddeutu un rhan o dair o holl gynnwys y sianel fyddai yn y Gymraeg, byddai'r rhaglenni eraill hyn yn rhan sylweddol o ddarpariaeth y sianel newydd i'w chynulleidfa. Yr hyn a nodir yn y ddeddf yw:

> . . . for any period not allocated to the broadcasting of a programme not in Welsh, the programme broadcast is normally the same as the programme (or one of the programmes) broadcast on the Fourth Channel in that period for reception otherwise than in Wales.[256]

---

[254] Ibid.

[255] Ceir ystyriaeth ddyfnach o drafodaethau'r Pwyllgor ar Faterion Cymreig ym Mhennod 2, tt. 109–13.

[256] *Broadcasting Act 1981*, t. 49.

Yr hyn a welir yma yw argymhelliad clir y dylai'r bedwaredd sianel yng Nghymru drosglwyddo rhaglenni Channel 4 yn fyw pan na fyddai'n darlledu rhaglen Gymraeg. Er bod y geiriau a nodir mewn cromfachau yn awgrymu y gellid addasu'r rheol hon rhyw gymaint, mae'r trafodaethau ar lawr y Tŷ Cyffredin yn atgyfnerthu'r syniad mai darlledu rhaglenni Channel 4 yn fyw oedd y dewis a gefnogwyd gan y llywodraeth, a hynny oherwydd ei bod yn ymwybodol o'r costau technegol a thaliadau hawliau ychwanegol a fyddai ynghlwm â recordio rhaglenni'r sianel Brydeinig a'u hail-ddarlledu ar amser gwahanol.[257] Er ei ffafriaeth amlwg i'r dewis hwn, cydnabu'r llywodraeth mai Awdurdod y Bedwaredd Sianel yng Nghymru fyddai â chyfrifoldeb dros amserlenni'r sianel ac felly ni chafodd cynlluniau amserlennu amrywiol eu gwrthod gan y ddeddf.[258]

Cymalau eraill sy'n werth eu hystyried yw'r rhai sy'n trafod y canllawiau ar gyfer creu strwythur ymgynghorol ar gyfer Awdurdod y Bedwaredd Sianel yng Nghymru. Ceir cymal sy'n nodi rhyddid yr Awdurdod i benodi cyrff ymgynghori pe dymunai, a hefyd fod perffaith hawl gan yr Awdurdod i ofyn am gymorth gan gyrff ymgynghorol a fodolai eisoes, cyrff megis pwyllgor ymgynghorol cyffredinol yr ADA, pwyllgor ymgynghorol Cymreig yr ADA a Chyngor Darlledu Cymru y BBC.[259] Nodir pwyslais arbennig ar ymgynghori ym meysydd addysg a chrefydd, ond unwaith eto nid oes gorfodaeth yma i sefydlu pwyllgorau newydd annibynnol ar gyfer y materion hyn. Gellid dirnad o'r cymalau hyn, felly, fod y llywodraeth yn awyddus i sicrhau na cheid unrhyw ddyblygu ar ddarpariaeth a fodolai'n barod yng Nghymru ym maes ymgynghori ar faterion darlledu. Ymgais oedd hyn ar ran y llywodraeth i sicrhau nad oedd costau'r sianel newydd yn tyfu yn afreolus oherwydd ei bod yn sefydlu pwyllgorau niferus, diau hefyd y ceid yma ymgais i resymoli, ac i osgoi dyblygu adnoddau gan gwtogi ar fiwrocratiaeth wrth sefydlu'r sianel newydd.

Yr oedd y Ddeddf Ddarlledu, felly, yn rhoi amlinelliad i'r Awdurdod newydd a ddiffiniai hyd a lled ei gyfrifoldebau a phatrwm y gwasanaeth newydd. Awgryma

[257] *Hansard,* House of Commons, 10 November 1980, col. 77.
[258] Ibid.
[259] *Broadcasting Act 1981*, t. 51–2. Y gair Saesneg a ddefnyddir yw 'may' ac nid 'must' na 'shall'. Rhaid nodi ar y pwynt hwn hefyd fod y ddeddf yn mynnu fod Awdurdod y Bedwaredd Sianel yng Nghymru yn cael caniatâd gan y BBC ac ADA cyn derbyn unrhyw gyngor gan eu cyrff ymgynghorol.

cyflawnder y cynlluniau newydd a ymddangosodd yn y Ddeddf nad cynnwys syniadau a daflwyd at ei gilydd ar frys ar ôl ymweliad y tri gŵr doeth a wnaed.[260] Mae'r manylion am natur y darparwyr, y rhaglenni, yr amserlen, a'i pherthynas gyda Channel 4, yn bradychu, er nad oes tystiolaeth gadarn i brofi hynny, y bu gweision sifil yn gwyntyllu'r egwyddorion hyn dros gyfnod llawer helaethach na'r cwta dair wythnos a fu rhwng yr ail dro-pedol a chyflwyno'r gwelliannau i'r Mesur. At hynny, er yr holl ladd a fu ar y Ceidwadwyr a'u cynlluniau gwreiddiol, cafwyd yn yr Awdurdod sefydliad llawer mwy dylanwadol a chadarn nag unrhyw Bwyllgor neu Gyngor Darlledu Cymraeg a ragwelwyd gan y mesurau a'r pwyllgorau seneddol eraill. Rhoddwyd i'r Awdurdod newydd y cyfle i lunio gwasanaeth annibynnol ac unigryw ar gyfer y Cymry Cymraeg, a, pe dymunai hynny, gyda'i hunaniaeth a'i lais neilltuol ei hun. Agorwyd pennod newydd gyffrous yn hanes darlledu yng Nghymru felly, a chaed pwysau sylweddol ar ysgwyddau'r Awdurdod a'r darlledwyr yng Nghymru i sicrhau ei llwyddiant.

[260] Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch. Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007.

**Pennod 2**

**Deunaw mis o baratoi – dyddiau cynnar Awdurdod Sianel Pedwar Cymru**

Yn dilyn prysurdeb a chynnwrf yr amryfal ymgyrchoedd a bygythiad ympryd Gwynfor Evans, ail dro-pedol y Llywodraeth Geidwadol, a chyhoeddi'r Ddeddf Darlledu, gwawriodd realiti'r hyn a enillwyd a maint y dasg a wynebai'r rhai fyddai'n derbyn y cyfrifoldeb o sefydlu a rheoli'r sianel hir ddisgwyliedig hon. Dadansoddir yn y bennod hon yr hyn a enillwyd yn dilyn yr holl ymgyrchu, gan edrych ar ffurfiant Awdurdod Sianel Pedwar Cymru ac archwilio'r blaenoriaethau a osodwyd ganddo. At hynny, dadansoddir ymateb y cyhoedd a'r ymgyrchwyr i'r sianel newydd hon cyn iddi ddechrau darlledu ac ystyrir argraffiadau cynnar y cyhoedd ohoni cyn i unrhyw raglenni ymddangos ar y sgrîn er mwyn dirnad a oedd y sianel yn ateb y disgwyliadau a'r gobeithion a ffurfiwyd yn ystod blynyddoedd hir o ymgyrchu amdani.

*Strwythur ac isadeiledd Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*

Yn dilyn cydsyniad Brenhinol y Ddeddf Ddarlledu ar 13 Tachwedd 1980, ni fu brys amlwg i geisio ffurfio Awdurdod newydd ar gyfer y sianel cyn y Nadolig er mwyn iddo gael dechrau ar y mynydd gwaith a oedd o'i flaen. Bu'r oedi'n ddigon fel y bu i Gymdeithas yr Iaith fygwth tor-cyfraith unwaith yn rhagor er mwyn sicrhau fod y broses yn symud yn ei blaen ar fyrder.[1] Mewn erthygl yn *Y Faner*, ceisiodd R. Gerallt Jones wyntyllu'r rhesymau dros pam y caed yr oedi hwn. Nodwyd ganddo fod yr ansicrwydd a fodolai ynglŷn â phwy fyddai'n derbyn y cytundeb i ddarlledu ar rwydwaith ITV yng Nghymru tan y penderfynai'r ADA ar ddechrau 1981 yn un o'r rhesymau amlycaf. At hynny, ystyriwyd ganddo fod tactegau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (PDFC) o ymosod ar y BBC ac HTV am roi gormod o sylw i wleidyddiaeth Gymreig a gorwario ar raglenni Cymraeg yn arafu'r broses.[2] Gellid yn wir ddadlau bod y ddau ffactor yma wedi cael effaith andwyol ar ddatblygiad unrhyw gamau tuag at sefydlu'r Awdurdod, yn enwedig gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol. Byddai'n ymddangos yn ddryslyd ac yn gwbl anghyson i feirniadu gwariant ar raglenni Cymraeg mewn un fforwm llywodraethol, tra bod cangen arall o'r llywodraeth yn bwrw ymlaen â sefydlu Awdurdod fyddai'n gwario mwy nag erioed

[1] R. Gerallt Jones, 'Mawr alw am gyhoedd effro a llafar', *Y Faner*, 16 Ionawr 1981, t. 6.

[2] Ibid. Ceir trafodaeth bellach ar weithgareddau'r PDFC gydol y bennod hon.

o'r blaen. Yr oedd unrhyw oedi ar ran y llywodraeth i sefydlu Awdurdod Cymreig, yn enwedig gan fod y Bedwaredd Sianel Brydeinig wedi hen benodi bwrdd rheoli a swyddogion, yn cael ei weld fel rhagor o dystiolaeth o anfodlonrwydd y llywodraeth i roi chwarae teg i'r Bedwaredd Sianel yng Nghymru yn ystod ei chyfnod prawf.

Bwriodd y llywodraeth ati i benodi'r Awdurdod newydd ar gyfer pedwaredd sianel Cymru yn ystod Ionawr 1981. Y Cadeirydd a etholwyd er mwyn llywio'r Awdurdod newydd trwy flynyddoedd y cyfnod prawf ac i sicrhau fod y sianel newydd yn gwireddu amcanion y Ddeddf Ddarlledu oedd Syr Goronwy Daniel, un o'r tri gŵr doeth a aeth i ymweld â William Whitelaw ar 10 Medi 1980 er mwyn dwyn perswâd arno i ddychwelyd at y polisi gwreiddiol o ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel. Bu Syr Goronwy Daniel hefyd yn Llywydd y gynhadledd ddarlledu a noddwyd gan Arglwydd Faer Caerdydd ac a gadeiriwyd gan Archesgob Cymru, G. O. Williams yng Ngorffennaf 1973.[3] Gwelid cyswllt felly rhwng y frwydr i sicrhau'r sianel Gymraeg a'r dasg o'i sefydlu a'i datblygu. Er hynny, nid oedd gan Syr Goronwy Daniel gefndir amlwg ym maes darlledu cyn ei benodi'n Gadeirydd yr Awdurdod newydd.[4] Bu'n brif ystadegydd i'r Weinyddiaeth Danwydd a Phŵer rhwng 1947 a 1955, yn was sifil fel ysgrifennydd parhaol cyntaf y Swyddfa Gymreig rhwng 1964 a 1969, cyn symud i Aberystwyth fel Prifathro y Brifysgol yno rhwng 1969 a 1979.[5] Mae'n ddigon posibl nad Syr Goronwy Daniel oedd y dewis cyntaf i arwain Awdurdod y Bedwaredd Sianel yng Nghymru. Ceir awgrym yn *Y Faner*

---

[3] LLGC, Casgliad Syr Goronwy Daniel, Blwch 3, Goronwy Daniel, *The Lord Mayor's Conference in Television in Wales*, 3 Gorffennaf 1973. At hynny, ymddengys y bu Syr Goronwy yn gefnogol i'r ymgyrchoedd a'r ymgyrchwyr yn ystod y frwydr i sefydlu'r sianel, gan y cofia Ned Thomas, pan yr oedd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, iddo dderbyn nodyn gan Syr Goronwy, yn rhinwedd ei swydd fel prifathro'r Brifysgol, fore trannoeth gwrthdystiad mast Pencarreg yn mynegi ei fod yn llawn ddeall cymhelliad y tri gŵr, *Wythnos Gwilym Owen* (BBC Radio Cymru, 25 Hydref 2010).

[4] Yn wir byddai Syr Goronwy yn datgan ei anwybodaeth o faes teledu yn ddigon agored, gweler dystiolaeth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru i'r PDFC, *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implications for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners – Vol II* (London: HSMO, 1981), t. 518.

[5] Meic Stephens, 'Sir Goronwy Daniel', 20 January 2003, *www.independent.co.uk/news/obituaries/sir-goronwy-daniel-602239.html* (cyrchwyd Hydref 2008).

mai'r Arglwydd Emlyn Hooson oedd ar frig rhestr y llywodraeth ar gyfer y swydd,[6] ac ym mywgraffiad Gwynfor Evans, awgrymir yr ystyriwyd Dr Glyn Tegai Hughes fel Cadeirydd posibl hefyd.[7] Bu dewis Goronwy Daniel fel Cadeirydd yn ddetholiad ffodus, gyda Rhys Evans yn ei ddisgrifio fel: '[c]adeirydd Solomonaidd o ddoeth gan roi'r cychwyn gorau posibl i S4C.'[8] Yn ei ysgrif goffa i Syr Goronwy Daniel disgrifiodd Meic Stephens ei gyfraniad i ddatblygiad S4C yn y termau canlynol:

> It [S4C] may be properly considered as a monument not only to the readiness of Gwynfor Evans to sacrifice himself for the sake of a principle but also to the practical skills of Sir Goronwy Daniel, who guided the frail bark through what were then uncharted and choppy waters.[9]

Ceir yma ddisgrifiadau hynod glodwiw o gyfraniad Syr Goronwy Daniel i ddatblygiad cynnar S4C. Yn sicr bu ei brofiad o weithio gyda'r Swyddfa Gymreig, a'i ddealltwriaeth o gyfrin-ffyrdd San Steffan a Whitehall yn allweddol wrth i'r sianel geisio ffurfio perthynas gyda gwleidyddion ac adrannau o'r llywodraeth. Diau hefyd y bu ei addysg a'i gefndir ym myd ystadegau'n hollbwysig wrth i'r Awdurdod lunio ei geisiadau ariannol i'r ADA ac wrth drin ffigurau gwylio dyrys a chymhleth.

Megis y trafodwyd yn y bennod flaenorol, er nad oedd y Ddeddf yn cynnwys unrhyw ganllawiau ar gyfer pa unigolion neu sefydliadau y dylid eu cynrychioli ar yr Awdurdod, yr oedd gan y llywodraeth syniadau penodol ynglŷn â phwy ddylai dderbyn y cyfrifoldeb i siapio'r sianel newydd fel y dangosodd y trafodaethau ar lawr

---

[6] 'Ar Garlam – Tomos Gee Gee', *Y Faner*, 23 Ionawr 1981, t. 3. Ni chynigwyd y swydd i'r Arglwydd Hooson, cyn Aelod Seneddol ar gyfer Sir Drefaldwyn, a hynny oherwydd, er na ellid profi hynny gydag unrhyw dystiolaeth gadarn, bod HTV wedi gwrthwynebu'r penodiad ar sail y ffaith fod yr Arglwydd Hooson wedi bod yn rhan o gonsortiwm Hafren a wnaeth gais yn erbyn HTV am y rhyddfraint i ddarlledu ar y rhwydwaith annibynnol yng Nghymru a Gorllewin Lloegr ym 1980. Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007; Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.

[7] Rhys Evans, *Rhag Pob Brad* (Talybont, 2005), t. 451. Nododd Glyn Tegai Hughes, mewn cyfweliad â'r awdur, nad oedd o'n ymwybodol fod ei enw wedi ei ystyried ar gyfer y rôl. Gellid dadlau, gan y bu Glyn Tegai Hughes yn rhan o'r grŵp a ffurfiwyd er mwyn llywio Channel 4 trwy ei datblygiadau cynnar a hynny er mwyn cynrychioli materion addysgol a Chymreig, mai ef fyddai'r dewis naturiol ar gyfer y swydd. Gellid dadlau hefyd i'r gwrthwyneb, na fyddai hi'n briodol nac yn ymarferol i unigolyn a oedd yn eistedd ar fwrdd rheoli Channel 4 fod hefyd yn Gadeirydd ar y bedwaredd sianel yng Nghymru, oherwydd y pwysau gwaith aruthrol fyddai ynghlwm â chyfrifoldebau o'r fath. Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.

[8] Evans, *Rhag Pob Brad*, t. 451.

[9] Stephens, 'Sir Goronwy Daniel', 20 Ionawr 2003.

Tŷ'r Cyffredin.[10] Yr oedd hi'n annatod felly y byddai Alwyn Roberts, Llywodraethwr y BBC yng Nghymru;[11] yr Athro Huw Morris-Jones, aelod Cymreig yr ADA,[12] a Dr Glyn Tegai Hughes, cynrychiolydd Cymru ar Fwrdd Channel 4 yn cael eu penodi i Awdurdod y sianel newydd.[13] Er ei bod hi'n amlwg i hanesydd, o edrych yn ôl dros y trafodaethau ar lawr y Tŷ Cyffredin, y byddai'r unigolion hyn yn cael eu galw i wasanaethu ar yr Awdurdod, i'r unigolion dan sylw ymddengys nad oedd y gwahoddiadau yr un mor sicr. Bu'r broses o gysylltu â'r darpar aelodau yn un frysiog ac yn un a fradychai frys y llywodraeth i gyhoeddi a dangos eu bod yn gweithredu, ar ôl oedi cyhyd. Cofia Alwyn Roberts iddo dderbyn galwad ffôn ar brynhawn Mawrth gan y Swyddfa Gartref yn gofyn a fyddai'n fodlon ymgymryd â'r swydd, a hwythau'n dymuno cyhoeddi'r enwau ymhen llai na deuddydd ar y dydd Iau.[14] Ond nid aelodau o gyfundrefnau darlledu eraill yn unig a fyddai'n cael eu dewis i arwain y sianel yn y blynyddoedd cynnar allweddol. Detholwyd un aelod nad oedd yn rhan o'r drefn honno, sef D. Ken Jones, gŵr a oedd yn gyn-asgellwr i Gymru a'r Llewod a dyn a oedd bellach yn ŵr busnes llwyddiannus fel rheolwr gyfarwyddwr y cwmni Takiron UK, y cwmni cyntaf o Japan i sefydlu adain weithredol yng Nghymru.[15]

---

[10] *Hansard*, House of Commons, 10 November 1980, col. 39.

[11] Penodwyd Alwyn Roberts yn Lywodraethwr y BBC yng Nghymru ym 1979, at hynny yr oedd yn weinidog gyda'r Eglwys Bresbyteraidd ac yn Bennaeth yr Adran Astudiaethau Allanol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor; John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994), t. 340.

[12] Penodwyd yr Athro Huw Morris-Jones yn Aelod Cymreig yr ADA ym 1976, bu hefyd yn Athro yn yr Adran Gymdeithaseg Prifysgol Bangor tan ei ymddeoliad o'r swydd honno ym 1979; Dienw, 'Pwy ddaw i'r swydd?', *Y Cymro*, 23 Chwefror 1982.

[13] Ynghyd â bod yn aelod o Fwrdd Rheoli Channel 4, o ddydd i ddydd Dr Glyn Tegai Hughes oedd Warden Gregynog, canolfan breswyl Prifysgol Cymru ar gyrion y Drenewydd. Ef hefyd oedd rhagflaenydd Alwyn Roberts fel Llywodraethwr y BBC yng Nghymru rhwng 1971 a 1979; Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, tt. 291–2. Nododd Glyn Tegai Hughes ei fod yn credu nad yn sgil ei gyfrifoldebau ar Fwrdd Rheoli'r bedwaredd sianel Brydeinig y penodwyd ef i Awdurdod y bedwaredd sianel yng Nghymru, ac mai cyd-ddigwyddiad hapus oedd hynny. Credai mai er mwyn osgoi rhag-dybio y byddai lle i aelod o Fwrdd Rheoli y sianel Brydeinig ar Awdurdod y sianel Gymraeg am flynyddoedd i ddod y gwnaed hynny; Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007. Trafodwyd yn y bennod ddiwethaf mai gwrthwynebiad Lady Plowden, Cadeirydd yr ADA, a sicrhaodd nad oedd manylion aelodaeth yr Awdurdod wedi ei osod yn y Ddeddf Ddarlledu, gweler Pennod 1, t. 75.

[14] Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007. Gellid awgrymu hefyd fod y llywodraeth yr un mor hwyr yn cadarnhau Cadeirydd yr Awdurdod, gan i Alwyn Roberts gysylltu â Syr Goronwy Daniel ar ôl ei drafodaeth gyda'r Swyddfa Gartref gan i'r swyddogion yno ei enwi fel Cadeirydd yn eu trafodaethau. Ymateb Syr Goronwy Daniel oedd i ddatgan wrth Alwyn Roberts nad oedd wedi cadarnhau ei fod yn derbyn y swydd eto!

[15] 'BBC controller to be director of Wales 4$^{th}$', *Stage & TV Today*, 19 March 1981. Gweler Atodiad A am restr gyflawn o aelodau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod dan sylw yr astudiaeth hon.

Nid pawb oedd yn hapus gyda phenodiad cynrychiolwyr o'r BBC, ADA a Channel 4 ar yr Awdurdod newydd, a bu beirniadu hallt ar gyfansoddiad yr Awdurdod yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Honnwyd fod cynnwys yr aelodau hyn yn creu perthynas losgachol rhwng y sefydliadau darlledu a fyddai'n creu sefyllfa lle gellid cwestiynu a oedd rhai aelodau yn brwydro dros y bedwaredd sianel a'r cyhoedd, neu ar ran eu sefydliadau eu hunain. Meddai Leo Abse, A.S. wrth holi Syr Goronwy Daniel:

> Do you not think that, given the conflicts and undercurrents which we have already observed in the course of our evidence, the public interest may not in fact assume the highest degree of priority and that the band of brothers may be too accommodating to each other precisely because three of them are representing vested interests?[16]

Ysgubwyd honiadau Leo Abse o'r neilltu gan yr Ysgrifennydd Cartref, William Whitelaw, a chan Syr Goronwy Daniel wrth iddynt amlygu'r ffaith mai y gwrthwyneb llwyr a oedd yn wir, ac i aelodau'r Awdurdod a gynrychiolai gyfundrefnau darlledu eraill, roi buddiannau'r sianel Gymraeg yn gyntaf.[17] Ysywaeth, ni lwyddwyd i berswadio'r PDFC o'r budd a gaed o bresenoldeb yr aelodau hyn, yn enwedig aelod Cymreig yr ADA, a hynny oherwydd nad oedd modd cymodloni buddiannau ariannol rhwydwaith ITV a S4C.[18] Argymhellodd y Pwyllgor felly: '. . . that the WFCA [Welsh Fourth Channel Authority] should be reconstituted and that cross-membership with the BBC and IBA be discontinued in order that the WFCA can be seen to be carrying out its transactions with other broadcasting bodies on a clear "arms's length" basis.'[19] Er yr argymhelliad clir hwn ym 1981, ni welwyd ei fabwysiadu yn syth gan y llywodraeth a pharhaodd y patrwm gydol y cyfnod prawf. Hyd yn oed wedi i'r Athro Huw Morris-Jones ymddeol fel aelod Cymreig yr ADA, penodwyd Gwilym Peregrine, ei olynydd, i Awdurdod y bedwaredd sianel yng Nghymru ym 1982. Er yr holl feirniadu a fu ar gyfansoddiad yr Awdurdod, yr oedd nifer o fanteision ynghlwm wrth bresenoldeb aelodau o'r cyfundrefnau darlledu, yn

---

[16] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implications for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners – Vol II* (London: HMSO, 1981), t. 510.
[17] Ibid.
[18] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implications for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners – Vol I* (London: HMSO, 1981), t. xxiii.
[19] Ibid.

enwedig o ystyried cyn lleied o amser a oedd i'r Awdurdod lansio'r sianel. O ganlyniad i'w hymwneud â'r Awdurdod, sicrhawyd y gellid gwneud nifer o benderfyniadau yn gyflym ac y gellid mynnu cymorth yn ddiffwdan oherwydd statws, cysylltiadau a gwybodaeth yr aelodau hynny. Meddai Pwyllgor Cymreig yr ADA yn ei ymateb i argymhellion y PDFC:

> . . . the Welsh Fourth Channel Authority had achieved a considerable amount in the short time that it had been in existence. This was largely explained by the fact that three out of the five members of the Welsh Fourth Channel Authority were in some way connected with broadcasting.[20]

Yn dilyn cyhoeddi'r penodiadau, daeth yn glir iawn y byddai cydweithio rhwng y sefydliadau darlledu yn un o gonglfeini llwyddiant neu fethiant y sianel newydd. Er hynny, nid oedd pob carfan a fyddai'n darparu rhaglenni ar gyfer y sianel newydd wedi ei chynrychioli ar yr Awdurdod. Doedd dim cynrychiolaeth yno o du'r cynhyrchwyr annibynnol. Er bod gan Ken Jones gefndir busnes, doedd ganddo ddim cysylltiadau amlwg gyda'r sector gynhyrchu annibynnol. Ond, rhaid cofio, er hynny, yn ystod y cyfnod hwn na cheid nifer fawr o gynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru, ac nad oedd disgwyl i'r sector honno yn y cyfnod cynnar hwn wneud cyfraniad sylweddol i'r sianel.[21] Gellid honni, felly, nad oedd y Swyddfa Gartref wedi ystyried bod galw am gynrychiolydd ar yr Awdurdod a fyddai'n gallu brwydro dros achos y cynhyrchwyr bychain.

Carfan arall, gellid honni, a amddifadwyd, oedd y cyhoedd gan na cheid cynrychiolaeth ymysg aelodau'r Awdurdod o'r gynulleidfa fyddai'n gwylio'r rhaglenni a ddarlledid gan y sianel newydd. Dyma ffaith a leisiwyd ac a feirniadwyd gan Dafydd Elis-Thomas yn Nhŷ'r Cyffredin.[22] Er hynny, gellid dadlau fod pob

---

[20] Casgliad Personol Dr Jamie Medhurst (CPJM), Papurau ADA, *Minutes of the Hundred and Forty Ninth Meeting of the Wales Advisory Committee*, 20 Hydref 1981, t. 3. Ym Mawrth 1980, newidiodd Pwyllgor Cymreig yr ADA ei deitl swyddogol o *Welsh Committee* i *Wales Advisory Committee*. Er hynny, parhawyd i arddel y teitl 'Pwyllgor Cymreig' ar bapur pennawd y pwyllgor hyd 1990, ac, o'r herwydd, defnyddir y teitl Cymraeg hwnnw gydol y traethawd hwn.
[21] Euryn Ogwen Williams, Wil Aaron, Gareth Wyn Williams, Colin Thomas, Norman Williams, Wilbert Lloyd Roberts (Cwmni Theatr Cymru), Toby Freeman (Cynllun Fideo Cymunedol Blaenau Ffestiniog) ac o bosibl Huw Jones (Sain) oedd yr unigolion yr ystyriwyd y gallai weithredu fel cynhyrchwyr annibynnol i'r sianel Gymraeg gyda'r Bwrdd Ffilmiau Cymreig yn sefydliad y disgwylid fyddai'n cyfrannu hefyd.
[22] *Hansard*, House of Commons, 10 Tachwedd 1980, col.58.

cynrychiolydd ar yr Awdurdod ar un lefel yn cynrychioli'r gynulleidfa gan eu bod hwythau hefyd yn wylwyr rhaglenni Cymraeg. Ond mae'n rhaid nodi, pe ystyrid pob un aelod o'r Awdurdod hefyd yn wyliwr, mai cynrychiolaeth o un neu ddwy garfan gymdeithasol wahanol yn unig a gaed yn eu plith. Y bwlch amlycaf yn y gynrychiolaeth oedd y ffaith nad oedd merch ymhlith yr aelodau a fyddai yn dod â phersbectif benywaidd ar y rhaglenni a gomisiynwyd ac a ddarlledwyd gan y sianel.[23]

Ar ôl oedi a fu mor nodweddiadol o weithgaredd y llywodraeth wrth iddi sefydlu'r Awdurdod, bu'r patrwm wedi iddi gael ei sefydlu yn gwbl i'r gwrthwyneb. Yn wir fe ddisgrifiwyd Syr Goronwy, yn dilyn ei benodiad, fel dyn a oedd yn '. . . barod i ymaflyd yn y swydd gydag egni a brwdfrydedd ynghyd â'r doethineb hwnnw sydd mor nodweddiadol ohono ac a fydd yn gwbl angenrheidiol yn ystod cyfnod sefydlu'r gwasanaeth.'[24] Yn wir, ymhen rhai dyddiau ar ôl y cyhoeddiad, cynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod ffurfiol cyntaf yng Ngregynog ar benwythnos 31 Ionawr – 1 Chwefror 1981.[25] Amlygwyd dau beth i aelodau'r Awdurdod yn sgil y cyfarfod estynedig cyntaf hwn, yn gyntaf sylweddolwyd anferthedd y dasg a oedd o'u blaenau, ac yn ail y pwyslais mawr a fyddai ar gyd-weithio. Daeth y pwyslais ar gyd-weithio yn glir o gofio pwy oedd yr unigolion a wahoddwyd i fod yn rhan o'r cyfarfod cyntaf hwnnw, megis Eirion Lewis o'r ADA, Owen Edwards o'r BBC a Syr Alun Talfan Davies a Ron Wordley o HTV.[26]

Rhannwyd y penwythnos yn bedwar sesiwn gwahanol, gyda'r sesiwn gyntaf ar gyfer aelodau yr Awdurdod yn unig er mwyn iddynt drafod rhai o'r manylion cychwynnol,

---

[23] Beirniadwyd yr Awdurdod gan y PDFC nad oedd merch ymysg ei aelodau yn ystod ymweliad cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru â'r pwyllgor hwnnw. *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 511. Newidiodd y patrwm hwn ym 1984 pan ymddeolodd Ken Jones o'r Awdurdod ac fe ddetholwyd Eleri Wynne Jones yn unig aelod benywaidd yr Awdurdod. Bu yr Athro Elan Closs Stephens yn Gadeirydd ar yr Awdurdod rhwng 1998 a 2006, gan newid y patrwm patriarchaidd hwnnw yn llwyr.

[24] 'Golygyddol', *Barn*, Chwefror 1981, t. 44.

[25] Nid dyma oedd cyfarfod cyntaf yr Awdurdod, gan y cafwyd cyfarfod blaenorol yn y BBC yng Nghaerdydd er mwyn recordio sgwrs ar raglen *Articles* John Morgan a ddarlledwyd ar ddiwrnod olaf Ionawr 1981. Yr oedd pob aelod o'r Awdurdod newydd, ar wahân i D. Ken Jones, yn bresennol. Mewn gwirionedd, yr oedd pawb heblaw am Ken Jones yn adnabod ei gilydd yn weddol dda oherwydd eu bod wedi ymwneud â'r byd darlledu a'r byd academaidd ers nifer o flynyddoedd; Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007; *Articles* (BBC Radio Wales, 30 Ionawr 1981).

[26] Eirion Lewis, Ysgrifennydd yr ADA yng Nghymru; Owen Edwards, Rheolwr BBC Cymru; Syr Alun Talfan Davies, Cadeirydd Bwrdd Cymreig HTV; Ron Wordley, Rheolwr Gyfarwyddwr HTV.

megis trefniadau dros dro o ran swyddfa a staff. Yn ôl cofnodion y cyfarfod y peth cyntaf a drafodwyd ac a benderfynwyd arno oedd enw'r sianel newydd sef Sianel Pedwar Cymru, ac y'i talfyrrid i S4C.[27] Ni cheir cofnod o unrhyw enwau eraill yn cael eu trafod na'u hystyried, ac yn wir, fe gofia aelodau o'r Awdurdod i'r penderfyniad fod yn un rhwydd a chyflym iawn.[28] Penderfynwyd hefyd mai'r Cadeirydd yn unig fyddai'n ymgymryd â datganiadau i'r wasg ac y byddai disgwyl i'r aelodau eraill ymgynghori gydag ef cyn gwneud unrhyw sylwadau cyhoeddus.[29] Penderfyniad cynnar arall a wnaed gan yr Awdurdod newydd oedd hysbysebu ar fyrder am Brif Swyddog i'r sianel, a hynny er mwyn iddo ef neu hi fod yn rhan o'r penderfyniadau allweddol hynny o ddod o hyd i swyddfa barhaol a phenodi staff ychwanegol ar gyfer y sianel. Gellid casglu o'r penderfyniad hwn mai nod yr Awdurdod oedd canfod Prif Swyddog a fyddai'n rhoi ei stamp ei hun ar y sianel, ac mai ef neu hi fyddai'n ymwneud â phenderfyniadau o ddydd i ddydd y sianel newydd ac nid yr Awdurdod.[30] Dengys tystiolaeth a thrafodaethau'r Awdurdod â'r Pwyllgor Dethol y rhinweddau y gobeithid eu canfod mewn Prif Swyddog, gyda Syr Goronwy Daniel yn mynnu bod rheidrwydd ar yr Awdurdod i ddethol unigolyn a fyddai'n feistr llwyr ar ei faes ac a fyddai â'r gallu i drafod ac ymresymu gyda'r darlledwyr eraill mewn modd a fyddai'n sicrhau statws cyfatebol i'r sianel newydd yng nghwmni cyfundrefnau darlledu eraill Cymru. At hynny, yr oedd rheidrwydd i ddod o hyd i unigolyn a oedd yn meddu ar sgiliau ariannol disglair. Er y gofynion hyn, yr oedd yr Awdurdod yn llwyr ymwybodol nad oedd sicrwydd y gellid canfod yr holl sgiliau anghenrheidiol hyn mewn un unigolyn. Meddai Syr Goronwy Daniel:

> . . . maybe the Archangel will be appointed. My suspicion is that we will, because of the fallibility of human beings, have somebody who is very strong in certain fields of expertise, besides having the general qualities of character which are essential. Then we shall

[27] Casgliad Personol Dr Glyn Tegai Hughes (CPGTH), *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 31 Ionawr – 1 Chwefror 1981, t. 1.
[28] Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007; Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.
[29] CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[30] Ibid. Bu rhai sïon ar led yn y dyddiau cyn penodi aelodau'r Awdurdod y byddai'r llywodraeth, oherwydd yr oedi, yn penodi Prif Swyddog er mwyn rhoi sbardun i'r datblygiadau heb ymgynghori â'r Awdurdod newydd. Byddai penderfyniad o'r fath wedi bod yn un hynod andwyol a phroblematig i'r sianel newydd petai'r Awdurdod yn anghytuno'n chwyrn gyda phenodiad y llywodraeth, ac yn dystiolaeth pellach o ddiffyg dealltwriaeth a pharch y Llywodraeth Geidwadol tuag at Gymru; Jones, 'Mawr alw am gyhoedd effro a llafar'.

> need to complement him in the things in which he happens to be less strong from the expertise point of view.[31]

Yn ail sesiwn y cyfarfod cyntaf hwn, trafodwyd angen yr Awdurdod i sicrhau cymorth gweinyddol dros dro ac fe gafwyd gan yr ADA gynnig ystafell a chymorth gweinyddol yn eu swyddfeydd yn Nhŷ Elgin ar Heol Eglwys Fair, Caerdydd a chan y BBC wasanaeth teipydd.[32] Ymgymerodd Eirion Lewis hefyd â'r cyfrifoldeb o fod yn ysgrifennydd dros dro i'r Awdurdod gan gymryd gofal o'r cofnodion.[33] Bu'r Awdurdod, felly, yn ddibynnol iawn ar ewyllys da sefydliadau eraill ar y dechrau, sefyllfa a ddengys mor enfawr oedd y dasg gerbron yr aelodau gan eu bod yn dechrau heb ddim cyfleusterau nac arian i'w prynu neu eu llogi.

Gwelir ymhlyg yng nghofnodion y cyfarfod cyntaf hwn hefyd rai o brif themâu y trafodaethau a blaenoriaethau'r Awdurdod newydd wrth iddo weithio tuag at wireddu'r sianel newydd. Nid yw'n syndod nodi mai'r hyn a oedd yn flaenllaw yn y trafodaethau cychwynnol oedd natur rhaglenni y sianel. Bu aelodau'r Awdurdod yn ystyried hefyd eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Ddarlledu gan godi cwestiynau ynglŷn â rhai o'r manylion aneglur a geid ynddi. Mynnwyd eglurhad ar sawl agwedd o'r Ddeddf oddi wrth y Swyddfa Gartref, megis a oedd hysbysebion yn cael eu cyfrif yn y nifer o oriau a ddisgwylid i'r Awdurdod eu darlledu. Megis y trafodaethau a gaed ar lawr y Tŷ Cyffredin pan drafodwyd geiriad terfynol y Ddeddf, yr oedd angen eglurhad hefyd o'r drefn a fyddai'n ymwneud â dangos rhaglenni'r bedwaredd sianel Brydeinig. Nodwyd gan yr Awdurdod yr angen hefyd am drafodaeth ar yr egwyddor o 'unwaith o gwmpas y trosglwyddyddion' gyda'r sianel Brydeinig ac, o bosibl, gyda'r undebau.[34] Mae'n amlwg felly o'r trafodaethau hyn fod Awdurdod S4C wedi ystyried o'r cychwyn cyntaf bod ail-amseru rhaglenni'r sianel Brydeinig yn ôl ei ddymuniad ei hun yn hytrach na derbyn y rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu'n fyw ar Channel 4 o amgylch y rhaglenni Cymraeg, yn allweddol i lwyddiant y sianel yng Nghymru. Gellir dadlau hefyd eu bod yn fodlon gwneud hynny gan wybod, o bosibl, y byddai costau ychwanegol oherwydd y gallai'r undebau fynnu bod eu

---

[31] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 519.
[32] Bu staff S4C yn rhannu swyddfeydd gyda'r ADA hyd ganol Gorffennaf 1981.
[33] CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[34] Ibid. Cysyniad yw 'unwaith o gwmpas y trosglwyddyddion' lle y gellid dangos rhaglenni sydd wedi eu dangos mewn un rhan o'r wlad mewn ardal arall ar amser gwahanol heb orfod talu unrhyw gostau ychwanegol i'r artistiaid sy'n rhan o'r rhaglen. Defnyddiwyd y cysyniad hwn yng nghyd-destun gweithgareddau ITV oherwydd yr eithriadau rhanbarthol a geid i'r amserlenni darlledu.

haelodau yn derbyn taliad ailddangosiad pe dangosid eu gwaith ar S4C ar amser gwahanol i Channel 4. Yr oedd derbyn eglurhad pellach ar y mater hwn yn hanfodol felly i'r Awdurdod er mwyn gallu cynllunio cyllideb ac amserlenni arfaethedig y sianel.[35]

Mater arall a oedd yn flaenllaw ar agenda'r Awdurdod yn y cyfarfod cyntaf hwn oedd sut y gellid mesur safon ac ansawdd rhaglenni, yn enwedig yng nghyd-destun anghydweld rhwng darparwyr a'r sianel. Efallai fod y pryder yma'n deillio o gefndir Syr Goronwy Daniel, a'i fod bellach yn ceisio dod i'r afael â maes lle yr oedd mesur llwyddiant yn fater llawer mwy haniaethol a goddrychol na maes ystadegau. Nodwyd hefyd gan yr Awdurdod, er mwyn ceisio sicrhau eglurder, bod y strwythur a roddwyd i'r sianel, lle byddai'n comisiynu rhaglenni gan ddarparwyr allanol, yn debyg iawn i rôl golygydd neu gyhoeddwr gwyddoniadur, gan mai gyda'r cyfranwyr y byddai'r cyfrifoldeb dros gynnwys yr eitemau gwahanol.[36] I ddarllenydd cyfoes mae'n ymddangos yn od fod yn rhaid i'r Awdurdod geisio cymharu strwythur y sianel gydag un llenyddol er mwyn ceisio ymrafael â'i nodweddion, ond dylid cofio fod y drefn newydd a welwyd gyda geni S4C a Channel 4, lle yr oedd darlledwyr yn ymddwyn fel cyhoeddwyr, yn gwbl newydd ac yn hollol wahanol i'r patrymau darlledu a fodolai eisoes. Yr oedd y BBC a chwmnïau ITV yn cynhyrchu eu rhaglenni eu hunain, a bychan iawn oedd nifer y rhaglenni a gomisiynwyd ganddynt o ffynonellau allanol yn y cyfnod hwn. At hynny, yr oedd y strwythur newydd hwn yn un cyfarwydd ac yn un a weddai i ddiwylliant Cymreig a hynny oherwydd pwysigrwydd hanesyddol y byd llenyddol a chyhoeddi, yn enwedig i'r Cymry Cymraeg.

Yn unol â'r mater dros gyfrifoldeb am gynnwys y rhaglenni, yn ddiweddarach yn yr un cyfarfod nodwyd y byddai cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i sicrhau nad oedd y rhaglenni a ddarlledid gan S4C yn tramgwyddo ar faterion chwaeth, rhagfarn, cydbwysedd a thegwch. Ond, yn hytrach na ffurfio ei ganllawiau ei hun ar gyfer cynhyrchwyr y sianel, penderfynodd yr Awdurdod y dylai'r BBC ddilyn ei ganllawiau ei hun ac y dylai HTV a'r cynhyrchwyr annibynnol lynu at ganllawiau'r

[35] Ceir trafodaeth bellach ar yr egwyddor hon yn y bennod nesaf, wrth drafod perthynas S4C â Channel 4, tt. 139–47.
[36] CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

ADA ar y materion hyn. Fodd bynnag, yng nghyd-destun sicrhau cydbwysedd gwleidyddol, byddai'r sianel newydd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau cydbwysedd ar draws y gwasanaeth yn gyffredinol tra byddai disgwyl i'r cynhyrchwyr sicrhau cydbwysedd o fewn eu rhaglenni unigol.[37] Gellir dadlau y gallai'r penderfyniad hwn, er ei fod yn un rhesymegol iawn ac yn un a fyddai'n osgoi'r angen i gynhyrchwyr ymrafael a chod cwbl newydd, gael effaith andwyol ar y gwasanaeth gyda chynhyrchwyr yn gweithio o fewn canllawiau gwahanol. O ganlyniad, ceid perygl y gallai eitem a darlledid ar un rhaglen fod yn annerbyniol yn ôl canllawiau un o'r cynhyrchwyr eraill gan gyfrannu at wasanaeth dryslyd iawn o ran ei ethos a'i gynnyrch.

Fel y nodwyd eisoes, yr oedd patrwm y sianel newydd hon yn unigryw gan na fyddai'n cynhyrchu ei rhaglenni ei hun. O ganlyniad, ystyriaeth a oedd yn flaenllaw ym meddwl yr Awdurdod newydd oedd o ble y deuai'r ugain awr a mwy o raglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar y sianel newydd yn wythnosol. Yng nghofnodion y cyfarfod cyntaf hwn ceir syniad manylach o'r modd yr oedd y darlledwyr eu hunain wedi dehongli eu cyfrifoldebau yn ôl y Ddeddf. Nodir fod y BBC yn gweithredu ar y sail y byddai'n cynhyrchu 10 awr o ddarpariaeth Cymraeg yr wythnos a hynny o ddiwedd 1982 ymlaen. O ystyried cyfraniad HTV, nid yw'r darlun yr un mor glir. Nodwyd fod swyddogion yr Awdurdod yn ymwybodol mai saith awr o ddarpariaeth Gymraeg a oedd wedi ei chynnwys yng nghytundeb newydd HTV, ond nid oedd unrhyw ganllawiau pellach ar gael. Fodd bynnag, un peth a ddeil yn amlwg o'r cofnodion yw bod yr Awdurdod yn poeni o'r dechrau y gallai HTV, fel cwmni masnachol, godi costau afresymol ar S4C am raglenni, er y nodwyd hefyd o fewn yr un frawddeg fod yr Awdurdod yn disgwyl y byddai staff S4C yn llwyddo i sicrhau fod yr Awdurdod yn cael gwerth ei arian gan y cwmni.[38]

Yn atodol i'r trafodaethau a gafwyd ynglŷn â'r hyn a ellid ei gynnig i'r sianel newydd gan y darlledwyr sefydledig, crybwyllwyd y gellid cael rhaglenni yn ogystal gan gynhyrchwyr annibynnol. Nodwyd hefyd, hyd yn oed cyn cyfarfod cyntaf

---

[37] Ibid.

[38] CPGTH, *Cofnodion Ail Sesiwn Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 31 Ionawr, 1981, t. 3. Mae'r sylwadau hyn yn ymddangos yn y drafft cyntaf o'r cofnodion, ond caiff y frawddeg ei hepgor o'r fersiwn swyddogol; CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

swyddogol yr Awdurdod, fod y Cadeirydd wedi cynnal trafodaeth gydag Euryn Ogwen Williams a oedd yn gynhyrchydd annibynnol yn y cyfnod hwn.[39] Yn ystod y drafodaeth honno, nodwyd y credai'r cynhyrchwyr annibynnol, a oedd wedi mynd ati gydag aelodau o staff y darlledwyr mawr i sefydlu cymdeithas, y gallent gynhyrchu tair awr yr wythnos ar gyfer y sianel newydd.[40] Yr oedd y cynhyrchwyr hyd yn oed wedi ystyried beth a gynhwysid o fewn y deirawr honno, sef awr a hanner o ddrama, awr o adloniant ysgafn a hanner awr o raglen 'werin'.[41] Nodwyd hefyd i'r drafodaeth rhwng y Cadeirydd ac Euryn Ogwen ystyried y cynlluniau a oedd ar droed gan rai o'r cynhyrchwyr annibynnol i brynu uned deledu allanol ar gost o bron i hanner miliwn o bunnoedd ac i wneud defnydd helaeth o theatrau a chanolfannau hamdden ar hyd a lled Cymru ar gyfer eu rhaglenni.[42] Mae'n amlwg o'r manylion a nodwyd yn y cofnodion i'r clwstwr o gynhyrchwyr annibynnol ystyried yn fanwl iawn y cyfraniad y gallent ei wneud i'r sianel newydd, a'u bod hefyd wedi pwyso a mesur sut y gellid ehangu ar y cyfleusterau a oedd ganddynt er mwyn cynyddu ar a gwella'r ddarpariaeth a ellid ei chynhyrchu.[43] At hynny, gellid synhwyro eu brwdfrydedd o nodi y trefnwyd cyfarfod gyda Chadeirydd yr Awdurdod hyd yn oed cyn i'r Awdurdod ei hun gynnal ei gyfarfod swyddogol cyntaf. Er brwdfrydedd amlwg y criw bychan o gynhyrchwyr annibynnol a drafodwyd â hwy eisoes trwy Euryn Ogwen Williams, nodwyd yn glir gan yr Awdurdod ei fod am gadw'r drws yn agored i unrhyw gynhyrchwyr annibynnol eraill nad oedd yn rhan o Gymdeithas y Darlledwyr, gan feddwl yn benodol am gynhyrchwyr a oedd wedi mudo i Loegr i weithio. Gwelir felly fod yr Awdurdod yn awyddus i ddefnyddio'r sianel newydd fel cyfle i ddadalltudio unigolion talentog a oedd dros y blynyddoedd wedi gadael Cymru oherwydd diffyg cyfleon gwaith. Gellid awgrymu hefyd fod cred ymysg yr unigolion ar yr Awdurdod y byddai'r sianel newydd yn gallu cynnig rhywbeth

[39] Yn wir yr oedd Euryn Ogwen Williams a Gwilym Owen o'r Bwrdd Ffilmiau Cymreig wedi cwrdd â Phwyllgor Cymreig yr ADA a Dr Glyn Tegai Hughes ar 14 Gorffennaf 1980 er mwyn trafod cyfraniad tebygol y cynhyrchwyr annibynnol i ddarpariaeth Gymraeg y bedwaredd sianel o dan y cynllun dwy sianel. Hyd yn oed yn y cyfarfod cyntaf hwn crybwyllwyd y posibilrwydd o sicrhau uned ddarlledu allanol at ddefnydd cynhyrchwyr annibynnol. Datblygodd y syniad hwn wedi i Euryn Ogwen Williams fethu prynu hen stiwdio y BBC yn ardal Broadway, Caerdydd. CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the One Hundred and Thirty Ninth Meeting of the Welsh Advisory Committee*, 27 Mehefin 1980, tt. 5–7.

[40] Trafodir Cymdeithas y Darlledwyr ym Mhennod 4, tt. 189–91.

[41] CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4.

[42] Ibid.

[43] Ni ellir bod yn sicr fod pob unigolyn a ystyrid yn gynhyrchydd annibynnol wedi ei gynnwys yn y trafodaethau hyn a ddaeth i'r casgliad y gellid darparu tair awr yr wythnos o raglenni i'r sianel newydd. Nid yw Wil Aaron, er enghraifft, yn cofio unrhyw drafodaethau i'r perwyl hwn. Cyfweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010.

newydd ar gyfer y sector yma, rhywbeth cyffrous a fyddai'n llwyddo i ddenu'r unigolion mwyaf dawnus yn ôl i Gymru.

Mater brys arall a oedd yn pwyso'n drwm ar ysgwyddau'r Awdurdod newydd oedd y cyfleusterau y byddai eu hangen ar gyfer y sianel newydd. Er na fyddai angen adnoddau ar gyfer cynhyrchu rhaglenni, byddai angen rhyw ffurf ar gyfleusterau darlledu ar y sianel newydd. Ystyriwyd bod tri chynllun gwahanol i'w trafod, sef fod S4C yn sefydlu cyfleusterau annibynnol gan bwysleisio ei safle fel darlledwr annibynnol newydd; bod y sianel yn llwyr fabwysiadu'r ethos o gydweithio gan ddatblygu cyfleusterau ar safleoedd y BBC neu HTV; neu ei bod yn rhannu cyfleusterau gyda'r darlledwyr eraill ond eu bod oll yn defnyddio eu cyflwynwyr eu hunain. Yr oedd nifer o ystyriaethau pwysig gerbron yr Awdurdod wrth iddo benderfynu ar yr ateb terfynol ar gyfer y sianel, a gosodwyd delwedd gwasanaeth S4C yr uchaf ar y rhestr. Ystyriaethau eraill oedd y perygl o ddyblygu adnoddau a'r ystyriaethau ariannol o sefydlu cyfleusterau ar wahân yn enwedig mewn cyfnod ariannol trafferthus. Mater arall oedd yn hynod bwysig wrth ystyried yr anghenion ar gyfer y sianel newydd oedd y cysylltiadau technegol rhwng S4C, y darlledwyr eraill a llinellau BT.[44] Yr hyn nad chafwyd oedd trafodaeth ynghylch lleoliad daearyddol pencadlys S4C. Derbyniodd yr Awdurdod wahoddiadau gan gynghorau Abertawe, Aberystwyth, Bangor a'r Wyddgrug i ystyried lleoli pencadlys y sianel Gymraeg y tu hwnt i Gaerdydd.[45] Ond, mae'r diffyg trafodaeth ar y mater yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd yn awgrymu y gwyddai aelodau'r Awdurdod eisoes na fyddai lleoli pencadlys darlledu'r sianel gryn bellter o'r canolfannau darlledu eraill a chanolfannau switsio BT yn gynllun a ellid ei weithredu'n llwyddiannus. Penderfynwyd yn gynnar hefyd mai cyfleusterau annibynnol oedd yr unig ateb a gynigiai ryddid angenrheidiol i'r sianel greu a rheoli ei gwasanaeth ei hun.[46] Aethpwyd ati felly i chwilio am gyfleusterau addas, ac fe benderfynwyd ar safle yng Nghlos Soffia, yn ardal Pontcanna o Gaerdydd. Symudwyd y staff yno yng nghannol

---

[44] Yr oedd y cysylltiadau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd anfon y rhaglenni o'r BBC ac HTV at S4C, a bod modd trosglwyddo'r rhaglenni o S4C i'r ADA i'w darlledu dros rwydwaith trosglwyddyddion Cymru. Yng Nghaerdydd y caed y llinellau cysylltu llun a sain safonol, ac yno hefyd yr oedd canolfan switsio BT. CPGTH, *Cofnodion Trydydd Cyfarfod Awdurdodd Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Mawrth 1981, t. 1.

[45] CPGTH, *Cofnodion Ail Gyfarfod Awdurod Sianel Pedwar Cymru*, 14 – 15 Chwefror 1981, t. 5.

[46] CPGTH, *Cofnodion trydydd cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

Gorffennaf 1981, i ganol gwaith adeiladu ac addasu dwys a oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellid defnyddio'r adeilad fel canolfan ddarlledu.[47]

Ar ddiwedd y cyfarfod cyntaf hwnnw, gan fod aelodaeth yr Awdurdod yn fychan o ran nifer, a chan nad oedd yn eu plith arbenigedd ym mhob maes y mynnid sylw arno, penderfynwyd sefydlu nifer o bwyllgorau trafod gan wahodd aelodau o'r ADA, BBC ac HTV i fod yn aelodau o'r gweithgorau. Byddai'r pwyllgorau bychan hyn yn ymwneud â'r meysydd pwysicaf i'r Awdurdod megis rhaglenni, cyllid a chyfrifon, gweinyddiaeth a pheirianneg, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ddiwedd y trafod. Pwysleisia'r polisi hwn, unwaith yn rhagor, pa mor ddibynnol yr oedd yr Awdurdod newydd ar gydweithrediad y darlledwyr eraill a'u parodrwydd i gynnig cyngor ac amser staff gan roi agenda hunanlesol o'r neilltu er budd y sianel newydd. Elfen arall a bwysleisir gyda sefydlu'r pwyllgorau trafod hyn yw pa mor enfawr oedd y dasg a wynebai'r Awdurdod, gan mai dim ond deunaw mis a gaed i ffurfio a lansio sianel deledu cyn diwedd 1982. Rhaid oedd sefydlu sianel unigryw nad oedd unrhyw batrwm yn bodoli eisoes ar ei gyfer y gellid ei ddilyn neu ei fabwysiadu er mwyn hwyluso'r dasg.

Dengys dadansoddiad o'r cofnodion mai trefniadau ymarferol oedd yn mynd â bryd yr Awdurdod newydd yn ei gyfarfod cyntaf. Ni cheir cofnod o drafodaeth am weledigaeth yr aelodau ar gyfer ethos na chynnwys y sianel, ac i raddau gellir deall hynny oherwydd y brys angenrheidiol i ffurfioli rhai o'r trefniadau ymarferol ar gyfer y sianel. Gellir yn deg holi felly a oedd y weledigaeth ehangach yn cael ei cholli a hynny oherwydd bod cyn lleied o amser i lunio a lansio'r sianel. Awgrymir fod y sianel ar ei cholled oherwydd y brys hwn a chan nad oedd cyfle i drafod yn iawn y weledigaeth ar gyfer y sianel. Mae'n ddilys nodi mai lansio'r sianel a sicrhau amgylchiadau teg ar ei chyfer a oedd ar frig agenda'r Awdurdod, gan wireddu dyheadau'r Cymry Cymraeg am sianel ar wahân. Bwriedir, trwy olrhain a dadansoddi blynyddoedd ffurfiannol y sianel a fu'r brys hwn yn niweidiol iddi a'i llwyddiant.

---

[47] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 1981–82* (Caerdydd, 1982), t. 5. Cofia Chris Grace bod yr amgylchiadau gweithio yn y swyddfeydd yn ystod y cyfnod addasu yn anodd dros ben, gan ychwanegu at y pwysau a oedd ar swyddogion y sianel i lansio gwasanaeth teledu cyflawn mewn llai na deunaw mis. Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

Un elfen o'r cyfarfodydd cynnar hyn nad yw'n amlwg o ddarllen y cofnodion ond a amlygwyd mewn trafodaethau gydag aelodau o'r Awdurdod yw eu natur hirfaith, ac ysgogiad diflino'r Cadeirydd i barhau i drafod a gweithio. Cofia Alwyn Roberts, Glyn Tegai Hughes a Mair Owen, gweinyddydd cyntaf y sianel, nad oedd amser yn golygu dim i Syr Goronwy Daniel ac y byddai'n parhau i weithio hyd oriau man y bore heb lawer o ystyriaeth pa awr o'r dydd oedd hi. Disgrifiodd Glyn Tegai Hughes natur ddiwyd Syr Goronwy Daniel fel a ganlyn: 'Doedd ganddo fo fawr ddim syniad o sut oedd pobl eraill yn teimlo a gweithio. 'Roedd o'n dod i mewn i'r swyddfa tua hanner awr wedi pump, pawb wedi bod yn gweithio trwy'r dydd, ynte'n dod i mewn a jyst mynd yn ei flaen . . . ac 'roedd Goronwy'n mynd yn ei flaen am oriau.'[48] Ceir yr argraff hefyd o drafodaethau gydag aelodau'r Awdurdod bod y Cadeirydd yn bersonoliaeth unigryw a phlaen ei dafod, yn wir fe'i disgrifir gan Meic Stephens yn ei ysgrif goffa iddo yn y modd hwn, '. . . for those who did not know him well his rather forthright way of speaking could be disconcerting'.[49] Canfu rhai hefyd nad ef oedd y Cadeirydd mwyaf pendant o ran techneg gan ei fod yn 'dilyn pob sgwarnog fel oedd hi'n codi', ond, er hynny, fe'i disgrifiwyd fel Cadeirydd 'cadarn', 'unplyg', 'doeth' a 'phenderfynol' gan rai o'i gyd-aelodau.[50] Yr oedd natur ymroddgar a dyfal y Cadeirydd felly yn cyfrannu at y ffaith nad cyfarfodydd cyffredin oedd rhai'r Awdurdod newydd hwn wrth i anferthedd y dasg wawrio arnynt.

Fel y crybwyllwyd eisoes un o flaenoriaethau'r Awdurdod oedd penodi staff i ymgymryd â'r gwaith brys a oedd angen ei gyflawni er mwyn i'r sianel gael datblygu a symud yn ei blaen. Yn groes i'r disgwyl, nid y Prif Swyddog oedd yr unigolyn cyntaf i'w benodi i staff y sianel, ond, yn hytrach, gweinyddydd, Mrs Mair Owen, a ddaeth yn aelod staff rhif un y sianel. Sylweddolwyd yn fuan iawn ar ôl ffurfio'r Awdurdod bod angen cymorth ar Eirion Lewis os oedd am weithredu yn ei swydd gyda'r ADA yn ogystal â fel ysgrifennydd yr Awdurdod. O ganlyniad, gwahoddwyd Mair Owen, a oedd wedi gweithio i'r BBC a Mudiad Ysgolion Meithrin yn ystod ei gyrfa, i ymgymryd â gwaith gweinyddol dros dro i'r Awdurdod newydd, a

---

[48] Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.
[49] Stephens, 'Sir Goronwy Daniel', 20 Ionawr 2003.
[50] Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007; Cyfweliad yr awdur gyda Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007.

dechreuodd weithio i'r sianel ar 1 Mawrth 1981.[51] Ymhen y mis yr oedd Prif Swyddog y sianel wedi ei benodi hefyd wedi i hysbyseb gael ei gyhoeddi yn y wasg Gymreig a phapurau Llundain ym mis Chwefror yn gofyn am geisiadau ac enwebiadau ar gyfer y rôl holl-bwysig hon. Ni cheir unrhyw argraffiadau yng nghofnodion yr Awdurdod o'r nifer a enwebwyd na phwy a ymgeisiodd ar gyfer y swydd. Yr unig wybodaeth a geir yw cyfeiriad at y ffaith fod pedwar wedi eu cyfweld ar gyfer y swydd yng Nghaerdydd ar 6 Mawrth 1981.[52] Penodwyd Owen Edwards a oedd ym 1981 wedi bod yn Bennaeth BBC Cymru ers Mehefin 1974. Arweiniodd y Gorfforaeth trwy gyfnod o dwf aruthrol yn y nifer o oriau Cymraeg a Saesneg a gynhyrchwyd gan y BBC yng Nghymru, trwy gyfnod lansio Radio Cymru a Radio Wales ac yr oedd wedi llywio'r BBC yn fedrus trwy gyfnod cythryblus ac anodd ymgyrch y bedwaredd sianel.[53] Rhydd rhai adroddiadau papur newydd a gyhoeddodd enw'r Prif Swyddog newydd yr argraff nad oedd Owen Edwards yn un o'r rhai a ymgeisiodd o'i ben a'i bastwn ei hun ar gyfer y swydd, ond ei fod, yn hytrach, wedi ei wahodd i gyfweliad wedi iddo gael ei enwebu. Yn ôl y *South Wales Echo*: 'Mr Edwards . . . was asked to consider it [y swydd] by the new five-man Welsh fourth channel authority chaired by Sir Goronwy Daniel.'[54] Cofia Owen Edwards hefyd iddo gael galwad gan gadeirydd yr Awdurdod yn gofyn iddo a oedd yn barod i 'wasanaethu'.[55] Yn wir, addas iawn oedd defnydd Syr Goronwy Daniel o'r ymadrodd gwasanaethu, gan y byddai rheidrwydd ar Owen Edwards i ystyried y swydd yn y cyd-destun hwnnw. Yr oedd gadael swydd a gyrfa saff gyda'r BBC ac ymuno â sianel newydd heb ddyfodol sicr iddi yn benderfyniad dewr, yn enwedig o

---

[51] Cyfweliad yr awdur gyda Mair Owen, Rhiwbeina, 19 Ionawr 2007. Yr oedd Mair Owen yn y cyfnod yn dod i ben a'i gwaith gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin, gan nad oedd yn dymuno gweithio yn llawn amser, yr oedd swydd dros dro yn darparu cefnogaeth i Eirion Lewis tan y byddai'r sianel wedi penodi rhagor o staff yn addas felly. Yn dilyn penodi staff parhaol i'r sianel, llwyddwyd i berswadio Mair Owen i aros i weithio fel ysgrifenyddes i'r Cyfarwyddwr a throi'r swydd dros-dro yn un barhaol. Wrth i'r sianel dyfu symudodd i fod yn swyddog personél i'r sianel gan iddi ymwneud yn helaeth â materion staffio ac undebol yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifenyddes Owen Edwards.
[52] CPGTH, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14–15 Mawrth 1981 t. 1. Nododd Mair Owen mewn sgwrs fod Euryn Ogwen Williams ac Arwel Elis Owen wedi eu cyfweld ar gyfer y swydd hefyd; Cyfweliad yr awdur gyda Mair Owen, Rhiwbeina, 19 Ionawr 2007.
[53] Nid hon oedd swydd gyntaf Owen Edwards gyda'r Gorfforaeth. Dechreuodd weithio iddi ym 1961 wedi cyfnod byr o weithio yn y Llyfrgell Genedlaethol fel catalogiwr, a chyfnod yn gweithio fel cyflwynydd ar y rhaglen Gymraeg a gynhyrchwyd gan gwmni Granada, sef 'Dewch i Mewn'. Rhwng 1961 ac 1967 bu'n gyflwynydd ar raglen materion y dydd Gymraeg y Gorfforaeth *Heddiw* cyn cael ei ddyrchafu i rôl trefnydd rhaglenni ym 1967 ac yna pennaeth rhaglenni ym 1970. Meic Stephens, *Owen Edwards: Pioneering television executive and architect of S4C*, 7 Medi 2010, *www.independent.co.uk/news/obituaries/owen-edwards-pioneering-television-executive-and-architect-of-s4c-2072091.html* (cyrchwyd Medi 2010).
[54] 'Time short for Welsh TV chief', *South Wales Echo*, 10 March 1981.
[55] *A Fo Ben* (BBC Cymru, 1989).

ystyried y byddai dyrchafiad tebygol i swydd gyda'r Gorfforaeth yn Llundain yn aros amdano yn y dyfodol pe dymunai hynny.[56] Ceir yr argraff, felly, fod gan yr Awdurdod syniad da o'r unigolyn a oedd ar frig ei restr penodi. Diau yr ystyrid Owen Edwards yn ddewis doeth a delfrydol ar gyfer y sianel yn ei blynyddoedd ffurfiannol. Yr oedd ei gefndir proffesiynol yn dangos pa mor gymwys yr oedd ar gyfer y swydd gyda'i brofiad diweddaraf fel Rheolwr BBC Cymru yn dangos yn glir fod ganddo'r profiad ymarferol o ddelio â materion a godai o ddydd i ddydd wrth redeg sianel deledu. At hynny, yr oedd yn gyfarwydd â goruchwylio a rheoli cynnydd sylweddol mewn darpariaeth, elfen holl-bwysig o waith arweinydd y sianel newydd. Byddai'r profiad eang hwn ym myd darlledu yn hanfodol er mwyn sicrhau gosod sylfaeni cadarn a alluogai'r sianel i dyfu a datblygu'n ffyniannus. At hynny, yr oedd cefndir a llinach Owen Edwards yn pwysleisio, yn enwedig i'r Cymry Cymraeg, pa mor addas oedd hi i fab Syr Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd yr Urdd, ac ŵyr Syr O. M. Edwards, Prif Arolygydd Ysgolion Bwrdd Addysg Cymru a chymwynaswr mawr i iaith a diwylliant Cymru, dau o enwau mwyaf cyfarwydd y sefydliad Cymreig ac a fu'n allweddol wrth dynnu'r Gymraeg i'r cyfnod modern a'i gwneud yn rhan fyw o fywyd y Cymry, arwain sianel deledu Gymraeg a fyddai'n fodd o sicrhau fod yr iaith yn parhau yn un gyfoes a chyhyrog.

Yn fuan ar ôl penodi'r Prif Swyddog, a benderfynodd fabwysiadu'r teitl 'Cyfarwyddwr',[57] aethpwyd ati i benodi cnewyllyn bychan o staff a fyddai'n allweddol er mwyn llywio'r sianel a'i rhoi ar waith. Cafwyd rhai pryderon y byddai canfod staff yn dasg anodd oherwydd y byddai S4C mewn cystadleuaeth gyda'r BBC ac HTV a hithau'n gyfnod o gynnydd i'r sector darlledu Cymraeg gyda phawb yn brysur recriwtio.[58] Gellid awgrymu y byddai ymgeiswyr yn bryderus am dderbyn swydd gyda sianel nad oedd dyfodol sicr iddi, ac y byddai'n ddoethach ymgeisio am swyddi gyda'r BBC neu HTV, nad oedd yn mynd trwy gyfnod prawf. Ond ni fu'n

[56] Cyfweliad yr awdur gyda Owen Edwards, Caerdydd, 12 Ionawr 2007. Mynegodd Owen Edwards nad oedd symud i swydd yn Llundain yn apelio ato, ac ystyriai bod y swydd gyda S4C wedi cynnig sialens newydd iddo.
[57] CPGTH, *Cofionion pedwerydd cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1. Er bod Owen Edwards yn gadael swydd lle byddai disgwyl iddo o dan amgylchiadau cyffredin roi tri mis o rybudd cyn gadael, bu'r BBC yn gefnogol iawn i'r Awdurdod newydd gan gydnabod y brys aruthrol a oedd i ddechrau ar waith y sianel, ac fe ryddhawyd Owen Edwards i ddechrau ar ei swydd newydd lai na mis ar ôl i'w enw gael ei gyhoeddi ar 6 Ebrill 1981. Dengys hyn barodrwydd y darlledwyr yng Nghymru i gyd-weithio er mwyn sicrhau fod y sianel newydd yn cael pob cyfle posibl i lwyddo.
[58] CPGTH, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.

rhaid i S4C boeni gan y profodd y darlledwr newydd yn atyniadol iawn i unigolion profiadol ac i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Un o'r swyddi y cafwyd trafferth ei llenwi, er hynny, oedd swydd y prif beiriannydd. Er nad oedd S4C wedi cyfyngu'r swydd i siaradwyr Cymraeg, bu raid hysbysebu'r swydd ddwywaith ac addasu natur y swydd cyn cael ymgeisydd teilwng. Er y pryderon hyn, y swyddog nesaf i'w benodi, a hynny oherwydd y brys a oedd i ddechrau trafod union natur y rhaglenni fyddai'n cael eu darparu gan y darlledwyr a'r cynhyrchwyr annibynnol, oedd y Golygydd Rhaglenni, fyddai hefyd yn ymddwyn fel dirprwy i'r Cyfarwyddwr. Penodwyd Euryn Ogwen Williams i'r swydd, un o'r cynhyrchwyr annibynnol a oedd wedi cysylltu â'r Awdurdod newydd yn ei dyddiau cynnar er mwyn dangos brwdfrydedd y sector newydd honno i gyfrannu tuag at arlwy a llwyddiant y sianel. Yr oedd gan Euryn Ogwen Williams gefndir helaeth ym myd darlledu gan iddo weithio i TWW, ac yna HTV, hyd 1977, lle bu'n bennaeth yr adrannau rhaglenni crefyddol a chwaraeon, cyn iddo adael i ffurfio'r cwmni annibynnol EOS.[59] Yr oedd penodiad Euryn Ogwen Williams hefyd yn cydweddu â phenodiad Owen Edwards, wrth iddo gyfrannu ymwybyddiaeth a chefndir ar ochr fasnachol darlledu o'i gymharu â phrofiad y Cyfarwyddwr gyda'r Gorfforaeth. Diau y sicrhaodd hyn fod gan y sianel newydd ymwybyddiaeth fanwl o'r ffordd yr oedd eu partneriaid yn gweithredu.[60]

Ynghyd â dod o hyd i staff addas ar gyfer y sianel, yr oedd nifer sylweddol o faterion eraill a oedd yn mynnu sylw'r Awdurdod a'r swyddogion yn ystod misoedd cyntaf y sianel. Trafodwyd materion megis esgor ar drafodaethau fyddai'n sicrhau rhaglenni deniadol a difyr am bris teg, sefydlu perthynas weithio gyda'r amryfal undebau a oedd yn y cyfnod hwn yn hynod bwerus, ac ystyried cynlluniau ar gyfer hysbysrwydd i'r sianel.[61] Er hynny, y mater a oedd ar frig y rhestr oedd sicrhau cyllid digonol i'r sianel a hynny trwy lunio cais i'w gyflwyno i'r ADA. Dechreuwyd y trafodaethau hyn yn fuan wedi penodi'r Awdurdod wrth i'r Cadeirydd gynnal

---

[59] 'Pwyslais ar y poblogaidd', *Y Cymro*, 19 Mai 1981.

[60] Yn dilyn y Golygydd Rhaglenni y swydd nesaf i'w llenwi oedd prif swyddog gweinyddol y sianel fyddai'n derbyn y teitl Rheolwr Cyllid ac Ysgrifennydd i'r Awdurdod a penodwyd Michael Tucker a fu'n ddirprwy drysorydd Cyngor Sir De Morgannwg. At hynny, penodwyd Chris Grace, a fu'n Benaneth Adran Gynllunio HTV yn Bennaeth Cynllunio a Chyflwyno, Emlyn Davies, a fu'n olygydd rhaglenni newyddion BBC Radio Cymru, yn Gomisiynydd Rhaglenni ac Emyr Byron Hughes, a oedd yn gyfreithiwr yn ôl ei alwedigaeth, yn Swyddog Cytundebau. 'Fourth Channel appointment', *South Wales Evening Post*, 15 Hydref 1981.

[61] Trafodir y materion hyn yn fanlach yn hwyrach yn y bennod hon.

trafodaethau cychwynnol gyda'r Arglwydd Thomson a Syr Brian Young yn gynnar ym mis Chwefror.[62] Hysbyswyd swyddogion y sianel y byddai bwlch tebygol rhwng y gyllideb a ddymunai S4C ei derbyn a'r hyn a allai'r ADA ei gasglu gan gwmnïau rhwydwaith ITV. O gofio fod defnyddio arian cyhoeddus yn anathema i'r llywodraeth newydd, er mwyn ariannu'r bedwaredd sianel dyfeisiwyd system a fynnai fod cwmnïau rhwydwaith ITV yn talu tanysgrifiad blynyddol i'r ADA allan o gyfran o'u Net Advertising Revenue (NAR) am yr hawl i werthu hysbysebion i'w gosod ar y bedwaredd sianel newydd yn eu rhanbarth darlledu hwy.[63] Gan mai cynllun a saernïwyd er mwyn ariannu Channel 4 yn unig oedd hwn yn wreiddiol, a chan nad oedd y llywodraeth wedi cyhoeddi eto sut yn union y byddai'n ei addasu er mwyn ymdopi ag ariannu Awdurdod darlledu newydd yng Nghymru, rhagwelwyd y byddai peth anesmwythyd ymysg cwmnïau ITV ynglŷn â chynyddu'r tanysgrifiad i ariannu sianel nad oedd modd i'r rhan helaeth ohonynt ymelwa ohoni.[64] Yn wir, yn ei dystiolaeth ysgrifennedig ar gyfer y Pwyllgor Dethol cyhoeddodd yr Independent Television Companies Association (ITCA) ei fod yn gwbl yn erbyn y cysyniad mai o goffrau aelodau'r Gymdeithas y dylid talu am y sianel Gymraeg.[65] Gan mai sianel a fyddai'n wasanaeth cyhoeddus er lles cymdeithas oedd S4C, teimlai'r ITCA mai trwy arian cyhoeddus y dylid ei hariannu.[66] Pwysleisiwyd hefyd, yn y dystiolaeth, anesmwythyd dwys y cwmnïau hynny a wasanaethai ardaloedd lle ceid lleiafrifoedd ethnig ac ieithyddol eraill a oedd hefyd yn mynnu cynnydd yn y ddarpariaeth ar eu cyfer:

[62] Arglwydd Thomson, Cadeirydd yr ADA, (1981–88); Syr Brian Young, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr ADA (1970–82).

[63] Nid oedd y syniad hwn o ariannu'r bedwaredd sianel trwy osod treth ar y cwmnïau annibynnol yn syniad cwbl newydd, fe'i cynigwyd gan Jeremy Isaacs mewn llythyr at y Gweinidog Post a Telathrebu ym 1973 ac hefyd fe ategwyd yr un syniadau yn nhystiolaeth yr Association of Directors and Producers i Bwyllgor Annan, er na welwyd ei fabwysiadu gan Adroddiad y pwyllgor hwnnw na lwyddodd mewn gwirionedd i ddynodi unrhyw system ariannu rhesymegol, Paul Bonner with Lesley Aston, *Independent Television in Britain, Vol. 6, New Developments in Independent Television 1981–92: Channel 4, TV-am, Cable and Satellite* (Basingstoke, 2003), tt. 7–10.

[64] CPGTH, *Cofnodion ail gyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1. Yr oedd y Ddeddf Ddarlledu yn galluogi i'r Ysgrifennydd Cartref addasu cyfraddau treth ITV o ystyried eu cyfrifoldeb ychwanegol i ariannu'r bedwaredd sianel yng Nghymru, ond nid oedd y Ddeddf yn manylu ar lefel unrhyw ostyngiad gan arwain at ansicrwydd a phryder ymysg aelodau'r ITCA.

[65] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, tt. 628–31. Ni fu HTV yn rhan o lunio tystiolaeth yr ITCA, a hynny gan fod safbwynt y cwmni yn wahanol i'w cyd-gwmnïau, gan eu bod bellach yn debygol o elwa'n ariannol o ffyniant sianel Gymraeg trwy arian cynhyrchu.

[66] Ibid., t. 631.

> It would be highly damaging to them to be seen to be paying a subscription designed specifically to alleviate the problems in Wales. In political terms it could rebound on their operations in their own regions and it has to be said on their behalf that they would not willingly accede to such an arrangement.[67]

At hynny, teimlai'r ITCA nad oedd cyflwr ariannol rhwydwaith ITV yn ddigon iach i gynnal gwariant ar sianel ychwanegol yn sgil y cytundebau rhyddfraint newydd a oedd yn mynnu bod y cwmnïau yn cynyddu'r nifer o oriau a gynhyrchid ac yn talu mwy mewn rhent i'r ADA.[68] Er yr amryw ddadleuon a gyflwynwyd gan yr ITCA, diau mai ystyriaethau ariannol ac nad egwyddorion ideolegol a ddylanwadai ar ei safbwynt mewn gwirionedd. Gwelir hynny'n glir wrth i'r cynrychiolwyr gyfaddef yn eu tystiolaeth lafar y byddai'r cwmnïau yn hapus petai cost y ddwy bedwaredd sianel wedi eu cadw oddi mewn i'r terfynau gwreiddiol a osodwyd sef £60 – 80 miliwn.[69] Haerwyd hefyd fod yr ADA wedi camarwain y cwmnïau ac nad oeddent wedi disgwyl y byddai'n rhaid iddynt dalu rhagor o arian tuag at y bedwaredd sianel yng Nghymru. Ceisio trosglwyddo darlun o dlodi ac anwybodaeth a wnaeth yr ITCA, felly, a llwyddodd ei dystiolaeth i gynddeiriogi'r Ysgrifennydd Cartref, William Whitelaw, a ddiystyrodd y dystiolaeth a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y Gymdeithas yn llwyr mewn datganiad i'r Pwyllgor Dethol. Meddai:

> I cannot accept that the companies who have now been given the licences by the ADA can be against the idea in principle, because they knew perfectly well when they applied for the licences which they then received that that was one of the conditions of the licence . . . they knew perfectly well what they were taking on. They knew that perfectly well. I expect them to pay, and I see no reason on earth why that should not happen.[70]

Nid oedd dadl yr ITCA yn ddilys felly, yn enwedig o ystyried fod testun y Ddeddf Ddarlledu a'r trafodaethau ar lawr y Tŷ Cyffredin, lle manylodd William Whitelaw ar yr addasiadau i'r Ddeddf, wedi nodi yn blaen y byddai costau'r bedwaredd sianel yn uwch oherwydd y cynlluniau newydd ar gyfer Cymru.[71] Nid oedd y cysyniad o ddisgwyl i gwmnïau ITV gynnal gwasanaeth Cymraeg ar y bedwaredd sianel yn

[67] Ibid., t. 630.
[68] Ibid., t. 629.
[69] Ibid., t. 632.
[70] Ibid., t. 612.
[71] *Hansard*, House of Commons, 10 Tachwedd 1980, col. 45.


UNIVERSITY OF ... LIBRARY

ariannol yn un newydd ychwaith, a hynny gan fod bwriad o dan gynllun blaenorol y Llywodraeth Geidwadol o rannu rhaglenni Cymraeg dros ddwy sianel i ariannu'r twf mewn rhaglenni Cymraeg trwy gymhorthdal gudd y disgwylid i bob cwmni heblaw am HTV ei dalu. Yn y cyd-destun hwnnw byddai pob cwmni rhwydwaith ITV, o'r lleiaf i'r mwyaf, wedi talu taliadau rhent uwch i'r ADA er mwyn gwneud yn iawn am y gostyngiad mewn rhent y disgwylid i HTV ei dalu, er mwyn sicrhau nad oedd cynhyrchu rhagor o raglenni Cymraeg yn mynd yn fwrn ar y cwmni.[72]

Er nad oedd dadleuon yr ITCA yn rhai cwbl ddiffuant, diau y byddai ymwybyddiaeth yr ADA o anfodlonrwydd cwmnïau'r rhwydwaith yn pwyso ar y swyddogion wrth iddynt drafod ceisiadau a chyllidebau â S4C. Yn wir, gwelid tystiolaeth ohono yn nhrafodaethau cynnar y ddau Awdurdod, wrth i'r ADA awgrymu mai £10 miliwn yn unig a ellid ei gasglu yn ychwanegol gan gwmnïau'r rhwydwaith ar gyfer S4C, a bu peth pryder na fyddai adnoddau teg ar gael i lunio gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr a safonol oherwydd hynny.[73] Er hynny, yr oedd yr ADA yn llwyr ymwybodol nad oedd hi'n bosibl i'r sianel Gymraeg fod yn hunan-gynhaliol, a chan ddisgwyl cyhoeddiad gan y Swyddfa Gartref ar leihau cyfrifoldebau treth cwmnïau ITV, gwahoddwyd yr Awdurdod i ddarparu amcan o gostau tebygol y sianel. Yn dilyn penodiad y Cyfarwyddwr felly, bu cyd-weithio agos rhyngddo a'r Cadeirydd er mwyn llunio memorandwm a fyddai'n cyflwyno'r achos ac yn cyfiawnhau yr angen am arian teilwng i'r sianel. Anfonwyd y memorandwm at yr ADA ar ddiwrnod cyntaf Mai 1985 a fis yn ddiweddarach ar 1 Mehefin 1981, teithiodd Owen Edwards a Syr Goronwy Daniel i swyddfeydd yr ADA yn Brompton Road, Llundain er mwyn trafod eu cais a oedd yn amcangyfrif bod angen cyfanswm o £20.7 miliwn ar y sianel hyd at ddiwedd Mawrth 1983. Amcangyfrifwyd y byddai angen £19.4 miliwn i'w wario ar gostau rhaglenni a £1.3 miliwn i'w fuddsoddi mewn adeilad ac offer ac i dalu costau gweinyddol, marchnata, ymchwil ac yn y blaen.[74] Canmolwyd y ddogfen

---

[72] Ibid., col. 44.

[73] CPGTH, *Cofnodion ail gyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1. Cadarnheir y ffigwr hwn mewn gohebiaeth o'r Swyddfa Gartref a ddengys nad oedd yr ADA yn hapus i ofyn i gwmnïau ITV dalu mwy na £10 miliwn tuag at gostau S4C, heb wybod pa gymorth a geid gan y Llywodraeth. Swyddfa Gymreig, *Welsh Fourth Channel Authority*, 8 Mehefin 1981, *www.walesoffice.gov.uk/ 2005/06/ 16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig), t. 1.

[74] Swyddfa Gymreig, *Welsh Fourth Channel Authority*, 8 Mehefin 1981 *www.walesoffice.gov.uk/ 2005/06/16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar y wefan), t. 1.

a luniwyd gan Syr Goronwy Daniel ac Owen Edwards am ei safon a'i heglurder, ond bu trafodaeth helaeth yn ystod y cyfarfod ynglŷn â chostau arfaethedig rhaglenni HTV gan mai dyma oedd yn llyncu canran fwyaf sylweddol o gyllideb y sianel. Nodwyd gan Syr Goronwy Daniel fod HTV wedi ei siomi gan amcangyfrifon ariannol S4C, a hynny gan fod yr £15.3 miliwn a glustnodwyd yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer naw awr o raglenni HTV yr wythnos yn swm a oedd ddeugain y cant yn llai na'r ffigwr a gyflwynwyd gan HTV i S4C am y nifer hynny o oriau.[75] Er y gwahaniaeth costau sylweddol a gaed rhwng HTV a S4C, dengys dogfennau'r Swyddfa Gymreig fod yr ADA yn teimlo y gellid cyfiawnhau cais o £20 miliwn a bod y swm yn un teg. Er hynny, ni dderbyniwyd cadarnhad gan yr ADA yn y cyfarfod hwnnw y byddai modd darparu'r swm dan sylw. Cyn pennu'r swm terfynol byddai'n rhaid i'r ADA gael ateb gan y Swyddfa Gartref o'i fwriadau ar gyfer addasu lefel treth cwmnïau'r rhwydwaith cyn ymrwymo i drosglwyddo swm sylweddol o arian.[76] Datblygodd sefyllfa anodd i'r ADA, a hynny gan nad oedd hi'n bosibl i'r Ysgrifennydd Cartref roi ei farn ar unrhyw symiau posibl gan y gellid galw arno o dan amodau'r Ddeddf i fod yn ganolwr, pe na ellid cytuno ar swm teilwng i'r sianel. Gan nad oedd hi'n bosibl cael cadarnhad fod y Swyddfa Gartref yn cytuno â'r swm o £20 miliwn, ni allai'r ADA fod yn sicr y byddai'r Swyddfa Gartref yn sicrhau addasiad teilwng yn nhreth cwmnïau ITV i sicrhau y gellid fforddio ei gynnig i S4C. Yr oedd yr ADA mewn cornel gas felly, yn ceisio sicrhau arian teg i S4C ond hefyd yn dymuno sicrhau nad oedd y swm hwnnw'n creu trafferthion nac yn effeithio ar ffyniant rhwydwaith ITV. Er mwyn ceisio torri'r sefyllfa ddiddatrys hon, penderfynodd y Swyddfa Gartref ar y cyd â'r Trysorlys i hysbysu'r ADA yn anffurfiol y gellid dibynnu ar y llywodraeth, petai'r ADA a S4C yn cytuno ar swm o £20 miliwn, i addasu'r dreth er mwyn sicrhau na fyddai cwmnïau ITV ar eu colled yn ormodol oherwydd y cynllun newydd.[77] Yn dilyn y cadarnhad anffurfiol hwnnw, bu'n bosibl i'r ADA a S4C ddod i gytundeb, a chyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 1981 mai £20 miliwn fyddai'r swm a fyddai'n ariannu'r gwasanaeth cynhwysfawr o raglenni Cymraeg hyd ddiwedd Mawrth 1983. Er hynny, bu'n rhaid aros am ddiwrnod arall am ddatganiad gan William Whitelaw yn Nhŷ'r Cyffredin yn esbonio

---

[75] CS4C, *Meeting with Welsh Fourth Channel Authority (Papur 9.81(9))*, t. 1; Swyddfa Gymreig, *Welsh Fourth Channel Authority*, 8 Mehefin 1981, t. 4. Ceir trafodaeth fanwl o ddylanwad penderfyniad S4C i beidio mabwysiadu amcangyfrifon costau rhaglenni HTV ym Mhennod 3, tt. 157–78.

[76] CS4C, *Meeting with Welsh Fourth Channel Authority (Papur 9.81(9))*, t. 2.

[77] Swyddfa Gymreig, *Welsh Fourth Channel Authority*, 8 Mehefin 1981, t. 3.

sut yn union y bwriedid ariannu'r buddsoddiad ychwanegol. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai'n cynyddu'r gyfran o'r arian hysbysebu nad oedd yn cael ei drethu o £250,000 neu 2 y cant (pa bynnag un oedd fwyaf) i £650,000 neu 2.8 y cant (pa bynnag un oedd fwyaf).[78] Yn dilyn y cyhoeddiad hwn a roes sicrwydd ariannol i'r sianel aeth S4C ati o ddifrif i ddechrau cynllunio a chomisiynu cynnwys.[79]

Ynghyd â throi at yr ADA am arian yr oedd S4C yn llwyr ddibynol ar yr Awdurdod i sicrhau y byddai trosglwyddyddion Cymru yn barod i ddarlledu'r sianel i gartrefi'r boblogaeth. Ym 1979 cyflwynwyd mesur gerbron y Tŷ Cyffredin gan Merlyn Rees, Ysgrifennydd Cartref Llywodraeth Lafur Callaghan, a oedd yn awdurdodi'r ADA i fynd ati i adeiladu rhwydwaith o drosglwyddyddion ar gyfer y bedwaredd sianel, a rhoddwyd blaenoriaeth i'r gwaith yng Nghymru.[80] Cyflwynwyd a phasiwyd y mesur hwn yn annibynnol o'r mesurau darlledu eraill a hynny gan i'r ADA hysbysu'r llywodraeth nad oedd modd iddo ymgymryd â'r gwaith adeiladu tan y cyhoeddid deddfwriaeth a fyddai'n ei alluogi i wneud hynny. Oherwydd yr amser a oedd ei angen ar yr ADA er mwyn cyflawni'r gwaith adeiladu ac addasu, yr oedd yr holl oedi yn tanseilio'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer lansio'r bedwaredd sianel yng Nghymru, a mynegwyd pryder ar ddiwedd 1978 gan Bwyllgor Cymreig yr ADA na

---

[78] *Hansard*, House of Commons, 22 Gorffennaf 1981, col. 137. Byddai'r system hon yn gweithredu am flwyddyn yn unig i ddechrau, gan sicrhau bod modd i'r Ysgrifennydd Cartref a'r Trysorlys adolygu'r trefniant petai sefyllfa ariannol rhwydwaith ITV yn gwella'n sylweddol.

[79] Swyddfa Gymreig, *ITV Levy Relief in respect of Welsh Fourth Channel*, 27 Rhagfyr 1981, *www.walesoffice.gov.uk/2005/06/16/establishment-of-S4C-1979-81/* (cyrchwyd Awst 2010, erbyn Rhagfyr 2010 nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gymreig), t. 1. Yr oedd y patrwm ariannu a ddyfeisiwyd ar gyfer y sianel yn ei chyfnod prawf yn un anwadal felly, er hynny fel y darlunir yn hwyrach yn y traethawd hwn, fe lwyddodd i ddarparu arian digonol a alluogodd i'r sianel dyfu yn ystod ei chyfnod prawf. Er hynny, newidiwyd y patrwm ariannu yn Neddf Ddarlledu 1990, patrwm a oedd bellach yn golygu y deuai arian y sianel yn uniongyrchol o'r llywodraeth a'i fod yn cynyddu'n flynyddol yn ôl graddfa mynegai pris manwerthu (*retail price index)*. Bu'r unigolion a fu'n gyfrifol am yr adran hon o'r ddeddf yn hirben iawn, gan y sicrhawyd patrwm ariannu cadarn i'r sianel, ac un a fyddai'n darparu amddiffyniad yn erbyn ymosodiadau ar gyllideb y sianel gan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod hydref 2010. Er nad yw'r trafodaethau am ddyfodol S4C wedi eu datrys wrth i'r traethawd hwn gael ei gwblhau, mae'n ymddangos bellach nad oedd y cymal hwn yn ddigon o rwystr rhag toriadau cas mewn cyfnod o gyni ariannol. Bellach mae'r sianel yn wynebu toriadau o 24.4 y cant erbyn 2014, er y bu bygythiadau i dorri hyd at 40 y cant mewn trafodaethau blaenorol. Dienw, 'S4C funding link to inflation set for reform', *www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11540055*, 14 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Dienw, 'S4C seeks judicial review over BBC funding move', *www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11581346*, 20 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Mark Sweney, 'Ed Vaizey: S4C will have bright future under BBC control', *www.guardian.co.uk/media/2010/oct/21/spending-review-s4c-funding-generous*, 21 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010).

[80] *Independent Broadcasting Authority Act 1979, Chapter 35* (London: HMSO, 1979).

fyddai bellach yn bosibl darlledu'r gwasanaeth tan 1983, gan chwalu y cynlluniau a osodwyd ym mhapur gwyn darlledu'r llywodraeth.[81]

Ar ôl ethol Llywodraeth Thatcher, a chyhoeddi ei chynlluniau i ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar ddwy sianel, diflannodd yr egwyddor y byddai Cymru yn gweld lansio'r bedwaredd sianel ar y blaen i weddill Prydain, fel y gobeithiwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Cymreig yr ADA, a bellach yr oedd cynlluniau'r ADA yn genedlaethol yn awgrymu y byddai Channel 4 ar gael i 80 y cant o'r boblogaeth ar gyfer lansiad 'big bang', ac er mwyn gwireddu hynny rhagwelwyd na fyddai'r cyrhaeddiad yng Nghymru yn cyfateb i'r ffigwr hwnnw.[82] Yr oedd aelodau o'r Pwyllgor Cymreig yn anhapus gyda'r datblygiad newydd hwn gan y teimlid fod Deddf yr Awdurdod Darlledu Annibynnol 1979 wedi ei phasio gyda'r egwyddor o roi blaenoriaeth i drosglwyddyddion Cymru. At hynny, yr oedd pryder bellach y gallai'r cynlluniau hyn arwain at sefyllfa lle gwelid rhai cymunedau gwledig Cymreig heb unrhyw ddarllediadau Cymraeg o gwbl, gan nad oedd y gwasanaeth UHF ar gael yng Nghymru benbaladr ac mai ar BBC2 a Channel 4 yn unig y byddai'r rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu yn ôl y cynlluniau newydd.[83] Rhagwelai gynlluniau'r ADA na fyddai prif drosglwyddyddion, megis Blaenplwyf, Carmel na Phreseli, yn cael eu haddasu yn y cam cyntaf, gan amddifadu rhannau helaeth o orllewin, canolbarth a gogledd Cymru o raglenni'r sianel newydd am hyd at ddwy flynedd.[84] Yng ngoleuni'r manylion hyn, argymhellwyd gan Bwyllgor Cymreig yr ADA y dylid parhau i ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar y sianeli a fodolai eisoes hyd yn oed ar ôl i'r bedwaredd sianel ddechrau darlledu.[85]

---

[81] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the One Hundred and Twenty Sixth Meeting of the Welsh Committee*, 1 Rhagfyr 1978, t. 2. Yn dilyn cyhoeddi'r mesur nodwyd fod yr ADA yn hyderus y gellid gweithredu i lansio'r sianel erbyn dyddiad gwreiddiol y llywodraeth, sef 1982. CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the one Hundred and Twenty Eighth Meeting of the Welsh Committee*, 15 Chwefror 1979, t. 2.

[82] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the One Hundred and Thirty Second Meeting of the Wales Advisory Committee*, 10 Awst 1979, t. 3. Yr oedd BBC2 wedi dechrau yn raddol gan ymestyn ei gyrhaeddiad dros gyfnod o ddeng mlynedd i 90 y cant o boblogaeth Prydain, ac wedi dioddef o ran ei phoblogrwydd oherwydd y strategaeth hon.

[83] Ibid.

[84] Ibid., t. 4. Gellid gweld yn blaen o'r manylion hyn nad oedd yr ADA yn argymell darlledu rhaglenni Cymraeg dros ddwy sianel er lles Cymru na'r Gymraeg, gan y byddai'r ardaloedd Cymreiciaf o ran iaith ar eu colled yn llwyr gyda threfniadau addasu trosglwyddyddion y cynllun hwnnw.

[85] Ibid.

Yn dilyn yr argymhellion hyn, llwyddwyd i berswadio'r ADA yn ganolog y dylid sicrhau fod prif drosglwyddyddion Cymru yn cael eu haddasu yn ystod cam cyntaf y cynllun. Er hynny, nid oedd yr ADA yn rhagweld y gellid sicrhau cyrhaeddiad a oedd yn cyfateb i gyrhaeddiad UHF erbyn noson agoriadol y sianel, ac yn hytrach disgwylid mai oddeutu 80 y cant o'r boblogaeth a fyddai'n derbyn y gwasanaeth.[86] Er y bwriadai'r ADA gynyddu nifer staff adran beirianyddol er mwyn ymdrin â'r gwaith ychwanegol, yr oedd ffactorau eraill megis nifer yr unedau o offer y gellid eu prynu mewn blwyddyn yn arafu y gwaith. Er y newid mewn agwedd, byddai'n parhau'n amhosibl i rannau helaeth o'r Gymru wledig dderbyn darllediadau'r bedwaredd sianel newydd. Ar ôl trafodaethau pellach, a diau fod argymhellion pendant Pwyllgor Cymreig yr ADA y dylid parhau i ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar ITV tan y ceid cyrhaeddiad digonol o'r bedwaredd sianel yn pwyso'n drwm arnynt, cyhoeddwyd ymrwymiad pellach gan yr ADA cyn diwedd 1979 y bwriedid mynd ati i sicrhau cyrhaeddiad o 90 y cant yng Nghymru.[87] Cyhoeddwyd y bwriedid gwneud hynny trwy addasu pob un o chwe phrif drosglwyddyddion Cymru, ynghyd â phedwar ugain o'r is-drosglwyddyddion.[88]

Diolch i ymdrech aruthrol gan yr ADA, llwyddwyd mewn gwirionedd i addasu mwy na'r targed gwreiddiol, gyda 95 o is-drosglwyddyddion a'r chwe phrif drosglwyddyddion wedi eu haddasu i ddarlledu pedair sianel yn hytrach na thair.[89] O'i gymharu â'r addasu a wnaed yng ngweddill Prydain ar gyfer y bedwaredd sianel Brydeinig, yr oedd y gwaith a'r ymdrech a wnaed yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol iawn, gan fod nifer fawr iawn o ddinasoedd a threfi poblog Lloegr a'r Alban yn annhebygol o dderbyn y sianel yn ei wythnosau agoriadol, dinasoedd megis Caeredin, Caerfaddon, Bryste a Sheffield.[90] Ond, o'r deg is-drosglwyddyddion a oedd yn parhau heb eu cymhwyso yng Nghymru, er nad oeddent mewn canolfannau poblog, yr oedd tri ohonynt mewn ardaloedd hynod Gymreig, megis Dolybont, a

---

[86] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the One Hundred and Thirty Third Meeting of the Welsh Committee*, 10 Hydref, 1979, t. 2.
[87] Kenneth Gosling, '£40m loan for new ITV channel', *The Times*, 13 Tachwedd 1979, t. 6.
[88] Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997019, RK/6/50, Drafft o lythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol, William Whitelaw A.S. at Nicholas Edwards A.S., 1982.
[89] Dienw, 'Addo S4C mor fuan ag y bo'r modd', *Y Cymro*, 23 Tachwedd 1982.
[90] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the one hundred and fifty-sixth meeting of the Wales Advisory Committee*, 8 October 1982, t. 5. Mae lansiad Channel 4 a S4C felly yn cymharu'n ffafriol â dyfodiad technolegau diweddar yng Nghymru, megis radio DAB a band llydan sydd wedi bod yn araf wrth gael eu cyflwyno mewn ardaloedd llai poblog.

oedd yn gwasanaethu pentrefi i'r gogledd o Aberystwyth gan gynnwys Taliesin, Llandre a Dolybont ei hun; Llanrhaeadr ym Mochnant ym Mhowys a oedd yn gwasanaethu Dyffryn Tanat a Threfin yn Sir Benfro.[91] Oherwydd yr oedi hwn wrth addasu'r is-drosglwyddyddion, byddai'r cymunedau Cymreig a Chymraeg hyn yn cael eu hamddifadu yn gyfan gwbl o raglenni Cymraeg ar y teledu gan na ddarlledid S4C iddynt. Yr oedd hyn, yn enwedig yn achos trosglwyddyddion Trefin a Llanrhaeadr ym Mochnant, yn sefyllfa abswrd iawn gan mai dim ond ers Rhagfyr 1981 ac Ionawr 1982 yr oedd eu trosglwyddyddion UHF yn weithredol. Yr oedd hyn yn golygu mai dim ond am un mis ar ddeg yr oedd trigolion yr ardaloedd hyn wedi derbyn rhaglenni Cymraeg, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw yr oeddent yn cael eu hamddifadu ohonynt drachefn.[92] Nid am gyfnod o wythnosau yn unig y byddai'r rhaglenni Cymraeg yn cael eu dwyn oddi ar drigolion yr ardaloedd Cymreig hyn, ond yn hytrach am gyfnod estynedig o bedwar mis ar bymtheg, gan na welwyd cwblhau trosglwyddyddion Dolybont a Llanrhaeadr ym Mochnant tan fis Mai 1984 a bu rhaid aros yn hirach yn Nhrefin gan nad oedd bwriad i addasu hwnnw tan 1985.[93] Bu ymgyrchu a deisebu gan y cymunedau wrth iddynt wynebu cyfnod helaeth heb arlliw o'r ddarpariaeth gyffrous a hysbysebwyd yn y papurau newydd, a chefnogwyd eu protestiadau gan Urdd Gobaith Cymru a fu'n llythyru ac yn cwrdd â'r ADA er mwyn mynegi ei bryder am effaith y sefyllfa ar blant yr ardaloedd hyn.[94] Bu pryderu hefyd am yr effaith andwyol ar batrymau gwylio gwylwyr yn yr ardaloedd hynny a pha

---

[91] Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997019, RK/6/50, Llythyr oddi wrth Eirion Lewis at Owen Edwards, 20 Rhagfyr 1982; Yr oedd rhain yn drosglwyddyddion a adeiladwyd fel rhan o gynllun addasu trosglwyddyddion Cymru o UHF i VHF yn ystod 1980–1, ond a gynllunwyd fel trosglwyddyddion tair sianel cyn i'r llywodraeth ddod i benderfyniad ar dynged y bedwaredd sianel. Y trosglwyddyddion eraill nad oedd modd eu haddasu mewn pryd oedd Cwmaman, Abergwynfi, Broad Haven, Crucorney, Efail Fach, Kerry a Trefynwy. Bu pryder sylweddol hefyd ynglŷn ag is-drosglwyddydd ardal Bethesda, a hynny gan nad oedd digon o amleddau UHF ar gael i glustnodi grŵp arbennig o sianeli i'r ardal pan adeiladwyd yr is-drosglwyddydd ym 1973. Yr hyn a wnaed yn hytrach oedd defnyddio technoleg arbennigol 'active deflector' er mwyn ail-ddefnyddio signal Llanddona. Gan ei fod yn offer arbennigol a ddefnyddid mewn dim ond un ardal arall ym Mhrydain bu'n anodd i'r ADA ddod o hyd i gyflenwr ac ofnid y byddai'n rhaid aros tan ddiwedd 1984 cyn derbyn yr offer angenrheidiol. Llwyddwyd er hynny i'w addasu ym 1982. Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997019, RK/6/50, Draft o lythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol William Whitelaw A.S. at Nicholas Edwards A.S., 1982, t. 2.

[92] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the one hundred and fiftieth meeting of the Wales Advisory Committee*, 10 December 1981, t. 1; *Minutes of the one hundred and fifty first meeting of the Wales Advisory Committee*, 2 March 1982, t. 2.

[93] Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997016, RK/6/25, Eirion Lewis, *Television Reception in Wales – Note by the Secretary*, t. 1; Di-enw, 'Addo S4C mor fuan ag y bo'r modd', *Y Cymro*, 23 Tachwedd 1982;

[94] Dienw, 'IBA slammed over S4C "deprivation" in north Ceredigion', *The Cambrian News*, 26 Tachwedd 1982; Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997019, RK/6/50, Llythyr oddi wrth Cyfarwyddwr Urdd Gobaith Cymru at Eirion Lewis, 3 Rhagfyr 1982.

mor anodd fyddai eu hudo wedi hynny i wylio S4C pan fyddai'r sianel ar gael iddynt.

Yr oedd canlyniadau sylweddol a difrifol i'r bylchau hyn yn rhwydwaith trosglwyddyddion Cymru, felly, ond mae'n rhaid cydnabod y byddai'r sefyllfa yn llawer gwaeth oni bai am ymdrechion peirianwyr yr ADA. Yn wir, datgelodd Eirion Lewis, Ysgrifennydd yr ADA yng Nghymru, y ceid erbyn Gorffennaf 1984 33 y cant o drosglwyddyddion Lloegr yn darlledu Channel 4, 32 y cant o drosglwyddyddion yng Ngogledd Iwerddon a 23 y cant o drosglwyddyddion Yr Alban. O gymharu â'r ffigurau hyn, yr oedd y ffigwr o 92 y cant o drosglwyddyddion yng Nghymru a ddarlledai S4C yn syfrdanol uwch, ac yn destament i ymdrech ac ymroddiad yr ADA i sicrhau bod cynifer â phosibl o gartrefi Cymreig yn derbyn rhaglenni Cymraeg ar ôl lansiad S4C.[95] Dengys yr ymdrech hon yr ymroddiad a gaed gan yr ADA i sicrhau y ceid yr amgylchiadau gorau i'r sianel newydd yn ystod ei chyfnod prawf, gan gladdu'r agweddau a'r gobeithion blaenorol a gaed ymhlith swyddogion yr ADA am y defnydd o'r bedwaredd sianel.

Yr oedd perthynas agos â'r ADA yn hanfodol felly i S4C gan y byddai'r sianel yn ddibynnol ar yr Awdurdod i sicrhau chwarae teg ariannol a blaenoriaeth dechnolegol yn nhermau trosglwyddyddion. Er hynny, yr oedd Awdurdod S4C yn Awdurdod annibynnol, ac nid yn atebol mewn unrhyw fodd i swyddogion yr ADA. Yn hytrach, meistr yr Awdurdod oedd y Swyddfa Gartref, ac i'r swyddfa honno y cyflwynai'r Awdurdod ei adroddiadau blynyddol a fanylai gyraeddiadau a llwyddiannau'r sianel bob blwyddyn. Er hynny, perthynas led braich a geid rhwng y llywodraeth ac Awdurdod S4C, gyda'r Swyddfa Gartref, a'r Ysgrifennydd Cartref, yn gweithredu er

---

[95] Archif yr ITA/IBA/Cable Authority, Prifysgol Bournemouth, 3997016, RK/6/25, Eirion Lewis, *Television Reception in Wales – Note by the Secretary*, t. 2.

mwyn datrys unrhyw ddadleuon rhwng S4C a'r ADA ar faterion ariannol.[96]

Yn ystod blwyddyn gyntaf bodolaeth yr Awdurdod, bu rheidrwydd ar yr Awdurdod i gyfathrebu â ac ymwneud â sefydliad llywodraethol arall a hynny trwy ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o dan gadeiryddiaeth Leo Abse, A.S. Cylch gorchwyl y pwyllgor oedd 'Broadcasting in the Welsh Language and the Implications for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners'. Dyma faes eang a roes gyfle i'r aelodau wyntyllu ac ystyried materion, megis yr amodau ariannol angenrheidiol ar gyfer y sianel newydd, cydbwysedd gwleidyddol ar raglenni newyddion Cymru a'r cam honedig a wnaed â gwylwyr di-Gymraeg Cymru.[97] Nodwyd mai prif flaenoriaeth y pwyllgor oedd cyflwyno sail ffeithiol i'r dadleuon o amgylch darlledu Cymraeg, meddai'r adroddiad: 'For too long, in our opinion, emotion rather than fact has dominated discussions of Welsh-language broadcasting. In this Report, we have set out to establish facts wherever we can and then seek to base our conclusions on them.'[98] Er na nodir hynny yn yr adroddiad terfynol, sefydlwyd y pwyllgor ynghanol y trafodaethau rhwng y llywodraeth a Gwynfor Evans wedi iddo gyhoeddi ei ympryd, ac felly yr oedd y bygythiad hwnnw yn un o brif ysgogiadau'r Pwyllgor i archwilio'r maes hwn ar gyfer ei adroddiad.[99] Nod y Pwyllgor oedd gweithredu fel canolwr rhwng y llywodraeth a'r grwpiau a oedd yn galw am sianel Gymraeg ar wahân, gan liniaru rhyw gymaint ar y tensiwn trwy drafodaeth agored a fyddai yn '. . . help to "ease out" the violence that is now beginning to come from people whom he [Abse] described as "Welsh language fanatics"'.[100] Er hynny, erbyn i'r pwyllgor ddechrau gwrando ar ei dystion yn

---

[96] Rhagdybir y bydd y berthynas lled-braich hon yn diflannu os bydd cynllun Llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010–11 i drosglwyddo cyfrifoldebau ariannu S4C i'r BBC yn methu. Rhagwelir y bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dychwelyd at ei gynllun gwreiddiol o bennu lefel ariannu S4C yn uniongyrchol gan ddiddymu'r cysylltiad hwnnw a osodwyd yn Neddf Ddarlledu 1990 rhwng cyllideb blynyddol y sianel a mynegai prisiau manwerthu (*retail price index*). Mark Sweney, 'Government curbs Ofcom's powers', *www.guardian.co.uk/media/ 2010/oct/14/ofcom-scms-jeremy-hunt?*, 14 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Dienw, 'S4C funding link to inflation set for reform', *www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11540055*, 14 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Mark Sweney, 'BBC could cut licence fee if S4C partnership fails', *www.guardian.co.uk/media/2010/oct/22/bbc-licence-fee-s4c*, 22 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010).

[97] Cyfeirir at nifer o'r meysydd a drafodwyd gan y PDFC gyda'u tystion mewn adrannau eraill o'r traethawd hwn, ac felly cyfeirio yn unig at brif themâu tystiolaeth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru a wneir yma.

[98] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol I*, tt. v–vi.

[99] George Clark, 'Welsh TV issue to be studied by MPs', *The Times*, 18 Awst 1980, t. 2.

[100] Ibid.

gyhoeddus am y tro cyntaf ar 29 Hydref 1980, yr oedd y tensiwn hwnnw wedi pylu yn dilyn ail dro-pedol William Whitelaw ar 17 Medi 1980. Bellach, felly, ceisio cadarnhau ffeithiau oedd prif orchwyl y pwyllgor er mwyn cyfiawnhau gwariant cyhoeddus sylweddol ar ddarlledu Cymraeg, a thrafod goblygiadau'r Ddeddf Ddarlledu newydd a sut y dylid mynd ati i ddehongli ei hargymhellion wrth ffurfio pedwaredd sianel Gymraeg.[101]

Nid tasg hawdd oedd honno o gasglu ffeithiau cadarn, gan na fu patrwm cyson o geisio darganfod a mesur patrymau gwylio y gynulleidfa Gymraeg cyn dyfodiad S4C. At hynny, yn eu tystiolaeth bu nifer o sefydliadau yn cynnig ffigurau anghymharus o gost arfaethedig y sianel Gymraeg newydd, gan adael dryswch ynglŷn â gwir gost gosod rhaglenni Cymraeg ar un sianel. Gellid gweld rhwystredigaeth y Cadeirydd Leo Abse, yn enwedig, yn ystod ymweliad cyntaf Awdurdod S4C â'r Pwyllgor ar 25 Chwefror 1981, fis yn unig wedi penodi aelodau yr Awdurdod hwnnw. Cynrychiolwyd yr Awdurdod gan Syr Goronwy Daniel a Dr Glyn Tegai Hughes a darparwyd memorandwm byr ganddynt at sylw'r PDFC yn manylu ar rai o'r prif benderfyniadau a wnaed eisoes yn nau gyfarfod yr Awdurdod a fu cyn ymddangos gerbron y PDFC.[102] Prif thema'r holi yn y cyfarfod hwn oedd costau arfaethedig y sianel, a chaed perfformiad meistrolgar o graff gan Syr Goronwy Daniel wrth iddo wrthod datgelu drosodd a thro, er gwaethaf pwysau sylweddol o du'r pwyllgor gydol sesiwn bore a'r prynhawn, fanylion cyllideb arfaethedig y sianel newydd.[103] Gan mai dim ond megis dechrau yr oedd gwaith yr Awdurdod ar faterion ariannol, yr oedd Syr Goronwy Daniel yn amlwg yn awyddus iawn i gadw unrhyw syniadau a oedd ganddo ef a'i gyd-aelodau am gyllideb y sianel newydd yn gyfrinachol, hyd y gellid casglu'r wybodaeth berthnasol ac er mwyn galluogi Prif Swyddog y sianel, nad oedd wedi ei benodi eto, i gyflwyno ei syniadau ei hun ar gyllideb angenrheidiol.[104] Yr unig sylw a wnaed gan Syr Goronwy Daniel ar y ffigurau cynnar a dderbyniwyd, oedd nodi anghredinedd aelodau'r Awdurdod

---

[101] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol I*, t. v.
[102] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, tt. 508–9.
[103] Ibid., tt. 511– 42.
[104] Yr oedd hon yn dacteg a drafodwyd gan yr Awdurdod yn ei ail gyfarfod wrth baratoi ar gyfer ei dystiolaeth i'r PDFC. Ceir cofnod hefyd sy'n awgrymu y dylai'r Awdurdod roi ffigurau i'r PDFC a hynny oherwydd sefyllfa economaidd anodd y cyfnod, ac y gellid cael cefnogaeth gan y pwyllgor wrth iddynt geisio sicrhau arian teilwng. Ond mae dadansoddiad o atebion cynrychiolwyr yr Awdurdod i gwestiynau'r PDFC yn dangos mai'r dacteg o gadw ffigurau yn gudd a ffafriwyd. CPGTH, *Cofnodion ail gyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, tt. 4–5.

dros rai ohonynt, a chyfleu bod y costau arfaethedig a dderbyniwyd gan HTV yn aruthrol o uchel.[105] Yr oedd hon yn dacteg graff gan Syr Goronwy Daniel, er ei bod yn un a gododd wrychyn Cadeirydd y PDFC, gan iddi sicrhau nad oedd yr Awdurdod yn datgelu unrhyw ffigurau y gellid caethiwo'r sianel iddynt, petai ymchwil a thrafodaethau pellach yn dangos bod angen swm llawer iawn mwy neu lawer iawn llai ar gyfer sefydlu sianel deilwng. Er hynny, ni fu sefydliadau eraill yr un mor dawedog eu tystiolaeth hwy, a da hynny, gan y bu'r ffigurau a drafodwyd yn cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol i'r Awdurdod wrth iddi lunio ei chyllideb gyntaf. Yn ystod ail ymddangosiad y sianel gerbron y pwyllgor, ar 6 Mai 1981, bu'n bosibl cyflwyno llawer mwy o wybodaeth ariannol, gan ei bod bellach wedi anfon ei memorandwm ariannol at yr ADA.[106] Ac yno syfrdanwyd y pwyllgor gan yr hyn a welid fel gwahaniaeth sylweddol rhwng amcangyfrifon costau rhaglenni HTV (£30 – £32 miliwn) a'r swm a holwyd amdano gan S4C er mwyn ariannu rhaglenni'r misoedd cyntaf a'r stoc wrth gefn (£19.5 miliwn).[107] Pryderwyd cymaint fel y mynnwyd cael copi o'r memorandwm a anfonwyd at yr ADA ac esboniad llawn o'r gwahaniaeth sylweddol a gaed rhwng costau'r S4C ac HTV.[108]

Erbyn cyhoeddi adroddiad y PDFC yng Ngorffennaf 1981 yr oedd yr arian a fyddai ar gael i'r sianel Gymraeg hyd ddiwedd blwyddyn ariannol 1983 wedi ei gytuno gan yr ADA a S4C, ac felly ni ellid honni i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor hwn ar faterion cyllid gael effaith o gwbl ar y penderfyniadau a wnaed i'r perwyl hwnnw, er hynny maent yn darlunio yr agwedd a gaed mewn rhai carfannau o'r byd gwleidyddol at wasanaeth teledu Cymraeg. Caed argymhellion gan y pwyllgor y dylid rhoi arian teg i'r sianel i'w galluogi i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan y ddeddf. Ond yn yr un gwynt, gan fradychu lle y disgynnai teyrngarwch rhai o aelodau'r pwyllgor, nodwyd y frawddeg ganlynol: '. . . we should be strongly opposed to any parsimony in the provision of funds for Welsh-language services

[105] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 519. Cesglir hyn gan y tybir ei bod hi'n llawer rhy gynnar yn hanes yr Awdurdod a'r cynhyrchwyr annibynnol iddynt fod wedi anfon costau arfaethedig at y sianel, a chan nad oedd rheidrwydd i'r sianel dalu am raglenni'r BBC, HTV yw'r unig ffynhonell bosibl.
[106] *Second Report of the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 655. Owen Edwards a Syr Goronwy Daniel oedd cynrychiolwyr yr Awdurdod yn yr ail ymddangosiad hwn.
[107] CS4C, *Cofnodion Seithfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9–10 Mai 1981, t. 2. Ceir trafodaeth helaethach o'r gwahaniaeth barn rhwng S4C ac HTV ar fater costau rhaglenni ym Mhennod 4, tt. 157–78.
[108] Ibid. Gan y darparwyd y dogfennau hyn ar delerau cyfrinachol i'r PDFC nid ydynt yn ymddangos yn y cyhoeddiad swmpus o drafodaethau'r pwyllgor.

rebounding on the quality and range of service available to the English-language viewer.'[109] Ceir yr argraff felly mai er mwyn gwarchod safon y ddarpariaeth Saesneg yn unig yr argymhellwyd y dylid brwydro am arian teilwng i raglenni Cymraeg. Awgrymir bod y pwyllgor yn pryderu y byddai cynhyrchu rhaglenni Cymraeg rhad a chybyddlyd, yn arwain at gred ei bod yn dderbyniol diwallu anghenion y gwylwyr di-Gymraeg trwy gynhyrchu rhaglenni rhanbarthol rhad ac isel eu safon hefyd.

Mater a drafodwyd yn fyr iawn ar ddiwedd ail ymweliad S4C â'r pwyllgor, ond a dyfodd yn un o brif argymhellion y PDFC, oedd a ddylai S4C gomisiynu ac ariannu rhaglenni Saesneg am Gymru er mwyn denu gwylwyr di-Gymraeg i'r sianel.[110] Crybwyllwyd y mater gan Leo Abse gan ennyn ymateb cadarn gan Owen Edwards a nododd nad oedd y Ddeddf Ddarlledu yn gosod y cyfrifoldebau hynny ar y sianel newydd, ac nad oedd hi'n ariannol bosibl i'r sianel gomisiynu rhaglenni Saesneg. Fel y nodwyd eisoes, erbyn hyn yr oedd S4C wedi trefnu a chytuno ar ei chyllideb gyda'r ADA ar sail ariannu deuddeg awr yr wythnos o gynyrchiadau Cymraeg yn unig, byddai ceisio cynhyrchu rhaglenni Saesneg yn rhan o'r un gyllideb yn arwain at wario'r arian hwnnw ar draul y rhaglenni Cymraeg, gan gynhyrchu rhaglenni rhad ar gyfer y ddwy gynulleidfa. Teimlai Abse yn anfoddog gydag ymateb anhyblyg y sianel i'w syniad, a bu'n ceisio argyhoeddi ei chynrychiolwyr y gellid diffinio'r cymal o'r Ddeddf a gyfeiriai at yr hyn a ddarlledid ar S4C y tu hwnt i'r oriau brig, er mwyn dangos nad oedd hi'n amhosibl defnyddio'r arian i gomisiynu rhaglenni Saesneg hefyd. Meddai:

> I am rather surprised at your tough rejection or interpretation. I would have thought that it would have been to the benefit of all of us – English and Welsh-speaking Welshmen – if in fact there were also some titbits of great interest to the English-speaking Welshman on that programme, which might induce them to continue to look and indeed, if their Welsh is inadequate, to improve it as a result of looking at the other programmes?[111]

Gellid deall rhesymeg Leo Abse yma, y dylid defnyddio rhaglenni Saesneg am Gymru er mwyn rhwydo gwylwyr di-Gymraeg i wylio rhaglenni Cymraeg. Er hynny, yr oedd ei argymhelliad yn annilys, a hynny gan nad oedd y Ddeddf, er meddwl

[109] *Second report from the Committee on Welsh Affairs, Vol I*, t. xv.
[110] Ibid., tt. lxxii–lxxiii.
[111] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 663.

dargyfeiriol y Cadeirydd, yn caniatâu hynny. At hynny, pe bai'r sianel â chyfrifoldeb dros gomisiynu darpariaeth Saesneg ynghyd â darpariaeth Gymraeg, byddai rheidrwydd gofyn am gynnydd yn y gyllideb gan yr ADA. Un mater na chrybwyllwyd yn y drafodaeth ar y syniad ac a fyddai, diau, yn rheswm dilys dros beidio comisiynu rhaglenni Saesneg am Gymru ar gyfer S4C, yw mai prin y byddai'r BBC ac HTV yn cefnogi'r syniad o'r sianel newydd yn traflyncu eu cyfrifoldeb hwy. Er mwyn ceisio tawelu'r dyfroedd, cynigiodd Syr Goronwy Daniel y byddai'r sianel yn comisiynu rhai rhaglenni cerddorol er enghraifft, a fyddai'n ddealladwy i Gymry di-Gymraeg oherwydd mai prin fyddai'r sgwrsio a geid ynddynt. At hynny, addawodd y byddai swyddogion y sianel, petai syniad da am raglen Saesneg am Gymru yn eu cyrraedd, yn argymell i Channel 4 y dylid ei chomisiynu. Er atebion rhesymegol a phragmataidd S4C i'r egwyddor hon, ni lwyddwyd i ddarbwyllo'r PDFC a cyhoeddwyd cymal yn yr adroddiad terfynol yn argymell y dylai'r bedwaredd sianel yng Nghymru gomisiynu rhaglenni yn Saesneg am Gymru.

Gellid disgrifio ail adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig fel un digon di-fflach, gan fradychu pwyllgor a oedd, wedi ail dro-pedol y llywodraeth a sefydlu Awdurdod S4C, wedi colli ei bwrpas a'i ffocws. Cafwyd nifer o argymhellion gwag a oedd yn annog gweithgareddau ac agweddau yr oedd y cyfundrefnau darlledu eisoes yn eu gweithredu, megis mynnu bod y BBC, yr ADA ac HTV yn ailystyried eu gofynion o ran gallu ieithyddol rhai swyddi rheoli a'u bod i gynnig cyfleusterau dysgu Cymraeg i unrhyw aelod o staff a ddymunai hynny.[112] At hynny, bychan iawn fu'r ymateb yn y wasg i gyhoeddi'r adroddiad, a disgrifiodd Alwyn Roberts ei ymddangosiad fel 'damp squib' oherwydd y prinder sylw a roddid iddo yn y cyfryngau.[113] Awgrymir felly mai prin iawn oedd dylanwad ail adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar ddatblygiad a phatrwm gweithredu y cyfundrefnau darlledu yng Nghymru.

Ynghyd â ffurfio perthynas gyda'r ADA a throedio'n ofalus yn eu perthynas â'r llywodraeth, bu'n rhaid i swyddogion S4C lunio perthynas o'r newydd gydag undebau a oedd yn weithredol ac yn hynod ddylanwadol ym maes darlledu yn y

---

[112] BBC WAC, R78/26/4, *Minutes of the 323$^{rd}$ Meeting of the Broadcasting Council of Wales*, 18 Medi 1981, t. 5.
[113] Ibid., t. 4.

cyfnod.[114] Yr oedd rhwydwaith undebau y diwydiant darlledu yn un dyrys a hynny gan fod nifer ohonynt yn cynrychioli agweddau gwahanol o'r diwydiant a'r swyddi amrywiol a gaed oddi mewn iddo.[115] Yn achos S4C, gan ei bod yn sianel a fyddai'n cyflogi amrywiaeth o staff o amryw feysydd gwahanol, a chan mai ei bwriad oedd darlledu rhaglenni a gynhyrchid gan sawl sefydliad gwahanol, yr oedd rheidrwydd arni i drafod â nifer o undebau gwahanol. Cyn diwedd 1981 yr oedd yr Awdurdod wedi derbyn cais gan yr ACTT ac ABS am gydnabyddiaeth i'w hundebau oddi mewn i'r sefydliad. Yn ddelfrydol teimlai Awdurdod S4C y dylid cydnabod yr ACTT ac ABS, ond pryderwyd na fyddai ACTT yn fodlon derbyn yr egwyddor honno a hynny oherwydd y byddai'n gosod cynsail, ac yn cael effaith andwyol ar eu trafodaethau gyda Channel 4, gan eu bod yn ceisio cael cydnabyddiaeth fel yr unig undeb i staff y sianel honno.[116] Yn y trafodaethau rhyngddynt mynnodd yr ABS y dylai S4C gydnabod yr undeb a gynrychiolai staff darlledu cyhoeddus, ac mai ABS fyddai'r sefydliad addas oherwydd ei statws yn y BBC. Yr oedd yr ACTT, ar y llaw arall, yn mynnu mai o'r sector annibynnol a masnachol, lle cydnabyddid ACTT y byddai'r rhan helaeth o raglenni S4C yn dod, at hynny, mynnwyd mai'r undeb hon oedd yr unig un a feddai ar unrhyw brofiad o ddarlledu ar sianel a gynhwysai hysbysebion.[117] Yn wahanol i'r undebau eu hunain, daeth argymhelliad cryf gan Ron Wordley o HTV a Geraint Stanley Jones o'r BBC na ddylid cydnabod un undeb yn unig a theimlwyd y byddai staff technegol S4C yn gymharol fechan ac na fyddai gormod o rwystr i gydnabod mwy nag un undeb. Teimlai penaethiaid y darlledwyr

[114] Cofia Wil Aaron gyfnod pan yr oedd yn gweithio fel cyfarwyddwr llawrydd i HTV, y byddai cynrychiolydd o'r undeb ACTT yn sefyll wrth ddrws yr adeilad a byddai'n rhaid dangos cerdyn undeb cyn cael mynediad i weithio yn yr adeilad. Cyfweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010. Ceir hefyd gyfeiriadau at agweddau llawdrwm honedig yr undebau yng nghyfrol David Meredith, *Pwy Fase'n Meddwl* (Llandysul, 2002), t. 72.

[115] Caed y National Association of Theatrical Television and Kine Employers (NATTKE) a gynrychiolai weithwyr amrywiol megis artistiaid colur a gwisgoedd ynghyd â theipyddion a chlerciaid, yn bennaf yn HTV yng Nghymru. Prif undeb y sector annibynnol oedd yr Association of Cinematograph and Allied Techniciains (ACTT), tra y cynrychiolai'r Association of Broadcasting Staffs (ABS) ran sylweddol o staff y BBC. At hynny, yr oedd y National Union of Journalists (NUJ) ac Equity yn weithredol iawn yn y sector. Bellach mae'r tirlun undebol yn llawer llai cymhleth gan i nifer o'r undebau a drafodir yma uno o dan faner newydd BECTU ym 1991.

[116] Bu'r trafodaethau rhwng ACTT a Channel 4 yn rhai hir a chaled gan nad oedd Channel 4 am dderbyn yr un telerau a gaed rhwng yr undeb ac ITV, a hefyd gan fod Channel 4 yn dymuno defnyddio peiriannau awtomataidd nad oedd angen cymaint o staff technegol i'w gweithredu, awgrym a oedd yn dân ar groen yr undebau. At hynny, wrth fynd ati i osod yr offer angenrheidiol yng nghanolfannau darlledu cwmnïau ITV a fyddai'n galluogi iddynt osod hysbysebion lleol, yr oedd yr ADA yn bwriadu gosod 'blwch du' fyddai'n sicrhau y gellid darlledu rhaglenni Channel 4 hyd yn oed pan yr oedd anghydfod undebol oddi mewn i rwydwaith ITV. Bonner & Aston, *Independent Television in Britain, Vol. 6*, tt. 57–101.

[117] CS4C, *Cofnodion pymthegfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Tachwedd 1981, t. 2.

hefyd, gan y byddai nifer o staff technegol newydd S4C yn gadael swyddi gyda HTV neu'r BBC er mwyn ymuno â'r sianel, y dylai S4C aros a gweld pa gysylltiadau yr oedd ganddynt eisoes cyn penderfynu yn derfynol ar unrhyw gydnabyddiaethau.[118] Er hynny, mynnai ACTT nad oedd am gydweithio gydag undebau eraill, ac yr oedd Euryn Ogwen Williams a Vince Flanagan, Prif Beiriannydd S4C, hefyd yn pryderu na fyddai cael dau undeb yn weithredol ymysg staff mor fychan yn ymarferol.[119] Erbyn Mai 1982, er hynny, yr oedd yr ansicrwydd undebol wedi ei ddatrys a phenderfynwyd cydnabod yr ACTT a'r Electrical, Electronic, Telecommunications and Plumbing Union (EETPU) ar gyfer y staff technegol, a derbyniwyd yr ABS a'r NUJ i gynrychioli staff gweinyddol a staff swyddfa'r wasg.[120]

Yn wahanol i'r trafodaethau a gaed gyda'r undebau hyn, bu anghydfod cyhoeddus yn rhinwedd o'r trafodaethau a fu rhwng y sianel ac undeb y perfformwyr, Equity. Yr oedd Equity, hyd yn oed cyn cynnal unrhyw gyfarfod ffurfiol rhwng y ddwy ochr, wedi mynegi ei bryderon y byddai Awdurdod S4C a chynhyrchwyr rhaglenni yn ceisio defnyddio actorion a pherfformwyr amatur er mwyn arbed arian cynhyrchu.[121] Yr oedd yr undeb wedi ei bryfocio gan syniad rhai o swyddogion y sianel o'r posibilrwydd o fanteisio ar draddodiadau canu corawl Cymreig trwy gynnig llwyfan i gorau amatur niferus Cymru. At hynny, fel y nodwyd mewn erthygl yn y *Western Mail*, yr oedd S4C yn gobeithio am hyblygrwydd ym mholisiau'r undeb a fyddai'n galluogi'r sianel i ddefnyddio actorion newydd a thalentau lleol wrth i'r ddarpariaeth ddrama Gymraeg gynyddu'n sylweddol. Yr oedd hyn yn anathema i Equity, a chan fod teledu yn siop gaeëdig yn y cyfnod, credai swyddogion yr undeb y byddai syniad o'r fath yn galluogi unrhyw gynhyrchydd i ddefnyddio actorion nad oedd ganddynt gardiau Equity eisoes gan osod cynsail a fyddai'n arwain at gynhyrchwyr annibynnol yn defnyddio actorion amatur er mwyn torri eu costau a sicrhau cynyrchiadau drama ar draul y corfforaethau darlledu mwy a fyddai'n glynu at reolau'r undeb.[122] Er gwaethaf y safbwyntiau gwahanol hyn, dechreuodd y trafodaethau rhwng S4C ac Equity yn gymharol hwylus, gydag Owen Edwards ac Euryn Ogwen Williams yn

---

118 CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ionawr 1982, t. 1.
119 CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.82(4)) – Papur atodol i Agenda deunawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
120 S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1981–82* (Caerdydd, 1982), t. 10.
121 Clive Betts, 'Equity asks for assurances on fourth channel', *Western Mail*, 20 Mai 1981.
122 Ibid.

adrodd ar gyfarfod 'boddhaol' rhwng y ddwy ochr.[123] Ond ymhen y mis yr oedd y berthynas wedi dirywio ac Owen Edwards wedi rhyddhau datganiad i'r wasg yn mynegi ei siom ynglŷn ag agwedd anhyblyg yr undeb.[124] Yn Eisteddfod Machynlleth 1981, gosodwyd her i Equity gan y Cyfarwyddwr wrth iddo ddatgan yng nghyfarfod cyhoeddus y sianel ei fod yn '. . . benderfynol o roi cyfle i ddoniau newydd, ifanc, disglair ac nad tocyn aelodaeth Equity yw'r unig faen prawf o safon, dawn na phroffesiynoldeb.'[125] Er mwyn codi gwrychyn yr undeb ymhellach, cyhoeddodd y byddai'r tenor Trebor Edwards yn cael ei raglen ei hun, a hynny er gwaethaf y ffaith fod Equity wedi ei ddefnyddio fel enghraifft o unigolyn na ddylai gael canu ar y teledu gan mai ffermio oedd ei alwedigaeth ac nid canu.[126] Dengys yr anghydfod hwn y ddeuoliaeth a gaed yn ethos y sianel, sef y pwyslais a gaed ar yr un llaw ar ddarparu cynnwys safonol a fyddai'n cymharu'n ffafriol â darpariaeth y sianeli eraill, ond a oedd ar y llaw arall yn adlewyrchu'r diwylliant Cymreig, a oedd o'i hanfod, oherwydd traddodiadau eisteddfodol, cwmnïau drama lleol a chorau dirif, yn dibynnu yn drwm ar berfformwyr amatur. Yr oedd undeb Equity, ymddengys, yn ceisio gosod rheolau unffurf Prydeinig ar sianel a oedd angen apelio at gynulleidfa Gymraeg a oedd yn disgwyl gweld rhaglenni a fyddai'n adlewyrchu'r gymuned Gymraeg ac yn cynnig llwyfan hir ddisgwyliedig i dalentau 'amatur' megis Trebor Edwards. At hynny, o gofio nad oedd nifer sylweddol o actorion Cymraeg yn meddu ar gardiau Equity a chynnydd sylweddol ar droed mewn cynhyrchu drama, yr oedd rheidrwydd ar yr undeb i lacio ei reolau neu y byddai'r cwyno a geid am yr un hen wynebau cyfarwydd yn ymddangos ym mhob drama yn gwaethygu'n sylweddol.[127] Yn y pen draw, cynyddodd nifer aelodau cyfrwng Cymraeg Equity a chytunwyd ar drwydded arbennig i S4C a oedd yn caniatáu i'r cynhyrchwyr ddefnyddio mwy o amaturiaid na'r arfer a hynny er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o dalent a geid yng Nghymru.[128] Er hynny, parhaodd Equity yn amheus o'r rheolau newydd hyn, a mynnwyd adolygiad o'r sefyllfa ymhen chwe mis er mwyn sicrhau nad oedd y

[123] CPGTH, *Cofnodion nawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 20–21 Mehefin 1981, t. 3.
[124] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Gorffennaf 1981, t. 4. Ymddengys mai cyfweliad a wnaeth un o gynrychiolwyr pwyllgor Cymreig Equity ar raglen deledu fyw oedd y sbardun i'r datganiad chwyrn gan Gyfarwyddwr S4C.
[125] Arfon Gwilym, ''Equity yn hunanol' – Pennaeth S4C', *Y Cymro*, 11 Awst 1981.
[126] Ibid.
[127] Yn wir mae'r gwyn am 'yr un hen wynebau' ar y sianel yn parhau fel y dangosodd y trafod a fu ar raglen *Noson Gwylwyr S4C* (Tinopolis, 25 Hydref 2010), pan i unigolyn gwyno am ddiffyg amrywiaeth cyflwynwyr ar y sianel.
[128] CS4C, Llythyr Euryn Ogwen at Equity, *Papur atodol i Agenda seithfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Awst 1982.

rheolau yn cael eu camddefnyddio gan gynhyrchwyr.[129] Oherwydd y cytundeb newydd, caniatawyd i nifer helaeth o actorion newydd sicrhau gwaith, gyda'r ddrama *Coleg* (HTV) yn gynhyrchiad allweddol a roddodd lwyfan i dalentau ifanc newydd megis Tony Llywelyn, Janet Aethwy, Judith Humphreys a Stifyn Parri. Erbyn 1983, y pryder a fynegwyd gan swyddogion S4C oedd bod anghydbwysedd sylweddol yn y rhychwant o actorion a oedd ar gael oherwydd y dylifiad sylweddol o actorion ifanc i'r diwydiant, a bellach nid oedd digon o actorion hŷn. Yr oedd dyfodiad S4C wedi ysbrydoli diddordeb aruthrol mewn actio a pherfformio ymysg yr ifanc, a rhagwelwyd na fyddai digon o waith iddynt oll wedi iddynt raddio o'r colegau.[130] Yr oedd natur y gronfa o actorion Cymraeg wedi gweddnewid yn llwyr felly, a llai na blwyddyn ar ôl dechrau darlledu, cynyddu safon perfformiadau oedd blaenoriaeth y sianel bellach, yn hytrach na chynyddu niferoedd.

Yn ystod y deunaw mis o baratoi, bu rheidrwydd i'r Awdurdod ystyried yn fanwl gyflwyno cyfundrefn ymgynghorol a fyddai'n sicrhau fod y sianel yn derbyn y cyngor gorau wrth iddi lunio ac addasu ei gwasanaeth, cyfrifoldeb a osodwyd ar yr Awdurdod gan y Ddeddf Ddarlledu. Fel y trafodwyd eisoes, ni osodwyd rheidrwydd ar yr Awdurdod i greu pwyllgorau newydd er mwyn gweithredu'r cyfrifoldeb hwn, gan gynnig y gellid defnyddio'r systemau a fodolai eisoes gan y BBC a'r ADA er mwyn diwallu ei anghenion ymgynghorol. Un o'r penderfyniadau cynnar a wnaed yng nghyfarfod cyntaf yr Awdurdod oedd y byddai'r sianel yn defnyddio systemau'r BBC a'r ADA, sef Pwyllgor Cymreig yr ADA a Chyngor Darlledu'r BBC, gan ymrwymo i adolygu'r patrwm hwnnw wedi rhai misoedd.[131] Gofynnwyd i Michael Brooke ac Eirion Lewis, ysgrifenyddion cyfundrefnau ymgynghorol y BBC a'r ADA, i lunio papur ar gyfer yr Awdurdod yn amlinellu'r dewisiadau a wynebai'r sianel.[132] Yn y papur, cyfleodd yr awduron bwysigrwydd cyfundrefn ymgynghorol ar gyfer y sianel newydd trwy nodi: '. . . the new service is a controversial one and . . . it is breaking new broadcasting ground; it is therefore essential that it should receive,

[129] CS4C, *Cofnodion wythfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Medi 1982, t. 1. Yr oedd S4C yn dymuno gweld adolygiad o'r sefyllfa o fewn blwyddyn hefyd er mwyn sicrhau fod Equity yn derbyn mwy o aelodau a fyddai'n arwain at amrywiaeth doniau gogyfer â'r sianel.
[130] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5–6 Mai 1983, tt. 1–2.
[131] CPGTH, *Cofnodion cyfarfod cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, tt. 2–3.
[132] Archif BBC Cymru, Caerdydd, Ffeil M. Brooke 3573, *Advisory Structure for Sianel Pedwar Cymru – A Preliminary Note by Eirion Lewis (IBA) and Michael Brooke (BBC)*, 19 Mehefin 1981.

and be seen to receive, advice on all aspects of its programme output.'[133] Er hynny, yr oedd y ddau yn llwyr ymwybodol bod rheidrwydd hefyd i unrhyw gynllun fod yn rhesymegol o ran gwariant ac o ran baich gweinyddol ar staff bychan y sianel. Rhagwelwyd problemau, wrth i S4C ddefnyddio'r Cyngor Darlledu a Phwyllgor Cymreig yr ADA gan fod i'r pwyllgorau hynny gyfrifoldebau penodol i'w sefydliadau priodol, ac y gallai hynny eu hatal rhag darparu cyngor annibynnol, diduedd i S4C ar natur y rhaglenni a ddarlledid ganddi. Yn achos y BBC, rhagwelwyd hefyd y byddai hi'n amhriodol i'r Cyngor Darlledu drafod ei sylwadau ar raglenni a gynhyrchwyd gan y BBC â sefydliadau ac unigolion y tu allan i'r Gorfforaeth. Er hynny, awgrymwyd y dylai Cyfarwyddwr y sianel gynnal cyfarfod gyda'r Cyngor Darlledu a Phwyllgor Cymreig yr ADA ddwywaith y flwyddyn er mwyn trafod materion rhaglenni a oedd yn berthnasol i'w sefydliadau hwy.[134] Oherwydd y trafferthion cyfundrefnol hyn ac oherwydd i S4C gael ei sefydlu fel sianel ac Awdurdod ar wahân a oedd yn atebol yn uniongyrchol i'r llywodraeth, teimlai'r awduron y dylai cyfundrefn ymgynghorol y sianel adlewyrchu hynny.[135] Argymhellwyd felly y dylai S4C lunio cyngor ymgynghori annibynnol, cyngor a fyddai'n meddu ar 14 neu 16 o aelodau, wedi eu rhannu'n hafal rhwng y Cymry Cymraeg ar di-Gymraeg ac y byddai'n cyfarfod dair neu bedair gwaith y flwyddyn.[136] Er gwaethaf y bwriad a welwyd ar ddechrau'r ddogfen i geisio creu cyfundrefn hylaw, argymhellwyd pwyllgor llawer mwy na'r cyffredin, a fyddai, oherwydd nifer ei aelodau, yn ddrud i'w gynnal oherwydd costau teithio, ac, o bosibl, costau llogi teledu a pheiriant fideo i bob aelod.

Anghytunodd yr Awdurdod â safbwyntiau Michael Brooke ac Eirion Lewis, gan nodi y bwriad i gadw unrhyw gynllun ymgynghori mor syml â phosibl ac mai dyma pam yr oedd y swyddogion yn ffafrio peidio dyblygu'r ddarpariaeth a gaed eisoes. Rheswm arall a fynegwyd dros beidio â bod o blaid ffurfio pwyllgor annibynnol oedd y teimlid fod y Cymry Cymraeg a oedd â gwybodaeth o'r byd darlledu neu

[133] Ibid., t. 1.
[134] Ibid., t. 2.
[135] Ibid. Yn debyg felly i'r penderfyniadau a wnaed am ganolfan i'r sianel, yr oedd gosod stamp annibyniaeth ar frig rhestr blaenoriaethau Michael Brooke ac Eirion Lewis.
[136] Ibid., t. 4. Rhagwelwyd y byddai cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu rhannu'n ddau er mwyn i'r rhan gyntaf ymdrin â materion Cymraeg gyda'r aelodau Cymraeg, ac yna'r prynhawn i drafod darpariaeth Saesneg y sianel a materion cyffredinol. Credid y byddai'r cynllun hwn yn arbed peth arian gan nad oedd angen am offer cyfieithu ar y pryd.

oedd â diddordeb mewn bod yn aelod o bwyllgorau o'r fath, wedi gweithredu gyda neu wrthi'n gwneud eisoes, gyda'r ADA, HTV a'r BBC.[137] Er hynny, bwriadwyd gosod arian o'r neilltu rhag ofn y byddai rheidrwydd ar y sianel i sefydlu cyfundrefn annibynnol petai'r BBC a'r ADA yn amharod i gynnig cymorth.[138] Er y pendantrwydd barn hwnnw, parhaodd yr Awdurod i drafod yr egwyddor o ffurfio paneli gwylwyr rhanbarthol a fyddai'n darparu math arall o gynrychiolaeth a chyngor i'r hyn a gaed gan y BBC a'r ADA.[139] Datblygwyd y syniad hwn ymhellach wrth i'r Awdurdod sylweddoli gwerth cynllun o'r fath gan y byddai'n rhoi cyfle i'r gynulleidfa ymateb ar faterion megis cynnwys, apêl a chydbwysedd y gwasanaeth ynghyd â chyfle i fynegi barn ar rinweddau a ffaeleddau'r rhaglenni. Yr oedd dwy fantais bosibl gyda chynllun o'r fath, gallai greu delwedd o sianel a oedd yn agored ac yn barod i wrando ar ei chynulleidfa, a hefyd yr oedd yn galluogi i'r sianel gasglu adborth hanfodol a gwerthfawr y gallai ei ddefnyddio a gweithredu arno. Penderfynwyd, felly, yn Ebrill 1982 i lunio pedwar pwyllgor rhanbarthol, yn Yr Wyddgrug, Caernarfon, Caerfyrddin a Chaerdydd ac un pwyllgor cenedlaethol Saesneg ei iaith, gyda chadeiryddion y pwyllgorau yn ffurfio corff ymgynghorol cenedlaethol.[140] Bwriedid i'r cadeiryddion awgrymu croestoriad o unigolion addas yn eu hardal hwy, gan gwrdd ddwywaith bob blwyddyn, gyda'r corff cenedlaethol yn cwrdd unwaith y flwyddyn. Yr oedd hi'n fwriad i'r sianel ddarparu pynciau trafod er mwyn arwain trafodaethau'r pwyllgorau, ond ni fyddai unrhyw gysylltiad rhwng yr ADA a'r BBC â'r pwyllgorau hyn.[141] Erbyn mis Medi, er hynny, cofnodwyd y penderfyniad i ohirio gweithredu ar y mater o bwyllgorau rhanbarthol gan adolygu'r patrwm ar ôl chwe mis o ddarlledu.[142] Ni nodwyd unrhyw resymau dros y gohirio hwn, ond diau mai oherwydd pwysau ac anferthedd y dasg o lansio'r sianel ar ddechrau Tachwedd 1982 y penderfynwyd glynu at y patrwm diffwdan o ddefnyddio'r cyfundrefnau a fodolai eisoes. Erbyn dechrau 1983, yr oedd y sianel wedi cael cadarnhad gan yr ADA a'r Cyngor Darlledu eu bod yn hapus i gyfarfod gydag Awdurdod S4C o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn trafod y rhaglenni a

[137] CS4C, *Nodyn ar Gyrff Ymgynghorol S4C (Papur 2.82(7)) – Papur atodol i Agenda deunawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Chwefror 1982, t. 1. Gellid dadlau bod gorwelion y sianel yn rhy gyfyng wrth ystyried pa unigolion fyddai â diddordeb mewn cyfrifoldebau o'r fath.
[138] CPGTH, *Cofnodion nawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.
[139] CS4C, *Cofnodion deuddegfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Medi 1981, t. 3.
[140] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 2 Ebrill 1982, t. 1.
[141] Ibid.
[142] CS4C, *Cofnodion wythfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.

oedd yn berthnasol iddynt hwy. Cyfarfu Pwyllgor Cymreig yr ADA ac Awdurdod S4C am y tro cyntaf ar 21 Ionawr 1983 er mwyn trafod y rhaglenni Cymraeg a ddarparwyd i'r sianel gan HTV a'r cynhyrchwyr annibynnol, ynghyd â'r rhaglenni Saesneg a ddarparwyd iddi gan Channel 4. Cafwyd cyfarfod rhwng Awdurdod y sianel a Chyngor Darlledu'r BBC er mwyn trafod y rhaglenni a ddarparwyd gan y Gorfforaeth ar gyfer S4C ar 18 Mawrth 1983.

Ar fater o sicrhau cyngor penodol wrth gynhyrchu rhaglenni addysgol a chrefyddol, penderfynodd y sianel ei bod hi'n hanfodol iddi gael ei phwyllgorau annibynnol ei hun, a hynny gan fod pwyslais arbennig ar hynny yn y Ddeddf Ddarlledu.[143] Ynghyd â manteisio ar y cyfundrefnau darlledu a feddai ar eu pwyllgorau eu hunain, yr oedd yr Awdurdod hefyd wedi ystyried a fyddai modd defnyddio pwyllgorau a fodolai eisoes, megis Cyngor Eglwysi Cymru, er mwyn arbed sefydlu patrwm newydd.[144] Yn y pendraw, penderfynwyd ffurfio paneli annibynnol a fyddai'n tynnu ar aelodau o sefydliadau megis Cyngor Eglwysi Cymru a'r Cyd-Bwyllgor Addysg.[145] Ynghyd â'r paneli hyn a fyddai'n cynghori'r cynhyrchwyr ar gynlluniau rhaglenni perthnasol, penderfynwyd hefyd sefydlu panel ymgynghorol ar apeliadau ar ôl i'r sianel ddechrau darlledu, a hynny gan iddi ystyried defnyddio peth o'i gofod darlledu er mwyn cynnal apeliadau elusennol.[146] Llwyddodd yr Awdurdod felly i lunio patrwm ymgynghorol a oedd yn gyfuniad o sefydlu systemau annibynnol a manteisio ar gyfundrefnau sefydledig a phrofiadol. Er hynny, trwy ollwng y syniad o lunio paneli rhanbarthol, yr oedd y sianel ar ei cholled gan nad oedd ganddi'r cysylltiad uniongyrchol hwnnw â chroestoriad eang o'i chynulleidfa, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, y byddai'r cynllun hwnnw wedi ei ddarparu. Nid oedd modd creu cyswllt tebyg, er y ceisiwyd gwneud hynny, trwy ddarlledu rhaglenni ymateb fel *Arolwg* (HTV) a oedd yn gwahodd sylwadau ar raglenni, a thrwy ymateb i lythyrau gwylwyr yn unig. Yn ystod cyfnod adolygu'r sianel ar ddiwedd ei thair blwyddyn brawf, ceid beirniadaeth hallt ar systemau ymgynghorol S4C, dyfarniad na fyddai wedi ei leisio

---

143 CS4C, *Nodyn ar Gyrff Ymgynghorol S4C (Papur 2.82(7))*, t. 1.
144 CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod ar ddeg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Hydref 1981, t. 4.
145 Aelodau'r panel crefydd oedd Y Parch. Hugh Rowlands (Cadeirydd), Y Gwir Barch. George Noakes, Dr Harri Pritchard-Jones, Mrs. Rebecca Powell, Y Parch. D. R. Thomas a Dr Geraint Gruffydd. Aelodau'r panel addysg oedd Mr. John Brace (Cadeirydd), Mr. Edward Morus Jones, Yr Athro I. M. Williams, Miss Rhiannon Rees (hyd diwedd 1982) a Mr. Alun Jones (o ddechrau 1983).
146 Aelodau'r panel apeliadau oedd Dr. Alun Oldfield-Davies (Cadeirydd), Y Fonesig Goronwy Roberts a'r Parch. Herbert Hughes.

petai'r sianel wedi mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf y cynllun arloesol, cyffrous hwnnw o ffurfio pwyllgorau gwylwyr rhanbarthol.[147]

*Delwedd, Marchnata a Chynulleidfa*

Un o'r prif flaenoriaethau'r sianel, hyd yn oed wrth iddi ymdrin ag ystyriaethau technegol o leoli ei phencadlys, oedd y ddelwedd o'r sianel newydd a gyflwynid i'r ddarpar gynulleidfa. Daeth yn amlwg fod yr Awdurdod yn awyddus, er y pwyslais a roddwyd ar gyd-weithio a ffurfio partneriaethau llwyddiannus, i sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn gweithredu fel gwasanaeth annibynnol a osodai ei flaenoriaethau ac wnâi ei benderfyniadau ei hun, yn hytrach na gweithredu fel gofod gwag ar gyfer rhaglenni Cymraeg y BBC ac HTV. Yn wir, dengys y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod i sefydlu canolfan annibynnol yn hytrach na rhannu gofod stiwdio gyda'r darlledwyr eraill yn glir eu bod am sefydlu'n gadarn annibyniaeth ac arwahanrwydd y gwasanaeth newydd.[148] Yr oedd angen creu delwedd a datblygu hunaniaeth y gwasanaeth newydd felly ac esgor ar berthynas ffyniannus rhwng y sianel a'i gwylwyr er mwyn sicrhau cynulleidfa deilwng ac eiddgar i'r ddarpariaeth newydd.

Yr oedd delwedd y sianel ar frig rhestr blaenoriaethau'r sianel, ac yn y cyfarfod cyntaf rhoddwyd y cyfrifoldeb i Dr Glyn Tegai Hughes, oherwydd ei gysylltiadau â Gwasg Gregynog, o fynd ati i gynllunio deunyddiau printiedig dros dro a pharatoi manyleb ar gyfer cynllunwyr proffesiynol.[149] Ystyriwyd bod tri dewis gwahanol gan S4C ar gyfer llunio logo a delwedd y gellid ei ddefnyddio ar y sgrîn ac ar ddeunyddiau printiedig, sef gofyn i gwmni dylunio allanol ei llunio, defnyddio adrannau graffeg y BBC neu HTV neu drefnu cystadleuaeth gyhoeddus. Awgrymwyd y byddai comisiynu logo gan asiantaeth allanol yn costio oddeutu pum mil o bunnoedd, a phenderfynwyd felly i lansio cystadleuaeth ag iddi wobr o bum can punt ar gyfer y dyluniad buddugol.[150] Yr oedd y penderfyniad hwn yn symptomatig o weithgaredd y sianel yn ei chyfnod cynnar, cyn i'r Awdurdod gael cadarnhad o'r cyllid fyddai'n cael ei ddyrannu iddo er mwyn sefydlu'r gwasanaeth.

---

[147] Trafodir y materion hyn yn fanwl ym Mhennod 6, tt. 319–26.
[148] CPGTH, *Cofnodion trydydd cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4.
[149] CPGTH, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[150] CPGTH, *Cofnodion Chweched Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 26–27 Ebrill 1981, t. 2. Nid oes cofnod o safbwynt yr aelodau ynglŷn â defnyddio adrannau dylunio y BBC neu HTV.

O ganlyniad, bernid y byddai gwario pum mil o bunnoedd ar logo yn gwbl anghyfrifol, yn enwedig gan nad oedd yr Awdurdod wedi derbyn hysbysiad ffurfiol ar y pryd y byddai digon o arian i gynhyrchu dwy awr ar hugain o raglenni Cymraeg safonol. Yr oedd angen sicrhau arian digonol i gynnal prif weithgaredd y gwasanaeth newydd, felly, cyn mynd ati i wario swm sylweddol ar ddelwedd a logo. Diau y gwelwyd cyfle hefyd gyda'r gystadleuaeth i sicrhau fod y gynulleidfa yn teimlo rhywfaint o berchenogaeth ar y sianel. Bu'r gystadleuaeth yn rhan o strategaeth ehangach lle gwelwyd lansio cystadleuaeth arall yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth 1981 lle gofynnid i'r cyhoedd lunio 'Slogan i'r Sianel'.[151] Erbyn diwedd 1981, er hynny, yr oedd y pwyslais wedi symud oddi ar arbed arian a hybu perchenogaeth y cyhoedd o'r sianel, wrth i gynrychiolwyr cwmni Robinson Lambie-Nairn o Lundain gael eu penodi i greu'r logo a ddefnyddid gan y sianel.[152] Erbyn cyflogi Robinson Lambie-Nairn yr oedd y sianel wedi derbyn cadarnhad o'r arian a oedd ar gael iddi, sef £20 miliwn, ac o ganlyniad yr oedd hi'n bosibl iddi wario arian ar agweddau llai hanfodol.[153] Robinson Lambie-Nairn gomisiynwyd gan Channel 4 hefyd er mwyn ar gyfer creu ei logo hithau, logo a grewyd â thechnegau arloesol animeiddio cyfrifiadurol.[154]

Yr oedd nifer o ddewisiadau yn wynebu'r Awdurdod a chwestiynau ynglŷn â pha ddelwedd yr oedd am ei chyflwyno i'w chynulleidfa ac i'r byd. Y prif benbleth a geid oedd, ai delwedd a adlewyrchai natur y gynulleidfa Gymreig draddodiadol a ddylid ei hybu ynteu delwedd o sianel flaengar fodern. Yr oedd y brîff a gyflwynwyd i'r cwmni gan aelodau'r Awdurdod yn un eithaf cymhleth a hynny oherwydd eu bod yn ceisio peidio â disgyn i rigol ystrydebol, at hynny, yr oedd y sianel am ddenu ynghyd sawl carfan o bobl ar aelwyd y sianel fel y gwelir o'r dyfyniad isod:

---

[151] CPGTH, *Cofnodion Nawfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2. Daeth y slogan fuddugol gan ŵr o Harlech o'r enw Phil Mostert a enillodd gyda'r datganiad 'Dewch ar ddec S4C'; Arfon Gwilym, ''Equity yn hunanol' – Pennaeth S4C', *Y Cymro*, 11 Awst 1981.
[152] CS4C, *Cofnodion Pymthegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.
[153] *Hansard*, House of Commons, 22 Gorffennaf 1981, col. 137.
[154] Maggie Brown, *A Licence to be Different* (London, 2007), t. 49. Cofiodd Euryn Ogwen Williams mai S4C a benododd y cwmni yn gyntaf i ddyfeisio ei logo, ac, o ganlyniad, fe'i cafodd yn rhatach o lawer na'i chwaer-sianel Brydeinig. Cyfweliad yr awdur gyda Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 26 Ionawr 2007. Amcangyfrifir yng nghofnodion yr Awdurdod y byddai cost y gwaith gan Robinson Lambie-Nairn o greu delwedd i S4C rhwng £20,000 a £30,000; CS4C, *Cofnodion Pymthegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3. Er mwyn rhoi'r swm yn ei gyd-destun, noder yr awgrymwyd yn y papurau newydd mai cyflog o £25,000 fyddai Owen Edwards yn ei dderbyn fel Cyfarwyddwr y Sianel; Ivor Wynne Jones, 'My task ahead, by Welsh TV Chief', *Daily Post*, 10 Mawrth 1981.

> Doedd yr Awdurdod ddim o blaid symbolau cenedlaethol ystrydebol fel y Ddraig Goch, y genhinen neu fap o Gymru, ac eithrio efallai'r Ddraig neu fel gimic gweledig. Dymunai ddelwedd boblogaidd, gartrefol, dwym, heb adlewyrchu cefn gwlad hen-ffasiwn delfrydoledig. Byddai cyfran rywfaint yn fwy na'r cyffredin o gynulleidfa S4C yn hen, yn broffesiynol, neu yn wledig. Byddai golygfeydd yn bosib, er y byddai rhaid cofio bod y Cymry yn bobl hynod blwyfol. Eto, roedd rhaid cael delwedd a gyflwynai S4C i'r gynulleidfa ddi-Gymraeg hefyd.[155]

Er bod y brîff yn nodi'r angen clir am ddelwedd a fyddai'n denu'r di-Gymraeg yn ogystal â'r Cymry Cymraeg, ymddengys nad ystyriwyd llunio logo a fyddai hefyd yn atyniadol i'r ifanc. Canolbwyntiwyd, yn hytrach, ar ddenu y mwyafrif tybiedig, sef gwylwyr hŷn o'r Gymru wledig. Un rheswm, efallai, dros yr esgeulustod hwn a'r cyfle a gollwyd i ddynodi awydd y sianel i feithrin cynulleidfa a fyddai'n tyfu gyda hi yn y tymor hir, oedd mai gweithredu i ryw raddau yn nhermau tymor byr yr oedd y sianel, sef o fewn ei chyfnod prawf o dair blynedd. Er y diffyg gweledigaeth, yr oedd tasg aruthrol yn wynebu'r dylunwyr wrth iddynt geisio troedio'r ffin gul rhwng defnydd derbyniol ac annerbynniol o ddelweddau Cymreig, a dod o hyd i ddelwedd fyddai'n apelio at garfannau amrywiol iawn ymhlith cynulleidfa bosibl S4C. O blith y dyluniadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod, y logo canlynol a ddewiswyd gan y Cyfarwyddwr a'r Cadeirydd:

Llun 1: Logo S4C: Robinson Lambie-Nairn - Hawlfraint S4C.

[155] CS4C, *Cofnodion Pymthegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3. Ymddengys fod y datganiad difrïol sy'n cyfeirio at 'blwyfoldeb' y Cymry yn awgrymu y gellid pechu carfan o'r gynulleidfa pe na ddetholwyd delwedd o ardal arbennig. Ni ellid priodoli'r sylwadau hyn i unigolyn penodol, gan mai crynodeb o drafodaethau yr Awdurdod a gaed yn y cofnodion. Mae'n eironig hefyd ystyried mai delweddau o dirlun Cymru a fabwysiadwyd i'w defnyddio yn y logo terfynol rhwng rhaglenni, a hynny er gwaethaf haeriadau'r Awdurdod y gallai hynny greu trafferthion.

Dewiswyd logo a oedd yn chwarae gyda'r byrfodd S4C er mwyn ymgorffori enw'r wlad yn y ddwy iaith. Ond, er ei fod yn syniad difyr a chlyfar, ystyriai nifer y dyluniad terfynol fel cyfaddawd i geisio plesio'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, a lwyddwyd i elyniaethu amryw o'r Cymry amlwg hynny fu'n brwydro er mwyn sicrhau bodolaeth y sianel. Y broblem sylfaenol a gododd wrychyn nifer o garfannau o blith y Cymry Cymraeg, oedd bod y gair Wales yn ymddangos gyntaf. Hyd yn oed cyn iddo gael ei lawnsio yn ffurfiol ar Ddydd Gŵyl Dewi 1982, yr oedd Cymdeithas yr Iaith wedi galw ar y sianel i ailystyried: 'The Society calls upon S4C to change the logo before Monday. We fear that S4C is playing to the gallery to allay the fears of English speaking viewers.'[156] Beirniadodd Angharad Tomos y sianel yn llym yn ei cholofn olygyddol yng nghylchgrawn y Gymdeithas, *Tafod y Ddraig*, meddai: '. . . logo sydd yn cyfleu delwedd, a delwedd gyfaddawdus, ddwyieithog, hollol anfoddhaol yw *WaleS4Cymru*. Tuedd afiach iawn yw honno sy'n ceisio ennill gelynion y sianel drwy gynnig digon o Saesneg . . . Dyna beth yw sianel fwngrel yn wir.'[157]

Bu ymateb cyhoeddus y sianel i'r sylwadau hyn ar y logo yn ddigyfaddawd, gydag Owen Edwards yn datgan: 'Un cyfle gawn ni. Gobeithio y byddwn ni fel Cymry Cymraeg yn ymwrthod â'r demtasiwn sy'n dod mor hawdd i ni, i ymrannu ac ymgecru. Mae 'na bethau tragwyddol bwysicach na hwn.'[158] Ond, yn dilyn y lansiad, ymddengys i'r Awdurdod ofyn i'r dylunwyr addasu rhyw gymaint ar y logo yn dilyn rhai o'r sylwadau. Er mwyn tawelu ychydig ar y dyfroedd a gynhyrfwyd yn sgil ymddangosiad y logo, penderfynwyd y dylid creu sawl fersiwn ohono, gan ddefnyddio ffurfiau gwahanol o'r logo yn ddibynnol ar gyd-destun y defnydd er mwyn sicrhau nad oedd y sianel yn gelyniaethu yr un garfan.[159] At hynny, penderfynwyd y dylid newid y lliwiau a ddefnyddiwyd yn y logo er mwyn sicrhau y byddai'r pwyslais yn amlwg ar y byrfodd S4C (gweler llun 2). Er y parodrwydd mewnol i ystyried addasu'r logo er mwyn lleddfu ychydig ar y sefyllfa, credwyd hefyd fod mantais mewn defnyddio'r fersiwn llawn o'r logo, WaleS4Cymru, a hynny

---

[156] 'English S4C logo attacked', *Western Mail*, 27 Chwefror 1982.
[157] Angharad Tomos, 'Cadwn y Ddelfryd', *Tafod y Ddraig*, Ebrill 1982. Mae'r erthygl hon hefyd yn amlygu pryder arall a fynegwyd cyn i'r sianel fynd ar yr awyr, sef y byddai mwyafrif oriau darlledu'r sianel yn cael eu llenwi â rhaglenni Saesneg.
[158] 'Ail-ystyried 'logo' S4C', *Y Cymro*, 16 Mawrth 1982.
[159] CS4C, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Mawrth 1982, t.1.

nid yn unig er mwyn 'sefydlogi' enw S4C ymhlith y gynulleidfa Gymreig, ond hefyd er mwyn sicrhau fod yr enw'n dod yn adnabyddus i unigolion y tu hwnt i Gymru.[160] Dengys cipolwg ar erthyglau a gyhoeddwyd yn y papurau Prydeinig am S4C yn ystod cyfnod ei sefydlu, pam fod swyddogion S4C yn awyddus i'r enw ddechrau sefydlogi y tu hwnt i Gymru gan yr oedd y wasg byth a hefyd yn galw'r sianel yn SC4. At hynny, byddai barn y Swyddfa Gartref am lwyddiant S4C yn allweddol i oroesiad y sianel ar ddiwedd ei chyfnod prawf, ac yr oedd yn hanfodol felly sicrhau delwedd bositif a chywir yn y papurau Prydeinig ynghyd â'r papurau Cymreig.




Llun 2: Logo S4C: Robinson Lambie-Nairn – Hawlfraint S4C

Un o'r tactegau eraill a ddefnyddiwyd gan y sianel a'r Awdurdod er mwyn sicrhau fod enw'r sianel a'i neges yn adnabyddus i drigolion Cymru cyn iddi ddechrau darlledu, oedd trefnu presenoldeb cyhoeddus mewn digwyddiadau cenedlaethol a lleol. Un o'r digwyddiadau cyntaf a fynychwyd oedd yr Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd yn Harlech ym mis Ebrill 1981 lle y cafwyd datganiad gan Owen Edwards, ddyddiau yn unig wedi iddo ddechrau ar ei swydd. Dros y deunaw mis dilynol bu'r Cyfarwyddwr yn ymweld â, ac yn gwneud datganiadau gerbron, grwpiau mor amrywiol â Chymdeithas Cyhoeddusrwydd De Cymru, Sefydliad y Bancwyr, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched ac Arolygwyr, Prifathrawon a Phenaethiaid Adrannau Ysgolion Uwchradd Cymraeg. Ond nid datganiadau unigol yn unig a drefnwyd gan y sianel, aethpwyd ati hefyd i sicrhau presenoldeb cryf i'r sianel yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth 1981. Yno cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Theatr Fach y Maes ar ddydd Gwener, 7 Awst lle cyflwynwyd anerchiad gan Owen Edwards a chafwyd cyfle i'r cyhoedd holi cwestiynau. Yn ogystal, mewn partneriaeth â'r ADA, gosodwyd arddangosfa am y sianel ar y maes. O ystyried arwyddocâd yr eisteddfodau cenedlaethol i'r ymgyrch i ennill sianel Gymraeg, yr oedd presenoldeb yr Awdurdod ar faes y Brifwyl yn hanfodol er mwyn gwreiddio'r sianel yn niwylliant a thraddodiadau'r Gymru Gymraeg ac ym mywydau

[160] CS4C, *Cofnodion Unfed Cyfarfod ar Hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 2 Ebrill 1982, t. 1.

ei phobl. At hynny, yr oedd yn gyfle heb ei ail i sicrhau cyhoeddusrwydd angenrheidiol i'r sianel ac i amlygu'r gwahaniaeth y gallai blwyddyn ei wneud i ddatblygiad darlledu Cymraeg. Pwysleisiwyd y gwahaniaeth a welid mewn blwyddyn yn anerchiad Owen Edwards wrth iddo gyfeirio at y 'cwmwl o anobaith' a fu yn ystod Eisteddfod Dyffryn Lliw ond a oedd bellach wedi codi oherwydd datblygiadau 'anhygoel' S4C.[161] Er bwriad S4C i ddangos y cynnydd a oedd wedi bod rhwng Eisteddfod Dyffryn Lliw ac Eisteddfod Machynlleth, nid pawb oedd yn hapus gyda'r datblygiadau, wrth i Gymdeithas yr Iaith alw am ddeialog gyhoeddus barhaol rhwng y sianel a'r cyhoedd. Pryderai aelodau Cymdeithas yr Iaith hefyd nad oedd mwy o benderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â phobl Cymru. Gwrthododd Syr Goronwy Daniel yr egwyddor honno gan nodi'n blaen: '. . . all yr un busnes gael ei redeg fel 'na.'[162] Er y gwrthodwyd yr egwyddor o ymgynghori, cytunodd yr Awdurdod i ryddhau bwletinau ar ffurf newyddlen, nid yn rheolaidd fel y dymunai'r Gymdeithas, ond pan yr oedd gwybodaeth o bwys i'w ddatgan.[163] Er bod yr Awdurdod yn awyddus i sicrhau fod y gynulleidfa yn teimlo perchenogaeth o'r sianel, sylweddolai na ellid blaenoriaethu hynny gan ymgynghori â'r cyhoedd ar bob pwynt o egwyddor pe dymunid cyrraedd y nod o ddechrau darlledu yn Nhachwedd 1982.

Lansiad y sianel ar Ddydd Gŵyl Dewi 1982 oedd y digwyddiad mawr nesaf a drefnwyd gan y sianel. Ceid amryfal amcanion ar gyfer y digwyddiad, ond prif nod y lansiad oedd cywiro'r '. . . anwybodaeth affwysol ynglŷn â S4C.'[164] Credai'r Awdurdod y ceid difaterwch tuag at y sianel a dryswch ynglŷn â'i darpariaeth ymhlith aelodau o'r gynulleidfa, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd, gyda rhai o'r ddwy garfan yn argyhoeddedig mai sianel gyfan gwbl Gymraeg fyddai S4C. Y gobaith wrth drefnu'r lansiad oedd ennyn diddordeb a brwdfrydedd y Cymry Cymraeg ac ar yr un pryd berswadio'r Cymry di-Gymraeg y byddai S4C yn darlledu rhaglenni a fyddai o ddiddordeb iddynt hwy hefyd.[165] Yr oedd disgwyl hefyd i'r lansiad, trwy linc byw â swyddfeydd yr ADA yn Brompton Road, ddarparu

[161] Arfon Gwilym, ''Equity yn hunanol' – Pennaeth S4C', *Y Cymro*, 11 Awst 1981.
[162] Ibid.
[163] Cyflawnwyd hyn trwy gyhoeddi newyddlen dwyieithog bob deufis o Dachwedd 1981 ymlaen. CS4C, *Cofnodion pymthegfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[164] CS4C *Cyhoeddusrwydd (1.82(7)) – Papur Atodol i Agenda Ail Gyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ionawr 1982, t. 3.
[165] Ibid.

gwybodaeth i'r diwydiant cyfryngol a'r wasg Brydeinig gan eu perswadio nad oedd S4C yn sianel ar gyfer '. . . fanatical fringe of hymn singing anglophobes'.[166] Tasg gymhleth, felly, oedd sicrhau na fyddai'r amryfal negeseuon hyn yn cythruddo nac yn drysu'r gynulleidfa darged ymhellach. Os ceisir cyfrif llwyddiant y lansiad gan nifer y colofnau a neilltuwyd i drafod y digwyddiad yn y wasg, yna bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Ymddangosodd erthyglau niferus mewn cylchgronau, papurau lleol a chenedlaethol Cymreig[167] ac yn y papurau Prydeinig,[168] gyda rhai o gylchgronau'r diwydiant fel *Broadcast* yn neilltuo chwe tudalen a'r clawr ar gyfer y lansiad.[169] Bu y rhan helaeth o'r drafodaeth yn gadarnhaol, gydag ambell i eithriad yn mynnu canolbwyntio ar anallu'r sianel newydd i gytuno â HTV ar delerau masnachol, neu ar ddatganiadau negyddol Leo Abse yn y Senedd am y modd y gallai S4C ddatblygu'n 'gravy train' i gynhyrchwyr annibynnol.[170] Swynwyd nifer o'r newyddiadurwyr gan *SuperTed*, a thrafodwyd yr arth arbennig ar draul y negeseuon ehangach am y gwasanaeth.[171] Ond y brif neges a lwyddwyd i'w throsglwyddo i'r amryfal newyddiadurwyr, a thrwyddynt hwy i'r cyhoedd, oedd y byddai'r sianel newydd yn cynnig rhywbeth i bawb, ac, o ganlyniad, y byddai'r sianel yr un mor berthnasol i'r Cymry di-Gymraeg ag y byddai i'r Cymry Cymraeg a fynnodd ei sefydlu. O edrych ar amrediad yr erthyglau a gyhoeddwyd, gellid dadlau i'r neges hon ymddangos yn amlach na'r ffaith fod dyfodiad y sianel yn gam enfawr ymlaen ar gyfer darlledu Cymraeg ac y byddai nifer y rhaglenni a ddarlledid yn yr iaith bron yn dyblu.[172] Anodd yw gwybod pa mor llwyddiannus fu'r lansiad i achos S4C, ond o

---

[166] 'Double launch for S4C – levy system adjusted', *Television Today*, 29 February 1982; Patricia Williams, 'How green is the Sianel?', *Broadcast*, 1 March 1982, 16.

[167] Rhydwen Williams, 'Gorau Barn...Gorau Chwedl', *Barn*, Mawrth 1982, 57–60; Dienw, 'St. David's day launch for Fourth Channel authority', *South Wales Argus*, 1 March 1982, Clive Betts, 'Superted and Wil can seal secure future for S4C', *Western Mail*, 2 March 1982; Dienw, 'Welsh Fourth channel is officially launched', *Daily Post*, 2 March 1982; Gerald Williams, 'Milestone for new TV channel', *Daily Post*, 2 March 1982; Gerald Williams, 'Channel launch is "language lifeboat"', *Daily Post*, 2 March 1982; Dienw, 'Bwrlwm y Sianel Newydd', *Y Cymro*, 3 Mawrth 1982.

[168] Tim Jones, 'Testing time for Welsh TV channel', *The Times*, 2 March 1982; Sean Day-Lewis, 'David's Day Launch for Welsh TV', *Daily Telegraph*, 2 March 1982; 'Superted, a hero for Wales', *Daily Express*, 2 March 1982; Paul Hoyland, 'Welsh channel 4 on, but no Harlech deal', *The Guardian*, 2 March 1982; Robin Reeves, 'Channel S4C puts Welsh talents in the picture', *Financial Times*, 2 March 1982.

[169] Patricia Williams, 'How green is the Sianel?', 16–19; Wynford Vaughan Thomas, 'Trwy'r Awyr', *Broadcast*, 1 March 1982, 20–1.

[170] Paul Hoyland, 'Welsh channel 4 on, but no Harlech deal', *The Guardian*, 2 March 1982.

[171] 'Welsh Fourth channel is officially launched', *Daily Post*, 2 March 1982; 'Superted, a hero for Wales', *Daily Express*, 2 March 1982.

[172] Ond, o edrych ar natur y papurau newydd lle cyhoeddwyd yr erthyglau hyn, fe ellid deall pam mai'r neges hon a ddyrchafwyd, a hynny gan mai rhaglenni Saesneg oedd fwyaf perthnasol i gynulleidfa debygol y cyhoeddiadau dan sylw.

gymharu'r amcanion a nodwyd wrth gynllunio'r digwyddiad â'r hyn a ymddangosodd yn y wasg, gellid dadlau i'r lansiad lwyddo i sicrhau y byddai'r mwyafrif di-Gymraeg o leiaf yn ymwybodol y byddai'r sianel yn cynnig rhywbeth ar eu cyfer.

Er i'r neges am y cynnydd mewn rhaglenni Cymraeg fynd ar goll rywfaint yn y wasg, yr oedd cynllun arall gan y sianel er mwyn ceisio datrys y broblem o anwybodaeth am y gwasanaeth newydd ymhlith y gynulleidfa Gymraeg. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru ar y cyd gyda nifer o bapurau bro er mwyn hwyluso trafodaeth rhwng y gynulleidfa a'r sianel a hefyd er mwyn ateb rhai o'r galwadau a wnaed gan Gymdeithas yr Iaith i sicrhau fod gan y gynulleidfa rôl i'w chwarae yn natblygiad y sianel. Cymysg fu'r ymateb i'r cyfarfodydd hyn gyda'r niferoedd a fu'n mynychu'r cyfarfodydd yn amrywio o 27 yng Nghrymych i 70 ym Mrynaman, ac fe ddisgrifir ambell i gyfarfod yng nghofnodion yr Awdurdod fel '. . . achlysur dymunol heb fod yn arbennig o fuddiol'.[173] Gellid dadlau bod y diffyg presenoldeb a'r diffyg trafod buddiol yn symptom o ddiffyg cyhoeddusrwydd, ond diau y darlunia hefyd elfen o ddifaterwch a allai fod yn beryglus i'r sianel. Yr oedd yn destun pryder bod cannoedd, os nad miloedd, o bobl a fu'n barod i wrthdystio dros sefydlu'r gwasanaeth wedi hen golli diddordeb yn natblygiadau'r sianel yn fuan wedi i'r frwydr i'w hennill ddod i ben. Er mwyn osgoi sefyllfa lle gwelid y dihidrwydd hwnnw'n parhau ar ôl lansiad y sianel yr oedd yn rhaid i staff marchnata S4C ymdrechu'n galed i sicrhau fod presenoldeb y sianel yng ngwyliau cenedlaethol 1982, megis Eisteddfod yr Urdd Pwllheli, Sioe Frenhinol Llanelwedd ac Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, yn llwyddo i wyrdroi'r dihidrwydd hwnnw a welwyd yn achos y cyfarfodydd cyhoeddus.[174]

[173] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 6.82 (4)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Mai 1982, t. 1.

[174] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 6.82 (4))*, t. 1. Gwelwyd fod strategaeth y sianel ym 1982 wedi symud ymlaen gryn dipyn o'r gwyliau cyhoeddus a fynychwyd ganddynt yn y flwyddyn flaenorol, pan y bu raid rhannu gofod gyda'r ADA. Erbyn 1982 yr oedd stamp annibynnol a phroffesiynol ar weithgareddau'r sianel, ac un o'i harfau mwyaf llwyddiannus oedd gwerthu nwyddau fyddai'n hyrwyddo'r sianel a'i chynnwys, gyda phwyslais arbennig ar werthu nwyddau *SuperTed* a oedd wedi llwyddo i gipio dychymyg y wasg a'r gynulleidfa cyn i'r sianel fynd ar yr awyr. Ynghyd â nwyddau yn hyrwyddo'r cartwnau, gwerthwyd nwyddau megis crysau-t a chrysau chwys gyda byrfodd y sianel arnynt. Bu gwerthiant da y crysau yn adlewyrchiad o'r ffaith bod trigolion Cymru wedi derbyn enw a logo'r sianel a'u bod yn hapus i ddatgan hynny trwy eu gwisgo.

Nodwyd eisoes y bu anwybodaeth ymhlith cynulleidfa bosib S4C cyn iddi fynd ar yr awyr, ac yn wir fe ellid gweld hynny ymhlith rhai o'r erthyglau a gyhoeddwyd yn y wasg Gymraeg gan nifer o unigolion a fu'n ymdrechu i'w sefydlu. Yn wir, fe ddisgrifiodd y Parchedig John Gwilym Jones y sianel mewn cyfweliad ar y radio fel '. . . [b]aban dan anfantais' cyn iddi gael ei geni hyd yn oed, a hynny oherwydd y beirniadu a fu arni yn y misoedd cyn ei lansiad.[175] Y grŵp a fu fwyaf beirniadol o ddatblygiadau'r sianel newydd oedd Cymdeithas yr Iaith. O ystyried mai dyma'r garfan o bobl a feddai ar y disgwyliadau uchaf o'r sianel yn sgil y gweithredu diwyd a ysgogwyd gan y Gymdeithas ar ei rhan, nid yw'n syndod mai hwy a oedd fwyaf llafar am unrhyw wendidau yn ei datblygiad neu fethiant i gyd-fynd â'u delfryd o sianel Gymraeg. Fel y trafodwyd eisoes, yn dilyn lansiad y sianel ar Ddydd Gŵyl Dewi 1982, mynegodd Cymdeithas yr Iaith ei hanfodlonrwydd â Seisnigrwydd y logo, ond, mewn gwirionedd, megis un cwyn ymhlith nifer o du'r Gymdeithas oedd hon, wrth iddi amlygu ei hanfodlonrwydd â diffygion cyfathrebu cyhoeddus y sianel.[176] Pryder pennaf Cymdeithas yr Iaith oedd y byddai saga'r logo'n cael ei hailadrodd pan fyddai'n dod yn gyfnod darlledu rhaglenni: 'Y perygl yw na chawn roi barn ar ddatblygiadau'r Sianel nes bod y rhaglenni ar yr awyr, ac yna bydd yn rhy hwyr.'[177] Awgryma hyn yr amheuai Cymdeithas yr Iaith y byddai swyddogion y sianel yn gallu cyflwyno gwasanaeth cyflawn Cymraeg at ei dant heb ymgynghori'n helaeth ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa Gymreig. Gellid honni hefyd mai asgwrn y gynnen oedd bod arweinwyr y Gymdeithas yn teimlo, a hwythau wedi cymryd rôl mor ganolog yn y frwydr i sicrhau'r sianel, eu bod bellach yn cael eu diystyru wrth i sylfaeni'r gwasanaeth gael eu gosod, fel yr awgryma'r dyfyniad hwn:

> . . . ni a'i sicrhaodd, ni a dalodd y pris, ac y mae gennym hawl i wybod beth sydd yn digwydd iddi ac i leisio barn. Nid yw'r ymgyrch ddarlledu ar ben. Ein nôd yw sefydlu gwasanaeth cyflawn safonol yn y Gymraeg ac ni fyddwn yn rhoi'r gorau i ymgyrchu nes sicrhau hynny.[178]

---

175 Angharad Tomos, 'Cadwn y Ddelfryd', *Tafod y Ddraig*, Ebrill 1982.
176 Ibid.
177 Ibid.
178 Ibid. Y 'ni' y cyfeirir ato yn yr erthygl yw Cymdeithas yr Iaith ac, yn fwy penodol, at y rhai a frwydrodd dros sianel Gymraeg.

Rhaid ystyried, yng ngoleuni'r sylwadau uchod, pam yr oedd disgwyl i'r berthynas rhwng S4C a'i chynulleidfa fod yn wahanol i'r berthynas a fodolai rhwng y darlledwyr eraill a'u cynulleidfaoedd hwy. Gellid honni bod carfannau o'r gynulleidfa Gymraeg, gan eu bod wedi brwydro i sicrhau sianel Gymraeg, yn teimlo bod mwy o hawl ganddynt i gael gwybod am ddatblygiad y sianel, a hefyd i ddylanwadu ar y ffordd yr oedd y sianel yn esblygu. Gellid honni mai dyna oedd wrth wraidd yr anghydweld a'r beirniadu a fu ar y sianel gan Gymdeithas yr Iaith, bod cymaint o deimlad o berchenogaeth yno, fel nad oeddent yn gallu derbyn bod rhaid i'r sianel fwrw ymlaen â'r dasg o wneud penderfyniadau heb orfod ymgynghori'n helaeth â phob carfan a fyddai â diddordeb yn ei datblygiad. Nid oedd amharodrwydd S4C i ymgynghori'n helaeth yn eithriad yn y byd darlledu. Nid oedd ymgynghori a chyd-drafod i'r graddau a ddisgwylid gan Gymdeithas yr Iaith yn batrwm arferol ymysg darlledwyr. Ni cheir, ychwaith, dystiolaeth yng nghofnod manwl Bonner ac Aston o gyfarfodydd Bwrdd Channel 4 rhwng 1980–2 o unrhyw ymgynghori na chyfarfodydd cyhoeddus gyda'r gynulleidfa arfaethedig ynglŷn â'r penderfyniadau a wnaed ganddynt a fyddai'n diffinio'r sianel.[179] O ystyried fod Channel 4 wedi ei llunio er mwyn diwallu anghenion a chynnig llais i gynulleidfaoedd lleiafrifol, gellid disgwyl y byddai'r sianel hon yn agosach at ei chynulleidfa nag unrhyw gyfundrefn ddarlledu arall. Ond, mewn gwirionedd, yr oedd patrymau oesol y cyfundrefnau darlledu a'u natur gyfrinachgar yn anodd eu chwalu, hyd yn oed i sianeli newydd a oedd yn torri tir newydd o ran eu strwythur.[180] Er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth decach i garfannau o'r gynulleidfa, dibynodd Channel 4 yn hytrach ar ehangu'r nifer o sefydliadau, cwmnïau ac unigolion a oedd yn darparu rhaglenni ar gyfer y sianel. Ynghyd â natur ddirgelaidd darlledwyr, yr oedd ymchwil cynulleidfa, fel y'i adnabyddir heddiw, yn brin yn ystod y cyfnod hwn gan olygu nad oedd gan y darlledwyr ddealltwriaeth fanwl o'u cynulleidfaoedd na'u patrymau gwylio. Ni sefydlwyd y Broadcasters' Audience Measurement Board (BARB) tan 1981 ac yn achlysurol yn unig y gwelwyd ymdrechion i ddarganfod a deall patrymau gwylio a barn y gynulleidfa, yn enwedig yn y Gymraeg.[181] Yr oedd

[179] Bonner with Aston, *Independent Television in Britain, Vol. 6*, tt. 36–108.
[180] Cynhyrchwyd llyfryn gan adran farchnata Channel 4 a oedd yn esbonio ethos y sianel, ei gwreiddiau, ei phobl a'i systemau, llyfryn a ddosbarthwyd i Aelodau Seneddol a darlledwyr rhyngwladol. Clodforwyd y cyhoeddiad hwn fel tystiolaeth o agwedd agored y sianel newydd hon o'i gymharu â natur ddirgelaidd darlledwyr eraill. Ibid., t. 92.
[181] Ceir trafodaeth bellach ar ffigurau gwylio ac ymchwil cynulleidfa ym Mhennod 4, tt. 219–28 ac ym Mhennod 6, tt. 295–317.

disgwyliadau Cymdeithas yr Iaith o S4C yn gofyn am newid y drefn felly, ac anodd oedd addasu patrymau oes yn yr hinsawdd newydd oedd ohoni. Er yr anghydweld a gafwyd rhwng Cymdeithas yr Iaith a S4C, yr oedd disgwyliadau aelodau lleyg y gynulleidfa yn parhau'n uchel ar gyfer yr hyn y byddai'r sianel newydd yn ei gyflawni. Yr oedd eu disgwyliadau'n amrywio o '. . . [d]darparu cyflawnder amrywiol o raglenni Cymraeg o'r radd flaenaf . . .' i sianel a fyddai'n apelio at y Cymry Cymraeg '. . . nad oes ganddynt affliw o ddim i'w ddweud wrth gapel na eglwys nac eisteddfod, pobl y mae llyfr a chylchgrawn a phapur newydd Cymraeg yn anathema iddynt.'Rhaid hefyd oedd i'r rhaglenni fod yn rhai a allai 'gystadlu gyda rhaglenni fel *Crossroads*' a disgwylid '. . . cartwnau o *Mighty Mouse* a *Popeye* yn Gymraeg . . .'.[182]

Yr oedd disgwyl i'r sianel felly ddarparu rhywbeth at ddant pawb a hynny i safon o'r radd flaenaf. Ond ofer fyddai cynhyrchu rhaglenni safonol ac amrywiol os na fyddai gan y sianel ffordd o hysbysu'r gynulleidfa o'u bodolaeth trwy gyfrwng cyhoeddi gwybodaeth yng nghylchgronau rhaglenni'r sefydliadau darlledu, sef *Radio Times* a *TV Times*. Bu trafodaeth gychwynol ar y materion hyn rhwng Pwyllgor Cymreig yr ADA a Chyngor Darlledu'r BBC wrth iddynt ddechrau paratoi ar gyfer llunio gwasanaeth cyflawn Cymraeg ar draws dwy sianel. Ceisiwyd sefydlu egwyddor o groes-hysbysebu rhaglenni Cymraeg yng nghylchgronau ei gilydd er mwyn creu ymdeimlad o un gwasanaeth ar draws dwy sianel. Crybwyllwyd y syniad am y tro cyntaf, yn ystod y cyfnod hwn, yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cymreig yr ADA lle disgrifwyd yr egwyddor gan un o'r aelodau fel '. . . [a] simple gesture which would generate goodwill.'[183] Cytunodd Independent Television Publications (ITP), cyhoeddwyr *TV Times*, i gynnwys manylion am raglenni Cymraeg y BBC ynghyd â manylion am raglenni Cymraeg ITV ar dudalen Gymraeg ar wahân yn rhifyn Cymru a gorllewin Lloegr o'r cylchgrawn.[184] Trafodwyd hefyd gyda Chyngor Darlledu'r BBC, ond ni welwyd yr un brwdfrydedd a pharodrwydd i gydweithio yno. Daeth ymateb chwyrn ac annisgwyl, efallai, gan Owen Edwards, yn ei rôl fel Rheolwr BBC

[182] Dienw, 'Y Bedwaredd Sianel … Sut Sianel?', *Barn*, Ionawr 1981, 20–25.
[183] CPJM, *Minutes of the One Hundred and Thirty Fifth Meeting of the Welsh Committee – ADA*, 4 Ionawr 1980, t. 3.
[184] CPJM, *Mintues of the One Hundred and Thirty Eighth Meeting of the Welsh Committee – ADA*, 1 Mai 1980, t. 2.

Cymru, wrth iddo nodi y credai y dylid gwrthod y syniad yn llwyr. Meddai'r cofnodion:

> CW [Controller Wales] was in no doubt that the BBC should reject the suggestion outright. The Council and the BBC had for years promoted the proposals for co-operation between the BBC and ITV in a joint service in Welsh and this had been completely undermined by ITV. He saw the suggestion as an attempt to salve their conscience.[185]

Mae'r ymateb hwn yn peri peth syndod, yn enwedig o ystyried cefnogaeth y BBC i'r egwyddor o wasanaeth cyfun ar y bedwaredd sianel, a hefyd, fel yr amlyga'r cofnod, ymdrechion blaenorol y Gorfforaeth i sicrhau cydweithrediad rhwng y ddau ddarlledwr.

Yn ystod y trafodaethau cynnar S4C ar y mater hwn, gwelwyd unwaith yn rhagor arlliw o'r agweddau pleidiol hyn, wrth iddynt drafod y posibilrwydd o ddefnyddio'r *Radio Times* a'r *TV Times* er mwyn cyhoeddi amserlen a manylion rhaglenni S4C. Teimlid y gallai *Radio Times* gyhoeddi manylion rhaglenni ITV yn y cylchgrawn, ond nid oedd hi'r un mor dderbyniol cyhoeddi deunydd golygyddol a fyddai'n hyrwyddo cynnwys y rhaglenni hynny.[186] Yn y pendraw, cytunwyd y byddai'r *Radio Times* yn cyhoeddi dwy dudalen o wybodaeth rhaglenni am holl gynnyrch Cymraeg S4C, ond byddai'r deunydd golygyddol swmpus yn canolbwyntio'n unig ar gynnwys a rhinweddau'r rhaglenni a gynhyrchid gan y BBC.

Gwyrodd trafodaethau'r sianel fwyfwy tuag fod yn rhan o gylchgrawn y rhwydwaith deledu annibynnol felly, a hynny yn fwy na heb oherwydd y mai yn y cylchgrawn hwnnw, *TV Times*, y byddai manylion rhaglenni Channel 4 yn debygol o gael eu cyhoeddi. Er hynny yr oedd trafferth sylfaenol gyda'r syniad o ddefnyddio'r *TV Times* ar gyfer cyhoeddi manylion rhaglenni Cymraeg, gan nad oedd rhifyn Cymru yn unig o'r cylchgrawn. Yr hyn a benderfynwyd ar gyfer gweddill rhanbarthau Prydain oedd y byddai Channel 4 a'r cwmni rhanbarthol ar gyfer ardal arbennig yn

---

[185] BBC WAC, R78/26/3, *Minutes of the 309th meeting of the Broadcasting Council of Wales*, 23 Mai 1980, t. 3. At hynny, mynegodd Geraint Stanley Jones, Pennaeth Rhaglenni'r BBC yn y cyfnod, nad oedd gofod digonol yn y *Radio Times* i gynnwys manylion rhaglenni Cymraeg ITV, hyd yn oed petai'r syniad yn un deniadol i'r BBC.
[186] CPGTH, *Cofnodion trydydd cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 7.

llenwi hanner yr un o'r *TV Times* ar gyfer y rhanbarth hwnnw, ac felly yng Nghymru a gorllewin Lloegr byddai Channel 4 ac HTV yn llenwi'r cylchgrawn gyda manylion eu rhaglenni hwy. Nid oedd hynny'n gadael gofod digonol ar gyfer manylion rhaglenni S4C, gyda'r *TV Times* yn mynnu mai dim ond un dudalen yr wythnos a ellid ei glustnodi ar gyfer rhaglenni'r sianel. Ymatebodd y *TV Times* yn y modd hwnnw – yn rhannol oherwydd y diffyg gofod a chan y byddai'r cylchgrawn yn colli £60,000 – £70,000 y flwyddyn mewn arian hysbysebu am bob tudalen a glustnodid i S4C.[187] Ond nid oedd hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion y sianel os oedd am gyhoeddi manylion am raglenni BBC, HTV, y cynhyrchwyr annibynnol, a'r ddarpariaeth Saesneg a ddeuai o Channel 4, heb sôn am ddeunydd golygyddol a fyddai'n hyrwyddo'r cynnwys. Teimlai S4C bod angen i fanylion rhaglenni Cymraeg gael eu cyhoeddi mewn blwch yn gyfochrog â deunydd rhaglenni Channel 4 o leiaf, ond oherwydd trafferthion teipograffyddol ymddangosai hyn yn amhosibl.[188] Ac o fod yn bragmataidd, nid oedd rhannu rhifyn Cymru a gorllewin Lloegr yn ateb addas ychwaith, gan y byddai rhai o gwsmeriaid *TV Times*, yn enwedig yn y de ddwyrain, yn parhau i fod angen manylion Channel 4 yn hytrach na S4C gan fod erial eu teledu wedi eu cyfeirio tua'r dwyrain.[189] Bu'n rhaid chwilio, felly, am ateb arall a fyddai'n galluogi i'r sianel gael gofod addas ar gyfer hyrwyddo ei rhaglenni i'r gynulleidfa ehangach.

Yr oedd swyddogion y sianel yn amheus am yr egwyddor o gynhyrchu cylchgrawn arbennig ar gyfer S4C, gan wrthod y syniad gan ei fod yn anymarferol a hefyd, nodwyd y dylid cefnogi cylchgronau Cymraeg a fodolai eisoes, yn hytrach na dyblygu darpariaeth trwy greu cylchgrawn o'r newydd.[190] Bu trafodaethau rhwng y sianel a'r cylchgrawn *Curiad*, a gysylltodd â'r sianel er mwyn gweld os byddai diddordeb ganddi drefnu wyth tudalen o erthyglau yn fisol am raglenni a phersonoliaethau'r sianel, am dâl hysbysebion, gan droi *Curiad* yn 'gylchgrawn

---

[187] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr – Papur atodol i Agenda nawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 20–21 Mehefin 1981, t. 1; CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ionawr 1982, t. 1. Trafodwyd hefyd y gellid cyhoeddi atodiad annibynnol i S4C am £300,000 y flwyddyn. Ond ni welwyd trafod y mater yn fanwl, hyd y gwyntyllwyd pob dewis arall.
[188] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr – Papur atodol i Agenda nawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[189] CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7))*, t. 1.
[190] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar ddeg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Awst 1981, t. 2.

answyddogol S4C'.[191] Credid y byddai cynllun o'r fath yn galw am fuddsoddiad o £60,000 y flwyddyn, ac ystyrid y byddai'n anodd cyfiawnhau gwariant mor uchel ar gylchgrawn mor fychan ei gylchrediad a chyfyng ei apêl at y rhan helaeth o'r gynulleidfa Gymraeg.[192] Cododd problemau tebyg wrth ystyried defnyddio cylchgronau Cymreig eraill hefyd, wrth i'r Awdurdod nodi mai prin oedd unrhyw gylchgrawn a feddai ar gylchrediad a oedd yn fwy na dwy fil o ddarllenwyr.[193] Petai S4C yn penderfynu cefnogi nifer o gylchgronau, byddai rheidrwydd ar y sianel i wario swm cyfatebol i'r hyn a holwyd amdano gan *Curiad* yn achos nifer o gylchgronau bychan er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd croesdoriad eang o'r gynulleidfa. Ni ellid cyfiawnhau gwariant o'r fath, yn enwedig gan fod y sianel yn ceisio cadw ei chostau cyfundrefnol mor isel â phosibl. Bu trafodaethau rhwng S4C a *Barn* hefyd wedi i'r cyhoeddiad gysylltu â'r BBC, HTV a S4C er mwyn gofyn iddynt gyfrannu at gost o gynnwys adran sylweddol ac awdurdodol a fyddai'n trin a thrafod rhaglenni teledu a radio.[194] Er i'r Awdurdod gydnabod bod dirfawr angen ymdriniaeth o'r fath ar gynnyrch teledu a radio Cymru, teimlwyd nad oedd hi'n briodol i'r sianel dalu am adran debyg, gan y gellid ensynio i'r sianel brynu adolygiadau da a ffafriol o'i rhaglenni.[195] Cytunwyd hefyd y dylid aros i weld a ddatblygai erthyglau o'r natur hyn yn naturiol oherwydd bodolaeth S4C, heb yr angen am fuddsoddiad gan y cyfundrefnau darlledu. Ymddengys y cafwyd twf yn y math hwn o gyhoeddi gydag adrannau megis 'Sbec ar Bedwar C', a ymddangosai yn *Y Faner*, erthyglau cyson gan amryfal sylwebwyr yn trafod cynnwys y sianel yn *Y Cymro* a datblygodd adran deledu swmpus yn *Barn* hefyd.

Buan y sylweddolwyd fod ceisio manteisio ar rwydwaith papurau bro Cymru i hysbysu'r gwylwyr hefyd yn dwyn amryw o broblemau a hynny gan fod eu hamserlenni cyhoeddi yn rhy anghyson ac afreolaidd i ddibynnu arnynt, ac yr oedd rhai ardaloedd o Gymru heb bapur bro o gwbl.[196] Ystyriwyd hefyd ddefnyddio *Y Cymro*, gan fod i'r papur gylchrediad eang o saith mil o ddarllenwyr, ond gan fod

[191] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awudrod – Papur atodol i agenda unfed cyfarfod ar bymtheg Sianel Pedwar Cymru*, 4 Rhagfyr 1981, t. 2.
[192] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar bymtheg Sianel Pedwar Cymru*, 4 Rhagfyr 1981, t. 1.
[193] CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7))*, t. 2.
[194] CS4C, *Cofnodion nawfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 Hydref 1982, t. 2.
[195] Ibid. Yn hytrach na throi cefn ar yr egwyddor, penderfynodd y sianel ymgynghori ar y mater gyda Cyngor y Celfyddydau er mwyn gweld a ellid ariannu'r fenter o ffynhonell arall.
[196] CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7))*, t. 2.

rhan helaeth o'r darllenwyr hynny yng ngogledd Cymru oherwydd gogwydd golygyddol gogleddol y papur, teimlwyd efallai nad oedd yn gwbl addas. Ystyriwyd hefyd gynnwys tudalen ym mhapurau dyddiol Saesneg Cymru, y *Western Mail* a'r *Daily Post*, ond awgrymwyd gan swyddogion y sianel nad oedd y papurau hyn y mannau mwyaf priodol ar gyfer deunydd Cymraeg.[197] Yn groes i'r dymuniad gwreiddiol felly, er mwyn sicrhau gofod teilwng a'r cyfle gorau posibl i hysbysu rhaglenni Cymraeg, byddai'n rhaid i S4C lunio ei atodiad neu ei chylchgrawn ei hun.

Wrth ystyried o ddifrif lunio cylchgrawn, dychwelwyd i drafod gyda Independent Television Publications a gobeithiwyd y gellid derbyn pris gwell na'r £300,000 gwreiddiol a grybwyllwyd, a hynny oherwydd bod yr Awdurdod yn credu bod ITP yn derbyn bod cyfrifoldeb arnynt i sicrhau bod darllenwyr yng Nghymru yn cael y wybodaeth gywir am y rhaglenni. At hynny, teimlid bod mantais fasnachol i'r ITP o fabwysiadu atodiad ar wahân gan y byddai'r cwmni yn adennill y gofod hwnnw a fyddai'n denu £70,000 o arian hysbysebu bob blwyddyn.[198] Er hynny, rhagwelwyd mai atodiad pedair tudalen yn unig y gellid ei ariannu a'i gynhyrchu'n wythnosol oherwydd y baich gwaith ar y staff fechan. Ysywaeth, pan ddaeth y ffigurau terfynol gan ITP, rhagwelwyd y byddai cost golygu, argraffu a dosbarthu atodiad 4 tudalen yn £382,240 a'r gost gyfatebol ar gyfer atodiad 8 tudalen yn £565,210.[199] Penderfynwyd ystyried y dewisiadau eraill a oedd ar gael i'r Awdurdod, megis golygu'r atodiad eu hunain, gan ddefnyddio'r *TV Times* i argraffu a dosbarthu'r atodiad. Ystyriwyd hefyd ddichonoldeb golygu, argraffu a dosbarthu cylchgrawn yn gwbl annibynnol o'r ITP, ond doedd hynny ddim yn bosibl, a hynny am resymau dosbarthu a marchnata.[200] Yr oedd rheidrwydd i unrhyw atodiad neu gylchgrawn gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl ac nid darllenwyr Cymraeg yn unig, er mwyn sicrhau nad oedd yr anwybodaeth affwysol a gaed ymhlith y gynulleidfa ddi-Gymraeg am S4C yn parhau

[197] Ibid. Erbyn hyn mae'r *Daily Post* yn cyhoeddi atodiad Cymraeg *Yr Herald Cymraeg* bob wythnos a chyhoeddir ambell golofn Gymraeg yn rhifyn dydd Sadwrn cylchgrawn y *Western Mail.*
[198] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdudrod – Papur atodol i agenda unfed cyfarfod ar bymtheg Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[199] CS4C, *Cofnodion deunawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Chwefror 1981, t. 2. Synwyd yr Awdurdod gan y ffigurau hyn, fis ynghynt yr oedd yr Awdurdod yn trafod y wybodaeth ddiwddaraf gan yr ITP a oedd yn nodi y gellid argraffu atodiad pedair tudalen am gost o £200,000 neu atodiad wyth tudalen am £250,000. Er yn y llythyr hwn, pwysleisiodd yr ITP mai menter fasnachol oedd y *TV Times* ac na ellid cyhoeddi unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gyfer S4C ar golled, ac nad oedd pymtheg cwmni rhanbarthol ITV (sef perchenogion ITP) yn teimlo cyfrifoldeb moesol i ddarparu cymorth i'r sianel Gymraeg. CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7))*, t. 1.
[200] CS4C, *Cyhoeddusrwydd (Papur 1.82 (7))*, t. 1.

wedi iddi ddechrau darlledu. Byddai cylchgrawn cwbl annibynnol, a dim manylion yn y cylchgronnau teledu eraill am amserlen S4C ar gyfer rhaglenni Channel 4 beri dryswch mawr i'r garfan honno o'r gymdeithas.

Ar ôl tafoli'r dewisiadau i gyd, penderfynodd S4C fynd ati i lunio ei chylchgrawn ei hun, gan fod yn gwbl gyfrifol am y graffeg, y cynnwys, y golygu a'r argraffu, ond gyda'r bwriad o ddefnyddio'r *TV Times* i'w ddosbarthu fel atodiad i'r cylchgrawn hwnnw yng Nghymru.[201] At hynny, bwriedid cynnwys manylion moel, sef amser a theitl, rhaglenni S4C yn adrannau Channel 4 o'r *TV Times*. Cafwyd y gorau o ddau fyd felly, meddai Owen Edwards yn ei adroddiad ar y mater:

> Rhydd yr ateb hwn annibyniaeth i S4C i olygu a chynhyrchu'r cylchgrawn tra ar yr un pryd yn sicrhau dosbarthiad eang o fewn i gylchgrawn y mae'n naturiol i ni fod yn gysylltiedig ag ef oherwydd y bydd rhaglenni C4 [Channel 4] yn ffurfio cyfran mor sylweddol o amserlen S4C.[202]

Golygai'r ateb hwn hefyd y byddai llawer llai o arian yn mynd i goffrau'r ITP gan mai dim ond cost dosbarthu a oedd i'w dalu i'r cwmni bellach. Er hynny, cafwyd pris teg iawn gan yr ITP a gododd £15 am bob mil o gopïau a ddosberthid bob wythnos, sef cost o oddeutu £100,000 y flwyddyn. Ond, ar ôl tynnu'r £70,000 yr oedd y *TV Times* yn ei ennill trwy beidio â chynnwys tudalen Gymraeg yng nghorff y cylchgrawn, dim ond £29,450 y flwyddyn y byddai'n rhaid i'r sianel ei dalu.[203] Ynghyd â darparu pris teg, yr oedd yr ITP yn ogystal yn gwbl hapus i S4C werthu ei hysbysebion ei hun yn yr atodiad, er mwyn ceisio adennill peth o'r costau cynhyrchu. Ond ni fu'r berthynas weithio yn fêl i gyd, cafwyd peth siomedigaeth pan gyhoeddwyd nad oedd modd sicrhau bod yr atodiad hefyd yn cael ei ddosbarthu yn rhifyn Granada o'r *TV Times* a ddosberthid mewn ardaloedd o Ogledd Cymru ac felly amddifadwyd rhai cymunedau o wybodaeth gynhwysfawr am raglenni'r sianel newydd.[204]

---

[201] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 3.82(4)) – Papur atodol i Agenda pedwerydd cyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Mawrth 1982, t. 2.
[202] Ibid.
[203] CS4C, *Cofnodion ugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 21–22 Mawrth 1982, t. 1.
[204] CS4C, *TV Times Magazine - Papur atodol i Agenda seithfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Awst 1982.

Swyddog y Wasg, Ann Beynon, a'i staff fyddai'n cynhyrchu ac yn golygu cynnwys y cylchgrawn, a oedd bellach wedi ei fedyddio yn *Sbec* ac wedi tyfu yn gylchgrawn deuddeg tudalen o hyd.[205] Argraffwyd y cylchgrawn gan y Wasg Rydd, sef cyfuniad o waith cysodi cwmni Afal yng Nghaerdydd, a Gwasg Pensord yn y Coed Duon.[206] Yr oedd y cynlluniau newydd felly yn sicrhau bod yr Awdurdod yn buddsoddi mewn gweithwyr a busnesau Cymreig, gan sicrhau nad oedd arian prin y sianel yn cael ei wario y tu hwnt i ffiniau Cymru. Er y buddsoddiad hwn yr oedd y sianel yn parhau yn bryderus am y gwariant sylweddol ar gylchgrawn swmpus, na chodid pris amdano ac nad oedd tebygolrwydd y gellid denu lefel uchel o arian hysbysebu i'w gyllido.[207] Ond, ar ôl archwilio'r holl bosibiliadau'n fanwl, cynhyrchu cylchgrawn annibynnol oedd yr unig ddewis a oedd yn galluogi'r sianel i hyrwyddo ei rhaglenni yn y modd mwyaf deinamig posibl.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Sbec* bythefnos cyn i'r sianel ddechrau darlledu. Ym marn swyddogion y sianel, yr oedd y rhifyn cyntaf hwnnw yn un hanfodol bwysig wrth geisio lleddfu peth o'r anwybodaeth a barhai ymysg y gynulleidfa ddi-Gymraeg. Penderfynwyd felly y byddai mwy o ddeunydd Saesneg na'r arfer yn y rhifyn hwnnw er mwyn ceisio trosglwyddo'r neges y byddai y rhan helaeth o raglenni Saesneg difyr Channel 4 i'w gweld ar y sianel newydd. Gwelir yn y rhifyn cyntaf hwnnw, ymgais nid yn unig i ddenu gwylwyr di-Gymraeg i wylio rhaglenni Channel 4, ond hefyd i'w denu i wylio rhai o raglenni Cymraeg y sianel, megis *Noson Lawen*, *Sgrech* a *SuperTed*. Cafwyd ymgais yn *Sbec*, felly, i greu delwedd o sianel a fyddai'n apelio at bob aelod o'r gymdeithas, yn y gobaith y gellid denu cynulleidfa deilwng wrth i'r sianel ddechrau ei thair blwyddyn brawf.

Dengys gweithgareddau Awdurdod Sianel 4 Cymru yn ystod ei deunaw mis o baratoi y bu mynydd o waith i'w gyflawni a phenderfyniadau allweddol i'w hystyried a'u gweithredu wrth geisio creu'r amgylchiadau gorau posibl i'r sianel lwyddo yn ystod ei chyfnod prawf. Un o'r prif themâu a gododd oedd y tensiwn a gaed rhwng yr

[205] Nid yw cofnodion yr Awdurdod yn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r twf hwn. Diau mai wrth geisio llunio cylchgrawn safonol a adelwyrchai'n ffafriol ar y sianel a'i rhaglenni y penderfynwyd cynhyrchu cylchgrawn llawer mwy swmpus.
[206] CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 25 Mai 1982, t. 2. Yn y cofnodion hyn cyfeirir at y wasg fel Gwasg Pedwar, ond erbyn adroddiad blynyddol 1982–83, fe'i gelwir yn Gwasg Rydd.
[207] Ceir trafodaeth bellach ar *Sbec* ym Mhennod 5, tt. 260–2.

egwyddor o sianel annibynnol a sianel a ddibynnai ar ei phartneriaid er mwyn llwyddo.[208] Bu rheidrwydd felly ar yr Awdurdod i ystyried yn ddwys pa bryd yr oedd hi'n briodol ac yn angenrheidiol i'r sianel newydd dorri ei chwys ei hun a chyhoeddi ei hannibyniaeth, mewn materion megis cyfleusterau technegol a chyhoeddusrwydd rhaglenni. Ond, ar achlysuron eraill, dibynnai S4C yn llwyr ar ei phartneriaid ym myd darlledu am gymorth a chyngor angenrheidiol, ac er mwyn brwydro ar ei rhan i sicrhau telerau ariannol ffafriol ac er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn ei galluogi i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl. Byddai partneriaeth yn air allweddol hefyd wrth i'r sianel drafod materion rhaglenni gyda'i hamryfal ddarparwyr, a dyna yw testun trafod y bennod nesaf.

[208] Bellach mae'r trafodaethau am annibyniaeth y sianel wedi eu hatgyfodi ar ôl cyhoeddiad y Canghellor George Osborne ar 19 Hydref 2010 ei bod hi'n fwriad gan Llywodraeth clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i drosglwyddo'r cyfrifoldeb o ariannu S4C i'r BBC yn 2013. Gan nad yw'r manylion wedi eu gwyntyllu na'u cyhoeddi yn llawn wrth gwblhau'r traethawd hwn, mae pryderon sylweddol yn parhau y bydd annibyniaeth S4C fel darlledwr gyda'i strwythurau comisiynu a gweithredol ei hun yn diflannu, ac mai adran o'r BBC fydd S4C yn y dyfodol. Er mwyn ceisio gwarchod ei hannibyniaeth cyhoeddodd Awdurdod S4C ei bwriad i lansio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad a wnaed gan Jeremy Hunt, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r cytundeb brysiog a chyfrinachol a wnaed gyda'r BBC heb ymgynghori â Awdurdod S4C. Erbyn Rhagfyr 2010, yr oedd Awdurdod S4C wedi diddymu'r Adolygiad Barnwrol. Dienw, 'S4C seeks judicial review over BBC funding move', *www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11581346*, 20 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Dienw, 'S4C yn lansio Adolygiad Barnwrol', *www.s4c.co.uk/c_press_level2.shtml?id=397*, 20 Hydref 2010 (cyrchwyd Hydref 2010); Dienw, 'S4C am ollwng yr adolygiad barnwrol', *www.golwg360.com/Hafan/cat46/Erthygl_18299.aspx.*, 8 Rhagfyr 2010 (cyrchwyd Rhagfyr 2010). Ceir trafodaeth bellach ar y materion hyn yn yr adran Casgliadau.

**Pennod 3**

**Rhaglenni a darparwyr - perthynas S4C gyda'r BBC, HTV, y cwmnïau teledu annibynnol a Channel 4**

Yr oedd sefydlu Sianel Pedwar Cymru yn fenter ddihafal yn hanes darlledu Prydeinig a hynny o sawl safbwynt. Un o'r elfennau unigryw a berthynai i'r sianel oedd ffynonellau niferus y rhaglenni a ddarlledid arni. Yn draddodiadol yr oedd darlledwyr fel y BBC a chwmnïau rhwydwaith ITV wedi cynhyrchu a darlledu eu rhaglenni eu hunain, a bychan iawn oedd y cyfraniad allanol i'r ddarpariaeth. Yn achos S4C, yr oedd y patrwm darlledwr-gyhoeddwr a bennwyd gan y Ddeddf Ddarlledu yn sicrhau nad oedd modd efelychu patrwm gweithio unrhyw sianel a fodolai eisoes. Yr oedd tasg enfawr a dalen lan yn wynebu'r sianel newydd yn ei dyddiau a'i misoedd cyntaf felly, wrth iddi ymdrechu i ffurfio perthynas ffyniannus gyda'r partneriaid fyddai'n dyfeisio a chynhyrchu rhaglenni ar ei chyfer. O gofio bod sicrhau arlwy ddeniadol a difyr i'r gynulleidfa Gymraeg yn dyngedfennol i sicrhau llwyddiant a ffyniant y sianel, ni ellir diystyru pwysigrwydd y gorchwyl hwn. Fel y nodwyd eisoes yn y traethawd hwn, darparwyd rhaglenni Cymraeg i'w darlledu ar S4C o dair ffynhonnell wahanol, y BBC yng Nghymru, HTV a chasgliad newydd o gwmnïau a chynhyrchwyr annibynnol. Wynebai swyddogion y sianel dasg enfawr o drafod telerau a chynnwys rhaglenni a ddeuai o'r tair ffynhonnell yma gan yna geisio eu hasio o fewn un amserlen gyda darpariaeth Saesneg Channel 4 i greu un sianel gynhwysfawr ac unedig wrth i'r deunaw mis o amser paratoi ruthro heibio. Nod y bennod hon felly yw archwilio a dadansoddi'r berthynas a ffurfiodd S4C gyda'r darparwyr hyn er mwyn gweithredu'r sianel.

*S4C a Channel 4*

Dim ond dwy awr ar hugain yr wythnos o raglenni Cymraeg a fwriedid eu darlledu ar S4C i ddechrau. Ar gyfartaledd felly dim ond ychydig dros dair awr y dydd. Er mwyn llenwi gweddill yr oriau darlledu byddai'n rhaid dangos rhaglenni Saesneg a gynhyrchwyd ar gyfer Channel 4 a'r gynulleidfa Brydeinig. Yr oedd y berthynas a sefydlwyd rhwng S4C a Channel 4 felly yn gwbl allweddol i'r sianel, gan y gallai hynawsedd neu sarugrwydd y berthynas honno gael effaith andwyol ar weithgareddau eraill y sianel, yn enwedig petai Channel 4 yn penderfynu ei bod mewn cystadleuaeth â'r bedwaredd sianel Gymraeg. Fel y trafodwyd yn y bennod

gyntaf, nid oedd y rhesymau dros sefydlu S4C a Channel 4 yn gwbl gydnaws. Y ddadl y tu ôl i sefydlu Channel 4 oedd creu sianel fyddai'n darparu rhaglenni unigryw ar gyfer cynulleidfaoedd lleiafrifol â diddordebau arbenigol. Y weledigaeth oedd sianel fyddai'n darparu cynnwys arloesol fyddai'n cynnig dewis go-iawn i'r gwylwyr trwy gynnig rhaglenni fyddai'n wahanol i'r hyn a welwyd ar y rhwydweithiau eraill. Ar y pegwn arall yr oedd S4C yn ceisio bod yn wasanaeth cyflawn poblogaidd fyddai'n apelio ac yn denu'r cynulleidfaoedd mwyaf ar gyfer y rhaglenni Cymraeg. Yr oedd hi'n anoddach, os nad amhosibl, i S4C gyfiawnhau creu rhaglenni ar gyfer cynulleidfa fach arbenigol o fewn cynulleidfa a oedd yn lleiafrif yn barod, gan y byddai'n adlewyrchu'n wael ar y ffigurau gwylio. Plesio pawb ar yr un pryd oedd y gamp i S4C felly ac fe ellid bod wedi ffurfio priodas digon anghydnaws rhwng cynnwys y ddwy sianel wrth i S4C wynebu'r sialens o geisio creu gwasanaeth unedig i bobl Cymru o raglenni a oedd o'u hanfod wedi eu cynhyrchu at bwrpasau gwahanol.

Nid hawdd fyddai ceisio ffurfio gwasanaeth unedig o'r ddau wasanaeth, ond byddai hynny'n dasg anghenrheidiol er mwyn sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei gosod mewn geto ar y bedwaredd sianel, gan wireddu ofnau Jac L. Williams, un o wrthwynebwyr pennaf gosod rhaglenni Cymraeg ar un sianel ar wahân. Rhaglenni Saesneg Channel 4 fyddai'n gyfrifol am ddenu nifer o wylwyr i'r sianel, a gobeithid y byddai natur y rhaglenni hynny yn denu'r gwylwyr Cymraeg nad oedd yn gwbl ymroddedig i'r iaith i wylio. Gobeithid y byddai'r gwylwyr a ddetholai'r bedwaredd sianel ar gyfer yr arlwy Saesneg, yn parhau i wylio'r rhaglenni Cymraeg pan ddeuai'r rhaglenni Saesneg i ben, gan roi hwb i gynulleidfaoedd y sianel a sicrhau cynulleidfa eang i'r rhaglenni Cymraeg. Yr oedd gobaith felly, y byddai rhaglenni'r bedwaredd sianel Brydeinig, er wedi eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd a diddordebau lleiafrifol yn ddigon safonol a deniadol i rwydo gwylwyr ar gyfer y rhaglenni Cymraeg. Yr oedd hon yn ffaith y pwysleisiwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (PDFC) yn ei adroddiad a nododd: 'It is therefore essential both for the Welsh-language services and for the monolingual viewer that the WFCA [Welsh Fourth Channel Authority] provides an attractive schedule of English-language material capable of competing in its own right with the output on other

channels.'[1] Ond er mwyn cynhyrchu'r rhaglenni Saesneg deniadol a difyr hynny y gallai S4C eu defnyddio er mwyn denu rhagor o wylwyr i'r rhaglenni Cymraeg byddai'n rhaid i Channel 4 gystadlu â S4C am yr arian cymharol brin a fyddai'n dod gan gwmnïau ITV trwy law yr ADA. Gellid rhagweld y gallai brwydro am gyfran o'r un gronfa ariannol greu anghydfod rhwng y ddwy sianel, yn enwedig gan na fyddai'r arian hysbysebu y byddai HTV yn ei gasglu yn unig yn ddigon i ddiwallu cost gyflawn y sianel Gymraeg. Diau felly y defnyddid peth o'r arian a gesglid trwy werthu gofod hysbysebu ar Channel 4 er mwyn gwneud yn iawn am y diffyg yn yr arian a gesglid yng Nghymru.[2] Petai Channel 4 yn teimlo nad oedd yn derbyn arian digonol gan yr ADA, fe allai'r berthynas rhwng Channel 4 a S4C fod yn anodd wrth i'r ddwy ochr frwydro er mwyn sicrhau ei bod yn derbyn cyfran haeddiannol o'r swm cyfyngedig.

Ond er bod gwahaniaethau amlwg rhwng ethos y ddwy sianel a chystadleuaeth bosibl rhyngddynt am adnoddau cymharol brin, llwyddwyd i ddileu rhai o'r tensiynau tebygol oherwydd perthynas y ddau arweinydd. O'r cyfarfod cyntaf yn yr Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd yn Harlech ym 1981, lle yr oedd y ddau yn anerch mynychwyr y gynhadledd, sefydlwyd perthynas gydweithio a chyfeillgarwch rwydd rhwng Owen Edwards a Jeremy Isaacs. Cyfeillgarwch a pherthynas gydweithio a seiliwyd ar y ffaith i'r ddau ddechrau eu gyrfaoedd yn y byd teledu ar ddiwedd y 1950au gyda'r cwmni teledu Granada.[3] Bu'r profiadau cyffredin hynny'n sylfaen i adeiladu perthynas agos ac un a ddisgrifiwyd gan Glyn Tegai Hughes, a fu'n aelod o Fwrdd Channel 4 ac Awdurdod S4C, fel un 'dyngedfennol' i'r sianel.[4] Gellid datrys

---

[1] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implications for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners – Vol I* (London: HMSO, 1981), t. xlvii.
[2] Ni ellid bod yn gwbl hyderus mai arian hysbysebu Channel 4 fyddai'n gwneud yn iawn am y diffyg yntau arian cyffredinol cwmnïau rhanbarth ITV, a hynny oherwydd nad oedd cwmnïau ITV yn gwahaniaethu yn eu ffigurau gwerthiant rhwng arian hysbysebu ITV a arian hysbysebu Channel 4. Mater a oedd yn asgwrn cynnen sylweddol rhwng Channel 4 a'r ADA, gweler Edmund Dell, 'Controversies in the Early History of Channel 4' yn Peter Catterall (gol.), *The Making of Channel 4* (London, 1999), t. 20.
[3] Euryn Ogwen Williams, 'Owen Edwards' contribution to Welsh Broadcasting', 2 Medi 2010, *www.clickonwales.org /2010/09/owen-edwards-contribution-to-welsh-broadcasting/* (cyrchwyd Tachwedd 2010).
[4] Cyflweliad yr awdur gyda'r Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007. Rhennir y farn hon gan sawl unigolyn fu'n rhan o gyfnod sefydlu S4C, gweler Euryn Ogwen Williams, 'Owen Edwards' contribution to Welsh Broadcasting', 2 Medi 2010; cyfweliad yr awdur gyda'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007; cyfweliad yr awdur gyda Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 23 Chwefror 2007. Cyfeiriwyd hefyd at berthynas agos y ddau yn y deyrnged a gyflwynwyd gan Alwyn Roberts yn angladd y diweddar Owen Edwards.

nifer fawr o'r problemau fyddai'n codi rhwng y ddwy sianel pan fyddai Owen Edwards yn codi'r ffôn er mwyn cael gair a'i gydweithiwr yn Llundain. Mae atgofion Owen Edwards hefyd yn cadarnhau hyn wrth iddo ddisgrifio ei berthynas gyda Jeremy Isaacs trwy ddweud: 'Alla i ddim canmol o ddigon, rêl boi gwaraidd. Fuodd Jeremy'n help mawr i ni ar y dechrau . . . yn gefn mawr i ni.'[5] Mae atgofion Jeremy Isaacs yn ei gofiant o'i gyfnod fel pennaeth Channel 4 yn atgyfnerthu'r sylwadau hyn wrth iddo ddatgan ei fod yn credu bod rhesymau clir pam y gallai Channel 4 a S4C weithio gyda'i gilydd i wneud y fenter yn llwyddiant yn hytrach na brwydro yn erbyn ei gilydd, meddai:

> Channel 4 and S4C could easily have been at loggerheads from the word go . . . Yet it seemed to me then, and seems to me still, that in our different obligations to service special needs and fulfill distinctive cultural goals there was much, much more to unite us than to divide us.[6]

Un o'r materion hynny lle gallai'r ddwy sianel wedi bod benben a'i gilydd oedd y trafodaethau ynglŷn â threfniadau a thelerau dangos rhaglenni Channel 4 ar S4C. Bu trafod helaeth wrth i'r Ddeddf Ddarlledu gael ei llunio ac wedi iddi gael ei chyhoeddi o union ystyr y cymal canlynol:

> . . . for any period not allocated to the broadcasting of a programme not in Welsh, the programme broadcast is normally the same as the programme (or one of the programmes) broadcast on the Fourth Channel in that period for reception otherwise than in Wales.[7]

Gwelir felly mai dangos pa bynnag raglen a ddarlledid ar Channel 4 ar yr amser penodol hwnnw y dylai S4C pan nad oedd y sianel yn dangos rhaglenni Cymraeg, yn ôl cynlluniau gwreiddiol y Ddeddf. Er mwyn arbed costau ailddangos y cynhwysid y cymal hwn, a hynny gan yr ofnid y gellid mynnu taliad ail-ddangos pe ddangosid y rhaglen ar amser gwahanol i'r amser a ddarlledid ar Channel 4.[8] At hynny, mewn sefyllfa o'r fath ni fyddai gan S4C unrhyw ryddid dros ei hamserlen ei hun, a byddai

---

[5] Cyfweliad yr awdur gydag Owen Edwards, Caerdydd, 12 Ionawr 2007.
[6] Jeremy Isaacs, *Storm over 4* (London: Weidenfeld and Nicolson, 1989), t. 94.
[7] *Broadcasting Act 1981,* t. 49. Caed cyfeiriadau at y drafodaeth a fu ar lawr Tŷ'r Cyffredin am y cymal hwn ym Mhennod 1, tt. 79–80.
[8] *Hansard*, House of Commons, 10 Tachwedd 1980, col. 77.

trafferthion ymarferol enbyd yn rhan o weithredu amserlen o'r fath, fel y nododd yr Arglwydd Cledwyn wrth i'r Ddeddf gael ei thrafod yn Nhŷ'r Arglwyddi, meddai:

> . . . the break might occur in the middle of a programme. Let us assume that a ballet or "Hamlet" was being performed, which might take two or more hours. You could not cut into the middle of that and insert it into the Welsh Fourth Channel. It seems to me that it would be better if the Welsh Authority could if necessary choose from other suitable Fourth Channel programmes already recorded. At least it would be prudent for the Bill to provide for this to be done.[9]

At hynny, gan mai yn yr oriau brig y bwriedid darlledu y rhan helaeth o'r oriau Cymraeg, byddai oddeutu hanner y pymtheg ar hugain o oriau o raglenni Saesneg yr wythnos y bwriedid eu darlledu gan Channel 4 yn ei misoedd cyntaf yn cael eu colli yn llwyr i'r gynulleidfa yng Nghymru.[10] At hynny, gan mai rhaglenni'r oriau brig fyddai'n cael eu colli, yn ddi-os rhain fyddai rhaglenni mwyaf deniadol y sianel Saesneg. Diau y byddai gweithredu cynllun o'r fath wedi arwain at barhau'r teimladau o anghyfiawnder a gaed ymysg y gynulleidfa ddi-Gymraeg eu bod yn cael eu hamddifadu o raglenni Saesneg atyniadol ac o ddiddordeb iddynt, gan chwalu un o fwriadau gwreiddiol sianel Gymraeg sef lleddfu tensiynau cymdeithasol. Canlyniad arall posibl i'r cynllun hwn oedd y byddai wedi bod yn anoddach i S4C roi ei stamp a'i logo ei hun ar y sianel yn ystod yr oriau fyddai'n cael eu darlledu'n fyw o Channel 4, gan ei gwneud hi'n anodd i S4C greu hunaniaeth i'r sianel yng Nghymru. Oherwydd y rhesymau hyn nid oedd y cynllun gwreiddiol a gynigiodd y llywodraeth yn ymarferol, ac aethpwyd ati i geisio darganfod ffyrdd y gallai'r sianel newydd ddiffinio'r cymal mewn modd na fyddai'n ei chaethiwo i amserlen Channel 4.

Yn ystod y trafodaethau ar natur y Ddeddf ar lawr Tŷ'r Cyffredin, mewn ymateb i ymholiadau gan Dafydd Wigley, A.S. a Dafydd Elis-Thomas. A.S., cadarnhaodd Leon Brittan, Gweinidog Gwladol y Swyddfa Gartref, nad oedd y ddeddf yn atal y

---

[9] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the implications for Welsh and non-Welsh speaking viewers and listeners – Vol II* (London: HMSO, 1981), t. 362.

[10] Er hynny roedd y llywodraeth yn argyhoeddedig mai darlledu pa bynnag raglen a oedd yn digwydd cael ei darlledu ar Channel 4 ar yr un pryd, oedd y cynllun a fyddai'n sicrhau y lefel isaf o amddifadu'r gwyliwr Saesneg. Ni cheir esboniad llawn o rhesymeg hon gan Leon Brittan, ond fe wnaed datganiad i'r perwyl hwnnw wrth iddo ymateb i drafodaethau ar y ddeddf ar lawr y Tŷ. Gweler *Hansard,* House of Commons, 10 Tachwedd 1980, col. 77.

bedwaredd sianel rhag ail-amseru rhaglenni Saesneg Channel 4, pe bai yn dymuno gwneud hynny.[11] Er hynny, nododd fod y llywodraeth yn argyhoeddedig bod y costau a fyddai ynglwm â gwneud hynny, costau tapiau a staff recordio ynghyd â thaliadau hawliau ychwanegol i berfformwyr ac artistiaid eraill, yn rhy uchel i gyfiawnhau gwneud hynny. Er i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ffurfiol cyntaf nodi bod angen iddo drafod trefniadau ail-amseru gyda swyddogion Channel 4 ar fyrder,[12] ymddengys mai yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 4 Chwefror 1980 y trafodwyd yn gyhoeddus y gellid gweithredu cynllun ail-ddarlledu heb gost aruthrol i'r sianel.[13] Yno nodwyd gan y Gymdeithas trwy ymateb i gyfiawnhad yr Arglwydd Belstead, is-ysgrifenydd y Swyddfa Gartref, o gynlluniau'r llywodraeth:

> . . . he envisages a difficulty in transmitting on the Fourth Channel in Wales any programmes which have been broadcast at a different time in the remainder of the United Kingdom. "It is much more expensive" – he says – "if you cannot use it simultaneously and have to get a repeat running."
>
> Not so. Such an arrangement does not constitute a "repeat" but is regarded as "non-simultaneous transmission", and as such, incurrs no extra costs.[14]

Nid oedd costau ychwanegol felly, gan y gellid defnyddio'r egwyddor *once around the transmitters* a ddefnyddid eisoes gan ddarlledwyr eraill, yn enwedig cwmnïau ITV oherwydd y strwythur rhanbarthol, ar eu rhwydweithiau hwy. Er hynny, byddai'n rhaid cael sicrwydd gan swyddogion Channel 4 fod yr egwyddor hon yn dderbyniol iddynt hwy ac na fyddai'n creu trafferthion gyda'r undebau. Rhagwelwyd hefyd y gellid sicrhau bod y rhan helaeth o raglenni Channel 4, os nad i gyd, yn cael eu hailddarlledu ar y sianel yng Nghymru a hynny trwy agor y gwasanaeth yn gynharach yn y dydd na Channel 4 gan sicrhau'r gofod angenrheidiol a'r

---

[11] Ibid.
[12] Casgliad Personol Dr Glyn Tegai Hughes (CPGTH), *Cofnodion cyfarfod cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 31 Ionawr – 1 Chwefror 1981, t. 1.
[13] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, tt. 360–4. Ceir esboniad o gyfansoddiad y Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg yn hwyrach yn ystod y bennod hon, tt. 189–91.
[14] Ibid. t. 362.

hyblygrwydd i'r sianel ail-leoli'r rhaglenni hynny a ddarlledid yn ystod yr oriau brig.[15]

Wedi'r trafodaethau cyhoeddus hyn aeth S4C a Channel 4 ati i drafod ymysg ei gilydd a ellid gweithredu'r egwyddorion hyn. Fel y trafodwyd eisoes, gan fod Channel 4 a S4C yn cystadlu â'i gilydd am arian yr ADA, fe allai Channel 4 fod wedi dewis tynnu'n groes i'r consensws a oedd yn dechrau tyfu o gwmpas y mater hwn, a hynny trwy geisio sicrhau rhagor o arian i'w goffrau ei hun gan wrthod darparu'r rhaglenni yn rhad ac am ddim. Ond fel y trafodwyd eisoes, yr oedd prif weithredwr Channel 4 yn ddyn a gredai bod i'r ddwy sianel yr un egwyddor, sef gwasanaethu lleiafrifoedd, er mewn modd tra gwahanol, ac felly cydsyniwyd y gellid rhoi'r rhyddid i S4C ddarlledu rhaglenni Channel 4 yn unol â'i hamserlen ei hun yn hytrach na bod yn gaeth i amserlen y chwaer sianel Brydeinig. Meddai Isaacs am y penderfyniad hwnnw:

> Channel 4 made all its programmes available to S4C free of charge. They were free to schedule them as the wished, so our programmes of necessity – even the finest of them – went late or early. And there was not room in their schedule for all of our stuff. But I was always content to respect Owen's sovereignty over what was his, and leave scheduling decisions to him and his colleagues . . . I urged only that, in their discretion, they should not leave out altogether what we were proudest of.[16]

Yr oedd y rhyddid hwn i S4C ailddarlledu rhaglenni Channel 4 ar adegau fyddai'n gyfleus i'w hamserlen felly yn golygu y byddai modd iddi ddangos y rhaglenni mwyaf atyniadol, ond ar amseroedd ychydig llai cyfleus. Anghyfleustra a achosid felly i'r gwyliwr di-Gymraeg yn hytrach na'i amddifadu'n llwyr o gynnwys Channel 4. Er nad oedd hyn yn ateb delfrydol, yr oedd yn golygu bod modd i wylwyr yng Nghymru wylio'r mwyafrif o raglenni Channel 4 petae nhw'n dymuno gwneud

[15] Ibid., t. 361. Llwyddwyd i greu cryn argraff ar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig gyda'r syniadau hyn a gwelwyd eu mabwysiadu yn adroddiad y Pwyllgor. Ond fel y trafodwyd eisoes wrth gloriannu cyfraniad y PDFC i sefydliad y sianel, gwireddwyd nifer o'r syniadau hyn cyn i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad. Er hynny, bu'r Pwyllgor yn rhan allweddol o sicrhau bod y syniadau hyn yn cael eu trafod a'u gwyntyllu'n gyhoeddus. Argymhellwyd hefyd gan y PDFC y dylid newid testun y Ddeddf er mwyn sicrhau bod y sianel yn gweithredu'n gyfiawn a bod cyfrifoldeb arni i ail-ddarlledu cynifer â phosibl o raglenni Channel 4, a chyfrifoldeb ar Channel 4 yn ei thro i ddarparu'r rhaglenni hynny yn rhad ac am ddim. Ni addaswyd testun y Ddeddf yn ystod y cyfnod prawf. *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol I*, t. xlix.
[16] Isaacs, *Storm over 4*, tt. 94–5.

hynny. Mewn gwirionedd yr oedd y cynllun hwn yn rhoi mwy o ddewis i'r gwylwyr yng Nghymru gan nad oedd yn rhaid iddynt wneud y penderfyniad anodd os oeddent am wylio dwy raglen a oedd wedi eu hamserlennu am wyth yr hwyr ar ITV a Channel 4 dyweder, a hynny gan y gellid gwylio rhaglen Channel 4 ar amser arall ar S4C.[17]

Yr oedd nifer o fanteision felly i'r patrwm hwn o weithredu, ond ni fu'n gyfan gwbl ddi-drafferth. Er bod y ddwy sianel yn gwbl hapus a'r patrwm, caed bygythiad gan Undeb y Cerddorion nad oeddent am dderbyn yr egwyddor, er na ddatblygodd y bygythiad yn anghydfod rhyngddynt.[18] Trafferth arall a gododd oedd nad oedd modd i S4C fanteisio ar waith marchnata Channel 4 yn cyhoeddi amseroedd darlledu'r rhaglenni, negeseuon nad oedd yn parchu ffiniau gwlad yn yr un modd â signalau trosglwyddyddion Lloegr. Yn wir, byddai hyn yn creu mwy o ddryswch yng Nghymru wrth i wylwyr ddisgwyl gweld rhaglenni ar yr amseroedd a hysbysebwyd gan Channel 4. Ond mewn gwirionedd byddai'n rhaid iddynt aros ddiwrnod neu ddau cyn iddynt gael eu darlledu yng Nghymru. Nid da i gyd felly oedd y penderfyniadau hyn.[19]

Ond er y mân drafferthion hyn, bu'r penderfyniad i sicrhau bod rheolaeth lwyr gan y sianel dros ei hamserlen yn un allweddol, ac er ei fod yn creu mwy o waith i'r tîm cynllunio yr oedd yn golygu bod modd i'r swyddogion wneud y gorau o'r deunydd a oedd ar gael iddynt. Nid popeth fyddai'n cael ei ddarlledu ar S4C, ysywaeth ni fyddai rhaglen newyddion awr, arloesol Channel 4 yn cael ei gweld yng Nghymru, er hynny yr oedd y rhyddid amserlennu yn golygu bod 80 y cant o raglenni Channel 4 yn ymddangos ar S4C, yr oedd colled o 20 y cant yn llawer gwell na'r 50 y cant o raglenni Channel 4 a fyddai wedi diflannu'n llwyr o dan gynlluniau gwreiddiol y llywodraeth.[20] Bu penderfyniad Channel 4 i beidio â chodi tâl ar S4C am ei rhaglenni yn un hollbwysig hefyd, diau y byddai cyllideb rhaglenni S4C wedi ei gwasgu ac y byddai disgwyl cynhyrchu mwy o raglenni Cymraeg am bris isel pe bai Channel 4

---

[17] Roedd y patrwm hwn yn rhagflaenydd i'r patrwm o wylio 'time-shifting', sydd bellach yn rhan annatod o natur gwylio rhannau sylweddol o'r gynulleidfa.

[18] Casgliad Sianel Pedwar Cymru (CS4C), *Cofnodion chweched cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 15 Gorffennaf 1982, t.1; *Cofnodion seithfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Awst 1982, t. 1.

[19] Ceir dadansoddiad o ymateb gwylwyr i raglenni Channel 4 ar S4C ym Mhennod 6, tt. 295–9.

[20] CS4C, *Cofnodion cyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor Darlledu a S4C*, 27 Medi 1985, t. 3.

wedi mynnu arian. Sicrhawyd felly, trwy'r cytundeb gyda Channel 4, y byddai pob ceiniog bosibl yn cael ei gwario ar gynhyrchu rhaglenni Cymraeg o safon. Yr oedd y dealltwriaeth a'r berthynas gytûn a ffurfiwyd rhwng S4C a Channel 4, felly, yn rhyddhau swyddogion y sianel ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar ffurfio partneriaethau gyda'r darlledwyr hynny fyddai'n darparu rhaglenni Cymraeg ar ei chyfer.

*S4C a'r BBC*

Nid cydweithio â thair carfan o gynhyrchwyr gwahanol fyddai'r unig dasg a wynebai'r sianel newydd. Yr oedd y BBC ac HTV wedi chwarae rôl, er ar begynau cwbl wahanol, yn yr ymgyrch i sicrhau sianel ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Fel y trafodwyd yn fanwl eisoes, gellid disgrifio agweddau'r ddwy sianel fel rhai cwbl groes i'w gilydd, gyda'r BBC o blaid gosod rhaglenni Cymraeg ar sianel ar wahân, er mwyn lliniaru'r tensiwn cymdeithasol yng Nghymru, ac HTV a gweddill rhwydwaith ITV yn awyddus i weld y sianel yn cael ei chyflwyno i'w defnydd fel ail sianel fasnachol Prydain.[21] Yr oedd angen i S4C oresgyn y disgwyliadau a'r syniadau ar gyfer y gwasanaeth newydd a ffurfiwyd eisoes gan y sefydliadau hyn dros flynyddoedd hir y frwydr, felly, er mwyn sicrhau perthynas gydweithio effeithiol.

Er gwaethaf y disgwyliadau a'r rhagdybiaethau a ffurfiwyd gan y darlledwyr am natur gwasanaeth y bedwaredd sianel gwelwyd, o'r cychwyn cyntaf, barodrwydd y darlledwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau cynnar a bodlonrwydd yr Awdurdod i'w cynnwys yn y trafodaethau ffurfiannol.[22] Ond er bod cynrychiolwyr ar ran y ddau ddarlledwr yn bresennol ar benwythnos cyntaf trafodaethau'r Awdurdod, cawsant eu trin mewn ffyrdd ychydig yn wahanol gan y corff newydd. Bu'r BBC yn rhan o'r trafodaethau cyffredinol ar strwythur y gwasanaeth newydd trwy bresenoldeb Owen Edwards, Rheolwr BBC Cymru, a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol (ADA) yn cael ei gynrychioli yn y trafodaethau gan Eirion Lewis, Swyddog Cymru a Gorllewin

[21] Caed trafodaeth lawnach ym Mhennod 1, tt. 47–53.
[22] CS4C, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 31 Ionawr – 1 Chwefror 1981.

Lloegr.[23] Tra gwahoddwyd cynrychiolwyr HTV, Syr Alun Talfan Davies a Ron Wordley i sesiwn ar wahân er mwyn trafod cyfraniad tebygol HTV i'r gwasanaeth newydd yn unig.[24] Gellid priodoli'r ymdriniaeth wahanol hon i nifer o ffactorau, un o'r rhain yw bod yr Awdurdod wedi troi at sefydliadau a oedd o'r un statws ag ef am gymorth. Awdurdod Sianel Pedwar Cymru oedd trydydd Awdurdod darlledu gwledydd Prydain, yn ymuno â'r BBC a'r ADA fel sefydliadau cyhoeddus a oedd yn rheoli darlledu ac felly yn meddu ar statws cyfartal a hwy yng ngoleuni'r Ddeddf. At hynny, gellid nodi'r ffaith ei bod hi'n bosibl i'r Awdurdod newydd ofyn am gymorth a chyngor ymarferol gan y ddwy gyfundrefn gyhoeddus, tra byddai gwneud hynny gyda chwmni y byddai'n rhaid iddi ffurfio perthynas fasnachol ag ef ymhen rhai misoedd yn llawer mwy cymhleth. Gellid dadlau hefyd fod yr Awdurdod wedi troi at ddau sefydliad a oedd wedi brwydro ochr y syniad o sianel Gymraeg ar wahân ar adegau yn ystod yr ymgyrch, yn hytrach na chwmni a oedd yn ddrwgenwog am ei wrthwynebiad i'r syniad.[25] At hynny, yr oedd yr Awdurdod newydd yn ansicr ynglŷn â hyd a lled cyfrifoldeb HTV i ddarparu rhaglenni iddo o dan y cytundeb newydd gyda'r ADA gan fod y Ddeddf Ddarlledu yn annelwig. Felly, cyn mentro i fanteisio ar unrhyw gyngor neu gymorth a gynigid ganddynt, yr oedd angen eglurhad o fwriad y Ddeddf.[26] Er gwaethaf y diffyg gwahoddiad i HTV fynychu trafodaethau cyffredinol y sianel, cafwyd ymgais i unioni'r sefyllfa trwy wahodd cynrychiolwyr o'r cwmni masnachol i fod yn rhan o'r gweithgorau arbenigol a fu'n cyfarfod i lunio dogfennau cynghori'r sianel ar raglenni a pheirianneg.[27]

Yn dilyn y cyfarfodydd cynnar dadlennol hyn a gaed rhwng y BBC, HTV ac Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, bu nifer fawr o gyfarfodydd a thrafodaethau pellach rhwng y carfannau cyn i unrhyw gytundebau neu femoranda o ddealltwriaeth gael eu llunio a'u harwyddo. Yr oedd y dogfennau hyn yn allweddol gan eu bod yn diffinio ac yn ganllaw i esblygiad y berthynas allweddol fyddai rhwng S4C a

[23] Ibid. Mae'n annhebygol i swyddogion HTV gael eu gwahodd i'r trafodaethau hyn ar ddiwrnod cynta'r cyfarfod gan fethu anfon cynrychiolwyr a hynny gan ei fod wedi llwyddo i anfon cynrychiolwyr i drafodaethau'r Sul ddiwrnod yn ddiweddarach. At hynny, ni cheir unrhyw argraff o'r cofnodion fod HTV wedi anfon ymddiheuriadau ar ran ei staff.
[24] CPGTH, *Minutes of the Meeting with HTV during the First Meeting of the Sianel Pedwar Cymru Authority*, 1 February 1981.
[25] Bu Pwyllgor Cymreig yr ADA yn gefnogol i'r egwyddor o sianel Gymraeg hyd 1979, pan newidiodd ei feddwl. Caed trafodaeth ar agwedd yr ADA a'i Bwyllgor Cymreig ym Mhennod 1, t. 51.
[26] CS4C, *Cofnodion Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[27] Ibid., t. 3.

darparwyr ei rhaglenni. Yr oedd y dogfennau hyn hefyd yn rhoi arweiniad i'r holl sefydliadau ar yr hyn y gellid ei ddisgwyl o'r partneriaethau yn nhermau rhaglenni. Mae cyd-destun llunio'r dogfennau hyn a'u cynnwys terfynol yn elfen allweddol felly o'r dasg o asesu ac archwilio'r berthynas rhwng y BBC, HTV a S4C.

Ym mis Chwefror 1981 caed yr ohebiaeth gyntaf rhwng y BBC a S4C ar fater rhaglenni a hynny gan i Owen Edwards, Rheolwr BBC Cymru, anfon llythyr at yr Awdurdod er mwyn amlinellu costau rhaglenni'r BBC.[28] Ni chafwyd trafodaeth ar y llythyr hwn yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, nac esboniad ychwaith paham yr aethpwyd ati i drafod costau gyda'r BBC. Yn rhesymegol, oherwydd cynnwys y Ddeddf Ddarlledu, nid oedd rheidrwydd i S4C drafod costau gyda'r BBC a hynny gan na fyddai gofyn i'r Awdurdod dalu am y rhaglenni a ddarperid gan y Gorfforaeth i S4C. Yr oedd cyfrifoldeb statudol ar y Gorfforaeth i ddarparu nifer penodol o raglenni byddai'n cyfateb i'r ddarpariaeth Gymraeg y byddai'r BBC wedi ei ddarlledu ar ei sianeli ei hun petai'r Awdurdod newydd heb ei greu, a hynny yn rhad ac am ddim, gan dalu amdanynt o arian y drwydded deledu.[29] Holir felly, at ba ddiben yr anfonwyd y wybodaeth yma at yr Awdurdod? Dengys tystiolaeth yr Awdurdod i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar ei ymweliad cyntaf ar 25 Chwefror 1981, fod yr Awdurdod yn trafod y posibilrwydd y gallai'r BBC ddarparu awr ychwanegol o raglenni i'r sianel ar ben ei gyfrifoldeb statudol am dâl penodol. Dengys hyn nad oedd yr Awdurdod yn llwyr hyderus ar ddechrau ei oes y gellid sicrhau digon o oriau o raglenni o'r sector annibynnol er mwyn llenwi'r oriau a oedd yn weddill a chyrraedd y targed o ddarparu dwy awr ar hugain. Diau nad gallu cynhyrchu a medr y cynhyrchwyr annibynnol yn unig a oedd yn peri pryder i'r Awdurdod, gan fod pryderon cynnar ymysg yr aelodau y byddai HTV yn ceisio symiau ariannol aruthrol i ddarparu rhaglenni safonol ar ei gyfer. Gellid honni hefyd bod rheswm deublyg dros fynnu costau gan y BBC, sef y gellid eu defnyddio er mwyn cymharu costau cynhyrchu rhaglenni Cymraeg y BBC gyda'r costau a ddeuai o du HTV. Os oedd hwn yn un o'r ysgogiadau y tu ôl i'r llythyr hwn, teg fyddai nodi mai anghymwys fyddai unrhyw gymhariaeth rhwng costau cynhyrchu'r ddau sefydliad gan nad oedd y costau mewnol a gynhyrchid gan y BBC yn llwyr

[28] CS4C, *Cofnodion Trydydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Mawrth 1981, t. 5.
[29] *Broadcasting Act 1981, Chapter 68* (London, HMSO, 1981).

adlewyrchu cost gwirioneddol ei rhaglenni gan nad oedd y Gorfforaeth yn priodoli cost adnoddau mewnol i gynhyrchiad arbennig.[30]

Ac eithrio trafodaethau am ddarpariaeth newyddion y sianel newydd, a drafodir yn fanwl yn ddiweddarach yn y bennod hon, ni chafwyd trafodaethau ffurfiol ar berthynas y BBC a S4C tan y penodwyd Euryn Ogwen Williams yn Olygydd Rhaglenni ym mis Mai 1981. Trefnwyd y cyfarfod ffurfiol cyntaf rhwng y Golygydd Rhaglenni a phenaethiaid rhaglenni BBC, Gareth Price ac HTV, Huw Davies ym mis Mehefin, ac yn y cyfarfod hwnnw trefnwyd y byddai cyfarfodydd misol rhwng y tri, ynghyd â chyfarfodydd unigol, er mwyn trafod ffyrdd o greu un gwasanaeth unedig o'r ffynonellau rhaglenni gwahanol. Gyda thrafodaethau penodol ynglŷn â mathau o raglenni a chynnwys i'w cynnal yn annibynnol gyda'r darlledwyr unigol.[31] Yn y cyfarfodydd hyn hefyd trafodwyd sut y gellid sefydlu systemau ar gyfer osgoi gorddefnydd o'r un actorion a chyflwynwyr ar draws rhaglenni'r darparwyr, a gochel rhag llyffetheirio'r sianel newydd gyda'r camargraff nad oedd digon o unigolion talentog gyda'r gallu i weithio yn y Gymraeg er mwyn cynnal y gwasanaeth.[32] Mae'r ffaith fod y mater hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod cyntaf y penaethiaid rhaglenni'n dangos pa mor flaenllaw oedd y mater hwn ym meddyliau'r unigolion hyn. Yn wir, bu trafod y mater yng ngweithgareddau y Pwyllgor Dethol wedi i HTV honni mai dim ond 60–70 o aelodau Equity a oedd yn gallu'r Gymraeg.[33] Ceisiwyd gwyrdroi y safbwynt hwnnw yn ddiweddarach yn y trafodaethau wedi i gynyrchiolydd Equity yng Nghymru ddarparu tystiolaeth yn datgan bod deirgwaith y ffigwr hwnnw, sef 198, o'u haelodau yn siarad Cymraeg.[34] Er y dystiolaeth honno,

[30] Mewn gwirionedd ni welwyd newid i batrwm lle byddai holl gostau rhaglen yn cael eu cyfrifo tan y penodwyd John Birt yn ddarpar Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gorfforaeth ym 1991, ac iddo gyflwyno ei bolisi dadleuol *Producer Choice*; Kevin Williams, *Get me a Murder a Day! A History of Mass Communication in Britain*, (London, 1998), tt. 185–9.
[31] CS4C, *Nodiadau Golygyddol Rhaglenni i'r Cyfarwyddwr, Papur Atodol i Agenda Nawfed Cyfarfod yr Awdurdod,* 20–21 Mehefin 1981.
[32] Ibid. Roedd hon yn un o'r dadleuon a ddefnyddiwyd gan wrthwynebwyr darlledu yng Nghymru ers dyddiau'r Pwyllgor Beveridge ym 1951, pan honwyd gan Gyfarwyddwr-Cyffrediol y BBC, William Haley, nad oedd digon o dalent yng Nghymru i gynnal gwasanaeth ar wahân. Bu'r amheuon hyn yn yn chwarae rhan flaenllaw yn y trafodaethau a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn sefydlu'r bedwaredd sianel hyd at ei sefydlu, wrth i unigolion megis Raymond Edwards, pennaeth y Coleg Cerdd a Drama ddatgan ei amheuon yn gyhoeddus a oedd digon o dalent perfformio yng Nghymru i wasanaethu sianel ar wahân. Felly roedd hi'n holl bwysig, yn enwedig ym mlynyddoedd cynnar sianel Gymraeg, i beidio cadarnhau'r ofnau hynny; John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, (Cardiff, University of Wales Press, 1994), t. 154, Casgliad Personol Dr Jamie Medhurst (CPJM), *Minutes of the One Hundred and Twenty Fourth Meeting of the Welsh Committee – ADA*, 20 Medi 1978, tt. 3–4.
[33] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 671.
[34] Ibid., t. 377.

bu un aelod o'r Pwyllgor, Dr Roger Thomas, A.S., yn amau a oedd gwirionedd i'r ffigwr hwnnw, gan na allai ef feddwl am fwy na 75 o actorion Cymraeg. Casglwyd felly mewn trafodaeth gyda'r National Association of Theatrical, Television and Kine Employees y gellid esbonio'r ffigwr uchel gan Equity trwy amau a oedd Cymraeg pob un o'r 198 yn ddigon da i weithio yn yr iaith, yn enwedig mewn cynyrchiadau dramatig.[35] Gellid awgrymu oherwydd trafodaethau fel rhain, bod ychydig o baranoia yn bodoli ymysg y staff ynglŷn â'r dadleuon a fu bod diffyg talent ar gael yn y Gymraeg, ac o'r herwydd na ellid cyfiawnhau na chefnogi sianel ar wahân. Er gwaetha'r honiad hwn, ac yn groes i'r dystiolaeth a ddaeth gan Equity, mewn gwirionedd yr oedd y pryderon hyn yn rhai dilys, fel y gwelwn mewn erthygl a gyhoeddwyd gan y cyfarwyddwr Stephen Bayly yn y cylchgrawn *Sight and Sound* ym 1983. Yn yr erthygl noda:

> There is one nightmarish aspect of directing drama in Welsh – casting. There are only 110 female and 186 male actors listed in *Oriel*, the Actors Equity directory of Welsh-speaking 'actors'. Not a huge range from which to cast roles ranging between the ages of 18 and 96, especially given that not all the members listed are actors first and foremost . . . In *Joni Jones* we had to use puppeteers, cabaret artists, opera singers and tap-dancers . . .[36]

Yn dilyn y trafodaethau rhwng y penaethiaid rhaglenni, gwahoddwyd Rheolwr newydd BBC Cymru, Geraint Stanley Jones, i drafod perthynas y BBC â'r sianel newydd yng nghyfarfod mis Gorffennaf 1981 yr Awdurdod.[37] Yno crybwyllodd Geraint Stanley Jones bod posibilrwydd o wrthdaro rhwng Siarter y BBC a'r cyfrifoldebau a roddwyd i Awdurdod Sianel Pedwar Cymru trwy'r Ddeddf Ddarlledu.[38] Rhagwelwyd tensiwn rhwng cyfrifoldeb y BBC o dan y Ddeddf i ddarparu rhaglenni ar gyfer S4C mewn modd a oedd yn diwallu anghenion rhesymol yr Awdurdod, a gofynion y Siarter a oedd yn mynnu mai Llywodraethwyr y BBC, neu'r Cyngor Darlledu yng Nghymru, a oedd yn rheoli polisi a chynnwys holl raglenni'r Gorfforaeth.[39] Petai anghytuno rhwng y ddwy ochr, ar gynnwys rhaglenni er enghraifft, gellid rhagweld anghydfod rhwng y BBC a S4C gan nad oedd y ddeddf

[35] Ibid., t. 262.
[36] Stephen Bayly, 'The Welsh Perspective', *Sight and Sound,* Vol. 52, No. 4, Autumn 1983, t. 247.
[37] CS4C, *Cofnodion Degfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Gorffennaf 1981.
[38] Ibid., t. 4.
[39] CS4C, *The Provision of Programes for the S4C Service, Statement of Intention by the BBC*, 30 Mawrth 1982, t. 1.

na'r siarter yn rhoi unrhyw ganllaw nac arweiniad sut y gellid datrys problem o'r fath. Er gwaethaf yr ofnau hyn, credwyd na fyddai'r broblem hon yn codi, a hynny gan fod ewyllys da yn bodoli yn y ddau sefydliad i sicrhau llewyrch y sianel. At hynny, credwyd fod balchder proffesiynol staff a'r cysylltiadau da a geid ar lefel broffesiynol a phersonol yn debygol o arbed unrhyw anghydweld a fyddai'n niweidiol i'r ddwy sianel.[40]

Er yr ewyllys da a drafodwyd gan Geraint Stanley Jones, yr oedd rhaid bod yn realistig, ac fe welwyd y trafodaethau yn darogan y byddai'n anodd gwarantu fod cynnyrch y Gorfforaeth yn llwyddo i ddiwallu anghenion y ddwy ochr wrth ystyried safon y cynnwys, y gost a hefyd natur y gymysgedd o raglenni a ddarperid.[41] Rhagwelwyd hefyd y ceid gwasgedd yn sgil gofynion y sianel newydd o'i gymharu â'r swm o arian fyddai ar gael o du trwydded y BBC i wireddu'r anghenion hyn. Unwaith yn rhagor, ewyllys da a pharodrwydd ar y ddwy garfan i gyfaddawdu a defnyddio synnwyr cyffredin oedd yr ateb a gynigwyd petai problem o'r fath yn codi.[42] Fel arwydd o ymrwymiad y BBC i lwyddiant S4C a thystiolaeth o'r ewyllys da a fodolai o fewn y Gorfforaeth tuag at y fenter newydd, nododd Geraint Stanley Jones yn y cyfarfod hwnnw yng Ngorffennaf 1981 fod y BBC yng Nghymru wedi cytuno i wario £3.5 miliwn ar raglenni Cymraeg cyn clywed yn derfynol am yr arian ychwanegol a ddeuai o'r cynnydd arfaethedig yn y drwydded.[43] Ond er gwaethaf cred unigolion y gellid dibynnu ar agwedd pobl resymol o fewn y ddau sefydliad er mwyn goresgyn unrhyw anghydfod neu anghydweld ym mherthynas y ddwy sianel, gellid honni fod gorddibyniaeth yn y trafodaethau hyn ar yr ewyllys da a geid ar gychwyn menter newydd. Gellid dadlau hefyd nad oedd hon yn strategaeth a fyddai'n gweithio yn y tymor hir ar gyfer y sefydliadau gan nad oedd yn gosod seiliau cadarn ar gyfer cydweithio pan fyddai personoliaethau gwahanol, nad oedd yn meddu ar berthynas gyfeillgar bersonol nac hanes o gyd-weithio, wrth y llyw.

---

[40] CS4C, *Cofnodion Degfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4. Roedd y cysylltiadau personol a fodolai rhwng BBC a S4C wedi eu cryfhau gyda phenodiad Owen Edwards i swydd Cyfarwyddwr S4C a Geraint Stanley Jones fel ei olynydd yn swydd Rheolwr BBC Cymru. Roedd y ddau arweinydd wedi gweithio'n glos a'i gilydd ers eu dyddiau ar y gyfres *Heddiw*, ac yna eu dyddiau yn cyd-weithio mewn swyddi rheoli o fewn y BBC.

[41] Ibid.

[42] Ibid.

[43] Ibid.

Ynghyd â'r trafodaethau ehangach am natur y berthynas a rhai trafferthion a allai godi wrth i'r ddau sefydliad ddod i gytundeb ar hyd a lled eu cyfrifoldebau, fe gafwyd trafodaethau mwy ymarferol hefyd am natur y cysylltiadau a fyddai rhyngddynt. Awgrymwyd mai cyfarfodydd bob chwe mis a ddylid eu cynnal rhwng aelodau Awdurdod S4C a'r Cyngor Darlledu, a hynny er mwyn trin a thrafod y rhaglenni a ddarparwyd gan y BBC ar gyfer y gwasanaeth. At hynny, ategwyd yr hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol yr Awdurdod, sef y byddai disgwyl i benaethiaid y tri chorff (S4C, BBC ac HTV) gwrdd yn fisol, gyda chyfarfodydd y penaethiaid rhaglenni a phenaethiaid cyflwyno a chynllunio'r sefydliadau yn dilyn yr un patrwm. Er y cyswllt agos ac aml a fynnid ar gyfer yr aelodau staff hŷn, nid oedd y BBC am weld penaethiaid adrannau y tu hwnt i'r rhai a drafodwyd eisoes yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau, ac yn sicr nid oedd am weld cysylltiadau anffurfiol rhwng staff S4C a staff cynhyrchu rhaglenni'r BBC. Credwyd y gallai trafodaethau o'r fath danseilio awdurdod y penaethiaid o fewn strwythur rheoli'r Gorfforaeth.[44] Trafodwyd teimladau tebyg mewn dogfennau mewnol a gylchredwyd ymysg rhai o uwch swyddogion y BBC, wrth iddynt ystyried sut i sicrhau fod y berthynas olygyddol rhwng staff y BBC a'u rheolwyr yn parhau'n glir, a heb ei ddrysu oherwydd mai ar gyfer S4C yr oedd y rhaglenni'n cael eu cynhyrchu.[45]

Cafwyd trafodaethau helaeth a manwl felly rhwng yr Awdurdod a'r Gorfforaeth yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 1981. Mynegwyd nifer o'r un meysydd trafod yn y ddogfen 'datganiad o fwriadau' a anfonwyd gan y BBC at S4C un mis ar ddeg yn ddiweddarach ym Mehefin 1982.[46] Nid oedd rheidrwydd statudol i'r BBC lunio dogfen a ddiffiniai ei berthynas gyda'r sianel newydd, er hynny ystyriwyd bod gwerth ffurfioli'r berthynas trwy osod canllawiau a fframwaith y gallai'r ddwy garfan gyfeirio ati pe cyfyd trafferthion yn y dyfodol. Yn y ddogfen ffurfiol hon cofnodwyd nifer o gymalau a oedd yn troedio yr un tir a'r trafodaethau gyda Geraint Stanley Jones, gyda'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng dogfennau rheoli'r ddau sefydliad yn codi ei ben unwaith yn rhagor. Ac yn ddifyr, mewn adlais o'r

[44] Ibid.
[45] Archif BBC Cymru, Caerdydd, Blwch 3573, Memo gan Michael Brooke, Ysgrifennydd Cymru y Cyngor Darlledu at y BBC Advisory Bodies, 4 Mai 1982.
[46] CS4C, *The Provision of Programes for the S4C Service, Statement of Intention by the BBC.* Mae'n ymddangos i'r ddogfen gael ei chwblhau ar 30 Mawrth 1982, ond bu oedi cyn ei hanfon at Gadeirydd S4C, Syr Goronwy Daniel, trwy gyfrwng llythyr gan Gadeirydd y BBC George Howard ar 9 Mehefin 1982; CS4C, Caerdydd, Llythyr oddi wrth George Howard at Syr Goronwy Daniel, 9 Mehefin 1982.

trafodaethau hynny, nodir hefyd yn y ddogfen bod ewyllys da yn allweddol er mwyn sicrhau perthynas ffyniannus rhwng y ddau sefydliad:

> It is clear that the development of a successful working relationship is dependent upon trust and good-will between both organisations. For its part, the BBC re-affirms its commitment to the success of S4C which it regards as essential to meet the needs of the audience in Wales and as the successful outcome of the case for a single channel joint service which the BBC advocated consistently throughout the 1970s.[47]

Er y cyfeiriadau hyn at roi ffydd yn yr ymddiriedaeth rhwng y ddau sefydliad, yn hwyrach yn yr un ddogfen fe welir y BBC yn nodi yn glir y rhaniad y disgwylid rhwng cyfrifoldebau'r ddau sefydliad. Nodir mai S4C fyddai â chyfrifoldeb dros ffurf a chydbwysedd gwasanaeth y bedwaredd sianel ond mai'r BBC fyddai'n cadw'r cyfrifoldeb golygyddol, technegol ac ariannol dros y rhaglenni a gynhyrchid ganddi ar gyfer y sianel newydd.[48] Er i'r ddogfen nodi'n glir bod disgwyl sefydlu prosesau trafod a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng y ddau sefydliad, gellid rhagweld tensiynau rhwng y ddwy ochr yn sgil y rhaniad yn y meysydd gorchwyl, yn enwedig o safbwynt cynnwys rhaglenni. Gallai'r BBC, mewn egwyddor, fynd ati i greu rhaglenni nad oedd yn plesio S4C o ran cynnwys, safonau technegol na'r buddsoddiad ariannol ynddynt, ond gan mai cyfrifoldeb y BBC oedd gofalu am yr agweddau hynny, ni fyddai gan S4C lawer o ddewis ond eu darlledu, neu wynebu bwlch yn yr amserlen. Gwelir cydnabod y posibilrwydd hwn o fewn y datganiad o fwriadau wrth iddi drafod sut i ddatrys unrhyw anghytundeb rhwng y ddwy ochr. Nodir yng nghymal un ar ddeg y ddogfen, y gallai swyddogion S4C fynnu copi o sgript neu gopi o raglen yr oeddent yn bryderus yn ei chylch, ond dim ond ar ôl iddi gael ei chwblhau.[49] Pe byddai ofnau ar ran S4C yn parhau wedi cyfle i ystyried copi neu sgript o raglen benodol, yna nodir y byddai'r BBC yn ystyried yn ddwys y newidiadau neu argymhellion a geid gan swyddogion y sianel. Er hynny, y BBC fyddai'n penderfynu'n derfynol pe dylid addasu'r rhaglen ai peidio, ac os fyddai'r

---

[47] CS4C, *The Provision of Programes for the S4C Service, Statement of Intention by the BBCI*, t. 1.
[48] Ibid.
[49] Mae'r ychwanegiad o'r manylyn hwn i'r datganiad, sef mai dim ond ar ôl i raglen gael ei chwblhau y gallai S4C fynnu copi neu sgript, yn adlais o'r hyn a drafodwyd eisoes ynglŷn ag ofnau'r BBC am y gadwyn awdurdod rhwng staff cynhyrchu rhaglenni a rheolwyr. Petai'r BBC yn galluogi mynediad i swyddogion S4C at sgript neu frysluniau, byddai hynny'n annog trafodaethau anffurfiol rhwng staff rhaglenni'r BBC a chomisiynwyr S4C.

anghytundeb yn parhau rhwng y ddwy ochr, hyd yn oed ar ôl trafodaethau ar y lefel uchaf rhwng yr Awdurdod a'r Cyngor Darlledu, yna byddai S4C yn rhydd i beidio â darlledu'r rhaglen honno. Ni fyddai rheidrwydd ar y BBC i ddarparu rhaglen i'w darlledu yn ei lle, er hynny.[50] Yr oedd mannau felly lle gallai'r berthynas rhwng S4C a'r BBC fynd ar chwâl, gan arwain at effaith andwyol ar yr amserlen a'r gwasanaeth a ddarperid ar gyfer y gynulleidfa. Rhoddai hawl S4C i wrthod rhaglen beth rheolaeth iddi dros y cynnwys a gynhyrchid ar ei chyfer gan y BBC, ond dadleuodd y Golygydd Rhaglenni, Euryn Ogwen Williams, ym 1983 nad oedd hi'n ymarferol gweithredu'r hawl honno, meddai: 'Mae'n wir fod gennym hawl i wrthod rhaglen ond cosmetig hollol yw hyn gan nad oes cyfrifoldeb o gwbl ar y BBC i roi rhaglen yn ei lle.'[51] Yn ystod y cyfnod prawf felly, ni wrthodwyd darlledu unrhyw raglen a gynhyrchwyd gan y BBC, ond bu tensiynau'n corddi oherwydd y diffyg rheolaeth a deimlai swyddogion S4C dros y cynnwys a gynhyrchid gan y Gorfforaeth.[52]

Gwyntyllir rhai manylion ymarferol yn y ddogfen hefyd wrth i'r BBC gadarnhau mai 10 awr yr wythnos ar gyfartaledd fyddai'n cael eu paratoi ar gyfer y sianel newydd. Byddai nifer yr oriau a ddarparwyd gan y BBC mewn wythnos felly yn amrywio yn ddibynnol ar yr amser o'r flwyddyn, gyda hyblygrwydd i ddarlledu, er enghraifft, 12 awr yr wythnos yn ystod y gaeaf, gyda'r cyfartaledd oddeutu 8 awr yr wythnos yn ystod yr haf pan fyddai gweithgareddau eraill yn mynd a bryd y gynulleidfa Gymraeg. Yr oedd yr hyblygrwydd hwn hefyd yn galluogi'r Gorfforaeth i addasu ei darpariaeth pan fyddai digwyddiadau cenedlaethol o bwys megis Eisteddfodau neu chwaraeon i'w darlledu.[53] At hynny, cytunwyd nad rhaglenni gwreiddiol a geid yn y 10 awr i gyd o reidrwydd, gan y byddai ailddarllediadau o raglenni Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm, a hynny ar lefelau tebyg i'r hyn a geid ar wasanaethau

---

[50] CS4C, *The Provision of Programes for the S4C Service, Statement of Intention by the BBC,* t. 3.
[51] CS4C, *Strategaeth Rhaglenni – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 1–2 Rhagfyr 1983, t. 2.
[52] Ceir trafodaeth bellach ar y tensiynau a ddatblygodd rhwng y BBC a S4C ym Mhennod 5, tt. 292–3.
[53] Ibid., t.2.

eraill y BBC.[54] Nodwyd hefyd fwriad y BBC i ddarparu rhychwant o raglenni a fyddai'n ymdebygu i'r amrywiaeth o raglenni a geid eisoes ar sianeli'r BBC, ac eithrio rhaglenni materion cyfoes.[55] Disgwylid felly y byddai'r BBC yn darparu rhaglenni drama, adloniant ysgafn, rhaglenni crefyddol, rhaglenni dogfen neu nodwedd, rhaglenni chwaraeon, rhaglenni plant, darllediadau allanol o ddigwyddiadau mawrion y genedl megis yr Eisteddfodau Cenedlaethol a'r Sioe Frenhinol a rhaglenni sgwrsio ar gyfer y sianel Gymraeg.[56]

Er gwaethaf natur gynhwysfawr y ddogfen hon, gwelir fod rhai materion yn parhau heb eu datrys, a hynny fwy na blwyddyn wedi'r trafodaethau cychwynnol rhwng y ddau sefydliad. Nodwyd yn y ddogfen fod angen creu datganiad ar wahân er mwyn cytuno ar bwy fyddai'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros raglenni'r BBC ar S4C. Cytunwyd mai y BBC fyddai'n cadw'r holl hawliau er mwyn manteisio ar y cynnwys yn fasnachol, ond yr oedd cwestiynau'n parhau ynglŷn â phwy fyddai â chyfrifoldeb petai unigolyn yn cwyno am enllib.[57] Yr oedd y materion hyn wedi eu trafod eisoes ym mis Gorffennaf 1981, gyda'r BBC mewn egwyddor yn credu y gallai ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol, ond dim ond ar gyfer darllediad cyntaf unrhyw raglen. Petai unrhyw raglen broblematig yn cael ei hailddarlledu gan S4C, heb ystyriaeth i'r cwynion yn ei herbyn, yna yr oedd hynny'n gwneud y mater yn llawer mwy cymhleth.[58] Mae'n amlwg y cafodd y mater hwn ei ystyried yn ddwys ac y bu'n fater cymhleth a dyrys i'w ddatrys, gan na chaed cadarnhad mai'r BBC fyddai'n cymryd y cyfrifoldeb cyfreithiol tan fis Ionawr 1983, fwy na deufis ar ôl i'r sianel ddechrau darlledu.[59]

---

[54] Ibid. Nid oes cofnod o'r union ganran o'r ddarpariaeth y byddai'n ailddangosiadau, ond fe geir cofnod y bwriedid ailddangos 10 awr o ddrama bob blwyddyn, sef cyfartaledd o chwarter awr yr wythnos. Mae'n rhaid cofio fod gan y BBC gatalog cyfoethog o raglenni ac yn ystod y flwyddyn gyntaf bwriedid ailddarlledu'r dramau *Y Twr* (Cynh. Merfyn Owen, 2 Mawrth 1980) a *Gwen Tomos* (Cynh. George P. Owen, 26 Hydref 1981). At hynny, byddai ailddarlledu rhai o raglenni'r BBC o'r dyddiau cyn bodolaeth S4C yn plethu'r gwasanaeth newydd i'r ddarpariaeth a fu eisoes, gan sicrhau y cai ei weld fel esblygiad naturiol o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y BBC, TWW ac HTV dros y blynyddoedd, yn hytrach na gwasanaeth cwbl newydd.

[55] Ibid. Fel rhan o'r cytundeb i ddarparu gwasanaeth newyddion S4C, yr oedd y BBC wedi cytuno i beidio a chynhyrchu rhaglenni materion cyfoes rheolaidd i'r sianel. Ceir rhagor ar hyn yn y drafodaeth ar y gwasanaeth newyddion yn ddiweddarach yn y bennod hon.

[56] Ibid.

[57] Ibid.

[58] CS4C, *Cofnodion Degfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 6.

[59] CS4C, *Cofnodion Deuddegfed Cyfarfod ar Hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 13 Ionawr 1983, t. 1.

Ar ddiwedd y ddogfen ceir datganiad sy'n dangos y ddeuoliaeth a oedd yn perthyn i'r berthynas rhwng y BBC a S4C. Ceid dyhead cryf i sicrhau llwyddiant a ffyniant y sianel newydd, ond yr oedd hefyd angen i'r Gorfforaeth ofalu am ei hanghenion a'i chyfrifoldebau ehangach ac felly bod angen iddi sicrhau rhaniad clir rhwng cyfrifoldebau'r ddau sefydliad ar ddechrau'r fenter fel hyn. Nodwyd felly:

> This letter of intention is of necessity, carefully worded and thus may seem negative in tone. It is, therefore, worth repeating the point made in paragraph 3: the BBC will do all it can to work in a friendly spirit with S4C to ensure the resounding success of this new adventure.[60]

Er gwaetha'r ffaith y bu rhai materion dyrys i'w hystyried a'u gwyntyllu ar ddechrau perthynas y ddau ddarlledwr, mae'n rhaid nodi, o'u cymharu â thrafodaethau S4C â'r darlledwr Cymreig arall, nodweddir y trafodaethau hyn gan eu hwylysdeb a'r ewyllys da amlwg ar y ddwy ochr. Gellid dadlau, gan nad oedd rheidrwydd trafod arian, ni lyffetheiriwyd y berthynas gan yr ystyriaethau dyrys hynny fu'n bla yn nhrafodaethau S4C â HTV. Er hynny, dim ond wedi i'r BBC ddechrau cynhyrchu a S4C ddechrau darlledu fyddai gwir natur y berthynas yn dod yn hysbys, wrth i'r ddwy ochr ymgyfarwyddo â'u rôl yn y berthynas.

*S4C ac HTV*

Yn wahanol i'r berthynas gymwynasgar a gaed rhwng S4C a'r BBC, bu'r berthynas a ffurfiwyd rhwng S4C ac HTV yn dra gwahanol. Yn y Ddeddf Ddarlledu dim ond un paragraff oedd yn nodi ffiniau perthynas HTV gyda S4C ac yn gosod canllawiau i'w trafodaethau:

> The contract between the IBA and the TV programme contractor whose duty it is to provide programmes for broadcasting on ITV for reception in Wales shall contain all such provisions as the IBA think necessary or expedient to ensure that, while the IBA are providing both ITV and the Fourth Channel in Wales, the programme contractor is under a duty to supply to the Welsh Authority (on commercial terms) a reasonable proportion of the television programmes in Welsh which the Welsh Authority need ... and to do so in a way which meets the reasonable requirements of the Welsh Authority.[61]

---

[60] CS4C, *The Provision of Programes for the S4C Service, Statement of Intention by the BBC,* t. 3.
[61] *Broadcasting Act 1980, Chapter 64* (London, HMSO, 1980) t. 9.

Gellir dadlau nad yw'r paragraff byr hwn yn rhoi llawer o ganllawiau i'r ddwy garfan. Mewn gwirionedd fe geir ynddo nifer o ymadroddion amwys, er enghraifft 'reasonable needs', y gellid eu dehongli mewn sawl ffordd. Yr ymadrodd mwyaf amwys yn y paragraff cyfan yw 'commercial terms', a bu'r geiriau hyn yn achos sawl dadl ffyrnig wrth i'r gwaith o weithredu'r bartneriaeth fwrw yn ei flaen. Er gwaethaf amwysedd nifer o'r ymadroddion fe geir cadarnhad o rai amodau a fyddai'n diffinio'r berthynas rhwng HTV a S4C. Er enghraifft, nodir yn y Ddeddf bod yn rhaid i HTV ddarparu rhaglenni i'w darlledu ar y sianel Gymraeg, y byddai'n rhaid i'r sianel Gymraeg dalu am y rhaglenni hynny, ac y byddai'r ADA yn sicrhau bod cynnal y ddarpariaeth hon yn rhan o'i gytundeb â HTV yn ogystal â bod yn gytundeb ffurfiol rhwng y sianel Gymraeg ac HTV.

Un o'r achlysuron cyntaf lle gellid dechrau ystyried sut y byddai HTV yn gweithio gyda'r sianel newydd oedd yn ystod gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol ym 1980–1. Un o'r pynciau y bu'r Pwyllgor yn ei drafod yn frwd, a maes a fyddai'n diffinio perthynas S4C â HTV yn y dyfodol, oedd faint o arian y byddai ei angen i redeg y sianel newydd. Fe geir yr argraff yn nhrafodaethau'r PDFC nad oedd y sefydliadau darlledu wedi ystyried yn llawn y cyllid y byddid ei angen er mwyn sefydlu a rhedeg sianel newydd, yn enwedig sianel lle yr oedd disgwyl iddi, yn ôl deddf gwlad i ddarparu rhaglenni a oedd yn anelu at y safonau uchaf posibl o ran cynnwys a safon ei rhaglenni. Dywed y Ddeddf Ddarlledu: 'It shall be the duty of the Welsh Authority . . . to ensure that the programmes provided by them maintain a high general standard in all respects, and in particular in respect of their content and quality . . .'[62] Oherwydd y canllaw hwn felly nid oedd hi'n rhesymegol ystyried y gellid gweithredu'r sianel newydd ar gyllideb a oedd yn sylweddol llai na'r darlledwyr eraill ar gyfartaledd. Er hynny, yn ystod trafodaethau cyntaf y Pwyllgor Dethol gyda HTV nododd y Dr Roger Thomas, Aelod Seneddol Caerfyrddin, fod tystiolaeth wedi dod ger ei fron a oedd yn awgrymu y gellid rhedeg y sianel ar £1.5 miliwn y flwyddyn:

> 243. [Dr Roger Thomas] We have had evidence from one source – I will not reveal the source – that it is possible to run this channel for

[62] Ibid., t. 8.

22 hours per week for the whole year on £1½ million. Do you think that is feasible or not?

[Mr Wordley] One and a half million pounds per hour. I would not argue too much with.

244. [Dr Roger Thomas] Not £1½ million per year? [63]

O'r dystiolaeth hon mae'n amlwg nad oedd y Pwyllgor Dethol wedi llawn ystyried costau'r sianel, er y gellid awgrymu mai dyma oedd pwrpas y PDFC, sef ceisio creu darlun cychwynnol o gostau darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg bod y ffigurau wedi peri syndod wrth i Gadeirydd y pwyllgor ar ôl clywed y datganiad uchod ddweud: 'Listening to those figures, I am getting a bit terrified as to what the proportion [of the Fourth Channel subscription] is likely to be if you are going to get a full Wales Fourth Channel?'[64]

Yn nhrafodaethau'r PDFC fe awgrymwyd sawl ffigwr gan sawl carfan wahanol o bobl. Ar ddechrau'r trafodaethau cynigiodd yr ADA mai rhwng £7 a £9 miliwn fyddai cyfran y sianel Gymraeg o danysgrifiad y bedwaredd sianel,[65] ac, yn hwyrach yn y trafodaethau fe gynyddwyd hynny i £10.3 miliwn.[66] Mae'n amlwg nad oedd unrhyw drafodaethau agored wedi bod rhwng yr ADA a'i ddarlledwr yng Nghymru ynglŷn â faint fyddai costau tebygol sianel newydd, gan y nododd cynrychiolwyr HTV, yn eu tystiolaeth i'r PDFC, y byddai angen i HTV dderbyn £15 miliwn y flwyddyn gan y sianel newydd er mwyn darparu 10 awr yr wythnos o raglenni a hynny ar lun yr amrywiaeth presennol o raglenni a ddarperid. Darpariaeth a oedd yn brin o rai genres angenrheidiol fel dramâu ac adloniant ysgafn. O ystyried y byddai disgwyl i'r sianel newydd gomisiynu o leiaf dwy awr yr wythnos o du ffynonellau eraill, megis cwmnïau annibynnol, mae'r ffigurau o £7 neu £9 miliwn ar gyfer darparu 12 awr o raglenni a chostau gweinyddol ymhell iawn o'r marc. Gellid awgrymu felly un ai bod ffigurau'r Awdurdod Darlledu ymhell o fod yn addas ar gyfer y ddarpariaeth a oedd ei angen ar sianel Gymraeg neu fod HTV yn bod yn

[63] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 102.
[64] Ibid., t. 103.
[65] Ibid., t. 36.
[66] Ibid., t. 719. Gellid priodoli'r cynnydd hwn i'r ffaith i'r drafodaeth symud o drafod costau'r bedwaredd sianel yn nhermau prisiau 1979 i'w trafod yn ôl prisiau arfaethedig 1982, a gwelwyd cynyddu'r swm a drafodwyd ar gyfer y bedwaredd sianel yn genedlaethol o £70 miliwn i £103 miliwn. Gan ddilyn y patrwm a osodwyd gan yr ADA yn ei amcangyfrifon, rhagwelwyd gan HTV yn ei ohebiaeth â'r PDFC mai 10 y cant o'r cyfanswm hwnnw y derbyniai S4C sef £10.3 miliwn.

drachwantus ac yn gweld ffynhonnell arian y gellid manteisio arni er mwyn parhau gyda'i gynlluniau i adeiladu stiwdio newydd yng Nghroes Cwrlwys. Dengys y trafodaethau cyllidol a gaed rhwng yr ADA a S4C bod hygrededd i'r ddau ddehongliad yma. Yn sicr yr oedd amcangyfrifon gwreiddiol yr ADA yn dra isel o ystyried costau cynhyrchu'r cyfnod, a hynny o bosibl oherwydd y pwysau a osodwyd arno gan gwmnïau rhanbarthol ITV i geisio cadw costau'r bedwaredd sianel Gymraeg yn isel, gan geisio sicrhau nad oedd y baich ariannol arnynt yn llethol. Er hynny yr oedd y costau a gyflwynwyd gan HTV yn uwch na'r cyfartaledd arferol a ddisgwylid gan gwmni o rwydwaith ITV. Gellir awgrymu hefyd, fel cwmni masnachol, bod brwydro dros arian sylweddol i'r sianel yn dacteg hunan-fuddiannol ar ran HTV a olygai y gellid sicrhau telerau ariannol ffafriol wrth iddo drafod costau rhaglenni gyda'r sianel newydd. Pe llwyddid i sicrhau telerau ffafriol byddai arian digonol ar gael i adeiladu a chynnal y stiwdios newydd drudfawr a fynnid gan wneud elw digonol. Gellid gosod y bai ar y ddwy ochr felly am y dryswch cychwynnol am wir gost y bedwaredd sianel Gymraeg.[67]

Tua therfyn trafodaethau'r PDFC, cafwyd ffigurau pellach gan HTV a awgrymai bod angen hyd yn oed yn fwy na £1.5 miliwn yr awr ar y sianel newydd. Cyflwynwyd tystiolaeth gan y darlledwr annibynnol a oedd yn nodi bod cyllideb o £2.3 miliwn yr awr ar gael i Channel Four ei wario ar raglenni.[68] Â'r cwmni ymlaen i nodi, os mai dyna'r gyllideb a oedd ar gael ar gyfer rhaglenni Saesneg y bedwaredd sianel yna dylid anelu at hynny yn y Gymraeg hefyd, gan geisio sicrhau cyllideb o leiaf £27.6 miliwn ar gyfer cynhyrchu rhaglenni yn unig. Nodwyd:

> Welsh-language programmes cost no less to produce than English-language programmes. It follows that the funds required by WFCA [Welsh Fourth Channel Authority] to enable it to provide a service comparable in quality to that of 4CUK must logically be in excess of the £2.3 million per annum for each weekly hour to be purchased . . . the total funds should therefore exceed £30 million unless a second-class service unable to properly compete for viewers is to result.[69]

[67] Caed trafodaeth fanylach o drafodaethau cyllidol S4C gyda'r ADA ym Mhennod 2, tt. 99–102.
[68] Ibid., t. 720.
[69] Ibid.

Ceir yr argraff gan y datganiad hwn nad ceisio troi'r dŵr i'w felin ei hun yr oedd HTV trwy frwydro am arian teg i'r sianel, ond yn hytrach oherwydd ei fod yn credu'n gryf y dylai rhaglenni Cymraeg gael eu creu ar yr un telerau ariannol a rhaglenni Saesneg, os oeddent i lwyddo a denu a chadw gwylwyr. Diau mai cyfuniad o'r ddau safbwynt a oedd yn cymell y cwmni i frwydro dros amodau ariannol teg i'r sianel. Beth bynnag fo'r farn ynglŷn â chymhelliad HTV, un peth y gellid ei nodi'n ddigon cadarn yw bod tystiolaeth HTV i'r PDFC wedi sicrhau bod ffigurau rhesymol a theg wedi eu hystyried yn y trafodaethau am anghenion ariannol y sianel. Yn y gorchwyl hwnnw llwyddodd HTV i ymwrthod â'r pwysau a ddaeth o'i gyd-gwmnïau rhwydwaith ITV, a oedd yn argyhoeddedig na ellid dod o hyd i'r arian angenrheidiol er mwyn cynnal sianel o raglenni safonol Cymraeg. Yn y pendraw, cytunodd S4C a'r ADA ar ffigwr o £20 miliwn er mwyn talu am gostau sefydlu'r sianel a chynnal gwasanaeth o raglenni am y pum mis cyntaf hyd at fis Mawrth 1983.[70] Daw'n gwbl amlwg felly, y bu tystiolaeth HTV i'r PDFC yn allweddol wrth geisio arian teg a theilwng i'r sianel a fyddai'n ei galluogi i fynd ati i greu rhaglenni safonol a deniadol a allai gystadlu ag arlwy'r darlledwyr eraill ar delerau cymharol gyfartal.

Yn dilyn sicrhau arian teilwng gan yr ADA gallai S4C fynd ati i geisio dod i gytundeb gyda darparwyr y byddai'n rhaid talu am eu rhaglenni. Profodd y trafodaethau ar y cytundeb rhaglenni rhwng HTV a S4C yn drafferthus a hirfaith iawn. Bu'n amlwg o'r cychwyn cyntaf mai costau oedd un o brif feini tramgwydd y trafodaethau, a bu hyn yn pwyso'n drwm ar feddyliau aelodau Awdurdod S4C cyn iddynt gyfarfod yn ffurfiol gyda HTV, gan iddynt ddatgan yn eu cyfarfod swyddogol cyntaf yng Ngregynog ar 31 Ionawr 1981: '. . . pa ataliad allai fod ar y cwmni [HTV] am godi costau afresymol.'[71] Byddai'r ystyriaethau hynny yn flaenllaw ym meddyliau aelodau'r Awdurdod wrth iddynt gwrdd â chynrychiolwyr HTV am y tro cyntaf y penwythnos hwnnw.

Mae cofnodion y cyfarfod cyntaf a geid rhwng HTV a'r Awdurdod yn rhai dadlennol gan roi cipolwg i'r darllenydd o'r trafferthion fyddai'n wynebu'r ddwy ochr a natur gymhleth y berthynas fyddai'n datblygu rhyngddynt. Sail y cyfarfod oedd

---

[70] *Sianel Pedwar Cymru – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 1981–82,* t. 6.

[71] CPGTH, *Cofnodion Ail Sesiwn Cyfarfod Cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 31 Ionawr 1981 t. 3. Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 3, yn nrafft cyntaf y cofnodion yn unig y gwelir y frawddeg hon, gan iddi ei hepgor o'r drafft terfynol.

memorandwm o gwestiynau penodol a anfonwyd o flaen llaw at yr Awdurdod gan Ron Wordley, Rheolwr-Gyfarwyddwr HTV.[72] O gofio mai yng nghyfarfod cyntaf ffurfiol yr Awdurdod y cynhaliwyd y trafodaethau agoriadol hyn, mae'n rhaid nodi bod rhai o'r cwestiynau a gyflwynwyd gan HTV yn rhai amhosibl eu hateb, gan ei bod hi'n llawer rhy gynnar i'r Awdurdod wneud penderfyniadau tyngedfennol o'r fath. Cwestiynau megis, a fyddai S4C yn dymuno i HTV barhau i ddarparu tair awr a hanner o raglenni plant i'r sianel newydd, a pha newidiadau yr oedd y sianel yn dymuno eu gweld yn yr amrywiaeth o raglenni a gynhyrchid eisoes gan y cwmni.[73] Yr oedd y rhain yn gwestiynau anodd eu trafod mewn cyfarfod o'r fath, a hynny oherwydd eu bod yn mynd i fanylion ynglŷn â rhaglenni ac amserlen nad oedd wedi eu hystyried eto gan yr Awdurdod. Petai'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i HTV heb ystyried y goblygiadau yn llawn, byddai wedi clymu'r sianel a'i staff i benderfyniadau y byddai'n anodd eu gwyrdroi. Rhaid oedd rhoi ystyriaeth ddyfnach i anghenion y gwasanaeth a chryfderau a rhinweddau'r darparwyr i gyd, a bu aelodau'r Awdurdod yn ddigon craff i beidio â rhoi atebion fyddai'n ymrwymo'r sianel yn rhy gynnar i benderfyniadau y gellid eu difaru yn hwyrach yn y broses gynllunio. Gellid awgrymu fod hon yn strategaeth a ddefnyddid gan HTV er mwyn ceisio camarwain yr Awdurdod, neu o safbwynt arall gellid dadlau nad bod yn gyfrwys oedd bwriad HTV ond yn hytrach ei fod yn mynnu sylw a thrafodaeth ar faterion a oedd yn hollbwysig i'r cwmni ac a fyddai'n ei alluogi i baratoi'n effeithiol ar gyfer dyfodiad y sianel newydd.

Gellid trafod HTV yng ngoleuni ei ddelwedd gyhoeddus yn y cyfnod hwn fel cwmni hunangar, ond mae atebion y cwmni yn ystod y cyfarfod yn cynnig darlun ychydig mwy cymhleth. Mae'r ymateb a geir gan Ron Wordley i'r trafodaethau ynglŷn â'r adnoddau yr oedd eu hangen ar y sianel newydd yn awgrymu bod cynrychiolwyr HTV yn ystyried yr hyn fyddai orau ar gyfer y gwasanaeth newydd hefyd yn hytrach na'r budd i'w cwmni yn unig. Y dewisiadau a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer

[72] Fe welir bod anfon memoranda yn rhan o batrwm gwaith a natur Rheolwr-Gyfarwyddwr HTV o'r disgrifiad canlynol a geir ohono gan un o'i gydweithwyr Geraint Talfan Davies: 'As befitted a Royal Artillery officer memos arrived like artillery shells, either sharp, numbered paragraphs or handwritten in red ink…', Geraint Talfan Davies, *At Arms Length,* (Bridgend, Seren, 2008), t. 65.

[73] CPGTH, *Minutes of the Meeting with HTV during the First Meeting of the Sianel Pedwar Cymru Authority*, t. 3. Yn dilyn ymgyrch Rhaglenni i'n Plant ym 1977-8, buddsoddwyd rhagor o arian mewn cynhyrchu rhaglenni plant Cymraeg gan y BBC ac HTV. Erbyn 1980 felly, ar gyfartaledd darlledai HTV dair awr yr wythnos o raglenni ar gyfer plant yn Gymraeg. Caed trafodaeth bellach am ymgyrch Rhaglenni i'n Plant ym mhennod 1, tt. 55–6.

darparu adnoddau'r gwasanaeth newydd oedd sefydlu adnoddau annibynnol ar gyfer S4C yn unig, cydweithio gyda HTV ar y datblygiadau yng Nghroes Cwrlwys neu gyda'r BBC yn Llandaf gan rannu gofod, neu lunio system gydweithredol rhwng y BBC ac HTV i ddarlledu'r cynnwys heb yr angen am adnoddau arbennig i S4C o gwbl.[74] Er bod cyfle posibl yma i sicrhau arian ychwanegol ar gyfer datblygiadau HTV yng Nghroes Cwrlwys, nid yw'r cofnodion yn dangos i gynrychiolwyr y cwmni neidio at y cyfle. Yn wir, yr hyn a nodir yw bod Ron Wordley wedi mynegi mai cael adnoddau annibynnol fyddai orau ar gyfer y gwasanaeth newydd, er y byddai hynny, efallai, yn fwy trafferthus ac yn ddrutach oherwydd y rheidrwydd i drefnu a rhentu cylchedau sain a delwedd rhwng safle gwasanaeth cyflwyno S4C a Chanolfan Gyfnewid Genedlaethol British Telecom (British Telecom National Switching Centre) yng Nghaerdydd.[75] O'r sylwadau hyn felly, ceir darlun o agwedd anghyson ar ran HTV tuag at ddatblygiadau newydd y bedwaredd sianel. Ar yr un llaw yr oedd y cwmni yn awyddus i ddarparu cefnogaeth i'r sianel newydd, ond ar y llaw arall ceid eiddgarwch i sicrhau'r budd gorau ar gyfer y cwmni a'i gyfranddalwyr.

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf hwn, gwahoddwyd HTV i ddarparu amcan o gostau ar gyfer gwasanaeth wyth, naw a deg awr, gan bwysleisio'r tebygolrwydd mai adnoddau prin fyddai gan yr Awdurdod.[76] Ond ceir yr argraff gan yr ymateb a gaed nad oedd HTV wedi cymryd sylw o'r amodau hyn, gan iddo ddychwelyd at Awdurdod Sianel Pedwar Cymru yn ei bedwerydd cyfarfod gyda chynigion o gostau llawer uwch na'r hyn a welwyd mewn unrhyw drafodaethau blaenorol. Nodwyd cost fesul awr o fwy na hanner can mil o bunnoedd, a hynny heb gynnwys unrhyw gyfradd o elw i HTV.[77] O ystyried maint y costau yr oedd y cwmni wedi eu nodi yn ystod y trafodaethau gerbron y Pwyllgor Dethol, yr oedd hyn yn naid aruthrol. Er hynny nid oedd HTV yn cytuno fod y costau newydd a gyflwynwyd ganddynt yn

---

[74] Caed trafodaeth ar y dewisiadau a wynebai'r sianel ynglŷn â lleoliad technegol y gwasanaeth ym Mhennod 2, tt. 94–5.
[75] Ibid., t. 1. Byddai rhannu cyfleusterau gyda HTV yng Nghroes Cwrlwys wedi sicrhau arbed y costau a'r trefniadau hyn gan fod darpar gytundeb wedi ei drafod eisoes rhwng HTV â'r Swyddfa Bost Gyffredinol ar gyfer y cylchedau a'r cytundebau anghenrheidiol ar gyfer y datblygiad newydd ar gyrion Caerdydd.
[76] CPGTH, *Cofnodion Ail Gyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14–15 Chwefror 1981, t. 2.
[77] CPGTH, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 14–15 Mawrth 1981, t. 6.

gwbl wahanol i'r ffigurau a gynigwyd eisoes, gan i Ron Wordley ddatgan yn ei gyfarfod gyda'r Awdurdod:

> . . . bod HTV wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar sail costau o £1.5m yr awr (prisiau 1979 – 80 a'r (sic) amrywiaeth presennol). Byddai 10 awr o raglenni yn costu £15m. O ychwanegu 18% chwyddiant, rhentau a chyfrandaliadau (sic) i'r IBA a newid yn yr amrywiaeth, roedd y gost yn cynyddu i £27m y flwyddyn am 10 awr - £2.7m yr awr. Roedd hyn yn gwbl gyson a'u ffigurau a'u tystiolaeth.[78]

Mae sylwadau Ron Wordley yn codi sawl pwynt y dylid rhoi ystyriaeth lawn iddynt. Yr oedd sefyllfa economaidd Prydain yn y cyfnod yn un cyfnewidiol gyda chyfnod o chwyddiant uchel, ac o ganlyniad gallai costau cynhyrchu rhaglenni fod yn hollol wahanol o un flwyddyn i'r llall, gan beri bod gagendor mawr rhwng y ffigurau a gyflwynwyd. At hynny, nododd HTV yn yr un cyfarfod fod y dystiolaeth a ddarparwyd i'r PDFC yn cyfeirio at gost cynhyrchu'r rhaglenni a ddarlledwyd ganddo trwy gyfrwng y Gymraeg ar y pryd.[79] Ond, wrth ddarparu rhaglenni ar gyfer S4C, honnid y byddai'n rhaid cryfhau'r ddarpariaeth trwy gyflwyno rhaglenni a oedd yn fwy costus i'w cynhyrchu megis dramâu ac adloniant ysgafn. Byddai ychwanegu'r *genres* hyn i'r pair yn gwthio pris cyfartaledd rhaglenni fesul awr i fyny.

Fe geir awgrym hefyd yn y dyfyniad uchod fod HTV yn cynnwys nifer o gostau ychwanegol ar ben costau cynhyrchu'r rhaglenni megis rhent a thaliadau i'r ADA. Bu rhai o aelodau Awdurdod S4C yn amheus a ddylai S4C ysgwyddo rhan o gostau treth llywodraeth a chanolfan ddarlledu newydd HTV, ac fe fynegwyd eu pryderon '. . . bod costau datblygu'r Cwmni yn cael eu gosod ar S4C a'r rhaglenni Cymraeg'.[80] Er i aelodau staff HTV fynnu mai dim ond y canran perthnasol o'r costau oedd yn cael eu cynnwys, yr oedd hedyn o amheuaeth wedi ei blannu ym meddyliau'r Awdurdod. Er gwaetha'r holl feini tramgwydd tebygol a fynegwyd yn y cyfarfod hwn, yr oedd HTV yn awyddus i gyd-weld ar gytundeb ffurfiol ym mis Mehefin 1981, ymhen tri mis, er mwyn i'r cwmni fwrw ymlaen â'r gwaith paratoadol

[78] Ibid.
[79] Ibid., t. 4.
[80] Ibid., t. 5.

angenrheidiol. Ond, mewn gwirionedd, rhygnodd y trafodaethau ymlaen rhyngddynt am fwy na blwyddyn arall yn dilyn y cyfarfod hwnnw ym mis Mawrth 1981.

Un o gamau cyntaf Awdurdod S4C yn dilyn y cyfarfod gyda HTV ym Mawrth 1981 oedd trafod y costau a gyflwynwyd gan HTV gyda swyddogion o'r Awdurdod Darlledu Annibynnol. Cadarnhawyd gan yr ADA rai o amheuon yr aelodau bod rhai o'r costau gweinyddol ac ychwanegol a nodwyd yn amcangyfrifon HTV ychydig yn uchel o'u cymharu â chostau cwmnïau annibynnol eraill.[81] Penderfynwyd yn Ebrill 1981 felly i ohirio trafodaethau gydag HTV, a hynny gan eu bod yn mynd yn fwyfwy cymhleth a dyrys. Mynegwyd amheuaeth hefyd y gallai'r trafodaethau brofi'n amherthnasol gan nad oedd S4C yn sicr pa amrywiaeth o raglenni y byddai disgwyl i HTV eu cynhyrchu yn y pendraw, a nodwyd hefyd y byddai'r tâl y gellid ei gynnig i HTV yn ddibynnol iawn ar yr arian fyddai ar gael gan yr ADA.[82] Mae'n rhaid cofio yn ystod y cyfnod hwn, mai dim ond newydd benodi Owen Edwards fel Cyfarwyddwr yr oedd yr Awdurdod ac nad oedd y Golygydd Rhaglenni, Euryn Ogwen Williams, wedi ei gyfweld eto.[83] Gellid awgrymu felly bod yr Awdurdod yn cynnal y trafodaethau yn rhy gynnar, heb feddu ar yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn cael trafodaeth adeiladol gyda HTV am ddarparu rhaglenni. Ond ar y llaw arall, gyda phwysau i roi amlinelliad o gostau i'r ADA ar fyrder, doedd gan aelodau'r Awdurdod ddim dewis ond ymwneud â'r gwaith gyda rhai manylion yn parhau yn niwlog.

Er bod oedi er mwyn ystyried amrywiaeth y rhaglenni yn gwneud synnwyr i S4C, yr oedd yn creu trafferthion dybryd i HTV gan y rhwystrwyd y cwmni rhag dechrau ar y gwaith o adeiladu ei stiwdios newydd yng Nghroes Cwrlwys. Fel y noda Huw Davies, Pennaeth Rhaglenni HTV mewn llythyr at Euryn Ogwen Williams, wyth niwrnod ar ôl iddo ddechrau ei swydd fel Golygydd Rhaglenni. 'As you are aware, it is impossible for us to proceed with essential new production facilities until the arrangements with S4C have been concluded.'[84] Er gwaethaf yr hyn a welai HTV fel

[81] CS4C, *Cofnodion Pumed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 4–5 Ebrill 1981, t. 2.
[82] CS4C, *Cofnodion Pumed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[83] Penodwyd Owen Edwards wedi cyfweliadau ar 6 Mawrth 1981, ac fe ddechreuodd ei swydd ar 6 Ebrill 1981. *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t.1. Penodwyd Euryn Ogwen Williams wedi cyfweliadau ar 9 Mai 1981, a dechreuodd ei swydd ar ddechrau Mehefin. CS4C, *Cofnodion Seithfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9–10 Mai 1981, t. 2.
[84] CS4C, Llythyr oddi wrth Huw Davies at Euryn Ogwen Williams, 8 Mehefin 1981.

oedi, yn ei ymateb i Huw Davies ar 12 Mehefin nododd Euryn Ogwen Williams rai enghreifftiau o'r mathau o raglenni yr hoffai ef weld HTV yn ymgymryd â hwy.[85] Awgrymodd y dylai HTV gynhyrchu rhaglen a fyddai'n fforwm i drafod a chlywed barn y gynulleidfa am raglenni'r sianel, rhaglen yr oedd gan Williams ddisgwyliadau uchel ar ei chyfer wrth iddo nodi: '. . . it should sparkle and provide talking points for the following day.'[86] Nododd hefyd y gallai'r rhaglen boblogaidd *Siôn a Siân* gael ei throsglwyddo i S4C ar ôl cyfnod o hoe er mwyn sicrhau na fyddai'r gynulleidfa'n diflasu arni, ac fe noda ei fod am weld newid pwyslais yn y rhaglenni plant a gynhyrchwyd fel y gellid darparu rhaglen ar gyfer slot yn gynnar gyda'r hwyr.[87] Er yr amlinelliad hwn o'r mathau o raglenni y gallai HTV fwrw ymlaen i'w paratoi, fe wrthododd Williams rhai syniadau hefyd gyda chomedi sefyllfa wythnosol yn cael ei ystyried yn rhy beryglus, er y credid y dylid ystyried creu ambell beilot ar gyfer cyfresi byrrach er mwyn arbrofi heb ymrwymiad cadarn.[88] Un o'r rhesymau y tu ôl i betruswch Euryn Ogwen Williams i ymrwymo i gomediau sefyllfa ac yn wir i gomisiynu dramâu awr ac opera sebon newydd gan HTV oedd ei bryder ynglŷn â'r diffyg actorion cymwys a allai gynnal rhaglenni o'r fath, yn enwedig ym mlwyddyn gyntaf y sianel.[89] Teimlai y byddai comisiynu a chynhyrchu dramâu hanner awr yn ddewis llawer doethach, gan eu defnyddio fel arf i ddatblygu talent angenrheidiol ym meysydd ysgrifennu, perfformio a chyfarwyddo yng nghyfnod cynnar y sianel.[90] Er i rai syniadau gael eu cadarnhau ac eraill eu gwrthod yn yr ohebiaeth hon, nid oedd Golygydd Rhaglenni newydd S4C am roi syniad cadarn i HTV o'r amrywiaeth lawn o raglenni y dymunai ei dderbyn gan y cwmni, a hynny oherwydd ei fod yn dymuno aros i glywed pa raglenni a ddeuai gan y BBC a'r cynhyrchwyr annibynnol cyn gwneud penderfyniad terfynol ar yr hyn fyddai'n addas i'w ychwanegu at y gwasanaeth:

---

[85] CS4C, Llythyr oddi wrth Euryn Ogwen Williams at Huw Davies, 12 Mehefin 1981.
[86] Ibid., t. 1. *Arolwg* oedd ffrwyth yr egin syniad hwn, er i'r rhaglen esblygu'n rhaglen drafod gelfyddydol erbyn 1985, ei bwriad gwreiddiol oedd trafod rhaglenni'r sianel. CS4C, *Cofnodion nawfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 12–13 Rhagfyr 1985, t. 4.
[87] CS4C, Llythyr oddi wrth Euryn Ogwen Williams at Huw Davies, 12 Mehefin 1981.
[88] I'r perwyl hwnnw felly, yn y cytundeb terfynol mynegir y bwriad i gynhyrchu un gyfres gomedi sefyllfa chwe pennod bob blwyddyn hyd agorid canolfan newydd HTV yng Nghroes Cwrlwys. Bryd hynny bwriedid cynhyrchu dwy gyfres gomedi sefyllfa fyddai a phedair pennod ar hugain yr un bob blwyddyn. Argyhoeddwyd Euryn Ogwen Williams felly y byddai HTV wedi magu digon o hyder ac arbenigedd erbyn 1984 i ymwneud â'r *genre* yn llwyddiannus. CS4C, *HTV Limited and The Welsh Fourth Channel Authority – Sianel Pedwar Cymru – Programme Sales Agreement*, 27 Mai 1982, Schedule 1B ac 1C.
[89] Cyfeiriwyd at drafodaethau S4C â Equity ym mhennod 2, tt. 115–17.
[90] CS4C, Llythyr oddi wrth Euryn Ogwen Williams at Huw Davies, 12 Mehefin 1981, t.3.

> You will notice that I have left out some of the categories you proposed . . . I wish to wait until I have a clearer picture of what the BBC are offering and the balance of the Independent's proposals before making a commitment on your mix.[91]

Cafwyd cyfnod o oedi felly wrth i gwmnïau aros am wybodaeth neu benderfyniad gan gwmni arall cyn gallu symud ymlaen a gwneud unrhyw benderfyniadau cadarn. Gellid dadlau nad oedd hi'n deg i S4C ddefnyddio rhaglenni HTV fel ffordd o lenwi'r bylchau rhwng y rhaglenni y byddai'r BBC a'r cwmnïau annibynnol yn eu darparu. Ond mewn gwirionedd dyna oedd yr unig ateb rhesymol i S4C, gan fod rhaglenni'r BBC yn dod yn rhad ac am ddim, ac fel y trafodwyd eisoes, yr oedd gan S4C lai o reolaeth drostynt. At hynny, doedd dim sicrwydd y byddai'r cynhyrchwyr annibynnol yn gallu cynhyrchu amrywiaeth eang iawn o raglenni, ac felly byddai S4C wedi mentro gormod trwy gymryd yn ganiataol y gallai'r cynhyrchwyr annibynnol ddiwallu'r bylchau rhwng rhaglenni'r BBC ac HTV. O ystyried y sefyllfa o safbwynt gwahanol gellid honni bod y strategaeth yn dystiolaeth o'r ffydd a geid ar ran S4C yn HTV a gallu a phrofiad y cwmni o droi ei law at unrhyw *genres* ac felly i ddarparu rhaglenni a fyddai'n gweithredu fel glud er mwyn uno'r arlwy rhaglenni S4C.

Nid ar yr ochr raglenni yn unig y bu oedi yn ystod y cyfnod hwn, fe gafwyd oedi ar faterion ariannol yn ogystal, a oedd, mewn gwirionedd, yn cael effaith andwyol ar unrhyw gynnydd o fewn yr uned raglenni. Yng Ngorffennaf, mynegwyd rhwystredigaeth y swyddogion fod HTV yn araf yn ymateb gyda syniadau am raglenni, ac amheuwyd bod y cwmni masnachol yn aros i S4C gadarnhau faint o arian fyddai ar gael ar gyfer eu cynhyrchu. Ond mewn gwirionedd yr oedd hi'n amhosibl i S4C gadarnhau unrhyw symiau o arian gan ei bod yn aros i'r ADA gadarnhau faint o arian fyddai ar gael i redeg y sianel. Ar ben hynny, nid oedd hi'n bosibl i'r ADA gadarnhau incwm S4C gan ei fod yn parhau i aros am benderfyniad Adran Ddarlledu'r Swyddfa Gartref ar natur a chyfradd y gostyngiad treth a chai ei osod ar y cwmnïau annibynnol am ariannu'r Channel 4 a S4C.[92]

---

[91] Ibid.

[92] CS4C, *IBA Meeting with Welsh Fourth Channel Authority*, 1 Mehefin 1981, t. 2. Caed dadansoddiad o drafodaethau Awdurdod S4C â'r ADA ar faterion ariannol ym mhennod 2, tt. 99–104.

Erbyn mis Medi 1981, yr oedd HTV wedi llunio drafft cyntaf o gytundeb tebygol ar gyfer y rhaglenni. Ond pan drafodwyd y drafft hwnnw yr oedd tri phwynt sylfaenol lle y ceid anghytuno. Yr agweddau mwyaf problematig oedd na fyddai gan S4C reolaeth dros safon y rhaglenni a ddarperid, bod y cytundeb yn parhau heb adolygiad hyd 1989 a bod cost y rhaglenni yn llawer uwch na'r arian a oedd yn debygol o fod ar gael i'w wario ar raglenni.[93] Yn dilyn derbyn y drafft hwn o'r cytundeb penderfynodd yr Awdurdod benodi ymgynghorwyr arbenigol o faes rheoli darlledu i roi cymorth iddo wrth drafod amodau'r cytundeb gyda HTV, cwmni o'r enw Peat, Marwick and Mitchell.[94]

Llusgo ymlaen wnaeth y trafodaethau hyd ddiwedd blwyddyn gyntaf bodolaeth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, a hynny heb i un ochr gyfaddawdu ar y prif feini tramgwydd a oedd yn atal cytundeb. Nid oedd yr anghydfod hwn yn syndod, yn enwedig i'r ymgynghorwyr proffesiynol a gadarnhaodd ei bod yn anorfod y ceid y trafferthion cychwynnol hyn, a hynny gan fod y sianel a'r cytundeb rhaglenni yn gwbl ddihafal ym myd darlledu.[95] Nid oedd unrhyw batrwm i'w ddilyn felly, ac yr oedd rheidrwydd gwyntyllu'r holl agweddau yn fanwl cyn arwyddo'r cytundeb unigryw. Ar ôl anghytuno ar ddrafft-gytundeb a gyflwynwyd gan HTV, cynigiodd S4C bris a chytundeb newydd a ddrafftiwyd gan yr ymgynghorwyr, ac HTV yn gwrthod trafod y telerau hynny gan nad oedd y pris a gyflwynwyd yn addas. Galwai HTV am £15.3 miliwn y flwyddyn, neu swm cyfatebol yn y blynyddoedd i ddod, am y gwaith o gynhyrchu naw awr yr wythnos pan fyddai Canolfan Croes Cwrlwys yn agor ei ddrysau.[96] Clustnodwyd £1.25 miliwn o'r £15.3 miliwn ar gyfer y datblygiadau yng Nghroes Cwrlwys, ac yng ngwyneb hyn cyflwynodd S4C dacteg newydd er mwyn ceisio pennu ffigwr a fyddai'n dderbyniol i'r Awdurdod a chytundeb y teimlai'r aelodau y gellid ei amddiffyn yn gyhoeddus yn enwedig mewn cyfnod o gyni ariannol.[97] Y dacteg newydd a gyflwynwyd oedd y gellid ceisio

[93] CS4C, *Cofnodion Deuddegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Medi 1981, t. 2.
[94] CS4C, *Cofnodion Trydydd Cyfarfod ar Ddeg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Hydref 1981, t. 3.
[95] CS4C, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod ar Ddeg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 15 Hydref 1981, t. 2. Nid oedd y trafodaethau rhaglenni rhwng Channel 4 a rhai o gwmnïau ITV yn cynnig unrhyw gymorth ychwaith gan y delia Channel 4 a'r cwmnïau hyn fel unrhyw gynhyrchwyr annibynnol eraill ar sail syniadau rhaglenni yn unig, yn hytrach na nifer oriau penodol.
[96] CS4C, *Cofnodion Pymthegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Tachwedd 1981, t. 2.
[97] CS4C, *Cofnodion Pymthegfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.

gwahanu'r costau a fyddai'n talu am adnoddau HTV oddi wrth y trafodaethau am gostau rhaglenni. Awgrymwyd felly y gellid cynnig cyfraniad ariannol ar wahân i HTV tuag at gostau ymestyn adnoddau darlledu yng Nghymru. Penderfynwyd y dylid sicrhau bod unrhyw gyfraniad o'r fath yn fuddsoddiad masnachol, gyda sicrwydd y gallai S4C wneud defnydd o'r adnoddau a chael cyfran o'r elw pe gwerthid yr adnoddau ymhen blynyddoedd. Ystyriwyd y byddai cynnig o'r fath yn sicrhau na chymhlethid rhwng costau rhaglenni a chyfalaf y ddau gwmni.[98] Er y gallai syniad o'r fath fod wedi sicrhau bod mwy o dryloywder i'r cytundeb rhaglenni, yr oedd rhai o aelodau'r Awdurdod yn pryderu y byddai buddsoddiad o'r fath yn rhoi'r argraff fod gan S4C ddiddordeb arbennig yn llwyddiant masnachol HTV ac y gellid creu sefyllfa lle gwelid gwrthdaro rhwng buddiannau'r ddau sefydliad.[99] Cyflwynwyd y syniad i'r Arglwydd Harlech a swyddogion HTV, ond fe'i gwrthodwyd ar sail y ffaith fod y cwmni am gadw rheolaeth dros y datblygiad a'r buddsoddiad.[100] Teimlai Euryn Ogwen Williams y gallai'r penderfyniad hwn i wrthod buddsoddiad uniongyrchol symleiddio'r trafodaethau rhwng y ddwy garfan a hynny oherwydd bod HTV wedi cydnabod nad oeddent yn dymuno cymorth ariannol uniongyrchol i adeiladu canolfan Croes Cwrlwys. Ond ar yr un pryd ofnid y byddai HTV yn parhau i gynnwys costau gwella ac adnewyddu adnoddau yn rhan o'r pris ar gyfer cynhyrchu rhaglenni.[101]

Erbyn dechrau 1982 mabwysiadodd HTV a S4C dactegau newydd er mwyn ceisio cau pen y mwdwl ar y trafodaethau cytundebol, gyda S4C yn nodi pe na welid datblygiad buan yn y trafodaethau y byddai'r sianel yn gwrthod trafod cytundeb naw awr gyda'r cwmni annibynnol ac yn trafod cytundeb ar sail saith awr yn ei le.[102] Gwyddai aelodau'r Awdurdod y byddai cytundeb saith awr yn annigonol i HTV gan i'r cwmni masnachol nodi yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol fisoedd ynghynt y byddai'n rhaid i HTV dderbyn cytundeb am ddeg awr gan y sianel newydd er mwyn cyfiawnhau lefel y buddsoddiad a chynnal yr adnoddau newydd yng Nghroes Cwrlwys.[103]

---

[98] Ibid., tt. 2–3.
[99] Ibid., t. 3.
[100] CS4C, *Cofnodion Unfed Cyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 4 Rhagfyr 1981, t. 2.
[101] Ibid.
[102] CS4C, *Cofnodion Ail Gyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 8 Ionawr 1982, t. 1.
[103] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II,* t. 349.

Ond nid S4C yn unig a oedd am ddefnyddio'r nifer o oriau dan sylw fel ffordd o fargeinio. Cynigwyd dau opsiwn i S4C ei ystyried gan HTV, awgrymwyd y gellid cynnig cytundeb saith awr, ond y byddai'r rhaglenni hynny yn cael eu cynhyrchu i safon y rhaglenni Cymraeg a ddarlledid eisoes gan y cwmni, neu gytundeb naw awr a fyddai'n cynnwys amrywiaeth cryfach o raglenni a rheini o safon uwch. Y rheswm am y gwahaniaethau mewn safon oedd y gellid darparu saith awr ar y safon bresennol ar yr adnoddau a fodolai yn barod yng nghanolfan ddarlledu Pontcanna, ond, er mwyn sicrhau rhagor o oriau, safon ac amrywiaeth cryfach, byddai'n rhaid adeiladu'r adnoddau newydd, ac o'r herwydd talu pris uwch. Er bod gwirionedd ymarferol i'r safbwynt hwn, fel yr esboniodd Ron Wordley i'r Pwyllgor Dethol, diau mai techneg fargeinio oedd hyn hefyd er mwyn perswadio S4C i fabwysiadu cynllun a fyddai â mwy o fendithion i HTV:

> One of the major problems is of course that the cost of the development is so high that the price of the programmes must at least cover the investment. It is almost a chicken and egg situation . . . But in order to create the facilities to make that possible the programmes have to be sold at a price which makes it possible to create the facilities. It is totally inter-related.[104]

Gwelir yma unwaith yn rhagor un o dechnegau bargeinio'r darlledwr masnachol a hynny gan ei fod yn rhoi'r argraff i'r gwrandawyr mai oherwydd y cynnydd mewn oriau cynhyrchu rhaglenni Cymraeg yn unig yr oedd angen yr adnoddau newydd yng Nghroes Cwrlwys. Ond yr oedd hi'n hysbys i bawb a oedd yn rhan o'r trafodaethau hyn nad oedd hynny'n gwbl wir. Mewn gwirionedd, yr oedd Ron Wordley wedi datgan hynny yn ei gyfarfod cyntaf gydag Awdurdod y sianel newydd ac yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Dethol.

> One cannot say that Culverhouse Cross is entirely because of the Welsh Fourth Channel Authority requirement. It is partly because of that and partly because of the contractual commitment in 1982 which the IBA have proposed to us a condition of our new contract. It is not just the Welsh Fourth Channel.[105]

---

[104] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 340.
[105] Ibid.

At hynny, ym 1979 yn ei bamffledyn, 'Y Bedwaredd Sianel yng Nghymru – Datganiad gan HTV Cymru' fe nodwyd ynddo'r frawddeg ganlynol: 'Mae ein cynlluniau, eisoes mewn llaw, gyda miliynnau [sic] o bunnau wedi'u clust-nodi [sic] ar gyfer adeiladu canolfan deledu newydd sbon yn Culverhouse Cross, ger Caerdydd . . .'[106] Ceir yr argraff o'r datganiad hwn, a gyhoeddwyd bron dair blynedd cyn y trafodaethau cytundebol, fod cynlluniau Croes Cwrlwys ar y gweill ers tro, a'u bod hefyd wedi eu hariannu'n llawn eisoes. Diau felly fod yr honiadau bod angen i'r rhaglenni Cymraeg dalu am yr adnoddau newydd, yn ddim mwy na thacteg i sicrhau rhagor o arian ac oriau ar gyfer cwmni masnachol.

Yn ogystal â'r newid tactegol amlwg rhwng y ddwy garfan, mae'r iaith a ddefnyddir yn y datganiadau a ffurfiwyd ar gyfer Awdurdod S4C yn awgrymu newid amlwg yn naws y trafodaethau. Gwelir aelodau o staff S4C yn defnyddio ymadroddion megis: 'Gallem ennill y "frwydr" hon a cholli'r "rhyfel" am lwyddiant y sianel.'[107] Cafwyd hefyd awgrymiadau o amheuon rhai aelodau o staff S4C am allu HTV i ddarparu swmp sylweddol o'r rhaglenni oedd eu hangen ar y sianel: 'Roedd cryn bryder am safonau rhaglenni HTV oherwydd y diffyg gwybodaeth am yr hyn oedd gan y cwmni yn yr arfaeth ac oherwydd y nifer o'u staff gorau oedd wedi troi yn gynhyrchwyr annibynnol.'[108] Gellir awgrymu bod y sylwadau hyn am allu HTV i ddarparu rhaglenni ychydig yn annheg, a hynny oherwydd y bu rhai aelodau o staff S4C yn llwyddiannus wrth geisio perswadio hufen staff y darlledwyr i sefydlu eu cwmnïau cynhyrchu annibynnol.[109] Gwnaed hynny am sawl rheswm, er mwyn ceisio cryfhau'r sector annibynnol a oedd ond megis cropian yn ystod y cyfnod hwn er mwyn ei galluogi i gynhyrchu o leiaf dwy awr yr wythnos. Ond yn dilyn yr anghydfod cytundebol rhwng S4C ac HTV yr oedd cryfder a hyder cynyddol y cynhyrchwyr annibynnol yn golygu nad oedd S4C yn llwyr ddibynnol ar HTV er mwyn darparu deg awr o raglenni yr wythnos, yn enwedig wrth iddi ddod yn fwyfwy amlwg y gellid ymddiried ynddynt i gynhyrchu mwy o ddarpariaeth, gan wasgu'r ddarpariaeth a oedd ar gael i HTV ei gynhyrchu. Cofia Wil Aaron fod y

---

[106] HTV Cymru, *Y Bedwaredd Sianel yng Nghymru – Datganiad gan HTV Cymru* (Llandysul, 1979), t. 14.
[107] CS4C, *Cytundeb â HTV – Datblygiadau Diweddar (Papur 1.82(6)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ionawr 1982.
[108] CS4C, *Cofnodion Ugeinfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 21–22 Mawrth 1982, t. 2.
[109] Euryn Ogwen Williams, 'Cynhadledd S4C: Y Chwarter Canrif Cyntaf: Sefydlu Sianel', 2 Tachwedd 2007.

cynhyrchwyr annibynnol yn llwyr ymwybodol eu bod yn cael eu defnyddio gan S4C er mwyn gwasgu a gosod pwysau ar HTV yn y trafodaethau cytundebol rhwng y ddwy ochr.[110]

Yn ychwanegol at yr anghytuno ariannol, credid mai agwedd HTV tuag at y sianel newydd oedd prif faen tramgwydd y trafodaethau a'u safbwynt ar ddau fater penodol oedd wedi arwain at yr anghytuno dybryd ar ddiffiniad o bris rhesymol.[111] Honnwyd fod HTV yn credu fod y Ddeddf Ddarlledu yn ei roi yn gyfartal gyda'r BBC fel prif gyflenwyr y sianel newydd, ac felly y dylid ymdrin â'r ddau yn yr un modd.[112] Y broblem yma wrth gwrs oedd bod S4C yn ymdrin â HTV mewn modd a oedd yn debycach i natur y trafodaethau â'r cwmnïau annibynnol gan fod y sianel yn talu'n uniongyrchol am y rhaglenni. Nodir hefyd fod HTV am i S4C ymddiried yn llwyr yn y cwmni fel cynhyrchwr rhaglenni a throsglwyddo'r holl gyfrifoldebau fyddai'n ymwneud â'r rhaglenni i HTV fel y gallai'r cwmni masnachol ddarparu pecyn o raglenni i'r sianel newydd heb ryw lawer o oruchwyliaeth na mewnbwn, gan felly weithredu patrwm gweithio tebyg iawn i'r hyn a gytunwyd gyda'r BBC. Fel yn achos y trefniant a geid gyda'r BBC, yr oedd HTV hefyd yn awyddus i gadw'r hawliau ar gyfer y rhaglenni a gynhyrchid gan y cwmni.[113] Yr oedd HTV yn ceisio cael y gorau o ddau fyd felly, gan sicrhau tâl am y cynnyrch a grëid ar delerau masnachol fel y nodir yn y Ddeddf Ddarlledu, ond hefyd gan geisio ennill rhai o'r manteision a roddwyd i'r darlledwr cyhoeddus a oedd yn darparu cynnwys yn rhad ac am ddim.

Er y newid mewn tactegau a welwyd ar ddechrau 1982, fe lusgodd y trafodaethau ymlaen hyd fis Mai. Erbyn y misoedd olaf, tâl oedd y prif faen tramgwydd gyda'r gwahaniaeth o fwy na £5 miliwn rhwng yr hyn y credai'r ddwy ochr oedd yn dderbyniol.[114] Gwelwyd HTV yn cyfaddawdu ac yn gostwng ei bris o £19 miliwn i £17.5 miliwn, ond hyd yn oed ar ôl y symudiad hwn, yr oedd yr ymgynghorwyr, Peat

---

[110] Cyfweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010. Mynegwyd sylwadau tebyg gan Huw Jones, cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.
[111] CS4C, *Cytundeb â HTV – Datblygiadau Diweddar (Papur 1.82(6))*, t. 1.
[112] Ibid.
[113] Ibid., t. 4.
[114] CS4C, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 5 Mawrth 1982, tt. 2–3. Ym mis Mawrth 1982 roedd HTV wedi cynnig pris o £19.17 miliwn am 9 awr, tra credai S4C fod £14.16 miliwn yn bris teg.

Marwick and Mitchell yn parhau i gredu nad oedd modd cyfiawnhau'r gost ar delerau masnachol.[115] Yr oedd hi'n mynd yn fwyfwy anodd i S4C gyfiawnhau yn wleidyddol unrhyw orwariant ar gytundeb HTV gan y byddai hynny'n gwasgu datblygiad y cynhyrchwyr annibynnol yr oedd S4C wedi ymdrechu'n galed i'w datblygu'n sector dichonadwy. Ynghyd ag ymdrechion swyddogion S4C yr oedd datblygiad a thwf y cynhyrchwyr annibynnol wedi derbyn llawer o sylw am eu llwyddiannau cynhyrchu cynnar ac wedi meithrin enw da i'r sianel.[116]

Wedi'r holl drafod ac ymgecru, arwyddwyd cytundeb rhyngddynt ar 27 Mai 1982, pum mis yn unig cyn dyddiad dechrau darlledu'r sianel.[117] Yr oedd y cytundeb a redai am wyth mlynedd tan ddiwedd 1989, yn sicrhau gwerth saith awr a thri chwarter o raglenni yr wythnos gan y cwmni annibynnol ar delerau o £34,500 yr awr neu £13.9 miliwn am flwyddyn gyfan, hyd nes y byddai adnoddau newydd Croes Cwrlwys yn weithredol ym 1984 pan fyddai'r cwmni yn cynyddu ei ddarpariaeth i naw awr ar delerau o £35,790 yr awr neu £16.75 miliwn y flwyddyn (ar brisiau 1982).[118] Yr oedd y costau hyn yn sylweddol is na'r costau a drafodwyd gyda'r Pwyllgor Dethol, fwy na £17,000 yn llai na'r gost yr awr o fwy na £50,000 a ddeisyfwyd yn wreiddiol gan HTV. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen 59 tudalen o hyd, yn un swmpus sy'n mynd i fanylder wrth drafod materion dyrys megis cyfrifoldebau'r ddwy garfan wrth sicrhau hawlfreintiau ac atal difenwad, tâl cadw a storio setiau pe dymunid creu ail neu drydedd gyfres o raglen arbennig, cyfrifoldeb pwy oedd talu am drosglwyddo rhaglenni o un canolfan i'r llall ynghyd â manylion amserlen fanwl y taliadau fyddai'n ddyledus i HTV.[119] Ynddo hefyd ceir canllawiau i'r ddwy ochr sy'n nodi lle disgynai'r cyfrifoldeb pe cyfyd unrhyw anghydfod boed hynny'n ariannol, creadigol neu drefniadol. Bu HTV hefyd yn llwyddiannus yn ei ymgais i gadw'r hawliau ymelwa yn y rhaglenni, er hynny yr oedd y cytundeb yn mynnu y byddai'n rhaid i HTV ofyn am ganiatâd Awdurdod S4C cyn gwerthu'r rhaglen a manteisio arni'n ariannol.[120] Mae'n gytundeb cyfrifol iawn yn y cyd-destun

---

[115] Ibid.
[116] Ibid.
[117] CS4C, *HTV Limited and The Welsh Fourth Channel Authority – Sianel Pedwar Cymru – Programme Sales Agreement*, 27 Mai 1982.
[118] Robin Reeves, 'Harlech TV in Welsh Channel Four deal', *Financial Times*, 21 May 1982.
[119] Ibid.
[120] CS4C, *HTV Limited and The Welsh Fourth Channel Authority – Sianel Pedwar Cymru – Programme Sales Agreement*, t. 13. At hynny, gallai Awdurdod S4C fynnu ad-daliad pe bai HTV yn ymelwa'n ariannol ar y rhaglenni a gynhyrchid ar gyfer S4C.

hwnnw, gan nad yw unrhyw elfen o berthynas S4C ac HTV wedi ei gadael i siawns, nac yn ddibynnol ar ewyllys da unrhyw unigolion a ddigwyddai weithio i S4C nac HTV yn ystod cyfnod ei arwyddo.

Ynddo hefyd ceir manyleb fanwl o'r nifer o oriau ym mhob categori rhaglenni y byddai HTV yn eu darparu i'r sianel newydd. Rhaglenni ffeithiol, adloniant ysgafn a rhaglenni plant fyddai'n llenwi y rhan helaeth o'r oriau a gynhyrchid gan y cwmni i S4C.[121] Mewn blwyddyn byddai HTV yn darparu 87 awr o raglenni adloniant ysgafn, darpariaeth fyddai'n cynnwys rhaglenni sgwrsio, cwis, cerddoriaeth werin a phop a chomedi sefyllfa. Byddai cyfuniad o raglenni plant wedi eu cynhyrchu yn y stiwdio a ffilmiau wedi eu dybio i blant o bob oed yn llenwi yn agos 125 o oriau bob blwyddyn, a byddai amrywiaeth o raglenni ffeithiol megis rhaglenni ffermio, ffilmiau dogfen awr, a chyfresi crefyddol yn llenwi oddeutu 93 awr y flwyddyn gyda darpariaeth materion cyfoes yn cyfrannu 72 awr ychwanegol.[122] Chwe awr ar hugain y flwyddyn yn unig o ddrama y bwriedid i HTV ei ddarparu, ond rhennid hwnnw'n gyfartal dros yr wythnosau gan sicrhau y byddai cynulleidfaoedd Cymreig yn cael cyfle i wylio hanner awr yr wythnos o ddrama o stabl HTV.

Yn y cytundeb gwelir hefyd pa *genres* rhaglenni y byddai agoriad Croes Cwrlwys yn galluogi i HTV eu datblygu ymhellach. Yn ôl y disgwyl gwelir cynnydd yn y ddarpariaeth adloniant ysgafn a phlant y gellid ei recordio yn y stiwdio, trwy ddyblu'r ddarpariaeth o raglenni cerddoriaeth gymysg, rhaglenni dychan, rhaglenni cyfranogol plant a bwriadwyd hefyd ddyblu'r ddarpariaeth comedi sefyllfa, gyda chynlluniau i gynnig dwy gyfres bob blwyddyn yn hytrach nag un.[123] Yr oedd yr adnoddau newydd hefyd yn galluogi twf mewn darpariaeth ffeithiol a gynhyrchid gydag unedau darlledu allanol, gan i'r fanyleb ddangos y bwriedid cyflwyno rhaglen chwaraeon ychwanegol a chyfres o raglenni nodwedd ffeithiol newydd pan agorid y ganolfan newydd ym 1984. Daw'n glir felly mai darpariaeth plant, rhaglenni stiwdio o bob math ac arlwy ffeithiol fyddai'n nodweddiadol o gynyrchiadau HTV, ac yno y bwriedid magu arbenigedd ei staff a gosod ei stamp. Byddai'n rhaid i S4C edrych

---

[121] CS4C, *HTV Limited and The Welsh Fourth Channel Authority – Sianel Pedwar Cymru – Programme Sales Agreement*, Schedule 1A – 1C.
[122] Ibid., Schedule 1B.
[123] Ibid., Schedule 1C.

tuag at y BBC a'r cynhyrchwyr annibynnol, felly, am y rhan helaeth o ddarpariaeth drama'r sianel.

Wrth edrych dros drafodaethau cytundebol HTV a S4C gellir nodi'n sicr mai ceisio cytuno ar beth a olygir gan yr ymadrodd 'commercial terms' a welir yn y Ddeddf Ddarlledu oedd un o agweddau mwyaf problemus y trafodaethau. Yr oedd hi'n amlwg bod gagendor sylweddol rhwng yr hyn a ystyriai HTV fel telerau masnachol a'r hyn a oedd yn dderbyniol i S4C. Un o'r prif resymau am y gagendor hwn oedd nad oedd gan S4C unrhyw brisiau eraill a ellid eu cymharu â'r ffigurau a ddarperid gan HTV er mwyn ystyried a oeddent yn brisiau rhesymol. Nid oedd dadansoddiad y BBC o gostau ei raglenni fesul awr yn gymhareb deg gan nad ystyrid costau cyfundrefnol y sefydliad hwnnw. Yn ogystal, ni ellid ffurfio cymhariaeth deg rhwng costau HTV a chostau rhaglenni'r cwmnïau annibynnol gan eu bod o reidrwydd yn rhatach i'w cynhyrchu gan fod ganddynt lai o strwythurau i'w cynnal, llai o staff llawn amser a llai o orbenion yn gyffredinol. At hynny, yr oedd yr ymadrodd 'commercial terms' yn gamarweiniol, gan y byddai'r symiau o arian a delid am raglenni yn dibynnu'n llwyr ar faint o arian fyddai ar gael ar gyfer Awdurdod S4C. Petai'r swm a oedd ar gael gan yr ADA yn llawer llai na'r hyn a disgwylid, byddai'n rhaid gweithio o fewn y terfynau hynny yn hytrach nag ar delerau masnachol haniaethol. Cydnabuwyd yr egwyddor hon yn gyhoeddus gan Ron Wordley yn ei dystiolaeth i'r PDFC, er hynny, nid oedd yr ystyriaeth honno yn ddigon i'w atal rhag ceisio sicrhau telerau masnachol ar gyfer HTV yn y trafodaethau cytundebol gydag S4C.[124]

Rhan annatod o'r trafferthion gyda thelerau masnachol oedd bwriad HTV i adeiladu a defnyddio canolfan adnoddau newydd yng Nghroes Cwrlwys. Oherwydd y buddsoddiad sylweddol yn yr adnoddau newydd hyn yr oedd hi'n anochel y byddai cwmni masnachol yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â'r adnodd newydd wrth ddiffinio prisiau ei raglenni. Ystyriai HTV ei bod hi'n rhesymol cynnwys costau a oedd yn ymwneud â llog ar fenthyciadau a dibrisiant offer yn y prisiau gan y gwelid adeiladu canolfan ddarlledu newydd fel buddsoddiad yn nyfodol rhaglenni Cymraeg ac yn ffyniant y sector. Yr oedd y buddsoddiad hwn felly'n dylanwadu'n drwm ar rai

[124] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 340.

o'r telerau yr oedd HTV yn eu mynnu wrth drafod cytundeb gyda S4C ac ar feddyliau swyddogion y cwmni pan yr oeddent yn llunio eu tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Dethol, gan iddynt nodi yn eu memorandwm:

> . . . reasonable contractual arrangements for the supply of programmes at realistic prices and for a reasonable period (not less than seven years. . .) will be essential to justify the investment. There must also be safeguards against any arbitrary changes in Government policy or financial arrangements, and an adequate return on investment must be provided. Otherwise it is difficult to see how an ordinary commercial company operating in the private sector could be expected to provide a non-viable public service in Welsh.[125]

Mae lle i ddadlau bod gofynion HTV yn rhesymol ac y byddai unrhyw gwmni masnachol arall wedi ceisio am yr un lefel o sicrwydd mewn cytundeb gydag Awdurdod sianel nad oedd sicrwydd y byddai'n bodoli ymhen tair blynedd. Er hynny ni ellid dadlau bod HTV yn cymryd cam i'r tywyllwch trwy adeiladu Croes Cwrlwys er mwyn diwallu anghenion S4C, a hynny gan y bu cynnydd mewn rhaglenni Cymraeg yn rhan gyson o'r cynlluniau ar gyfer y bedwaredd sianel, hyd yn oed cyn y penderfyniad i sefydlu sianel annibynnol Gymraeg. Hyd yn oed pe diddymid y sianel ar ôl ei thair blwyddyn brawf a dychwelyd at gynllun blaenorol y llywodraeth, byddai rheidrwydd cynnal y nifer o raglenni Cymraeg. Gellid honni hyd yn oed y byddai mwy o angen y gofod yn y cyd-destun hwnnw gan y byddai HTV yn rheoli'r bedwaredd sianel yng Nghymru, ac yn debygol o feddiannu'r rhan helaeth o'r oriau cynhyrchu, ac felly, byddai mwy o angen yr adnoddau a'r gofod arnynt. Er hynny, mae'n annhebygol y byddai HTV wedi ennill telerau yr un mor ffafriol pe dychwelid at yr egwyddor dwy sianel, gan mai gostyngiad yn ei daliadau rhent i'r ADA yn unig fyddai'n ariannu cost cynhyrchu rhaglenni Cymraeg. Trwy fynnu telerau ffafriol a oedd yn cyfrannu tuag at adeiladu Croes Cwrlwys, gellid dadlau fod HTV yn manteisio ar amgylchiadau cyllidol ffafriol S4C, tra y bodolai.

Gellid gosod y bai am hirhoedledd y trafodaethau ar draha'r cwmni masnachol a gellid hefyd beirniadu'r diffyg profiad, neu'n gywirach, y diffyg awdurdod a roddwyd i rai o swyddogion S4C wrth iddynt drafod telerau'r cytundeb. Ceir tystiolaeth o hyder HTV o'u rol anhepgor yng nghynlluniau'r sianel, ac na fyddai

[125] Ibid., t. 84.

hi'n broblem iddynt sicrhau mwy na'r lleiafswm o saith awr yr wythnos gan y sianel newydd, mewn datganiadau megis, 'Production resources in Wales other than within the two broadcasting systems are poor, and independent producers are few.'[126] Mae'n amlwg i HTV ddiystyru unrhyw gyfraniad a ellid ei wneud gan gynhyrchwyr annibynnol, ac mae'n amlwg i'r cwmni ddod â'r hyder hwn at y trafodaethau cynnar gyda'r sianel newydd. Yn wir yn y cyfarfod cyntaf a fu rhwng Ron Wordley ac Awdurdod S4C fe gofnodir: 'Mr. Wordley had doubts about the IP's [independent producers] ability to sustain a 2–3 hours per week output . . .'[127]

Ceir hefyd awgrymiadau achlysurol nad oedd gan staff S4C yr awdurdod i benderfynu'n derfynol ar faterion a oedd yn ymwneud â'r cytundeb. Mewn llythyr at Gadeirydd S4C, Syr Goronwy Daniel ceir tystiolaeth o rwystredigaeth yr Arglwydd Harlech, Cadeirydd HTV wrth iddo ddatgan bwysigrwydd bod yr aelodau staff a anfonid i drafod y cytundeb yn cael gwneud penderfyniadau terfynol yn y cyfarfodydd hyn, heb orfod gwirio eu penderfyniadau gydag aelodau hŷn y ddau sefydliad. Meddai:

> In view of the urgency of the situation, I hope that you can agree that future negotiations shall be pursued through our nominated representatives who must, of course, have the authority to conclude detailed terms without continual reference back to us as Chairmen, or to other parties. Unless they are given such authority the whole process could take far more time than we have available to us.[128]

Awgryma'r sylwadau hyn fod disgwyl i staff S4C, ac o bosibl staff HTV gan fod llythyr yr Arglwydd Harlech yn ddiplomataidd osod y bai ar y ddwy ochr, a oedd yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyd at hynny, ddychwelyd i drafod unrhyw gynigion gyda'r Cadeiryddion neu'r Awdurdod cyn y gellid gwneud penderfyniad terfynol ar

[126] Ibid., t. 76.
[127] CPGTH, *Minutes of the Meeting with HTV during the First Meeting of the Sianel Pedwar Cymru Authority*, t. 2.
[128] CS4C, Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Harlech at Syr Goronwy Daniel, 13 Tachwedd 1981.

y mater, a bod hyn yn un o'r rhesymau pam yr oedd y trafodaethau yn cymryd cyhyd.[129]

Rhoddwyd straen ar y berthynas rhwng S4C ac HTV yn sgil y trafodaethau hirfaith ac arwyddo'r cytundeb bum mis yn unig cyn dyddiad darlledu'r sianel, ond nid y tensiynau hynny oedd yr unig sgil effeithiau. Yr amlycaf o'r rhain oedd nad oedd HTV yn gallu paratoi na phentyrru cynnyrch yn barod ar gyfer misoedd cyntaf y sianel. Heblaw am y rhwystredigaeth yr oedd hyn yn ei greu ymysg cynhyrchwyr a staff creadigol HTV yr oedd yn cynnig cyfle i gynhyrchwyr annibynnol ddangos eu gallu a chynhyrchu llawer mwy o raglenni nag y disgwylid ganddynt ar y dechrau. Yr oedd arafwch y trafodaethau rhwng HTV a S4C felly wedi rhoi cyfle i'r cynhyrchwyr annibynnol ddangos eu gwir botensial, rhywbeth, na fyddai wedi digwydd petai S4C ac HTV wedi cytuno ar delerau ynghynt.[130]

*Darpariaeth Newyddion a Materion Cyfoes*

Yng nghanol y trafodaethau cytundebol hirfaith, ac wrth i'r carfannau gwahanol geisio diffinio patrymau cydweithio, bu swyddogion y sianel newydd yn ceisio dod i benderfyniadau hollbwysig ynglŷn ag anghenion rhaglenni a phwy fyddai'n darparu pa *genres*. Penderfyniadau fyddai'n diffinio naws a natur y gwasanaeth newydd. Un o'r materion hynny oedd gwasanaeth newyddion y sianel, conglfaen pob gwasanaeth darlledu cyhoeddus. Nid mater hawdd oedd penderfynu pwy ddylai ddarparu'r gwasanaeth newyddion newydd, a hynny gan fod y ddau ddarlledwr, BBC ac HTV, yn awyddus iawn i sicrhau'r cytundeb. Cyn dyddiau S4C ceid darpariaeth newyddion Cymraeg ar y ddwy sianel, y BBC yn darlledu rhaglen *Heddiw* (1961–1982) ac HTV yn cyflwyno rhaglen *Y Dydd* (1964–1982), gyda'r ddwy raglen yn denu cynulleidfa

[129] Enghraifft arall bosibl o feiau S4C yn y broses ddyrys hon, oedd bod y trafodaethau yn mynd i mewn i ormod o fanylder ynglŷn â agweddau'r berthynas gan geisio ei ddiffinio'n gadarn yn y cytundeb megwn ymgais i ragweld pob trafferth a thensiwn posibl a allai godi. Roedd hyn yn arfer a oedd yn groes i'r graen i reolwyr y byd darlledu yn y cyfnod. Cofia Geraint Stanley Jones, mai natur y sector ddarlledu oedd bod nifer o gytundebau yn cael eu gwneud mewn ffordd llai ffurfiol, a bod y broses a welwyd rhwng HTV a S4C yn debycach i'r hyn a gaed yn y gwasanaeth sifil, sef cefndir y Cadeirydd Syr Goronwy Daniel. Cofia hefyd iddo gael sgwrs bersonol â Ron Wordley lle nodwyd petai S4C yn barod i gael cytundeb ychydig llai ffurfiol ac hyblyg gyda HTV y gellid arbed miliynau iddynt. Ond os oeddent yn mynnu cael cytundeb caeth byddai Prif Weithredwr y cwmni masnachol yn sicrhau y byddant yn talu am bob beiro, bob rôl o bapur tŷ bach. Cyfweliad yr awdur gyda Geraint Stanley Jones, 10 Tachwedd 2008, Caerdydd.

[130] Dychwelir at y materion hyn yn hwyrach yn y bennod hon, gweler tt. 197–202.

selog.[131] O ganlyniad nid oedd y BBC nac HTV yn dymuno colli gafael ar y gwasanaeth newyddion. Yn wir, hyd yn oed cyn i'r Awdurdod newydd gael ei ffurfio, ac yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Dethol ar ffurf memorandwm gan HTV, nodwyd mai adran newyddion y cwmni fyddai fwyaf cymwys ar gyfer darparu gwasanaeth newyddion y sianel newydd trwy nodi: 'It is widely accepted that ITV Welsh news is hard, sharp and up to the minute. BBC news tends towards the magazine style of commentary on fewer items, but in depth.'[132]

Ond yr oedd gan sefydliadau eraill eu syniadau eu hunain ynglŷn â sut y dylai S4C ymdrin â'i chyfrifoldebau i ddarparu gwasanaeth newyddion. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol anogodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (UCN) y sianel Gymraeg newydd i sefydlu uned annibynnol er mwyn darparu'r gwasanaeth newyddion ar ei chyfer.[133] Rhagwelwyd y gallai uned o'r fath gyflogi'r newyddiadurwyr fu'n gweithio ar raglenni newyddion Cymraeg y BBC ac HTV, ac y gallai ymdebygu i strwythur ITN, gyda'r BBC ac HTV yn rhannu perchnogaeth ohoni.[134] Mynegwyd gofid hefyd gan yr UCN yn ei ohebiaeth gynnar gyda'r sianel, bod prinder amser i sicrhau seiliau cadarn i unrhyw wasanaeth newyddion, a'u pryderon y byddai'r BBC ac HTV yn tra arglwyddiaethu dros y trafodaethau heb i unrhyw garfan arall lwyddo i gynnig atebion posibl i'r drafodaeth hon.

Er y pryderon hyn, gellir dweud yn ddi-flewyn ar dafod, mai dau sefydliad oedd yn y ras i sicrhau'r cytundeb newyddion a hynny oherwydd costau sylweddol darparu gwasanaeth newyddion cwbl annibynnol.[135] Ond ar ddechrau'r drafodaeth, ystyriwyd cynllun a fyddai'n sicrhau fod y BBC ac HTV yn cael cyfle i fod yn rhan o gytundeb mwyaf clodfawr y sianel. Ymhlith y syniadau cyntaf felly, awgrymwyd y gellid rhannu'r ddarpariaeth fesul dyddiau'r wythnos, gyda HTV yn darlledu nifer

---

[131] Bu rhaglen *Newyddion y Dydd* yn cael ei darlledu gan TWW o ddechrau'r gwasanaeth yn Ionawr 1958, er hynny ymddengys na ddechreuwyd darlledu'r rhalgen *Y Dydd* tan y daeth TWW yn wasanaeth Cymru gyfan ym 1964 wedi mabwysiadu cyfrifoldebau Teledu Cymru.
[132] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II,* t. 83.
[133] Ibid., tt. 215–23.
[134] Ibid., t. 234.
[135] Ibid., tt. 653–4. Er i Awdurdod S4C nodi ei fod am ddangos cwrteisi â'r UCN trwy gwrdd â'i gynrychiolwyr i drafod ei gynigion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar ddarpariaeth newyddion, roedd nifer o broblemau sylweddol gydag ariannu a sefydlu cynllun o'r fath. Cwrteisi felly oedd trafod gyda'r UCN ac nid ystyriaeth wirioneddol o'i syniadau.

penodedig o ddyddiau a'r BBC yn darlledu ar y gweddill.[136] Hwn oedd hoff opsiwn HTV o'r holl batrymau gwahanol a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer y gwasanaeth newyddion[137] a chynnig hyderus HTV oedd:

> We believe that the best interests of viewers in Wales would be served if ITV covered all Welsh-language news Monday to 7 pm Friday and the BBC from 7 pm to close-down on Sunday. We do not feel that BBC Wales would resist this proposal which will avoid redundancies amongst newsroom staff in both services and use the different talents of ITV and BBC news staff complementarily.[138]

Gellir gweld sut y daeth HTV i'r casgliadau hyn, yn enwedig o ystyried ei agweddau, a nodwyd eisoes, tuag at y gwahaniaethau honedig rhwng gwasanaethau newyddion y BBC ac HTV. At hynny, yr oedd HTV yn amlwg yn ceisio sicrhau y rhan mwyaf blaenllaw o'r gwasanaeth newyddion i'r cwmni, gan sicrhau'r mai ei wasanaeth newyddion fyddai fwyaf gweladwy i'r gynulleidfa, ac mai sborion y ddarpariaeth a gynigiwyd i'r BBC gan mai pitw o'i gymharu oedd darpariaeth newyddion darlledwyr ar y penwythnos gan amlaf.[139] Ceid cynsail o fath i raniad tebyg i'r hyn a gynigwyd gan HTV, a hynny ym mhatrwm rhwydwaith darlledu ITV, gan fod rhanbarth Llundain wedi ei rannu'n ddau gytundeb, un ar gyfer dyddiau'r wythnos a'r llall yn gytundeb penwythnos.[140] Ategwyd safbwynt HTV ar y ddarpariaeth newyddion yn y cyfarfod cyntaf a fu â S4C ym mis Ionawr 1981, gyda'r cwmni annibynnol yn nodi y gallai cynllun o'r fath fod yn dderbyniol iddynt.[141] Fodd bynnag, doedd y trefniant hwn ddim yn dderbyniol i'r Gorfforaeth,[142] ac, mewn gwirionedd, byddai darparu gwasanaeth newyddion ar y patrwm hwn wedi bod yn anodd ei weithredu, gyda diffyg cysondeb yn ganlyniad anatod, a byddai'r cynllun wedi arwain at ddyblygu adnoddau'n ddiangen wrth i'r ddau sefydliad gynnal dwy

---

[136] Roedd y syniad hwn yn adlewyrchu argymhellion gweithgor Siberry ym 1975 o rannu darlledu rhaglenni Cymraeg HTV a'r BBC fesul dyddiau'r wythnos am yn ail, yn hytrach na'u plethu yn ei gilydd. Roedd yr egwyddor hon hefyd yn adlewyrchiad o'r patrwm a fabwysiadwyd gan Baird a Marconi yn nyddiau cynnar darlledu rhaglenni teledu ar y BBC. Gweler pennod 1, t. 39.
[137] Ibid., t. 356.
[138] Ibid., t. 83.
[139] Pymtheg munud ar ddydd Sadwrn a phum munud ar y Sul o newyddion a ddarlledwyd wedi i'r sianel ddechrau darlledu, er petai'r cynllun hwn wedi ei fabwysiadu diau y byddai'r bwletinau wedi bod yn fwy swmpus.
[140] Ers 1968 cwmni Thames a ddarlledai yn Llundain yn ystod yr wythnos, gyda London Weekend Television (LWT) yn darlledu dros y penwythnos.
[141] CPGTH, *Minutes of the Meeting with HTV during the First Meeting of the Sianel Pedwar Cymru Authority, t. 3.*
[142] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II,* t. 356.

ystafell newyddion Gymraeg, ond gyda'u staff yn gweithio yn rhan amser am hanner wythnos.[143] Anogwyd y sianel hefyd gan yr UCN na ddylid rhannu'r gwasanaeth rhwng dau ddarparwr, gan nodi nad oedd y cynnig hwn mewn gwirionedd yn ystyried beth fyddai dylanwad rhaniad o'r fath ar natur y gwasanaeth, nac ar y gwyliwr. Honnodd yr UCN fod y darlledwyr yn esgeuluso'r darlun ehangach, ac mai ystyriaethau hunanol, a buddion eu cwmnïau a'u sefydliadau oedd yr unig ffactor a roddid sylw iddo wrth gynnig egwyddor o'r fath.[144]

Er yr anghytuno a'r gystadleuaeth amlwg a oedd ar droed er mwyn ceisio ennill y gwasanaeth newyddion, ar ddechrau 1981 bu Huw Davies, Pennaeth Rhaglenni HTV a Gareth Price, Pennaeth Rhaglenni BBC Cymru yn cydweithio ar ddyfeisio memorandwm i Awdurdod Sianel Pedwar Cymru ar y ffordd ymlaen ar gyfer y gwasanaeth newyddion. Erbyn Mawrth 1981 felly yr oedd y syniad o rannu'r gwasanaeth rhwng y darlledwyr wedi hen ddiflannu, gyda chynrychiolwyr y ddau ddarlledwr yn cytuno ar y patrwm y dylid ei fabwysiadu: 'Barn bersonol y ddau arbenigwr oedd mai'r ateb gorau, er nad delfrydol, oedd rhannu'r cyfrifoldeb rhwng BBC ac HTV ar sail y newyddion o'r un a'r materion cyfoes oddi wrth y llall.'[145] Yn ddiweddarach yn yr un cyfarfod penderfynodd HTV gymryd mantais o'r gwahoddiad i drafod a chynnig cyngor ar y ddarpariaeth newyddion trwy gyflwyno dwy raglen beilot a ddadlennai yr hyn y gellid ei gyflawni gyda rhaglen ddeg munud a rhaglen bum munud ar hugain o hyd gan achub y blaen ar y BBC.[146] Llwyddodd y ddau fwletin i blesio'r Awdurdod gyda'r cofnod canlynol yn dangos edmygedd yr aelodau o'r gwaith a gyflwynwyd gan nodi fod: 'y cyflwyniad o dapiau newyddion HTV yn arbennig . . .'[147] Er i natur bwletinau HTV blesio'r Awdurdod yn ddiweddarach yn yr un cyfarfod wrth gynnal trafodaeth gyda'r cwmni ynglŷn â chostau'r rhaglenni gwelir i aelodau'r Awdurdod gael eu brawychu gan yr amcangyfrifon a nodwyd ar

[143] Byddai cynllun o'r fath wedi arwain at anghysondeb, a fyddai'n boenus o amlwg pe ceid stori fawr a redai dros gyfnod estynedig lle gellid rhagweld ymdriniaeth wahanol rhwng y ddau sefydliad o'r un deunydd oherwydd ethos a gwerthoedd newyddion eu sefydliadau gwahanol.

[144] Ibid., t. 223.

[145] CPGTH, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 2.

[146] Ibid. Yn ei gyfrol *At Arms Length* adrodda Geraint Talfan Davies hanes HTV yn teithio i Lundain a gyda chymorth ITN yn cynhyrchu'r ddau fwletin gyda thri o gyflwynwyr a newyddiadurwyr y cwmni, Elinor Jones ac Alun Ffred Jones yn cyflwyno'r fersiwn pum munud ar hugain a Tweli Griffiths yn cyflwyno'r bwletin byrrach. Geraint Talfan Davies, *At Arms Length* (Bridgend, 2008), t. 72.

[147] CPGTH, *Cofnodion Pedwerydd Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 5.

gyfer cost y gwasanaeth newyddion arfaethedig.[148] Yr oedd HTV wedi amcangyfrif y byddai cost gwasanaeth newyddion oddeutu £9 miliwn, gydag ychwanegiad o wasanaeth yn hwyr y nos ac ar y penwythnosau yn debygol o wthio'r ffigwr hwnnw'n uwch.[149] Wedi'r datganiad o gostau, bu'n rhaid i'r Awdurdod ystyried a fyddai hi'n gwneud mwy o synnwyr ariannol iddo dderbyn y gwasanaeth newyddion gan y BBC a'r gwasanaeth materion cyfoes gan HTV.[150] A hynny gan y gellid derbyn gwasanaeth y newyddion swmpus a drudfawr gan y BBC yn rhad ac am ddim gan ddefnyddio'r £9 miliwn er mwyn comisynu amrywiaeth ehangach o raglenni o *genres* eraill.

Bythefnos yn ddiweddarach cyflwynwyd tâp gan y BBC i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar ddechrau Ebrill 1981. Cynrychiolwyr y BBC yn y cyfarfod hwnnw oedd Geraint Stanley Jones, Rheolwr Gweithredol BBC Cymru a Richard Francis, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn Genedlaethol.[151] Ym marn *Y Cymro* yr oedd presenoldeb Richard Francis yn y cyfarfod yn arwydd o'r 'pwysau o Lundain i sicrhau fod Caerdydd yn cadw'u hadran newyddion Cymraeg.'[152] Yn y cyfarfod hwnnw amlinellwyd gan y BBC bod y Gorfforaeth yn awyddus i ddarparu'r gwasanaeth newyddion oherwydd y gellid manteisio ar y staff profiadol a'r cysylltiadau clos a fodolai rhwng BBC Cymru a gweddill y Gorfforaeth a fyddai'n darparu cysylltiadau newyddion yng Nghymru, Prydain a ledled y byd. At hynny, gwelir y BBC yn nodi'r cysylltiadau buddiol a fodolai rhwng gwasanaethau radio a theledu y Gorfforaeth. Yn wir, gellid ystyried y ffaith fod gan y BBC staff yn cynhyrchu rhaglenni newyddion radio Cymraeg yn fanteisiol, gan y gellid sicrhau undod rhwng y gwasanaethau teledu a radio ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg gan sicrhau bod straeon o bwys i'r Cymry yn cael eu datblygu ar draws y ddau blatfform. Hefyd gallai un gwasanaeth feithrin cynulleidfa i'r gwasanaeth arall oherwydd y cyswllt rhyngddynt. Ond fel y nodwyd yn *Y Cymro*, gellid ystyried hynny'n anfantais gan y gallai'r trefniant gyfyngu ar ffynonellau newyddion cynulleidfaoedd Cymraeg:

---

[148] Ibid.
[149] Ibid.
[150] Ibid.
[151] CPGTH, *Cofnodion Pumed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4.
[152] Arfon Gwilym, 'Brwydr y newyddion', *Y Cymro*, 7 Ebrill 1981.

. . . byddai'n beth mwy iachus o lawer i newyddion Cymraeg dyddiol ddod o fwy nag un stafell newyddion. Os mai'r BBC fydd yn gyfrifol am newyddion, bydd rhaglenni Radio Cymru yn ogystal â Sianel 4 yn deillio o'r un ganolfan.

Byddai rhoi'r newyddion i HTV yn sicrhau fod yna gystadleuaeth ym maes newyddion Cymraeg – elfen hollbwysig pan ystyrir nad oes unrhyw gystadleuwr arall mewn gwirionedd.[153]

Cadarnhawyd yn ystod y cyfarfod y byddai unrhyw wasanaeth newyddion a ddarperid gan y BBC yn cael ei gyfrif fel rhan o'r deg awr yr oedd disgwyl i'r Gorfforaeth ei ddarparu ar gyfer y sianel newydd yn rhad ac am ddim.[154] Byddai hyn wedi apelio'n fawr at yr Awdurdod, yn enwedig ar ôl trafod costau oddeutu £9 miliwn y flwyddyn, ymron hanner y gyllideb a gytunwyd gyda'r ADA ar gyfer y cyfnod hyd Mawrth 1983. Yn dilyn y trafodaethau gyda chynrychiolwyr y BBC, teimlwyd y dylid estyn gwahoddiad i HTV i wneud cyflwyniad ffurfiol hefyd, gan i'r cwmni fanteisio ar gyfarfod blaenorol i drosglwyddo tapiau, heb gyflwyniad ffurfiol i gyflwyno ei achos i gyd fynd a'r rhaglenni. Caed pwyslais yn y cofnodion y dylid gofyn i HTV am sicrhad y gellid darparu gwasanaeth newyddion rhyngwladol ynghyd â newyddion lleol a chenedlaethol yn ei wasanaeth arfaethedig, gan fod yr Awdurdod yn awyddus i greu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr i'r gynulleidfa Gymraeg, ac nid gwasanaeth a ganolbwyntiai ar faterion Cymreig yn unig.[155]

Cynhaliwyd y cyfarfod rhwng S4C ac HTV ar 29 Ebrill 1981 yn Nhŷ Elgin, swyddfeydd dros dro S4C, ond, gan nad oedd hwn yn gyfarfod swyddogol o'r Awdurdod, nid oes cofnodion ar gael er mwyn dadansoddi'r hyn a drafodwyd. Ymddengys, er hynny, y bu'r trafodaethau yn amherthnasol, oherwydd ddyddiau yn unig wedi'r cyfarfod hwnnw, ar 6 Mai 1981, cyhoeddwyd adroddiadau yn y papurau newydd yn datgan fod HTV wedi tynnu ei gais i ddarparu newyddion yn ôl.[156] Mewn

[153] Gwilym, 'Brwydr y newyddion'. Ond er y pryderon hyn y byddai rhoi gwasanaeth newyddion teledu Cymraeg i'r BBC yn lleihau'r dewis o ffynonellau ar gyfer y gwylwyr a'r gwrandawyr Cymraeg ac yn rhoi monopoli i'r BBC, nid oedd monopoli'r BBC yn gyflawn ymysg siaradwyr Cymraeg. Honnir hynny oherwydd gallai siaradwyr Cymraeg dderbyn eu newyddion hefyd trwy'r papurau wythnosol Cymraeg. At hynny, gan fod pob siaradwr Cymraeg yn ddwyieithog, ac os am dderbyn ei newyddion o amryw ffynonellau a chael gwahanol safbwyntiau, gallai droi at y newyddion Saesneg. Fodd bynnag nid yw Arfon Gwilym yn ei erthygl yn ystyried fod y wasg brintiedig Gymraeg yn cystadlu gyda radio a theledu fel ffynhonell newyddion ar gyfer y gynulleidfa Gymreig, agwedd ddadlennol sy'n dangos pa mor fychan oedd y cyfryngau print Cymraeg.
[154] CPGTH, *Cofnodion Pumed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 4.
[155] Ibid.
[156] Dienw, 'HTV pulls out of S4C news', *South Wales Evening Post,* 6 Mai 1981; Dienw, 'HTV say 'No' on news service', *South Wales Echo,* 6 Mai 1981.

datganiad i'r papurau newydd dywedodd Ron Wordley: 'Recent policy decisions regarding the provision of ITN's facilities to organisations outside the 15 ITV companies mean that it is not now possible to provide the kind of service required by Sianel Pedwar Cymru.'[157] Heb gydweithrediad ITN, yr oedd hi felly yn amhosibl i HTV ddarparu'r gwasanaeth newyddion cynhwysfawr cenedlaethol a rhyngwladol yr oedd S4C yn ei ddymuno, ac o'r herwydd yr oedd yn rhaid tynnu y cais yn ôl. O geisio dehongli datganiad Ron Wordley fe geir yr argraff nad oedd gweddill cwmnïau rhwydwaith ITV, a oedd yn ariannu ITN, yn dymuno cefnogi S4C ymhellach trwy ddefnydd o'u hadnoddau newyddion, a hwythau eisoes yn anesmwyth ac anhapus am eu cyfraniadau ariannol at S4C. Yr oedd pob cwmni rhwydwaith ITV eisoes yn cyfrannu'n ariannol at S4C, trwy'r taliadau i'r ADA i gynnal y bedwaredd sianel yng Nghymru a Lloegr, ac yr oedd nifer o'r cwmnïau yn anhapus eu bod yn cyfrannu at wasanaeth Cymraeg hollol amherthnasol iddynt hwy.[158] Priodolodd Leo Abse, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, newid agwedd sydyn HTV i agweddau gweddill cwmnïau rhwydwaith ITV wrth iddo nodi ar ddiwrnod y cyhoeddiad: '... one could be left with the impression by today's announcement that that may reflect a very hard-line approach by ITCA members towards non-ITCA members such as the Welsh Authority?'[159]

Cafwyd agwedd ychydig yn wahanol yn rhifyn mis Mai *Broadcast,* gyda'r awdur yn awgrymu mai anghytuno ynglŷn â chyfrifoldebau golygyddol oedd wrth wraidd y trafferthion rhwng ITN ac HTV:

> . . . Wells Street has told HTV that it cannot hand over to any organisation, editorial control over material produced by ITN. HTV had planned in its pilot to recast the news slant, even change the order of items to suit a Welsh-speaking audience. ITN baulked at this, as a result of which HTV was forced to pull out.[160]

Wedi'r cydweithio a'r brwdfrydedd cynnar a welwyd o du ITN, felly, doedd y darlledwr ddim yn barod i aberthu ei reolaeth olygyddol dros y deunydd a

---

[157] Ibid.
[158] Ceir trafodaeth o agweddau cwmnïau rhwydwaith ITV at ariannu S4C ym mhennod 2, tt. 100–2.
[159] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 654.
[160] Dienw, 'S4C's options narrowed for Welsh news', *Broadcast*, 17 Mai 1981.

gynhyrchai ar gyfer HTV.[161] O asesu'r darlun a geir o'r sefyllfa gan *Broadcast* mae'n hawdd gweld pam y bu'n rhaid i HTV dynnu yn ôl. Byddai cyfyngiadau, megis anallu i addasu rhediad bwletin i adlewyrchu diddordebau cynulleidfa Gymraeg, wedi bod yn drafferthus a thyngedfennol i'r gwasanaeth newyddion. Yn enwedig o ystyried fod y sianel yn ceisio torri tir newydd trwy gyflwyno gwasanaeth newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a lleol mewn un bwletin, patrwm a oedd yn gwbl wahanol i'r ddarpariaeth yr oedd y gynulleidfa Gymraeg wedi arfer ag ef gyda rhaglenni *Heddiw* ac *Y Dydd*. Byddai peidio gallu gwneud digwyddiadau rhyngwladol yn berthnasol i'r Cymry Cymraeg wedi gwneud hi'n llawer anoddach perswadio'r gynulleidfa honno o rinweddau'r patrwm newyddion newydd.

Ddyddiau yn ddiweddarach ar 9 Mai 1981 yng nghyfarfod yr Awdurdod yng Ngregynog, cafwyd cadarnhad o anallu HTV i ddarparu gwasanaeth newyddion cyflawn i S4C.[162] Penderfynwyd y byddai'r Awdurdod yn ysgrifennu at y BBC ac HTV gyda datganiad fyddai'n cadarnhau manylion gwasanaeth newyddion a materion cyfoes y sianel wedi iddo gynnal cyfarfod gyda'r UCN i wyntyllu unrhyw syniadau yr oedd yr Undeb am eu trafod cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw gyda'r UCN, cadarnhawyd mai'r BBC fyddai'n darparu newyddion ar gyfer y sianel, ac y byddai HTV yn darparu gwasanaeth materion cyfoes 'cynhwysfawr'.[163] Yn y pendraw felly, gwnaed y penderfyniad anos hwn yn hawdd i'r Awdurdod, gan mai cais y Gorfforaeth oedd yr unig un a allai gynnig y gwasanaeth cynhwysfawr y deisyfai swyddogion S4C. Er hynny, nid oedd y penderfyniad hwn heb ei oblygiadau i'r gwasanaeth. Fel y crybwyllwyd uchod, yr oedd costau unrhyw wasanaeth newyddion gan HTV yn aruthrol, cost a fyddai wedi lleihau'r arian a fyddai ar gael i'r sianel ar gyfer comisiynu rhaglenni eraill. Er hynny, yr oedd gofyn i'r BBC ddarparu'r newyddion fel rhan o'u cyfraniad am ddim yn cael effaith andwyol ar yr amrediad ehangach o raglenni y gallai'r Awdurdod newydd ei gael o dan y cytundeb yr oedd rhyngddynt. Byddai rheidrwydd, felly, i S4C gomisiynu mwy o raglenni drud megis drama, gan y cynhyrchwyr annibynnol yn benodol, a hynny gan fod y gwasanaeth newyddion yn llyncu oddeutu 3 awr yr wythnos o gyfran rhaglenni Cymraeg y BBC gan atal y Gorfforaeth rhag ymwneud

[161] Mae atgofion Geraint Talfan Davies yn cydfynd â'r hyn a nodwyd yn *Broadcast*, gan nodi anallu HTV i gystadlu gydag undod y BBC, Davies, *At Arm's Length*, t. 73.
[162] CPGTH, *Cofnodion Seithfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[163] Dienw, 'News service agreed', *Daily Post*, 15 Mai 1981.

ag amrywiaeth ehangach o *genres* eraill. Nid oedd y fantais ariannol yr un mor sylweddol ac yr oedd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf felly.

Er bod y gwasanaeth newyddion wedi llyncu llawer o'r sylw ar ddechrau cyfnod darlledu'r sianel, yr oedd darpariaeth y Gorfforaeth yn llawer ehangach na hynny. Darparodd y BBC amrediad eang o raglenni Cymraeg, gan gynnwys rhaglenni addysg, plant, chwaraeon, adloniant ysgafn, cerddoriaeth, crefydd, darllediadau allanol o ddigwyddiadau a gwyliau cenedlaethol a dramâu. Bwriedid i raglenni plant lyncu rhan sylweddol o'r deg awr yr wythnos gan y clustnodwyd awr a thri-chwarter o'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.[164] Gyda rhai o raglenni mwyaf llwyddiannus diwedd y 1970au megis *Yr Awr Fawr* a *Siop Siafins* yn cael lle ar y gwasanaeth newydd. Tynnwyd *Bilidowcar* hefyd oddi ar yr awyr flwyddyn cyn i'r gwasanaeth newydd gael ei lansio er mwyn ailasesu amcanion y rhaglen, a hefyd er mwyn sicrhau nad oedd yn colli ei apêl cyn cyrraedd ei chartref newydd.[165] Byddai nifer fawr o ffefrynnau eraill y BBC hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd megis *Rhaglen Hywel Gwynfryn, Dechrau Canu Dechrau Canmol, Lloffa* a *Phobol y Cwm.* Er dylid nodi y byddai pum pennod yn llai o fywydau trigolion Cwmderi ar y sianel newydd ar y dechrau.[166] Ni cheir esboniad clir o'r union resymeg pam y byddai llai o bennodau o *Pobol y Cwm* yn ystod blynyddoedd cynnar y sianel, ond diau mai oherwydd bod swyddogion y sianel am weld rhagor o amrywiaeth o raglenni, ac arbrofi â chysyniadau newydd oddi mewn i'r cyfanswm o 520 awr y flwyddyn a ddarperid i S4C am ddim.

Un genre a oedd ar goll o ddarpariaeth y BBC ar gyfer S4C oedd rhaglenni materion cyfoes, a hynny gan fod y cyfrifoldeb hwnnw wedi ei drosglwyddo'n llwyr i ddwylo HTV. Ymatebodd HTV i'r her honno trwy gynhyrchu rhaglenni fyddai'n trin a thrafod materion o bwys i Gymru a thu hwnt ar ffurf *Y Byd a'r Bedwar* a ddarlledwyd dair gwaith yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn, ac *Y Byd yn ei Le* lle byddai Vaughan Hughes yn cadeirio trafodaeth danbaid ar un o bynciau llosg y dydd.[167] Yr oedd cynhyrchu cynifer o raglenni materion cyfoes swmpus, mwy na

---

[164] CS4C, *'Y Darnau'n Disgyn i'w Lle' – Papur Atodol i Agenda Ugeinfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 21–22 Mawrth 1982, Atodiad 7, t. 3.
[165] Ibid., t. 9.
[166] Ibid., Atodiad 7, t. 2.
[167] Davies, *At Arms Length,* t. 73.

darpariaeth unrhyw gynhyrchydd arall ym Mhrydain, yn dipyn o gamp o ystyried nad oedd adran faterion cyfoes fel y cyfryw gan HTV yn y dyddiau cyn bodolaeth S4C, fel y cofiodd Geraint Talfan Davies am ei gyfnod yn bennaeth ar yr adran honno: 'The title of Head of News and Current Affairs was also a misnomer, since there was no current affairs department of any kind, simply a reporter pinched from the newsroom for a day or two.'[168] Er mai rhaglenni materion cyfoes oedd y brif ddarpariaeth, aeth HTV ati hefyd i ddarparu amrediad eang o raglenni i'r sianel newydd o hen ffefrynnau i raglenni newydd. Symudwyd *Siôn a Siân*, *Cefn Gwlad* ac *Elinor* i'r sianel newydd, i gadw cwmni i raglenni newydd megis y ddrama sebon *Coleg* a oedd yn rhoi llwyfan i dalentau actio newydd, y cwis *Teulu Ffôn*, y rhaglen ddogfen hynod boblogaidd *Mil o Alwadau* a bortreadai milfeddyg wrth ei waith ac *Arolwg* a oedd yn rhoi cyfle i'r gwylwyr fynegi eu barn am y rhaglenni a ddarlledid ar S4C. Yr oedd y ddarpariaeth eang a ffyniannus hon gan HTV yn tanseilio'r pryderon a fynegwyd gan y Golygydd Rhaglenni, Euryn Ogwen Williams, ar ddiwedd 1981, pan yr oedd y ddwy garfan yng nghanol eu trafferthion y cytundebol:

> Mae dealltwriaeth o ba fath o raglenni fyddwn yn eu derbyn ond fod gennyf amheuon cynyddol am allu'r dalent o fewn y cwmni i roi rhaglenni deniadol i ni. Mae'r holl sefyllfa ynghlwm wrth y cytundeb . . . Mae perygl mewn dibynnu gormod am fraster y gymysgedd ar HTV.[169]

Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth felly o du'r BBC ac i raddau llai a llawer mwy graddol gan HTV, ac o'r herwydd bu'n rhaid cynyddu'n sylweddol y nifer o staff cyfrwng Cymraeg oddi mewn i'r ddau sefydliad er mwyn cynhyrchu'r rhaglenni newydd hyn. Bu'r BBC ac HTV yn recriwtio'n sylweddol felly yn ystod 1981 ac 1982, gydag un memo mewnol rhwng staff y BBC yn awgrymu bod angen 152 o swyddi newydd yn y BBC yng Nghaerdydd er mwyn diwallu'r angen newydd i lenwi'r dair awr ychwanegol yn y ddarpariaeth.[170] Mewn gwirionedd yr oedd nifer fawr o'r adrannau o fewn y BBC wedi tyfu'n raddol gydol diwedd y 1970au gyda'r

---

[168] Ibid., t. 67.

[169] CS4C, *'Blwyddyn i Fynd' (Papur 15.81(2)) – Papur Atodol i Agenda pymthegfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Tachwedd 1981, t. 2.

[170] Archif BBC Cymru, Caerdydd, Ffeil 3365, Memo oddi wrth Pennaeth Materion Ariannol Cymru at Rheolwr Cymru, Rheolwr Gyfarwyddwr Teledu a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, 15 Gorffennaf 1981. Mewn erthygl yn y cylchgrawn *Arcade* nododd John Osmond bod y BBC wrthi'n gwneud 283 o benodiadau newydd ar gyfer y gwasanaeth newydd. John Osmond, 'Fight for the future', *Arcade*, Rhifyn 33, 5 Mawrth 1982, t. 6.

twf mewn rhaglenni plant a chwaraeon, ac felly ni fu'r ymestyn yn eithriadol o sydyn yno. Er hynny yr oedd cynnydd o 152 o swyddi yn golygu nad oedd digon o le bellach yn swyddfeydd y BBC yn Llandaf a bu'n rhaid mynd ati i chwilio am ragor o ofod swyddfa er mwyn lleihau'r wasgfa yn y Ganolfan Ddarlledu.[171] Yr oedd sefyllfa ychydig yn wahanol yn HTV, a hynny oherwydd yr oedi hir dros fater y cytundeb, ac wedi ei arwyddo, bu angen dod o hyd i staff newydd ar fyr rybudd. Cofia Huw Davies y bu Peter Elias a Geraint Talfan Davies yn cyfweld oddeutu dwy fil o bobl ifanc ar gyfer cant a hanner o swyddi newydd, er mwyn diwallu anghenion staff y cwmni mewn cyfnod cymharol fyr.[172] Ond nid o fewn y darlledwyr sefydledig yn unig y cafwyd twf aruthrol mewn swyddi newydd cyffrous ar gyfer Cymry Cymraeg, yr oedd to newydd o gwmnïau cynhyrchu bychain hefyd yn awyddus i fod yn rhan o'r datblygiadau digyffelyb hyn yn y diwydiant darlledu Cymraeg.

*S4C a'r Cynhyrchwyr Annibynnol*

Yr oedd y broses o ffurfio cytundeb rhwng y darlledwyr a fodolai eisoes yng Nghymru a'r berthynas a sefydlwyd rhyngddynt â S4C yn hollol wahanol i'r berthynas y bu'n rhaid i'r sianel ffurfio gyda'r to newydd o gynhyrchwyr annibynnol. Yn Lloegr yr oedd cael sianel lle gallai cynhyrchwyr annibynnol ddarlledu eu cynnwys yn un o'r ysgogiadau gwreiddiol dros ffurfio'r bedwaredd sianel, ond ni roddwyd yr un pwyslais yng Nghymru o gofio'r holl ddisgwyliadau eraill a gaed ar gyfer y sianel. Yn wir, nid yw'r Ddeddf Ddarlledu yn gosod rheidrwydd ar y bedwaredd sianel yng Nghymru i ymwneud â'r cynhyrchwyr annibynnol, gan mai dim ond nodi y gallai'r sianel wneud hynny pe dymunai y gwna: 'Nothing in this section shall be taken to preclude the Welsh Authority from obtaining television programmes in Welsh from sources other than the BBC and the TV programme contractor referred to in subsections (3).'[173]

Gellir deall pam nad oedd pwyslais mawr i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru, a hynny gan nad oedd yna nifer helaeth ohonynt yn weithredol yn y cyfnod. Yn wahanol i'r cyfundrefnau darlledu yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol yn gymharol ddi-gynrychiolaeth yn

---

[171] Cyfweliad yr awdur gyda Geraint Stanley Jones, Caerdydd, 10 Tachwedd 2008.
[172] Cyfweliad yr awdur gyda Huw Davies, Penarth, 21 Gorffennaf 2008; Osmond, 'Fight for the future', 5 Mawrth 1982, t. 6.
[173] *Broadcasting Act 1980, Chapter 64*, t. 9.

oedd rhai o'r cyfarwyddwyr llawrydd a fyddai'n dymuno cynhyrchu rhaglenni i'r sianel newydd. At hynny, credid y bwriadai Wilbert Lloyd Roberts o Gwmni Theatr Cymru, Toby Freeman o Gynllun Fideo Cymunedol Blaenau Ffestiniog a Huw Jones o gwmni Sain fentro i fyd cynhyrchu teledu, gyda'r Bwrdd Ffilmiau Cymreig yn sefydliad cenedlaethol y disgwylid byddai'n cyfrannu hefyd.

Yn wir, gan nad oedd nifer fawr o gynhyrchwyr annibynnol yn bodoli, amheuodd HTV a Ron Wordley yn enwedig, yn gyhoeddus a geid y gallu o fewn y sector newydd hon i ddarparu rhaglenni yn rheolaidd i'r sianel newydd. Yn wir yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol, ceir ymosodiad gan Brif Weithredwr HTV ar yr unigolion hyn a'u gallu i gynhyrchu rhaglenni o safon i'r sianel newydd. Meddai:

> On the basis of the people we know to be available, who will undoubtedly grow, new talent of course will come forward, it may well be that new finance will come forward from outside sources for independent producers but I would say . . . that I find it extremely difficult to accept that independent broadcasters in Wales could regularly produce more than about two hours a week, on a regular basis . . .[177]

Mae'n amlwg i sylwadau Ron Wordley yn y sesiwn hwn gael gryn effaith ar y Pwyllgor oherwydd rai dyddiau yn ddiweddarach wrth iddo gyfweld â'r Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg, nodwyd gan Dr Roger Thomas: 'I thought he was very defensive when we were discussing the independent producers, very defensive indeed, to the point that at one time I had the impression he was afraid of their contribution.'[178]

Gwirionedd y mater oedd ei bod hi'n talu i HTV gredu na allai'r cynhyrchwyr annibynnol ddarparu nifer sylweddol rhaglenni safonol yn gyson i'r sianel. Pe bai hynny'n wir, byddai'n rhaid i S4C droi at HTV er mwyn cynhyrchu mwy na'r saith awr a nodwyd yn y cytundeb gyda'r ADA er mwyn cyrraedd targed y sianel o ddarlledu dwy awr ar hugain o raglenni Cymraeg yr wythnos gan sicrhau buddsoddiad pellach angenrheidiol yng Nghroes Cwrlwys. Nid dim ond niferoedd bychain ymhlith y cynhyrchwyr annibynnol a diffyg hyder carfannau o'r diwydiant

---

[177] Ibid., t. 350.
[178] Ibid., t. 376.

ynddynt oedd yr unig rwystrau i dwf y sector newydd hon, fel y gwelir o dystiolaeth y Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg i'r PDFC. Yno mynegwyd bod yr adnoddau a'r offer a oedd ar gael i'r sector newydd hon yn annigonol, ac mai dim ond offer ffilm a oedd ar gael iddynt fel cynhyrchwyr annibynnol.[179] Wrth i'r diwydiant teledu symud tuag at ddefnydd helaethach o fideo erbyn dechrau'r 1980au, byddai gorfod gweithio trwy ffilm yn unig wedi bod yn rhwystr mawr i gyfraniad a llwyddiant y cynhyrchwyr annibynnol. Ond mewn ymgais i gydfynd â'r ysbryd o arloesi a geid wrth sefydlu'r sianel, ni fynnai'r cynhyrchwyr i'r ffaith mai dim ond o fewn sefydliadau'r darlledwyr y caed offer fideo eu hatal. Hyd yn oed ar ddechrau 1981 yr oedd cynlluniau ar droed i nifer o'r cynhyrchwyr annibynnol hyn ddod at ei gilydd ac i fuddsoddi mewn uned ddarlledu allanol ac iddi'r offer fideo angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cystadlu gyda'r darlledwyr eraill o ran safon eu hoffer a'u rhaglenni.[180]

Ymddengys yr oedd cynlluniau ar droed er mwyn sefydlu adnoddau i gynhyrchwyr annibynnol yn ôl ym 1980, tra yr oedd union natur y ddarpariaeth deledu Gymraeg yn cael ei drafod. Mewn cyfarfod rhwng Euryn Ogwen Williams, Gwilym Owen a Phwyllgor Cymreig yr ADA ym Mehefin 1980, er mwyn trafod cyfraniad posibl cynhyrchwyr annibynnol i'r twf mewn darpariaeth Gymraeg ar rwydwaith yr Awdurdod hwnnw, nododd Euryn Ogwen Williams ei fod wedi ceisio prynu hen ofod stiwdio'r BBC yn ardal Broadway o Gaerdydd, ond na fu ei gynnig yn ddigon uchel i brynu'r adeilad.[181] Wedi colli'r cyfle hwnnw, a chan nad oedd adeilad addas arall yng Nghaerdydd y gellid ei brynu heb gostau sylweddol ei addasu at ddibenion darlledu, yr oedd Euryn Ogwen Williams bellach yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu uned ddarlledu allanol wedi ei lleoli yng Nghaerdydd y gellid ei defnyddio er mwyn cynhyrchu drama ar leoliad a chynyrchiadau adloniant ysgafn.[182] Wedi sefydlu S4C, aethpwyd ati i geisio gwireddu'r cynllun hwn ar y cyd gyda nifer o'r cynhyrchwyr annibynnol eraill. Cofia Huw Jones gyfarfod dros y ffôn yn swyddfa

---

[179] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 373. Roedd y cynhyrchwyr annibynnol yn defnyddio'r offer ffilm wrth gynhyrchu ffilmiau addysgol a diwydiannol, ond pan yr oeddent yn gweithredu fel cynhyrchwyr neu gyfarwyddwyr llawrydd ar gyfer y darlledwyr roeddent yn gweithio â offer fideo cyfoes.
[180] Ibid.
[181] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the one hundred and thirty ninth meeting of the Welsh Advisory Committee*, 27 Mehefin 1980, t. 6.
[182] Ibid. Nododd Euryn Ogwen Williams hefyd y gellid sefydlu ail uned mewn lleoliad arall yng Nghymru, o bosibl y Gogledd, wedi dangos gwerth yr uned wreiddiol.

Wilbert Lloyd Owen, pennaeth Cwmni Theatr Cymru, rhyngddo ef, Wil Aaron, Gareth Wyn Williams a Wilbert Lloyd Owen gydag Euryn Ogwen Williams ar ben arall y ffôn, ac yntau yn parhau'n aelod o'r sector honno ar y pryd.[183] Yn ystod yr alwad honno, trafodwyd yr egwyddor o sefydlu adnoddau at ddefnydd y cynhyrchwyr annibynnol er mwyn eu galluogi i gystadlu yn erbyn y darlledwyr gyda'u stiwdios mawrion, a holwyd pwy fyddai â diddordeb yn y fenter. Yn fuan wedyn gwahoddwyd cynhyrchwyr annibynnol eraill i ymuno yn y fenter, ac ymddengys mai'r bwriad gwreiddiol oedd y byddai pob cwmni annibynnol yn rhan o'r datblygiadau.[184] Er hynny, dim ond pedwar cynhyrchydd annibynnol benderfynodd fuddsoddi yn y fenter, sef Gwilym Owen, pennaeth y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg; Huw Jones, cwmni Sain a Teledu Tir Glas; Wil Aaron, Ffilmiau'r Nant ac Alan Clayton gynt o HTV, gyda phob un yn buddsoddi £25,000 tuag at y cyfanswm o hanner miliwn o bunnau yr oedd ei angen er mwyn gwireddu'r cynllun.[185]

Penderfynwyd buddsoddi mewn uned deithiol, hyblyg gydag offer fideo a chafwyd cyngor gan David Reay, Pennaeth Peirianyddol HTV, cyn gwneud penderfyniad terfynol ar yr offer a brynwyd.[186] Rhagwelwyd y byddai'r uned, a fedyddiwyd yn Barcud, yn weithredol erbyn mis Ebrill 1982, ac yn y cyfamser fe amlygwyd yr angen amdani a'r potensial ar ei chyfer wrth i Huw Jones a Wil Aaron logi uned ddarlledu allanol gan gwmni Molinaire o Lundain er mwyn recordio'r rhaglen *Mab Darogan* yn y Drenewydd cyn i'r offer newydd gyrraedd.[187] Dechreuodd Barcud ei hoes yn Ebrill 1982, dan adain y Rheolwr Gyfarwyddwr Gwilym Owen, gyda'i wythnos gyntaf o waith yn Theatr Ardudwy yn Harlech lle ffilmiwyd sawl pennod o'r rhaglen *Yng nghwmni* i Teledu Tir Glas ac yna dwy neu dair rhaglen o gwis a

---

[183] Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.

[184] Ibid. Nid pob cynhyrchydd annibynnol oedd a diddordeb er hynny, bwriadodd Dennis Jones o Ffilmiau Eryri, er enghraifft, sefydlu menter debyg ei hun.

[185] Bu rhaid benthyca arian gan Awdurdod Datblygu Cymru, sicrhau grant datblygu rhanbarthol, trefnu cytundeb ariannu offer trwy les a benthyciad o'r banc er mwyn ariannu'r gweddill. Huw Jones fu'n gyfrifol am y rhan helaeth o'r agwedd hon o'r gwaith paratoadol. Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.

[186] Cofia Huw Jones y bu peth trafod ai offer fideo neu offer ffilm y dylid buddsoddi ynddo, ond gan mai fideo oedd yr unig dechnoleg a oedd yn galluogi torri lluniau yn fyw, techneg a oedd yn angenrheidiol ar gyfer rhaglenni adloniant a cwis, penderfynwyd buddsoddi mewn offer fideo, a pheiriannau un modfedd newydd. Roedd y cynhyrchwyr a'r cyfarwyddwyr a oedd yn dymuno creu cyfresi drama, un camera, er hynny yn ffafrio cyfrwng ffilm. Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.

[187] Bu hwn yn brofiad gwerthfawr i gyfarwyddwyr newydd y cwmni, gan iddo ddangos iddynt beth fyddai'n bosibl gyda'r uned newydd, gan roi syniad o'r prisau y dylid codi am ddefnyddio uned o'r fath. Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.

gynhyrchwyd gan Gwilym Owen.[188] Yr oedd uned Barcud yn golygu y gallai cynhyrchwyr annibynnol gystadlu yn erbyn y darlledwyr, ac y gellid mewn egwyddor gynhyrchu rhaglenni yn rhesymol iawn i'r sianel, gydag un amcan mewnol gan S4C yn nodi y gellid creu un rhaglen gwis am gost o £6,000 wrth ddefnyddio'r uned newydd.[189]

Yr oedd yr ymrwymiad cynnar yma, a'r parodrwydd i fentro trwy wneud buddsoddiad masnachol mewn adnoddau cyn i unrhyw gomisiwn ddod gan y sianel, yn nodweddiadol o frwdfrydedd y sector newydd hon. Hyd yn oed cyn cyfarfod swyddogol cyntaf yr Awdurdod yr oedd Syr Goronwy Daniel wedi cael cyfarfod gydag Euryn Ogwen Williams, un o'r cynhyrchwyr annibynnol i drafod eu cyfraniad posibl. Ymddengys yr oedd Euryn Ogwen Williams yn arweinydd answyddogol i'r cynhyrchwyr annibynnol, gan iddo ymweld â'r ADA hefyd ym Mehefin 1980 er mwyn trafod cyfraniad y cynhyrchwyr annibynnol i'r ddeuddeg awr o raglenni Cymraeg y bwriedid eu darlledu ar y bedwaredd sianel o dan y system dwy sianel.[190] Cofia Huw Jones fod Euryn Ogwen Williams wedi deall yn gyflym iawn sut y gallai'r cynhyrchwyr annibynnol ddatblygu, manteisio a gweithredu yn y tirlun darlledu newydd, meddai:

> . . . does na'm amheuaeth, roedd o 'di gweld y peth, odd o 'di gweld beth oedd yn bosibl ac felly fysa fo yn hawdd iawn . . . o fod yn gwybod am Wilbert, ag odd o'n gwbod be odd genna i dan sylw . . . hawdd iawn y galle fo wedyn . . . ddeud dyma odd o'n meddwl oedd yn bosibl gan . . . ddechre synhwyro pwy oedd yna o fewn y

---

[188] Ysywaeth cododd anghydfod rhwng S4C a Gwilym Owen am y rhaglenni cwis hyn, a hynny gan fod swyddogion S4C yn argyhoeddedig nad oeddent wedi eu comisiynu, tra yr honnai Gwilym Owen ei fod wedi derbyn cadarnhad. Bu'r digwyddiad hwn yn un o'r rhesymau pam y bu i Gwilym Owen adael ei swydd fel Rheolwr Gyfarwyddwr Barcud ac hefyd pam y talwyd ei fuddsoddiad gwreiddiol yn ôl iddo. Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010; Gwilym Owen, *Crych dros dro* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2003), tt. 183–9.

[189] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 6.82(4)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 7 Mai 1982, t. 3.

[190] CPJM, Papurau ADA, *Minutes of the one hundred and thirty ninth meeting of the Welsh Advisory Committee*, 27 Mehefin 1980, t. 6. Yn y cyfarfod hwnnw, a fynychwyd hefyd gan Gwilym Owen o'r Bwrdd Ffilmiau Cymreig, trafodwyd y gallai'r Bwrdd gynhyrchu 12 ffilm awr o hyd bob blwyddyn i ddarpariaeth Gymraeg y bedwaredd sianel. Trafodwyd fod y cynhyrchwyr annibynnol wedi gobeithio cynhyrchu opera sebon, gyda'r bwriad y gellid darlledu dwy bennod hanner awr bob wythnos, ond gan na fu'n bosibl iddynt brynu hen stiwdio'r BBC, addaswyd hynny i gyfres o ddramâu wedi eu lleoli ar draws Cymru. At hynny, nodwyd dymuniad y cynhyrchwyr annibynnol i gynhyrchu rhaglen materion cyfoes hanner awr o hyd bob wythnos.

sefydliadau fydde'n barod i symud pan oedd yr amgylchiadau'n iawn.[191]

Yn y cyfarfod cynnar hwnnw, yr oedd y trafodaethau yn ystyried cyfraniad o dair awr yr wythnos o du'r cynhyrchwyr annibynnol, gyda drama'n llyncu awr a hanner o'r ddarpariaeth wythnosol, adloniant ysgafn yn llenwi awr a rhaglen werin yr hanner awr yr oedd yn weddill.[192] Dengys hyn fod y cynhyrchwyr annibynnol yn garfan uchelgeisiol, nid yn unig yn nhermau'r nifer o oriau yr oeddent yn argyhoeddedig y gellid eu darparu ar gyfer y sianel yn wythnosol, ond hefyd yn nhermau'r *genres* yr oeddent yn dymuno eu cynhyrchu. Gyda drama ac adloniant ysgafn ar frig eu rhestr, diau yr oedd y cynhyrchwyr yn awyddus i greu rhaglenni poblogaidd fyddai'n mynnu lle blaenllaw yn yr amserlen.

Parhaodd y brwdfrydedd hwn yn yr wythnosau canlynol wrth i aelodau'r Awdurdod nodi bod cynhyrchwyr annibynnol wedi bod yn cysylltu â hwy er mwyn gwneud ymholiadau am gyfleon yn sgil y gwasanaeth newydd.[193] Yr oedd yr Awdurdod yn awyddus i sicrhau fod pob cynhyrchydd annibynnol yn cael chwarae teg, ac nad oeddent yn ymwneud â rhai yn fwy nag eraill. Penderfynwyd felly y dylid trefnu cyfres o gyfarfodydd a fyddai'n cael eu hysbysebu yn gyhoeddus, er mwyn sicrhau fod pawb a oedd yn dymuno creu rhaglenni ar gyfer y sianel yn derbyn yr un wybodaeth a chyngor.[194] Trefnwyd y cyfarfodydd hynny ar ôl penodi Cyfarwyddwr y sianel, yng Nghaernarfon a Chaerdydd ar 11 a 12 o Fai 1981.[195] Yn y cyfarfod hwnnw pwysleisiodd y Cyfarwyddwr newydd yn ei anerchiad ei obaith mai natur boblogaidd a fyddai i'r bedwaredd sianel yng Nghymru, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw ddryswch na chamddealltwriaeth ymysg y cynhyrchwyr annibynnol hynny, ynglŷn ag ethos gwbl wahanol y ddwy sianel a fyddai o bosibl yn dymuno cynnig rhaglenni ar gyfer y ddwy bedwaredd sianel:

[191] Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010. Yn ystod yr Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd yn Harlech ym 1981, cyflwynyd araith gan Euryn Ogwen Williams, lle aeth ati i geisio ei gwneud hi'n amlwg i'r gynulleidfa nad oedd y cynhyrchwyr annibynnol am adael i'r BBC ac HTV feddiannu'r gwasanaeth newydd yn llwyr, gan ddatgan: 'Give us the tools and we'll do the job.' Gohebiaeth yr awdur gyda Euryn Ogwen Williams, 9 Tachwedd 2010.
[192] CPGTH, *Cofnodion cyfarfod cyntaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 4.
[193] CPGTH, *Cofnodion ail gyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 5.
[194] Ibid.
[195] CS4C, *Cofnodion chweched cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 26–27 Ebrill 1981, t. 2.

> Felly gwasanaeth safonol, poblogaidd, cytbwys, yn cynnwys . . . [c]yfran helaeth iawn [o] ddeunydd poblogaidd, canol y ffordd, fydd yn apelio at drwch y boblogaeth . . . Fydd yna ddim lle i bobl sydd am ddilyn eu mympwyon creadigol eu hunain heb ystyried a fydd ffrwyth eu llafur yn ffitio oddimewn i fframwaith S4C. Yma i wasanaethu ein cynulleidfa yr yda ni, nid i foddhau ein hunain, ond os bo modd priodi'r ddau beth, gora i gyd.[196]

At hynny, pwysleisiwyd, fel y gwnaed yn natganiad cyhoeddus cyntaf Owen Edwards yn rhinwedd ei swydd newydd yn yr Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd, y gallai'r cynhyrchwyr annibynnol fod yn rhan allweddol o'r sianel newydd oherwydd y gallent weithredu mewn modd llawer mwy hyblyg ac economaidd na'r darlledwyr. Er hynny, gosodwyd amod ar eu cyfraniad yn y datganiad hwnnw, sef y byddai disgwyl i'r cynhyrchwyr annibynnol '. . . [g]adw eu traed yn sownd ar ddaear galed ymarferol' a pheidio â chredu y gallent wneud eu ffortiwn ar gorn y sianel newydd.[197] Ymhelaethwyd ar y rhesymeg hon yn y cyfarfodydd yng Nghaernarfon a Chaerdydd, gyda'r cadarnhad na osodid cwota ar gyfraniad y cynhyrchwyr annibynnol, ac yn hytrach y byddai disgwyl i'w syniadau gystadlu gyda rhaglenni HTV a'u cyd-gynhyrchwyr annibynnol o safbwynt apêl a'u pris er mwyn sicrhau lle ar yr amserlen.[198] Y rheswm dros beidio clustnodi nifer penodedig o oriau i'r cynhyrchwyr annibynnol, oedd er mwyn arbed y sianel rhag ofn y byddai safon cynnwys y cynhyrchwyr annibynnol yn is na'r disgwyl, a gellid creu sefyllfa lle byddai rheidrwydd arni i dderbyn cynnwys isel ei safon a hynny oherwydd addewid cwota.[199] Cofia Wil Aaron nad oedd modd i'r cynhyrchwyr annibynnol dderbyn cytundeb na chyfres hir fel rhan o'i darpariaeth i'r sianel yn ystod y blynyddoedd cyntaf, gan nad oedd swyddogion y sianel yn gwbl argyhoeddedig y gallai'r cynhyrchwyr annibynnol drin cyllidebau mawrion na chynhyrchu rhaglenni i'w darlledu'n wythnosol. Yr oedd pryder felly ynglŷn â buddsoddi arian sylweddol mewn cyfres hir cyn i'r cynhyrchwyr annibynnol brofi eu bod yn gymwys.[200]

Gosodwyd yn ogystal ambell gyfyngiad arall ar y ddarpariaeth y gallai'r cynhrychwyr annibynnol ymgeisio amdano. Yr oedd newyddion yn un maes amlwg

---

[196] CS4C, *Cyfarfodydd Cynhyrchwyr Annibynnol – Anerchiad y Cyfarwyddwr*, t. 1.
[197] Ibid., t. 2.
[198] Ibid.
[199] Ibid.
[200] Cyfweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010. *Hel Straeon* oedd y gyfres hir gyntaf a gomisynwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol ym 1985–86 .

na fyddai disgwyl i'r cynhyrchwyr ymwneud ag ef, ac ni fyddai rhaglenni materion y dydd yn agored iddynt ychwaith. Erbyn y cyfarfodydd hyn yr oedd yr Awdurdod yn agos iawn at gyhoeddi ei benderfyniad ynglŷn â dosbarthiad y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, a diau mai oherwydd cymhlethdodau'r drafodaeth honno y nodwyd na ddylai'r cynhyrchwyr annibynnol ymwneud â rhaglenni materion y dydd. Teg dadlau hefyd na fyddai adnoddau angenrheidiol gyda'r cynhyrchwyr annibynnol i gynnal cyfres o raglenni materion y dydd oherwydd yr amrediad staff ac adnoddau cynhyrchu mewnol a fyddai'n angenrheidiol i gynhyrchu rhaglenni megis *Y Byd ar Bedwar*. I goroni'r cyfan cyflwynwyd her i'r cynhyrchwyr annibynnol trwy awgrymu na fyddai'r ddarpariaeth drama yn disgyn yn awtomatig i'w dwylo, meddai Owen Edwards: 'Wrth gwrs mae yna gyfle am ryw gymaint o ddrama ond bydd yn rhaid bod yna resymau da am ei dderbyn gan Annibynwyr yn hytrach na'r cyfundrefnau gyda'r profiad ac adnoddau.'[201] Dengys y datganiad hwn yn glir fwriadau'r sianel newydd i fynnu rhaglenni o'r safon uchaf gan y cynhyrchwyr annibynnol ac na fyddai diffyg profiad yn esgus dilys dros gynhyrchu syniadau eilradd. Yr oedd y datganiad hwn yn chwalu rhywfaint ar y dyhead gwreiddiol a fynegwyd gan Euryn Ogwen Williams fel cynrychiolydd answyddogol y cynhyrchwyr annibynnol a nododd eu bod fel sector am gynhyrchu awr a hanner o ddrama bob wythnos.

Materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfodydd cyhoeddus hyn oedd y trefniadau ymarferol ar gyfer comisiynu a darparu rhaglenni wedi eu cwblhau i'w darlledu. Gosodwyd amserlen arfaethedig lle byddai'r sianel yn derbyn ceisiadau ymhen 6 wythnos ar ôl y cyfarfodydd, ar ddiwedd Mehefin er mwyn rhoi cyfle i staff y sianel dreulio'r haf yn eu hystyried cyn cynnig comisiynau ym mis Medi.[202] Awgrymwyd hefyd faint o arian a oedd yn debygol o fod ar gael ar gyfer llunio rhaglenni, sef £24,000 yr awr, fwy na deg mil o bunnau yn llai na chyfartaledd costau HTV, er y nodwyd yn blaen mai dim ond cyfartaledd oedd y ffigwr hwn ac y disgwylid y byddai nifer helaeth o'r rhaglenni yn llawer rhatach na hynny.[203] Rhybuddiwyd y cynhyrchwyr annibynnol, yn ogystal, y byddai disgwyl i'r holl raglenni gael eu cynhyrchu yn ôl safonau undebol, ac na ddylid ceisio torri ar gyllidebau trwy dorri

---

[201] Ibid.
[202] Ibid., t. 3.
[203] Ibid.

rheolau undebol o ran staffio. Mynegwyd ofnau yma a oedd yn adlewyrchu agweddau hanesyddol rhai o'r undebau a gynrychiolai staff y darlledwyr a oedd wedi gwrthod darlledu rhaglenni gan gwmnïau annibynnol oherwydd eu tyb eu bod yn dryllio safonau undebol. Caed ymgais yma felly i dawelu meddyliau'r undebau, ond hefyd sicrhau fod y cynhrychwyr annibynnol yn ymwybodol nad oedd yr hinsawdd undebol wedi newid hyd yn oed wrth i'r tirlun darlledu newid yn llwyr.[204]

Erbyn canol Mehefin 1981 yr oedd Euryn Ogwen Williams, bellach Golygydd Rhaglenni y sianel, wedi derbyn nifer o geisiadau ar gyfer rhaglenni'n barod gan amryw o gynhyrchwyr. Ymhlith y syniadau a dderbyniwyd yr oedd cais gan gwmni o'r enw Opix Films o Lundain a gynigiai ddwy raglen hanner awr yn dilyn Max Boyce wrth iddo deithio i Dallas a Fort Worth, a chyfres o ddeuddeg drama ddogfen gan Wil Aaron yn trin a thrafod straeon annisgwyl yn hanes Cymru.[205] Wrth i'r broses gomisynu fynd rhagddo, daethai'n amlwg bod angen canllawiau cadarn ar y sianel ar faterion peirianyddol a chyllidebau, ffurflen gynnig syniadau unffurf a chytundebau safonol ar gyfer gwaith gyda'r cynhyrchwyr annibynnol ar gyfer y sianel. Ymddengys i S4C oedi ar hyn yn y gobaith y cai rywfaint o arweiniad o du Channel 4 a manteisio ar yr arbenigedd a ddeuai o'r chwaer Brydeinig gan fod ymwneud â chynhyrchwyr annibynnol yn brif ffocws ei gwaith. Wedi'r gobaith cychwynnol y gellid rhannu canllawiau yn y pendraw bu'n rhaid i S4C droedio ei llwybr ei hun ar y materion hyn gan na gyhoeddwyd unrhyw ddogfennau pendant gan y sianel Brydeinig tan fis Awst 1981.[206]

Erbyn canol mis Gorffennaf 1981, yr oedd y Golygydd Rhaglenni yn ddigon hyderus i nodi yn ei adroddiad swyddogol i'r Awdurdod ei fod yn hyderus y gallai'r sector annibynnol ddarparu digon o ddeunydd fel bod modd darlledu tair awr yr wythnos o'u rhaglenni yn gymharol ddidrafferth. Rhagwelwyd hefyd y gellid cynyddu hynny i dair awr a hanner yn rhwydd pe prynid cyfresi o raglenni drama, cartwnau a rhaglenni dogfen tramor a'u dybio gydag actorion Cymreig.[207] Ymddengys hefyd y teimlai Euryn Ogwen Williams yn hyderus y byddai deg, os nad mwy, o gwmnïau

---

[204] Ibid. Ceir trafodaeth ar berthyns S4C gyda'r undebau ym Mhennod 2, tt. 113–17.
[205] CS4C, *Nodiadau Golygyddol Rhaglenni i'r Cyfarwyddwr – Papur Atodol i Agenda Nawfed Cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* t. 2.
[206] Ibid.
[207] CS4C, *Nodiadau'r Golygydd Rhaglenni i'r Cyfarwyddwr – Papur Atodol i Agenda degfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 12 Gorffennaf 1981, t. 1.

bychain newydd wedi eu ffurfio ac yn gweithredu erbyn diwedd blwyddyn gyntaf bodolaeth S4C, gan i'w adroddiad nodi bod rhai unigolion yn dechrau gadael eu swyddi yn y BBC ac HTV er mwyn sefydlu eu hunain fel cynhyrchwyr annibynnol.[208] Gellir esbonio'r mudo hwn a welwyd wrth i unigolion adael swyddi saff gan fentro i fywyd cymharol ansicr fel cynhyrchwyr annibynnol mewn sawl ffordd. I nifer byddai gweithredu yn annibynnol yn cynnig rhyddid iddynt ddilyn eu diddordebau cynhyrchu eu hunain, gan nad oeddent yn derbyn y rhyddid hwnnw oddi mewn i'r cyfundrefnau darlledu mawrion, gan eu bod yno yn gweithredu i flaenoriaethau pennaethiaid HTV neu'r BBC. Credai'r Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg hefyd fod y sector annibynnol yn cynnig cyfleoedd newydd i'r tô hŷn o staff y darlledwyr i ymestyn eu gorwelion a defnyddio'r sgiliau a feithrinwyd o dan hyfforddiant y darlledwyr at bwrpasau newydd cyffrous. At hynny, teimlid y byddai'r mudiad hwn yn creu agoriadau i bobl ifanc oddi mewn i'r darlledwyr, meddai Euryn Ogwen Williams yn nhystiolaeth y Gymdeithas:

> . . . there comes a point in the professional life where you feel that the scope is there to try something new. I am convinced that this is good for the industry because it is far easier for new talent to be fostered within the organisation where it can keep control, where it can teach properly, than for new talent to go immediately into the marketplace and hope that it will work: it is a cruel place. By people leaving the two organisations they are in fact creating space for this new talent to be nurtured.[209]

I aelodau o staff creadigol HTV yr oedd rheswm dilys arall, sef yr oedi a'r trafodaethau hirfaith dros fanylion eu cytundeb â S4C a oedd yn eu hatal rhag dechrau ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni ar gyfer y sianel newydd, tra gwelant fwrlwm y sector annibynnol o'u cwmpas. Ac, fel y crybwyllwyd eisoes, gellid awgrymu oherwydd sylwadau diweddar Euryn Ogwen Williams fod aelodau o staff S4C wedi perswadio hufen staff y darlledwyr i sefydlu eu cwmnïau eu hunain, a hynny er mwyn gwanhau safle bargeinio HTV yn y trafodaethau cytundebol.

Un o'r cwmnïau a sefydlwyd yn ystod y bwrlwm hwnnw o staff yn mudo o'r darlledwyr, a oedd y groes i'r datblygiad hwnnw, ond a oedd yr un mor

---

[208] Ibid. Nododd John Osmond yn ei erthygl yn *Arcade* ym Mawrth 1982 fod 24 o aelodau o staff HTV a 18 o aelodau o staff y BBC wedi gadael er mwyn ffurfio cwmnïau annibynnol.
[209] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II*, t. 376.

nodweddiadol o fywiogrwydd y sector annibynnol, oedd ffurfio'r cwmni animeiddio Siriol, cwmni a sefydlwyd o drwch blewyn yn unig ond cwmni a gyfranodd yn sylweddol at enw da'r sianel. Yr oedd llyfrau *SuperTed* a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan un o gwmnïau HTV wedi profi'n boblogaidd, a bu trafodaeth rhwng Mike Young, crëwr *SuperTed*, a Chris Grace, pan yr oedd Grace yn gweithio i HTV, lle'i perswadiwyd y byddai'n syniad da i gynhyrchu fersiwn animeiddiedig o'r cymeriad. Ni ddatblygodd cyfres o'r trafodaethau gyda HTV a hynny oherwydd pryderon y cwmni ynghylch gwrthwynebiad gan y cwmni DC Comics a feddai ar hawliau'r cymeriad *Superman*.[210] Atgyfodwyd y syniad ar ôl i Chris Grace ymuno â staff S4C, a threfnwyd cyfarfod ffurfiol yn S4C rhwng Chris Grace, Mike Young, Robin Lyons, actor a sgriptiwr a fu'n awdur rhith llyfrau *SuperTed* a Martin Lambie-Nairn o gwmni Robinson Lambie-Nairn a oedd wedi derbyn y cytundeb i lunio logo a delwedd gynnar y sianel.[211] Y bwriad yn gynnar yn y trafodaethau oedd mai cwmni Lambie-Nairn yn Llundain fyddai'n cynhyrchu ac animeiddio'r gyfres, a chofia Robin Lyons iddo holi, yn ddigymell, pam na ellid sefydlu cwmni yng Nghymru i wneud y gwaith.[212] Ni fu unrhyw wrthwynebiad gan Martin Lambie-Nairn, ac yr oedd y syniad yn sicr yn apelio at Chris Grace, aethpwyd ati felly i ffurfio cwmni Siriol o dan arweinyddiaeth Mike Young, Robin Lyons a Dave Edwards, animeiddiwr a oedd yn gweithio ar hysbysebion yn Llundain ar y pryd.[213] Cofia Robin Lyons nad oedd profiad cynhyrchu cyfresi animeiddio gan yr un ohonynt ac aethpwyd ati i lunio cyllideb sylweddol, yn enwedig yn nhermau cynhyrchu teledu, ond sicrhaodd brwdfrydedd ac anwybodaeth S4C o faes animeiddio y cadarnhawyd y gyllideb yn ddi-drafferth. Aethpwyd ati felly i ddechrau cynhyrchu *SuperTed*, cyfres a dyfodd yn un o lwyddiannau sylweddol y sianel, ond a allai fod wedi ei gynhyrchu mewn amgylchiadau cwbl wahanol.

Tyfu yn unig wnaeth hyder staff S4C yn y cynhyrchwyr annibynnol, ac, erbyn Tachwedd 1981, yr oeddent yn ddigon ffyddiog yng ngwaith y cynhyrchwyr hyn i nodi eu bod yn gweithredu strategaeth a oedd yn gadael i'r cynhyrchwyr annibynnol

---

[210] Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.
[211] Cyfweliad yr awdur gyda Robin Lyons, Caerdydd, 15 Hydref 2010. Caed trafodaeth o waith Robinson Lambie-Nairn ar ddelwedd y sianel ym Mhennod 2, tt. 122–5.
[212] Ibid.
[213] Trodd Mike Young a Robin Lyons at Roger Fickling am gyngor er mwyn dod o hyd i animeiddiwr a allai gyd-weithio â hwy er mwyn cynhyrchu'r gyfres, ac ef a argymhellodd eu bod yn cysylltu â Dave Edwards. Cyfweliad yr awdur gyda Robin Lyons, Caerdydd, 15 Hydref 2010.

ddatblygu a gweithredu yn ôl eu cryfderau hwy.[214] Mae lle i ddadlau, felly, o ystyried y datganiad hwn mai rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol oedd conglfaen gwasanaeth S4C ac mai'r BBC, ac, i raddau helaethach, HTV oedd yn llenwi'r bylchau o amgylch eu darpariaeth. Ymddengys i'r strategaeth hon weithio'n lled llwyddiannus gan fod tueddiadau creadigol y cynhyrchwyr wedi eu harwain i gynhyrchu nifer o ddramâu, rhaglenni nodwedd a dogfen – yr union fathau o raglenni yr oedd eu hangen wrth gefn ar y sianel, a hynny gan eu bod angen mwy o amser paratoi na nifer o *genres* eraill.[215] Cynghorwyd y cynhyrchwyr annibynnol i ddal yn ôl ac i beidio â chynhyrchu gemau panel a chwisiau, tan y ceid gwybodaeth gliriach am fwriadau HTV.[216] Yr oedd y cwmnïau annibynnol felly yn magu arbenigedd ac yn gosod eu stamp eu hunain ar raglenni drama, dogfen ac adloniant a fyddai'n datblygu'n uchafbwyntiau amserlen y sianel, a hynny o bosibl, ar draul datblygiadau tebyg yn HTV. Er fel y nodwyd yn gynharach rhaglenni unigol neu gyfresi bychain oedd y rhaglenni a gomisiynwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol, tra byddai HTV yn cynhyrchu cyfresi hir ar gyfer y sianel.

Erbyn Chwefror 1982, yr oedd y rhaglen orffenedig gyntaf, o'r 190 o oriau a gomisiynwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol, wedi cyrraedd y sianel, sef *Ar Log, Ar Log* gan gwmni Gerallt Jones a David Parry-Jones o Aberystwyth, Sgrin 82.[217] Ymhlith nifer o'r comisiynau eraill yr oedd rhaglen ymaflyd codwm, neu wrestlo, gan gwmni Na-Nog o Borthmadog, cyfres o chwech o ddramâu i blant ar hanesion Owain Glyndŵr gan gwmni o'r enw Platypus, cyfres o raglenni gyda'r digrifwr Gari Williams gan Gwmni'r Castell a fersiwn deledu o'r opera roc *Mab Darogan* gan gwmni Tir Glas.[218] Fis yn ddiweddarach, yn ei adroddiad nesaf i'r Awdurdod ar ddatblygiadau rhaglenni'r cwmnïau annibynnol, ystyriodd Euryn Ogwen Williams y datblygiad aruthrol a welwyd yn y sector newydd hon yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, meddai: '...er bod y sector annibynnol yn ansicr ac annelwig flwyddyn yn ôl, mae bellach yn realiti ac wedi tyfu i'r fath raddau fel nad yw'n bosibl ei hystyried fel

[214] CS4C, *Blwyddyn i Fynd (Papur 15.81(2))*, t. 1.
[215] Ibid.
[216] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda deunawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Chwefror 1982, tt. 3–4.
[217] Ibid. Rhaglen oedd hon a oedd yn dilyn y band gwerin poblogaidd, Ar Log, ar ei daith o amgylch America.
[218] Ibid., tt. 5–6.

atodiad i'r prif gyflenwyr.' [219] Cymaint oedd hyder staff S4C yn y cwmnïau hyn nes eu bod yn credu y byddai hi'n bosibl iddynt gynhyrchu 300 o oriau'r flwyddyn ar gyfer y sianel a hynny yn weddol ddidrafferth.[220] Petai'r cynhyrchwyr annibynnol yn cynhyrchu dros bum awr yr wythnos ar gyfer y sianel, gallai hynny olygu eu bod yn dechrau llechfeddiannu'r lleiafswm o saith awr yr wythnos yr oedd HTV yn bwriadu ei gynhyrchu ar gyfer y sianel. Oherwydd hyn cyhoeddodd Euryn Ogwen Williams i'r Awdurdod fod yn rhaid i unrhyw gytundeb gyda HTV bellach, adael lle i'r cynhyrchwyr annibynnol wneud cyfraniad sylweddol, gan adael lle iddynt dyfu a datblygu i'w llawn botensial.[221] Mae lle i ddadlau felly, bod y datganiadau uchod gan Olygydd Rhaglenni S4C yn rhai strategol, er mwyn dangos i HTV na ellid gorfodi'r sianel i dderbyn cytundeb afresymol a bod dewis arall teilwng bellach ar gael ar gyfer rhaglenni annibynnol yng Nghymru.

Ond er bod gwerth bargeinio ynghlwm wrth ddatganiadau o'r fath, yr oedd nifer o fanteision eraill i'r twf aruthrol a fu o ran hyder y cynhyrchwyr annibynnol a'u gallu i gynhyrchu nifer sylweddol o oriau. Yr oedd datblygiadau'r cynhyrchwyr annibynnol wedi sicrhau enw da i'r sianel newydd trwy greu 'hyder a gobaith' yn y fenter,[222] a hynny oherwydd eu bod yn creu swyddi mewn ardaloedd lle'r oedd swyddi da yn brin a diweithdra yn uchel.[223] Yr oedd y cynhyrchwyr wedi cael effaith fuddiol ar ddelwedd gyhoeddus y sianel felly, a byddai cwtogi neu gyfyngu ar y datblygiadau hynny wedi bod yn gam yn ôl o ran delwedd i'r sianel. Un o sgil effeithiau cadarnhaol eraill presenoldeb y cwmnïau hyn yn y fro Gymraeg oedd eu bod yn ymddangos yn agosach at gynulleidfa graidd y sianel a'u bod wedi eu gwreiddio yn ddyfnach yn y gymdeithas leol na'r cyfundrefnau darlledu mawr.[224] Yn wir nododd Dr Roger Thomas A.S. ac aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y teimlai mai gan y cynhrychwyr annibynnol y deuai ymdeimlad Cymreiciaf y gwasanaeth. Meddai:

---

[219] CS4C, *Y Darnau'n Disgyn i'w Lle,* t. 1.
[220] Ibid., t. 2. Mae 300 awr y flwyddyn yn fwy na phum awr a hanner yr wythnos.
[221] Ibid., t. 3.
[222] Ibid.
[223] Erbyn diwedd 1984, amcangyfrifwyd fod y cynhyrchwyr annibynnol yn cyflogi rhwng 500 a 750 o weithwyr, gyda'r twf mwyaf yng Ngwynedd a Dociau Caerdydd; CS4C, *Nodiadau ar wythfed cyfarfod Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Darlledu Annibynnol i drafod rhaglenni 'annibynnol' S4C,* 2 Tachwedd 1984, t. 2.
[224] Ibid.

> Don't you feel that it is the independent producer who is going to addd the space of the Welshness to this particular service? It is the only part of the service which is taken to the people, rather than the people coming to the studio in order to produce a final product.[225]

Byddai cynhyrchu dramâu gyda chymunedau Cymreig cyfarwydd yn gefnlen iddynt a rhaglenni adloniant ysgafn mewn theatrau a chanolfannau ledled Cymru yn dod a darlledu yn agosach at y gwyliwr gan dorri tra-arglwyddiaeth y canolfannau darlledu mawrion yn y brifddinas. Yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol felly oherwydd natur llawer mwy hyblyg eu hadnoddau yn gwireddu gobeithion hynny y byddai'r sianel newydd yn darparu darlun ac ymdeimlad Cymreig i'r gwasanaeth.

Yr oedd budd ariannol hefyd i'r sianel o annog twf yn y nifer o raglenni a gynhyrchid gan gwmnïau annibynnol, a hynny'n aml gan y gellid cael llawer mwy am ei harian o ystyried y gwahaniaeth o ddeg mil o bunnau ar gyfartaledd rhwng costau rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol ac HTV. At hynny, yr oedd mantais sylweddol bod nifer o'r cwmnïau wedi magu hyder, arbenigedd a dangos dawn o gynhyrchu dramâu, rhaglenni nodwedd a chartwnau gan mai S4C a feddai ar hawliau'r rhaglenni hyn, gan ei galluogi i fanteisio arnynt yn ariannol trwy eu gwerthu i'w darlledu mewn tiriogaethau gwahanol.[226] Yr oedd llwyddiant rhaglenni'r sianel dramor, mewn egwyddor, nid yn unig yn dod ag arian ychwanegol i'r sianel i'w wario ar ragor o raglenni, ond yr oedd hefyd yn creu enw da ar gyfer y sianel dramor a gartref, gan fod llwyddiant rhaglenni Cymraeg mewn marchnadoedd rhyngwladol yn destun balchder, fel y gwelir o'r sylw aruthrol a roddwyd i lwyddiant *SuperTed* yn y wasg.[227]

Ond nid oedd perthynas S4C gyda'r cynhyrchwyr annibynnol yn fêl i gyd ac yn gwbl ddi-drafferth. Mewn gwirionedd yr oedd cael cynifer o gynhyrchwyr annibynnol, a nifer o'r rheiny yn rhai newydd yn golygu bod angen cynnig llawer o gyngor i nifer ohonynt i sicrhau eu bod yn llwyddo i gyflwyno rhaglenni difyr a hynny ar amser ac o fewn eu cyllideb. Yr oedd natur wahanol iawn y cwmnïau hyn yn golygu bod lefel amrywiol o oruchwyliaeth yn angenrheidiol yn ddibynol ar faint y cwmnïau, eu

---

[225] *Second report from the Committee on Welsh Affairs, Vol II,* t. 529.
[226] Ceir trafodaeth pellach ar weithgareddau masnachu rhaglenni S4C a lansiad y cwmni Mentrau ym Mhennod 5, tt. 263–82.
[227] Ceir trafodaeth pellach ar lwyddiannau *SuperTed* ym Mhennod 5, tt. 264–80.

profiad a'i medrusrwydd wrth gynhyrchu rhaglenni, a chaed rhai trafferthion gyda chynhyrchwyr dibrofiad yn mynd i ddyfroedd dyfnion wrth geisio rheoli cyllideb ynghyd â ymdrin â'r materion creadigol. Cyhoeddwyd i'r Awdurdod ym Mai 1982 fod tri chynhyrchiad mewn trafferthion ariannol oherwydd gorwario.[228] Un o'r cynyrchiadau lle bu trafferthion oedd y gyfres ddrama *Joni Jones*, a gyfarwyddwyd gan Stephen Bayly a'i chynhyrchu o dan adain y cwmni Sgrin 82, a hynny gan fod anghydfod rhwng y cwmni ac un o'r unigolion a ddarparodd gerddoriaeth wreiddiol ar gyfer y cynhyrchiad. Yr oedd yr anghydfod, erbyn Mai 1982, wedi ennyn bygythiad gan Undeb y Cerddorion y byddai'n hawlio'r arian dyledus yn uniongyrchol gan S4C wedi methu a chael yr arian gan Sgrin 82.[229] Nid oedd rhai o gynyrchiadau na chwmnïau mwyaf blaenllaw'r sianel yn rhydd o drafferthion cyllidebol, bu'n rhaid dyblu cyllideb *Superted* o'r £350,000 gwreiddiol i £679,000. Yr oedd nifer o resymau am y dyblu hwnnw, ar gais Chris Grace aethpwyd ati i ddyblu hyd y penodau o bedair munud i saith munud a thri-chwarter. At hynny, cynyddodd y costau wrth i'r cynhyrchwyr a'r sianel dalu rhagor i'r actorion er mwyn prynu eu hawliau er mwyn gwneud i'r broses o werthu'r gyfres dramor yn haws. Gwelir yma dystiolaeth o ddiffyg profiad Siriol a swyddogion S4C gan nad oeddent wedi rhagweld yr holl gostau fyddai ynghlwm â'r cynhyrchiad, yn enwedig wrth iddynt sylweddoli potensial ehangach y gyfres ac y gellid ei gwerthu i ddarlledwyr eraill. Rhoddwyd pwysau ychwanegol ar gwmni Siriol hefyd, i gwblhau dwy bennod ar frys ar gyfer noson agoriadol y sianel a phennod i'w darlledu dros Nadolig cyntaf y sianel, er mwyn gwireddu addewidion gwreiddiol y sianel i'r gynulleidfa yn ystod ei lansiad ar ddydd Gŵyl Ddewi 1982.[230] Cyfiawnhaodd swyddogion y sianel y gost ychwanegol i'r Awdurdod trwy resymu fod y sianel yn parhau i gael gwerth ei harian am y cynhyrchiad gan fod y gost yn parhau yn llawer is na chost comisiynu cyfres animeiddiedig yn Llundain.[231] Mewn gwirionedd yr oedd nifer o resymau eraill pam yr oedd hi'n angenrheidiol buddsoddi rhagor o arian yng nghynyrchiad *Superted.* Yr

[228] CS4C, *Cofnodion ail gyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 7 Mai 1982, t. 2.
[229] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 8.83(4)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5–6 Mai 1983, t. 1. Penllanw'r trafferthion gyda chynhyrchiad *Joni Jones* oedd i S4C dalu £5859 i aelodau Undeb y Cerddorion, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r cwmni Sgrin 82 yn talu'r arian yn ôl i'r darlledwr fel dyled. Er y trafferthion hyn, mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn nodi fod pethau'n edrych ychydig yn well i'r cwmni; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 6.83(4)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1.
[230] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 5 Tachwedd 1982, t. 5.
[231] Ibid.

oedd y sianel wedi rhoi sylw blaenllaw i'r gyfres a chynhyrchiad arall cwmni Siriol, *Wil Cwac Cwac*, yn ei lansiad ar Ddydd Gŵyl Dewi 1982. Byddai peidio â buddsoddi yn y cynyrchiadau blaenllaw hyn a chyflwyno animeiddiadau isel eu safon oherwydd diffyg arian wedi difrodi enw da'r sianel. At hynny, yr oedd dyfodiad Siriol wedi bod yn sbardun i ddatblygu a meithrin sector animeiddio safonol yng Nghymru. Yr oedd cefnogi diwydiant newydd, uchel ei broffil, wedi rhoi enw da i'r sianel ac wedi cyfrannu at yr ewyllys da a geid tuag ati yng Nghymru a thu hwnt. Yr oedd parhau i fuddsoddi a chynhyrchu cyfresi o safon yn hanfodol felly i S4C.

Cafwyd meddylfryd tebyg iawn wrth i'r sianel ddelio ag un o'r cynyrchiadau mwyaf drwgenwog yn ei hanes, sef *Madam Wen*. Y gyllideb wreiddiol a drafodwyd ar gyfer cynhyrchu'r ffilm 90 munud oedd £100,000, ond ymhen rhai wythnosau yr oedd cyllideb newydd wedi ei chadarnhau a'r gost wedi treblu i £300,000 a'r ffilm wedi tyfu yn gynhyrchiad dwy awr.[232] Gellid honni y dylai'r naid aruthrol a welwyd yng nghost y cynhyrchiad a'r amwysedd am ei hyd fod wedi gweithredu fel rhybudd i swyddogion y sianel o'r trafferthion a oedd i ddod. Ond wedi i'r Awdurdod fynnu y dylid cynhyrchu'r ffilm am bris cadarn, ymddengys i unrhyw bryderon a feddai'r swyddogion ddiflannu, er hynny ni lwyddwyd i arwyddo cytundeb rhwng y ddwy ochr a hynny gan na ellid cytuno ar delerau derbyniol.[233] Diau y gwthiwyd unrhyw amheuon cyllid o'r neilltu a hynny gan ei bod yn ffilm y bwriedid ei darlledu fel rhan o arlwy'r Nadolig 1982 ac felly yn haeddu buddsoddiad teilwng. At hynny, gan ei bod yn ffilm nodwedd, diau y teimlid bod cyfle da i'w gwerthu dramor ac y gellid adennill peth o'r buddsoddiad. Dyma enghraifft eto o'r sianel yn fodlon gwario rhagor o arian ar gynhyrchiad os teimlid bod budd ychwanegol i'r sianel. Ond yn wahanol iawn i'r profiad gyda *Superted*, lle talodd y buddsoddiad ar ei ganfed yn nhermau hysbysrwydd ac enw da'r sianel, gellid awgrymu na fu'r fenter â *Madam Wen* yr un mor llwyddiannus. O fewn pum mis i'r cadarnhad o'r comisiwn,

---

232 *'Blwyddyn i Fynd' (Papur 15.81(2))* t. 1; CS4C, *Cofnodion Unfed Cyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Rhagfyr 1981, t. 2. Nid yw'n amlwg o lle daeth y ffigwr o £100,000, ond fe'i nodir yn glir yn y ddogfen drafod a gyflwynwyd gan Euryn Ogwen Williams i'r Awdurdod. Noda Kate Woodward i'r Bwrdd Ffilmiau Cymraeg gyflwyno cyllideb o £450,000 i S4C, ond y cytunwyd ar £300,000. Kate Elizabeth Woodward, 'Cleddyf ym mrwydr yr iaith: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg 1970 – 86' (Traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, 2009), t. 243.

233 CS4C, *Cofnodion Unfed Cyfarfod ar Bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2; Woodward, 'Cleddyf ym mrwydr yr iaith: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg 1970–86', t. 243.

hysbyswyd prif swyddogion y sianel a'r Awdurdod bod y cynhyrchiad mewn trafferthion ariannol sylweddol.[234] Rai wythnosau yn ddiweddarach cafwyd cadarnhad pellach bod y gorwario yn sylweddol, oddeutu £140,000, a bu trafod y camau y dylid eu gweithredu er mwyn sicrhau nad oedd y fenter yn un gwbl wastraffus i'r sianel. Penderfynwyd pe bai'r sianel yn buddsoddi ymhellach yn y ffilm a'i chwblhau y byddai disgwyl i'r Bwrdd Ffilmiau Cymraeg dderbyn cerydd cyhoeddus gan S4C i wneud yn iawn am y methiant ac embaras cyhoeddus y sianel wedi'r erthyglau papur newydd.[235] At hynny, bwriedid cosbi'r Bwrdd trwy ddatgan na fyddai unrhyw gomisiwn pellach yn cael ei gynnig iddo, gan ei amddifadu o ffynhonell incwm allweddol i'w weithgareddau. Er mwyn gwneud yn iawn am y gor-wariant byddai disgwyl hefyd i'r Bwrdd drosglwyddo fel tâl am y buddsoddiad ychwanegol yn *Madam Wen*, hawliau ffilmiau eraill a gynhyrchwyd ganddo cyn bodolaeth y sianel, ac ambell ffilm a oedd yn yr arfaeth er mwyn i S4C eu darlledu yn rhad ac am ddim.[236] Drylliwyd enw da y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg gan y methiant yma a disgrifia Kate Woodward y ffilm *Madam Wen* fel yr hoelen gyntaf yn arch y sianel: ' . . . [y] ffilm hon a arwyddai ddechrau'r diwedd i'r Bwrdd; fe wanychodd ei hygrededd i'r fath raddau nes arwain at ei ddiddymu yn y pen draw.'[237]

Cyn penderfynu'n derfynol ar ddyfodol *Madam Wen,* gwahoddwyd aseswr allanol i fwrw golwg ar yr hyn a gynhyrchwyd ac er mwyn sicrhau ei bod hi'n briodol parhau i fuddsoddi yn y cynhyrchiad. Yr aseswr a ddewiswyd oedd Muiris MacConghail o'r Bord Scannán na hÉireann, ac fe dderbyniwyd llythyr ganddo yn clodfori'r Awdurdod gan nodi fod buddsoddiad mewn ffilm ddwy awr o'r natur hwn yn: '. . . significant investment in the future of independent film production in Wales.'[238] Er y ganmoliaeth hon, yr oedd beirniadaeth yng nghorff y llythyr yn nodi y dylai'r sianel

---

[234] CS4C, *Cofnodion ail gyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Mai 1982, t. 2.
[235] Gerald Williams, 'Producer loses post after overspending', *Daily Post*, 1 Gorffennaf 1982; Western Mail Reporter, 'Overspent S4C film epic may be scrapped', *Western Mail*, 1 Gorffennaf 1982; Paul Hoyland, 'Welsh TV spectacular costs producer his job', *Guardian*, 2 Gorffennaf 1982; Glyn Evans, 'Bwch dihangol y 'gravy train'?', *Y Cymro*, 6 Gorffennaf 1982, tt. 5–6, Dienw, 'Dewch ar y Trên Bach', *Lol*, Haf 1982, t. 4.
[236] CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 28–29 Mehefin 1982, t. 2; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 9.82(9)) – Papur atodol i Agenda pumed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 28 – 29 Mehefin 1982, t. 1.
[237] Woodward, 'Cleddyf ym mrwydr yr iaith: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg 1970 – 86', t. 241.
[238] CS4C, Llythyr oddi wrth Muiris MacConghail at Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, 30 Mehefin 1982. Mae natur ychydig yn ganmoliaethus y llythyr hwn yn awgrymu mai ei bwrpas oedd sicrhau fod gan y sianel dystiolaeth o werth y ffilm petai unrhyw ffrwgwd cyhoeddus ynglŷn â'r arian ychwanegol a wariwyd arni.

ffurfio polisi clir er mwyn delio â chynhyrchiadau o'r math hwn yn y dyfodol ac y dylai'r Awdurdod benodi Uwch Gynhyrchydd ar gynyrchiadau mawrion er mwyn sicrhau nad oeddynt yn mynd ar gyfeiliorn.[239] Argymhelliad MacConghail, felly, oedd y dylid parhau â'r ffilmio a chwblhau'r ffilm hon. Er i *Madam Wen* gael ei chwblhau, a hynny yn y pendraw ar gyllideb o £540,508, fe ddysgwyd gwersi caled gan staff S4C ynglŷn â'r angen i fod yn wyliadwrus wrth gomisiynu.

Gellid gweld felly nad oedd perthynas S4C gyda'r un o'i darparwyr rhaglenni yn fêl i gyd. Yr oedd i bob perthynas a phartneriaeth ei thensiynau unigryw, boed hynny ar ffurf anghydweld ar faterion ariannol, materion cyfrifoldeb dros gynnwys, neu'r angen am oruchwyliaeth agos er mwyn sicrhau bod rhaglenni cymwys yn cael eu cynhyrchu. Er y tensiynau hyn, yr oedd rheidrwydd eu goresgyn gan y dibynai S4C yn llwyr ar ei phartneriaid er mwyn llenwi gofod gwag y bedwaredd sianel yng Nghymru â rhaglenni ac arlwy ddeniadol fyddai'n apelio, denu ac yn siarad â'r gynulleidfa Gymraeg yn ei hiaith ei hun. Gorchwyl swyddogion y sianel yn dilyn y broses o ffurfio'r partneriaethau allweddol hyn, a fanylwyd arnynt yn y bennod hon, fyddai ceisio uno'r cynnyrch a ddeuai o bedair ffynhonell wahanol er mwyn ffurfio gwasanaeth deniadol a chynhwysfawr fyddai'n llwyddo i ddenu a chadw cynulleidfaoedd Cymraeg. Ystyrir llwyddiant S4C yn hyn o beth yn y bennod nesaf wrth drafod noson agoriadol a'r ymateb cyntaf a gaed i arlwy'r sianel.

---

[239] Ibid.

**Pennod 4**

**Gwireddu'r arbrawf – darllediadau cyntaf ac argraffiadau'r gynulleidfa**

Yn dilyn degawdau o wrthdystio ac ymgyrchu, ac wedi deunaw mis o baratoi ar ran Awdurdod Sianel Pedwar Cymru a'i swyddogion, ar ddiwrnod cyntaf Tachwedd 1982 gwireddwyd yr arbrawf darlledu a roddwyd i Gymru. Bwriad y bennod hon yw trafod a dadansoddi y noson agoriadol hirddisgwyliedg honno, ynghyd â'r wythnosau a'r misoedd cyntaf o ddarlledu ar y sianel. Ystyrir ymateb y wasg a'r gynulleidfa i'r darllediadau cynnar hynny, gan holi sut a pham y newidiodd yr ymateb hwnnw wrth i'r chwilfrydedd cynnar ynglŷn â gwasanaeth cyflawn, neilltuedig ar un sianel benodedig ddiflannu. Trafodir ffigurau gwylio a gwerthfawrogiad y sianel ynghyd â'r newidiadau a weithredwyd gan y swyddogion i ymateb i'r patrymau gwylio newydd hyn wrth iddynt geisio cynnal a chadw diddordeb y gynulleidfa Gymraeg yng ngwyneb apêl a safon rhaglenni Saesneg ar y sianeli eraill. Nid oedd modd i swyddogion y sianel laesu dwylo felly wrth i'r cyfnod prawf fynd rhagddo.

*Noson Agoriadol*

Darlledodd Sianel Pedwar Cymru am y tro cyntaf ar 1 Tachwedd 1982, ddeunaw mis wedi dechrau gwaith yr Awdurdod a staff gymharol fechan y sianel, a chan achub y blaen ar Channel 4 a ddechreuodd ddarlledu ddiwrnod yn ddiweddarach. Yr oedd llwyddo i ddechrau darlledu cyn y bedwaredd sianel Brydeinig yn sicrhau i S4C wireddu un o ddyheadau gwreiddiol yr ymgyrchwyr y byddai'r sianel Gymraeg yn cael ei lansio gyntaf. Ond gan mai diwrnod yn unig a oedd rhyngddynt nid oedd yn ddigon o amser i ateb y gofyn gwreiddiol o sicrhau bod y sianel wedi llwyr sefydlu ei hun ac ennill teyrngarwch y gynulleidfa cyn i'r chwaer Brydeinig ddechrau darlledu a chystadlu â hi am wylwyr y ffin. Er hynny, yr oedd y dyddiad arbennig hwn yn benllanw gwaith ac ymdrech aruthrol nifer o unigolion, ond megis dechrau yr oedd y llafur caled mewn gwirionedd. Treuliodd y rhan helaeth o aelodau'r Awdurdod y noson agoriadol yn swyddfeydd y sianel yng Nghaerdydd yn gwylio'r darllediadau

ac yn rhannu ym mwrlwm y gweithgaredd.[1] Ond nid dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod wylio'r rhaglenni hyn, yr oedd yr aelodau a nifer o newyddiadurwyr wedi gweld copïau rhagflas o'r rhaglenni a fwriedid eu darlledu, er mwyn i'r newyddiadurwyr ddarparu cyhoeddusrwydd anghenrheidiol yn y wasg ac i aelodau'r Awdurdod gynghori'r swyddogion ar natur y noson agoriadol, ac yr oedd sylwadau'r Awdurdod yng nghyfarfod mis Hydref 1982 yn argoeli'n dda ar gyfer llwyddiant y noson agoriadol.[2]

Ni chafwyd diwrnod llawn o ddarllediadau ar ddydd Llun, 1 Tachwedd 1982, y hytrach darlledwyd y rhaglen gyntaf am chwech o'r gloch yr hwyr. Agorwyd y darllediad cyntaf hwnnw a gyhoeddai ddechreuad darlledu Cymraeg ar un sianel bwrpasol gyda delwedd o swyddfeydd y sianel, y logo wedi ei oleuo uwchben y fynedfa a sain ffanffer nodweddiadol o gerddoriaeth electroneg yr 1980au wedi ei gymysgu â sain telyn. Cyfarchwyd y gwyliwr gan Owen Edwards a safai yn nerbynfa swyddfeydd S4C yng Nghlos Soffia gyda'r geiriau: 'Croeso cynnes iawn, iawn i chi ymuno â ni yma am y tro cyntaf ar aelwyd Sianel Pedwar Cymru. Rŵan, hawdd cynnau tân ar hen aelwyd medde'r gair ynte, ond ein bwriad ni ydi cynnau coelcerth ar aelwyd newydd.'[3] Pwysleisiodd Owen Edwards y gair 'aelwyd' yn ei gyfarchiad, gan y rhoddai argraff gref iawn i'r gynulleidfa o'r naws yr oedd y sianel yn anelu ati, sef creu sianel fyddai'n aelwyd glyd a chysurus, lle teimlai cynulleidfaoedd Cymraeg yn gartrefol. Naws a ddatblygwyd ymhellach yn arddull cyflwyno'r sianel. Yn dilyn ei gyfarchiad Cymraeg, cafwyd cyfarchiad Saesneg gan Gyfarwyddwr y sianel

---

[1] Gwahoddwyd yr Athro Huw Morris-Jones, aelod gwreiddiol yr ADA ar yr Awdurdod cyn iddo ymddehol ym Mawrth 1982, yn ôl i wylio ffrwyth yr ymdrechion. Ond ni fu'n bosibl i bob aelod o'r Awdurdod rannu'r noson agoriadol gyda'i gilydd yng Nghaerdydd, gorfu i'r Cadeirydd Syr Goronwy Daniel, a chynrychiolydd newydd yr ADA ar yr Awdurdod, Gwilym Peregrine, wylio'r noson agoriadol o swyddfeydd yr ADA yn Brompton Road, Llundain. Yr oedd llinell arbennig wedi ei darparu rhwng S4C a'r ADA ar gyfer y noson agoriadol, gyda'r bwriad gwreiddiol o sicrhau bod modd i aelodau'r wasg, unigolion o'r diwydiant cyfryngau ac Aelodau Seneddol wylio'r darllediad cyntaf. Ond esblygodd y digwyddiad o fod yn fater o gwrteisi a ffordd o ddenu cyhoeddusrwydd yn y wasg Brydeinig i dderbyniad swyddogol a fynnai bresenoldeb aelodau o'r Awdurdod a hynny yn rhannol oherwydd i Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Gwladol Cymru benderfynu gwylio'r noson agoriadol o Lundain. Er yr anghyfleustra cychwynnol barnwyd i'r digwyddiad fod yn llwyddiant gan y rhai a fu'n bresennol. Casgliad Sianel Pedwar Cymru (CS4C), *Cofnodion nawfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 Hydref 1982, t. 3; CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Tachwedd 1982, t. 1; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 14.82/4) – Papur Atodol i Agenda degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Tachwedd 1982, t. 2; Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

[2] CS4C, *Cofnodion nawfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.

[3] CS4C, *Croeso i S4C* (Cynhyrchiad mewnol, S4C, 1 Tachwedd 1982). Mae copi o'r rhaglen agoriadol hefyd ar gael yng nghasgliad Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru.

newydd i'r gwyliwr di-Gymraeg, ond nid cyfieithiad uniongyrchol o'r brawddegau Cymraeg a gafwyd, ond yn hytrach gyfarchiad sy'n cyfeirio'n benodol at yr hyn a gynigiai'r sianel i'r gwyliwr hwnnw. Mae'r munudau agoriadol hyn yn dangos hyder y sianel newydd yn neuoliaeth ei bodolaeth, yn y ffaith ei bod yn ceisio diwallu anghenion dwy gynulleidfa wahanol. Wrth i'r sianel ymwrthod â'r cymhelliad i gyfieithu yn slafaidd o un iaith i'r llall, ceir tystiolaeth o'r ymwybyddiaeth a gaed ymhlith staff y sianel o anghenion gwahanol y ddwy gynulleidfa a dealltwriaeth mai'r hyn oedd yn bwysig i'r gwyliwr di-Gymraeg oedd cael gwybodaeth am fanylion y rhaglenni Saesneg a geid ar y sianel ac nid amlinelliad o dwf rhaglenni cyfrwng Cymraeg. Yr oedd y weithred fechan hon, felly, yn dystiolaeth o'r hyder hwnnw ac o ymwybyddiaeth y swyddogion o'r tensiynau cynulleidfaol hynny nad oedd wedi diflannu gyda geni S4C.

Fel rhan o raglen groeso y noson agoriadol cyflwynwyd gan Owen Edwards a'r cyflwynwyr newydd Robin Jones, Siân Thomas a Rowena Jones–Thomas ragflas o'r rhaglenni a fyddai'n diddanu cynulleidfaoedd Cymraeg dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Dangoswyd clipiau di-rif o'r rhaglenni amrywiol *Mentro! Mentro!, Anturiaethau Syr Wymff a Plwmsan, Joni Jones, Gwydion, Y Mab Darogan, Ar Log - Ar Log* a *Hapnod.*[4] Ailadroddwyd nifer fawr o'r clipiau hyn drosodd a thro gydol y rhaglen agoriadol mewn sawl *montage* rhagflas, elfen sydd un ai'n bradychu'r nifer fechan o raglenni a gyflwynwyd i'r sianel mewn pryd i gynhyrchu'r rhaglen hon neu mai rhain oedd y rhaglenni yr oedd y sianel yn credu a oedd yn rhoi'r argraff orau ohoni i'r darpar wylwyr. Dangoswyd hefyd y bennod gyntaf o anturiaethau arth enwocaf Cymru sef *SuperTed a Thrysor yr Incas*, gan fodloni'r disgwyliadau a feithrinwyd wedi dangos clipiau o'r gyfres yn ystod lansiad y sianel ar Ddydd Gŵyl Dewi 1982.[5] Yr oedd dangos y rhaglen ar y noson agoriadol hefyd yn fodd o fagu a meithrin cynulleidfa eang o bob oed i'r sianel, gan fod animeiddio, yn enwedig animeiddio gwreiddiol yn y Gymraeg, yn ryfeddod cwbl newydd i'r gynulleidfa.

---

[4] Ibid.

[5] Ibid. Mewn gwirionedd nid oedd cyfres *SuperTed* i ddechrau yn swyddogol tan fis Ebrill 1983, ond penderfynwyd ei bod yn bwysig cynnwys rhagflas o'r gyfres a oedd wedi derbyn y sylw mwyaf yn y wasg ac yn y deunyddiau hyrwyddo ar ei noson agoriadol. Gweler, er enghraifft, Mario Basini, 'A Star is Born', *Western Mail – Wales Supplement*, 30 Tachwedd 1982, t. 22. Trafodir hefyd y sylw a roddwyd i *SuperTed* yn y wasg wedi lansiad ffurfiol y sianel ar Ddydd Gŵyl Dewi ym Mhennod 2, t. 127.

Cyflwynwyd y plant hefyd i'r cymeriad newydd Ianto, pyped direidus fyddai'n dod yn un o gymeriadau'r 'Clwb' a ddyfeisiwyd er mwyn denu'r gwylwyr iau.

Ynghyd â noson i gyflwyno rhagflas o arlwy Cymraeg y sianel newydd, defnyddiwyd y rhaglen gyntaf hon er mwyn hysbysu'r gynulleidfa ddi-Gymraeg o'r cynnwys a fyddai ar gael i'w diddanu hwythau ar y sianel newydd a dangos yn glir na fyddai'r gwyliwr di-Gymraeg yn cael ei amddifadu o raglenni Channel 4. Yn dilyn croeso Owen Edwards, cafwyd cyfarchiad Cymraeg gan Jeremy Isaacs, pennaeth Channel 4, a gyflwynodd wedyn ragflas o'r arlwy arloesol gan Channel 4 a fyddai'n llenwi'r amserlen o amgylch y rhaglenni Cymraeg.[6] Rhaglenni megis yr opera sebon newydd a leolwyd yn Lerpwl, *Brookside,* cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol Brydeinig o *Nicholas Nickleby*, rhaglenni chwaraeon newydd ar dwrnameintiau pêl fasged ym Mhrydain, rhaglenni ar bêl droed Americanaidd (a brynid gan ddarlledwyr o'r Unol Daleithiau), rhaglenni rhyngwladol a rhaglenni ar gyfer pobl ifanc – dau faes, ym marn Jeremy Isaacs, a esgeuluswyd gan sianeli eraill y Deyrnas Unedig.[7] O gofio y byddai rhaglenni Saesneg yn llenwi mwy na hanner cant o oriau darlledu wythnosol y sianel, o'u cymharu â'r ddwy awr ar hugain o gynnwys Cymraeg yr oedd marchnata'r cynnwys hwnnw ar S4C yr un mor bwysig a thyngedfennol i'w llwyddiant.[8]

Er mwyn rhoi bri i'r sianel ac adlewyrchu'r gefnogaeth a geid iddi darlledwyd cyfarchion gan unigolion megis y Dr Terry James, brodor o Gydweli a oedd bellach yn byw ac yn gweithio yn Hollywood a Leo Goodstadt, brodor o Sir Benfro a oedd yn ddarlledwr ar deledu Hong Kong. Ynghyd â'r Cymry alltud hyn cafwyd cyfarchion gan unigolion nad oedd â chyswllt amlwg â Chymru na'r Gymraeg, unigolion megis Bjorn Borg, y chwaraewr tenis ac enillydd y gystadleuaeth Miss

---

[6] Jeremy Isaacs, *Storm over 4 – A personal account* (London, 1989), t. 48.
[7] *Croeso i S4C* (Cynhyrchiad mewnol, S4C, 1 Tachwedd 1982).
[8] Er mai pymtheg awr ar hugain a fwriedid ei ddarlledu gan Channel 4 yn ystod ei misoedd agoriadol, llwyddodd y sianel i gynyddu hynny i hanner cant a mwy o oriau erbyn ei noson agoriadol trwy brynu cyfran sylweddol o ffilmiau a rhaglenni tramor ac archifol i'w darlledu fel rhan o'r arlwy. Peter Catterall (gol.), *The Making of Channel 4* (London, 1999), t. 101.

World o Venezuela.[9] Yn ôl James Lewis, newyddiadurwr o'r *Guardian* a adroddodd ar noson agoriadol y sianel Gymraeg, yr oedd nifer o'r cyfarchion a gaed gan yr unigolion tramor hyn yn llawer mwy brwd na'r hyn a glywyd o enau Gwynfor Evans yn ei gyfweliad ar rifyn cyntaf *Newyddion Saith.*[10] Pwysleisiwyd ganddo nad oedd y sianel wedi llwyddo i wireddu'r galwadau y byddai sianel Gymraeg yn darlledu pum awr ar hugain o raglenni Cymraeg o'r dechrau'n deg, ond yr oedd er hynny yn ffyddiog y gellid cyrraedd y targed hwnnw'n gymharol fuan. Er hynny, mae'n rhaid anghytuno a sylwadau James Lewis o'r *Western Mail* yn ei ddadansoddiad o neges Gwynfor Evans, a hynny gan fod i'r cyfweliad neges gadarnhaol iawn ac ymdeimlad o optimistiaeth ynglŷn â dyfodol y sianel. Meddai:

> . . . fe ges i lythyr ddoe fel mater o ffaith gan Weinidog y Swyddfa Gartref Timothy Raison sydd yn dweud ar ei ben . . . cyn y byddan nhw yn gwneud eu penderfyniad yn awr ymhen tair blynedd a fydd y sianel yn parhau yn gorfod cael eu hargyhoeddi 'we have to be satisfied', medde fe, 'that there was widespread demand for change', hynny yw yn ôl i'r system ddwy sianel, 'and that such a change would be in the interests of Wales as a whole and of the Welsh Language.' Wel, dwi'n gwbl siwr na chan nhw ddim o'u bodloni bod yna ddymuniad fel na i gael . . . ac mae hynny yn golygu, dwi'n credu, bod nhw'n benderfynol bod y sianel hon yn mynd i barhau.[11]

Nid unigolion enwog oedd yr unig rai a gafodd gyfle i leisio eu barn am y sianel newydd a'u disgwyliadau ohoni yn ystod y noson gyntaf. Anfonwyd dau gyflwynydd, Gwenda Rees a Richard Morris Jones, i Wynedd a Dyfed er mwyn holi'r trigolion yno am eu barn ar y datblygiad newydd a'r math o raglenni yr hoffent eu gweld. Darlledwyd nifer o gyfweliadau byrion Cymraeg a Saesneg gyda nifer yn mynegi eu disgwyliadau am ragor o raglenni chwaraeon, cerddoriaeth pop a dramâu Cymraeg, ond yn eu plith yr oedd rhai sylwadau ychydig yn annisgwyl hefyd. Datganodd un wraig o Wynedd nad oedd am wylio'r sianel gan ei bod yn argyhoeddedig na fyddai'n deall y math o Gymraeg a ddefnyddid yn y rhaglenni a

---

[9] Cyflwynwyd y ddau gyfarchiad yma ym mamiaith yr unigolion a'u trosleisio i'r Gymraeg, gyda Miss World yn yngan rhai geiriau yn y Gymraeg ar ddiwedd ei chyfarchiad. Gwelir yma S4C ei hun yn mabwysiadu'r patrwm y dymunai ei swyddogion weld y cynhyrchwyr yn ei defnyddio wrth gyfweld ac unigolion di-Gymraeg, er mwyn osgoi'r defnydd o'r iaith gyffredin, sef Saesneg. Yr unig gysylltiad tebygol rhwng S4C a Bjorn Borg oedd mai cwmni Mark McCormak, International Management Group (IMG), oedd cynrychiolwyr y chwaraewr tennis, ac is-gwmni IMG oedd yn hyrwyddo rhaglenni S4C i'w gwerthu dramor. Ceir trafodaeth bellach ar y berthynas honno ym Mhennod 5, t. 264.

[10] James Lewis, 'Superted's mission to leap TV language gap', *The Guardian*, 3 Tachwedd 1982.

[11] AGSSC, *Newyddion Saith*, 1 Tachwedd 1982.

chyfweliad â Chymro di-Gymraeg a gredai y byddai gormod o Saesneg ar y sianel newydd ac nad oedd hi felly yn sianel Gymraeg.[12] Mae'r cyfweliadau byrion hyn yn esiampl unwaith yn rhagor o natur hyderus y sianel ar ei noson gyntaf, yn fodlon cyfaddef a chyhoeddi nad oedd yr ymdrechion marchnata wedi llwyddo i argyhoeddi pob siaradwr Cymraeg o rinweddau'r sianel newydd na'u perswadio i wylio, gan ddangos bod llawer o waith yn wynebu'r sianel i oresgyn y rhagfarnau hyn amdani.

Tra penderfynnodd S4C ddarlledu yn y modd hwn, nid felly y bu ar Channel 4 yn narllediadau agoriadol y sianel honno ar 2 Tachwedd 1982. Yn hytrach na chreu rhaglen groeso a chynnig rhagflas a chyfarchion i'r sianel, penderfynwyd darlledu'r gwasanaeth arferol a fyddai'n nodweddiadol o unrhyw brynhawn dydd Mawrth arall, gan ddechrau gyda'r rhaglen *Countdown* gyda'r cyflwynydd Richard Whiteley wrth y llyw.[13] Dengys y dulliau gwahanol o drefnu eu nosweithiau agoriadol y gwahaniaeth agwedd a gaed rhwng S4C a Channel 4, a'r gwahaniaeth sylfaenol yn natur eu bodolaeth. O'u cymharu, gellid gweld fod S4C yn ymwybodol bod angen perswadio'r gynulleidfa i gynhesu at y patrwm newydd hwn o ddarlledu rhaglenni Cymraeg a hynny mewn cyfnod cymharol fyr, er mwyn sicrhau canlyniad ffafriol wedi adolygiad y Swyddfa Gartref. Yr oedd amserlen S4C hefyd yn llawer cymhlethach nag unrhyw sianel arall gan ei bod yn ceisio diwallu anghenion dwy gynulleidfa, ac felly yr oedd rheidrwydd esbonio patrwm darlledu'r arlwy i'r gynulleidfa er mwyn ceisio osgoi unrhyw ddryswch andwyol a allai arwain at adwaith negyddol tuag ati o du'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. Dilynwyd yr awr agoriadol ar S4C gan y rhifyn cyntaf o *Newyddion Saith*, darlledwyd bwletin 30 munud o'r rhaglen newyddion genedlaethol a rhyngwladol gyntaf yn y Gymraeg; ac er mwyn pwysleisio'r datblygiad newydd rhyngwladol hwn i'r gwasanaeth, cafwyd adroddiadau o etholiadau canol-tymor America ac ymweliad y Pab â Sbaen, ynghyd â nifer o straeon lleol o Brestatyn i Gwmbrân, ac o Aberaeron i Gaerdydd. Er sicrwydd swyddogion y sianel a swyddogion y BBC y byddai'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi'r newid pwyslais hwn yn y newyddion a ddarperid ar eu cyfer, rhagwelwyd trafferthion i'r gwasanaeth uchelgeisiol hwn gan y *Guardian* wrth i'r newyddiadurwr nodi: 'This welcome innovation could prove difficult to maintain, if

[12] *Croeso i S4C* (Cynhyrchiad mewnol, S4C, 1 Tachwedd 1982).
[13] Clive Betts, 'Channel 4 hopes arts, films will reach one in 10', *Western Mail*, 6 Hydref 1982, t. 9.

only because of the need to find fluent Welsh speakers in foreign parts.'[14] Er i newyddiadurwyr Lloegr drafod y ddarpariaeth arloesol hon yn eu hadolygiadau, ni chafwyd canolbwyntio ar yr elfen hon yn erthyglau'r *Western Mail* drannoeth y darllediad. Cyfeiriwyd yno, yn hytrach, a hynny mewn modd gwawdlyd, at y gyfran o Saesneg a gaed yn yr adroddiad a gyflwynwyd ar gynhadledd y CBI (Confederation of British Industry) yn Eastbourne, sef prif stori'r bwletin.[15] Mewn gwirionedd yr oedd hi'n syndod fod y gwasanaeth newyddion wedi ei ddarlledu o gwbl ar noson agoriadol y sianel, a hynny oherwydd trafferthion undebol rhwng Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (UCN) a phenaethiaid y BBC.[16]

Yn dilyn y rhaglen newyddion cafwyd y rhaglen gyntaf o'r gyfres *Cerddwn Ymlaen,* gyda Dafydd Iwan ac Ar Log yn cyflwyno eu caneuon mwyaf poblogaidd ac yn rhoi llwyfan i westeion a cherddorion o Gymru a'r gwledydd Celtaidd.[17] Yna cafwyd eitem fer a elwid yn *Bro* lle gwelid plant Ysgol Gynradd Llangadog yn cyflwyno eu hardal i'r genedl. Yr oedd eitemau fel y rhain yn amlygu'r ymdrechion a wnaed gan uned gyflwyno'r sianel i geisio sicrhau bod y gynulleidfa Gymraeg yn teimlo perchenogaeth ar y sianel newydd. Gellid awgrymu fod yr eitemau hyn yn rhan o strategaeth ehangach y sianel i geisio uno'r gynulleidfa a lleddfu'r gwahaniaethau ieithyddol a chymunedol honedig a geid rhwng y gogledd a'r de, er cyn pen diwedd mis cyntaf darlledu'r sianel bu cwynion bod yr eitemau yn rhy blwyfol.[18]

Gellid dadlau fod dethol y comedi sefyllfa *Newydd Bob Nos* i'w darlledu am wyth o'r gloch ar y noson agoriadol yn gam dewr ac yn adlewyrchu hiwmor y staff amserlennu a hynny gan fod y rhaglen yn portreadu '. . . rhaglen newyddion teledu lle mae popeth yn mynd o chwith a bywyd tu ôl i'r llenni yn anrhefn llwyr.'[19] Pe bai pethau wedi mynd o'i le yn ystod y noson gyntaf, gallai'r rhaglen brofi'n

---

[14] James Lewis, 'Superted's mission to leap TV language gap', *The Guardian*, 3 Tachwedd 1982.
[15] Clive Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', *Western Mail*, 2 Tachwedd 1982, t. 1. Ceir trafodaeth helaethach ar y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg yn hwyrach yn y bennod hon.
[16] Yr oedd yr Undeb yn mynnu tâl uwch i'w aelodau ac wedi mynnu fod pob cangen o aelodau'r BBC yn cynnal cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith ar 1 Tachwedd 1982 er mwyn tarfu ar weithgareddau'r ystafell newyddion. Er y bygythiad hwn, pleidleisiodd aelodau BBC Cymru i beidio â tharfu ar ddigwyddiad mor bwysig â noson agoriadol S4C.Clive Betts, 'Pay disputes will hit tonight's S4C launch', *Western Mail*, 1 Tachwedd 1982, t. 1; Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1.
[17] Dienw, '10 Channel TV Guide', *Western Mail*, 1 Tachwedd 1982, t. 2.
[18] Edward Morgan, 'Teledu Cymru', *Y Faner,* 25 Tachwedd 1982.
[19] Hysbyseb S4C, *Western Mail*, 1 Tachwedd 1982, t. 6.

gymhariaeth anffodus i'r sianel ar ei noson agoriadol.[20] Dilynwyd y rhaglen ysgafn hon gan y rhifyn cyntaf o'r gyfres *Almanac* a oedd yn dwyn y teitl 'Citizen Kane a Cynan', rhaglen a oedd yn olrhain perthynas y barwn papurau newydd William Randolph Hearst ag ardal Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg a chyda'r Eisteddfod. Terfynwyd y darllediadau Cymraeg gyda phenawdau'r newyddion cyn y trosglwyddwyd i'r darllediadau Saesneg am hanner awr wedi naw'r nos. Ond er i'r darllediadau Cymraeg ddod i ben, yr oedd naws Gymreig i raglen gyntaf arlwy Channel 4 ar S4C, a hynny gan i reolwyr S4C ddethol y rhaglen *Max Boyce Meets the Dallas Cowboys*, rhaglen a oedd yn croniclo'r mis a dreuliodd y digrifwr Cymreig yng nghwmni'r tîm pêl droed Americanaidd ar gyfer y slot penodol hwnnw.[21] Mae'n amlwg i'r rhaglen hon gael ei dethol yn ofalus ac yn arbennig gan staff S4C er mwyn denu'r gwylwyr di-Gymraeg a'u hargyhoeddi fod S4C yn darparu cynnwys deniadol ar eu cyfer hwy hefyd. Gellid dadlau i'r swyddogion ei dethol hefyd er mwyn lleddfu'r pryderon a fynegwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym 1981 a fynnai y dylai S4C gomisiynu a darlledu rhaglenni a oedd yn ymdrin â Chymru a'r Cymry yn y Saesneg.[22] Daeth darllediadau'r noson gyntaf i ben gyda dangosiad o'r ffilm *Network* (1976) a gyfarwyddwyd gan Sidney Lumet gyda pherfformiadau arobryn gan Faye Dunaway a Peter Finch.

Nid y trafferthion gyda UCN a'r gwasanaeth newyddion oedd yr unig drafferthion undebol a darfu ar noson agoriadol S4C. Caed anghydfod sylweddol rhwng Equity, yr undeb perfformwyr, a'r Institute of Practitioners in Advertising (IPA), ar y pryd, a hynny gan fod yr IPA yn dymuno newid y patrwm a ddefnyddiwyd i dalu perfformwyr. Mynnai'r IPA newid y system a oedd yn cyfrif nifer y darllediadau a roddid i hysbyseb arbennig i batrwm newydd a fyddai'n dyrannu taliadau yn ddibynnol ar nifer y gwylwyr a geid ar gyfer rhaglen neu sianel arbennig. Yr oedd Equity yn anhapus gyda'r cynllun arfaethedig hwn gan yr arweiniai at dâl llawer is i'w haelodau am hysbysebion a ddarlledid ar Channel 4 a S4C, o'i gymharu â

[20] Cofia Wil Aaron nad oedd y rhaglen yn gwbl llwyddiannus gan ei bod yn rhaglen a ddyfeisiwyd ar gyfer cynulleidfa Americanaidd, ac y crëwyd fersiwn Gymraeg ohoni yn gymharol rhad ar gefn y rhaglen Saesneg. O'r herwydd nid oedd y sgriptiau yn taro deuddeg, gan ei bod yn ymddangos yn debycach i gyfieithiad yn hytrach nag addasiad o'r deunydd ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Cyflweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010.
[21] Dienw, '10 Channel TV Guide', *Western Mail*, 1 Tachwedd 1982, t. 2.
[22] Nid oedd y rhaglen hon yn ymddangos yn amserlen wythnos gyntaf Channel 4, diau felly i S4C ei dethol yn arbennig er mwyn lleddfu'r pryderon hyn. Gweler trafodaeth helaethach ar adroddiad y Pwyllgor Dethol ym Mhennod 2, tt. 110–13.

rhwydwaith ITV. Yr oedd undeb y perfformwyr yn mynnu felly fod ei aelodau yn derbyn yr un tâl am eu perfformiadau ar hysbysebion a ddarlledid ar ITV ac ar y bedwaredd sianel, a hyd y caed cytundeb ar hyn, gofynwyd i'r aelodau beidio arwyddo cytundebau oni bai eu bod yn derbyn tâl a oedd yn gydradd â thelerau ITV.[23] O ganlyniad, ni chafwyd arlwy llawn o hysbysebion ar noson agoriadol S4C. Yr oedd HTV wedi llwyddo i werthu 37 munud a hanner o'r 40 munud o ofod hysbysebu ar gyfer y noson agoriadol, ond oherwydd yr anghydfod dim ond gwerth 16 munud o hysbysebion a gynhyrchwyd ac a ddarlledwyd.[24] Nifer fechan o hysbysebion a deledwyd felly, gyda'r Midland Bank, Eisteddfod Llangefni a Hypervalue yn enghreifftiau o'r sefydliadau a lwyddodd i osgoi'r anghydfod.[25]

Yr oedd yr ymateb i ddarllediadau agoriadol y sianel ar y cyfan yn gadarnhaol a hynny yn nhermau'r ffigurau gwylio a'r ymateb a dderbyniwyd i raglenni penodol. Yr oedd yr Awdurdod yn enwedig yn hapus iawn gyda'r arlwy, ac er y nodwyd mannau lle gellid gwella'r ddarpariaeth, yr argraff gyffredinol oedd i'r noson agoriadol lwyddo i gyflwyno natur, naws a phersonoliaeth y sianel newydd:

> Er bod gan yr Awdurdod rai sylwadau beirniadol ar rai rhaglenni, bach oedd y rhain o'u cymharu â'r argraff ffafriol iawn a wnaeth y gwasanaeth ar y cyfan arnyn nhw ac ar y rhelyw mawr o'u cydnabod. Buont yn canmol gwaith staff a gwneuthurwyr rhaglenni yn gosod stamp broffesiynol, hyderus, ond cartrefol ar y rhaglenni ac ar y sianel.[26]

Yr oedd ffigurau gwylio BARB hefyd yn cadarnhau i'r sianel gael noson ac wythnos gyntaf lwyddiannus iawn gan iddi lwyddo i ddenu 12 y cant o'r gynulleidfa bosib yn ystod yr oriau brig, a chyfartaledd o 10 y cant o'r gynulleidfa bosibl gydol yr wythnos gyntaf. Yr oedd y ffigurau hyn yn cymharu'n ffafriol gyda chanrannau'r darlledwyr eraill hefyd, a llwyddodd y sianel i guro cyfran BBC 2 o'r gynulleidfa yn

---

[23] Betts, 'Pay disputes will hit tonight's S4C launch', 1 Tachwedd 1982, t. 1; David Hewson, 'Disputes threaten start of Channel Four', *The Times*, 7 Hydref 1982, t. 1; David Hewson, 'Channel 4 dispute talks break down', *The Times*, 30 Hydref 1982, t. 1.
[24] Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1. Fe ddarlledwyd yr hysbysebion hynny gan Fanc y Midland, yr Eisteddfod a Hypervalue, gan nad oedd hysbysebion a grëwyd trwy'r Central Office of Information yn cael eu heffeithio gan weithgaredd undebol Equity.
[25] Betts, 'Pay disputes will hit tonight's S4C launch', 1 Tachwedd 1982, t. 1; Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1; Lewis, 'Superted's mission to leap TV language gap', 3 Tachwedd 1982.
[26] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.

yr oriau brig a oedd yn eistedd oddeutu 8 y cant. Ond yr oedd y ffigurau hyn, er yn barchus iawn i sianel newydd a oedd yn ceisio ennill ei phlwyf, yn bell o dorri tra-arglwyddiaeth y ddwy brif sianel ar draws yr oriau brig, gan fod eu cyfran hwy o'r gynulleidfa yn parhau oddeutu 36 y cant yn achos y BBC 1 a 43 y cant i HTV. Er hynny, yr oedd rhai rhaglenni yn ystod yr wythnos gyntaf wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol, a hynny oherwydd newydd-deb y gwasanaeth a chwilfrydedd y gynulleidfa. Llwyddodd rhaglen groeso S4C i ddod yn ail i *Wales Today* a *Nationwide* ar y BBC ar y noson agoriadol, a'r noson ganlynol daeth *Newyddion Saith* yn ail i *Emmerdale Farm, Coleg* yn ail i *Give us a Clue*, a *Walter* un o ffilmiau Channel 4, yn ail i *The Agatha Christie Hour* pob un yn ddarllediadau ar HTV.[27]

Nid y ffigurau gwylio swyddogol oedd yr unig ffon fesur a oedd ar gael i'r sianel newydd wrth iddi bwyso a mesur llwyddiant ei wythnos gyntaf. Derbyniwyd nifer fach o ymatebion gwylwyr yn uniongyrchol dros y ffôn neu drwy lythyr, dengys y rhain hefyd fod yr ymateb i'r gwasanaeth ar y cyfan yn ffafriol ond bod rhai elfennau ohono nad oedd yn llwyddo i foddhau pawb. Derbyniwyd canmoliaeth ar y gwasanaeth Cymraeg gan ddeg ar hugain o wylwyr, sef 94 y cant o'r llythyrau a dderbyniwyd am y gwasanaeth Cymraeg.[28] Ond derbyniwyd pymtheg cwyn gyffredinol Saesneg, gyda phedair o'r rhain yn gwrthwynebu'r cynnwys Cymraeg ar y sianel.[29] Er hynny, prif gŵyn y gwylwyr am y gwasaneth Saesneg oedd y defnydd o iaith aflednais a rhegfeydd, yn benodol y ffilm *Network* a ddarlledwyd ar y noson agoriadol yn ogystal â'r opera sebon newydd, *Brookside.*[30]

Ond er i'r ymateb i'r gwasanaeth newydd ar y cyfan fod yn un ffafriol, cafwyd, mewn adlais o'r trafferthion fu'n wynebu'r darlledwyr yn ystod yr 1960au a'r 1970au, nifer o gwynion o du'r gwylwyr di-Gymraeg. Adroddodd y *Western Mail* ar y nifer helaeth o alwadau a dderbyniwyd gan y cwmni cebl Rediffusion yn yr oriau

---

[27] Dienw, 'Twelve per cent watched S4C in first week', *The Free Press*, 26 Tachwedd 1982.
[28] Derbyniwyd dau lythyr yn cwyno am y rhaglen *Hapnod.*
[29] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[30] Derbyniwyd ymateb cymysg hefyd i'r ffilm *Walter* a gyfarwyddwyd gan Stephen Frears, gyda pherfformiad cignoeth o ddyn ifanc ag anabledd meddwl gan Ian McKellen, wrth i S4C dderbyn naw cwyn a dwy ganmoliaeth o'r darllediad. Ategwyd nifer o'r agweddau hyn yn adolygiad o wythnos gyntaf y sianel yn y *Western Mail.* Myfi Cosslett, 'S4C viewpoint from a housewife – A feeling of apprehension', *Western Mail*, 6 Tachwedd 1982, t. 10.

cyn i'r sianel ddechrau darlledu.[31] Ers ail dro pedol William Whitelaw ym Medi 1980, yr oedd y cwmni cebl Rediffusion a wasanaethai rannau helaeth o gymoedd de Cymru, nad oedd yn hanesyddol wedi gallu derbyn signalau darlledu addas gydag erial arferol ar do y tŷ, wedi ceisio sicrhau mai Channel 4 a drosglwyddid i gartrefi ei gwsmeriaid yn hytrach na S4C.[32] Byddai hyn yn anwybyddu'r drwydded a roed i'r cwmnïau gan y Swyddfa Gartref a fynnai mai gwasnaeth teledu'r ardal leol yn unig a ddylai'r cwmnïau cebl eu trosglwyddo ac ni ddylid darlledu gwasanaethau ardaloedd eraill ar draul y gwasanaeth lleol.[33] Bu trafodaeth ar y mater yn ystod gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (PDFC) wrth i'r cwmnïau cebl honni y gallai'r rheol hon arwain at leihad yn y defnydd o'u gwasanaeth. Credai'r cwmnïau gan mai dim ond pedair sianel a oedd gan y rhan helaeth o'r darparwyr y byddai'r cwsmeriaid yn eu gadael gan na ellid cael y gwasanaeth Saesneg ychwanegol yr oeddent wedi arfer ag ef ac yr oeddent yn talu amdanynt.[34] Yr oedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn fychan ac felly teimlai'r cwmnïau a'r Pwyllgor Dethol yn eu hadroddiad, na ellid cyfiawnhau mynnu mai S4C y dylai'r cwmnïau eu cario. Pe derbynnid dadleuon y cwmnïau cebl a'r PDFC, byddai'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny yn cael eu hamddifadu'n llwyr o bob arlliw o wasanaeth Cymraeg yn enwedig os oeddent yn rhan o'r deg y cant na allai dderbyn gwasanaeth teledu trwy erial arferol.

Bu dadleuon y cwmnïau cebl yn rhai effeithiol, gan y llwyddwyd i ddarbwyllo'r Swyddfa Gartref bod rhaid gweithredu ar y mater. Yn ei ymweliad â'r Pwyllgor Dethol, cynigwyd consesiwn i'r cwmnïau cebl gan yr Ysgrifennydd Cartref, William Whitelaw, pan nododd:

---

[31] Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1.

[32] Yn 1980 yr oedd 170,000 o dai yng Nghymru yn derbyn eu gwasanaeth teledu trwy wasanaeth cebl masnachol, sef 20 y cant o gartrefi Cymru a oedd yn sylweddol uwch na'r ffigwr cyfatebol Prydeinig o 8.5 y cant. Erbyn dechrau'r 1980au, credid y gallai 90 y cant o'r cartrefi hyn dderbyn gwasanaeth teledu trwy erial arferol, ond eu bod yn parhau yn driw i gebl gan eu bod yn cael mwy o ddewis trwy'r ddarpariaeth honno. Gallai nifer o wasanaethau cebl gario pedwar gwasanaeth ac yn y dyddiau cyn sefydlu S4C a Channel 4 yr oeddent yn darlledu un o'r gwasanaethau lleol cyfagos o Loegr. Yr oedd Mr F. R. Yardley, Cadeirydd Grŵp Cymru a De Orllewin Lloegr y Cable Television Association, yn argyhoeddedig mai oherwydd y gwasanaeth atodol hwn y sicrhawyd teyrngarwch cwsmeriaid cebl. *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Vol I – Broadcasting in the Welsh Language and the implication for Welsh and non-Welsh speaking viewers and listeners* (London: HMSO, 1981), t. lvii.

[33] Ibid.

[34] Yr oedd 100,000 o'r 170,000 o gartrefi a dderbyniai wasanaethau cebl ar systemau pedair sianel. Yr oedd hi'n bosibl ymestyn y systemau hyn i gario mwy o sianeli ond yr oedd hon yn broses ddrudfawr. Ibid., t. lviii.

> If a particular cable operator seeks permission to distribute the English language Fourth Channel rather than the Welsh-language Fourth Channel, and he is able to provide evidence that it is the wish of the majority of his subscribers, I am certainly willing to consider giving him such permission.[35]

Cyflwynwyd cyfle felly i'r cwmnïau cebl, ac aeth y cwmni Rediffusion ati yn ystod 1982 i drefnu pleidlais ymysg ei gwsmeriaid er mwyn cefnogi ei gais i ddarlledu Channel 4 yn lle S4C.[36] Trefnwyd y bleidlais yn siopau y cwmni ar hyd a lled de Cymru ac aeth oddeutu hanner y cwsmeriaid, 53 y cant o'r 93,000 o gwsmeriaid, ati i fwrw pleidlais, gydag 88 y cant ohonynt yn mynnu'r sianel Saesneg, 10 y cant yn dymuno derbyn S4C a 2 y cant yn hapus i dreialu S4C am chwe mis cyn gwneud penderfyniad terfynol.[37]

Yr oedd Awdurdod S4C yn anhapus â'r cynlluniau newydd, a hynny oherwydd eu bod yn tanseilio'r sianel trwy leihau ei chynulleidfa bosibl yn sylweddol hyd yn oed cyn iddi ddechrau darlledu. Mynegodd Syr Goronwy Daniel ei anfodlonrwydd â'r sefyllfa yn y termau canlynol: 'As a new serivce having to establish itself and compete for viewers with the four existing networks, S4C would not happily accept being placed in an inferior position which undermined its ability to compete on an equal footing.'[38] Yr oedd y cynlluniau hyn yn andwyol felly i wasanaeth S4C. Diau y gwrandawodd Whitelaw ar y dadleuon hyn gan iddo ar yr unfed awr ar ddeg, yn yr wythnos cyn i S4C ddechrau darlledu, wrthod y bleidlais a drefnwyd gan Rediffusion gan honni nad oedd yn arolwg dilys na dibynadwy gan nad oedd Rediffusion wedi esbonio gwir natur S4C i'w gwsmeriaid cyn iddynt bleidleisio. Hynny yw, honnid mai dewis rhwng sianel 'Gymraeg' a sianel 'Saesneg' a roddid i'r gwyliwr heb son y byddai mwyafrif rhaglenni Saesneg Channel 4 yn cael eu darlledu ar S4C hefyd, ac na fyddai unrhyw raglenni Cymraeg bellach ar sianeli'r BBC nac HTV ychwaith wedi'r newid. Barnwyd felly nad oedd y bleidlais yn un ddidwyll ac felly

[35] *Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Vol II – Broadcasting in the Welsh Language and the implications for Welsh and non-Welsh speaking viewers and listeners* (London: HMSO, 1981), t. 622.

[36] Yr ardaloedd lle trefnwyd pleidlais oedd Abertyleri, Bargoed, de Bargoed, Deri, Merthyr Tudful, Trecelyn, Casnewydd, Pontlotyn, Pontypŵl, Treforys, Abertawe, Caerffili, Llangeinwyr, Maesteg, Pontypridd a'r Rhondda. David Hughes, 'Channel 4 cable vote is vetoed by Whitelaw', *Western Mail*, 29 Hydref 1982, t. 1.

[37] Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1.

[38] Clive Betts, 'Cable TV threat to S4C', *Western Mail*, 22 Ionawr 1982.

cyhoeddodd Whitelaw nad oedd modd iddo weddnewid y canllawiau cadarn a hynny ar sail tystiolaeth annibynadwy ac anwadal.[39]

Wedi dryllio gobeithion Rediffusion a nifer o'i gwsmeriaid, yn yr oriau cyn i'r sianel ddechrau darlledu am y tro cyntaf mynegwyd anfodlonrwydd y cwsmeriaid â'r cwmni ei hun wrth iddynt gyhoeddi i'r wasg bod 'cannoedd' o gwsmeriaid wedi cysylltu â hwy i gwyno am benderfyniad 'cythreulig' yr Ysgrifennydd Cartref.[40] Dangosa'r galwadau hyn nad oedd symud y rhaglenni Cymraeg oddi ar y BBC ac HTV a'u clystyru ar un sianel wedi tawelu'r teimladau cryf a fodolai ymysg y gynulleidfa ddi-Gymraeg. Ym marn y garfan honno o'r gynulleidfa yr oeddent yn parhau i fod ar eu colled gan eu bod yn cael eu hamddifadu o rai rhaglenni'r sianel Saesneg a bod y rhaglenni a gai eu darlledu yn cael eu dangos y tu allan i'r oriau brig. Darperir tystiolaeth bellach o barhad yr anghydfod hwn, a oedd wedi llyffetheirio darlledu yng Nghymru dros y degawdau, gan lythyrau darllenwyr a gyhoeddwyd ym mhapurau newydd Cymru yn ystod yr wythnosau a ddilynodd lansiad y sianel. Cyhoeddwyd amrywiaeth o safbwyntiau gyda nifer o lythyrau yn canmol llwyddiannau'r sianel ac yn ei llongyfarch ar y ffigurau gwylio addawol, a llythyrau eraill yn achwyn am y rhaglenni Cymraeg a fyddai yn eu tro yn ysgogi nifer o ddarllenwyr i ymateb gyda gohebiaeth bellach yn achub cam y sianel.[41]

*Ymateb y Gwylwyr*

Yn dilyn ffigurau gwylio addawol yr wythnos gyntaf, fe ddaeth y cwymp anochel yn yr ail wythnos a bu'n rhaid i'r sianel ddechrau dadansoddi'n fanylach batrymau gwylio'r gynulleidfa a fu, am gyfnod byr, mor frwd. Yn ôl ffigurau BARB ar gyfer ail wythnos ddarlledu'r sianel yr oedd 5 y cant yn llai o bobl yn gwylio rhaglenni Cymraeg y sianel, a bod ei chyfran o'r gynulleidfa wedi disgyn dau y cant o 12 i 10 y

---

[39] Hughes, 'Channel 4 cable vote is vetoed by Whitelaw', 29 Hydref 1982, t. 1.
[40] Betts, 'Croeso i S4C – but not from the valleys', 2 Tachwedd 1982, t. 1.
[41] Di- enw, 'More about words', *Caernarvon & Denbigh Herald*, 19 Tachwedd 1982; Awduron Amrywiol, 'Recipe for chaos', *Western Mail*, 19 Tachwedd 1982; M. Roberts, 'Practice', *Daily Post*, 22 Tachwedd 1982; G. R. Williams, 'Praise', *Daily Post*, 22 Tachwedd 1982; D.W. Irons, 'Strange', *Daily Post*, 22 Tachwedd 1982; G. R. Williams, 'S4C a success', *Western Mail*, 22 Tachwedd 1982; Crayce E. Clemas; 'English bias', *Western Mail*, 22 Tachwedd 1982; Awduron Amrywiol, 'In Welsh, for the Welsh', *Western Mail*, 23 Tachwedd 1982; Randolph Jenkins, 'Watch out boyos!', *South Wales Evening Post*, 23 Tachwedd 1982; Awduron Amrywiol, 'The beauty of English', *Western Mail*, 24 Tachwedd 1982; D. H. Griffiths, 'The war on Welsh goes on', *South Wales Evening Post*, 24 Tachwedd 1982; Rh. ap Steffan, 'Bowled over', *Carmarthen Journal*, 26 Tachwedd 1982.

cant.[42] Er y cwymp hwn yr oedd y newid yn ffigurau'r rhaglenni Cymraeg yn llawer llai syfrdanol na'r cwymp a gaed yn y ffigurau cyfatebol ar gyfer rhaglenni Channel 4 ar S4C. Yn ffigurau BARB yr un wythnos dangoswyd bod 35 y cant yn llai o bobl yn gwylio'r rhaglenni Saesneg ar S4C, gyda'r rhaglenni ar frig y siartiau gwylio yn disgyn o oddeutu 180,000 i 120,000 o wylwyr, cwymp a adlewyrchwyd yn y patrymau gwylio ledled Prydain. Yr oedd cyfran Channel 4 o'r gynulleidfa Brydeinig wedi disgyn o 6 i 5 y cant, a oedd yn siomedig i'w swyddogion a oedd wedi datgan eu dymuniad y byddai'r sianel yn denu un o bob deg o'r gynulleidfa bosibl.[43] Yr oedd cwymp fel hyn yn anochel i'r ddwy sianel, a hynny gan fod ffigurau wythnos agoriadol, er yn galonogol, yn ffigurau afreal a gofnodai ddarllediadau unigryw. Byddai wythnosau agoriadol yn denu gwylwyr na fyddai'n dewis gwylio'r sianel fel rhan o'u patrymau gwylio arferol, ond a wyliai ddarllediadau agoriadol oherwydd chwilfrydedd naturiol. Nid yw'n briodol felly cymharu ffigurau gwylio wythnos gyntaf y sianel â'r ystadegau a gyhoeddid ar gyfer yr wythnosau a ganlyn.

Er hynny, disgyn ymhellach wnaeth ffigurau gwylio'r sianel yn dilyn yr wythnosau a'r misoedd agoriadol. Cafwyd mis Rhagfyr ychydig siomedig o'i gymharu â'r wythnosau agoriadol,[44] er i'r sianel fwynhau cyfnod llwyddiannus iawn ar ddydd Nadolig gyda tair o raglenni mwyaf poblogaidd yr wythnos wedi eu darlledu dros yr Ŵyl.[45] Tyfodd y ffigurau gydol Ionawr a Chwefror gan ddychwelyd at lefel yn agos at gyfartaledd gwylwyr y mis cyntaf llwyddiannus hwnnw, ac erbyn mis Mawrth yr oedd cyfartaledd y gwylwyr a wyliai'r pum rhaglen fwyaf poblogaidd wedi cyrraedd

---

[42] Erbyn 2009 cyfran y sianel o'r gynulleidfa yng Nghymru oedd 2.1 y cant, gan gynyddu yn yr oriau brig i 3 y cant. Y ffigurau cyfatebol yn 2008 oedd 2.7 y cant o'r gwylwyr yn yr holl oriau a 3.3 y cant yn ystod yr oriau brig. Anghyfrifol fyddai cymharu'r canrannau hyn gyda'r ffigurau a gyhoeddwyd yn 1982, gan bod y tirlun darlledu wedi newid yn gyfan gwbl gyda dyfodiad teledu digidol a'r byd aml-sianel. S4C, *Adroddiad Blynyddol, Datganiad Ariannol 2009*, t. 62.

[43] Clive Betts, 'Good news and bad for S4C in ratings', *Western Mail*, 24 Tachwedd 1982; Echo Reporter, 'It's a big switch-off for S4C in English', *South Wales Echo*, 23 Tachwedd 1982; Dienw, 'S4C drops in viewing figures', *South Wales Evening Post*, 24 Tachwedd 1982, Garry Gibbs, 'Praise for S4C – and more tune in than for BBC2', *North Wales Weekly News*, 2 Rhagfyr 1982.

[44] Er bod ffigurau mis Rhagfyr ychydig yn siomedig i swyddogion y sianel, parhai ffigurau gwylio S4C yn llawer iachach na ffigurau Channel 4, James Price, 'A welcome in the hillsides for TV 4', *Daily Star*, 14 Ionawr 1982.

[45] Emyr Williams, 'Ar Ddec S4C', *Cambrian News*, 31 Rhagfyr 1982; Dienw, 'Christmas 'delight' for S4C', *South Wales Echo*, 11 Ionawr 1983; James Lewis, 'Welsh ratings beat Channel 4 and BBC 2', *The Guardian*, 17 Ionawr 1983. Nid oedd Iorwerth Roberts o'r Daily Post yr un mor frwdfrydig yn ei ddadansoddiad o amserlenni Nadolig y sianel, Iorwerth Roberts, 'A poor view', *Daily Post*, 23 Rhagfyr 1982.

120,000.[46] Diau y gellid esbonio'r twf hwn oherwydd y cynnydd tymhorol mewn ffigurau gwylio yn ystod y gaeaf a hynny oherwydd bod nifer yr oriau o olau dydd yn is. Gellid hefyd honni y byddai arlwy deniadol y Nadolig cyntaf wedi denu rhai gwylwyr yn ôl wedi'r cwymp cynnar. Ysywaeth, bu cwymp sydyn yn ystod Ebrill i 98,000 ac yna lleihad sylweddol pellach ym Mai i gyfartaledd o 64,000 o wylwyr i raglenni mwyaf poblogaidd y sianel.[47] Wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn cafwyd trafodaeth onest ymysg aelodau'r Awdurdod am y rhesymau dros y cwymp, gyda'r aelodau'n darogan bod cyfnod y llewyrch cychwynnol ar ben. Gwrthodwyd y syniad fod nosweithiau goleuach yr haf yn llwyr esbonio'r dirywiad, a phriodolwyd y gostyngiad gan un aelod, mewn sylwadau di-flewyn-ar-dafod, i'r dirywiad yn safon y rhaglenni a ddarlledwyd gan y sianel bellach, ac mai prin oedd y rhaglenni a oedd yn ei ddenu ef i wylio hyd yn oed.[48] Os nad oedd y sianel yn llwyddo i ddenu aelodau ei Awdurdod ei hun i wylio, yna yr oedd problem sylweddol yn wynebu'r staff.

Yr oedd hi'n amlwg i'r cwymp hwn yn y ffigurau gwylio beri pryder sylweddol i'r Awdurdod wrth i'r Cadeirydd lunio adroddiad manwl yn dadansoddi'r dirywiad a gaed ar draws holl gategorïau y ffigurau gwylio. Yn yr adroddiad ceir dadansoddiad o'r lleihad a welwyd rhwng ffigurau gwylio'r pum mis cyntaf o ddarlledu a ffigurau Mai 1983, yn enwedig yr amser a dreuliai gwylwyr yn gwylio rhaglenni S4C, a ddisgynnodd o 98 munud yr wythnos i 60 munud yr wythnos.[49] Caed cwymp cyffredinol ar draws y sianeli teledu i gyd, gyda lleihad o oddeutu 14 y cant yn yr

---

[46] Jan Morris, 'A Channel 4 that works . . .' *Sunday Times*, 9 Ionawr 1982; James Lewis, 'Welsh ratings beat Channel 4 and BBC2', *The Guardian*, 17 Ionawr 1983; Brenda Maddox, 'One-up to Wales', *The Listener*, 20 Ionawr 1983; Alwyn Roberts, 'Methiant "Channel 4" – dyfodol S4C, *Y Faner*, 21 Ionawr 1983, t. 11.

[47] Clive Betts, 'Plunge in viewing of S4C a cash threat', *Western Mail*, 15 Mehefin 1983. Mae'r ffigwr a gyhoeddwyd gan y *Western Mail* ar gyfer mis Mai yn uwch na'r ffigwr a nodir gan yr Awdurdod ar ddirywiad y ffigurau gwylio, sef 57,000. Gweler CS4C, *The deterioration in S4C's ratings since its initial five months of operation (Papur 7.83(5)), Papur atodol i Agenda deunawfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 Gorffennaf 1983. Mae'n debygol i'r ddogfen hon gael ei hysgrifennu yn Saesneg yn hytrach nac yn Gymraeg gan iddi gael ei hawduro gan y Cadeirydd, neu oherwydd ei bod wedi ei llunio ar y cyd ag aelodau di-Gymraeg staff S4C megis Chris Grace. Gweler trafodaeth bellach o'r cwymp yn ffigurau gwylio S4C yn yr erthyglau canlynol: Dienw, 'S4C is hig by big turn-off', *Television Weekly*, 24 Mehefin 1983; Dienw, 'Welsh TV hits sun snag', *The Guardian*, 27 Mehefin 1983; Clive Betts, 'Stale news 'hits S4C figures'', *Western Mail*, 29 Mehefin 1983; Derek Hooper, 'Viewing figures shock for S4C', *South Wales Echo*, 28 Mehefin 1984.

[48] CS4C, *Cofnodion ail gyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Mehefin 1983, t. 3.

[49] CS4C, *The deterioration in S4C's ratings since its initial five months of operation (Papur 7.83(5))*, t. 6.

amser gwylio, ystadegyn a ddengys bod cwymp yn nifer yr oriau gwylio yn nodweddiadol o batrymau gwylio yn gyffredinol yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond yr oedd y cwymp yn ffigurau S4C yn 38 y cant, ac felly yr oedd hi'n amlwg fod tuedd yr Awdurdod i feddwl nad oriau machlud yr haul oedd yr unig ffactor a effeithiai ar ffigurau'r sianel yn gywir.[50] Yr oedd y dirywiad mewn rhai agweddau yn llai dramatig, gyda'r gyfran o'r gwylwyr posibl wedi disgyn o 8 i 6 y cant rhwng mis Mawrth a mis Mai, ffigwr a oedd yn parhau yn uwch nag un Channel 4 a oedd bellach wedi disgyn i 4 ac wedi aros yno'n gyson gydol y misoedd cyntaf o ddarlledu. Ond yr oedd ffigwr S4C bellach yn is na ffigurau BBC 2 a oedd wedi dringo i 16 y cant ym mis Ebrill, a disgyn yn ôl i 9 y cant fis yn ddiweddarach.[51] Dangosodd dadansoddiad dyddiol o'r ffigurau mai ar y penwythnosau yr oedd y sianel fwyaf ar ei cholled, gan ddangos nad oedd darpariaeth y sianel dros y Sul, rhaglenni megis *Twyllo'r Teulu, Madam Sera, Antur, Yr Awr Fawr* nac hyd yn oed *SuperTed* na *Wil Cwac Cwac,* yn llwyddo i ddenu'r gwylwyr oddi wrth y ddarpariaeth gyfarwydd â gaed ar ITV a'r BBC.[52]

Casglwyd bod nifer o wersi i'w dysgu o'r ffigurau hyn, gyda'r Golygydd Rhaglenni'n nodi yn ei ymateb i'r ddogfen bod nifer o elfennau ac agweddau y gellid eu haddasu a'u newid ar gyfer y dyfodol. Yn anffodus i'r sianel, er hynny, nid oedd hi'n bosibl gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r amserlen er mwyn ymateb i'r ffigurau gwylio gwael a chryfhau'r ddarpariaeth trwy gynnwys rhaglenni fyddai'n debygol o apelio at y gwylwyr, a hynny gan fod yr amserlen wedi ei phennu'n gadarn hyd ddechrau Awst 1983. O ganlyniad dim ond pedair wythnos o amserlen yr haf y gellid ei haddasu er mwyn ceisio adfer ychydig ar y ffigurau gwylio, cyn y byddai'r amserlen a ystyriai swyddogion y sianel oedd yn un gref ar gyfer yr Hydref yn dechrau.[53] Yma fe welir tystiolaeth o natur anhyblyg sianel deledu yn y cyfnod, hyd yn oed sianel gymharol fechan, gan ei bod bron yn amhosibl gwneud newidiadau sylweddol i amserlenni ar fyr rybudd. Dengys hefyd pa mor anodd oedd ymateb i dueddiadau gwylwyr pan ddeuai'r rheini i'r amlwg.

---

[50] Ibid., t. 1.

[51] Ibid. Gellid priodoli y twf aruthrol yng nghyfran BBC 2 o'r gynulleidfa i'r darllediad o ornestau y bencampwriaeth snwcer y byd yn y Crucible yn Sheffield yn ystod yr oriau brig.

[52] Ibid., t. 3.

[53] Ibid.

Er yr honnai S4C yn gyhoeddus mewn datganiadau i'r wasg ac yn yr adroddiad blynyddol, mai'r newid ym mhatrwm gwylio cynulleidfaoedd yr haf a oedd yn gyfrifol am y dirywiad gan roi gogwydd cadarnhaol i'r ffigurau, yn fewnol yr oedd y dadansoddiad unwaith yn rhagor yn llawer mwy agored a chignoeth.[54] Cydnabuwyd bod amserlen Ebrill wedi bod yn siomedig a bod y sianel wedi colli nifer o gyfresi poblogaidd wrth i'r rheiny ddod i ben, heb unrhyw gyfresi tebyg i'w dilyn, a bu beirniadu cyhoeddus i'r sianel ddechrau ail-ddarlledu cynnwys mor fuan yn ei hanes.[55] Cofia Chris Grace hefyd fod stoc wrth gefn y sianel o raglenni Cymraeg wedi ei ddihysbyddu'n llwyr erbyn gwanwyn 1983, yr oedd y stoc yn isel gan mai dim ond ychydig dros flwyddyn o amser cynhyrchu a fu cyn i'r sianel ddechrau darlledu, ac yn y cyfnod hwnnw oherwydd yr anghydfod hirhoedlog rhwng S4C ac HTV yr oedd y stoc yn is na'r gofyn.[56] Fe geid yma hefyd dystiolaeth o ddiffyg hyder swyddogion y sianel yn ei chynhyrchwyr gan iddi gomisynu nifer o gyfresi byrion yn hytrach na chyfresi hirach a fyddai'n cynnal diddordeb ei gwylwyr a sicrhau ffigurau gwylio cymharol gyson wrth i'r tymhorau fynd rhagddynt. Yr oedd y sianel hefyd wedi darlledu'r goreuon i gyd yn ystod y misoedd cynnar a hynny er mwyn creu ymateb a denu gwylwyr i'r sianel newydd, erbyn gwanwyn 1983 felly yr oedd y sianel yn dechrau crafu gwaelod y gasgen raglenni. Nodwyd hefyd nad oedd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi ei chynnal i'r un graddau wedi ymdrech aruthrol y misoedd cyntaf, mynegodd Euryn Ogwen Williams, fod staff fechan y sianel wedi llwyr ymlâdd wedi'r gaeaf cyntaf hwnnw, ond, yn wahanol i'r amserlen, yr oedd hon yn sefyllfa y gellid ei haddasu ar fyr rybudd gan fuddsoddi rhagor o arian ac amser mewn cyhoeddusrwydd er mwyn ceisio adennill cyfran o'r gynulleidfa dros fisoedd yr haf.[57] At hynny, awgrymwyd yn yr adroddiad fod llwyddiant yr wythnosau cynnar wedi cael effaith negyddol yn hytrach na chadarnhaol ar staff y sianel ac ar y gwylwyr: 'We became over confident and assumed audience loyalty while the

[54] Clive Betts, 'S4C confident despite low share of Welsh market', *Western Mail*, 12 Gorffennaf 1983; Dienw, 'Hyder yn nyfodol S4C', *Y Cymro*, 12 Gorffennaf 1983; Ivor Wynne Jones, 'S4C suffers summer switch-off', *Daily Post*, 12 Gorffennaf 1983.

[55] Yn ystod Mawrth a dechrau Ebrill 1983 daeth cyfresi megis *Elinor*, *Cefn Gwlad, Yng Nghwmni* a *Rhaglen Hywel Gwynfryn* i ben. Caed cwynion am ailddarlledu yn Meinir Ffransis, 'Angen cyfres i'n dal a'n denu', *Y Cymro*, 3 Mai 1983, t. 2; Annes Glyn, ''Repeats' yn troi yn fwrn', *Y Faner*, 16 Medi 1983, t. 21.

[56] Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010. Cynigiodd hefyd y gellid esbonio'r diffyg stoc yng ngwanwyn 1983, gan fod llai o gynhyrchu yn ystod misoedd y gaeaf yn gyffredinol oherwydd y tywydd, diffyg golau a.y.b. a oedd yn arwain at ddiffyg darpariaeth ar y sgrin yn y gwanwyn a'r haf.

[57] CS4C, *The deterioration in S4C's ratings since its initial five months of operation (Papur 7.83(5))*, t. 4.

audience felt it no longer had an obligation to view if there was anything else that interested them.'[58] Dysgwyd gwersi caled yn gynnar yn hanes y sianel, felly, ac yn benodol nad oedd modd cymryd teyrngarwch unrhyw gynulleidfa yn ganiataol, a bod hyd yn oed y gwylwyr cyfrwng Cymraeg mwyaf ffyddlon yn debygol o droi at sianel arall pan nad oedd yr arlwy ar S4C yn apelio atynt.

Er i'r dirywiad mewn ffigurau gwylio beri poen meddwl i'r sianel, un o argymhellion y papur dan sylw oedd na ddylid gorymateb na mynd i banig wrth eu hystyried. Ceid ychydig o amheuaeth hefyd a oedd y ffigurau a ddeuai gan BARB yn ddibynadwy, amheuaeth a oedd mewn gwirionedd wedi bodoli ers ail wythnos ddarlledu'r sianel. Yr oedd y rhaglen *Y Mab Darogan* wedi derbyn ffigurau gwylio isel iawn, ond wedi cael adborth llafar gwych.[59] Yr oedd yr anghysondeb tybiedig hwn wedi arwain at ddamcaniaethu ymysg swyddogion y sianel.[60] Amheuid fod y rhaglen wedi bod yn 'anlwcus' wrth iddi fethu â denu'r unigolion a oedd â blychau cyfrif BARB i'w gwylio, ac felly bod y ffigurau gwylio yn gamarweiniol o isel.[61] Tyfodd yr egin hwn o amheuaeth yng nghysondeb a chywirdeb y ffigurau a dderbyniai'r sianel, ac erbyn diwedd 1983 yr oedd y sianel wedi gofyn i sefydliad ymchwil arall, Research and Marketing Wales and the West Limited, i ymchwilio i'r ffigyrau 'anghredadwy' yr oedd y sianel yn eu derbyn gan y sefydliad ymchwil darlledu.[62] Yr hyn a ysgogodd y sianel i fynnu dadansoddiad pellach ar y ffigurau a dderbynnid gan BARB oedd yr anghysondeb cynyddol a gaed rhwng y nifer gwylwyr a'r nifer o gartrefi a oedd yn gwylio rhaglen benodol. Enghraifft nodweddiadol o'r anghysondeb hwn oedd y ffigurau a dderbyniwyd ar gyfer nos Wener, 18 Tachwedd 1983, lle honnodd BARB fod 65,000 o unigolion wedi gwylio *Pobol y Cwm* a hynny mewn 73,000 o gartrefi,

---

[58] Ibid.

[59] Adborth ar lafar oedd hwn a oedd wedi ei fynegi wrth aelodau yr Awdurdod trwy eu ffrinidau a'u cydnabod.

[60] Yr oedd nifer o enghreifftiau eraill hefyd, bu pryder am ffigurau *Pobol y Cwm* wrth i'r nifer gwylwyr ddisgyn gan 46 y cant o 220,000 i 119,000 mewn tair wythnos, er i'r nifer cartrefi aros yn gymharol gyson. Clive Betts, 'S4C drop in viewers reveals muddle in ratings', *Western Mail*, 6 Ionawr 1983, t. 1; Echo Reporter, 'Ratings probed at S4C', *South Wales Echo*, 6 Ionawr 1983; Dienw, 'S4C figures 'correct'', *South Wales Evening Post*, 7 Ionawr 1983, Clive Betts, 'Battle looms on ratings', *Western Mail*, 9 Ionawr 1983.

[61] Clive Betts, 'Good news and bad for S4C in ratings', *Western Mail*, 24 Tachwedd 1982.

[62] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 12.83(4)) – papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 – 2 Rhagfyr 1983, t. 2. Yn dilyn eu harchwiliad o ffigurau gwylio S4C, gofynnwyd i Research and Marketing Wales and the West LTD lunio prosiect ymchwil gynhwysfawr fyddai'n anfon holiaduron i 1000 o siaradwyr Cymraeg a 500 o unigolion di-Gymraeg er mwyn cael rhagor o wybodaeth am natur a phatrymau gwylio'r gynulleidfa. Trafodir canlyniadau'r ymchwil hwn yn fanwl ym mhennod 7.

ffigurau a oedd yn gwbl amhosibl eu deall na'u hesbonio. Ysgogodd yr ystadegyn hwn i un darlledwr gellwair: 'It seems as if Welsh dogs, left alone in houses in the evening, are turning on the set for a spot of light relaxation.'[63] Yr oedd derbyn ffigurau fel hyn yn gwneud i staff S4C gwestiynu'r ffigurau eraill a dderbyniwyd gan BARB, yn enwedig gan fod ffigurau cyfatebol y flwyddyn flaenorol yn dangos cynulleidfaoedd a oedd yn ddwbl maint y rhai a gyfrifwyd ar gyfer yr un wythnos a'r union amser yn yr amserlen ar gyfer 1983. Yr oedd y gofid a'r amheuaeth hwn yn gwbl ddealladwy, yn enwedig gan fod ffigurau'r pum rhaglen uchaf yn cael eu cyhoeddi yn y wasg, a'r pryder amlwg y gellid eu defnyddio er mwyn cymharu cost y sianel gyda nifer ei gwylwyr. Yn wir yr oedd y pryder hwn yn un y gellid ei gyfiawnhau gan fod y wasg yn dangos diddordeb mawr yn y ffigurau gwylio a'r gost fesul pen, a cheid ambell gyhoeddiad yn proffwydo diddymu'r sianel yn sgil y ffigurau gwylio cymharol isel, megis erthygl Tim Jones yn y *Times* a gyhoeddodd: 'Recent celebrations of the first anniversary of S4C, the Welsh language television channel, turned into something of a wake'.[64]

Priodolwyd yr anghysondeb yn ffigurau BARB yn rhannol i'r ffaith fod y sampl o gartrefi a ddefnyddiwyd gan y cwmni ystadegau darlledu er mwyn ffurfio'r ystadegau yn fach.[65] Yr oedd 220 o gartrefi yn rhan o'r sampl gyda 120 o'r rheiny yn gartrefi lle ceid hanner trigolion y tŷ yn siarad Cymraeg a'r 100 a oedd yn weddill yn gartrefi di-Gymraeg neu lle yr oedd siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif. Er mwyn amcangyfrif y ffigurau ar gyfer Cymru gyfan byddai'r ffigurau hyn yn cael eu cyfuno ar gymhareb o 19 i 81, gan mai 19 y cant o boblogaeth Cymru'r cyfnod a siaradai Gymraeg.[66] Ond nid y rhaniad Cymraeg/di-Gymraeg oedd y broblem, un o'r prif drafferthion gyda'r model hwn oedd bod y defnydd o sampl bychan i gyfrifo canran fechan o wylwyr yn creu cyfeiliornad sylweddol yn y ffigurau gwylio, yn

---

[63] Clive Betts, 'Viewing figures puzzle for S4C', *Western Mail*, 5 Rhagfyr 1983.
[64] Jane Harbord, 'Can even Superted save S4C?', *Television Weekly*, 22 Gorffennaf 1983, t. 7; James Tucker, 'Hidden Welsh TV bill', *Sunday Times*, 13 Tachwedd 1983; DH, 'S4C "Most Costly TV in Britain"', *Broadcast*, 18 Tachwedd 1983; Tim Jones, 'Will the Welsh keep their TV channel?', *The Times*, 19 Tachwedd 1983; Clive Betts, 'Magazine says S4C is UK's dearest TV', *Western Mail*, 30 Ionawr 1985. Nid rhyfeddod unigryw i ddyddiau cynnar y sianel oedd y sylw a roddid i ffigurau gwylio'r sianel, fel y tystia'r erthyglau canlynol: Martin Shipton, 'Figures reveal failure of S4C to attract TV audiences', *Western Mail*, 10 Mawrth 2010, tt. 3; Lucy Connolly, 'Channel Snore', *The Sun*, 11 Mawrth 2010, t. 3.
[65] CS4C, *S4C's Audience – papur atodol i Agenda pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984. Syr Goronwy Daniel oedd awdur y ddogfen hon ac yr oedd ei gefndir proffesiynol fel ystadegydd yn amlwg o fantais wrth iddo ymwneud â'r broblem ddyrys hon.
[66] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83* (Caerdydd, 1983), t. 9.

enwedig wrth ystyried ffigurau un rhaglen.[67] Yn ôl dadansoddiad y Cadeirydd gallai ffigwr gwylio o 60,000 o wylwyr yn ôl y dull hwn o gyfrifo gyfeirio mewn gwirionedd at unrhyw ffigwr rhwng 42,000 a 78,000, a ystyrid yn amrediad eang iawn.[68] Ffactor arall a gyfeiriwyd ato yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn lawn gyntaf y sianel, sef cyfnod lle cofnodwyd rhai o'r ffigurau gwylio mwyaf siomedig, oedd bod dadansoddiad manylach o'r ffigurau yn dangos bod modd priodoli'r dirywiad sylweddol bron yn gyfan gwbl i batrymau gwylio'r 100 o gartrefi di-Gymraeg neu a oedd â lleiafrif o siaradwyr Cymraeg. Ymddengys felly, fod nifer o'r cartrefi hynny wedi gwylio'r sianel yn ystod ei misoedd cyntaf, ond flwyddyn yn ddiweddarach prin iawn oedd y gwylwyr hynny, a chan fod patrymau gwylio'r 100 cartref yma yn cael ei luosi â 81, i gynrychioli mwyafrif poblogaeth Cymru, yr oedd y newid yn y ffigurau o un flwyddyn i'r llall yn afresymol o uchel.[69]

Nodwedd bellach a oedd yn annog drwgdybiaeth ynglŷn â'r ffigurau gwylio oedd y darlun o lwyddiant y sianel a gaed o'r ffigurau a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymateb Cynulleidfa (*Audience Appreciation Service)*, gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer BARB gan Adran Ymchwil Darlledu'r BBC.[70] Yn achos S4C, patrwm gwaith yr ymchwil hwn oedd holi sampl o 720 o Gymry Cymraeg bob tri mis i raddio'r rhaglenni yr oeddent wedi eu gwylio.[71] O'u cymharu â ffigurau gwylio BARB, yr oedd y ffigurau gwerthfawrogiad hyn wedi aros yn uchel, ac yr oeddent yn gyson uwch na'r ffigurau cyfatebol a gesglid gan y Gwasanaeth Ymateb Cynulleidfa ar gyfer y sianeli poblogaidd eraill.[72] Er enghraifft, o ystyried ffigurau'r rhaglen *Newyddion Saith* dros gyfnod tri adroddiad blynyddol, gwelid fod ffigurau gwerthfawrogiad y sianel wedi dechrau'n uchel yn y pum mis cyntaf o ddarlledu gan ennill sgôr o 80, yna yn ystod 1983/4 derbyniodd y rhaglen sgôr o 76, cyn dringo yn ôl i 79 yn ystod 1984/5. Gwelwyd patrwm tebyg gyda'r opera sebon *Pobol y Cwm*, a ddechreuodd â sgôr uchel o 83 cyn disgyn i 82 yn 1983/4 ac yna ddringo yn ôl a

[67] CS4C, *S4C's Audience*, t. 1.
[68] Ibid.
[69] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84* (Caerdydd, 1984), t. 10.
[70] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83*, t. 10.
[71] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84*, t. 9. Ceid o chwech o gategorïau a ddisgrifiai eu hymateb i'r rhaglenni hynny.
[72] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83*, t. 10; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84*, t. 10; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85* (Caerdydd, 1985), t. 12.

churo marc y pum mis agoriadol ym 1984/5 gyda 87.[73] O gymharu y ffigurau hyn â'r sianeli eraill yr oedd rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, ITV a Channel 4 ar gyfartaledd yn derbyn sgôr o 74.5, ac fel y nodwyd eisoes yr oedd ffigurau S4C ar gyfer ei bwletin newyddion yn ystod yr un cyfnod ychydig yn uwch.[74] Yn achos cyfresi a dramâu cyfres yr oedd cyfartaledd y BBC, ITV a Channel 4 oddeutu 73, tra, fel y nodwyd eisoes, yr oedd *Pobol y Cwm* yn yr un cyfnod wedi derbyn y sgôr sylweddol uwch o 82. Yr oedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa Gymraeg o'r rhaglenni Cymraeg, felly, yn llawer uwch na gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o raglenni Saesneg y sianeli eraill. Ymddengys y ceid deuoliaeth felly wrth wraidd y cysyniad o lwyddiant S4C, sef bod y rhaglenni a ddarlledid ganddi yn llwyddo i blesio'r gynulleidfa darged, ond gyda'r boddhad hwnnw yr oedd yn rhaid dygymod â'r ffaith mai nifer fechan o bobl a oedd yn gwylio'r arlwy difyr a diddorol a deledwyd. Yr oedd arlwy S4C felly yn llwyddo i fod yn boblogaidd ond yn ymddangosiadol amhoblogaidd ar yr un pryd.

Oherwydd yr anghysondeb hwn, pwysigrwydd gwleidyddol sicrhau ffigurau gwylio iach a'r teimlad a gaed ymysg swyddogion y sianel bod y cyhoedd a'r wasg yn talu sylw anghymesur i'r ffigurau gwylio a gyhoeddwyd, aethpwyd ati i drafod gyda BARB ac Audits of Great Britain (AGB), y sefydliad a oedd yn darparu'r gwasanaeth mesur cynulleidfa ar gyfer BARB, a ellid llunio patrwm newydd o gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gynulleidfa S4C.[75] Penllanw'r trafodaethau hyn oedd newid y ffordd yr oedd y ffigurau a gasglwyd gan BARB yn cael eu cyhoeddi, sef trwy gynnig dadansoddiad manylach o batrymau gwylio'r panel o gartrefi Cymraeg law yn llaw â'r ffigurau.[76] Ymddengys fod y diffiniad o aelwyd Gymraeg wedi ei gryfhau hefyd i gynnwys manylion am lefel dealltwriaeth aelodau o'r teulu, er mwyn sicrhau fod y cartrefi o fewn y sampl yn llwyddo i roi darlun llawer mwy

---

[73] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83*, t. 34; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983 – 1984*, t. 37; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 40.

[74] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84*, t. 37. Dadansoddiad o ymateb y gynulleidfa i nifer o wythnosau ym 1983 oedd y ffigurau hyn.

[75] CS4C, *Nodiadau ar chweched cyfarfod Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Darlledu Annibynnol i drafod Rhaglenni 'Annibynnol' S4C*, 30 Mawrth 1984, t. 2; CS4C, *Cofnodion chweched cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Mawrth 1984, t. 2; Clive Betts, 'S4C bid to sort out who watches', *Western Mail*, 9 July 1984; Dienw, 'S4C solution 'en-route', *Television Weekly*, 10 Awst 1984.

[76] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a saith Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Chwefror 1985, tt. 1–2; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 11.

dibynadwy i'w ddadansoddi. Cyfyngwyd y sampl bellach i: '[g]artrefi yng Nghymru a all dderbyn S4C a lle y mae 50% neu fwy o'r unigolion yn y cartref yn deall Cymraeg yn ddigon da i fedru dilyn sgwrs naill ai yn y gwaith neu rhwng ffrindiau a pherthnasau.'[77] Gweithredwyd y patrwm newydd hwn o 9 Rhagfyr 1984 ymlaen, ac o fewn deufis yr oedd y Cyfarwyddwr yn canu clodydd y system newydd gan ei bod yn darparu ffigurau llawer mwy sefydlog, teg a pherthnasol i'r sianel.[78] Gan nad oedd y patrwm hwn wedi bod yn weithredol am flwyddyn gron, ni chafwyd dadansoddiad manwl o'r ffigurau yn adroddiad blynyddol 1984–85, ond fe gafwyd rhagflas o'r ffigurau newydd a oedd yn cynnig darlun cadarnhaol iawn o deyrngarwch cynulleidfaoedd Cymraeg i'r sianel.[79] Nodwyd fod 79.2 y cant o'r boblogaeth Gymraeg yn gwylio S4C bob wythnos, ffigwr a oedd yn llawer uwch na'r 69.3 y cant o boblogaeth ddwyieithog Cymru a oedd yn gwylio BBC 2 bob wythnos.[80] At hynny, yr oedd y ffigurau newydd hyn yn datgan fod gwylwyr Cymraeg, ar gyfartaledd, yn gwylio pedair awr a deuddeg munud o raglenni S4C yr wythnos o gymharu â llai na thair awr yr wythnos yr oedd gwylwyr yng Nghymru yn treulio yn gwylio BBC 2.[81] Yr oedd y dull newydd o gyflwyno'r wybodaeth yn llawer mwy buddiol i S4C felly, gan sicrhau bod modd i'r sianel gyflwyno darlun llawer mwy cadarnhaol o boblogrwydd y sianel i'r cyhoedd ac i'r llywodraeth, darlun a oedd yn cydfynd yn llawer gwell â'r ffigurau gwerthfawrogiad ac yn adlewyrchu'n gywirach yr ymateb gwerthfawrogol a brwdfrydig a gaed gan y gynulleidfa mewn digwyddiadau a gwyliau cyhoeddus ledled Cymru.

### *Ailystyried ac Addasu*

Erbyn 1985, felly, yr oedd S4C wedi canfod dull o gasglu ffigurau gwylio a oedd yn cynnig darlun derbyniol o batrymau gwylio cynulleidfa'r sianel. Ond nid patrymau mesur a chyhoeddi ffigurau gwylio oedd yr unig elfen o'r gwasanaeth a addaswyd er mwyn ceisio gwella a chynyddu poblogrwydd y sianel yn llygad y cyhoedd a'r wasg.

---

[77] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 11.
[78] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a saith Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, tt. 1–2.
[79] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 12.
[80] Ibid.
[81] Ibid. Yr oedd y ffigwr cyfatebol ar gyfer Channel 4 yn ddwy awr ag ugain munud, ond ni gyhoeddwyd y ffigurau ar gyfer BBC 1 a ITV. Diau y gwnaed hynny er mwyn osgoi creu darlun llai trawiadol o ganlyniadau S4C yn y cyd-destun hwn. Cyhoeddwyd ffigurau cyfatebol yn adroddiad blynyddol 1985–86 a oedd yn dangos darlun cadarnhaol o ymateb y gynulleidfa Gymraeg i'r sianel; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86* (Caerdydd, 1986), tt. 62–3.

Gydol y cyfnod prawf bu'r sianel yn newid ac addasu nifer o agweddau ar y gwasanaeth er mwyn ceisio'i wella a sicrhau cynulleidfa deilwng ar gyfer y rhaglenni a gynhyrchwyd. Un o'r elfennau a addaswyd oedd patrwm yr amserlen, neu'n fwy penodol lleoliad y rhaglenni Cymraeg oddi fewn iddi. Megis y trafodwyd eisoes, cofnodwyd dirywiad sylweddol yn ffigurau gwylio'r rhaglenni Cymraeg yn ystod haf cyntaf y sianel ym 1983, ac er na ellid priodoli'r cwymp hwnnw i effaith y nosweithiau goleuach ar batrymau gwylio'r gynulleidfa yn unig, yr oedd addasu'r amserlen yn un modd o ymdrin â ffigurau gwylio isel.

Yn wreiddiol yr oedd rhaglenni Cymraeg y sianel yn cael eu rhannu i dri bloc darlledu o ddydd Llun i Gwener, yn hytrach na'u plethu am yn ail gyda rhaglenni Saesneg. Yr hyn a deledwyd felly oedd rhaglenni plant meithrin ac ysgolion yn dechrau am ddau o'r gloch y prynhawn am oddeutu hanner can munud gyda rhaglenni megis *Ffalabalam, Ffenestri* a *Hwnt ac Yma* yn rhan o'r ddarpariaeth. Yna byddai'r *Clwb* yn lansio'r deugain munud nesaf o raglenni Cymraeg o ddiddordeb i'r ifanc am oddeutu ugain munud i bump, cyn trosglwyddo i ddarlledu rhaglenni Saesneg megis *The Munsters, Battlestar Gallactica, Countdown* neu *Brookside* cyn i'r bloc gyda'r nos ddechrau ychydig cyn saith yr hwyr gyda'r eitem i ddysgwyr *Gair yn ei Bryd* ac yna'r rhaglen newyddion feunyddiol. Byddai'r darllediadau Cymraeg yn parhau tan naw yr hwyr neu hanner awr wedi naw ar ambell noson, a llenwid oriau'r hwyrnos â rhaglenni Saesneg megis ffilmiau *Film on Four*. Yr oedd patrwm y penwythnos ychydig yn wahanol gyda'r rhaglenni Cymraeg ar ddydd Sadwrn yn dechrau ar ddiwedd y prynhawn, oddeutu hanner awr wedi pedwar, ac yn parhau hyd ddeg o'r gloch y nos, neu ychydig yn hwyrach, gan ddarparu bloc sylweddol o raglenni ar gyfer yr aelwyd Gymraeg. Yr oedd amserlen y Sul yn debyg i'r patrwm wythnosol gydag ambell i bwt Cymraeg megis y tywydd Cymraeg i Ffermwyr a'r rhaglen *Sbec ar S4C* yn ystod y prynhawn a rhaglenni'r hwyr yn dechrau am chwarter wedi pump ac yn dod i ben oddeutu hanner awr wedi naw.[82] Profodd yr amserlen wreiddiol hon yn llwyddiannus iawn i'r sianel yn ystod ei misoedd agoriadol, ac felly fe barhawyd â'r patrwm o flociau darlledu Cymraeg ar gyfer ail aeaf y sianel. Ond ar gyfer haf 1984 rhoddwyd amserlen newydd ar brawf, a fyddai'n torri ar y patrwm o raglenni Cymraeg yn llenwi'r oriau brig. Yr hyn a gynigwyd gan

[82] Dienw, 'TV Guide', *Western Mail*, 2 – 6 Tachwedd 1982.

swyddogion y sianel oedd y byddai rhaglenni Cymraeg yn parhau i agor yr oriau brig rhwng saith yr hwyr ac wyth o'r gloch, ond yna am wyth o'r gloch ar nos Lun, Mawrth, Iau a Gwener bwriedid trosglwyddo i ddarlledu awr o raglenni Saesneg Channel 4, cyn dychwelyd i ddarlledu rhaglenni Cymraeg rhwng naw a deg o'r gloch.[83] Nid dyma'r tro cyntaf yr oedd y sianel wedi darlledu rhaglenni Saesneg yn ystod y bloc Cymraeg yn yr oriau brig, gwnaed hynny o reidrwydd am rai wythnosau yn ystod gwanwyn 1983 pan yr oedd stoc rhaglenni Cymraeg y sianel wedi ei ddihysbyddu yn llwyr.[84] Ymddangosai'r syniad o rannu'r bloc Cymraeg yn un rhesymegol, gan y byddai darlledu'r rhaglenni Cymraeg yn hwyrach yn sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael i'r gynulleidfa wedi iddi ddychwelyd i'r tŷ ar ôl treulio amser yn mwynhau tymor yr haf. At hynny, yr oedd y patrwm hwn yn ateb gofynion rhai aelodau o'r gynulleidfa a fu'n gohebu â'r sianel i fynegi pryder ynglŷn â'r polisi o ddarlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod yr oriau brig a hynny gan y byddai'r arlwy yn gwrthdaro a nifer o ddigwyddiadau celfyddydol, cymdeithasol a chrefyddol megis y seiat, y cylch llenyddol a Merched y Wawr.[85] Ymddengys nad oedd yr Awdurdod yn gwbl hyderus yn y cynllun newydd, er hynny, nododd un aelod ei fod yn dymuno gweld y bloc di-dor yn parhau, gan gynnig y gellid ceisio ateb y broblem trwy ei ddechrau'n hwyrach am hanner awr wedi saith y nos. Casglwyd yn y pen draw nad oedd hyn yn bosibl oherwydd ymrwymiad y sianel i ddarlledu'r newyddion am saith o'r gloch.[86]

Er bod y syniad yn ymddangos yn un synhwyrol, gellid honni fod rhannu'r bloc darlledu Cymraeg yn gwrthdaro â'r hyn a nodai'r Ddeddf Ddarlledu a oedd yn rhan o gyfrifoldeb y sianel, sef i glustnodi'r rhan helaethaf o'r oriau brig i ddarlledu rhaglenni Cymraeg. Gellid dadlau bod clustnodi un o'r oriau brig mwyaf blaenllaw i raglenni Saesneg yn mynd yn erbyn egwyddor ac ysbryd y Ddeddf. Gellid honni hefyd fod gosod rhaglenni Saesneg yng nghanol yr oriau brig yn darparu consesiwn i wylwyr di-Gymraeg y sianel a oedd wedi bod yn cwyno am amseriad y rhaglenni Saesneg, a hynny ar draul y rhaglenni Cymraeg. Yn bennaf oll, gosodai'r patrwm gynsail peryglus ar gyfer amseriad rhaglenni Saesneg, gan osod y sianel ar dir ansad.

[83] CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984, t. 1. Gwnaed eithriad ar nos Fercher er mwyn ei gwneud yn bosibl darlledu ffilm nodwedd Saesneg rhwng naw ac un ar ddeg y nos.
[84] Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.
[85] CS4C, Llythyr oddi wrth Mr Jones, Llanrug at Owen Edwards, 29 Mai 1981.
[86] Ibid.

O ddadansoddi geiriad y Ddeddf, a nodir: '. . . the programme schedules shall be drawn up so as to secure that the programmes broadcast on the Fourth Channel in Wales between the hours of 6.30 p.m. and 10.00 p.m. consist mainly of programmes in Welsh', gwelir nad oedd y newid arfaethedig yn torri unrhyw reolau a glustnodwyd ganddi, gan na chaed ynddi fynnu bod yn rhaid i'r oriau brig gael eu llenwi yn llwyr gan raglenni Cymraeg.[87] Cyn y newid patrwm hwn nid oedd y sianel yn llwyddo i lenwi'r oriau brig yn gyfan gwbl â chynnwys Cymraeg, gan y byddai gwneud hynny wedi llyncu'r cwota rhaglenni i gyd, ar draul y rhaglenni plant ac ysgolion. Gweithredu ac addasu ei harlwy o fewn y terfynau yr oedd y sianel felly, gan geisio dod o hyd i'r ateb mwyaf rhesymol ar gyfer y trafferthion a wynebid wrth geisio denu cynulleidfaoedd teilwng yn ystod yr haf. Yr oedd hwn yn berygl gwirioneddol, er hynny, gan ei fod yn agor cil drws i ddadleuon dros amseru gwell i raglenni Saesneg Channel 4, yn enwedig o ystyried y nifer o gwynion a dderbyniai'r sianel yn uniongyrchol dros y ffôn neu trwy lythyr gan wylwyr di-Gymraeg yn cwyno am amseriad rhaglenni Channel 4.[88]

Perygl arall a wynebid yn sgil y cynllun hwn oedd y tebygrwydd y gallai leihau'r gynulleidfa ymhellach yn hytrach na'i chynyddu. Gallai rhannu'r bloc Cymraeg arwain at golli'r gwylwyr hynny a ymunai â'r rhaglenni Cymraeg am saith o'r gloch, ond a fyddai'n troi at sianel arall pan fyddai rhaglen Saesneg am wyth o'r gloch, gan eu colli i'r sianeli eraill am weddill y noson. Er y peryglon hyn, gweithredwyd y cynllun yn ffurfiol yn nhymor yr haf 1984, ond ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan wylwyr.[89] Yr oedd hyn yn ymateb calonogol o ystyried parodrwydd gwylwyr i gysylltu â'r sianel i ganmol a chwyno am faterion eraill megis chwaeth ac iaith aflednais. Wedi'r amheuon cychwynnol, awgrymodd un aelod o'r Awdurdod y gallai'r amserlen newydd fod yn llawer mwy addas ar gyfer annog gwylio mewn cartrefi amlieithog. Ond amheuai aelod arall o'r Awdurdod mai newid arwynebol yn

[87] *Broadcasting Act 1981 – Chapter 68* (London, HMSO, 1981), t. 49.
[88] Ynghlwm wrth agenda wyth mis cyntaf darlledu'r sianel derbyniodd aelodau'r Awdurdod ddadansoddiad o'r galwadau ffôn a'r llythyrau a dderbyniodd y sianel yn canmol a chwyno am wahanol agweddau o'r gwasanaeth. Er nad oes ffigwr penodol yn cael ei nodi bob mis i'r nifer o gwynion a dderbyniwyd ynglŷn â lleoliad rhaglenni Channel 4 yn amserlen S4C, fe geir cyfeiriad at hyn ym mhob adroddiad a luniwyd rhwng Rhagfyr 1982 a Mehefin 1983. Yn anffodus ni cheir unrhyw adroddiadau o'r natur hwn yng nghasgliad S4C rhwng Gorffennaf 1983 a Mehefin 1984. Nid yw hynny'n golygu na luniwyd adroddiadau o'r fath, er hynny.
[89] Dienw, 'S4C woos the viewers with reshuffle of schedules', *Western Mail*, 13 Ebrill 1984; Dienw, 'English programmes a part of Spring schedule', *Television Weekly*, 20 Ebrill 1984.

unig oedd yr amseru gan ei fod ef yn pryderu llawer mwy am safon y rhaglenni na'u lleoliad o fewn yr amserlen.[90] Gan fod y sianel yn y broses o weddnewid y ffordd y cesglid a chyhoeddid ffigurau gwylio yn y cyfnod hwn, nid oes modd mesur llwyddiant y newid hwn yn natur yr amserlen mewn modd ystadegol.[91] Er hynny, un mesur o lwyddiant y patrwm newydd yw'r ffaith na ddychwelodd y sianel at ddarlledu bloc cwbl ddi-dor yn yr Hydref. Yn hytrach defnyddiwyd y patrwm a arbrofwyd ag ef yn ystod yr haf ar gyfer nosweithiau Llun a Mawrth, fel y gellid darlledu rhaglenni Cymraeg a oedd yn fwy addas i'w teledu yn hwyrach gyda'r nos ar y nosweithiau hynny.[92]

Yr oedd aelodau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru yn rhannu eu sylwadau ar raglenni'r sianel ymron ym mhob cyfarfod, ac fel yr awgrymwyd eisoes, bu ambell aelod o'r Awdurdod yn barod iawn i gyhoeddi nad oedd yn gwbl hapus â'r arlwy a welid ar S4C. Yn achlysurol hefyd yr oedd swyddogion a'r Awdurdod yn dod at ei gilydd am gyfarfodydd estynedig lle byddai trafodaethau ynglŷn â'r polisi rhaglenni a chomisiynu.[93] Yn y drafodaeth gyntaf o'i bath wedi i'r sianel ddechrau darlledu, ym Mai 1983, amlygwyd nad oedd swyddogion y sianel yn gorffwys ar eu rhwyfau gan iddynt ofyn i'r Awdurdod drafod a oedd y sianel yn llwyddo i ddefnyddio'r adnoddau a'r dalent a oedd ar gael iddi yn y modd mwyaf effeithiol ac i'w lawn botensial. Sylwadau sy'n arwydd o reolaeth dda, ac a ddengys fod swyddogion y sianel yn chwilio'n barhaus am le i wella a gwneud gwell defnydd o'u hadnoddau gymharol brin.[94] Ystyriwyd hefyd a oedd y sianel yn llwyddo i ymdeimlo â llais y genedl. Holwyd a oedd y ffaith yr ystyrid y sianel fel sefydliad cenedlaethol wedi arwain at greu gagendor rhyngddi a'i chynulleidfa, bod y statws swyddogol hwnnw ym marn y gynulleidfa wedi creu ymdeimlad nad oedd y sianel yn perthyn i'r

---

[90] CS4C, *Cofnodion nawfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 – 8 Mehefin 1984, t. 3.
[91] At hynny, os credid nad oedd y ffigurau gwreiddiol a gasglwyd yn rhai dibynadwy, mae'n amhosibl i ymchwilwyr eu defnyddio fel cymhareb deg i ffigurau haf 1984.
[92] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Gorffennaf 1984, t. 5.
[93] Yn amlach na pheidio trafodwyd y materion hyn yn ystod cyfarfodydd estynedig yr Awdurdod a drefnwyd dros ddeuddydd, gan sicrhau fod materion rhaglenni yn derbyn chwarae teg yng nghanol yr holl faterion eraill y byddai disgwyl i'r Awdurdod ymwneud â hwy. CS4C, *Troi'r misoedd yn flynyddoedd – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 – 6 Mai 1983; CS4C, *Y Sector Annibynnol – pwyso a mesur (Papur 10.83(6)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Hydref 1983.
[94] CS4C, *Troi'r misoedd yn flynyddoedd*, t. 1.

gynulleidfa bellach ac na ellid dylanwadu ar ei gweithgareddau.[95] Yr oedd hyn yn broblematig i'r sianel a hynny oherwydd yr ymdrech sylweddol a fu i geisio sicrhau ymdeimlad cartrefol a chlyd er mwyn ceisio denu a sicrhau teyrngarwch y gynulleidfa Gymraeg.[96] Gellid bod wedi osgoi'r pryderon hyn pe bai'r Awdurdod wedi mynd ati i weithredu ei gynllun ymgynghori gwreiddiol ac arloesol a drafodwyd yn ystod haf 1982 ac a fyddai wedi sicrhau bod y gynulleidfa yn dylanwadu ar bolisi'r sianel a bod y sianel yn gwrando ar eu safbwyntiau.[97] Gan na wireddwyd y cynllun hwnnw yr oedd perygl gwirioneddol bod pellter yn tyfu rhwng sianel y bobl a'i chynulleidfa.

Ymateb yr Awdurdod i'r meysydd trafod hyn oedd trafod rhinweddau nifer o *genres* penodol a'r diffygion a gaed o fewn y gwasanaeth. Casglwyd nad oedd digon o raglenni swmpus o sylwedd deallusol wedi eu creu. Yr awgrym yma oedd bod yr agwedd hon o'r gwasanaeth wedi ei esgeuluso yn yr ymdrech i ddarparu rhaglenni diddan fyddai'n denu cynulleidfaoedd mwy i'r sianel.[98] Barnwyd hefyd fod rhaglenni crefyddol da a'r doniau i'w cynhyrchu yn brin, a phenderfynwyd nad oedd ateb y gofyn hwn â chanu cynulleidfaol yn ddigonol, er gwaethaf poblogrwydd y rhaglenni hynny.[99] Agwedd sylfaenol arall o'r gwasanaeth y bu trafod arno yn rheolaidd oedd ansawdd ac arddull cyflwyno'r sianel. Yr oedd aelodau'r Awdurdod yn feirniadol iawn o'r cyflwyno a hynny oherwydd '. . . bod y cysylltu rhwng rhaglenni ar brydiau yn annerbyniol o amaturaidd, a safon y llefaru Saesneg yn anfoddhaol.'[100] Yr oedd modd cyfiawnhau'r trafferthion cynnar a gaed wrth gysylltu a sgwrsio rhwng rhaglenni trwy gyfeirio at amseru ansicr ac amrywiol rhaglenni Channel 4 a'r diffyg hysbysebion oherwydd streic undeb Equity. Yr oedd yr amgylchiadau hyn wedi creu sefyllfa anodd lle disgwylid i'r cyflwynwyr lenwi bylchau hwy na'r disgwyl trwy fynd ati i lenwi'r amser heb sgript a thrwy sgwrsio yn fyrfyfyr. Arweiniodd hyn hefyd at amseru anwadal y rhaglenni gyda nifer yn

---

[95] Ibid., t. 2.

[96] Yn anffodus, oherwydd natur fras y cofnodion o'r cyfarfod hwn, ni nodir ymateb yr Awdurdod i'r sylw hwn ym mhapur trafod y Rheolwr Rhaglenni.

[97] Caed trafodaeth helaeth ar ystyriaethau ymgynhorol y sianel ym Mhennod 2, tt. 117–21.

[98] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 – 6 Mai 1983, t. 3. Un o'r atebion i'r diffyg hwn a gynigwyd oedd y dylid gwahodd enwogion i gyflwyno darlith hanner awr ar faes penodol, gan ddilyn patrwm darlith flynyddoedd y BBC. Ni ddigwyddodd hynny.

[99] Ibid.

[100] CS4C, *Cofnodion deuddegfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Ionawr 1983, t. 3.

dechrau o flaen eu hamser neu'n hwyr, mater a oedd yn cynddeiriogi'r gwylwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn ddieithriad.[101] A chan fod y sianel wedi cyflogi dwy gyflwynwraig ifanc a newydd i'r gwaith mewn ymdrech i sicrhau wynebau newydd i'r byd teledu Cymraeg yr oedd anghysondebau o'r fath yn peri trafferthion cychwynnol, anawsterau yr oedd y staff rhaglenni'n hyderus fyddai'n lleihau wrth i'r ddwy fagu rhagor o brofiad a hyder yn eu sgiliau cyflwyno.[102] Yr oedd peth ansicrwydd hefyd am yr arddull cyflwyno a fabwysiadwyd gan y sianel, a hynny gan fod yr Awdurdod yn pryderu y gallai cyflwyno cynnes a chartrefol ymddangos yn amaturaidd ei naws ar brydiau, gan i'r Awdurdod gydnabod fod ffin denau iawn rhwng y ddau.[103] Nid yr Awdurdod oedd yr unig sefydliadau a oedd yn amau doethineb y penderfyniad o ddethol y naws cynnes ac agos atoch, gyda Phwyllgor Cymreig yr ADA a Chyngor Darlledu'r BBC yn mynegi eu pryderon hefyd mewn sawl cyfarfod, gyda'r trafodaethau ar y cyd â'r Cyngor Darlledu yn nodi bod angen i gyflwynwyr fod yn brofiadol a soffistigedig iawn o ran techneg er mwyn ymddangos yn gartrefol ac agos atoch ar y sgrin.[104] Mynegwyd barn debyg iawn mewn cyfres o erthyglau a gyhoeddwyd mewn rhifyn o *Barn*, lle gosodwyd y cyflwyno yn y golofn 'drwg' yn hytrach na'r 'da' o'u dadansoddiad o fis cyntaf y sianel gan nodi: 'Cyflwynwyr gor-glên, gor-groesawus, nawddoglyd braidd. Gwell gennyf gwrteisi dymunol ond hyd braich. S4C neu beidio, *peth* ydy'r teledu, nid cymydog ar yr aelwyd. Mynnaf yr hawl i gau eu ceg nhw a fo heb deimlo'n euog.'[105] Oherwydd y sylwadau negyddol hyn a fynegwyd yn ystod misoedd cyntaf y sianel, barnwyd i'r cyflwynwyr wrth addasu eu cyflwyno mewn ymateb i'r feirniadaeth, golli'r elfen o bersonoliaeth a fodolai cyn yr holl feirniadu. O ganlyniad erbyn diwedd 1983, yr oedd staff rhaglenni'r sianel yn mynegi y dylid ceisio ailgyflwyno'r berthynas anffurfiol gyda'r gynulleidfa, gan ddangos pa mor anodd oedd cyrraedd y man canol fyddai'n plesio pawb.[106] Er y sylwadau negyddol a gaed, yr oedd natur y cyflwyno

---

[101] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83*, t. 7.
[102] CS4C, *Minutes of the first joint meeting between the Broadcasting Council of Wales and members of Sianel Pedwar Cymru*, 18 Mawrth 1983, t. 4; Edward Morgan, 'Teledu Cymru', *Y Faner*, 3 Rhagfyr 1982.
[103] CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Chwefror 1983, t. 2.
[104] CS4C, *Nodiadau ar ail gyfarfod pwyllgor Cymreig yr ADA i drafod rhaglenni 'annibynnol' S4C*, 11 Mawrth 1983, tt. 4 – 5; CS4C, *Minutes of the first joint meeting between the Broadcasting Council of Wales and members of Sianel Pedwar Cymru*, t. 4.
[105] Dienw, 'Argraffiadau Cyntaf S4C – Y Da a'r Drwg' yn *Barn*, Rhagfyr 1982/Ionawr 1983.
[106] CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 – 2 Rhagfyr 1983, t. 3.

anffurfiol yn un o nodweddion unigryw'r sianel gan nad oedd unrhyw gynsail yn y byd darlledu Prydeinig. Gellid ei gymharu â'r arddull a ddefnyddiwyd gan raglenni brecwast TV-am a *Breakfast* ar y BBC a lansiwyd ym misoedd cyntaf 1983, ond S4C oedd y cyntaf i'w fabwysiadu i'r graddau hyn ar deledu Prydeinig, a bu'r sianel yn arddel y patrwm hwn o gyflwyno gydol y cyfnod prawf a thu hwnt.[107]

Nid y cyflwyno oedd yr unig elfen gyson o'r gwasanaeth a ysgogodd sylwadau anffafriol, derbyniodd y gwasanaeth newyddion, a ddarparwyd ar gyfer y sianel gan BBC Cymru, driniaeth nid annhebyg. Er y gystadleuaeth frwd fu ar gyfer y gwasanaeth newyddion ym 1981, gellid datgan nad *Newyddion Saith* oedd perl y ddarpariaeth yn ystod y blynyddoedd cyntaf, a hynny oherwydd yr anfodlonrwydd a fynegwyd gan y gynulleidfa wedi rhai wythnosau yn unig o ddarlledu'r rhaglen. Fel y trafodwyd eisoes, yr oedd S4C yn awyddus i'r rhaglen newyddion Gymraeg ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a chyflawn ar gyfer cynulleidfa'r sianel, gan sicrhau nad oedd rhaid i wylwyr Cymraeg droi at ddarparwyr eraill am eu newyddion. Er mwyn darparu'r gwasanaeth cyflawn hwn, byddai disgwyl i'r rhaglen gynnwys cymysgedd o newyddion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol, gan sicrhau y gallai'r Cymry dderbyn holl newyddion pwysig y dydd yn eu mamiaith. Cytunwyd ar y strategaeth hon rhwng y BBC a S4C, ond ni fu'r genedl yr un mor frwdfrydig ynglŷn â'r strategaeth newydd. Ym mis Ionawr 1983, nodwyd gan rai o aelodau'r Awdurdod bod nifer o blith eu cydnabod wedi mynegi cwynion am brinder eitemau lleol ar y rhaglen *Newyddion Saith*.[108] Parhau wnaeth yr anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth newyddion gydol 1983, gyda'r gwylwyr a'r Awdurdod yn pryderu am safon y straeon lleol ar y gwasanaeth newydd.[109] Yr oedd y cwynion yn

---

[107] Elfen nodweddiadol arall o gyflwyno S4C oedd ffyddlondeb y sianel i'r cysyniad o gyflogi wynebau ifanc a newydd i'r tim cyflwyno gyda Nia Ceidiog, Siân Lloyd a Gary Nicholas yn ymuno â Siân Thomas a Robin Jones yn ystod y blynyddoedd dan sylw. Gadawodd Rowena Jones–Thomas ym mis Chwefror 1984 i ddilyn trywydd gwahanol trwy weithio fel ymchwilydd gydag adran Adloniant Ysgafn a Phlant HTV; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.84 (4)) – Papur atodol i Agenda pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984, t. 1.
[108] CS4C, *Cofnodion deuddegfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3. Mynegwyd sylwadau tebyg yn y wasg hefyd, Glyn Evans, 'Dirywiad y Gwasnaeth Newyddion Cymraeg', *Y Cymro*, 14 Rhagfyr 1982; Dienw, ''Dim Digon o Sylw' i Newyddion Cymru', *Y Cymro*, 4 Ionawr 1983; Clive Betts, 'S4C's news under fire from Welsh-speakers', *Western Mail*, 3 Chwefror 1983; Dienw, 'What about S4C news of Wlaes, asks MP', *Western Mail*, 4 Chwefror 1983.
[109] CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2; CS4C, *Minutes of the first joint meeting between the Broadcasting Council of Wales and members of Sianel Pedwar Cymru*, t. 4; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 8.83(4)) – Papur atodol i agenda pedwerydd cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Awst 1983, t. 1.

canolbwyntio ar y diffyg cydbwysedd rhwng newyddion rhyngwladol a newyddion Cymreig. Bernid nad oedd y newyddion lleol a ddarlledwyd yn ddigon manwl, a'i fod, o bosibl, yn llai manwl na'r hyn a gaed ar y rhaglenni newyddion rhanbarthol Saesneg.[110] Dyma sylwadau a ategwyd mewn cyfres o lythyrau at S4C gan Aelod Seneddol Llafur Caerfyrddin, Dr Roger Thomas, a fynegodd ei siom fod y ddarpariaeth newyddion yn disgyn rhwng dwy stôl a'i fod yn dymuno gweld y rhaglen newyddion yn dychwelyd at y patrwm a welwyd yn y dyddiau cyn bodolaeth S4C, meddai:

> . . . criticisng most severely the totally inadequate and inappropriate way in which the fourth Welsh channel is failing its viewing audience in its coverage of what is going on in Wales.
>
> The half hour programme on weekdays and fifteen minutes on a Saturday covers in a . . . less acceptable manner events of importance and interest in Wales as compared with the days when 'Y Dydd' and 'Heddiw' were in direct competition. Then of course we had a certain degree of duplication, but at least . . . events from all corners of Wales were adequately covered and presented.
>
> We need a return to that state of affairs with a half – hour presenation of News of Wales in Welsh rather than News in Welsh.[111]

Credwyd felly fod y gynulleidfa Gymraeg ar ei cholled gyda'r gwasanaeth newydd, gan fod y Cymry di-Gymraeg yn parhau i dderbyn hanner awr o ddeunydd lleol ei natur ar y BBC ac ar HTV tra yr oedd y gynulleidfa Gymraeg, a oedd wedi hen arfer â derbyn rhaglenni newyddion a chylchgrawn a ganolbwyntiai ar ddigwyddiadau lleol ac o ddiddordeb i Gymru, bellach yn derbyn cyfran lawer yn llai o'r eitemau hyn.[112] Cwyn gyffredin arall, a fynegwyd mewn llythyr gan Dafydd Wigley at y sianel, oedd bod y sianel yn darparu potes eildwym i'w gwylwyr o ddelweddau a straeon a drosglwyddwyd ar y newyddion Saesneg heb unrhyw ddadansoddiad newydd o safbwynt Cymreig. Priodolai Dafydd Wigley'r gwendidau a'r diffygion a geid yn y gwasanaeth newyddion i'r ffaith nad oedd cystadleuaeth bellach rhwng y BBC ac HTV o safbwynt newyddion Cymraeg:

---

[110] CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

[111] CS4C, Llythyr oddi wrth Dr Roger Thomas at Owen Edwards, Chwefror 1983. Gweler hefyd, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Dr Roger Thomas, 7 Chwefror 1983 a Llythyr oddi wrth Dr Roger Thomas at Owen Edwards, 10 Chwefror 1983.

[112] Derbyniwyd cwyn gan Gyngor Gwynedd hefyd am y diffyg sylw i lywodraeth leol ar *Newyddion Saith*. Gweler CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 9.83(5)) – Papur Atodol i Agenda deugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Medi 1983.

. . . mae yna golled sylweddol ar ôl i'r egwyddor o gystadleuaeth wrth ddarparu newyddion rhwng y BBC a HTV ac yn bersonol caf yr argraff fod ochr y BBC yn teimlo y gallant orffwys ar eu rhwyfau gan nad oes dim i'w cadw ar flaenau eu traed.[113]

Anfonwyd ymateb gan S4C a oedd yn esbonio fod dyblygu deunydd gweledol yn elfen angenrheidiol o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymdrin â materion rhyngwladol a chenedlaethol. Nid oedd modd cyfiawnhau anfon criw camera arbennig i bellafoedd byd er mwyn ffilmio deunydd a delweddau yn arbennig ar gyfer *Newyddion Saith* pan yr oedd criw yno eisoes yn darparu gwasanaeth ar gyfer rhaglenni newyddion eraill y Gorfforaeth. Yr oedd defnyddio'r gwasanaeth hwnnw'n gwneud adrodd ar ddigwyddiadau rhyngwladol â llais Cymraeg a safbwynt Cymreig yn bosibl, ac yn gost-effeithiol. Nodwyd yn ogystal nad oedd yr honiadau yn gwbl gywir, oherwydd bod gan y BBC ohebwyr Cymraeg, megis Dewi Llwyd, yn adrodd ar ddigwyddiadau cenedlaethol o San Steffan gan roi gogwydd Cymreig i'w hadroddiadau. Er i'r llythyr amddiffyn y gwasanaeth yn chwyrn, cytunodd Owen Edwards â'r Aelod Seneddol bod colled ar ôl y gystadleuaeth a fu rhwng HTV a'r BBC, ond bod rhesymau dilys dros beidio atgyfodi'r gystadleuaeth honno, meddai:

Rwy'n deall yn iawn y pwynt a wnewch ynglŷn â cholli elfen o gystadleuaeth rhwng adrannau newyddion y BBC a HTV, ynghyd â'r ystyriaeth o gael mwy nag un ffynhonnell o newyddion Cymraeg er mwyn osgoi peryglon monopoli yn y maes hwn. Rhaid cofio, pan roedd y gystadleuaeth hyn yn bod, i lawer o'r gwylwyr gwyno bod hyn yn arwain at ddyblygu afradus rhwng cynnwys *Y Dydd* ac *Heddiw*.[114]

[113] CS4C, Llythyr oddi wrth Dafydd Wigley, A.S., at Owen Edwards, 6 Gorffennaf 1983. Mae'r diffyg cystadleuaeth hwn ym myd newyddion Cymraeg yn parhau hyd heddiw, gan mai'r BBC yw'r unig ddarparwr ar gyfer newyddion radio a theledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwy o amrywiaeth bellach mewn newyddion ar-lein, gyda dyfodiad gwefan Golwg 360 yn cynnig ffynhonell amgen o newyddion i siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno derbyn eu newyddion yn Gymraeg. Bu sïon yn ystod 2009 fod S4C mewn trafodaethau â Sky News er mwyn darparu ei wasanaeth newyddion. Ni chafwyd cadarnhad ffurfiol o'r trafodaethau hyn a ni welwyd unrhyw ddatblygiadau pellach. 'Cutting through the lies on S4C', *http://forums.walesonline.co.uk/viewtopic.php?f=5&t=10669*, 7 Awst 2009 [cyrchwyd Tachwedd 2010].

[114] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Dafydd Wigley, 8 Gorffennaf 1983. At hynny, noda Owen Edwards bod yn rhaid cofio i HTV dynnu ei gais i ddarlledu'r newyddion yn ôl, ac erbyn y cyfnod hwn fod y BBC wedi gwneud buddsoddiad aruthrol yn y gwasanaeth newyddion er mwyn sicrhau y gwasanaeth gorau bosibl, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i S4C ailystyried ei safbwynt o ran y gwasanaeth newyddion.

Yn ddiddorol iawn, mae llythyrau Dafydd Wigley a Roger Thomas yn eu hymwybyddiaeth o'r dyblygu deunydd a geid rhwng y rhaglenni newyddion Saesneg a *Newyddion Saith* yn amlygu patrwm gwylio yr ymddengys nad ystyriwyd wrth lunio'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg. Diau yr anwybyddwyd y posibilrwydd i batrwm gwylio lle yr oedd cynulleidfaoedd Cymraeg yn parhau i droi at y rhaglenni newyddion Saesneg am eu dogn o newyddion cenedlaethol a rhyngwladol cyn troi at yr arlwy Cymraeg. Canlyniad hyn, yng ngeiriau'r Dr Roger Thomas oedd, '. . . fod y gwylwyr hyn eisoes yn gyfarwydd â'r eitemau o'r tu allan i Gymru a gyflwynir ar 'Newyddion Saith'.'[115] Yr awgrym a geir yma felly oedd mai troi at *Newyddion Saith* am eu newyddion lleol yr oedd y gynulleidfa Gymraeg yn hytrach nag er mwyn caffael newyddion rhyngwladol a chenedlaethol. Yr oedd y Cymry Cymraeg yn parhau'n deyrngar i'r rhaglenni newyddion Prydeinig a oedd wedi eu sefydlu ym mhatrymau gwylio'r gynulleidfa Gymreig ers degawdau. Yr oedd brwydr sylweddol felly gan S4C a'r BBC i geisio perswadio'r gynulleidfa Gymraeg i weddnewid ei phatrymau gwylio a throi at *Newyddion Saith* am eu holl anghenion newyddiadurol.

Wrth dafoli'r sylwadau uchod, daeth swyddogion Cyngor Darlledu'r BBC ac Awdurdod S4C i'r casgliad fod gwylwyr yn gwneud cymhariaeth rhwng y gwasanaeth Cymraeg a Saesneg gan y cai *Newyddion Saith* ei ddarlledu yn fuan ar ôl *Wales Today*, a chan fod disgwyliadau ymysg y gynulleidfa y byddai'r ddwy raglen yn trin a thrafod deunydd tebyg, credid fod y rhaglen newyddion Gymraeg ar ei cholled.[116] Yr awgrym a geir o'r sylw hwn felly, oedd y dylid addasu amseriad y rhaglen gan unai ei darlledu mewn cystadleuaeth â *Wales Today* neu ei darlledu'n gynharach yn y nos neu'n hwyrach yn y nos. Er bod yr awgrym yn un synhwyrol, yr oedd nifer o resymau ymarferol a oedd yn pennu mai am saith o'r gloch yr hwyr y darlledid y rhaglen newyddion Gymraeg. Byddai'n amhosib darlledu *Newyddion Saith* ar yr un pryd â *Wales Today* a hynny gan fod y ddwy raglen yn defnyddio llawer o'r un adnoddau technegol. At hynny, yr oedd cael gwasanaeth newyddion a oedd yn dechrau am saith o fudd i S4C, gan ei fod yn dynodi dechrau'r rhaglenni Cymraeg yn amserlen y sianel. Byddai darlledu'r rhaglen yn gynharach yn golygu y

[115] CS4C, Llythyr oddi wrth Dr Roger Thomas at Owen Edwards, 10 Chwefror 1983, t. 1; Eleri Rogers, 'Ysu am glecs cymdogol', *Y Cymro*, 25 Ionawr 1983.
[116] CS4C, *Minutes of the first joint meeting between the Broadcasting Council of Wales and members of Sianel Pedwar Cymru*, tt. 3–4.

byddai'n rhaid cael bwlch Saesneg mwy yn ystod y ddarpariaeth Gymraeg, neu byddai'n rhaid i'r rhaglenni Cymraeg ddod i ben ynghynt.[117] Gellid awgrymu y dylai'r sianel newydd fod wedi ystyried addasu ei strategaeth newyddion trwy sicrhau bod mwy o newyddion lleol yn cael ei gynnwys yn y rhaglen, yn enwedig o ystyried bod yr anfodlonrwydd yn dechrau arwain at leihad yn y ffigurau gwylio ar gyfer y sianel.[118] Ond yn ystod y cyfnod hwn yr oedd cred, ymysg penaethiaid S4C a'r BBC bod y strategaeth ganolog o ddarparu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr yn gywir.[119] Mynegodd Geraint Stanley Jones, er enghraifft, mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor Darlledu ac Awdurdod S4C, fod y cysyniad gwreiddiol o ddarparu gwasanaeth newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn 'vital to the concept of S4C.'[120] Oherwydd y gred ddiysgog hon, dyfalbarhaodd y BBC a S4C gyda'r ethos o ddarparu rhaglen newyddion gynhwysfawr, aml-haenog. Ac o ystyried y gwasanaeth newyddion a ddarperir ar y sianel heddiw, bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, fe ellir cyfiawnhau agweddau cadarn y swyddogion, gan fod y patrwm hwnnw o adrodd ar ddigwyddiadau'r dydd, boed y rheini'n lleol, cenedlaethol neu'n rhyngwladol, wedi ennill ei blwyf a goroesi hyd heddiw. Gellid cymharu agwedd swyddogion S4C, eu bod yn gwbl argyhoeddedig mai eu gweledigaeth hwy o wasanaeth newyddion cynhwysfawr oedd yr ateb iawn i'r sianel hyd yn oed wrth i'r gynulleidfa fynegi'r gwrthwyneb, i'r agwedd batriarchaidd honno a arddelwyd gan John Reith tuag at y gynulleidfa yn nyddiau cynnar y BBC a darlledu cyhoeddus. Agwedd a grisialwyd yn natganiad enwog Rheolwr Gyfarwyddwr cyntaf y BBC pan ddywedodd:

> It is occasionally represented to us that we are apparently setting up to give the public what they think they need, and not what they

---

[117] Ibid. Fel y trafodwyd eisoes bu'r Awdurdod yn barod i addasu patrwm y bloc Cymraeg, ond yr un elfen a fu'n gyson trwy'r cyfnan oedd amser dechrau'r cyfnod Cymraeg, sef saith o'r gloch.

[118] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Hydref 1983, t. 2.

[119] Cytunai rhai gwylwyr â'r strategaeth er y cwynion, E Dyfed, 'Gadewch inni drin y byd yn Gymraeg', *Y Cymro*, 1 Chwefror 1983.

[120] Ibid. Er y cytundeb a welwyd ar y strategaeth, yr oedd yr anfodlonrwydd hwn a'r ffigurau gwylio isel yn creu tensiwn rhwng staff y BBC a S4C. Yr oedd S4C yn mynnu gweld gwellhad yn safon y rhaglen, ond teimla swyddogion y BBC'n amddiffynnol o'r rhaglen newyddion a gynhyrchwyd ganddynt, gan nad oeddent yn cytuno â'r farn fod y rhaglen yn un wael. Caed trafodaeth fanwl rhwng y ddwy garfan mewn cyfarfod ar y cyd o'r Cyngor Darlledu a'r Awdurdod ym mis Hydref 1983 er mwyn gwyntyllu'r problemau. Trafodwyd camau y gellid eu gweithredu er mwyn gwella'r rhaglen, gan gynnwys addasu'r amser darlledu. Ond dim ond newidiadau bychain y gellid eu gweithredu mewn cyfnod byr, gan na ellid gwneud unrhyw newidiadau radical i batrwm y rhaglen tan o leiaf 1984–85. CS4C, *Cofnodion yr ail gyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor ac aelodau o Sianel Pedwar Cymru*, 21 Hydref 1983, tt. 1–4.

want, but often they do not know what they want and very few what they need.[121]

Agwedd arall o'r gwasanaeth a oedd yn destun beirniadaeth oedd y diffyg yn y ddarpariaeth ar gyfer carfannau amrywiol, yn enwedig dysgwyr.[122] Yr oedd y sianel yn ymwybodol bod nifer o bobl wedi mynd ati i ddysgu'r iaith oherwydd dyfodiad y sianel, ond oherwydd cyfuniad o benderfyniadau polisi a thrafferthion technegol nid oedd S4C wedi llwyddo i ddiwallu eu hanghenion yn ôl y llythyrau a anfonwyd at y sianel.[123] Yr oedd rhai o'r cwynion cyntaf a dderbyniwyd gan S4C yn cyfeirio at y diffyg darpariaeth i ddysgwyr, ac ar wahân i'r rhaglen *Gair yn ei Bryd*, rhaglen ychydig funudau o hyd a gaed ar ddechrau'r bloc darlledu cyn *Newyddion Saith,* nid oedd darpariaeth ar gyfer y garfan hon o'r gynulleidfa.[124] Ar ddechrau ei hanes yr oedd rheolwyr y sianel o'r farn mai cyfrifoldeb HTV a'r BBC oedd darparu rhaglenni ar gyfer dysgwyr a hynny o fewn eu hamserlenni eu hunain. Yr oedd S4C yn gwahaniaethu rhwng gallu ieithyddol y gwahanol ddysgwyr, credid mai HTV a'r BBC ddylai ddarparu'r gwasanaeth ar gyfer dysgwyr dibrofiad, ac mai swyddogaeth S4C oedd darparu cynnwys ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd yn 'croesi'r bont' ac angen hwb bychan er mwyn mwynhau'r cynnwys Cymraeg ar y sianel.[125] Yr oedd y sianel yn amau doethineb darlledu rhaglenni i ddysgwyr newydd o fewn y ddwy awr ar hugain, gan y byddai hynny'n lleihau'r nifer o oriau a ddarlledwyd ar gyfer y Cymry Cymraeg. Cyfaddawd posibl oedd y bwriad o geisio ailddarlledu nifer o raglenni gyda thechnoleg is-deitlo, er bod swyddogion y sianel yn ymwybodol nad oedd hynny yn ateb yr angen am raglenni addas a pherthnasol i ddysgwyr.[126] Mae'r agwedd hon yn dangos mai diffiniad cyfyng iawn o Gymry Cymraeg a arddelwyd gan y sianel yn ei blynyddoedd cynnar. Yn wir, gydol y cyfnod paratoi'r sianel arddelwyd y cysyniad o 'Mrs Jones, Llanrug', gan Owen Edwards yn enwedig, fel

[121] Kevin Williams, *Get me a murder a day!* (London, 1998), t. 94

[122] CS4C,*Cofnodion unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5–6 Mai 1983, t. 3; Trefor Jones et al., 'Llythyr agored at Owen Edwards S4C', *Y Faner*, 22 Mai 1984.

[123] CS4C, *Troi'r misoedd yn flynyddoedd*, t. 2.

[124] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 15.82(4)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Rhagfyr 1982, t. 1. Yn un o gyfarfodydd diweddarach yr Awdurdod fe awgrymwyd y gellid priodoli peth o'r bai am y ffigurau isel a gaed ar ddechrau'r bloc darlledu Cymraeg i'r rhaglen hon ar gyfer dysgwyr, gyda'r awgrym yn amlwg bod ei natur yn gwthio gwylwyr Cymraeg i freichiau y sianeli eraill; CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4.

[125] Yr oedd *Gair yn ei Bryd* felly'n addas iawn ar gyfer y polisi hwn; CS4C, *Nodiadau ar ail gyfarfod pwyllgor Cymreig yr ADA i drafod rhaglenni 'annibynnol' S4C*, t. 4.

[126] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 15.82(4))*, t. 1.

llaw-fer er mwyn cyfeirio at y gynulleidfa Gymraeg yr oedd y sianel am sicrhau ei bod yn apelio ati.[127] Yn un o'i amryfal anerchiadau i gymdeithasau a sefydliadau ledled Cymru yn ystod misoedd cynnar ei swydd aeth y Cyfarwyddwr ym mhellach trwy geisio diffinio pwy oedd y Cymro Cyffredin, ac felly cynulleidfa darged y sianel. Meddai:

> . . . falle ei bod hi'n haws ceisio dweud be na ydy' o. Dydy o ddim yn debyg i fod yn darllen papur Cymraeg, ag eithrio papur bro, dydy o ddim yn debyg i fod yn gapelwr neu eglwyswr, ac mewn capel ac Ysgol Sul yr oedd y rhan fwyaf o'r dysgu darllen Cymraeg, dydy o ddim yn debyg o fod yn teimlo'n gry' am yr iaith, dydy o ddim yn debyg o fod yn ifanc – mae cyfartaledd llawer uwch o'r boblogaeth Gymraeg yr hen nac o'r boblogaeth yn gyffredinol – mae ei Gymraeg, ysywaeth, yn debyg o fod yn fratiog, dydy o ddim yn deall geiriau mawr Cymraeg bydde'n 'i ddieithrio, ac mae o wedi'i gyflyrru i dderbyn ei adloniant trwy gyfrwng y Saesneg, ac mae fwy na thebyg o leiaf un aelod o'r tŷ lle mae'n byw yn ddi-Gymraeg.[128]

Nid oedd dysgwyr yn rhan o'r ddelwedd honno felly, er bod y di-Gymraeg yn ymddangos yn y diffiniad. Yr oedd problem sylfaenol gyda'r agwedd a arddelai swyddogion y sianel mai cyfrifoldeb y darlledwyr Cymreig eraill oedd darparu arlwy ar gyfer dysgwyr cwbl newydd, a hynny gan nad oedd yn cydnabod y tensiynau a ellid eu gweld yn ail godi ymysg y gynulleidfa ddi-Gymraeg. Pe byddai HTV a'r BBC yn darlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod eu hamserlen, hyd yn oed os oedd y rhaglenni hynny wedi eu hanelu at y Cymry di-Gymraeg, byddai'r anfodlonrwydd cyfarwydd yn ailymddangos a hynny oherwydd y disgwyl ymysg y gynulleidfa hon fod rhaglenni Cymraeg wedi eu diarddel am byth oddi ar y prif sianeli. Mynegwyd pryderon gan Bwyllgor Cymreig yr ADA y gallai'r rhaglenni hyn atgyfodi nifer o'r teimladau cas hynny a leddfwyd trwy sefydlu S4C.[129] Yr oedd dysgwyr yn disgyn rhwng dwy stôl a tri darlledwr felly, gyda phob un yn honni mai cyfrifoldeb y llall oedd darlledu rhaglenni ar eu cyfer. Diddymwyd *Gair yn ei Bryd* o'r amserlen ar ddechrau 1984, a mynegwyd bwriad i lenwi'r gofod â rhaglen galendr gyffredinol fyddai'n addas ar gyfer y gynulleidfa gyfan, yn hytrach na rhaglen newydd i

[127] Cyfweliad yr awdur gydag Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 26 Ionawr 2007.
[128] CS4C, *Anerchiad i Arolygwyr, Prifathrawon a Phenaethiaid Adrannau Ysgolion Uwchradd Cymraeg yn Aberystwyth*, 1 Gorffennaf 1981, t. 6.
[129] CS4C, *Nodiadau ar Drydydd Cyfarfod Pwyllgor Cymreig yr ADA i drafod rhaglenni 'annibynnol' S4C*, 22 Ebrill 1983, tt. 5–6.

ddysgwyr.[130] Ni chafwyd trafodaethau sylweddol ymddengys ar y ddarpariaeth i ddysgwyr tan y cyfarfod rhwng Cyngor Darlledu Cymru'r BBC â S4C ym Mawrth 1984.[131] Yno caed newid sylweddol yn yr agwedd tuag at raglenni i ddysgwyr gan fod trafodaethau wedi eu cynnal yn y cyfamser rhwng swyddogion y BBC a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a chan fod y BBC wedi gwneud addewid yn y cyfarfod hwnnw i sicrhau darpariaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg.[132] Canlyniad y trafodaethau hyn oedd tro pedol sylweddol yn agwedd y sianel tuag at raglenni i ddysgwyr. Gwyrdrowyd y polisi gwreiddiol a darlledwyd rhaglen i ddysgwyr, sef *Sioe Siarad*, am y tro cyntaf ym misoedd Chwefror a Mawrth 1985.[133] Daeth cyfaddawd hefyd o du'r BBC, gan i'r rhaglen gael ei hailddarlledu yn ystod yr un wythnos ar BBC Wales, gan geisio sicrhau fod y ddarpariaeth ar gael i gynulleidfa ehangach.[134] Darlledwyd ail gyfres o *Sioe Siarad* ym 1985–6 , er nad oedd y gyfres gyntaf wedi denu cynulleidfa sylweddol, ymrwymiad sy'n dangos bod agwedd y sianel i'r garfan hon o'i gwylwyr wedi newid yn llwyr yn ystod ei blynyddoedd yn darlledu. Ategir hyn hefyd gan y sylwadau a geir yn adroddiad blynyddol 1985–6:

> Bu datblygiad mawr yn y ddarpariaeth i ddysgwyr yn ystod y flwyddyn . . . Sylweddolwyd mai man cyswllt â'r iaith yn anad dim yw S4C ac wrth gyflawni'r prif nod o wasanaethu'r Cymry Cymraeg 'roedd nifer o raglenni o ddefnydd i ddysgwyr ar wahanol lefelau. Cysylltwyd â phrosiect 'Dysgu o Hirbell' yr Uned Iaith Genedlaethol ym Mhontypridd a chydweithiwyd ar becyn geirfa rygbi fyddai ar gael i helpu gwylwyr *Y Maes Chwarae* yn ystod tymor 1986/87.[135]

[130] CS4C, *Strategaeth Rhaglenni – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Rhagfyr 1983, t. 3.
[131] CS4C, *Minutes of the third joint BCW/S4C meeting*, 16 Mawrth 1984.
[132] Ibid. t. 6. Er yr addewid hwn, mynegwyd unwaith yn rhagor amheuon ynglŷn â rôl darlledwyr yn maes dysgu Cymraeg. Holwyd ai darparu ysgogiad i fynychu cyrsiau oedd nod rhaglen deledu, neu ddarparu cwrs cyflawn? Ni cheir tystiolaeth i'r aelodau ddod i unrhyw gasgliad terfynol ar y mater hwn.
[133] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984/85*, t. 8. Yr oedd *Sioe Siarad* yn rhoi gwersi Cymraeg llawer mwy ffurfiol trwy ddarlunio sefyllfaeoedd pob dydd a sut i ddefnyddio'r Gymraeg ynddynt, yn wahanol i *Gair yn ei Bryd* a gyfeiriai at eiriau anodd eu deall yn arlwy'r noson honno. At hynny, byddai deunyddiau cefnogol ar gael i gyd fynd â'r gwersi ynghyd â deunydd atodol yn *Sbec*; CS4C, *Nodiadau ar wythfed cyfarfod Pwyllgor Cymreig Awdurdod Darlledu Annibynnol i drafod rhaglenni 'annibynnol' S4C*, 2 Tachwedd 1984, t. 4; Dienw, 'Cyfle i'r dysgwyr siarad', *Y Cymro*, 12 Mawrth 1985, t. 2.
[134] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984/85*, t. 8. At hynny, cynhyrchwyd tâp fideo o'r cwrs a llyfryn i gyd-fynd â'r darllediadau gan adain fasnachol S4C, Mentrau, a'i werthu i'r cyhoedd am bris o £26.50; CS4C, *Draft minutes of the twenty-sixth directors' meeting of Mentrau Cyf*, 10 Ebrill 1985, t. 89. Cynhyrchwyd cofnodion Mentrau yn Saesneg gan mai Chris Grace a oedd yn arwain y cwmni, at hynny rhifwyd tudalennau'r cofnodion mewn modd di-dor o'r cyfarfod cyntaf, sy'n esbonio'r rhif uchel a nodir uchod.
[135] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 16.

Mater arall a oedd yn ymwneud ag iaith fu'n denu sylw'r Awdurdod a staff y sianel ers dyddiau cynnar y darlledu, oedd y defnydd o Saesneg a gaed mewn rhaglenni Cymraeg.[136] Trafodwyd yr angen i unrhyw ganllawiau a roddid i'r cynhyrchwyr sicrhau bod ganddynt y rhyddid golygyddol i benderfynu pa gywair iaith fyddai'n gweddu i'r rhaglenni dan sylw. Er hynny pwysleisiwyd: '. . . bod cynhyrchwyr i gadw mewn cof mai hanfod y rhaglen oedd ei bod yn Gymraeg a bod yn rhaid bod cyfiawnhad clir yng nghyswllt cynnwys y rhaglen cyn defnyddio cyfweliadau Saesneg.'[137] Ymddengys y darlledwyd rhaglenni yn ystod y mis cyntaf nad oedd wedi glynu at yr egwyddor hon, a derbyniwyd un ar ddeg o gwynion gan y cyhoedd am y gorddefnydd o Saesneg yn *Elinor yn Ewrob* a rhaglenni eraill nid annhebyg megis *Now a fi yn Nashville*.[138] Gellid deall pam fod y cynnwys Saesneg yn gymharol uchel yn y rhaglenni hyn gan eu bod yn ymwneud â theithio i wledydd tramor lle mai Saesneg fyddai'r iaith gyffredin. Trosleisio unrhyw gyfweliadau i'r Gymraeg fyddai'r ateb yn yr achosion hynny, yn dilyn y patrwm a sefydlwyd gan raglen agoriadol y sianel wrth iddi drosleisio lleisiau Bjorn Borg ag eraill. Un rhaglen a ysgogodd fwy o ymateb negyddol ar y mater hwn, a lle fyddai trosleisio wedi bod yn gwbl anymarferol ac annymunol, oedd y ddrama heddlu *Bowen a'i Bartner* a gynhyrchwyd gan y BBC.[139] Yr oedd y rhaglen yn trin a thrafod bywyd heddweision a throseddwyr yn y brifddinas, ac er mwyn darparu darlun credadwy o'r byd hwnnw defnyddiwyd cyfuniad o Gymraeg a Saesneg yn y sgript. Cafwyd ymateb chwyrn i'r rhaglen mewn cyfarfod cyhoeddus yng Nghaerfyrddin ym Mawrth 1985 ac anfonwyd llythyrau at S4C a'r BBC gan Wynfford James ar ran Cymdeithas yr Iaith yn gofyn i'r ddau sefydliad am eu polisi ar y mater hwn.[140] Yr

---

[136] E. Dyfed, 'Difwyno'r 'dorth' gyda'r iaith fain', *Y Cymro*, 18 Ionawr 1983.
[137] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Rhagfyr 1982, t. 2. Gan mai cyfweliadau y cyfeirir atynt yn y drafodaeth hon, ymddengys y bu'r Awdurdod yn cyfeirio at newyddion, a rhaglenni ffeithiol eu natur, yn hytrach na dramâu. Cofia Euryn Ogwen Williams hefyd y bu rhai trafferthion cychwynnol i'r perwyl hwn gyda'r rhaglenni ffeithiol. Cyfweliad yr awdur gydag Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 23 Chwefror 2007.
[138] CS4C, *Sylwadau ar y gwasanaeth, Tachwedd 27 1982 – Ionawr 3 1983 – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Ionawr 1983; CS4C, *Sylwadau ar y gwasanaeth, Ebrill 5 – Mai 3 1983 – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5–6 Mai 1983; Wynfford James, 'Cyfweliad Saesneg gwasaidd', *Y Faner*, 18 Mawrth 1983.
[139] Nid oedd yr holl ymateb i'r gyfres yn negyddol nac yn gwynfanus: Eric Wyn, 'Adloniant Ysgafn Cymru yn symud gyda'r oes', *Y Faner*, 1 Mawrth 1985, t. 21; Glyn Môn Jones, 'In Downtown Cardiff', *Western Mail*, 2 Mawrth 1983.
[140] CS4C, *Minutes of the joint meeting between the Broadcasting Council of Wales and members of Sianel Pedwar Cymru*, 15 Mawrth 1985, t. 2.

ymateb a gafwyd gan y BBC, ac a gadarnhawyd gan swyddogion S4C, oedd nad oedd rheolau cadarn ar y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg, ac nad oedd y sefydliadau yn dymuno gosod rheolau haearnaidd ar y mater hwn yn enwedig ym maes cynyrchiadau dramatig. Teimlid bod cynhyrchwyr a sgriptwyr yn llawn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio cyn lleied â phosib o Saesneg o fewn cynyrchiadau Cymraeg. Yn yr un drafodaeth pwysleisiodd Cadeirydd S4C nad oedd holl wylwyr y sianel yr un mor rhugl â'i gilydd, a bod disgwyl i'r sianel geisio apelio at amrediad eang o wylwyr er mwyn llwyddo yn ei chyfrifoldebau.[141] Trwy geisio apelio at gynulleidfa iau ac ehangach a chreu portread dilys a chredadwy o fyd y brifddinas yr oedd y sianel yn derbyn cwynion rif y gwlith gan y gynulleidfa graidd, nad oedd am weld y gwasanaeth yn cael ei lygru gan fratiaith a'r gorddefnydd o Saesneg. Bu'r ystyriaethau hyn yn boen meddwl i'r sianel hefyd yn ystod yr 1990au ac wrth i'r mileniwm newydd fynd rhagddo. Bu'r *Faner Newydd* a Chylch yr Iaith a'i haelodau megis Dr Meredydd Evans a Dr Eirwen Gwynn yn gwrthdystio yn erbyn polisi swyddogol y sianel ynglŷn â'r defnydd o Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg, a'u gwrthwynebiad chwyrn i'r rhaglen *Heno* a oedd wedi ei hanelu at wylwyr Cymraeg 'ysgafn' ac a fu yn ôl cyhuddiad y Cylch yn gyfrifol am gyflwyno rhagor o Saesneg a bratiaith i arlwy'r sianel.[142]

Ond nid gorddefnydd o Saesneg oedd yr unig fater ieithyddol a oedd yn ennyn pryder ymysg gwylwyr y sianel yn ystod y cyfnod prawf, derbyniwyd ambell lythyr hefyd yn achwyn am safon y Gymraeg a ddefnyddiwyd ar amryw o raglenni megis y ddrama *Coleg,* bratiaith ar *Newyddion Saith* ac ansawdd yr iaith a'r defnydd o idiomau Saesneg gan rai o gyflwynwyr adran gyflwyno y sianel.[143] Yr oedd rhai gwylwyr yn ystyried mai rôl y sianel oedd cynnal safonau a dyrchafu'r iaith Gymraeg yn hytrach nac adlewyrchu patrymau iaith naturiol a bod mor gynhwysol â

[141] Ibid., t. 3.

[142] Nid gwrthdystio yn erbyn S4C yn unig yr oedd Cylch yr Iaith, ond y defnydd cynyddol o recordiau Saesneg a bratiaith ar raglenni Radio Cymru hefyd. Meredydd Evans, *Cloffi rhwng dau feddwl: darlledu Cymraeg heddiw* (Cylch yr Iaith, 2004); Meredydd Evans, 'Ein cynhesgaeth ni', *Y Faner Newydd*, Rhif 20, Gaeaf 2001; Helga Martin, 'Gwneud safiad yn erbyn Saesnigio S4C a Radio Cymru – buddigoliaeth i Gylch yr Iaith', *Y Faner Newydd*, Rhif 37, 2006.

[143] CS4C, *Sylwadau ar y gwasanaeth, Ionawr 4 1983 – Ionawr 27 1983 – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Chwefror 1983; CS4C, *Sylwadau ar y Gwasanaeth, Mawrth 1 – Ebrill '83 – Papur Atodol i Agenda pumed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ebrill 1983. CS4C, Llythyr oddi wrth Robin Llwyd ab Owain at Owen Edwards, Gŵyl Fai 1986; Iwan Edgar, 'Gormod o 'Mericianrwtsh Melltigedig ar y Sianel', *Y Faner*, Chwefror 1984, t. 12.

phosib trwy ddefnyddio iaith fyddai'n ddealladwy i garfanau ehangach o'r gymdeithas Gymraeg. Er hyn, yr oedd cywirdeb yn parhau'n sylfaen i'r gwasanaeth, fel y dengys ymateb Owen Edwards i gŵyn gan wyliwr am ddefnydd un cyflwynydd o'r idiom Saesneg 'marw allan', gan iddo sicrhau'r gwyliwr y byddai'n mynnu fod defnydd o'r ymadrodd yn diflannu o sgriptiau'r uned gyflwyno.[144]

Yr oedd natur dafodieithol yr iaith Gymraeg hefyd yn peri peth trafferthion i'r sianel. Yn wir, fis yn unig wedi cyfarfod cyntaf yr Awdurdod ym 1981, derbyniwyd llythyr hir a manwl gan J. Idris Evans, cyn-aelod o staff adran rhaglenni'r BBC oedd wedi ymddeol ers degawd a mwy, yn datgan bod angen i'r sianel ffurfio polisi cryf a chadarn ar faterion ieithyddol. Cynghorodd y dylai'r sianel ffurfio pwyllgor er mwyn ystyried egwyddorion ieithyddol ac i fathu geiriau newydd lle bo'r angen er mwyn sicrhau cysondeb a gochel rhag mympwy cynhyrchwyr.[145] Un o'r agweddau a drafodwyd yn fanwl yn llythyr J. Idris Evans oedd y defnydd helaeth o eiriau nad oedd yn ddealladwy i bob ardal yng Nghymru, geiriau megis 'pry genwair', 'llwgu', 'cymowtan', 'ffêr' a 'twmffat'. Yr oedd yr awdur yn argyhoeddedig bod gorddefnydd o eiriau tafodieithol yn peri i aelodau o'r gynulleidfa wneud penderfyniad greddfol i beidio gwylio rhaglenni lle gwelid eu defnydd.[146] Enghreifftiau o eiriau tafodieithol y gogledd yn unig a geir yn y ddogfen, ac er i'r adroddiad gydnabod bod tafodiaith ddeheuol yn arwain at ymateb tebyg, cynnigia Evans mai problem oedd hon a oedd yn debygol o godi os ceid y twf arfaethedig yn nifer y cynhyrchwyr annibynnol o Wynedd a weithiai ar gyfer y sianel. Bedyddiwyd y broblem hon yn 'broblem Dyfed' neu 'ffactor Dyfed' ymysg aelodau'r Awdurdod yn y trafodaethau mewnol a'r sgyrsiau ar y cyd â'r darlledwyr eraill.[147] Sylweddolai swyddogion S4C a'r BBC bod tuedd amlwg tuag at Ogledd Cymru yn rhaglenni'r sianel, a hynny yn bennaf oherwydd cynyrchiadau'r cwmnïau annibynnol a glystyrid yn Arfon a rhaglenni HTV a gynhyrchwyd yn stiwdio'r darlledwr yn yr Wyddgrug, a'r prinder cwmnïau annibynnol a oedd wedi ffurfio yn y canolbarth a de-orllewin Cymru. Caed yr argraff bod y broblem yn waeth nag yr oedd mewn gwirionedd

---

[144] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Robin Llwyd ab Owain, 16 Mai 1986.
[145] CS4C, Llythyr oddi wrth J. Idris Evans at Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, 25 Chwefror 1981, tt. 1–9.
[146] Ibid., t. 2.
[147] Daeth yn amlwg fod lleisiau cymunedau Dyfed yn y lleiafrif ar y sianel ac o'r herwydd yr oedd pryderon y gellid dieithrio'r cymunedau hynny.

oherwydd diffyg cynllunio synhwyrol a olygai fod cyflwynwyr gydag acen ogleddol yn ymddangos ar raglenni a oedd yn trin materion perthnasol i'r ardaloedd deheuol. Credwyd fod enghreifftiau fel hyn yn arwain at ddiffyg diddordeb gwylwyr nad oedd yn gwbl ymroddedig i ddiwylliant Cymraeg a Chymreig ac a fyddai'n gwylio rhaglenni Cymraeg doed a ddelo. Trafodwyd gyda'r BBC a ddylid ceisio apelio yn uniongyrchol at Gymry 'cymharol llugoer', gan geisio ymestyn y ddarpariaeth fyddai o ddiddordeb iddynt y tu hwnt i'r rhaglenni *Dechrau Canu Dechrau Canmol* a *Pobol y Cwm*.[148] Cytunwyd bod angen gweithredu ar y mater hwn, ond ni cheir unrhyw awgrym o'r camau a fwriedid eu gweithredu o'r ddwy ochr er mwyn sicrhau lleddfu'r broblem. Ni lwyddwyd i ateb y gofyn yn ystod cyfnod prawf y sianel ac yr oedd yr ystyriaethau hyn yn parhau yn berthnasol pan ymunodd Geraint Stanley Jones fel Prif weithredwr ym 1989. Yn ystod ei gyfnod fel prif weithredwr comisiynwyd y rhaglen *Heno* i apelio'n uniongyrchol at gynulleidfaoedd yn y de-orllewin nad oedd yn gwylio S4C yn gyson, ac y teimlid y gellid eu rhwydo i wylio rhagor o raglenni'r sianel pe llwyddid i'w denu dros y trothwy.[149] Yr oedd sicrhau arlwy a oedd yn apelio at yr amryfal garfannau gwahanol o'r gymdeithas Gymreig yn sialens sylweddol i'r sianel, ac fel y dengys y drafodaeth hon nid oedd y sianel yn llwyddo bob tro i ateb y gofyn o'r cychwyn cyntaf yn ystod y cyfnod prawf.

Wedi'r brys aruthrol i sicrhau bod y sianel yn barod i ddechrau darlledu yn ddiffael ar 1 Tachwedd 1982, nid fu amser i swyddogion, staff nac Awdurdod y sianel gymryd hoe. Cofia'r staff eu bod wedi llwyr ymladd, ond parhai'r sianel Gyrmaeg gyflwyno sialensiau i'r swyddogion ymdrin a hwy a'u datrys. Wedi'r trafod a'r cynllunio, yr oedd y cyfnod darlledu yn gyfle i weld a oedd yr amserlen, y rhaglenni, y cyflwynwyr a'r elfennau eraill i gyd yn gweithio. Mewn sawl achos bu'n rhaid addasu, ailystyried ac ailweithio'r cynlluniau gwreiddiol, mewn achosion eraill bu'r sianel yn dyfalbarhau â rhai egwyddorion, hyd yn oed wrth i'r gynulleidfa fynegi ei hanfodlonrwydd, yn ffyddiog ac yn hyderus y byddai'r gymdeithas Gymreig yn ymgyfarwyddo gyda'r anghyfarwydd ac yn newid eu safbwyntiau ymhen amser. Ni allai'r sianel aros yn ei hunfan, gyda arolwg y Swyddfa Gartref ar y gorwel, yr oedd

[148] CS4C, *Cofnodion yr ail gyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor Darlledu ac aelodau o Sianel Pedwar Cymru*, tt. 4–5.
[149] Yr oedd Geraint Stanley Jones yn dod yn wreiddiol o Gwm Tawe a teimlai bod carfan sylweddol o'r gymuned Gymreig nad oedd yn gwylio'r sianel ac y dylid darparu rhaglen addas er mwyn apelio atynt. Cyfweliad yr awdur gyda Geraint Stanley Jones, Caerdydd, 10 Tachwedd 2008.

hi'n angenrheidiol er parhad y sianel i'r swyddogion a'r Awdurdod ymateb i'r ffigurau gwylio a gwrando ar sylwadau'r gynulleidfa ac addasu'r gwasanaeth er gwell.

## Pennod 5

## Mentrau ariannol – sicrhau telerau teg ac ehangu i feysydd newydd

I sicrhau llwyddiant a pharhad S4C, yr oedd yn rhaid i'r sianel a'i swyddogion fynd ati i greu argraff, nid yn unig ar y gynulleidfa Gymraeg ond hefyd ar wleidyddion San Steffan a fyddai'n penderfynu'n derfynol ar ei dyfodol. Yr oedd angen gwneud y sianel Gymraeg newydd yn elfen anhepgor o'r tirlun darlledu Cymraeg ac yn rhan hollbwysig o dirlun diwylliannol ac economaidd Cymru. Gwyddai swyddogion ac Awdurdod S4C am yr angen i'r sianel wneud mwy na comisynu rhaglenni er mwyn sicrhau ei dyfodol a chreu yr argraff angenrheidiol, ac aethpwyd ati i weithredu strategaeth a fyddai'n gwreiddio'r sianel yn nwfn yng ngwead Cymru. Er mwyn gwireddu'r cynlluniau uchelgeisiol hyn, ac er mwyn sicrhau y gallai'r sianel barhau i ddarparu elfennau craidd y gwasanaeth, yr oedd angen cadarnhau arian teilwng yn flynyddol gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol a rhwydwaith ITV. Bwriad y bennod hon felly yw olrhain a dadansoddi trafodaethau arianol y sianel â'r ADA a'r gweithgareddau economaidd ychwanegol y bu S4C yn ymwneud â hwy ac a fu'n gymaint rhan o lwyddiant cyfnod prawf y sianel.

*Ceisiadau Ariannol a'r ADA*

O sawl safbwynt ystyriwyd y fformiwla ariannu a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer Channel 4, ac a addaswyd er mwyn ymgorffori costau ychwanegol S4C, yn un hynod effeithiol a llwyddiannus. Credid hynny gan ei fod yn cynnig sicrwydd i'r ddwy sianel y byddai arian ar gael ar ei chyfer doed a ddelo, gan sichrau nad oedd rheidrwydd arnynt i geisio sicrhau'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl er mwyn ceisio apelio at yr hysbysebwyr. Rhoed rhyddid felly i S4C ac i Channel 4 i gomisiynu ac amserlenu rhaglenni a fyddai'n apelio at eu cynulleidfaoedd yn hytrach na chwmnïau cynnyrch masnachol. Er hynny, nid oedd y patrwm ariannu yn cynnig sicrwydd i'r sianel y byddai yn derbyn yr arian y gofynnid amdano bob blwyddyn, ac i'r perwyl hwnnw bu sicrhau arian digonol i'r sianel yn ymdrech gyson i'r swyddogion a'r Awdurod gydol y cyfnod prawf. Yr oedd angen sicrhau arian boddhaol er mwyn cynnal y gwasanaeth a'r safon uchel a osodwyd yn y misoedd cynnar, ac er mwyn sicrhau'r gwelliannau ac addasiadau angenrheidiol i'r gwasanaeth. Ar gyfer y deunaw mis o baratoi a'r pum mis cyntaf o ddarlledu, cytunwyd ar ffigwr o £20 miliwn gyda'r ADA er mwyn sicrhau seiliau cadarn i'r sianel. Er i'r swm hwnnw

gael ei glustnodi ar gyfer gweithgareddau costus megis sefydlu strwythurau ac adeiladwaith y sianel ynghyd â stoc o raglenni, byddai angen gwarantu symiau cyfatebol, os nad uwch ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn parhau gyda'r patrwm comisiynu a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf.[1] Yn wir bu'n rhaid dechrau'r trafodaethau ar gyfer y flwyddyn 1983 rai misoedd cyn i'r sianel fynd ar yr awyr; ond yn ystod mis Mehefin 1982 daeth yn amlwg nad oedd hi'n sicr y byddai S4C yn derbyn yn flynyddol y swm o arian a wnaed cais amdano.[2] Anfonwyd cais am £25.7 miliwn gan y sianel i'r ADA, ond yn hytrach na chadarnhad o'r swm hwnnw derbyniwyd gohebiaeth yn nodi y byddai'r ffigwr yn debygol o fod yn llai na'r hyn a geisiwyd amdano, gyda'r tebygolrwydd y byddai'r ffigwr yn £24 miliwn.[3] Erfyniodd S4C am ragor o arian, gan nodi mai £24.5 miliwn oedd y lleiafswm y gellid ymdopi ag ef heb effaith andwyol ar y gwasanaeth.[4] Mewn llythyr gan John Whitney, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr ADA, at Owen Edwards ar ddiwedd Tachwedd, ceir cadarnhad o'r penderfyniad terfynol gan aelodau'r ADA ar lefel incwm S4C ar gyfer y flwyddyn 1983, wrth iddo nodi bod £24.6 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer y sianel Gymraeg.[5] Byddai £6 miliwn o'r swm hwnnw yn cael ei gyfrif tuag at dri mis olaf y flwyddyn ariannol 1982/3 ac felly yn rhan o'r £20 miliwn

---

[1] Caed trafodaeth fanwl o drafodaethau ariannol cychwynnol yr Awdurdod â'r ADA ym mhennod 2, tt. 99–104.

[2] Casgliad Sianel Pedwar Cymru (CS4C), *Cofnodion pumed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 28–29 Mehefin 1982, t. 3.

[3] Ibid. Yr oedd yr ADA yn gweithredu patrwm o hysbysu'r sianel o'i hincwm tebygol, cyn cadarnhau'r ffigwr yn derfynol rai misoedd yn ddiweddarach. Os nad oedd y sianel yn hapus gyda'r ffigwr cychwynnol, yr oedd y broses hon yn rhoi cyfle iddi apelio i'r ADA ac yna'r Ysgrifennydd Cartref pe bai'r swm yn annerbyniol o isel. At hynny, yr oedd hysbysiad rhag-blaen yn galluogi i'r sianel drefnu ei gwariant a chynllunio ei strategaeth raglenni.

[4] CS4C, Llythyr oddi wrth John Whitney at Owen Edwards, 25 Tachwedd 1982, t. 1. Flwyddyn yn ddiweddarach wrth i S4C a'r ADA drafod cyllideb 1984/85 mynegwyd pryder gan yr aelodau fod cyflwyno rhagor o ffigurau er mwyn esbonio'r lleiafswm y gellid ymdopi ag ef, yn creu'r perygl y byddai'r sianel yn derbyn y lleiafswm hwnnw hyd yn oed petai'r arian hysbysebu yn llawer mwy llewyrchus na'r disgwyl. Yr oedd angen troedio'n ofalus, felly, er mwyn sicrhau y byddai'r sianel yn derbyn arian teilwng i gynnal y gwasanaeth; CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

[5] Ibid. Clive Betts, 'S4C gives pledge on service as grant cut', *Western Mail*, 23 Rhagfyr 1982; Ivor Wynne Jones, 'Cash curb blow for growth of Welsh TV', *Daily Post*, 29 Rhagfyr 1982; Dienw, 'ITV to pay £98m for 4, £24m for S4C, plus £15m', *The Stage and Television Today*, 30 Rhagfyr 1982.

gwreiddiol hwnnw a gytunwyd rhwng y ddau Awdurdod.[6] O ganlyniad £18.6 miliwn fyddai'n weddill er mwyn cynnal y gwasanaeth hyd ddiwedd y flwyddyn galendr. Ceir cydnabyddiaeth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr ADA yn y llythyr, y byddai'r sianel Gymraeg yn debygol o fod yn siomedig gyda'r incwm, gan nad oedd yn gadael llawer o le i'r sianel wneud unrhyw gamgymeriadau gwariant neu gomisiynu.[7] Gwallau a oedd yn ddigon tebygol o ddigwydd o ystyried pa mor ifanc oedd y sianel a'r enghreifftiau a gaed o orwario sylweddol yn ystod ei blwyddyn gyntaf gomisiynu gyda *Madam Wen* a *SuperTed*.[8] Er y siom o dderbyn swm a oedd yn llai na'r disgwyl, bu'n rhaid cydnabod nad oedd modd gwasgu rhagor o arian o goffrau cwmnïau ITV yn ystod y flwyddyn hon, gan fod y swm o £123 miliwn a lwyddwyd i'w gasglu o arian hysbysebu'r cwmnïau annibynnol yn 18 y cant o Net Advertising Revenue (NAR), sef ar lefel uchaf y cytundeb a arwyddwyd yn ôl ym 1981.[9] Yr oedd y cyfanswm a gasglwyd gan gwmnïau ITV filiwn yn llai na'r hyn y gobeithid amdano, ac o'r gwahaniaeth rhwng cais S4C a'r swm a ddyfarnwyd iddi gan yr ADA, gellid honni mai o gyllideb y sianel Gymraeg yn unig y daeth yr arbedion, gan gynnig y swm cyfan a ymgeisiwyd amdano i Channel 4. Ond byddai datganiad o'r fath yn mynd yn erbyn y rheol anffurfiol a sefydlwyd ar ddechrau hanes y ddwy sianel y byddai S4C yn derbyn 20 y cant o'r arian a gasglwyd o NAR cwmnïau ITV, gyda Channel 4 yn derbyn y gweddill. Mae'r dystiolaeth o du Channel 4 hefyd yn dangos nad oedd hi'n bosib i'r ADA gynnig arian digonol iddi ychwaith, gan i'r Bwrdd Rheoli anfon cais am £123 miliwn i'r ADA ym Mehefin

[6] Ibid. Yn ystod blynyddoedd cyntaf y sianel yr oedd patrymau cyfrifo'r incwm ar gyfer Sianel Pedwar Cymru a Channel 4 yn ddyrys. Byddai'r ADA yn cyfrifo cyfraniad y 15 cwmni rhwydwaith ITV tuag at y bedwaredd sianel ar sail gwerth blwyddyn galendr o arian hysbysebu, er bod S4C a Channel 4 eu hunain yn gweithredu ac yn paratoi eu cyfrifon yn ôl blwyddyn ariannol. Mae hyn yn golygu y cyfeirir at ffigurau incwm gwahanol yn ddibynnol ar y dogfennau dan sylw ac at y math o flwyddyn y cyfeirir ati, gan greu patrwm ychydig yn ddryslyd i unrhyw un sy'n ceisio dirnad lefel incwm y sianel. 1983 oedd y flwyddyn olaf lle defnyddiwyd y patrwm hwn, gan y symudwyd i'r patrwm blwyddyn ariannol o 1984/5 ymlaen. Er bod hyn mewn egwyddor yn gwneud synnwyr, yr oedd y patrwm newydd yn peri pryder i staff S4C oherwydd yr amserlen arfaethedig o nodi amcangyfrif o lefel incwm ym mis Medi cyn i'r flwyddyn ariannol ddechrau, ac yna cadarnhau'r ffigwr terfynol ym mis Mawrth, wythnosau yn unig cyn i'r flwyddyn ariannol dan sylw ddechrau; CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Peter B. Rogers, 14 Mehefin 1983.
[7] Er i'r ADA sicrhau bod £6,159,000 ar gael i'r sianel i'w wario yn ystod tri mis olaf y flwyddyn ariannol 1983/4, sef chwarter swm y flwyddyn flaenorol gyda 6 y cant o chwyddiant a fyddai'n sicrhau nad oedd y sianel ar ei cholled oherwydd y cynnydd mewn costau. Golygai hyn mai cyfanswm incwm y sianel ar gyfer y flwyddyn ariannol honno oedd £25,119,000; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84*, t. 5.
[8] Gweler trafodaeth o'r enghreifftiau hyn ym mhennod 3, tt. 202–6.
[9] CS4C, Llythyr oddi wrth John Whitney at Owen Edwards, 25 Tachwedd 1982, t. 1.

1982 a derbyn £98.4 miliwn, bron i wyth miliwn ar hugain yn llai na'r gofyn.[10] Gellid deall sylwadau John Whitney yn ei lythyr at Owen Edwards felly, pan nododd: 'The problem was simply that, within an overall figure of £123m, Members did not feel able to squeeze Channel 4 any harder.'[11] Dengys tystiolaeth o ymrwymiad yr ADA i lwyddiant S4C yn y trafodaethau hyn, gan na welid gwasgu cyllideb S4C yn ormodol er mwyn diwallu anghenion Channel 4. Glynwyd at y cytundeb anffurfiol hwnnw gan sicrhau bod S4C yn derbyn ugain y cant o'r arian a oedd ar gael hyd yn oed pan yr oedd arian yn dynn.

Er bod cynnydd cymharol fychan wedi bod rhwng yr amcan gwreiddiol a gaed gan yr ADA o £24 miliwn, yr oedd canlyniadau sylweddol i'r sianel ac yn enwedig i'r cynhyrchwyr annibynnol. Yn Rhagfyr 1982 cyflwynwyd dogfen i'r Awdurdod a oedd yn ceisio dod i'r afael ag effaith y lefel yma o incwm, ac ynddo nodir y byddai tipyn yn llai o arian i'w wario ar gynyrchiadau annibynnol, gydag amcan mai dim ond £7.1 miliwn fyddai ar gael ar eu cyfer o'i gymharu â'r £9 miliwn a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf.[12] Mewn gwirionedd cyllideb y cynhyrchwyr annibynnol oedd yr unig elfen hyblyg a gaed yng nghyllideb y sianel a hynny gan fod y cytundeb gydag HTV mor gaeth o ran y swm a oedd yn ddyledus i'r darlledwr am raglenni, a'r ffaith fod y gwariant ar elfennau cyfundrefnol S4C yn gymharol fychan.[13] O ganlyniad, byddai rhai cwmnïau ar eu colled, rhagwelwyd y byddai rhai o'r cwmnïau Saesneg y bu i'r sianel droi atynt yn ystod y flwyddyn gyntaf yn diflannu, cwmnïau megis Opix Films o Lundain a gynhyrchodd raglenni Cymraeg ar drip Max Boyce i Galiffornia ac un o ffilmiau cynnar y sianel, *Owain Glyndŵr*, a Jack Bellamy Productions o Fryste fu'n cynhyrchu rhaglenni coginio o'r enw *Blas*

[10] Paul Bonner with Lesley Aston, *Independent Television in Britain, Volume 6 – New Developments in Independent Television, 1981 – 92* (Basingstoke, Palgrave Macmillan, 2003), t. 96; Dienw, 'C4 snubs fixed – ITV companies liable for £123m', *Broadcast*, 13 Rhagfyr 1982, t. 5.
[11] CS4C, Llythyr oddi wrth John Whitney at Owen Edwards, 25 Ionawr 1982, t. 1.
[12] CS4C, *Amcangyfrifon 1983/84 (Papur 15.82(8)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Rhagfyr 1982, t. 2; Clive Betts, 'S4C programme-makers face squeeze', *Western Mail*, 7 Mawrth 1983.
[13] Yn ôl ffigurau mewnol yr oedd lefel y gwariant ar gostau cyfundrefnol o amgylch 10 y cant o'r gyllideb gyfan (10.4 y cant ym 1983–84 a 10.1 y cant ym 1984–85), a olygai bod bron i 90 y cant o'r arian a dderbyniwyd gan yr ADA yn cael ei wario'n uniongyrchol ar raglenni (89.6 y cant ym 1983–84 a 89.9 y cant ym 1984–85). Yr unig gyfnod yn y blynyddoedd a astudir lle ceir gwyro o'r patrwm hwn oedd yn ystod cyfnod 1981–83 lle bu gwariant o 19.9 y cant ar gostau nad oedd yn ymwneud â rhaglenni, a hynny oherwydd mai dyma'r cyfnod lle bu gwariant sylweddol ar offer, adeiladau a'r ymgyrch farchnata cyn lansio'r gwasanaeth; CS4C, *S4C Income from ADA: 1981–85, Brief for Mr Peregrine for ADA meeting 7.9.83 – Papur atodol i Agenda deugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Medi 1983, Appendix II.

*o'r Gorffennol.*[14] Ond ni chaewyd y drws yn gyfan gwbl ar gynhyrchwyr annibynnol o'r tu allan i Gymru yn y flwyddyn 1983 gan i'r sianel barhau i gomisiynu rhaglenni gan gwmnïau Wyvern Television o Swindon, Imago Films o Clevendon a comisiynwyd cynhyrchwyr newydd i'r sianel o du allan i Gymru hefyd gyda Bumper Films o Weston Super-Mare a Red Rooster Films o Lundain.[15] Ond nid cwmnïau y tu hwnt i glawdd Offa yn unig fu ar eu colled y flwyddyn honno gan y collodd ambell i gwmni Cymreig na lwyddodd i gyflwyno ei waith o fewn y gyllideb wreiddiol yn ystod blwyddyn gyntaf y sianel ei le yn yr amcangyfrifon. Ni fu i'r Bwrdd Ffilmiau dderbyn rhagor o gomisiynau yn dilyn trafferthion enbyd *Madam Wen,*[16] a lleihawyd nifer comisiynau Na Nog oherwydd trafferthion mewnol, a Sgrin '82 gan fod safon y syniadau newydd a gynigwyd yn isel.[17] Yr oedd y lleihad hefyd yn debygol o gael effaith andwyol ar y cwmnïau a oedd yn darparu adnoddau atodol i'r diwydiant, cwmnïau megis Tegset a oedd yn adeiladu setiau i gynyrchiadau. Er hynny, byddai eraill ar eu hennill yn dilyn y lleihad hwn yng nghyllideb y cynhyrchwyr annibynnol, gan y byddai'n ysgogiad iddynt geisio gwneud mwy â llai o arian, a'r newid cyntaf tebygol fyddai'r newid o ffilm i fideo. Rhagwelwyd felly y byddai uned allanol fideo Barcud ag Eco, y cwmni cymhathu sain, ar eu hennill gan y byddai mwy o gynhyrchwyr am ddefnyddio yr adnoddau fideo a gynigwyd gan y cwmnïau hyn.[18]

Er y pryder a fynegwyd ynglŷn â chyllideb 1983, yr oedd swyddogion y sianel ac aelodau'r Awdurod yn ofni y gallai pethau waethygu y flwyddyn ganlynol a hynny oherwydd y byddai canolfan ddarlledu newydd HTV yng Nghroes Cwrlwys yn barod

[14] CS4C, *Adroddiad i'r Awdurdod ar effaith cyllideb 1983/84 ar y Cynhyrchwyr Annibynnol – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Ionawr 1983.Clive Betts, 'S4C to drop English firms', *Western Mail*, 2 Ebrill 1982. Er i gwmni Jack Bellamy ddiflannu o restr y cynhyrchwyr annibynnol yn ail a thrydedd blwyddyn gynhyrchu'r sianel, derbyniodd gomisiwn pellach yn ystod 1985–86. Gweler Atodiad B.
[15] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Sianel Pedwar Cymru 1983–4*, t. 34. Red Rooster oedd cwmni Stephen Bayly a gyfarwyddodd Joni Jones ar gyfer Sgrin '82.
[16] Ceir trafodaeth bellach ar waith y Bwrdd Ffilmiau Cymreig yn Kate Woodward, 'Duwiau dychrynllyd ac Angylion arswydus: *O'r Ddaear Hen* (1981) a'r ymgais i ddatblygu diwylliant ffilm Cymraeg' yn *Cyfrwng - Cyfrol 7* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), tt. 57–72; K. E. Woodward, *Y cleddyf ym mrwydr yr iaith: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg 1970–86'* (traethawd PhD anghyghoeddedig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2007).
[17] Mae'n debygol y bu i'r trafferthion ariannol a gaed gyda chynhyrchiad *Joni Jones* gael effaith ar farn staff y sianel o'r cwmni hefyd a cofia Wil Aaron y bu trafferthion ariannol eraill gan i'r cwmni fuddsoddi peth o'r arian a dderbyniwyd gan S4C er mwyn cynhyrchu rhaglenni mewn tai ac eiddo. Cyfweliad yr awdur gyda Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010.
[18] CS4C, *Adroddiad i'r Awdurdod ar effaith cyllideb 1983/84 ar y Cynhyrchwyr Annibynnol.*

i ddechrau cynhyrchu rhaglenni. Goblygiadau hyn i S4C oedd y byddai'r sianel bellach yn derbyn 9 awr yr wythnos yn hytrach na'r 7 awr a thri chwarter gan y darlledwr.[19] Er mwyn sicrhau nad oedd yr arian a ddefnyddid i dalu am yr oriau ychwanegol hyn gan HTV yn erydu'r nifer o oriau a gomisiynwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol, byddai'n rhaid derbyn cynnydd mwy na chwyddiant yn yr arian gan yr ADA. Ond yr oedd yr ADA wedi rhagrybuddio'r sianel yn ystod y trafodaethau am gyllideb 1983 o'r posibilrwydd na fyddai'n bosibl iddo ariannu'r cynnydd yn oriau HTV a chadw'r nifer o oriau a gomisiynwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol yn gyson, gan y byddai hynny'n gynnydd llawer mwy na chwyddiant.[20] Er y rhybudd hwn o du'r ADA, yr oedd yr Awdurdod a swyddogion y sianel yn awyddus iawn i beidio cosbi'r cynhyrchwyr annibynnol oherwydd y cytundeb anhyblyg a luniwyd rhwng S4C ac HTV. O ystyried i'r cynhyrchwyr annibynnol ddod i'r adwy a darparu mwy na'r disgwyl gwreiddiol o gynyrchiadau i'r sianel, ac ymateb mor gadarnhaol i'r her a osodwyd iddynt yr oedd y sianel yn awyddus i fod yn deyrngar i'r cynhyrchwyr annibynnol. I'r perwyl hwnnw, felly, trefnwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd S4C a Chadeirydd yr ADA, yr Arglwydd Thomson, ac ymbiliwyd am ragor o arian ac ystyriaeth arbennig wrth glustnodi cyllideb 1984/85, gan fod amcangyfrifon mewnol y sianel yn rhagweld y byddai angen £2.5 miliwn yn ychwanegol er mwyn prynu'r oriau newydd oddi wrth HTV.[21] Er yr erfyn taer, yr oedd yr Arglwydd Thomson yn ddiysgog wrth iddo nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth y gellid darparu rhagor o arian i S4C ar gyfer 1984 a hynny gan fod y rhagolygon ar gyfer arian hysbysebu teledu masnachol yn isel. At hynny, rhagwelai y byddai cwmnïau ITV yn dymuno gweld y gyfran o NAR fyddai'n ddyledus ganddynt i'r ADA yn disgyn yn agosach at y lleiafswm, sef 14 y cant, yn hytrach na'r 18 y cant a delid yn ddiweddar, a hynny gan fod y cwmnïau yn siomedig gyda'r gyfran o'r arian a lwyddwyd i'w adennill o'r buddsoddiad gwreiddiol a wnaed ganddynt yn rhwydwaith y bedwaredd sianel.[22] Yr oeddent wedi gobeithio llwyddo i adennill 80 y cant o'r buddsoddiad gwreiddiol er mwyn sefydlu'r ddwy sianel cyn iddynt ddechrau darlledu, ond mewn gwirionedd dim ond 20 y cant o'r buddsoddiad hwnnw yr

[19] Dienw, 'S4C needs £2–3m extra next year for HTV output', *The Stage and Television Today*, 31 Mawth 1983.
[20] CS4C, *Financial outlook for 1983–4 (Papur 15.82(7)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Rhagfyr 1982.
[21] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Peter B. Rogers, 14 Mehefin 1983.
[22] Yr oedd cwmnïau ITV wedi buddsoddi arian yn y bedwaredd sianel bymtheg mis cyn y gellid gwerthu unrhyw hysbysebion ar y sianeli hynny.

oeddent wedi ei gael yn ôl.[23] Yr oedd hi'n argoeli'n wael felly ar incwm S4C ar gyfer 1984.

Wedi'r agwedd besimistaidd a fynegwyd gan Gadeirydd yr ADA ym Mawrth 1983, erbyn Ebrill yr oedd rhagolygon incwm hysbysebu ITV yn well na'r ofnau gwreiddiol.[24] Ac felly lluniwyd cais gan S4C am £29, 258, 563 a'i anfon at Peter Rogers, Cyfarwyddwr Cyllid yr ADA.[25] Cais a oedd dros £4 miliwn yn fwy na'r arian a dderbyniwyd gan yr ADA yn 1983/4 ond a oedd yn cynnwys £2.4 miliwn ar gyfer yr awr a chwarter ychwanegol o raglenni a ddeuai oddi wrth HTV o Orffennaf 1984 ymlaen ynghyd â lefel derbyniol o chwyddiant.[26] Fis yn ddiweddarach derbyniwyd adroddiad o ragolygon yr ADA ar gyfer yr incwm tebygol a ddeuai o goffrau arian hysbysebu cwmnïau ITV. Ynddo nodir fod y cwmnïau'n rhagweld cynnydd o 15 y cant yn eu harian hysbysebu, gan wireddu'r neges fwy gobeithiol honno a dderbyniodd Awdurdod S4C gan yr Arglwydd Thomson yn Ebrill 1983, wedi'r drafodaeth besimistaidd wreiddiol.[27] Byddai 18 y cant o NAR felly yn debygol o gynhyrchu £140 miliwn o incwm ar gyfer y bedwaredd sianel, gydag ugain y cant S4C yn dod i £28 miliwn, £1.2 miliwn yn llai na'r gofyn gwreiddiol, er bod Syr Goronwy Daniel mewn gohebiaeth â Chadeirydd yr ADA wedi nodi y gallai'r sianel dderbyn £28.5 miliwn 'fel yr isafswm lleiaf posibl' y gellid gwneud defnydd ohono.[28] Nododd aelod yr ADA ar Awdurdod S4C, Gwilym Peregrine, i Peter Rogers drafod yng nghyfarfod yr ADA anghenion arbennig y sianel Gymraeg

[23] CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Mawrth 1983, tt. 1–2.
[24] CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ebrill 1983, t. 1.
[25] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Peter B. Rogers, Awst 1983.
[26] Ibid.
[27] CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ebrill 1983, t. 1.
[28] CS4C, *Cofnodion deugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Medi 1983, t. 2. Doedd dim sicrwydd y byddai cwmnïau ITV yn talu 18 y cant o'u incwm NAR i'r ADA, yn enwedig oherwydd eu pryderon, a drafodwyd eisoes, nad oeddent wedi llwyddo i adennill y swm disgwyliedig o'u buddsoddiad yn y bedwaredd sianel. Yr oedd hi'n debygol felly y gallent bwyso am dalu yn agosach at 14 y cant o NAR, sef y lleiafswm derbyniol yn ôl eu cytundeb â'r ADA, fyddai'n argoeli'n llawer gwaeth i S4C. Yn wir yn Awst 1983 bu gohebu di-flewyn-ar-dafod rhwng Owen Edwards a Paul Fox, Cadeirydd yr Independent Television Companies Association (ITCA), a hynny oherwydd yr hyn a welai Cyfarwyddwr y sianel Gymraeg oedd ymgais cwmnïau ITV i lobïo er mwyn tynnu yn ôl o'r cytundeb i dalu am y bedwaredd sianel, a'u defnydd o newyddiadurwyr i wthio'u syniadau ac ymosod ar S4C. Gwrthod y cyhuddiadau yn chwyrn a wnaeth yr ITCA, er hynny mae natur y llythyrau hyn yn dangos pa mor sensitif yr oedd y mater hwn i'r ddwy ochr; CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Paul Fox, 8 Awst 1983; Llythyr oddi wrth Paul Fox at Owen Edwards, 12 Awst 1983.

yn y flwyddyn i ddod, gan nodi dyfodiad Croes Cwrlwys, y ffaith y byddai ymestyn ar yr oriau Cymraeg a gynhyrchid gan HTV a'r '. . . dyletswydd foesol i gynnal y Cynhyrchwyr Annibynnol Cymreig.'[29] Mae'n ddadlennol iawn fod S4C a'r ADA yn y cyfnod hwn yn ystyried bod darparu arian digonol i'r cynhyrchwyr annibynnol yn gyfrifoldeb moesol, a dengys bwysigrwydd y sector hon i'r sianel Gymraeg ar y pryd. At hynny, gwelir o'r sylwadau hyn y teyrngarwch a gaed rhwng S4C a'i chynhyrchwyr annibynnol, gan i'r clwstwr bychan o gwmnïau ymateb yn frwd i'r alwad a ddaeth o du S4C i gynhyrchu mwy o raglenni, ac yn amlach na pheidio yr oedd eu cynyrchiadau yn dangos y bu'r sianel yn gwbl gywir i ymddiried ynddynt. Dengys y trafodaethau hyn dystiolaeth i gynulleidfa fodern o batrwm gweithredu ac agwedd tuag at ddarparwyr sydd wedi hen ddiflannu o'r byd teledu modern. Mae'r pwyslais dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar ffurfio cwmnïau mawr cystadleuol nad ydynt yn llwyr ddibynnol ar S4C am eu comisiynau a'u bodolaeth, ac a all ddarparu mwy o werth am arian i'r sianel, o'r herwydd diflannodd nifer o'r cwmnïau llai.[30] Mae'r agwedd a fynegwyd ym mlynyddoedd cynnar y sianel felly yn darparu gwrthbwynt amlwg i'r amgylchiadau cynhyrchu cyfoes.

Y sector annibynnol a oedd yn debygol o ddioddef fwyaf o'r diffyg hwn yng nghyllideb debygol y sianel unwaith yn rhagor. Anfonwyd llythyr gan Syr Goronwy Daniel at yr Arglwydd Thomson yn esbonio'n glir pam yr oedd staff S4C yn amharod i weld lleihad pellach yn yr arian a oedd ar gael i gynhyrchu rhaglenni gyda'r cwmnïau annibynnol. Nododd Cadeirydd Awdurdod S4C yn glir bod y cynhyrchwyr annibynnol yn hanfodol gan eu bod yn darparu rhaglenni o safon, a oedd yn ennill gwobrau gan sicrhau enw da i'r sianel, yn hawlio eu lle yn y siart wythnosol o'r pum rhaglen fwyaf poblogaidd ar S4C ac yn derbyn ymateb ffafriol yn yr arolygon gwerthfawrogiad cynulleidfa a hynny i gyd am bris llai na'r rhaglenni a brynwyd gan HTV.[31] At hynny, dadleuodd yn blaen y gallai lleihad pellach yn 1984–85 fod yn niweidiol i'r sianel, gan fod y strategaeth a weithredwyd eisoes er mwyn

---

[29] Ibid.

[30] Cred Huw Jones fod y sianel yn parhau i geisio ymdopi â'r polisi cynnar hwn o annog cymaint ag oedd yn bosibl o gynhyrchwyr annibynnol i ffurfio, yr amgylchiadau ffafriol a gyflwynwyd i'r cynhyrchwyr a'r bugeilio agos a fu yn ystod y blynyddoedd cynnar y sianel. Ers yr 1990au mae'r sianel wedi ceisio darganfod y strategaeth orau a fyddai'n arbed gwariant sylweddol ar gostau atodol gweinyddol, ond a oedd yn parhau i sicrhau fod y syniadau gorau ar gael i'r sianel. Cyfweliad yr awdur gyda Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010.

[31] CS4C, Llythyr oddi wrth Syr Goronwy Daniel at yr Arglwydd Thomson, 31 Awst 1983, t. 1.

ymdopi â'r diffyg yng nghyllideb 1983–84 wedi lleihau'r stoc o raglenni wrth gefn a chynyddu'r lefel o ailddangos rhaglenni.[32] Nodwyd yn blaen na ellid amsugno'r diffyg unwaith eto yn y modd hwn heb niweidio'r gwasanaeth a ddarparwyd i'r gynulleidfa. Pe ceid gwasgu pellach byddai'n rhaid i'r sianel gwtogi'r gwariant ymhellach gyda'r cwmnïau annibynnol hynny a oedd wedi darparu gwasanaeth teg a theilwng i'r sianel. Fel hyn y ceisiodd Syr Goronwy Daniel ddarbwyllo'r ADA o effaith andwyol toriadau o'r fath: 'Significant further cuts ... if made, will fall on companies who have given us good value for money and are located in Welsh rural and coal and steel industrial areas where their loss would be a serious blow.'[33] Ceir yma ymgais i bigo cydwybod aelodau'r ADA, gan y byddai'r aelodau yn llwyr ymwybodol o drafferthion economaidd yr ardaloedd diwydiannol hynny gan ddatgan, yn gam neu'n gymwys, y byddai colli'r cwmnïau cynhyrchu yn niweidio ymhellach yr ardaloedd hynny a oedd yn dioddef yn sylweddol yn sgil polisïau Llywodraeth Geidwadol y cyfnod. I gloi'r llythyr hwn sy'n erfyn ar yr ADA i ystyried yn llawn effaith unrhyw ddiffyg ariannol ar y sianel, ceir un ymblaid olaf ar synnwyr tegwch yr Arglwydd Thomson. Trwy nodi y byddai amddifadu'r sianel o'r cyfle i ddefnyddio'r cynnydd o awr a chwarter yn narpariaeth HTV i gynyddu'r nifer o raglenni Cymraeg yn creu cymhariaeth anffafriol iawn gyda Channel 4 a oedd wedi gweld cynnydd sylweddol yn yr oriau Saesneg ers dyddiau'r cynllunio ym 1981.[34] Yr oedd Channel 4 wedi llwyddo i ddarlledu oddeutu hanner cant o oriau yr wythnos ers ei noson agoriadol a oedd yn sylweddol uwch na'r 35 awr y bwriedid eu darlledu yn wreiddiol. O'i gymharu yr oedd S4C wedi darlledu dwy awr ar hugain yr wythnos ar gyfartaledd o raglenni Cymraeg, nifer oriau a oedd yn parhau yn is na'r gofynion gwreiddiol y gwrthdystwyr a fynnodd mai mai pum awr ar hugain oedd y lleiafswm derbyniol er mwyn darparu gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg. Yr oedd rheidrwydd felly i'r gwasanaeth fanteisio ar y cynnydd yn narpariaeth HTV er mwyn diwallu anghenion a gofynion y gynulleidfa Gymraeg.

Er i Awdurdod S4C ganolbwyntio ar effaith andwyol y diffyg ariannol ar y cwmnïau annibynnol fe geir tystiolaeth y byddai HTV yn ogystal ar ei cholled mewn sefyllfa

---

[32] Ibid., t. 2. Fel y trafodwyd eisoes ym Mhennod 5, bu'r stoc isel a phatrwm o ail-ddangos rhaglenni yn gynnar yn ei hanes yn un o'r rhesymau craidd pam y cofnodwyd ffigurau gwylio isel yng ngwanwyn 1983.

[33] Ibid.

[34] Ibid.

o'r fath. Ar 28 Medi 1983 anfonwyd llythyr at HTV, yn unol â gofynion y cytundeb rhaglenni, yn hysbysu'r cwmni o'r tebygolrwydd y byddai diffyg arian gan y sianel, a hynny'n ddiffyg digon sylweddol i warantu lleihau'r arian a fyddai ar gael i HTV gynhyrchu rhaglenni i S4C.[35] Rhagwelwyd y byddai lleihad o oddeutu £175,000 wedi i'r stiwdio newydd yng Nghroes Cwrlwys agor ei drysau, gan olygu y byddai'n rhaid ystyried diddymu nifer o raglenni gan gynnwys un rhaglen materion cyfoes tramor hanner awr, dwy raglen sgwrsio dri chwarter awr, deg o raglenni chwarter awr ar gyfer plant meithrin ac un bennod hanner awr o ddrama gyfres ac ambell i raglen arall fyddai'n creu colled o 7 awr i gyd.[36] Effaith y difa hwn fyddai gorfodi'r sianel i gynyddu unwaith yn rhagor nifer yr ailddangosiadau o raglenni Cymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei chyfanswm oriau wythnosol, gan leihau ymhellach y ddarpariaeth newydd i'r gynulleidfa, a fyddai'n anochel yn arwain at leihad, unwaith yn rhagor, yn y ffigurau gwylio.

Yn anffodus i'r tair carfan dan sylw, ni welwyd cynyddu'r ffigwr o £28 miliwn pan ddaeth hi'n gyfnod cadarnhau ffigwr terfynol y flwyddyn ariannol 1984/85. A hynny er i incwm hysbysebu cwmnïau ITV fod yn 'fywiog' yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol, penderfynodd yr ADA i beidio â mynnu'r 18 y cant o NAR, sef y mwyafswm, gan hawlio 17.5 yn ei le. At hynny, penderfynwyd peidio â chyflwyno'r £146 miliwn yn ei grynswth i goffrau'r bedwaredd sianel, gan hawlio £7 miliwn o'r cyfanswm hwnnw er mwyn ad-dalu dyled cwmnïau ITV i'r ADA ar raddfa gyflymach.[37] Er bod y ffigwr yn siomedig, yr oedd cyfanswm y bedwaredd sianel Gymraeg yn uwch na'r 20 y cant arferol, gan iddo ddringo fymryn yn uwch i gyrraedd 20.14 y cant, gan adael 79.86 y cant, neu £111 miliwn, i Channel 4.[38] Bu trafodaeth frwd ymysg aelodau'r Awdurdod am y priod ddull o ymateb i'r cynnig ariannol, a chafwyd trafodaeth a ddylid apelio i'r Ysgrifennydd Cartref, cam posibl o dan y Ddeddf Ddarlledu.[39] Penderfynwyd na ellid cyfiawnhau apêl a hynny gan nad

---

[35] CS4C, *Arian o'r ADA ym 1984/85 (Papur 10.83(5)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Hydref 1983, t. 2.
[36] CS4C, Llythyr oddi wrth Euryn Ogwen Williams at Tim Knowles, Rheolwr Gyfarwyddwr Cynorthwyol HTV, 29 Medi 1983.
[37] CS4C, Llythyr oddi wrth John Whitney at Owen Edwards, 19 Ionawr 1984; Raymond Snoddy, 'Fourth channels to get £139m', *Financial Times*, 21 Ionawr 1984.
[38] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 3.85(4)) – Papur atodol i Agenda cyfarfod a hanner cant a thri Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Mawrth 1985.
[39] CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984, t. 4.

oedd y gwahaniaeth rhwng y cynnig a wnaed i'r sianel a'r swm a geisiwyd amdano yn ddigon i gyfiawnhau'r ddadl bod yr incwm yn tanseilio'r gwasanaeth. Er hynny, nid oedd yr Awdurdod am dderbyn y swm yn gwbl dawel, gan yr ofnid y byddai hynny'n rhoi'r argraff fod yr Awdurdod yn gofyn am fwy o arian nag oedd mewn gwirionedd ei angen, ac y byddai'r sianel yn derbyn triniaeth debyg pan ddeuai'n amser trafod cyllideb y flwyddyn ganlynol.[40] Bwydwyd felly ambell i ddyfyniad i'r wasg Gymreig gan nodi pa mor siomedig oedd y sianel nad oedd yr ADA wedi darparu'r hanner miliwn ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth.[41] Diau y llwyddodd y negeseuon hyn sicrhau bod cydymdeimlad y gynulleidfa Gymreig gyda'r sianel, at hynny yr oedd y negeseuon yn fodd o ffrwyno disgwyliadau'r gynulleidfa, gan eu paratoi o bosibl am ragor o ailddangosiadau a thwf llai na'r disgwyl yn y ddarpariaeth.

Dechreuodd trafodaethau'r flwyddyn ariannol 1985/86 mewn modd digon tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd cais gan S4C a oedd yn gofyn am £31.858 miliwn. Dyma gynnydd o bron i £4 miliwn y gellid ei briodoli i flwyddyn gyfan o gyfran ychwanegol HTV i'r oriau Cymraeg, cael y cynhyrchwyr annibynnol i lenwi'r bylchau na lenwid gan y BBC ac HTV, y gost o gael shifft ychwanegol o dechnegwyr i ymdopi â'r cynnydd yn oriau darlledu Channel 4, a chwyddiant ac effaith hynny ar gyflogau staff y sianel.[42] Ym Medi 1984, derbyniwyd llythyr gan Gyfarwyddwr Cyllid yr ADA Peter Rogers yn nodi mai £31 miliwn oedd y swm arfaethedig ar gyfer 1985/86, bron i £900,000 yn llai na'r gofyn.[43] Ynghyd â nodi'r incwm tebygol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, ceir neges ychwanegol yn llythyr Peter Rogers, sef, er bod yr ADA yn deall y trafferthion yr oedd y sianel yn ei wynebu oherwydd y cytundeb caeth a arwyddwyd gyda HTV, nid oedd y swyddogion yn gweld mai eu rôl hwy oedd achub y sianel o'r cystudd hwnnw.[44] Cydnabyddir yr agwedd hon yn nhrafodaethau'r Awdurdod wrth i un aelod arddel iddo ddod ar draws yr agwedd honno ymysg rhai aelodau o bwyllgor cenedlaethol yr

---

[40] CS4C, *Amcangyfrifon 1984/5 a 1985/6, Nodyn gan y Cyfarwyddwr (Papur 2.84(6)) – Papur atodol i Agenda pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984.
[41] Derek Hopper, 'S4C's cash bid rejected' yn y *South Wales Echo*, 20 Ionawr 1984; Clive Betts, 'S4C to get a £28m budget' yn y *Western Mail*, 21 Ionawr 1984; Dienw, '£28 miliwn i'r sianel' yn *Y Cymro*, 24 Ionawr 1984.
[42] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 3.
[43] CS4C, Llythyr oddi wrth Peter B. Rogers at Owen Edwards, 20 Medi 1984, t. 1; Clive Betts, 'S4C's budget too low, says chief', *Western Mail*, 9 Tachwedd 1984.
[44] Ibid.

ADA a gredai '. . . mai mater i S4C ac nid i'r ADA oedd y cytundeb â HTV, ar y sail bod S4C wedi cytuno i hwnnw o'i wirfodd.'[45] Unwaith yn rhagor cyflwynwyd ffigwr diwygiedig gan S4C o £31.5 miliwn a gwnaed cais gan yr Awdurdod i'w swyddogion i baratoi papurau a thrafodaethau mewnol er mwyn ystyried strategaethau pe bai'r sianel yn derbyn llai na'r disgwyl o incwm am y drydedd flwyddyn yn olynol.[46] Cydnabuwyd yn yr adroddiadau hyn y byddai toriadau yn hanfodol mewn sawl agwedd o'r gwasanaeth pe byddai'r incwm yn is na'r gofyn, gyda darpariaeth y cynhyrchwyr annibynnol yn derbyn y sylw mwyaf unwaith yn rhagor.[47] Trafodwyd y posibilrwydd o wanhau'r gymysgedd o raglenni a ddarparwyd gan y cynhyrchwyr annibynnol, a olygai leihau'r nifer o ddramâu unigol a gynhyrchid ganddynt. Byddai cwtogi'r agwedd hon o'u darpariaeth yn sicr o arwain at dorri swyddi ymysg y cynhyrchwyr annibynnol â'r gwasanaethau adnoddau, â'r effaith ar y gynulleidfa fyddai llai o ddeunydd deniadol yn yr oriau brig.[48] Aed mor bell hefyd ag ystyried a ddylid lleihau'r nifer o oriau Cymraeg a ddarlledid bob wythnos er mwyn ymdopi â'r lleihad yn y gyllideb, er nad oedd hwn yn ddewis a apeliai at awdur y ddogfen, yn enwedig o ystyried y cynnydd cyson yn oriau Channel 4.[49] At hynny, er mwyn gwireddu'r agwedd hon heb ddinistrio'r amrywiaeth rhaglenni yn gyfan gwbl, byddai'n rhaid ceisio achub cyfresi drama a dramâu dogfen rhag y toriadau, ac felly cwtogi'r rhaglenni megis cwisiau a rhaglenni sgwrsio. Ond gan nad oedd y rhaglenni hyn yn cael eu cynhyrchu'n aml iawn gan y cynhyrchwyr annibynnol, y rhaglenni y byddai'n rhaid eu cwtogi oedd rhaglenni dogfen. Gan fod rhaglenni dogfen yn gymharol resymol i'w cynhyrchu byddai'n rhaid torri nifer helaeth ohonynt er mwyn gwneud unrhyw arbediad gwerth chweil. Byddai angen torri wyth awr o raglenni dogfen er mwyn sicrhau arbediad o £200,000, tolc sylweddol yn yr oriau darlledu ac mewn darpariaeth ddifyr a deniadol i'r gynulleidfa am swm digon tila o arian yng nghyd-destun cyllid y sianel.[50] Dewis arall a ystyriwyd gan y sianel oedd diddymu'r cynlluniau i gynyddu'r nifer o oriau darlledu rhaglenni Channel 4, a oedd wedi ei gynnwys yn y gyllideb a anfonwyd at yr ADA

---

[45] CS4C, *Cofnodion cyfarfod a hanner cant a thri Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Hydref 1984, t. 1.
[46] CS4C, *Cofnodion cyfarfod a hanner cant a phump Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6–7 Rhagfyr 1984, t. 4.
[47] CS4C, *The effect of funding S4C below £31.857m in 1985/6 (Papur 2.85(8)) – Papur atodol i Agenda cyfarfod a hanner cant a saith Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Chwefror 1985.
[48] Ibid., t. 2.
[49] Ibid.
[50] Ibid.

ac a fyddai'n arbed oddeutu £180,000 i'r sianel. Ond trwy beidio â phrynu'r offer angenrheidiol a chyflogi shifft ychwanegol o staff technegol i drosglwyddo'r rhaglenni, byddai S4C yn amddifadu cynulleidfa ddi-Gymraeg y sianel o bron i draean y rhaglenni Saesneg a ddarlledwyd ar Channel 4, sef oddeutu pedair awr ar hugain yr wythnos yn hytrach na'r un awr ar bymtheg y bwriedid iddynt ei golli.[51] Byddai gweithred o'r fath yn debygol o gynddeiriogi'r gynulleidfa ddi-Gymraeg ymhellach gan gynyddu'r ohebiaeth a dderbynnid eisoes gan wylwyr yn cwyno nad oedd S4C yn darlledu digon o raglenni Channel 4. At hynny, yr oedd amheuon sylweddol ymysg aelodau'r Awdurdod a fyddai cam o'r fath yn mynd yn erbyn y Ddeddf Ddarlledu ac yn gyfreithiol bosibl.[52] Dengys y trafodaethau hyn y parhau'r tensiwn rhwng y gynulleidfa Gymraeg a'r di-Gymraeag yn flaenllaw yn ystyriaethau'r Awdurdod. Priodolir hynny yn ddi-os i'r adolygiad a oedd ar y gorwel gan nad oedd yr Awdurdod am weld aildanio'r teimladau cas hynny, fisoedd yn unig cyn yr adolygiad wedi llwyddiant ysgubol y sianel i leihau yn aruthrol y tensiynau hynny.

Y dewis olaf a ystyriwyd oedd cael gwared yn gyfan gwbl ar *Sbec*, sef cylchgrawn rhaglenni'r sianel, a ddosbarthid gyda'r *TV Times*, wedi i'r cytundeb presennol ddod i ben ym mis Hydref 1985.[53] Yr oedd yr Awdurdod wedi trafod dyfodol y cylchgrawn hwn amryw o weithiau wedi ei lansiad yn Hydref 1982, a hynny gan fod cost sylweddol iawn i'w gynhyrchu. Nodwyd yn 1983–84 mai cost y cylchgrawn oedd £446,031, swm a oedd gyfwerth â dwy ran o dair o gyfanswm cost cyflogi staff y sianel gyfan.[54] Yr oedd nifer o elfennau, megis pris papur a newidiadau ar y funud olaf i amserlen Channel 4, yn gwthio pris cyhoeddi'r cylchgrawn yn llawer uwch na'r disgwyl, a chan nad oedd y cylchgrawn yn llwyddo i ddenu cyfran sylweddol o arian hysbysebu, nid oedd modd adennill y costau hynny i'r sianel.[55] Er y costau uchel, teimlid fod y cylchgrawn rhaglenni yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y sianel, gan greu ymdeimlad o hyder ymysg y gynulleidfa oherwydd ei ddiwyg proffesiynol a'i drafodaeth eang o raglenni'r sianel. At hynny, yr oedd ymchwil a

[51] Ibid., t. 3.
[52] CS4C, *Cofnodion cyfarfod a hanner cant a saith Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 5.
[53] CS4C, *The effect of funding S4C below £31.857m in 1985/6 (Papur 2.85(8))*, t. 3.
[54] CS4C, *Dyfodol SBEC (Papur 5.84(8)) – Papur atodol i Agenda wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11 Mai 1984, t. 1.
[55] CS4C, *Sbec – y deuddeg mis cyntaf (Papur 10.83(8)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Hydref 1983, t. 1.

drefnwyd gan BARB a holiaduron a ddosbarthwyd gan fyfyrwyr cwrs cyfryngau Prifysgol Bangor ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1983, yn dangos fod mwy na chwarter o wylwyr Cymraeg y sianel yn troi at y cylchgrawn yn rheolaidd. Dangoswyd hefyd trwy'r ymchwil fod cysylltiad uniongyrchol rhwng darllen *Sbec* a lefel uchel o wylio rhaglenni Cymraeg, gan brofi bod gwerth sylweddol o gael cyhoeddiad cynhwysfawr yn hyrwyddo rhaglenni i'r sianel ac yn hysbysu'r gynulleidfa darged o'r arlwy arfaethedig.[56]

Er gwaethaf gwerth anhepgor y cylchgrawn, yr oedd ei ddiffyg apêl i hysbysebwyr yn boen meddwl. Derbyniwyd cyngor gan yr asiantaeth farchnata Royds Wales a chan staff *TV Times* yn awgrymu sut y gellid gwneud y cylchgrawn yn fwy apelgar i hysbysebwyr, ac er diwygio'r clawr a'r cynnwys er mwyn cynnwys rhagor o Saesneg ac mewn egwyddor apelio at gynulleidfa ehangach, ni welwyd unrhyw gynnydd yn nifer yr hysbysebwyr.[57] Lluniwyd adroddiad pellach ar *Sbec*, gan gwmni Marplan, ym 1984, a ddatganodd fod lefel anghymharus o Gymraeg yn y cylchgrawn, 90 y cant, o'i gymharu â nifer yr oriau Cymraeg a geid ar y sianel a lwyddai i lenwi oddeutu 30.5 y cant o'r oriau darlledu.[58] Er nad oedd yr adroddiad yn mynnu y dylid unioni'r gwahaniaeth yn *Sbec*, yr oedd y ffigurau hyn yn darlunio un o'r prif broblemau a geid gyda'r cylchgrawn, sef ei fod yn cael ei rwygo rhwng dwy farchnad. Ar un llaw nid oedd darpar hysbysebwyr Saesneg yn sicr fod y cylchgrawn yn gyfrwng effeithiol ar gyfer hysbysebu, ac ar y llaw arall nid oedd cwmnïau Cymraeg yn llwyddo i gyfiawnhau'r gost o hysbysebu yn ei dudalennau. Ni lwyddwyd i berswadio'r hysbysebwyr ychwaith gan ddarganfyddiadau'r amryfal adroddiadau, bod darllenwyr yn gwneud defnydd helaeth o'r cylchgrawn, er hynny yr oedd argyhoeddi'r hysbysebwyr o werth y cylchgrawn yn frwydr gyson. Ystyriwyd tactegau eraill hefyd er mwyn ceisio denu rhagor o arian i'r coffrau, er enghraifft cynnig gwasanaeth tanysgrifio uniongyrchol i'r cylchgrawn fyddai'n apelio i'r gwylwyr hynny nad oedd yn dymuno prynu'r *TV Times* er mwyn sicrhau eu copi o *Sbec*.[59] Yr oedd y gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnig i wylwyr y tu hwnt i Glawdd Offa nad oedd yn gallu prynu rhifyn Cymru o'r *TV Times* yn eu siopau lleol, ond dim ond pedwar ar bymtheg o gartrefi a oedd wedi dewis gwneud

---

[56] Ibid., tt.1–2.
[57] Ibid., t. 3.
[58] CS4C, *Dyfodol SBEC (Papur 5.84(8))*, t. 2.
[59] Ibid., Atodiad 3.

hynny. Nid oedd y ffigurau hyn yn argoeli'n dda wrth i'r sianel geisio cyfiawnhau bodolaeth ei gylchgrawn rhaglenni.

Wedi'r adolygiad penderfynwyd arbed y cylchgrawn, gan nad oedd ei ddiddymu yn arbed symiau sylweddol i'r sianel.[60] Ond yr oedd egwyddor bwysicach i'w ystyried, yn bwysicach bron nag arian, sef, a fyddai gwylwyr yn dod o hyd i'r rhaglenni hynny a gynhyrchid ac yn cael eu denu i wylio o gofio cyn lleied y wybodaeth a gynhwysid yn y papurau dyddiol a'r *Radio Times* am raglenni Cymraeg S4C.[61] Yr oedd angen troedio'n ofalus cyn gwneud penderfyniad anodd iawn ynglŷn â lle y gellid gwneud arbedion yng ngwasanaeth y sianel, gan fod i bob penderfyniad effeithiau negyddol sylweddol a allai danseilio delwedd y sianel, nifer ei gwylwyr a bywoliaeth ei chynhyrchwyr. A hyn i gyd yn ystod blwyddyn ei hadolygiad lle gellid, mewn egwyddor, weld y sianel yn dod i ben pe na ellid llwyddo i argyhoeddi'r Swyddfa Gartref ei bod yn deilwng o'i lle yn nhirlun darlledu'r Deyrnas Unedig.

Er yr holl bryderu o du'r Awdurdod a'r gwaith rhagbaratoawl a wnaed gan staff y sianel er mwyn ceisio rhagweld y trafferthion y byddai gostyngiad ariannol pellach yn ei gael ar y sianel, bu'r llafur a'r gofidio i gyd yn ofer. Ym Mawrth 1985, pan dderbyniwyd cadarnhad gan yr ADA o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol, yr oedd y swm a ddyfarnwyd, £31.9 miliwn, rai miloedd yn uwch na'r gofyn gwreiddiol.[62] Derbyniodd y sianel yr hyn a ystyriai yn arian teilwng yng ngolau ei chynlluniau a hynny am y tro cyntaf ers cais cyntaf yr Awdurdod i'r ADA ym 1981. Er bod y swm a dderbyniwyd yn deilwng ac yn fwy na'r gofyn, yr oedd ychydig yn llai na'r 20 y cant arferol o'r gacen ariannol a dderbyniai'r sianel, a hynny gan fod Channel 4 wedi derbyn 80.2 y cant.[63] Er y newyddion da a gafwyd, yr oedd un aelod o'r Awdurdod yn argyhoeddedig y byddai'r ITCA yn mynd ati i gryfhau ei achos ar gyfer y gyfres nesaf o drafodaethau, ac y byddai'n parhau'n frwydr gyson i sicrhau

[60] Dim ond arbediad o £210,000 a ellid ei gael ym 1984/5 pe penderfynid ei ddiddymu, digon i gynhyrchu wyth awr o raglenni dogfen fel y nodwyd eisoes.
[61] CS4C, *The effect of funding S4C below £31.857m in 1985/6 (Papur 2.85(8))*, t. 3. Dim ond manylion moel y rhaglenni Cymraeg a gyhoeddwyd yn y *TV Times*, sef enw ac amser darlledu, a hynny gan fod y cylchgrawn Saesneg yn cario *Sbec* fel atodiad. Cyhoeddwyd rhagor o fanylion Cymraeg y BBC yn y *Radio Times*, ond rhai manylion yn unig ar weddill y rhaglenni, tra byddai'r papurau dyddiol yn cyhoeddi manylion bras ac amseroedd yr holl raglenni a ddarlledid ar y sianel.
[62] CS4C, *Cofnodion cyfarfod a hanner cant a thri Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2; Dienw, 'S4C gets the cash it wants to carry out growth plans', *Western Mail*, 23 Chwefror 1985; Dienw, 'Newyddion da i S4C', *Y Cymro*, 26 Chwefror 1985.
[63] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 3.85(4))*.

arian digonol i'r sianel, o gofio hynny felly penderfynwyd rhoi peth o'r gyllideb hon o'r neilltu er mwyn ceisio ynysu'r sianel o unrhyw ddiffyg yn y dyfodol.[64]

*Mentro i dir newydd*

Fel y gwelir, nid oedd modd i'r sianel ddibynnu'n llwyr ar arian yr ADA i sicrhau cyllid digonol ar gyfer y sector annibynnol gydol y tair blynedd ddarlledu, felly, bu'n rhaid i staff y sianel ystyried a darganfod ffyrdd eraill dyfeisgar o ariannu cynnwys safonol. Un elfen y gellid manteisio arno oedd mai S4C oedd perchennog hawliau'r rhaglenni a gynhyrchwyd gan y cwmnïau annibynnol. Galluogai hynny i'r sianel werthu ei rhaglenni i'w dangos ar sianeli ac mewn gwledydd eraill, gan sicrhau ffynhonnell arian ychwanegol i'r sianel. Penllanw'r egwyddor hon oedd ffurfio is-gwmni o'r enw Mentrau ym Mawrth 1983 fyddai'n gweithredu o dan adain S4C ac, ymysg gorchwylion eraill, yn gofalu am yr agwedd hon o weithgaredd y sianel.[65] Yn wir, yng nghanol y trafodaethau dyrys gyda'r ADA am gyllideb 1983/4, cafwyd awgrym uchelgeisiol gan un o swyddogion y sianel mai Mentrau yn unig a allai sicrhau cyllideb deilwng i'r sianel bellach: '. . . rhaid ymroi o ddifrif i ddatblygu'r Cwmni Mentrau fel yr unig ffordd ymarferol o gael arian digonol yn y dyfodol.'[66]

Nid egwyddor a ddyfeisiwyd mewn ymateb i ddiffygion ariannol a thrafodaethau anodd gyda'r ADA oedd y cynllun hwn, er hynny, yn hytrach penderfyniad ydoedd a wnaed mewn cyfnod wedi i'r sianel dderbyn swm teilwng yn ei deunaw mis o baratoi. Flwyddyn cyn i'r sianel ddechrau darlledu, wedi prin chwe mis o gomisiynu a thrafodaethau gyda'r cynhyrchwyr annibynnol, yr oedd staff rhaglenni'r sianel, yn benodol Euryn Ogwen Williams a Chris Grace, wedi dechrau ystyried gwerth a photensial marchnata a masnachu rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol. Adroddwyd yn Nhachwedd 1981: 'Mae'n ffordd ddi-gost o greu ymwybyddiaeth yng Nghymru a thramor o fodolaeth y sianel.'[67] Ystyrid felly bod gwerth marchnata sylweddol i broses o'r fath, ac nid oedd unrhyw gostau sylweddol yn ymwneud â'r weithgaredd gan y bwriedid defnyddio asiantaeth fyddai'n derbyn canran o unrhyw werthiant yn hytrach na staff y sianel i werthu'r rhaglenni. At hynny, yr oedd y rhaglenni wedi eu

[64] CS4C, *Cofnodion cyfarfod a hanner cant a thri Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[65] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982/83*, t. 8.
[66] CS4C, *Amcangyfrifon 1983/84 (Papur 15.82(8))*, t. 1.
[67] CS4C, *Blwyddyn i fynd – Adroddiad yr Adran Raglenni (Papur 15.81(2)) – Papur atodol i Agenda pymthegfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Tachwedd 1981, t. 4.

ariannu'n llawn yn barod, doedd dim i'w golli o geisio creu ychydig o gyffro ynghylch y sianel a'i chynnwys ar lwyfan rhyngwladol. Gwelid hefyd y byddai gweithgaredd o'r fath yn llwyddo nid yn unig i ledaenu enw S4C a sicrhau ymwybyddiaeth ehangach o fodolaeth a gweithgaredd y sianel, ond y gallai hefyd genhadu negeseuon cadarnhaol am y Gymru fodern a'r Gymraeg i weddill y byd.[68] Aed felly i Cannes ym mis Ebrill 1982, gan ddangos rhaglenni ar stondin yr asiantaeth Trans World International (TWI), is-gwmni teledu'r cwmni International Management Group (IMG) sef cwmni cynrychioli sêr ac unigolion llewyrchus o fyd chwaraeon Mark McCormack.[69] Ni aeth S4C i Cannes a rhannu gofod gyda'r darlledwyr eraill er mwyn arbed arian ac ymdrech, yn hytrach, lansiwyd a chyhoeddwyd bodolaeth y sianel fechan hon o Gymru i'r diwydiant darlledu rhyngwladol ar stondin annibynnol gan ddangos cynnyrch a oedd yn cystadlu â goreuon y byd. Yr oedd gobeithion Euryn Ogwen Williams a Chris Grace yn yr ymateb i'r rhaglenni yn uchel ac yn dangos eu hyder yn y rhaglenni a gomisiynwyd, wrth iddynt nodi yn Nhachwedd 1981: 'Byddai'n gyhoeddusrwydd arbennig o dda pe gallem werthu ambell raglen i wledydd tramor cyn mynd ar yr awyr!'[70] Yn yr un cyfnod aeth staff y sianel ati i ddechrau trafodaethau gyda'r cwmni Guild Home Video, y cwmni mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, a oedd wedi mynegi ei frwdfrydedd, hyd yn oed cyn i'r sianel ddarlledu am y tro cyntaf, i ddosbarthu copïau

[68] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.82(4)) – Papur atodol i Agenda deunawfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Chwefror 1982, t. 2.
[69] Ibid., t. 3; Robert Lloyd, 'Superted – S4C's bear-faced star', *South Wales Evening Post*, 19 Mawrth 1982; Dienw, 'Gwerthu rhaglenni Cymraeg dramor', *Y Cymro*, 23 Mawrth 1982; Dienw, 'Experience to market for independents', *The Stage and Television Today*, 1 Ebrill 1982; Ann Cooper, 'Welsh Channel 4 picks teddybear for campaign', *Marketing*, 25 Mawrth 1982; Dienw, 'Gwerthu S4C i'r byd', *Herald Môn*, 30 Mawrth 1982. Hyrwyddwyd y rhaglenni o dan y teitl 'S4C International' a theithiodd tri aelod o staff y sianel i Cannes, sef Owen Edwards, Euryn Ogwen Williams a Chris Grace i gydweithio a Laurie Ward o TWI a oedd yn gyfrifol am hyrwyddo rhaglenni S4C ar ran y cwmni hwnnw. Cyfrifoldeb TWI oedd y gwerthu a'r trafod telerau, ac am ei ymdrechion cytunwyd ar gomisiwn o 25 y cant. Yr oedd defnyddio asiantaeth i wneud y gwaith hwn yn gwneud synnwyr yn y cyfnod cynnar, gan ei fod yn galluogi i staff S4C ymwneud â gweithgareddau pwysicach megis sicrhau bod y sianel yn barod i ddechrau darlledu. At hynny, yr oedd yn galluogi i'r sianel arbrofi gyda gwerthu rhaglenni heb wneud ymrwymiad tymor hir cyn gwybod beth fyddai'r ymateb.
[70] CS4C, *Blwyddyn i fynd – Adroddiad yr Adran Raglenni (Papur 15.81(2))*, t. 4.

fideo o raglenni addas gan y sianel.[71] Ceid nifer o strategaethau ar waith felly yn nyddiau cynnar y sianel i sicrhau fod rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, y tu hwnt i ffiniau Cymru a'r Deyrnas Unedig ac i geisio sicrhau dyfodol y sianel trwy ganfod ffrydiau cyllid amgen.[72]

Sylweddolwyd yn fuan na fyddai pob rhaglen a gynhyrchid gan y sianel yn addas i'w marchnata a'i gwerthu i ddarlledwyr rhyngwladol. Nid oedd rhaglenni adloniant ysgafn na rhaglenni cerddoriaeth yn debygol o drosglwyddo yn hwylus i gynulleidfaoedd tramor a hynny gan fod y rhaglenni hyn yn ddibynnol iawn ar bersonoliaethau ac enwogion a oedd yn adnabyddus yng ngwlad eu cynhyrchu. Ar y llaw arall, yr oedd dramâu a rhaglenni dogfen y gellid eu cynhyrchu yn ddwyieithog gefn wrth gefn, eu dybio neu eu is-deitlo yn trosglwyddo yn lled dda i farchnadoedd tramor yn ddibynnol ar eu themâu a safon eu cynhyrchu. Ond yr un genre a oedd fwyaf addas ar gyfer gwerthu mewn marchnadoedd teledu megis Marché International des Programmes de Television (MIP TV) yn Cannes oedd animeiddio. Mae animeiddio yn gynnyrch delfrydol i'w werthu a'i apêl i ddarlledwyr yn eang gan nad yw yn dyddio'n gyflym. Mae rhwyddineb y broses o drosleisio i ieithoedd eraill a'r ffaith nad yw y trosleisio hwnnw yn oramlwg i'r gwylwyr yn sicrhau nad oes cyfyngiad ar y nifer o wledydd a ellir gwerthu iddynt.[73] At hynny, mae animeiddio yn *genre* sy'n apelio at gynulleidfaoedd amrywiol o bob oed, a hynny gan fod y cynyrchiadau yn aml yn llawn cymeriadau cofiadwy a straeon llawn ffantasi sy'n bwydo'r dychymyg. Oherwydd hyder sylweddol staff S4C yn safon yr

[71] Ibid., tt. 4–5. Mewn dogfen ddiweddarach ceir cadarnhad mai Sain fyddai'n dosbarthu unrhyw dapiau fideo yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y drafodaeth gyda Guild Home Video yn trafod dosbarthiad Saesneg i raglenni'r sianel yn dangos fod y staff yn ystyried o ddifrif fod cynulleidfa ehangach ar gyfer rhaglenni Cymraeg gydag is-deitlau neu wedi eu dybio. Diau mai cynyrchiadau animeiddiedig oedd y sbardun i'r berthynas hon, er hynny, nid yw trafodaethau'r Awdurdod yn nodi fod y ddêl wedi ei chyfyngu i animeiddiadau yn unig. CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.82(4))*, t. 3; Dienw, 'Cynhyrchu Nwyddau S4C', *Y Cymro*, 23 Mawrth 1982; Dienw, 'Gwneud nwyddau i S4C ym Mhenygroes', *Herald Môn*, 30 Mawrth 1982; Dienw, 'First release in Welsh VCR market', *Broadcast*, 28 Hydref 1983.

[72] Mae hon yn rhinwedd y gwelir yn gyson yn hanes S4C.Yr enghraifft amlycaf arall yw'r buddsoddiad a wnaed gan y sianel yn natblygiadau darlledu digidol trwy brynu plethiad A a ffurfio'r bartneriaeth S4C Digital Networks (SDN) pan yr oedd y sianel dan arweinyddiaeth Huw Jones ym 1997.

[73] At hynny, yr oedd cynhyrchu yn y Gymraeg yn gyntaf, yn hytrach na Saesneg yn gwneud y broses o drosleisio yn haws, gan fod y scriptiau Cymraeg yn llawer mwy geiriog na'r rhai Saesneg, gan sicrhau bod digon o ofod i osod trosleisiau yn gymharol di-drafferth. Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

animeiddio a gynhyrchid gan gwmni Siriol a manteision cynhenid y *genre*, credai Chris Grace y gallai *SuperTed* dyfu yn ffenomena ymhen dwy flynedd.[74]

Yn dilyn ymddangosiad S4C yn Cannes ym mis Ebrill 1982, profwyd fod ffydd a hyder y sianel yn yr arth arbennig hon yn deilwng. Er i'r sianel hyrwyddo pedair rhaglen ar bymtheg yn ei thaflen werthu, cynyrchiadau megis *Wil Cwac Cwac, Hanner Dwsin, Yr Euog a Ffy*, *Antur, Dawnsionara* ac *Y Bêl Hirgron*; *SuperTed* oedd y rhaglen a ddenodd y sylw i gyd.[75] Cafwyd canmoliaeth ar safon yr animeiddio, a datganodd Chris Grace wrth y Western Mail yn llawn hyder: 'The comments in Cannes were that Superted is true quality animation superior to much coming out of the United States and Japan. Those are the only countries apart from Britain, producing animation, and their cartoons look cheap.'[76] Dychwelwyd i Gymru gydag ymrwymiad gan ddeg gwlad ar hugain i brynu a darlledu'r cartŵn, a mynegiant o ddiddordeb gan bum gwlad arall, a hynny ar sail arddangosiad o lai na munud o'r gyfres.[77] Yr oedd hyn yn llwyddiant sylweddol i'r sianel ar sawl lefel. Sicrhaodd, yn gyntaf oll, ymwybyddiaeth eang o'r sianel ar lwyfan rhyngwladol, a hynny bron naw mis cyn iddi ddechrau darlledu. At hynny, yn nhermau'r gwerthu yr oedd *SuperTed* wedi llwyddo i sicrhau cysylltiadau ledled y byd i swyddogion y sianel a oedd yn argoeli'n dda i gynnyrch ehangach y sianel ac wedi sicrhau ffrwd incwm newydd ac annibynnol a oedd yn awr ei angen.[78] Mae'r brys sylweddol a gafwyd i sicrhau bod pum eiliad a deugain o *SuperTed* yn barod i'w ddangos yn Cannes i gynrychiolwyr darlledwyr byd eang yn dyst o'r gred a gaed ymhlith staff S4C y gallai'r gyfres hon ddod â bri sylweddol i'r sianel. Mae'r diddordeb a'r brwdfrydedd a welwyd gan ddarlledwyr o bob cwr o'r byd o Seland Newydd i

[74] CS4C, *Merchandising and S4C (Papur 4.82(8)) – Papur atodol i agenda ugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 21 – 22 Mawrth 1982, t. 2.
[75] CS4C, *Y Darnau'n Disgyn i'w Lle – Papur atodol i agenda ugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 21 – 22 Mawrth 1982, Atodiad 5; Dienw, 'Superted yn concro'r byd!', *Y Cymro*, 4 Mai 1982. Y rhaglenni eraill a hyrwyddwyd ynghyd â'r chwe rhaglen uchod oedd *Joni Jones, Storïau Serch, Celtic Folk Club, Ar Log Ar Log, Almanac, Pawenau wrth y Porth, Y Cyswllt Cymreig, Max Boyce yn America, Madam Wen, O Efrog Newydd i Landdona* a *Kilimanjaro*. Mae'r daflen hyrwyddo yn cyfeirio at y rhaglenni hyn ac ymddengys bod tapiau ohonynt i'w gweld ar stondin TWI yn Cannes, ond yr aethpwyd ati i hyrwyddo a gwerthu *SuperTed* mewn modd llawer mwy blaenllaw.
[76] Clive Betts, 'Superted set to make millions', *Western Mail*, 30 Ebrill 1982
[77] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 6.82(4)) - Papur atodol i agenda ail gyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Mai 1982, t. 2.
[78] CS4C, *Materion Rhaglenni i'w Trafod (Papur 8.82(9)) – Papur atodol i Agenda pedwerydd cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 25 Mai 1982, Atodiad II.

Sweden ac o Nigeria i Hong Kong,[79] diddordeb a sbardunwyd gan gyn lleied o dystiolaeth o'r cynnwys, yn dyst pellach o apêl a photensial y gyfres ac o ddawn y cwmni animeiddio newydd Siriol wrth animeiddio a phennu clip da i'w arddangos.[80]

Ynghyd â gweithgareddau gwerthu cynnyrch, yn ystod 1982 dechreuodd S4C ymhél â gweithgareddau eraill fyddai'n dod â rhagor o arian i'r sianel. Yn Ionawr 1982, mynegodd staff y sianel eu pryder bod tua hanner miliwn o bunnau o arian y sianel yn diflannu y tu hwnt i ffiniau Cymru wrth i'r cynhyrchwyr annibynnol ddefnyddio unedau a chwmnïau golygu fideo yn Llundain er mwyn cwblhau eu rhaglenni.[81] Gan nad oedd cwmni adnoddau masnachol wedi ei ffurfio yng Nghymru, bu'n ysgogiad i Euryn Ogwen Williams gyflwyno syniad gerbron yr Awdurdod y dylid buddsoddi peth o'r £2 miliwn a fyddai'n weddill gan y sianel o'r arian a dderbyniwyd yn 1981/83 i fuddsoddi mewn gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth teledu a gyflwynid gan y sianel. Cynigwyd y dylid sefydlu cwmni o dan adain S4C er mwyn sicrhau fod yr arian cynhyrchu hwnnw yn cael ei wario yng Nghymru, a hefyd er mwyn ceisio cystadlu â'r gwasanaeth a geid yn Llundain.[82] At hynny, yr oedd pryder bod y gwasanaethau ôl-gynhyrchu a sefydlwyd yng Nghymru eisoes, megis y theatr dybio Eco, yn dioddef oherwydd bod cwmnïau annibynnol Cymreig yn teithio i Lundain er mwyn cwblhau holl elfennau ôl-gynhyrchu eu rhaglenni o dan yr un to.[83] Mewn egwyddor yr oedd hwn yn syniad diffuant a fyddai'n rhoi cryn fudd i'r diwydiant cynhyrchu annibynnol Cymreig, ynghyd â sicrhau bod ffrwyth gwariant y sianel yn cael effaith economaidd cadarnhaol yng Nghymru. Gellir dadlau, er hynny, ai lle'r sianel oedd ymyrryd ag agweddau a chyfleoedd y gellid disgwyl i gwmnïau masnachol eraill fanteisio arnynt.[84] Ceid trafod o'r fath yn fewnol, fel y dengys sylwadau a gaed mewn dogfen drafod ar ddatblygiad yr is-

[79] Rhai o'r gwledydd eraill a ymrwymodd i brynu'r cyfresi oedd Awstralia, Cenia, Israel, Ffrainc, Portiwgal, Y Ffindir, Chile, Columbia, Venezuela, Gwlad Thai a Maleisia. Betts, 'Superted set to make millions', 30 Ebrill 1982; Barry Jones, 'Superted beams out on worldwide TV', *Daily Post*, 5 Mai 1982.
[80] Cofia Robin Lyons fod Mike Young yn feistr corn ar hunan-hyrwyddo, medr a oedd yn allweddol yn y cyd-destun hwn. Cyfweliad yr awdur gyda Robin Lyons, Caerdydd, 15 Hydref 2010.
[81] CS4C, *Datblygiadau i S4C – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar bymtheg Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ionawr 1982, t. 1.
[82] Ibid.
[83] CS4C, *Mentrau S4C, Interim Report (Papur 1.83(7)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Ionawr 1983.
[84] Mae hwn yn safbwynt a arddelir gan Chris Grace bellach, datganodd o edrych yn ôl y teimlai fod hon yn weithgaredd 'od' i'r sianel ymwneud â hi. Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

gwmni Mentrau ac i staff y sianel annog yr Awdurdod i ddod i benderfyniad brys ar faterion gwasanaethau technegol gan y tybid y byddai cwmni arall yn mentro i'r un maes o fewn chwe mis.[85] Gellid cyhuddo'r sianel o weithredu mewn modd anheg felly, oherwydd iddynt ddefnyddio eu safle fel darlledwr, a'r wybodaeth freintiedig a oedd ganddynt, er mwyn achub y blaen ar unrhyw gystadleuwyr mewn maes na ellid ei ystyried yn brif flaenoriaeth ar gyfer ei gweithgaredd na'i buddsoddiad. At hynny, byddai gan wasanaeth o'r fath a luniwyd gan ddarlledwr fantais annheg mewn sefyllfa gystadleuol oherwydd ei chysylltiadau clos gyda'r sector annibynnol fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth hwn, pe bai cwmni arall yn ffurfio i ymgymryd â'r un gwaith. Ar y llaw arall, yr oedd buddsoddiad yn yr adnoddau hyn at ddefnydd y cynhyrchwyr annibynnol yn galluogi'r sianel i feithrin arbenigedd a chreu swyddi arbennigol technegol yng Nghymru, yn hytrach na dibynnu ar gwmnïau y tu hwnt i glawdd offa. At hynny, mewn egwyddor byddai sefydlu canolfan olygu safonol yng Nghymru yn golygu y gallai swyddogion comisiynu'r sianel fod ar gael i ddarparu cyngor pe dymunid hynny wrth i gynhyrchwyr fynd ati i gwblhau eu cynyrchiadau. Oherwydd y manteision hyn a chan nad oedd sicrwydd y byddai cwmni annibynnol yn sefydlu'r adnoddau yn annibynnol, penderfynwyd y dylai'r agwedd dechnegol fod yn un o feysydd gwaith yr is-gwmni newydd Mentrau. Sefydlwyd felly ganolfan adnoddau golygu Mentrau yn y Gyfnewidfa Lo yn Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd ym Medi 1983 er mwyn diwallu anghenion technegol cynhyrchwyr annibynnol Cymru.[86]

Erbyn mis Mawrth 1982 yr oedd strategaeth gynhwysfawr ar weithgareddau atodol y sianel wedi ei datblygu, a nodai'n glir y gred ddiysgog y gallai'r arian a fuddsoddwyd yn rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol sicrhau gwerth ehangach i economi Cymru.[87] Cydnabu yr adroddiad bod gwerth sylweddol i'r buddsoddiad hwnnw eisoes gan ei fod yn ariannu cynnwys ar gyfer y sianel, yn talu cyflogau'r gwneuthurwyr ac yn darparu gwaith ar gyfer nifer arwyddocaol o wasanaethau atodol megis adnoddau Barcud a Tegset. Ond credid y gellid sbarduno diwydiant arall gyda'r rhaglenni a gynhyrchid, yn enwedig y cyfresi animeiddiedig a oedd yn hudo darlledwyr rhyngwladol. Rhagwelwyd y gellid datblygu gweithgaredd

[85] Ibid.
[86] Dienw, 'Television bring new industry to the Coal Exchange in Cardiff', *Contact Cardiff,* Tachwedd/Rhagfyr 1983.
[87] CS4C, *Merchandising and S4C (Papur 4.82(8))*, t. 1.

cynhyrchu nwyddau sylweddol i gyd-fynd â'r cyfresi animeiddiedig, gan geisio efelychu llwyddiant y *Muppets* a'r gyfres *Mr. Men* yn y 1970au ynghyd â llwyddiant aruthrol nwyddau Mistar Urdd a fu'n hwb i'r mudiad yn ystod yr un ddegawd.[88] Yn hanesyddol ymgymerwyd â gweithgaredd cynhyrchu nwyddau o'r fath yn y siroedd hynny a ffiniai â dinas Llundain, siroedd megis Caint, Swydd Buckingham, Essex a Swydd Hertford. Ond yr oedd swyddogion y sianel yn argyhoeddedig y gellid datblygu diwydiant cynhyrchu nwyddau sylweddol yng Nghymru, gyda chymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ynghyd ag arbenigedd Wynne Melville Jones, dyfeisydd Mistar Urdd a oedd bellach wedi ffurfio'r cwmni Strata ac wedi derbyn cytundeb gan S4C i ymwneud â thrwyddedau nwyddau amrywiol.[89] Gwelid fod creu cysylltiadau rhwng S4C a diwydiannau y tu hwnt i'r byd darlledu yn fanteisiol iawn i'r sianel: 'The aim in its wider dimension has been to integrate S4C in the affairs and social fabric of Wales'.[90] Diau y gwelid y byddai sicrhau bod S4C a'i gweithgareddau yn datblygu'n rhan anhepgor o wead economaidd Cymru yn un ffordd o sicrhau ei pharhâd.[91] Yn wir, ym marn Euryn Ogwen Williams, yr oedd hon yn un o strategaethau'r Cadeirydd, Goronwy Daniel, o sicrhau bodolaeth y sianel yn dilyn ei thair blwyddyn brawf.[92]

Yr oedd y cynllun hwn yn hynod uchelgeisiol a gallai fod yn beryglus yn ariannol, ond rai misoedd yn ddiweddarach, wedi seminarau ledled Cymru er mwyn denu sylw diwydianwyr bychan i botensial cynhyrchu nwyddau, dechreuodd ddwyn ffrwyth.[93] Erbyn mis Mai 1982, crëwyd deugain o swyddi mewn ffatri ym Mhont-y-pŵl lle

---

[88] Ibid; Wynne Melville Jones, *Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da* (Talybont, 2010); Dienw, 'Super Ted – and S4C – dream of Muppet millions', *Western Mail*, 21 Ebrill 1982; Dienw, 'Superted: big spin-off potential for Wales', *Western Mail Quarterly Ecomonic Review*, 14 Gorffennaf 1982; Llwyddodd *Mr. Men* i gynhyrchu £40 miliwn dros dair blynedd yn ystod ei chyfnod mwyaf llewyrchus trwy werthu nwyddau.
[89] Dienw, 'Cynhyrchu nwyddau S4C', *Y Cymro*, 23 Mawrth 1982.
[90] CS4C, *S4C Byd Eang - Materion Rhaglenni i'w Trafod (Papur 8.82(9))*, Atodiad II.
[91] Dienw, 'Ted to the rescue of slump-hit region', *Television Weekly*, 19 Ionawr 1983.
[92] Cyfweliad yr awdur gydag Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 24 Ebrill 2007.
[93] Bu gweithgaredd sylweddol er mwyn ceisio denu sylw cwmnïau bach a mawr ledled Cymru. Ynghyd â seminarau yn Abertawe, Bangor a'r Drenewydd, cyhoeddwyd hysbyseb hanner tudalen mewn ugain o bapurau newydd lleol a chenedlaethol. Cynhyrchwyd taflen yn hyrwyddo llwyddiant *SuperTed* a ddosbarthwyd ynghyd â rhestr o gynhyrchwyr rhaglenni annibynnol at ddiwydianwyr a gwneuthurwyr. At hynny, trefnwyd cyfarfodydd gyda nifer helaeth o sefydliadau perthnasol megis y Swyddfa Gymreig, TUC Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru, Ffederasiwn Diwydiannau Prydain, Corfforaeth Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Cyngor Crefftau Cymru a Chynllun hyfforddi y Gorfforaeth Ddur. Dengys y gweithgareddau hyn hyder staff y sianel yn y gweithgareddau hyn. CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 10.82(4)) – Papur atodol i Agenda chweched cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 15 Gorffennaf 1982.

cynhyrchid eirth meddal ar lun *SuperTed*, gydag archebion wedi cyrraedd o ben draw'r byd, gyda 24,000 o eirth wedi eu harchebu o Awstralia yn hwb i'r swyddi.[94] Ynghyd â'r gweithgaredd ym Mhont-y-pŵl, yr oedd cwmni Gwersfa Cyf. o Gastell Newydd Emlyn yn cynhyrchu nwyddau addysgol i gyd-fynd â'r gyfres ac wedi cynhyrchu siart mesur taldra *SuperTed.*[95] Erbyn Gorffennaf 1982 yr oedd tri chwmni ar ddeg wedi ymrwymo i drwydded i gynhyrchu nwyddau *SuperTed,* ac yr oedd y sianel yn disgwyl derbyn prototeip o nwyddau *SuperTed* a *Wil Cwac Cwac* gan naw cwmni ar hugain o Gymru.[96] Erbyn Ionawr 1984, cwta dwy flynedd yn ddiweddarach, yr oedd hanner cant a dau o gwmnïau ym Mhrydain yn cynhyrchu 170 o nwyddau gwahanol a oedd yn gysylltiedig â *SuperTed,* ugain ohonynt yng Nghymru ac yr oedd yr arth hefyd yn cael ei defnyddio er mwyn hyrwyddo Cymru dramor gan y Bwrdd Croeso a Bwrdd Datblygu Cymru.[97]

Yr oedd y gweithgareddau ymylol hyn wedi tyfu'n aruthrol mewn cyfnod byr iawn, ac felly ym mis Medi 1982, fe sefydlwyd is-gwmni cyfyngedig, a arddelai'r enw 'Mentrau Sianel 4 Cymru Cyf', er mwyn rheoli'r agweddau masnachol hyn o weithgaredd y sianel.[98] Byddai'r cysylltiadau rhwng y sianel a'r is-gwmni hwn yn glos iawn, gan mai Owen Edwards fyddai Cyfarwyddwr y cwmni newydd, a Michael Tucker, Ysgrifennydd y sianel fyddai Ysgrifennydd y cwmni.[99] Yr oedd y berthynas glos hon yn anhepgor, er bod gwaith yr is-gwmni mewn egwyddor yn mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau craidd y sianel yn ôl Deddf Darlledu 1980. Er hynny, doedd dim modd i'r gwaith gael ei weithredu gan sefydliad cwbl annibynnol, a hynny oherwydd mai cyfrifoldeb staff y sianel oedd trafod telerau gyda chynhyrchwyr unigol. Doedd dim modd gwahanu'r gweithgaredd yn llwyr oddi wrth gyfrifoldebau'r sianel felly, ac o'r herwydd byddai gwaith yr is-gwmni'n cael

---

[94] Christopher Grace, 'Success story of Superted', *Western Mail*, 13 Mai 1982. Rhagwelwyd bod yr archeb hon o Awstralia yn werth £100,000.
[95] CS4C, *Materion Rhaglenni i'w Trafod (Papur 8.82(9))*, Atodiad II; Dienw, 'Tyfu yn sgil y posteri', *Y Cymro*, 8 Mehefin 1982.
[96] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 10.82(4))*.
[97] Dienw, 'Superted set to take U.S. by storm', *Daily Post*, 13 Ionawr 1984; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984/85* (Caerdydd, 1985), t. 13.
[98] Golygydd, 'S4C yn lledaenu ei hadenydd gyda gyda 'Mentrau', *Y Faner*, 15 Gorffennaf 1983; Clive Betts, 'S4C Memtrau (sic.) facility', *Broadcast*, 18 Gorffennaf 1983.
[99] CS4C, *Cofnodion wythfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Medi 1982, t. 1. Yn ariannol, mewn egwyddor, byddai S4C yn derbyn rhandaliadau gan Mentrau pe bai yn gwneud elw digonol i'w talu. Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

ei blethu'n glos gyda phriod waith yr Awdurdod.[100] Er y brwdfrydedd ymysg staff S4C i ffurfio'r is-gwmni ac ymwneud â'r gwaith hwn, ceid rhai amheuon ymhlith swyddogion yr ADA a oedd hi'n briodol defnyddio'r arian a ddeuai o goffrau cwmnïau ITV, trwy law'r ADA, ar gyfer gweithgareddau ymylol. Barn yr ADA oedd mai ar gyfer cynhyrchu rhaglenni a chostau rhedeg y sianel y dylid defnyddio'r miliynau a gyflwynwyd i'r sianel bob blwyddyn.[101] Oherwydd yr amheuaeth hon o du'r ADA, penderfynwyd nad oedd hi'n briodol ymrwymo symiau sylweddol o arian yn y cwmni cyn cael sicrwydd y gallai'r cwmni wneud elw. Yn sgil y penderfyniad hwnnw aeth y sianel ati i geisio darganfod grantiau neu sicrhau benthyciadau er mwyn sefydlu'r cwmni. Ond cymhlethwyd y broses o sicrhau benthyciad banc gan nad oedd yr ADA yn dymuno gweld S4C yn ymrwymo i warantu dyledion Mentrau Cyf. gyda'r arian blynyddol a ddeuai o goffrau rhwydwaith cwmnïau ITV.[102] Yr oedd hi'n broses anos felly, sicrhau arian ar gyfer y buddsoddiad cychwynnol fyddai o gymorth wrth geisio sefydlu'r cwmni.

Er y trafferthion cychwynnol o ffurfio Mentrau Cyf., yr oedd y gweithgareddau a fyddai yn y pendraw yn trosglwyddo i'r cwmni newydd yn mynd rhagddynt yn hynod hwylus. Ym Mawrth 1983, ymwelodd Euryn Ogwen Williams a Chris Grace â'r darlledwr Gwyddelig, RTE ar daith werthu uniongyrchol gyntaf Mentrau Cyf.[103] Cafwyd ymateb calonogol iawn gan y darlledwr, a chanmoliaeth i safon uchel y cynyrchiadau a'r actio. Adlewyrchwyd y ganmoliaeth hon yn y nifer o raglenni a brynwyd gan RTE i'w dangos ar ei sianeli, gyda swyddogion S4C yn dychwelyd i Gymru gydag ymrwymiad i brynu un ar ddeg rhaglen neu gyfres ar raddfa o £600 yr awr, neu oddeutu £10,000 am y cyfan.[104] Prynwyd rhai o raglenni mwyaf llwyddiannus y flwyddyn gyntaf sef *Joni Jones, Almanac, Torth o Fara, Madam*

---

[100] CS4C, *Mentrau (Papur 15.82(9)) – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 3 Rhagfyr 1982. Er yr agosatrwydd hwnnw cwmni ar wahân oedd Mentrau, ac o'r herwydd byddai ganddo ei staff ei hun, byddai'n llunio ei gyfrifon ei hun a hefyd byddai gan y cwmni gyfrifoldebau treth gwahanol i S4C, er mwyn sicrhau nad oedd y gweithgareddau masnachol hyn yn cael effaith andwyol ar weithredoedd eraill y sianel.
[101] CS4C, *Cofnodion ail gyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, tt. 3–4.
[102] CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2; CS4C, *Cofnodion pumed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[103] Yno ymwelwyd â Bob Harpur, Rheolwr Caffaeliadau dwy sianel RTE yn Iwerddon, ac yn ôl adroddiad y daith, bu'r ymweliad yn un llwyddiannus dros ben. Credwyd y byddai barn swyddog RTE am safon y cynyrchiadau yn arwyddocaol a hynny gan yr ystyriwyd ef yn un o brynwyr doethaf Ewrop.
[104] Dienw, 'Gwyddelod yn 'dotio' at ein rhaglenni', *Y Cymro*, 15 Mawrth 1983; Dienw, 'S4C at MIP', *Broadcast*, 18 Ebrill 1983.

*Wen, Owain Glyndŵr* ac ymrwymwyd yn ogystal i brynu cyfres gyntaf ac ail gyfres *SuperTed* a *Wil Cwac Cwac.*[105] Ynghyd â'r ymweliad llwyddiannus hwn cafwyd ail ymweliad ffyniannus iawn â Cannes hefyd, er iddo godi rhai materion dyrys iawn i'r Awdurdod ar egwyddor gwerthu rhaglenni i Dde Affrica.[106]

Yn fuan ar ôl sefydlu Mentrau Cyf., daeth yn amlwg fod y cwmni yn awyddus i ychwanegu pedwerydd gweithgaredd at yr hyn a wnâi yn barod, a hynny trwy fentro i fyd cyhoeddi. Yr oedd y sianel wedi bod yn trafod gyda Christopher Talfan Davies y posibilrwydd o brynu'r cyhoeddwr Hughes a'i Fab, gwasg weithredol hynaf Cymru, a oedd berchen hawliau cyhoeddi *Llyfr Mawr y Plant*, lle ceid straeon yr hwyaden ddireidus Wil Cwac Cwac a'i ffrindiau ynghyd ag anturiaethau'r llwynog Siôn Blewyn Coch, a chatalog helaeth o ganeuon, alawon a cherddoriaeth.[107] Credid y byddai prynu cwmni cyhoeddi yn galluogi i'r sianel fanteisio ar y cyfleon cyhoeddi a ddeilliai o rai o raglenni poblogaidd y sianel.[108] Credid fod cyhoeddi yn cysylltu'n daclus â'r gweithgareddau cynhyrchu nwyddau yr oedd y sianel wedi eu trwyddedu i nifer o gwmnïau Cymreig eisoes. Prynwyd Hughes a'i Fab gan Mentrau Cyf. am £35,593 ac aethpwyd ati i gymryd yr awenau yn llwyr o Fehefin 1983 gydag Euryn Ogwen Williams yn Gadeirydd ar Fwrdd y cwmni ac Emlyn Davies a'r Dr Glyn Tegai Hughes yn Gyfarwyddwyr i'r cwmni ac Emyr Byron Hughes yn

---

[105] CS4C, *Taith Werthu Gyntaf Mentrau (Papur 4.83(11a)) – Papur atodol i Agenda pumed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Ebrill 1983.

[106] CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 4; CS4C, *Cofnodion seithfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 1; CS4C, *Cofnodion wythfed cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1 Gorffennaf 1983, t. 1. Cafwyd trafodaeth hir a chaled gan yr Awdurdod dros nifer o fisoedd am yr egwyddor o werthu rhaglenni i Dde Affrica, oherwydd nad oedd y sianel yn dymuno cael ei gweld fel sefydliad a oedd yn goddef trefn apartheid y wlad. Yr oedd y Cadeirydd yn awyddus i beidio ac atal swyddogion y sianel rhag gwerthu i unrhyw wlad. Nid yw hirhoedledd a chymhlethdod y drafodaeth yn cael ei hadlerwyrchu yn y cofnodion, ond mewn cyfweliadau, cofia nifer o swyddogion y sianel a'r Awdurdod y bu hwn yn un o'r prif feysydd anghytuno rhyngddynt yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ni chafwyd penderfyniad terfynol ar y mater, a chytunwyd i aros tan y ceid cais i brynu gan ddarlledwr o Dde Affrica cyn dychwelyd at y drafodaeth.

[107] Jennie Thomas a J.O.Williams, *Llyfr Mawr y Plant* (Wrecsam, Hughes a'i Fab, 1931); Jennie Thomas a J.O.Williams, *Llyfr Mawr y Plant – ail argraffiad* (Wrecsam, Hughes a'i Fab, 1974).

[108] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84*, t. 12.

Ysgrifennydd.[109] Llyfrau plant yn gysylltiedig â chyfresi animeiddiedig poblogaidd y sianel oedd y rhan helaeth o gyhoeddiadau Hughes a'i Fab o dan adain S4C yn y ddwy flwyddyn gyntaf o weithreddu, gyda chyhoeddi wyth o lyfrau *SuperTed, Llyfr Mawr Wil Cwac Cwac, Hoff Straeon SuperTed* a *Llyfr Cwis Clwb S4C* ymysg y llyfrau mwyaf adnabyddus a gyhoeddwyd yn ystod 1983 a 1984.[110] Ond nid llyfrau i blant oedd yr unig gyhoeddiadau, cyhoeddwyd llyfrau yn ymwneud â'r cyfresi *Almanac* ac *Iesu Ddoe a Heddiw* ynghyd â llyfrau poced yn gysylltiedig â'r cyfresi *Deryn, Pobol y Cwm* a *Bowen a'i Bartner*, a oedd yn ôl adroddiad blynyddol y sianel y flwyddyn honno yn '. . . gyfle i gyflwyno arddull gyffredinol newydd i gyhoeddiadau Hughes a chreu delwedd newydd gyffrous ar gyfer y cwmni.'[111] Yr oedd rheidrwydd i'r cwmni arbrofi ag arddulliau a syniadau newydd fyddai'n denu darllenwyr a hynny gan fod Hughes a'i Fab, er ei gysylltiad â S4C, yn wynebu yr un her ac unrhyw gyhoeddwr Cymraeg arall, sef cynnal y busnes a gwneud elw trwy gyhoeddi yn y Gymraeg. Yr oedd cyfarwyddwyr y cwmni yn siomedig na dderbyniwyd y cymorth a obeithid amdano gan Gyngor Llyfrau Cymru a hynny oherwydd bod y Cyngor yn ystyried y dylai llyfrau'r cyhoeddwr dderbyn cymhorthdal sylweddol gan y sianel.[112] Oherwydd y trafferthion hyn, gorfu i'r cyhoeddwr i ystyried eto sut i ddosbarthu cynnyrch er mwyn sicrhau elw. O ganlyniad arbrofwyd trwy werthu blwyddlyfr Wil Cwac Cwac yn uniongyrchol gan S4C er mwyn lleihau'r costau, ac ym 1984 a 1985 gwerthwyd un o lyfrau *SuperTed* trwy gylchoedd meithrin y Mudiad Ysgolion Meithrin yn unig, a llwyddwyd i werthu 4,500 o gopïau mewn deufis.[113] Nid oedd y cynlluniau arbrofol hyn yn plesio pawb gan i nifer o lyfrwerthwyr ddatgan yn gyhoeddus eu hanfodlonrwydd gyda'r egwyddor, gan nad oedd modd iddynt fanteisio ar boblogrwydd y cymeriadau trwy werthu'r llyfrau yn eu siopau. At hynny, cyhoeddwyd bod S4C yn torri egwyddor sylfaenol cyhoeddi llyfrau trwy werthu yn uniongyrchol, a bod nifer o gwsmeriaid

[109] Ibid., t. 21; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 14; Dienw, 'S4C publishes', *Western Mail*, 4 Awst 1983. Er i staff Mentrau gymryd yr awenau ym Mehefin 1984 gan reoli pob agwedd o'r busnes, ni drosglwyddwyd cyfranddaliadau yn ffurfiol tan ddiwrnod olaf Mawrth 1984. Yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oedd cyfansoddiad y bwrdd yn wahanol, gyda Owen Edwards yn Gadeirydd, Chris Grace yn Gyfarwyddwr a Dr Glyn Tegai Hughes yn ymgynghorydd yn unig.
[110] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 14.
[111] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 22.
[112] CS4C, *Minutes of the twenty-ninth Directors Meeting of Mentrau Cyf*, 11 Gorffennaf 1985, tt. 104–5.
[113] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85* (Caerdydd, 1985), t. 14.

yn colli'r cyfle i brynu'r llyfrau gan nad oeddent ar gael yn eu siopau lleol.[114] Er y cwynion yr oedd gwerthiant ar y lefel hwn yn gamp sylweddol o ystyried fod llyfrau plant Cymraeg yn gwerthu, ar gyfartaledd, oddeutu 1,500 o gopïau mewn deunaw mis.[115]

Bu *SuperTed* yn sbardun felly i nifer o weithgareddau ehangach S4C. Bu hefyd yn gatalydd i ffurfio partneriaeth arbennig fyddai'n sicrhau ariannu'r ail a'r drydedd cyfres o anturiaethau'r arth arbennig. Yr oedd llwyddiant aruthrol *SuperTed* yn y farchnad deledu ryngwladol, ynghyd â'r farchnad deledu ddomestig gan y gwerthwyd y gyfres i'r BBC, yn mynnu bod angen mynd ati i gynhyrchu mwy nag un gyfres o raglenni, ond gan fod cost eu cynhyrchu yn uchel, yr oedd angen cymorth ar S4C er mwyn gwireddu hynny.[116] Yr oedd llwyddiant y gyfres hefyd wedi gwneud *SuperTed* yn ddeniadol i fuddsoddwyr allanol a allai ragweld y gellid gwneud arian sylweddol pe aed i bartneriaeth â S4C i gynhyrchu rhagor o gyfresi. Un o'r cwmnïau hynny oedd is-gwmni pensiwn y Bwrdd Glo, CIN Industrial Investments, a oedd yn buddsoddi mewn diwydiannau Prydeinig, ac aethpwyd ati i ffurfio cwmni ar y cyd rhwng S4C a CIN a'i alw yn Telin.[117] Ym mis Awst 1983, crybwyllwyd am y tro cyntaf y posibilrwydd y gellid ffurfio partneriaeth gydag CIN er mwyn cydariannu cyfresi pellach o *SuperTed*, a thrafodwyd hefyd y posibilrwydd

---

[114] Eurig Wyn, 'S4C a Hughes a'i Fab yn torri egwyddor sylfaenol cyhoeddi', *Y Faner*, 3 Tachwedd 1984; Anwen Parri, 'Ergyd arall i'r Llyfrwerthwyr', *Y Faner*, 30 Tachwedd 1984. Nid Hughes a'i Fab oedd yr unig gyhoeddwr i werthu yn uniongyrchol, bu Gwasg Gomer yn gwerthu llyfr Moc Morgan trwy glybiau pysgota yn ystod yr un flwyddyn.

[115] Noda'r Cyngor Llyfrau fod gwerthiant llyfrau y plant lleiaf yn debygol o werthu mwy na 1,500 gyda rhai llyfrau'n llwyddo i werthu mwy na 2,000. At hynny, dros nifer o flynyddoedd, mae llyfrau rhai o'r cymeriadau mwyaf poblgaidd Cymraeg, megis Sali Mali a Cyfres Rwdlan wedi gwerthu miloedd lawer. Gohebiaeth bersonol yr awdur gyda Richard Owen, Uwch Swyddog Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru, 26 Ebrill 2010.

[116] Bu *SuperTed* yn boblogaidd ar ei ail ymweliad â Cannes yn 1983 hefyd. Dienw, 'BBC 1 to screen English Superted', *South Wales Echo*, 2 Rhagfyr 1982; Dienw, 'Superted to BBC', *Broadcast*, 6 Rhagfyr 1982; Dienw, 'Siwpyrted yn creu jobsys', *Sulyn*, 12 Rhagfyr 1982; Western Mail Reporter, 'Superted – Welsh ambassador', *Western Mail*, 27 Ebrill 1983; Roger Laing, 'Superted the star of Cannes', *Daily Post*, 28 Ebrill 1983; Phil Reiley, 'Big audience bid by Welsh bear', *South Wales Evening Post*, 23 Medi 1983; Dienw, 'Baddies sent packing', *Exeter Express and Echo*, 24 Medi 1983; Alan Road, 'The bear facts', *The Observer*, 25 Medi 1983;

[117] Yn wreiddiol bwriadwyd galw'r cwmni cyfun newydd yn S4CIN Productions LTD, ond erbyn dechrau 1984, a ffurfioli'r cwmni fe'i enwyd yn Telin sef cyfuniad o'r geiriau 'television' a 'investment'; CS4C, *Papur 10.83(10c) – Papur Atodol i Agenda unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7 Hydref 1983; CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 1.84(4)) – Papur atodol i Agenda pedweryddd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Ionawr 1984, t. 1; Clive Betts, 'Miners' money helps pay for new S4C SuperTed show', *Western Mail*, 20 ionawr 1984; Tim Jones, 'Coal fund invests in SuperTed', *The Times*, 20 Ionawr 1984; Dienw, 'Hwb i Superted gan y Glowyr', *Y Cymro*, 24 Ionawr 1984; Dienw, 'NCB pensions fund Superted', *Broadcast*, 20 Ionawr 1984.

o gynhyrchu ffilmiau, gan ysgafnhau'r baich ariannol ar gyllideb gomisiynu'r sianel.[118] Yr oedd gan CIN brofiad yn y maes hwn gan i'r cwmni gyfrannu at gyllideb nifer o gynyrchiadau arobryn megis, *Chariots of Fire* (Hudson, 1981), *Ghandi* (Attenborough, 1982) ac *Educating Rita* (Gilbert, 1983).[119] Ffurfiwyd cwmni Telin felly fyddai yn cynhyrchu ac yn manteisio ar hawliau *SuperTed* gyda Mentrau yn meddu ar 60 y cant o gyfranddaliadau'r cwmni newydd a CIN yn hawlio y 40 a oedd yn weddill, gyda'r ddau sefydliad yn mynnu dau gyfarwyddwr yr un ar y bwrdd rheoli cwmni.[120] Ymddengys y canfu'r Awdurdod fod gofynion cydweithio CIN yn feichus, ond oherwydd brys y sianel i ddechrau cynhyrchu'r gyfres nesaf o *SuperTed* a chynnal y momentwm aruthrol a oedd y tu ôl i'r cynhyrchiad, ni fu amser i chwilio am bartneriaid eraill, yn enwedig ar ôl treulio cryn amser yn trafod a gwyntyllu telerau gyda CIN.[121] Er bod gofynion y bartneriaeth yn drwm ar Mentrau, yr oedd y manteision i S4C yn sylweddol, a hynny gan fod y bartneriaeth hon yn galluogi'r sianel i brynu cyfresi Cymraeg newydd *SuperTed* am bris rhesymol iawn o ystyried y buddsoddiad sylweddol a wnaed yn y gyfres gyntaf sef yn agos i £700,000.[122] Byddai S4C yn prynu'r ail gyfres gan Telin am £105,000 a'r drydedd gyfres am £120,000, a oedd yn arbediad sylweddol o ystyried petai'r sianel yn cynhyrchu'r ddwy gyfres yn annibynnol, y byddai angen mwy na £2 filiwn arni er mwyn gwneud hynny.[123] Yr oedd arbediad sylweddol felly i'r sianel trwy drosglwyddo cyfrifoldeb ariannu cyfresi drudfawr i gwmni arall, a thrwy sicrhau bod staff y sianel yn rhan annatod o'r cwmni newydd, yr oedd hyn yn gwarantu nad oedd penderfyniadau

---

[118] CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod ar bymtheg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 Awst 1983, t. 3; Dienw, ''SuperTed' investment: two new series planned', *Screen International*, 28 Ionawr 1984.

[119] Diana Frampton, 'CIN backing boosts S4C and SuperTed', *Television Weekly*, 27 Ionawr 1984. CIN oedd perchennog y cwmni cynhyrchu Acorn Productions ac yr oedd hefyd yn berchen ar 30 y cant o'r cwmni Goldcrest; CS4C, *Report: Proposed Joint Venture Company, and Funding of 'SuperTed' – Papur atodol i Agenda deugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Medi 1983.

[120] CS4C, *Report: Proposed Joint Venture Company, and Funding of 'SuperTed'*. Er mai Mentrau oedd yn meddu ar y mwyafrif o gyfranddaliadau cyffredin y cwmni cyfun, yr oedd y ddau sefydliad yn rhannu'r blaengyfrannau'n hafal rhyngddynt. At hynny, yr oedd CIN yn awyddus i sicrhau na fyddai Mentrau, fel y cwmni a oedd yn berchen ar y mwyafrif o'r cyfranddaliadau, yn defnyddio elw Telin er mwyn ariannu cynyrchiadau a phrosiectau nad oedd CIN yn hapus â hwy, felly, ychwanegwyd amrywiol gymalau a fyddai'n amddiffyn CIN yn erthyglau'r cwmni.

[121] Ibid.

[122] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 5. Yr oedd mantais ariannol hefyd i Mentrau gan i S4C werthu cyfres gyntaf Saesneg *SuperTed* i Mentrau am £100,000, ac yna gwerthwyd y gyfres honno i Telin gan fanteisio ar ei gwerthiant dramor am £795,000; CS4C, *Mentrau Estimates to 31 March 1984 (Papur 12.83(6dd)) – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Rhagfyr 1983.

[123] CS4C, *Report: Proposed Joint Venture Company, and Funding of 'SuperTed'*.

golygyddol y tu hwnt i reolaeth y sianel. Ceid yma y gorau o'r ddau fyd i'r sianel.[124] Diau heb y buddsoddiad allanol hwn mae'n annhebygol y gallai S4C gyfiawnhau gwariant sylweddol ar gyfresi animeiddiedig drudfawr a safonol nad oedd yn llenwi nifer helaeth o oriau, ac y gallai ddiwydiant animeiddio ifanc Cymru ddiflannu dros nos.[125] Yr oedd cynhyrchu mwy o gyfresi yn allweddol hefyd er mwyn sicrhau gwerthiant pellach o *SuperTed* dramor.

Llwyddiant mwyaf y gyfres *SuperTed* yn y cyfnod hwn oedd i'r gyfres gyntaf a'r ail gael eu gwerthu gan Mentrau i sianel cebl Disney yn America.[126] Cyhoeddwyd manylion y gwerthiant ar 12 Ionawr 1984, a mynegwyd diddordeb sylweddol yn y ddêl gan y wasg genedlaethol a rhanbarthol wrth i adroddiadau rif y gwlith ymddangos yn y wasg drannoeth y cyhoeddiad gyda phenawdau megis 'Walt's boyo bear!'; 'SuperTed Takes On America' a 'Ted's a Star'.[127] Yr oedd y cytundeb hwn yn bluen aruthrol yn het y sianel, gan mai *SuperTed* oedd y gyfres animeiddiedig gyntaf o Brydain i sianel cebl Disney ei darlledu i'r gynulleidfa Americanaidd. Ynghyd â hawliau darlledu, yr oedd y cytundeb â Disney hefyd yn golygu y gallai

---

[124] Credai swyddogion S4C hefyd bod ariannu *SuperTed* yn llawn trwy ffynhonellau allanol yn cynnal cynhyrchu cyfresi pellach o *Wil Cwac Cwac* a hynny gan eu bod yn cael eu cynhyrchu ar yr un pryd gan yr un stiwdio, gan rannu'r un costau gweinyddol. Ibid.

[125] Yn 1985/6 bu i Telin fuddsoddi mewn cyfres animeiddiedig stop-symud, *Sam Tân* a gynhyrchwyd gan gwmni Bumper, gan ddangos ymhellach bod S4C yn hynod ddibynnol ar ffynonellau allanol er mwyn parhau i gomisiynu cyfresi animeiddiedig safonol; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 22.

[126] Yr oedd y cytundeb â Disney yn rhoi'r dewis iddynt brynu cyfresi dilynol hefyd. DH, 'SuperTed! Saviour of S4C?', *Broadcast*, 13 Ionawr 1984. Tybid mai Mentrau fu'n gyfrifol am y trafodaethau a'r gwerthiant i Disney ac nid Telin, gan na chyhoeddwyd sefydlu'r cwmni cyfun tan ddiwedd Ionawr 1984. Ar ôl hynny, fodd bynnag, Telin fyddai'n ymwneud â'r darlledwyr a'r cwmnïau nwyddau.

[127] Dienw, 'SuperTed is sold to Disney Channel', *The Stage and Television Today*, 9 Ionawr 1984; Dienw, 'Walt's boyo bear!', *The Sun*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'SuperTed Takes on America', *Eastern Daily Press*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Ted's a Star', *Daily Star*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted signs-up', *Greenock Telegraph*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted joins the Disney big time', *Shropshire Star*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'It's . . . Superted!', *Worcester Evening News*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Magic Welsh bear links-up with Mickey Mouse', *Wolverhampton Express & Star*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Disney sign up 'Superted'', *The Scotsman*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Little Welsh bear hits big time', *South Wales Evening Post*, 13 Ionawr 1984; Clive Betts, 'Superted set to star on American TV', *Western Mail*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted set to take U.S. by storm', *Daily Post*, 13 Ionawr 1984; Carla Dobson, 'Welsh teddy bear scores a first in Disney deal', *The Daily Telegraph*, 13 Ionawr 1984; Paul Hoyland, 'Superted conquers world of Disney', *The Guardian*, 13 Ionawr 1984; Dienw; 'Disney buys Welsh TV cartoon', *The Times*, 13 Ionawr 1984; Robin Reeves, 'Welsh TV sells its SuperTed to Disney', *The Financial Times*, 13 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted! Saviour of S4C?', *Broadcast*, 13 Ionawr 1984; Derek Hooper, 'What a coup for Wales!', *South Wales Echo*, 14 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted off to America', *Sheffield Morning Telegraph*, 14 Ionawr 1984; Dienw, 'Disney airing for 'SuperTed'', *Screen International*, 14 Ionawr 1984; Dienw, 'Superted yn Los Angeles', *Y Cymro*, 17 Ionawr 1984; Dienw, 'SuperTed is sold to Disney Channel', *The Stage*, 19 Ionawr 1984; Diana Frampton, 'Crimefighter SuperTed swooping on Stateside', *Television Weekly*, 20 Ionawr 1984.

Disney ddosbarthu'r gyfres yng ngogledd America ar gasetiau fideo, camp arall gan mai dim ond pedair ffilm nas cynhyrchwyd gan Disney a ddosbarthwyd gan y stiwdio hyd y 1980au.[128] Llwyddwyd nid yn unig i ddenu sylw'r wasg boblogaidd, ond cafwyd hefyd gynnig cynnar-yn-y-dydd yn Nhŷ'r Cyffredin gan yr Aelod Seneddol Rhyddfrydol Geraint Howells, yn llongyfarch S4C ar ei llwyddiant trwy werthu *SuperTed* i Disney, a hefyd ar ei phartneriaeth gyda CIN. Meddai:

> . . . this House congratulates S4C, the Welsh fourth channel, for succeeding in selling their 'Superted' all-Welsh animation series to a television company in the United States of America, and for securing additional investment in the production of the series from the National Coal Board Pension Fund; believes that these gestures of confidence in the potential of Welsh language programmes will secure the future of the animation industry based in Cardiff, and will provide new business opportunities for Welsh manufacturing companies making goods linked with the series; and wishes S4C well for their future achievements.[129]

Bu ymateb brwd o du cynhyrchwyr nwyddau yn yr UDA hefyd wrth i'r cyhoeddwr Random House a'r cynhyrchydd teganau Dakin ymgymryd â thrwyddedau i gynhyrchu nwyddau cysylltiedig â'r cyfresi gyda'r un brwdfrydedd a welwyd gan gwmniau Cymreig a Phrydeinig, a fyddai'n sicrhau fod delwedd *SuperTed* yn treiddio i farchnad eang yr UDA. O ystyried bwriad Dakin i gynhyrchu tair neu bedair miliwn o eirth i'w gwerthu yn 1985, yr oedd hyder y cwmnïau nwyddau Americanaidd ym mhotensial y cynnyrch yn sylweddol.[130] At hynny, yr oedd y cwmnïau cardiau cyfarch Hallmark ac American Greetings yn cystadlu am yr hawliau i ail-greu delwedd y cymeriadau ar eu cardiau.[131] Yr oedd diddordeb Disney wedi agor nifer o farchnadoedd a ffrydiau incwm newydd i Telin a Mentrau, ac yr oedd gobaith hefyd ymysg staff y cwmnïau hyn a S4C y byddai'r gweithgaredd hwn

---

[128] Dienw, 'Superted set to take U.S. by storm', yn y *Daily Post*, 13 Ionawr 1984.
[129] Houses of Parliament, Order Paper – Tuesday 24th January 1984, 408. Arwyddwyd y cynnig gan 29 Aelod Seneddol, gyda dau Aelod ar bymtheg yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru. Cafwyd cynrychiolaeth drawsbleidiol hefyd wrth i ddeuddeg aelod Llafur, wyth o'r Ceidwadwyr, chwech o'r Rhyddfrydwr, un Aelod o'r SNP a dau aelod o Blaid Cymru arwyddo ac ymuno â'r cynnig i longyfarch y sianel. CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.84(4))*, t. 1; Dienw, 'Commons praise for superted', *Cambrian News*, 3 Chwefror 1984.
[130] CS4C, *Minutes of the fifteenth Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda nawfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Mehefin 1984, t. 2.
[131] CS4C, *Minutes of the sixteenth Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Gorffennaf 1984.

yn yr UDA yn arwain at ddarlledu'r gyfres ar un o brif rwydweithiau teledu America gan sicrhau cynulleidfa ehangach i'r gyfres a'i chymeriadau.[132]

Er y brwdfrydedd a'r sylw cychwynnol o du'r wasg Brydeinig yng ngwerthiant *SuperTed* i America, a llwyddiant yn ogystal i'r animeiddwyr wrth i'r gyfres ennill y wobr arian yng Ngŵyl Ffilm a Theledu Efrog Newydd, bu peth oedi cyn i'r gyfres ymddangos ar y sgrin mewn cartrefi Americanaidd.[133] Bu blwyddyn gron rhwng dyddiad cyhoeddi'r cytundeb i werthu'r cyfresi i Disney, a'r dyddiad darlledu ar gyfer y gyfres gyntaf.[134] Yr oedd hyn yn peri problem ariannol i'r cwmni Telin, a hynny gan fod arian gwerthiant nwyddau yn arafach yn cyrraedd y coffrau'r na'r amcanwyd yn y cynlluniau gwreiddiol, ac yn ei atal rhag buddsoddi ymhellach, neu dalu am gostau angenrheidiol.[135] Arweiniodd y problemau llif arian hyn at drafodaethau gyda chwmnïau megis Forward Trust a Kleinwort Benson ynglŷn â gwerthu hawliau Telin yn *SuperTed* iddynt gan yna eu prydlesu'n ôl er mwyn ceisio rhyddhau rhagor o arian ar gyfer gweithgareddau'r cwmni, a hynny gan fod S4C a Mentrau yn amharod i fuddsoddi ymhellach yn Telin.[136] Ond er y trafferthion hyn, pan ddangoswyd y gyfres gan sianel cebl Disney, fe'i marchnatwyd yn frwd gan y sianel honno, a thrafodwyd y posibiliadau y gallai Disney brynu hawliau'r gyfres mewn nifer o ieithoedd eraill hefyd megis Almaeneg, Ffrangeg ac Iseldireg.[137] Bu'n llwyddiant sylweddol ar gasetiau fideo hefyd wrth i Disney werthu 26,000 o gopïau

[132] Dienw, 'Ted's a Star', yn y *Daily Star*, 13 Ionawr 1984.
[133] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a phedwar Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Tachwedd 1984, t. 3.
[134] CS4C, *Minutes of the Eighteenth Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda cyfarfod a hanner cant a dau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14 Medi 1984. Steve Schneider, 'An Extraordinary Teddy Bear Joins the Disney Family', *The New York Times*, 3 Chwefror 1985. Ymddengys nad oedd yr oedi hwn allan o'r cyffredin gan fod peth oedi'n naturiol gan fod amserlenni darlledwyr yn cael eu paratoi fisoedd lawer o flaen llaw.
[135] CS4C, *Minutes of the fourteenth Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda nawfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Mehefin 1984.
[136] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant ag un Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Awst 1984.
[137] CS4C, *Minutes of the twenty-fourth Directors' meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant ag wyth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Mawrth 1985, t. 81.

mewn tri mis, a hynny cyn mynd ati i leisio'r cyfresi ag acenion Americanaidd.[138] Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 1985/6 yr oedd cyfresi *SuperTed* wedi eu gwerthu i hanner cant o wledydd ledled y byd, gan gynnwys deg o wledydd America Ladin, India, Dubai, Seland Newydd, Korea a nifer o wledydd Ewrop megis Norwy a Ffrainc. Llwyddodd gwerthiant *SuperTed* i Disney, ynghyd â'r holl werthiannau eraill, gwerthiant y nwyddau a'r cyhoeddusrwydd cadarnhaol aruthrol a ddaeth yn eu sgil i sicrhau lle *SuperTed* fel ffrwyth gwaith mwyaf cynhyrchiol y sianel. At hynny, cynhyrchwyd sioe gerdd gyda'r teitl '*SuperTed and the Comet of the Spooks*' a gyfarwyddwyd gan Victor Spinetti ac a lwyfannwyd yng Nghaerdydd yng Ngaeaf 1985 ac a deithiodd ledled Prydain gydol haf 1986. Bu'r cymeriadau hefyd yn rhan annatod o nifer o ymgyrchoedd diogelwch wrth i'r Swyddfa Gymreig eu defnyddio ar gyfer yr ymgyrch Diogelwch ar yr Heolydd gyda'r ffilm fer *Stay Safe with SuperTed* a'r Heddlu eu defnyddio er mwyn hyrwyddo'r slogan *Say No to a Stranger*.[139]

Cyfres a fu yng nghysgod *SuperTed* yn ddiamau oedd *Wil Cwac Cwac*, a gynhyrchid hefyd gan Siriol, ond cyfres ydoedd, gellid dadlau, a fu yn fwy llwyddiannus ar sawl agwedd. Er mai dim ond un wlad ar bymtheg a brynodd yr animeiddiad yn ystod y cyfnod prawf o'i chymharu â'r hanner cant a brynodd *SuperTed* yn yr un cyfnod, yr oedd gan *Wil Cwac Cwac* ei llwyddiannau ei hun.[140] Gwerthwyd rhai pennodau o'r gyfres gyntaf i orsaf deledu yn Rwsia ym 1985, gorchest anhygoel o ystyried nad oedd rhaglenni teledu Ewropeaidd i'w gweld ar setiau teledu'r wlad.[141] Gwerthwyd *Wil Cwac Cwac* i sianel cebl yn America hefyd, sef US Cable, ond gan i'r gwerthiant hwn ddod flwyddyn ar ôl gwerthiant ysgubol *SuperTed*, ni chafwyd yr un sylw.[142] Ni welwyd yr un brwdfrydedd o du gwneuthurwyr nwyddau America gyda'r gyfres hon

---

[138] CS4C, *Draft Minutes of the twenty-eighth Directors' meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11–12 Gorffennaf 1985, t. 99; Bu gwerthiant yr un mor syfrdanol ym Mhrydain wrth i Guild Home Video werthu 2,200 o gasetiau fideo mewn tair wythnos ym 1983 a oedd yn record newydd i'r cwmni, ac yna 3,000 o gopïau mewn deufis ar ddiwedd 1984; CS4C, *Minutes of the tenth Directors' meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Rhagfyr 1983; CS4C, *Draft Minutes of the twenty-second Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a chwech Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1985.
[139] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 21.
[140] CS4C, *Draft Minutes of the twenty-sixth Directors' Meeting of Mentrau Cyf.*
[141] Clive Betts, 'Wil Cwac Cwac goes Muscovite', *Western Mail*, 5 Mawrth 1985.
[142] CS4C, *Draft Minutes of the twenty-third Directors' Meeting of Mentrau Cyf.* Llwyddwyd i werthu *Wil Cwac Cwac* i'r Children's Channel ar rwydwaith cebl Prydain hefyd ym 1985; CS4C, *Draft Minutes of the thirty-first Directors' Meeting of Mentrau Cyf.*

ychwaith, gan ychwanegu at ei statws is yn y cof cyhoeddus. Er hynny, profodd *Wil Cwac Cwac* yn llwyddiant sylweddol ym Mhrydain, llwyddodd y fersiwn Saesneg gyrraedd y siart can uchaf o raglenni Prydain gan gyrraedd rhif 90, yr unig raglen a gynhyrchwyd gan S4C i wneud hynny yn ystod y cyfnod prawf.[143] Yr oedd ffigurau gwylio'r gyfres yn llawer uwch na unrhyw raglen arall a gynhyrchwyd gan S4C ac a ddarlledid gan un o'r rhwydweithiau cenedlaethol, hyd yn oed *SuperTed.* Llwyddai *Wil Cwac Cwac* yn rheolaidd i ddenu miliwn a mwy o wylwyr yn fwy ar ITV, nag a lwyddai *SuperTed* ar y BBC am 16.20 ar ddydd Mawrth a Iau. Llwyddai *SuperTed* i ddenu oddeutu 3 miliwn o wylwyr, tra llwyddai *Wil Cwac Cwac* i ddenu hyd at 5.61 miliwn o wylwyr, ffigwr a oedd yn uchel iawn ar gyfer rhaglen blant ac unrhyw raglen a ddarlledid yn yr un rhicyn darlledu rhwng 16.15 a 16.20 ar ddiwedd y prynhawn.[144] Gellid o bosibl esbonio ffigurau gwylio a chynulleidfa selog *Wil Cwac Cwac* gan i ITV ddarlledu'r gyfres bob dydd am yn agos i fis yng ngaeaf 1984. Gallai'r plant felly wylio anturiaethau'r hwyaden ddrygionus bob dydd o'r wythnos, gan adeiladu cynulleidfa selog dros gyfnod cymharol fyr.

Ar wahân i lwyddiannau amlwg a blaenllaw *SuperTed,* o safbwynt ariannol, ni fu Mentrau yn gwbl lwyddiannus yn ystod ei blynyddoedd cyntaf, er gwaethaf yr holl weithgaredd, ofnid i'r cwmni wneud colled sylweddol o £610, 076 yn ei blwyddyn gyntaf, gyda pherfformiad yr uned dechnegol yn siomedig wedi iddi wneud llai o incwm na'r hyn a ddisgwylid gan y sianel wrth ragweld prysurdeb uned o'r fath yng Nghaerdydd.[145] Ond llwyddodd y cwmni i wneud elw cymharol fychan ym 1984–5 o £35,678 ac yna £74,558 ym 1985/86.[146] Nid oedd Mentrau wedi llwyddo i wneud yr hyn a obeithiwyd yn wreiddiol gan swyddogion ac aelodau Awdurdod S4C, sef darparu achubiaeth ariannol i'r sianel mewn cyfnodau tywyll. Er na lwyddodd y cwmni i warantu elw digonol i wneud hynny, gellid diffinio llwyddiant yn hytrach yn nhermau'r enw da a sicrhawyd i'r sianel yn rhyngwladol. Llwyddodd ymweliadau

---

[143] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a chwech Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1985, t. 4.

[144] CS4C, *Draft Minutes of the twenty-third Directors' Meeting of Mentrau Cyf.*

[145] CS4C, *Minutes of the eighth Directors' Meeting of Mentrau Cyf (Papur 11.83(7a)) – Papur atodol i Agenda ail gyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Tachwedd 1983. Dylid nodi i adroddiad blynyddol a chyfrifon 1984–85 er hynny nodi yn y naratif mai colled o £277,555 a wnaed y flwyddyn honno; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 12. Diau y gwelid gwahaniaeth yn y ffigurau gan mai ffigurau draft gan y cyfrifwyr a drafodwyd yng nghyfarfod Mentrau ac nid y ffigwr terfynol.

[146] S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 12; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 19.

ffyniannus â Cannes bob blwyddyn sicrhau bod rhaglenni a gynhyrchwyd yn y Gymraeg ar gyfer cynulleidfa leiafrifol yn cael eu darlledu ledled y byd, gan ddarparu delweddau o Gymru mewn gwledydd megis Awstralia, yr Eidal, Groeg a Tsiecoslofacia.[147] Nid *SuperTed* oedd unig lwyddiant y fenter hon, er i'r berthynas â Disney roi hwb i statws y sianel yn y marchnadoedd teledu, gyda thystiolaeth amlwg o hynny yn y flwyddyn wedi cyhoeddi'r cytundeb hwnnw pan gaed yr hyn a elwid gan swyddogion y sianel yn 'Disney Effect' ym marchnad 1984, pan werthwyd gwerth £130,000 o raglenni.[148] Yr oedd nifer o raglenni llwyddiannus eraill, na dderbyniodd yr un cyhoeddusrwydd gan y wasg, rhaglenni megis *Mentro! Mentro!*, a werthwyd i bum gwlad ar hugain gan gynnwys yr Unol Daleithiau erbyn canol 1985.[149] Bu gwerthiant rhaglenni S4C mor llwyddiannus, nes bod cyfanswm ei gwerthiant blynyddol ar gyfer 1984–85, sef £900,000 yn fwy na chyfanswm gwerthiant pum cwmni mwyaf rhwydwaith ITV ar gyfer yr un flwyddyn.[150] Llwyddwyd i hawlio lle i nifer helaeth o raglenni Cymraeg ar y rhwydweithiau Prydeinig, gwerthwyd cyfanswm o 70 o raglenni yn ystod y cyfnod prawf, megis y gyfres *Joni Jones* ar BBC2 a'r gyfres animeiddiedig *Hanner Dwsin* i Central TV i'w ddarlledu ar rwydwaith ITV ar foreau Sadwrn.[151] At hynny, llwyddwyd i berswadio Channel 4 i ddarlledu cyfres o ddramâu Cymraeg wedi eu is-deitlo, gydag *Aderyn Papur* (Bayley, 1983), *Wil Six* (Turner, 1985), *Yr Alcoholig Llon* (Francis, 1985) ac *Nid ar Redeg* (Clayton, 1984) yn rhan o'r casgliad arbennig hwnnw.[152] Ymddengys y meddai swyddogion Channel 4 ar gryn ymddiriedaeth a hyder yn safon ac apêl y cynnwys a ddeuai o du S4C, a hynny gan iddi ddarlledu *Wil Six* ar ddiwrnod Nadolig

[147] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11 Mai 1984. Fe geir tystiolaeth yng nghofnodion Mentrau ym 1985, fod y swyddogion yn dechrau pryderu am addasrwydd nifer o'r rhaglenni a gynhyrchid erbyn y flwyddyn honno i'w gwerthu mewn marchnadoedd tramor, ac nad oedd y catalog gwerthu yn tyfu. Er mwyn ceisio lleddfu'r broblem hon ymddengys i'r sianel ddechrau ystyried cyd-gynhyrchu cyfresi animeiddiedig gyda darlledwyr eraill megis Yorkshire Television, TVS a'r BBC er mwyn cynnal eu statws yn y marchnadoedd teledu; CS4C, *Minutes of the twenty-ninth Directors' Meeting of Mentrau Cyf.*

[148] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru.*

[149] CS4C, *Minutes of the twenty-ninth Directors' Meeting of Mentrau Cyf.* Ailenwyd y gyfres yn *Pushing the Limits* ac yn *Risking it All* ar gyfer y cynulleidfaoedd Saesneg eu hiaith.

[150] CS4C, *Minutes of the thirtieth Directors' Meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i agenda chweched cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10–11 Hydref 1985. Yr oedd gwerthiant Channel 4, er hynny, yn yr un cyfnod yn ddwbl y gwerthiant a welwyd gan S4C, sef £1.8 miliwn.

[151] CS4C, *Minutes of the fifteenth Directors' Meeting of Mentrau Cyf*; CS4C, *Draft Minutes of the twenty-third Directors' meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a saith Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Chwefror 1985.

[152] CS4C, *Minutes of the twenty-ninth Directors' Meeting of Mentrau Cyf.*

1985.[153] Caed llwyddiannau sylweddol felly o weithgareddau Mentrau, gan brofi i'r sector ddarlledu yng Nghymru a thu hwnt bod gwerth a photensial i raglenni Cymreig a Chymraeg a gynhyrchwyd gan gwmnïau cymharol fychan ar lwyfan rhyngwladol, ac y gellid cystadlu a denu sylw darlledwyr amlycaf y byd. Er hynny, heblaw am alluogi'r sianel i ariannu cyfresi animeiddio safonol a chynnal yr egin ddiwydiant hwnnw, ni lwyddodd y fenter hon i warantu sicrwydd ariannol i'r sector annibynnol yn unol â gobeithion gwreiddiol swyddogion y sianel. Ni wnaed elw digonol er mwyn bwydo symiau sylweddol yn ôl i S4C i'w buddsoddi yn y cynhyrchwyr annibynnol, a hynny yn rhannol gan nad oedd digon o raglenni a chyfresi gwahanol i'w gwerthu er mwyn gwneud arian sylweddol.[154] Byddai angen ystyried eto, felly, ffyrdd eraill o arbed neu godi arian er mwyn sicrhau ffyniant y diwydiant hwnnw.

*S4C a'i darparwyr – Ailbennu'r ffiniau*

Gan nad oedd y mentrau newydd yn gwneud digon o elw i gynnal y gwariant ar raglenni, pan nad oedd y sianel yn derbyn digon o arian o'r ADA bu'n rhaid iddi adolygu'n fanwl y patrymau gwaith a weithredwyd gyda'r cynhyrchwyr annibynnol. Ceisiadau ariannol 1984–85, y cynnig llai na'r disgwyl a dderbyniwyd gan yr ADA, a'r galw i edrych drosodd a thro ar wariant y sianel a cheisio darganfod mannau lle gellid darganfod arbedion a sbardunodd yr adolygiad hwn. Fel y crybwyllwyd eisoes, yr arian a wariwyd ar gynyrchiadau annibynnol oedd un o'r agweddau prin ar gyllideb y sianel lle gellid gwneud arbedion sylweddol, nid gan fod gorwario sylweddol yn digwydd yn y maes hwnnw, ond gan fod y cytundeb â HTV yn ddigyfnewid a gwariant cyfundrefnol y sianel yn dynn. Penderfynwyd felly yn nhymor yr hydref 1983 edrych eto ar y patrwm o weithio gyda'r cynhyrchwyr annibynnol er mwyn gweld a ellid gwneud y broses yn fwy effeithiol a sicrhau mwy o raglenni am yr arian a oedd ar gael i'w wario. Yr oedd y patrwm comisiynu a ffurfiwyd yn ystod y misoedd cyntaf yn gymharol llac ac anffurfiol, ac fel rheol os oedd cynhyrchydd yn cynnig syniad da a oedd yn werth ei gynhyrchu ym marn y swyddogion, byddai comisiwn yn dilyn yn fuan iawn wedyn. Dyma strategaeth a arweiniodd at gomisiynu rhaglenni gan 46 o gwmnïau ac unigolion gwahanol yn

[153] CS4C, *Draft Minutes of the thirty-first Directors' meeting of Mentrau Cyf – Papur atodol i agenda seithfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Tachwedd 1985.
[154] Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

ystod dwy flynedd gyntaf y sianel. O'r 46 cwmni, yr oedd 22 ohonynt wedi derbyn comisiwn ym 1982/3 ac ym 1983/4. Ni dderbyniodd deuddeg cwmni a dderbyniodd gomisiwn yn ystod y flwyddyn gyntaf, fwy o gomisiynau yn yr ail flwyddyn, a comisiynwyd naw cwmni newydd, na dderbyniwyd rhaglen ganddynt yn flaenorol yn ystod yr ail flwyddyn.[155] Mae 46 yn ffigwr sylweddol o ystyried mai rhain oedd blynyddoedd cyntaf y sianel, ond nid dyma uchafbwynt nifer y cwmnïau a oedd yn derbyn comisiynau gan S4C oherwydd, erbyn 1997 yr oedd 54 o gynhyrchwyr annibynnol yn cyfrannu rhaglenni i'r sianel.[156] Er hynny, gellid dweud bod y nifer o gwmnïau yr oedd disgwyl i staff comisiynu fechan y sianel ymwneud â hwy yn sylweddol.[157] Yr hyn a wnâi'r baich ar staff S4C hyd yn oed yn fwy oedd yr amrediad eang o strwythurau mewnol a phatrymau gweinyddu a gaed ymysg y 46 cwmni. Nid oedd strwythurau yr un cwmni yn debyg i'w gilydd, er hynny gellid eu dosbarthu i dri categori eithaf penodol, sef cwmnïau un dyn, cwmnïau hunangynhaliol a chwmnïau bychain lle prynid pob arbenigrwydd i mewn pan yr oedd cynhyrchiad ar waith.[158] At y categorïau gwahanol o gwmnïau a ddefnyddid gan swyddogion y sianel wrth drafod y sector, ychwanegwyd pedwar llinyn mesur, a fyddai, petai'r cwmnïau yn eu cyrraedd, yn golygu bod y cwmnïau hynny ar sylfaen gadarn ac y gellid ymddiried ynddynt i raddau helaeth i gynhyrchu rhaglenni safonol, ar amser ac o fewn y gyllideb a bennwyd. Y categorïau hyn oedd: 'i) fflach greadigol, ac ansawdd rhaglen; ii) medrusrwydd ymarferol i gyflawni'r gwaith; iii) trefnusrwydd gweinyddol a chyfreithiol a iv) rheolaeth ariannol effeithiol.' Er bod y rhain yn safonau eithaf cyffredin a disgwyliedig, ymddengys mai nifer fechan o gwmnïau a oedd yn llwyddo i gyrraedd y ddelfryd hon ym marn y sianel.[159] Yr

---

[155] CS4C, *Y Sector Annibynnol – pwyso a mesur (Papur 10.83(6))*, t. 1.

[156] Nerys Fuller-Love, Aled G. Jones a Cheryl Dennis, *The Impact of S4C on Small Businesses in Wales* (Aberystwyth, 1999), tt. 89–90. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol gan y sianel yn 2004 a amlinellodd batrwm newydd o weithio gyda'r cynhyrchwyr annibynnol, disgynnodd y nifer o gynhyrchwyr annibynnol o 42 yn 2002 i 31 yn 2006. Yn 2010, honwyd bod y sianel yn parhau i weithio â 30 o gynhyrchwyr annibynnol, er hynny ymddengys fod y sianel yn cyflwyno y rhan helaeth o gomisiynau'r sianel i bum prif gwmni mawr; S4C, *Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru 2002 – 2006*, Gorffennaf 2007, t. 8; Martin Shipton, 'S4C faces its biggest crisis', *www.walesonline.co.uk/news/welsh-politics/welsh-politics-news/2010/08/28/s4c-faces-its-biggest-crisis-91466-27154433/*, 28 Awst 2010 (cyrchwyd Tachwedd 2010).

[157] Dim ond pedwar aelod o staff a oedd yn ymwneud â chomisiynu a goruchwylio'r cynhyrchu yn ystod 1983/4 sef Euryn Ogwen Williams, Golygydd Rhaglenni, Emlyn Davies, Prif Gomisiynydd Rhaglenni, Dilwyn Jones, Comisiynydd Rhaglenni ac un gweinyddwraig. Staff fechan iawn o ystyried bod comisiynwyr/goruchwylwyr gwahanol ar gyfer pob *genre* unigol yn amlach na pheidio ar staff darlledwyr eraill ar ddechrau'r 1980au. Y patrwm a gaed yn S4C oedd yr eithriad ac nid y strwythur arferol.

[158] CS4C, *Y Sector Annibynnol – pwyso a mesur (Papur 10.83(6))*, t. 1.

[159] Ibid.

awgrym clir a geir gan y gydnabyddiaeth hon yw bod lefel uchel o anogaeth a chymorth yn cael ei gynnig i relyw'r cynhyrchwyr nad oedd yn cyrraedd y pedwar nod uchod. Awgrymwyd bod nifer o gynhyrchwyr yn rhagori ar ambell elfen, ond yn ansad ar agweddau eraill, er enghraifft nodwyd fod Cwmni'r Castell yn dda o ran trefniadaeth ond yn 'simsan' o ran syniadau, a chynhyrchwyr eraill megis Endaf Emlyn a Gareth Wyn Jones yn cyflwyno syniadau creadigol gwych, ond yn 'cloffi'n boenus' gyda'r agweddau gweinyddol.[160]

Holir felly pam yr oedd staff rhaglenni S4C, os oedd gweithio â'r cynhyrchwyr annibynnol yn amlach na pheidio yn llafurus yn parhau i frwydro er mwyn gweithio gyda'r cwmnïau hyn. Ymddengys mai oherwydd ymdrech ac agwedd gwbl ddiflino y cynhyrchwyr, a'u parodrwydd i weithio mewn amgylchiadau anodd er mwyn darparu cynnwys difyr a deniadol i'r sianel a sicrhaodd diwydrwydd y sianel ar eu rhan. At hynny, fe geir ymdeimlad o deyrngarwch rhwng staff rhaglenni'r sianel a'r cynhyrchwyr annibynnol, a hynny oherwydd y ffordd y bu i'r sector newydd hon ymateb yn frwd i'r alwad, fel yr esbonia'r datganiad hwn:

> Y gwir yw y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael bywydau esmwythach a brasach o fewn y ddwy gyfundrefn ddarlledu fawr, ond maent yn dewis gweithio oriau meithion yn ddi-rwgnach er mwyn cael gwireddu eu syniadau eu hunain er lles S4C.[161]

Er y teyrngarwch hwn, oherwydd pryderon y sianel am ei gyllideb yn 1984 yr oedd hi'n anorfod y byddai'r swyddogion yn ailystyried ac ailedrych ar y berthynas, ac addasu'r ffordd yr oedd y sianel yn ymwneud â'i darparwyr. Doedd dim modd gwneud yr arbedion hynny yn unig drwy ochel rhag comisiynu cynyrchiadau uchelgeisiol megis *Madam Wen* ac *Owain Glyndŵr*, a chyflwyno mesurau fyddai'n sicrhau trefniant ariannol tynn er mwyn atal enghreifftiau enbyd o orwario fel y gwelwyd yn ystod y flwyddyn gomisiynu gyntaf.[162] Yr oedd angen ystyried

---

[160] Ibid.

[161] Ibid., t. 2.

[162] Yr oedd y sianel wedi cyflwyno mesurau er mwyn sicrhau bod y cynhyrchwyr annibynnol yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd rheolaeth ariannol dynn, a hynny drwy fynd yn erbyn confensiwn y diwydiant o gynnwys cronfa ariannol wrth gefn ar gyfer costau a threuliau annisgwyl fel rhan o gyllideb pob comisiwn. Yn hytrach, teimlwyd y byddai peidio â chynnwys yr elfen hon yn '. . . tanlinellu'r angen am reolaeth dynn.' Canlyniad polisi o'r fath, er hynny, oedd fod y gorwario'n gallu ymddangos yn waeth, ac o bosibl yn llawer mwy cyffredin, gan nad oedd unrhyw arian wrth gefn er mwyn ymdopi â digwyddiadau a newidiadau na ellid eu rheoli; Ibid. t. 3.

gweithredu mewn modd llawer mwy dramatig na hynny, a'r hyn a argymhellwyd gan staff rhaglenni'r sianel oedd cynnig gwahanol lefelau o gynhaliaeth i gwmnïau yn ddibynnol ar eu natur a'u gallu.[163] Daethpwyd i'r casgliad nad oedd modd i'r sianel ddarparu cynhaliaeth blwyddyn i bob cwmni a fodolai yng Nghymru. Doedd dim modd sicrhau bod y cynhyrchwyr hynny yn derbyn digon o gomisiynau mewn blwyddyn er mwyn gwarantu eu bodolaeth.[164] Mewn trafodaethau fe ystyriwyd a ddylid gwneud bywyd yn hawdd i staff raglenni fechan y sianel, trwy weithredu ar egwyddor o benderfynu faint o gwmnïau y gellid yn rhesymol eu cynnal gyda'r arian a dderbynnid gan yr ADA a thorri cysylltiad â'r gweddill, gan leihau'r nifer o gwmnïau y byddant yn delio â hwy yn sylweddol. Er apêl symlrwydd cynllun o'r fath, fe'i gwrthodwyd a hynny ar sail y ffaith y teimlid y gallai fod yn andwyol i'r gwasanaeth ac yn niweidiol i'r brwdfrydedd di-ben-draw a fodolai ymysg y cynhyrchwyr annibynnol. Gallai penderfyniad o'r fath dorri'r ysbryd a chwalu enaid y sector, yr elfennau creiddiol hynny a edmygid gan staff S4C, meddai'r adroddiad: 'Camgymeriad fyddai trefn haearnaidd felly, gallai arwain at bylu'r fflam pe baem yn sefydlogi gormod ar y drefn, ac yn sicr gallasai fod perygl mawr o lithro i rigol esmwyth. Cryfder y sector annibynnol yw'r hyblygrwydd.'[165] Yr oedd y datganiad hwn yn un hirben a hynod graff o ystyried mai canlyniad ymdrechion diweddar y sianel i resymoli'r sector annibynnol oedd cynhyrchu rhaglenni nad oedd yn llwyddo i ddenu a swyno'r gynulleidfa Gymraeg. Deil yn amlwg o'r sylwadau hyn fod cystadleuaeth yn rhan hanfodol o'r ysbryd heintus hwnnw, ac yr oedd pryder sylweddol a dealladwy y byddai lleihau'r gystadleuaeth honno yn effeithio ar natur y syniadau a safon y cynyrchiadau a ddeuai o'r cynhyrchwyr annibynnol. Er gwrthod y syniad hwnnw, doedd dim cefnogaeth i'r dewis arall a geid ym mhegwn pellaf y ddadl honno ychwaith, sef i rannu'r arian yn hafal rhwng pawb. Ni fyddai cynllun o'r fath yn ystyried y gwahaniaethau amlwg ac arwyddocaol o ran gallu a chreadigrwydd rhwng y cwmnïau. Penderfynwyd, yn hytrach, ar gynllun lle rhannid y sector yn dri chategori gwahanol gan gynnig cymorth a chynhaliaeth wahanol yn ddibynnol ar y categori. Y categori cyntaf oedd y cwmnïau a ystyrid y rhai mwyaf 'cadarn', ac iddynt hwy bwriedid cynnig cynhaliaeth blwyddyn fyddai'n galluogi i'r cwmnïau ddatblygu, paratoi a chynllunio o flaen llaw, yn hytrach na byw o

---

[163] Ibid., tt. 3–9.
[164] Ibid., tt. 3–4.
[165] Ibid., t. 4.

gomisiwn i gomisiwn heb unrhyw sicrwydd incwm. Ystyrid mai rhain oedd asgwrn cefn a 'chnewyllyn' y sianel, ond nid cwmnïau mawrion mohonynt i gyd, er yr oedd y cynhyrchwyr hynny a lwyddai i gyflawni'r meini prawf a osodwyd gan y sianel, yn rhan o'r grŵp. Ceid deuddeg yn y categori hwn, y cwmnïau Ffilmiau'r Nant, Ffilmiau Eryri, Siriol, Teliesyn, Tŷ Gwyn, Scan, Atsain a Theledu'r Tir Glas a hefyd cynhyrchwyr unigol megis Siôn Humphreys, Endaf Emlyn, Alan Clayton a John Pickstock. Teimlid y byddai cymorth ariannol cyson yn galluogi'r unigolion hyn i ddatblygu a chyflogi arbenigedd mewn meysydd gweinyddol ac ariannol er mwyn sicrhau fod yr agweddau hynny yn cefnogi yn hytrach na thanseilio eu gwaith.[166] Ond doedd dim sicrwydd y byddai'r deuddeg yn aros yno, oni bai i'w syniadau barhau i blesio a chreu rhaglenni difyr a deniadol i'r gynulleidfa Gymraeg. Yr oedd abwyd deniadol felly i'r cynhyrchwyr a gynhwysid yn y rhestr honno, a gwobr sylweddol pe gellid parhau i gyflwyno a chynhyrchu rhaglenni safonol.

Yr ail gategori a ffurfiwyd oedd ar gyfer y cwmnïau hynny a ystyrid yn 'ddiddrwg, didda', ac iddynt hwy bwriedid cynnig cynhaliaeth rannol. Y cynhyrchwyr a gynhwysid yn y categori hwn oedd y cwmnïau hynny lle teimlid mai dim ond un cynhyrchiad mawr neu gyfres a ellid ei ddisgwyl ganddynt bob blwyddyn. Meddai'r adroddiad: 'Ffolineb fyddai eu cynnal am weddill y flwyddyn yn unig er mwyn eu cadw mewn busnes i gael y gyfres rydym ei hangen.'[167] A chan nad oedd sefyllfa ariannol S4C yn galluogi cynnig cynhaliaeth ehangach iddynt yr oedd y staff rhaglenni o blaid bod yn gwbl onest â'r cwmnïau am eu perthynas â'u statws o fewn y patrwm comisiynu, er mwyn sicrhau nad oeddent yn cael camargraff ac yn gobeithio y gellid cael rhagor o gomisiynau gan y sianel.[168] Y cwmnïau a osodwyd yn y categori hwn oedd Cwmni'r Castell, Dinas, Red Rooster, Hanner Dwsin, Ffilmiau'r Garth, Celtic Films, Teledu'r Tŵr, Gareth Lloyd Williams a Bumper Films.[169] Er mai dyma'r cam nesaf naturiol ar y system a ddyfeisiwyd, hwn oedd y categori mwyaf problematig, gan ei fod yn gosod y cwmnïau mewn man canol ansefydlog. Nid oedd y comisiwn gan S4C yn ddigon i'w cynnal am flwyddyn gron, ac os nad oedd modd cael gwaith neu gomisiwn gan ddarlledwyr eraill, byddai'n amhosibl i'r cwmnïau hynny gynnal swyddfa a chyfundrefn weinyddol.

[166] Ibid.
[167] Ibid., t. 4.
[168] Ibid.
[169] Ibid., t. 7.

Cydnabuwyd y byddai hyn yn arwain at nifer o'r cwmnïau yn cau eu swyddfeydd am ran o'r flwyddyn pan nad oedd gwaith ar eu cyfer, gan golli'r arbenigedd gweinyddol a fagwyd eisoes, ac y byddai eraill yn penderfynu nad oedd modd iddynt oroesi gyda chynhaliaeth rannol o'r fath, ac y byddent yn penderfynu rhoi'r gorau iddi.[170] Er nad colli a lleihau nifer y cwmnïau oedd prif amcan yr adolygiad hwn, yr oedd yn un o'r canlyniadau anochel y byddai'n rhaid i'r sianel ddygymod ag ef, yn enwedig o ystyried y diffyg ariannol a oedd ei hwynebu.

Y trydydd categori a'r mwyaf o ran nifer y cwmnïau a osodwyd ynddo oedd y categori olaf sef y cwmnïau 'un rhaglen'.[171] Ni fwriedid cynnig unrhyw gynhaliaeth o gwbl i'r cynhyrchwyr a berthynai i'r categori hwn y tu hwnt i'r cynhyrchiad a oedd wedi ei gomisiynu gan y sianel. Er hynny, ystyrid y byddai'r grŵp hwn yn bwysig iawn i hyblygrwydd ac amrywiaeth yr amserlen. Byddai'r cynhyrchwyr hyn yn cynnig amrediad o syniadau gwahanol a fyddai'n cydweddu i'r ddarpariaeth a gaed gan y cynhyrchwyr annibynnol mwy sefydlog, megis ffilmiau achlysurol neu raglenni chwaraeon arbennigol. Yr oedd y cynllun hwn yn dilyn patrwm a oedd yn adlais o'r modd y defnyddiwyd y cynhyrchwyr annibynnol i ddarparu'r amrywiaeth i'r amserlen ym misoedd cynnar comisiynu'r sianel. Yr oedd y cynhyrchwyr a oedd yn addas ar gyfer y categori hwn yn gyfuniad o gwmnïau a chynhyrchwyr unigol megis Karl Francis, Burum, Na-Nog, Fflic, a Jack Bellamy.[172] O'r rhestr gellir gweld bod cyfuniad ar y rhestr o wneuthurwyr ffilm unigol, megis Karl Francis, fyddai'n defnyddio'r sianel i ariannu un cynhyrchiad sylweddol, ac na fyddai'r system newydd felly yn newid byd iddynt, ond bod eraill yn gwmnïau mwy a fu'n cynhyrchu nifer o raglenni i'r sianel ar un adeg megis Na-Nog a Sgrin '82, ond

---

[170] Ibid., tt. 4–5. Trafodwyd y gellid cynnig ateb posibl i'r broblem o gynnal swyddfeydd segur a cholli arbenigedd gweinyddol ac ariannol y cwmnïau hyn, trwy sefydlu tîm gweinyddol fyddai ar gael i'w hurio i'r cwmnïau annibynnol ar gyfer y cyfnodau cynhyrchu. Cynigwyd hefyd y gellid arbed miloedd o bunnoedd trwy sefydlu swyddfa fyddai ar gael at ddefnydd y cwmnïau dros dro hyn, yn hytrach nag ariannu nifer sylweddol o swyddfeydd gweigion. Ni dderbyniodd y syniad sêl bendith yr Awdurdod, credid y byddai annog y cwmnïau eu hunain i rannu arbenigedd yn gynllun llawer mwy llwyddiannus; CS4C, *Cofnodion unfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 6.

[171] CS4C, *Y Sector Annibynnol – pwyso a mesur (Papur 10.83(6))*, t. 5.

[172] Ibid., t. 8. Yr enwau eraill a nodwyd yn y dosbarth hwn oedd Wyvern Television, Emyr Evans, Hugh David, Twl, Glansevin, Cineclair, Ffenics, Clive Paton, Anjou Productions, Narrowcast, Chatsworth Television, Imago Films, ODA Productions, Maple Dragon Productions, Ian Bodenham, Opix Films a Sgrin '82.

oherwydd methiannau ar eu rhan neu drafferthion mewnol, eu bod wedi colli tir.[173] Byddai'r cynllun newydd yn gweddnewid eu cynlluniau hwy ac o bosibl yn siom i nifer ohonynt a oedd wedi gobeithio sicrhau bywoliaeth lwyddiannus trwy weithio i'r sianel.

Erbyn 1984, felly, yr oedd cynlluniau yn yr arfaeth a fyddai'n chwyldroi y ffordd yr oedd y staff comisiynu yn ymwneud â'r cwmnïau annibynnol, gan roi strwythur cadarn i'r sector newydd a fu'n gymharol ddi-strwythur yn ei blynyddoedd cynnar. Yr oedd model hyblyg o'r fath wedi sicrhau amrywiaeth eang ym mlynyddoedd cynnar y sianel pan yr oedd digon o arian i sicrhau rhaglenni a stoc wrth gefn, ond mewn cyfnod o gyfyngder ariannol, yr oedd yn rhaid aberthu yr amrywiaeth eang hwnnw er mwyn sicrhau nad oedd y sianel yn byw yn uwch na'i stad. Ac yr oedd pethau'n argoeli'n dda i'r cynllun newydd wedi trafodaethau cychwynnol gyda'r cwmnïau fyddai'n derbyn cynhaliaeth lawn gan y sianel, gan y rhagwelid y byddai modd cynhyrchu 270 awr o raglenni am yr un arian a ddefnyddiwyd i gynhyrchu 221 o oriau wrth ddefnyddio'r hen batrwm llai ffurfiol o drafod a chomisiynu rhaglenni unigol gan y cynhyrchwyr annibynnol.[174] Yr oedd gwerth sylweddol felly i ailstrwythuro'r sector annibynnol, er nad oedd y cynllun newydd yn debygol o gael ei fabwysiadu'n gwbl ddirwgnach. Er y trafferthion arfaethedig, yr oedd yr arbedion tebygol yn sicrhau nad oedd rheidrwydd i S4C gynllunio i leihau'r nifer o oriau wythnosol a ddarlledid pe bai'r arian a ddeuai gan yr ADA yn is na'r disgwyl. Byddai lleihau'r oriau neu yn hytrach bod yr oriau darlledu yn aros yn eu hunfan gyda dyfodiad Croes Cwrlwys ac awr a chwarter o raglenni ychwanegol gan HTV, wedi bod yn andwyol iawn i'r sianel yn ystod ei chyfnod prawf gan y byddai wedi

---

173 Daily Post Reporter, 'TV company is rocked by boardroom bust-up', *Daily Post*, 3 Ionawr 1983; Dienw, 'Four quit board of TV firm', *Western Mail*, 5 Ionawr 1983; Dienw, 'Split in Welsh TV company', *Caernarvon & Denbigh Herald*, 7 Ionawr 1983; Dienw, 'Boardroom row at S4C ends in four resignations', *UK Press Gazette*, 10 Ionawr 1983; Dienw, 'Two axed at S4C firm', *Western Mail*, 12 Ionawr 1983; Dienw, 'Un dyn bach ar ôl', *Y Cymro*, 18 Ionawr 1983; Dienw, 'Big debts put S4C firm out of action', *Western Mail*, 9 Tachwedd 1983.

174 CS4C, *Cofnodion seithfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 5 – 6 Ebrill 1984, t. 2. Yr oedd hi'n debygol y byddai'r ffigwr hwnnw o 270 awr yn disgyn wedi i'r syniadau a drafodwyd gyda'r cwmnïau gael eu costio'n llawn, ond hyd yn oed wedi'r broses honno, yr oedd y cynnydd arfaethedig yn parhau yn un sylweddol. Ymddengys na llwyddodd y sianel i gynyddu oriau'r cynhyrchwyr annibynnol rhwng 1984–85 ac 1985–86 i'r graddau y gobeithid yn wreiddiol, gan mai 184 o oriau a gynhyrchid ganddynt yn 1984–85 a gynyddodd i 206 awr a 30 munud y flwyddyn ariannol ganlynol. At hynny, ni leihaodd cost rhaglenni'r cynhyrchwyr annibynnol ar gyfartaledd fesul awr gan mai £38,459 oedd cost yr awr yn 1984–85 a gynyddodd i £43,176 y flwyddyn ganlynol. S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 6; S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86*, t. 25.

arwain at fynegi amheuon ynglŷn â dichonoldeb hir dymor gwasanaeth teledu Cymraeg cyflawn ac wedi cynddeiriogi'r gynulleidfa Gymraeg.

Er y pwyslais sylweddol a roddwyd ar yr ailstrwythuro a'r fantais ariannol a gaed ohono, nid dyma yr unig addasiad i batrwm comisiynu'r cynhyrchwyr annibynnol. Elfen arall a gafodd effaith ar y nifer o raglenni gwahanol a ddarlledid ar y sianel, oedd comisiynu cyfresi hirach o raglenni poblogaidd.[175] Yn nyddiau cynnar comisiynu'r sianel, arbrofwyd gyda nifer o raglenni gwahanol trwy gomisiynu cyfresi byr o bedair neu chwe phennod wrth geisio dod o hyd i raglenni a fyddai'n apelio at y gynulleidfa.[176] Gwnaed hyn gan nad oedd sicrwydd o lwyddiant y rhaglenni gan eu bod yn cael eu cynhyrchu gan unigolion a chwmnïau nad oedd â chefndir, neu â phrofiad o gynhyrchu rhaglenni y tu allan i systemau rheoli'r darlledwyr mwy. Ond wedi i'r rhaglenni brofi eu poblogrwydd gyda'r gynulleidfa, gellid comisiynu cyfresi hwy a oedd yn sicrhau gwerth gwell am arian, gan fod comisiynu deuddeg pennod yn ffordd llawer rhatach o sicrhau chwe awr o deledu na chyfuniad o dair neu bedair cyfres wahanol. At hynny, ac yn bwysicach, yr oedd patrwm gwylio'r gynulleidfa wedi dangos bod gwylwyr yn mwynhau cyfresi hir, ac yn dangos teyrngarwch i raglenni sefydlog a oedd yn rhan o'r amserlen wythnosol.[177] Caed tystiolaeth hefyd o'r ymddygiad hwn ymysg y gwylwyr yn y dirywiad a fu yn ffigurau gwylio'r sianel ar ôl y misoedd cyntaf wedi i nifer o'r cyfresi poblogaidd, a osodwyd yn yr wythnosau cyntaf i ddenu'r gwylwyr, ddod i ben; a heb gyfresi gafaelgar i gadw sylw'r gwylwyr, cofnodwyd cwymp anochel yn y ffigurau gwylio. Yr oedd hi'n gwneud synnwyr i'r sianel felly arbed arian a phrynu cyfresi hirion a oedd yn hudo'r gynulleidfa ac yn sicrhau eu teyrngarwch.

Nid y cynhyrchwyr annibynnol yn unig a brofodd adolygiad yn eu patrwm gwaith neu gytundebau gyda'r sianel. Erbyn 1984 yr oedd brwdfrydedd ymysg rhai aelodau o staff ac Awdurdod S4C i weithredu'r cymal a oedd yn galluogi adolygu'r cytundeb â HTV. Er mwyn dechrau'r broses honno felly, ym Mai 1984 penderfynwyd cyflwyno rhybudd i HTV o fwriad yr Awdurdod i adolygu'r cytundeb yn ystod y

[175] CS4C, *Y Sector Annibynnol – pwyso a mesur (Papur 10.83(6))*, t. 9.
[176] Ibid.
[177] Ibid.

flwyddyn ariannol 1985–86.[178] Credai Cadeirydd yr Awdurdod yn gwbl ddiysgog y gellid priodoli cyfran helaeth o'r cynnydd yn elw HTV rhwng 1982 ac 1983 i gytundeb rhaglenni S4C a arwyddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno.[179] Yr oedd ymdeimlad felly ymysg yr aelodau a'r swyddogion, gan na lwyddwyd i sicrhau yr union arian a ymgeiswyd amdano gan yr ADA am sawl blwyddyn yn olynol, mai pwrpas adolygiad ffurfiol oedd sicrhau arbedion i'r sianel a lleihau'r hyn a ystyriwyd oedd yn elw anghymharus y cwmni masnachol trwy gynhyrchu rhaglenni Cymraeg. Yr oedd cred ymysg staff y sianel y byddai HTV yn defnyddio'r adolygiad fel cyfle i ymestyn y cytundeb y tu hwnt i 1989 hyd 1996 ac y gellid defnyddio hyn fel tacteg fargeinio gan gyhoeddi na fyddai'r sianel yn ystyried unrhyw drafodaethau am ymestyn cyfnod y cytundeb oni bai y gellid sicrhau gostyngiad yn y costau yn y blynyddoedd hyd 1989.[180] Er mwyn cryfhau'r ddadl awgrymwyd gan S4C y dylid trafod ei chytundeb â HTV yn ystod adolygiad ffurfiol y Swyddfa Gartref ar ddiwedd y cyfnod prawf, a hynny gan fod y cytundeb yn llyncu cyfran sylweddol o gyllideb y sianel, sef oddeutu dwy ran o dair o'r cyfanswm blynyddol.[181]

Anghytunai HTV gyda'r syniad y gellid sicrhau arbedion i'r sianel trwy gyfrwng yr adolygiad. Mewn gohebiaeth â'r sianel meddai Tim Knowles, Rheolwr Gyfarwyddwr Cynorthwyol HTV, 'Sub-clause 5.1 refers solely to a review of the agreement and there can be no question of re-negotiation.'[182] Yr oedd gwahaniaeth barn sylweddol felly rhwng y ddwy ochr wrth i'r adolygiad hwnnw fynd rhagddo, ac ymestyn yn unig fyddai'r gagendor hwn rhyngddynt wrth iddynt ddechrau trafod arian a phris rhaglenni. Ar y naill law nodwyd yn glir gan Euryn Ogwen Williams fod S4C yn argyhoeddedig, ei bod yn gordalu am y rhaglenni a gynhyrchid gan HTV. Teimlid fod y cwmni wedi llwyddo i wneud elw crynswth a oedd yn fwy na'r pymtheg y cant yr oedd y cytundeb yn ei ganiatáu. At hynny, honnwyd fod yr arian a gasglwyd gan HTV o werthiant hysbysebion ar S4C yn fwy nag yr hanner miliwn o

[178] CS4C, *Cofnodion wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11 Mai 1984, t. 2.
[179] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a phump Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 5; Dienw, 'HTV charge too much, claim S4C', *Western Mail*, 9 Awst 1985.
[180] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a phedwar Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.
[181] CS4C, *Draft reply to the Home Office letter of 26 March 1985 – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a naw Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Ebrill 1985, tt. 2–3. Ceir trafodaeth helaethach o gynnwys adolygiad y Swyddfa Gartref ym Mhennod 6.
[182] CS4C, Llythyr oddi wrth Tim Knowles at Euryn Ogwen Williams, 8 Mawrth 1985.

bunnau y flwyddyn a ddisgwylwyd cyn lansiad y sianel.[183] Darbwyllwyd swyddogion S4C gan y ffactorau hyn y gellid gwneud arbedion trwy adolygu'r cytundeb. Ar y llaw arall, gwrthwynebodd HTV honiadau S4C gan ddatgan y byddai'r adolygiad yn dangos nad oedd yr arian a dalai S4C am raglenni yn ddigonol. Datganwyd nad oedd unrhyw gyfiawnhad i S4C honni ei bod yn talu gormod o arian am raglenni a hynny gan fod y swm a dderbynnid gan HTV yn unol â'r cynnydd a nodwyd yn y cytundeb. Yr oedd y cynnydd a welwyd yn incwm S4C, er hynny, yn uwch na'r canran hwnnw, ffaith a ddefnyddid gan HTV i ddifrïo honiadau'r sianel fod y cytundeb yn ei rhwystro rhag ymwneud â gweddill ei chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Ddarlledu 1981.[184] Ceid gwahaniaeth barn sylweddol felly rhwng y ddwy ochr, gyda S4C yn honni mai'r cytundeb gwreiddiol a oedd yn wallus ac HTV yn mynnu bod y cytundeb hwnnw'n deg, ac nad oedd yr incwm a dderbyniwyd yn uwch na'r hyn a gytunwyd arno ym 1982.

Rhygnu ymlaen wnaeth yr adolygiad a'r trafodaethau rhwng y ddwy ochr ymhell ar ôl cyfnod prawf y sianel, gan ddilyn patrwm syfrdanol o debyg i'r dadleuon gwreiddiol a hirhoedlog hynny a geid dros gynnwys y cytundeb. Cafwyd cyngor allanol unwaith yn rhagor gan gwmni Peat, Marwick and Mitchell (PMM), ac ystyriwyd nifer o ffigurau y gellid eu hawlio yn ôl gan HTV, er enghraifft ffigwr o £3 miliwn fel ad-daliad am gamddefnydd gan HTV o stiwdio ddarlledu.[185] Anfonwyd adroddiad gan PMM at HTV ar ddiwedd blwyddyn ariannol 1985/6, ac yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw esgorwyd ar drafodaethau pellach rhwng y ddwy ochr. Cynigwyd gostyngiad o £1.5 miliwn gan HTV, pe gellid ymestyn y cytundeb hyd 1996, ond yr oedd yr Awdurdod yn gwbl amharod i ystyried hyn, gan fod y trefniant ariannol a gaed gyda'r ADA yn dod i ben yn ystod 1989. Credid bod perygl sylweddol i ymrwymo i unrhyw drafodaethau heb syniad sut y byddai'r sianel yn cael ei hariannu yn y blynyddoedd wedi hynny.[186] Yr oedd hyn wrth gwrs yn anwybyddu'r ffaith fod y sianel eisoes, yn y cytundeb a arwyddwyd ym 1982, wedi ymrwymo i gyfnod a oedd yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod prawf, a bod cynsail i'r hyn

---

[183] CS4C, Llythyr oddi wrth Euryn Ogwen Williams at Tim Knowles, 15 Mawrth 1985, t. 1. Honnai HTV nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng cytundeb HTV â S4C a'r arian a gesglid gan y cwmni trwy werthu gofod hysbysebu ar y sianel Gymraeg.

[184] CS4C, Llythyr oddi wrth Tim Knowles at Euryn Ogwen Williams, 27 Mawrth 1985, tt. 2–13.

[185] CS4C, *Cofnodion chweched cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, t. 2.

[186] CS4C, *Cofnodion pymthegfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Mehefin 1986, t. 2.

yr oedd HTV yn ceisio ei wireddu. Penderfynwyd mai cynnig olaf y sianel i HTV fyddai derbyn y gostyngiad o £1.5 miliwn, ond na ellid ymrwymo i unrhyw gytundeb ar ôl 1989. Yn fuan wedyn penderfynwyd gwahanu'r trafodaethau am gytundeb wedi 1989 oddi wrth ystyriaethau adolygiad y cytundeb er mwyn sicrhau nad oedd natur y trafodaethau yn llygru ei gilydd, gan arwain at sefyllfa na ellid ei datrys.[187] Er yr ymgais hwn i dynnu'r tân o'r drafodaeth, ffrwydrodd y trafodaethau yn dân gwyllt wrth i Ron Wordley ac Owen Edwards gyfnewid cyfres o lythyrau chwyrn a phenboeth yng Ngorffennaf 1986. Bu i HTV gyhuddo rhai o aelodau'r Awdurdod o chwarae gemau gwleidyddol a bygythiwyd dwyn achos yn yr uchel lys petai manylion y trafodaethau rhyngddynt ag S4C yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.[188] Llwyddwyd i leddfu rhai o'r tensiynau hyn mewn gohebiaeth rhwng Cadeiryddion S4C ac HTV trwy ddatgan er y cyhuddiadau a'r bygythiadau di-angen bod y drws yn parhau ar agor ac fe ail ymgymerwyd â'r trafodaethau dyrys.[189] Yn y pendraw penderfynwyd gohirio'r gweithgareddau adolygu, a hynny oherwydd bod y trafodaethau ynglŷn â'r cynlluniau ôl-1989 yn mynd rhagddynt yn gymharol hwylus, o ystyried profiadau blaenorol.[190] Gellid dadlau hefyd bod gwahaniaeth pwyslais rhwng blaenoriaethau'r Cadeirydd cyntaf S4C a'i olynydd, John Howard Davies, wedi arwain at ohirio'r trafodaethau hyn gan nad oedd gwneud yn iawn am unrhyw orwariant yr un mor bwysig i ail gadeirydd Awdurdod y sianel. Parhâi perthynas S4C â HTV i fod yn un danllyd felly, hyd yn oed bum mlynedd wedi sefydlu'r sianel, gydag arian yn parhau yn brif faen tramgwydd rhyngddynt gan ddarlunio cymhlethdod annatod y berthynas fasnachol honno a orchmynnwyd gan y Ddeddf Ddarlledu.

Yn wahanol iawn i'r cynhyrchwyr annibynnol ac HTV ni chafwyd adolygiad ffurfiol o berthynas S4C gyda'r BBC, a hynny mae'n debyg gan nad oedd arian, un o brif ystyriaethau'r sianel yn y cyfnod hwn, yn rhan o'r trafodaethau rhyngddynt. Er absenoldeb materion masnachol, ni fu perthynas y ddwy gyfundrefn yn fêl i gyd yn

---

[187] CS4C, *Cofnodion deunawfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Medi 1986, tt. 4–5.
[188] CS4C, Llythyr oddi wrth Ron Wordley at Owen Edwards, 24 Gorffennaf 1986; CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Ron Wordely, 28 Gorffennaf 1986.
[189] CS4C, Llythyr oddi wrth John Howard Davies at Syr Melvyn Rosser, Cadeirydd HTV, Gorffennaf 1986.
[190] CS4C, *Cofnodion pedwar ugeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14 Tachwedd 1986, t. 2.

enwedig o ystyried rheolaeth olygyddol y rhaglenni. Yn sicr fe geir awgrymiadau o densiwn rhwng y ddwy ochr, yn enwedig o ystyried y sylwadau canlynol gan Euryn Ogwen Williams wedi blwyddyn o ddarlledu yn ystod un o drafodaethau estynedig yr Awdurdod ar arlwy'r sianel: '. . . a fyddai'r BBC yn derbyn mai amserlen S4C a ddylai reoli eu cynnyrch i S4C, yn lle'r sefyllfa bresennol lle'r oedd eu cynnyrch hwy yn dueddol o fod yn elfen sefydlog o fewn amserlen S4C.'[191] Ceir arlliw yma o drafferthion hierarchaeth a rhwystredigaeth swyddogion rhaglenni S4C na chaed mwy o reolaeth dros y cynnwys a ddeuai o du'r BBC, a hynny oherwydd mai'r Gorfforaeth oedd â chyfrifoldeb golygyddol dros y cynnwys a gynhyrchid gan ei staff ar gyfer y sianel. Yr oedd tystiolaeth hefyd o ddrwgdybiaeth sylweddol ymysg staff y BBC, oherwydd y gred eu bod yn derbyn llawer o'r bai am ddiffygion y sianel, er bod rhaglenni'r Gorfforaeth yn llwyddo i gyrraedd brig y siart pum rhaglen fwyaf poblogaidd S4C yn rheolaidd. Yr oedd nifer o'r trafferthion yn deillio o'r helbulon a gaed gyda *Newyddion Saith* a'r ffordd yr ymdriniwyd â hi fel bwch dihangol yn sgil y cwymp yn ffigurau gwylio'r sianel wedi'r misoedd cyntaf llwyddiannus.[192] Priodolwyd mai cyfathrebu clir a chyfarfodydd amlach rhwng swyddogion y ddwy gyfundrefn a oedd ei angen er mwyn lleddfu'r tensiynau hyn. Awgrymwyd hefyd, yn enwedig gan yr aelod o'r Awdurdod a gynrychiolai'r BBC, bod angen cydweithio o fewn y terfynau a osodwyd wrth geisio datrys trafferthion a oedd yn ymwneud â rhaglenni penodol, yn hytrach na chodi cwestiynau sylweddol o bolisi ac egwyddor, megis rheolaeth olygyddol.[193] Er na ddywedir hynny'n ddi-flewyn-ar-dafod, yr awgrym a geir yma yw bod angen i swyddogion y ddwy ochr roi eu gofidiau am seiliau'r berthynas o'r neilltu er mwyn sicrhau bod modd iddynt gydweithio'n llwyddiannus a chynhyrchu rhaglenni a fyddai'n parhau i ddiddanu a denu cynulleidfaoedd. Ar ôl y trafferthion hyn ar ddechrau ail flwyddyn ddarlledu'r sianel, ni cheir tystiolaeth i'r tensiwn barhau, gan gyfleu y bu y cyfarfodydd rheolaidd yn sbardun i aildanio'r berthynas gydweithredol rhwng y ddau sefydliad. Anodd yw credu i'r tensiwn ddiflannu yn gyfan gwbl, ond gan nad oes trafodaeth bellach yng nghofnodion yr Awdurdod na Chyngor Darlledu BBC Cymru, cesglir nad oedd unrhyw drafferthion a fu yn rhai difrifol a haeddai sylw'r pwyllgorau hyn.

---

[191] CS4C, *Cofnodion trydydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 1–2 Rhagfyr 1983, t. 1.
[192] Ibid., t. 2.
[193] Ibid

Nodweddir cyfnod prawf S4C gan batrwm o fentro i dir newydd, o fanteisio ar y deunyddiau a gynhyrchid ar gyfer y sianel a'u troi yn asedau a fyddai'n sicrhau cyhoeddusrwydd hanfodol ac enw da i'r sianel gartref ac ar lwyfan rhyngwladol. Arweiniodd ysbryd mentrus a blaengar amryw swyddogion y sianel i feysydd newydd wrth iddi fuddsoddi a phlannu ei gwreiddiau economaidd yn ddwfn yn nhir Cymru. Ni fu pob menter yn llwyddiannus yn y tymor hir, ond yn ystod y cyfnod prawf bu'r gweithgareddau yn fodd o ddenu sylw'r wasg Brydeinig a'r gwleidyddion i sianel fechan wrth iddi hyrwyddo ei hun a sicrhau enw da i Gymru dramor. Nodweddir y cyfnod prawf hefyd gan gyfnod o bwyso am arian teilwng gan yr ADA, arian a oedd yn galluogi'r sianel i barhau gyda'r gweithgareddau hyn ynghyd â'i phriod waith, sef comisiynu a darlledu rhaglenni. Yr oedd y cyllidebau llai na'r disgwyl a gaed gan yr ADA yn ysgogiad i adolygu a chymhwyso y parteriaethau a ffurfiwyd gyda'r cynhyrchwyr annibynnol a'r darlledwyr, er mwyn gwneud y gorau o'r ddarpariaeth a sicrhau bod arlwy'r sianel yn parhau yn gynhwysfawr ac yn apelgar i'r gynulleidfa, yn enwedig wrth i adolygiad tyngedfennol y Swyddfa Gartref nesáu. Yr adolygiad hwnnw fydd testun y bennod nesaf, yngyd â chanfyddiadau nifer o adolygiadau allanol gan sefydliadau megis Cyngor Defnyddwyr Cymru a Chymdeithas yr Iaith, a fu'n pwyso a mesur llwyddiant y sianel ac yn gofyn a ddylid parhau â'r arbrawf hwn â darlledu Cymraeg.

**Pennod 6**

**Adolygu'r sianel – arolygon barn ac archwiliad y Swyddfa Gartref**

Ganwyd S4C o dan y chwyddwydr cyhoeddus gyda disgwyliadau sylweddol arni o ran yr hyn y gallai ddarparu ar gyfer y gynulleidfa, a rhai aelodau o'r sector darlledu Cymreig yn amau yn gryf a ellid cynnal sianel Gymraeg o dan reolaeth Awdurdod newydd. Oherwydd y disgwyliadau a'r amheuon hynny bwriwyd golwg feirniadol dros ei chyrhaeddiad gydol y cyfnod prawf. Ond ar ddiwedd 1985 tasg adolygiad swyddogol y Swyddfa Gartref oedd cloriannu yr arbrawf a phenderfynu a fu'r fenter yn llwyddiant ai peidio. Yr oedd yr adolygiad disgwyliedig hwnnw yn holi a haeddai'r sianel barhau i ddarlledu i'r gynulleidfa Gymraeg, neu a ddylid dychwelyd at gynllun gwreiddiol y llywodraeth o ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar ddwy sianel. Ond nid hwn oedd yr unig adolygiad a geisiodd gloriannu llwyddiannau a methiannau y sianel a'i dylanwad ar batrymau gwylio'r gynulleidfa Gymreig. Yr oedd nifer o sefydliadau eraill megis Cymdeithas yr Iaith, Cyngor Defnyddwyr Cymru ac HTV eu hunain wedi llunio neu gomisiynu adroddiadau ac ymchwil manwl arni. At hynny, yn ystod y blynyddoedd darlledu, derbyniodd y sianel gan y cyhoedd nifer o lythyrau a galwadau ffôn yn uniongyrchol a oedd yn darparu darlun rhannol o ymateb y gynulleidfa i'r rhaglenni a ddarlledid ganddi. Yr oedd yr ymchwil a'r ohebiaeth yma yn allweddol i dystiolaeth y sianel wrth i'r Swyddfa Gartref lunio ei hadroddiad tynghedlawn. Nod y bennod hon felly yw olrhain a dadansoddi'r ohebiaeth, yr arolygon barn ac yn bennaf y dystiolaeth a anfonwyd gan amryfal sefydliadau at y Swyddfa Gartref fel rhan o'r adolygiad swyddogol er mwyn cloriannu'r agweddau tuag at y bedwaredd sianel yng Nghymru ar ddiwedd 1985.

*Ymateb y Gynulleidfa*

Y modd mwyaf uniongyrchol a dadlennol o ddarganfod a oedd y sianel yn llwyddo i blesio neu gynddeiriogi ei chynulleidfa oedd y llythyrau a'r galwadau ffôn y croniclai'r adran cysylltiadau cyhoeddus ar ffurf adroddiad misol i swyddogion ac Awdurdod y sianel. Heb os, y mater a oedd yn mynd tan groen y mwyafrif o'r gwylwyr hynny a ohebai â'r sianel oedd ail-amseru rhaglenni Channel 4. Yr oedd y rhyddid allweddol hwnnw a gyflwynwyd i S4C i ailddarlledu rhaglenni Channel 4 ar adegau fyddai'n gyfleus i'r amserlen yn golygu bod modd iddi ddangos y rhaglenni mwyaf atyniadol, ond ar amseroedd llai cyfleus, megis yn hwyr y nos neu yn ystod y

dydd. Er nad oedd hyn yn ateb delfrydol, yr oedd yn golygu bod modd i'r gwylwyr yng Nghymru wylio'r mwyafrif o raglenni Channel 4 petae nhw'n dymuno gwneud hynny. Er hynny, yr oedd canlyniadau negyddol i'r penderfyniad hwnnw a chyda'r mwyaf o'r rhain oedd nad oedd modd i S4C fanteisio ar waith marchnata Channel 4 a gyhoeddai amseroedd darlledu ei rhaglenni yn y wasg ac yn y *TV Times*. Yn wir, byddai'r cyhoeddusrwydd a dderbyniai rhaglenni Channel 4 yn creu mwy o ddryswch yng Nghymru wrth i wylwyr ddisgwyl gweld rhaglenni ar yr amseroedd a hysbysebwyd. Ond mewn gwirionedd byddai'n rhaid aros ddiwrnod neu ddau cyn eu darlledu yng Nghymru, os o gwbl, gan nad oedd modd adleoli pob rhaglen a ddarlledid gan Channel 4.[1] Yr oedd rhai gwylwyr hefyd yn gynddeiriog nad oedd modd iddynt wylio rhaglenni Channel 4 yn ystod yr oriau brig, megis un gwyliwr o'r Bala a ddatganodd:

> You do screen some of the more important Channel 4 programmes, though unhappily at unfortunate times. I am writing to urge that you screen more of the serious programmes (i.e. not the mere entertainment items) and put them out at the time Channel 4 viewers see them, so that we keep up to date. Chanel (sic) Four timings seem to me more practical than yours![2]

Fel y gwelir o'r llythyr hwn, nid yr amseru yn unig a oedd yn peri trafferthion. Yr oedd rhai gwylwyr yn amlwg yn anhapus gyda'r detholiad o raglenni Channel 4 a ddarlledid ar S4C, gan warafun nad oedd rhagor o raglenni difrifddwys y sianel Brydeinig yn rhan o'r amserlen. Yr oedd dethol rhaglenni adloniadol y chwaer Saesneg yn gwneud synnwyr i S4C, a hynny gan mai sianel boblogaidd a geisiai apelio at y mwyafrif oedd S4C, yn hytrach na sianel a geisiai apelio at gynulleidfaoedd arbenigol, ac felly yr oedd y cynnwys mwy poblogaidd, megis *Treasure Hunt*, yn gweddu'n well i ddelwedd ehangach y sianel. Er hynny pan yr oedd S4C yn darlledu rhywfaint o gynnwys beiddgar ac arloesol Channel 4, yr oedd natur y rhaglenni yn peri rhai trafferthion. Yr oedd naws heriol rhai o'r rhaglenni a ysgogodd y papurau tabloid, megis *The Sun*, i fedyddio'r sianel yn 'Channel swore',[3]

---

[1] Yr oedd hon yn gŵyn gyffredin a fynegwyd at y Swyddfa Gartref yn ystod ei hadolygiad swyddogol ar ddiwedd 1985, ceir rhagor ar y mater hwn yn hwyrach yn y bennod hon, tt. 336–8.
[2] Casgliad Sianel Pedwar Cymru (CS4C), Llythyr oddi wrth J. L. Owen, Bala at The Programme Director Channel 4, 5 Tachwedd 1985. Anfonwyd y llythyr hwn at S4C, ond mae'r ffaith i'r awdur ei gyfeirio at 'Channel 4' yn dangos y diffyg dealltwriaeth a oedd yn parhau hyd yn oed ar ddiwedd cyfnod prawf S4C o'r gwahaniaeth rhwng y ddwy sianel.
[3] Jeremy Isaacs, *Storm over Four, A Personal Account* (London, 1989), t. 51.

yn ennyn ymateb cryf, yn enwedig wrth ystyried chwaeth geidwadol a sobr canran uchel o'r gynulleidfa yng Nghymru. Dengys y dyfyniadau canlynol o lythyrau gwylwyr y math o ymateb a dderbyniwyd:

> . . . complete and utter disgust at the film 'SEBASTIAN' (sic). . . If this is a sample of the sort of material you intend showing in the future I certainly will not be tuning in.[4]
>
> S4C seems to be run by social anarchists . . . If this is the contribution this vandal-run channel is going to make to Welsh culture then that culture has been put in mortal danger on that account.[5]

Yn achlysurol felly byddai S4C yn penderfynu hepgor rhaglenni a ystyrid yn anaddas i'w darlledu i'r gynulleidfa yng Nghymru, megis ffilmiau'r triongl coch, cyfres o ffilmiau celfyddydol cignoeth a arddelai dystysgrif 18 gan y British Board of Film Classification (BBFC) ac a defnyddiai y triongl coch i rybuddio'r gynulleidfa o natur y cynnwys.[6] Ond nid am resymau chwaeth yn unig y byddai S4C yn penderfynu peidio darlledu rhai o raglenni Channel 4. Weithiau byddai cyfyngiadau'r amserlen yn golygu nad oedd modd darlledu rhai rhaglenni. Y rhaglenni fyddai'n dueddol o gael eu hepgor byddai ffilmiau, operâu a chwaraeon a hynny yn fwy na dim oherwydd eu hyd.[7] Gan fod S4C yn ceisio ail-ddarlledu cymaint â phosibl o'r rhaglenni er mwyn cadw'r gynulleidfa ddi-Gymraeg yn hapus, yr oedd hi'n anodd cyfiawnhau darlledu ffilm dwy awr lle gellid darlledu dwy, os nad pedair, rhaglen arall yn yr un slot.

Erbyn 1983 yr oedd S4C yn llwyddo i ail-leoli y rhan helaethaf o raglenni Channel 4, gyda dim ond 10 awr yr wythnos yn cael eu hepgor. Ond aeth cyrraedd y lefelau hyn yn fwyfwy anodd wrth i Channel 4 ymestyn ei horiau darlledu. Cyplyswyd hyn gyda'r ffaith fod S4C yn llwyddo i ddarlledu, ar gyfartaledd, dros bedair awr ar

---

[4] CS4C, Llythyr oddi wrth Mr. P. Bollard, Abertawe at Owen Edwards, 6 Rhagfyr 1985.
[5] CS4C, Llythyr oddi wrth T. Morgan Spanswick, Pontypridd at Nicholas Edwards, 25 Tachwedd 1985.
[6] CS4C, *Llythyrau/Sylwadau ffôn Tachwedd 1986 – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod a phedwarugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Rhagfyr 1986. Derbyniwyd saith cŵyn yn ystod Tachwedd 1986 gan nad oedd y sianel yn darlledu y ffilmiau hyn. Rhai o'r ffilmiau a ddarlledwyd ar Channel 4 gyda'r triongl coch yn rybudd o'u cynnwys oedd *Themroc* (Faraldo, 1973), *Identification of a Woman* (Antonioni, 1982) a *No Mercy, No Future* (Sanders-Brahms, 1981).
[7] CS4C, *Dadansoddiad Gohebiaeth Rhaglenni, Ionawr 1986 – Papur atodol i Agenda unfed cyfarfod ar ddeg a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 14 Chwefror 1986.

hugain o gynnwys Cymraeg bob wythnos erbyn 1985, dwy awr yn fwy na'r hyn a benodwyd yn y ddeddf. Yr oedd y cynnydd hwn nid yn unig yn golygu ei bod hi'n mynd yn anoddach i S4C ailddarlledu cyfran mor uchel o raglenni Saesneg, gan felly beryglu cynddeiriogi'r gynulleidfa ddi-Gymraeg, ond yr oedd hefyd yn creu trafferthion i adran dechnegol y sianel. Bob tro y byddai Channel 4 yn ymestyn ei horiau, byddai angen i S4C gyflogi shifft newydd o dechnegwyr er mwyn ymdopi â'r oriau a'r gwaith ychwanegol.[8] Gosodai hyn yn ei dro ragor o bwysau ar goffrau'r sianel.

Yr oedd y teimlad fod S4C yn amddifadu ac yn gwneud cam â'r gynulleidfa ddi-Gymraeg wedi bodoli ers dyddiau cynnar y sianel, fel y gwelwyd gyda phleidlais y darparwr cebl Rediffusion ymysg ei chwsmeriaid er mwyn ceisio sicrhau mai Channel 4 ac nid S4C a ddarlledid ar eu systemau yn nyddiau cynnar y sianel.[9] Ond cafodd y teimladau hynny eu dwysáu wrth i wasanaeth Channel 4 ymestyn a datblygu i gynnwys rhai rhaglenni arbennigol a oedd yn denu cynulleidfaoedd brwd a llafar. Yr enghraifft amlycaf oedd pan etifeddodd Channel 4 gytundeb rasio ceffylau ITV gan ddarlledu'r rasys yn fyw ar y sianel o ddiwedd mis Mawrth 1984 ymlaen.[10] Yr oedd hyn yn creu trafferthion mawr yn enwedig gan fod S4C wedi sefydlu patrwm o ddarlledu rhaglenni meithrin poblogaidd a rhaglenni ysgolion yn ystod y prynhawniau; patrwm yr oedd hi'n anodd ei newid ar fyr rybudd heb beryglu colli'r gynulleidfa bwysig hon yn llwyr. Gwnaed penderfyniad felly y byddai S4C yn ymuno â'r rhaglen rasio yn fyw ar ôl i'r rhaglenni meithrin ddod i ben. Golygai hyn y byddai gwylwyr yng Nghymru yn colli ras gyntaf y rhaglen ar adegau, ac fe ysgogodd hyn lefel gymharol uchel o gwynion. Megis pan dderbyniwyd 45 cŵyn wedi i S4C adael rhaglen rasio ceffylau 1 Chwefror 1986 yn ddisymwth funud yn unig cyn diwedd y ras olaf, a hynny er mwyn darlledu'r gêm rygbi rhyngwladol, gan gynddeiriogi'r gwylwyr a oedd ar dân i weld canlyniad y ras.[11] Derbyniwyd nifer uchel o gwynion ar 23 Ebrill 1985 hefyd pan fethodd S4C ag ymuno â'r rhaglen mewn pryd i weld y Dywysoges Anne yn marchogaeth mewn ras arbennig. O ddarllen cofnodion ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd am raglenni'r sianel, mae'n

---

[8] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a naw Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Ebrill 1985, t. 4.
[9] Gweler trafodaeth ehangach ar hyn ym Mhennod 4, tt. 216–19.
[10] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 2.84(4)) – Papur atodol i Agenda pumed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Chwefror 1984, t. 2.
[11] CS4C, *Adroddiad Gohebiaeth Rhaglenni – Papur atodol i Agenda deuddegfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14 Mawrth 1986, t. 1.

amlwg y bu cyfuniad o golli ras a cholli cyfle i weld aelod o'r teulu brenhinol yn ormod i sawl gwyliwr wrth iddynt ddefnyddio iaith anweddus i fynegi eu hanfodlonrwydd wrth staff S4C. Meddai adroddiad Ebrill 1985: 'Pe bawn i'n geffyl neu'n aelod o'r teulu brenhinol buasai gennyf gywilydd o iaith anweddus ac agweddau anghwrtais rhai o'm cefnogwyr selog!'[12] Yr oedd yr ychwanegiad poblogaidd hwn i amserlen Channel 4 yn gallu bod yn fwrn fel y cyfaddefodd Owen Edwards mewn ymateb i gŵyn am amseru'r rhaglenni rasio ar S4C ym 1986: 'I must admit that placing horse racing on S4C has probably caused us more headaches than any other type of programming.'[13] Ynghyd â chreu poen meddwl i swyddogion y sianel, yr oedd yr ychwanegiadau hyn yn ail-danio rhai o'r teimladau anghynnes hynny a welwyd yn y dyddiau cyn S4C. Derbyniwyd llythyrau yn cwyno am yr '. . . inordinate amount of Welsh that is being shown on your channel.'[14] Wrth ddolennu bodolaeth S4C a Channel 4 felly gellid cyhuddo'r llywodraeth o beidio ag ystyried yn ddigon manwl pa fath o raglenni y bwriadai Channel 4 eu cynhyrchu. Yn ogystal, trwy ofyn i Channel 4 ddenu arian hysbysebwyr, gan fod disgwyl iddi o fewn tair blynedd fod yn adennill ei chostau i gwmnïau ITV a oedd yn talu amdani, diystyrrodd y llywodraeth yr effaith a geid ar S4C.[15] Oherwydd y gofyn hwn i Channel 4 fod yn ddeniadol i hysbysebwyr, ni allai'r holl raglenni gael eu hanelu at gynulleidfaoedd bach iawn, gan na fyddai'r hysbysebwyr yn fodlon talu'r premiwm am y gofod. Yn ogystal â darlledu rhaglenni arbennigol byddai'n rhaid i raglenni Channel 4 ddenu a dal sylw cynulleidfa ehangach hefyd. A dyna a lwyddodd y sianel ei wneud gyda rhaglenni megis *Treasure Hunt*, *Brookside* a'r cyfresi a brynwyd o'r Unol Daleithiau, megis *Cheers* a *Hill Street Blues.* Ond nid gwylwyr o Loegr a'r Alban yn unig yr oedd Channel 4 yn eu denu gydag arlwy fel hyn ond gwylwyr o Gymru hefyd. A phan fyddai'r rhaglenni hyn yn cael eu dangos ar amseroedd anghyfleus y tu hwnt i'r oriau brig, ysgogid teimladau cas tuag at S4C ac fe dderbynnid cwynion gan y gynulleidfa.

Er hynny ni ellid diffinio'r holl lythyrau gan wylwyr di-Gymraeg y sianel fel rhai cwynfanus, ceir tystiolaeth hefyd fod gwylwyr yn gwylio S4C nid yn unig am y

---

[12] CS4C, *Dadansoddiad Gohebiaeth Rhaglenni – Papur atodol i Agenda trigeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Mai 1985, t. 2.
[13] CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Mr A Davies, Llanbradach, 19 Tachwedd 1986.
[14] CS4C, Llythyr gan J. Wreford Davies, Aberystwyth, at Owen Edwards ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru Nicholas Edwards, 27 Ionawr 1986.
[15] Stephen Lambert, *Channel Four – Television with a Difference?* (London, 1982), t. 111.

rhaglenni a ddarperid gan Channel 4 ond gan eu bod yn mwynhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar y sianel. Yr oedd hi'n amlwg felly bod y cysyniad o rwydo a chadw rhai o'r gwylwyr di-Gymraeg a wyliai'r rhaglenni Saesneg ar gyfer yr arlwy Gymraeg yn lled effeithiol, ac yn lleihau'r pryderon am osod rhaglenni Cymraeg mewn geto ar y bedwaredd sianel. Ymhlith y sylwadau cefnogol a chadarnhaol a dderbynwyd ceid:

> . . . I have been so impressed with the such modern and frendlie [sic] outlook of S4C's Welsh speaking programs [sic] . . .[16]
>
> . . . writing to express my enjoyment of so much on S4C – especially undiluted Welsh.[17]
>
> The series of excellent choral concerts that you have had on a Sunday evening have been wonderful, and we have enjoyed them greatly.[18]

Fel y disgwylid gyda sianel a geisiai ddiwallu sawl cynulleidfa, nid oedd modd plesio pob carfan, a phrofodd ceisio plesio Aelodau Seneddol yr un mor ddyrys. Yr oedd rhai Aelodau Seneddol yn hapus iawn i glodfori llwyddiannau'r sianel Gymraeg, drwy noddi digwyddiadau gan y sianel yn Nhŷ'r Cyffredin ac arwyddo cynigion cynnar-yn-y-dydd yn cymeradwyo S4C.[19] Caed ambell Aelod, er hynny, nad oedd yn argyhoeddedig o lwyddiant a chyfraniad y sianel, ac un o'r lleisiau hynny oedd Tom Hooson, A.S. Ceidwadol Brycheiniog a Maesyfed. Mynegodd ef yn gyhoeddus ei anfodlonrwydd â gweithgaredd y bedwaredd sianel gyda chwestiwn i'r Ysgrifennydd Cartref ynglŷn â'r symiau o arian a wariai S4C ar lobïo er mwyn

[16] CS4C, Llythyr gan J. T. Sharp, Abertawe at Owen Edwards, 7 Tachwedd 1985.
[17] CS4C, Llythyr gan Mrs Parry-Jones, Caerdydd at Owen Edwards, 2 Rhagfyr 1985.
[18] CS4C, Llythyr oddi wrth I. K. Watson, Helsby at S4C, 14 Gorffennaf 1986.
[19] Noddwyd te gan S4C i aelodau'r Tŷ gan Keith Best, A.S. Ceidwadol Ynys Môn ar 4 Mehefin 1984 a threfnwyd arddangosfa yn hyrwyddo gweithgaredd y sianel yn Nhy'r Cyffredin ar 7 Tachwedd 1984 a agorwyd gan Giles Shaw, Gweinidog Gwladol i'r Swyddfa Gartref ac A.S. Ceidwadol Pudsey. Diau mai gan bod yr Aelodau Seneddol hyn yn aelodau o'r llywodraeth y detholwyd hwy fel noddwyr i ddigwyddiadau'r sianel yn San Steffan. CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod – Papur atodol i Agenda wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11 Mai 1984, t. 1.

sicrhau ei chyllid blynyddol.[20] Yr oedd yn amlwg na lwyddodd S4C i argyhoeddi'r Aelod Seneddol o rinweddau sianel ar wahân i'r Gymraeg, yn wir, yn groes i agweddau nifer, yr oedd ei ddaliadau ar y mater yn gwbl ddiwyro. Meddai:

> . . . my problem is that I am deeply convinced that a segregated channel is misconceived, and I really am not open to conversation at this point. I argued against a ghetto channel on Second Reading, and everything that has happened since has confirmed my original view.[21]

Mae'r sylwadau hyn yn dangos y bodolai rhai unigolion nad oedd modd dwyn perswâd arnynt, a hynny oherwydd cryfder eu teimladau a'u cred yn rhinweddau'r system ddwy sianel. Tasg nifer o'r arolygon barn a luniwyd yn ystod y cyfnod prawf oedd maintioli lefel yr anfodlonrwydd hwnnw gyda phatrwm darlledu newydd Cymru.

*Arolygon Barn*

Yn ychwanegol at y ffigurau gwylio wythnosol a ddarparwyd gan BARB a ffigurau'r Gwasanaeth Ymateb Cynulleidfa a ddarperid bob tri mis, a drafodwyd mewn manylder ym mhennod pedwar, un o'r arolygon barn cyntaf a holodd gwestiynau ynglŷn ag ymateb y gynulleidfa i S4C oedd arolwg a gomisiynwyd gan HTV ym mis Mawrth 1983.[22] Nid arolwg a ganolbwyntiai ar ddatblygiad S4C oedd hwn ond arolwg cyffredinol ar safbwyntiau gwleidyddol y Cymry gan holi rhai cwestiynau penodol am ddarlledu. Dengys yr adroddiad mai dim ond 22 y cant o'r 994 o unigolion a holwyd a oedd wedi gwylio rhaglenni Cymraeg ar y sianel yn ystod y saith diwrnod a aeth heibio. Ond wrth ddefnyddio ffilter ieithyddol ar y ffigurau, yr

---

[20] CS4C, *Cwestiwn Tom Hooson i'r Ysgrifennydd Cartref – Papur atodol i Agenda wythfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11 Mai 1984. Yn ôl yr ymateb a luniwyd gan y Swyddfa Gartref i'r cwestiwn hwn, yr hyn a bryderai Tom Hooson oedd bod y sianel wedi gwahodd nifer o Aelodau Seneddol, ac yn benodol nifer o aelodau o'r Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Gymreig, i ymweld â'r sianel, ac fe ddarperid lluniaeth. Mewn gwirionedd dim ond saith Aelod Seneddol a fu ar ymweliad â'r sianel yn ystod 1983/4 a chwephunt y pen oedd cost y lluniaeth. Pryder yr Aelod Seneddol, ymddengys, oedd bod y sianel yn gwario arian prin ar weithgareddau nad oedd yn ymwneud â darlledu gan geisio dwyn perswâd ar Aelodau Seneddol a sicrhau parhad y sianel, rhywbeth nad oedd yr A.S. hwn yn ei gefnogi.

[21] CS4C, Llythyr oddi wrth Tom Hooson at Owen Edwards, 26 Ebrill 1984; CS4C, Llythyr oddi wrth Owen Edwards at Tom Hooson, 19 Ebrill 1984; CS4C, Llythyr oddi wrth Glyn Tegai Hughes at Tom Hooson, 15 Mai 1984.

[22] CS4C, *'HTV Poll, Principal Results' – Papur atodol i Agenda pedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 4 Mawrth 1983. Gwnaed gwaith maes yr arolwg gan Research and Marketing Wales and the West Ltd ac fe'i dadansoddwyd gan Denis Balsom o Adran Gwyddor Gwleidyddol Prifysgol Cymru Aberystwyth.

oedd 65 y cant o'r siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gwylio rhaglenni Cymraeg yn yr wythnos a aeth heibio.[23] Ffigwr cadarnhaol, gellid dadlau, er y dylid nodi y cynhaliwyd yr arolwg yn ystod misoedd cynnar cymharol lewyrchus 1983. Holwyd hefyd os oedd yr unigolion wedi gwylio unrhyw raglenni Saesneg ar y sianel. Ymddengys i 48 y cant o'r holl unigolion wneud hynny, gyda'r ffigwr yn uwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl, sef 52 y cant.[24] Amlygodd yr arolwg hwn felly duedd rhai siaradwyr Cymraeg rhugl i aros gyda S4C wrth iddi drosglwyddo o ddarlledu rhaglenni Cymraeg i raglenni Saesneg. Yr oedd darpariaeth ehangach y sianel yn apelio at y gynulleidfa Gymraeg ymddengys, ac yr oedd hi'n amlwg fod y cysyniad o rwydo o un rhaglen i'r nesaf yn gweithio, ond yn bennaf o blaid y rhaglenni Saesneg gwaetha'r modd.[25]

Ynghyd â holi cwestiynau ynglŷn â phatrymau gwylio'r sianel, holodd yr arolwg hwn gan HTV am farn unigolion ar batrwm darlledu newydd Cymru ar ôl yr aildrefnu a dyfodiad S4C. Holwyd: 'Considering all four channels, do you think the reorganisation of television broadcasting in Wales has improved television, has made it worse, or has made no difference?' Wrth ystyried ymateb pob unigolyn, heb ystyried y gwahaniaethau ieithyddol rhyngddynt, nodwyd gan 38 y cant ohonynt eu bod yn credu bod yr aildrefnu wedi gwella teledu yng Nghymru, nodwyd gan 43 y cant nad oedd unrhyw wahaniaeth wedi'r newid, ac yr oedd 9 y cant o'r farn fod y sefyllfa yn waeth.[26] Drwy ddefnyddio'r ffilter ieithyddol, yr oedd gwahaniaeth sylweddol yn y farn a gofnodwyd gan y siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda 61 y cant yn credu bod teledu yng Nghymru wedi gwella ers dyfodiad S4C. Yr oedd 30 y cant er hynny yn credu na chafwyd newid ers dyfodiad y sianel, a 5 y cant o'r farn fod teledu yng Nghymru yn waeth.[27] Ymddengys felly nad oedd S4C wedi llwyddo i ddarbwyllo holl aelodau'r gynulleidfa Gymraeg o fanteision y patrwm un sianel, nac wedi llwyddo i drosglwyddo'r neges am y cynnydd a gafwyd yn nifer yr oriau

[23] Ibid., t. 5. Nid yw'r adroddiad yn nodi union nifer y siaradwyr Cymraeg a holwyd fel rhan o'r sampl, ond oherwydd y datganiad canlynol, tybir bod 20 y cant o'r 994 yn gallu'r iaith: 'The sample is based upon interlocking quota sample derived from known population parameters of age, sex and social class.' Ibid., t. 1.
[24] Ibid.
[25] Yr oedd dyfeisiau rheoli'r set deledu o bell mewn bodolaeth ar ddechrau'r 1980au, er hynny nid oeddent yn gyffredin iawn. Gellid priodoli peth o'r ffyddlondeb hwn, felly, i ddiogi a pheidio a chodi i newid y sianel ar ran y gwylwyr.
[26] Ibid.
[27] Ibid.

Cymraeg o bymtheg awr a fu'n cael eu rhannu rhwng HTV a'r BBC i'r ddwy awr ar hugain a gaed bellach ar S4C. Gellid dadlau bod y canran bychan o Gymry Cymraeg a oedd yn argyhoeddedig bod teledu yn waeth ers dyfodiad S4C, yn dangos nad oedd y garfan fechan o unigolion a wrthwynebai trosglwyddo rhaglenni Cymraeg i geto Cymraeg wedi newid eu hagwedd wedi misoedd cyntaf darlledu'r sianel. Gellid dadlau hefyd bod rhai gwylwyr wedi eu siomi gan y sianel a'r arlwy wedi'r holl obeithion ac wedi aros cyhyd amdani, a gallai eraill fod yn anhapus â'r strategaeth o gynhyrchu arlwy poblogaidd ac anelu at gynulleidfaoedd mawr a arddelwyd gan y sianel yn ei chyfnod prawf.

Nid cwestiynau am ddarlledu yn unig a holwyd yn yr arolwg hwn, gofynnwyd hefyd am farn yr unigolion am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Gofynnwyd iddynt gytuno ag un o'r sylwadau canlynol: ei bod yn boendod; yn amherthnasol i'r Gymru fodern; y byddai'n drueni petai'r iaith yn marw; ei bod yn rhan o etifeddiaeth y wlad a bod angen gwneud popeth i'w diogelu, neu fod yr iaith mewn argyfwng a bod modd cyfiawnhau camau eithafol i'w hamddiffyn. Dengys yr arolwg mai dim ond 5 y cant a ystyriai'r iaith yn boendod, tra credai 13 y cant ei bod yn amherthnasol i Gymru yn yr oes fodern. Ar y llaw arall, nododd 44 y cant y byddent yn gresynu petai'r iaith yn diflannu, tra mynegodd 31 y cant eu barn bod angen gwneud popeth i'w diogelu oherwydd ei lle yn nhreftadaeth y wlad, a lleiafrif o 4 y cant bod modd cyfiawnhau mesurau digyfaddawd er mwyn achub yr iaith.[28] O gymharu'r canlyniadau hyn â'r hyn a ddarganfuwyd mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn ystod etholiad 1979, ymddengys nad oedd gwahaniaeth barn helaeth rhwng canlyniadau 1979 a 1983. Yr unig newid sylweddol a ellid ei nodi yw'r ffaith bod nifer y rhai a gredai y dylid gwneud popeth o fewn eu gallu i achub yr iaith wedi lleihau o 37 y cant i 31 y cant erbyn 1983. Ar y llaw arall, yn ddifyr iawn yr oedd y nifer a gredai y byddai'n drueni petai'r iaith yn marw wedi cynyddu o 39 y cant i 44 y cant.[29] O'r canlyniadau hyn gellid darlunio bod bodolaeth y sianel wedi cael peth effaith ar argraffiadau'r cyhoedd o'r perygl yr oedd yr iaith yn ei wynebu bellach. Y gallai dyfodiad y sianel annog rhai i gredu, yn gam neu'n gymwys, nad oedd angen pryderu cymaint am ei llewyrch bellach, gan fod y sianel Gymraeg wedi ei gwireddu ac nad oedd yr

---

[28] Ibid., t. 6. Yr oedd 4 y cant o'r rhai a holwyd wedi nodi nad oeddent yn gwybod (*'Don't Know'*) sut i ateb y cwestiwn hwn.
[29] Ibid.

argyfwng a wynebai'r iaith yr un mor daer ag y bu. O arddel y safbwynt hwnnw gellid dadlau fod pryderon Gwynfor Evans wedi eu gwireddu felly, wrth iddo ragweld pylu fflam y brwydro dros Gymru a'r Gymraeg wedi ail dro-pedol William Whitelaw a ddiddymodd yr angen iddo ymprydio. Safbwynt a ddisgrifiwyd gan Rhys Evans wrth iddo ddehongli ymateb Gwynfor Evans i gyhoeddiad William Whitelaw ar 17 Medi 1980:

> Roedd y fuddugoliaeth fawr wedi dod ond siom yw'r gair sy'n crisialu ymateb Gwynfor orau . . . yn nwfn ei galon, gwyddai Gwynfor fod yr argyfwng wedi dod i ben yn llawer rhy gynnar ac yr oerai'r tân cenedlaetholgar yn fuan.[30]

Cafwyd pwyslais gwahanol i'r adroddiad a luniwyd gan Grŵp Cyfryngau Torfol Cymdeithas yr Iaith ac a anfonwyd at y sianel ym mis Medi 1984. Er ei bod hefyd wedi holi unigolion am eu patrymau gwylio, byrdwn yr arolwg oedd holi '. . . a oedd S4C yn cael y 'feedback' sy'n angenrheidiol er mwyn rhedeg sianel teledu (sic) effeithiol sy'n ateb gofynion y bobl yng Nghymru.'[31] Nod Cymdeithas yr Iaith trwy lunio'r arolwg oedd perswadio'r sianel i sefydlu'r hyn a elwid gan y Gymdeithas yn 'banelau darlledu rhanbarthol' er mwyn sicrhau fod y sianel yn cael ymateb uniongyrchol y gwylwyr i'r hyn a ddarlledid ganddi. Credai'r Gymdeithas mai ymateb y gwylwyr oedd yr adborth pwysicaf y gallai'r sianel ei dderbyn, a hynny gan y credid mai dyma'r unig ffordd y gallai'r sianel sicrhau ei bod yn rhoi i'r gwylwyr yr hyn yr oeddent yn ei ddymuno gan greu sianel '. . . y mae'r Cymry am, ac yn hoff o wylio yn lle sianel a rhaglenni y mae'r Cymry yn gwylio oherwydd maent yn credu fod dyletswydd arnynt i'w gwylio.'[32] Er na holwyd cwestiynau i'r perwyl hwnnw yn yr arolwg, ensynnir yma, heb nodi tystiolaeth gadarn i'w gefnogi, nad oedd darpariaeth y sianel yn llwyddo i ddenu gwylwyr o'u gwirfodd ond oherwydd eu cyfrifoldeb fel Cymry Cymraeg i gefnogi sianel y brwydrwyd drosti gyhyd. Llwyddodd yr adroddiad hefyd i bwysleisio'r angen a geisid ei hyrwyddo gan Gymdeithas yr Iaith, ac a gefnogwyd gan 59 y cant o'r unigolion a holwyd yn yr

[30] Rhys Evans, *Gwynfor – Rhag Pob Brad* (Talybont, 2005), t. 447.
[31] CS4C, *Adroddiad Grŵp Cyfryngau Torfol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar S.4.C. – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a dau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 14 Medi 1984, t. 1.
[32] Ibid. Mae'r ymdeimlad o ddyletswydd y cyfeiria Cymdeithas yr Iaith ato wedi diflannu bellach. Mae'r newydd-deb, chwilfrydedd a'r pryder gwreiddiol am barhad y sianel wedi pylu, ac mae'r gynulleidfa Gymraeg yn cymryd y sianel yn gwbl ganiataol ac felly yn troi at y dewis eang o ddarpariaeth Saesneg a geir ar y sianeli eraill.

arolwg, am sefydlu pwyllgorau gwylwyr ledled Cymru.[33] Ond nid S4C oedd yr unig ddarparwr a feirniadwyd gan Gymdeithas yr Iaith am ei ddiffyg ymgynghori gyda'u gwylwyr. Yng nghyfarfod cyffredinol Cymdeithas yr Iaith ym 1983, nodwyd na lwyddodd gorsaf BBC Radio Cymru ychwaith i geisio cyngor ei gwrandawyr wrth lunio polisïau rhaglenni. Gellid honni felly, gan y beirniadwyd y ddau ddarlledwr cyhoeddus, nad oedd ymgynghori yn weithred a oedd yn naturiol i'r darlledwyr, eu bod wedi hen arfer gosod a diffinio beth a ystyrid yn gynnwys da y byddai'r gynulleidfa yn ei fwynhau, heb gyfraniad i'r drafodaeth gan y gynulleidfa.

Er y feirniadaeth hon ar natur annemocrataidd y sianel yr oedd y rhan helaeth o ddarganfyddiadau eraill yr arolwg yn gadarnhaol iawn. Ymatebodd 42 y cant eu bod yn gwylio'r sianel yn rheolaidd, gyda 38 y cant yn nodi eu bod yn gwylio yn 'lled aml', a dim ond 8 y cant yn cofnodi nad oeddent yn gwylio'r sianel o gwbl.[34] Credai 65 y cant bod rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar amseroedd cyfleus ar y sianel, gydag 19 y cant yn anghytuno â hynny. Er yr ymddengys y ceid cadarnhâd bod patrwm amserlen y sianel yn gweddu i fywydau'r mwyafrif o'i gwylwyr, ceid ffigwr cyfatebol o 65 y cant o'r rhai a holwyd o'r farn nad oedd digon o raglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar y sianel.[35]

Holwyd cwestiynau penodol hefyd am rai *genres* o raglenni, ac er mwyn ymateb i'r sylwadau chwyrn a fynegwyd gan wylwyr a gwleidyddion am natur a chynnwys rhaglen newyddion y sianel, ceisiwyd barn y gynulleidfa ar yr amser a roddwyd o fewn y rhaglen i newyddion 'tramor', 'Prydeinig' a 'Chymraeg'.[36] Teimlai 54 y cant o'r ymatebwyr fod y sylw a roddwyd i newyddion tramor yn 'iawn' gyda 15 y cant yn nodi bod gormod ac wyth y cant yn dymuno gweld rhagor ohono. Cafwyd ymateb

[33] Ibid., t. 3. Holwyd 1,200 o unigolion o bob sir yng Nghymru ar gyfer yr arolwg. Ond ni holwyd yr un faint o bobl ym mhob sir, holwyd 300 yng Ngwynedd a Dyfed, ond dim ond 100 o unigolion a holwyd yng Ngorllewin Morgannwg, De Morgannwg, Morgannwg Ganol, Powys, Clwyd a Gwent. Diau y detholwyd mwy o unigolion yng Ngwynedd a Dyfed er mwyn ceisio sicrhau sampl digonol o siaradwyr Cymraeg, er hynny ni cheir esboniad o'r union resymeg dros luniad y sampl yn yr adroddiad terfynol. Er ei wendidau, mae'n briodol cyfeirio at yr arolwg hwn yn bennaf gan ei fod yn gofnod o safbwyntiau cynulleidfa graidd y sianel, ac i'r perwyl hwnnw yn darparu darlun o'u barn hwy am y sianel a'i harlwy.

[34] Y mae'r categorïau a ddefnyddiwyd gan Gymdeithas yr Iaith yn amwys, ac nid oes diffiniadau yn yr adroddiad o'r hyn a olygir gan 'rheolaidd', 'lled aml' na 'prin iawn'.

[35] Ibid., t. 2.

[36] Yn y cyd-destun hwn credir bod 'Cymraeg' yn cyfeirio at newyddion am Gymru a materion Cymreig, gan y byddai'r rhan helaeth o gynnwys y rhaglen *Newyddion Saith*, ag eithrio rhai cyfweliadau, i gyd yn y Gymraeg.

digon tebyg ar gyfer y newyddion Prydeinig, gyda 46 y cant yn teimlo fod y sylw yn ddigonol, ond y tro hwn yr oedd y nifer a gredai fod gormodaeth ohono yn sylweddol uwch ar 28 y cant, gyda lleiafrif bychan iawn o ddau y cant a oedd am weld ychwaneg o newyddion o diroedd Prydain. Wrth drafod newyddion Cymraeg caed ymateb ychydig yn fwy amwys. Teimlai 34 y cant fod y sylw yn foddhaol, yr oedd 43 y cant yn dyheu am ragor, tra mai dim ond 8 y cant a deimlai y rhoddwyd gormodedd o sylw i faterion o Gymru. Ceid darlun cymysg felly. Nid oedd yr arolwg yn cadarnhau'r feirniadaeth lem gan Aelodau Seneddol ac eraill, nac yn dangos yn ddiwyro mai rhaglen newyddion a ganolbwyntiai ar faterion Cymreig y deisyfai y gynulleidfa. Ond nid oedd ychwaith yn llwyr gyfiawnhau strategaeth y sianel o ddarparu rhaglen newyddion amrywiol a chynhwysfawr yn y Gymraeg gyda llai o bwyslais ar y lleol. Er mwyn gwireddu dymuniadau y mwyafrif o'r gwylwyr a holwyd gan yr arolwg hwn, diau y byddai angen rhaglen hirach er mwyn sicrhau bod lle i gynyddu'r sylw a roed i faterion Cymreig a pharhau i gynnal y cynnwys rhyngwladol a Phrydeinig. Argymhelliad Cymdeithas yr Iaith yn yr achos hwn oedd adrodd y newyddion Prydeinig a thramor gydag '. . . agwedd Gymreig i'r stori yn lle agwedd Brydeinig.'[37] Yr oedd y datganiad hwn yn anwybyddu bod y rhaglen eisoes yn arddel y strategaeth hon gydag adroddiadau y gohebydd Dewi Llwyd o San Steffan. Ond dengys cynnwys y safbwynt hwnnw y teimlai Cymdeithas yr Iaith bod angen defnydd helaethach o'r patrwm hwnnw o fanylu ar ddigwyddiadau'r dydd.

Ceisiwyd barn y gynulleidfa hefyd ar raglenni materion cyfoes, gyda mwyafrif bychan yn hapus â'r nifer ohonynt a geid ar y sianel. Wrth ystyried dramâu cyfres yr oedd 43 y cant yn dymuno gweld rhagor o gyfresi, tra yr oedd 35 y cant o'r farn bod digon ohonynt. Er i'r mwyafrif ystyried bod digon o ddramâu cyfres i'w cael, dim ond 31 y cant a gredai bod safon y cyfresi hyn yn dda, gyda 40 y cant yn nodi mai derbyniol yn unig oedd y safon. Mae'r ystadegyn hwn yn rhannol esbonio pam nad oedd canran mwy o'r gwylwyr yn dymuno gweld rhagor o gyfresi drama, a hynny gan nad oeddent yn teimlo eu bod yn ddigon safonol i gyfiawnhau hynny. Yr oedd yr agwedd tuag at ffilmiau a dramâu unigol, ar y llaw arall, yn llawer mwy cadarnhaol, wrth i 65 y cant nodi eu bod am weld mwy o ffilmiau a dramâu unigol yn rhan o amserlen y sianel. Gellid priodoli hynny i'r ffaith y credid bod y rhaglenni hyn yn

---

[37] CS4C, *Adroddiad Grŵp Cyfryngau Torfol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar S.4.C*, t. 4.

safonol ac uchelael, wrth i 67 y cant fynegi'r safbwynt hwnnw. Yr oedd yr agwedd hon yn amddiffyn a chyfiawnhau'r patrwm a sefydlwyd gan y sianel o neilltuo peth arian ar gyfer cynyrchiadau unigol mawr, gan eu bod yn creu argraff sylweddol ar y gynulleidfa. Er diffygion ystadegol a natur anghynrychioladol sampl arolwg Cymdeithas yr Iaith, cafwyd cadarnhad fod y sianel yn llwyddo ar y cyfan i blesio ei chynulleidfa darged er bod lle sylweddol i wella. At hynny, awgrymwyd diffygion ymgynghori a thrafod gyda'r gynulleidfa a gaed yn strwythurau y sianel, mater a fyddai'n destun astudiaeth bellach gan Gyngor Defnyddwyr Cymru ym 1985.[38]

Ynghyd ag adroddiadau ac ymchwil a gomisiynwyd gan sefydliadau allanol fel HTV a Chymdeithas yr Iaith, comisiynwyd gwaith ymchwil gan S4C hefyd gan gwmni Research and Marketing Wales and the West Limited. Deilliodd yr angen am ymchwil ychwanegol ar ôl i'r sianel dderbyn cyfres o ffigurau amheus gan BARB ar ddiwedd 1983.[39] Comisiynwyd yr archwiliad ar ddechrau 1984 a rhoddwyd iddo bedwar nod, sef darganfod gwerthfawrogiad y gynulleidfa o raglenni'r sianel, dadansoddi anian y gynulleidfa Gymraeg, darganfod y rhesymau dros y newidiadau ym mhatrymau gwylio y gynulleidfa, a cheisio barn y gynulleidfa wedi ychydig dros flwyddyn o ddarlledu ar fater crynhoi rhaglenni Cymraeg ar un sianel yn hytrach na'u gwasgaru ar draws dwy neu fwy o sianeli.[40] Gobaith S4C oedd y byddai'r arolwg hwn yn darganfod patrymau nad oedd BARB ac AGB yn llwyddo eu canfod yn eu ffigurau hwy, ac y byddai'r arolwg yn llwyddo i ddilyn yn ôl troed adolygiadau tebyg a gomisiynwyd gan HTV a BBC Cymru dros y blynyddoedd.[41] At hynny, gobeithid y byddai'r wybodaeth a gesglid yn yr adroddiad dan y teitl *Gwylio a Gwarndo yng Nghymru* o ddefnydd sylweddol wrth i'r sianel baratoi ar gyfer yr adolygiad tyngedfennol a gynhelid gan y Swyddfa Gartref ar ddiwedd 1985. Meddai Owen Edwards wrth gyfiawnhau'r astudiaeth i'r Awdurdod: 'Teimlaf ei bod yn wleidyddol bwysig i wneud yr ymchwil ychwanegol hwn, yn arbennig a ninnau o fewn rhyw 18 mis i'r adeg y bydd yr adolygiad i S4C yn dechrau hel gwybodaeth'.[42]

[38] Trafodir yr astudiaeth hon mewn manylder yn hwyrach yn y bennod hon, tt. 319–26.
[39] Ceir trafodaeth fanwl ar ffigurau gwylio'r sianel ym Mhennod 4, tt. 219–28.
[40] CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Ionawr 1984, t. 2.
[41] Er enghraifft comisiynodd HTV arolwg gan gwmni Gallup ym 1979. Yn anffodus ymddengys nad oes copi o'r arolwg ar gael i'w astudio gan ITV Wales na chan Gallup.
[42] CS4C, *Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Awdurdod (Papur 1.84(4)) – Papur atodol i agenda pedwerydd cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 Ionawr 1984, t. 1.

Holwyd 1007 o Gymry Cymraeg a ystyriai eu hunain yn rhugl a feddai ar allu '...i ddilyn sgwrs rhwng cyfeillion a pherthnasau neu yn [y] gwaith' a 526 o Gymry di-Gymraeg a atebodd 'na' i'r datganiad uchod.[43] Dangosodd yr ymchwil nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn y nifer o oriau o deledu a wyliwyd yn ddyddiol gan y carfannau gwahanol, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, sef yn agos at bedair awr y diwrnod.[44] Yr oedd y mwyafrif sylweddol o'r unigolion a holwyd, 93 y cant o'r Cymry Cymraeg ac 84 y cant o'r di-Gymraeg, yn hawlio eu bod yn gwylio'r teledu yn ddyddiol, fel y gwelir yr oedd 10 y cant yn fwy o'r Cymry Cymraeg yn llwyddo i eistedd o flaen y teledu bob dydd na'r Cymry di-Gymraeg, a olygai bod y Cymry Cymraeg yn gwylio mwy o deledu ar gyfartaledd.[45] Gellid dirnad o'r ffaith bod nifer oriau gwylio'r carfannau yn debyg iawn nad oedd y Cymry Cymraeg yn gwylio rhaglenni Cymraeg yn ychwanegol at y rhaglenni Saesneg a oedd yn denu'r gwylwyr di-Gymraeg. Yn hytrach, yr oeddent yn eu gwylio yn lle cyfran o'r ddarpariaeth Saesneg ac yn rhan o batrwm naturiol eu gwylio. Dadleuir felly nad dyletswydd yn unig a oedd yn cymell y gwylwyr hyn i wylio rhaglenni S4C. Pe bai'r gynulleidfa yn gwylio rhaglenni Cymraeg oherwydd ymlyniad personol i sicrhau parhad y sianel, yna gellid disgwyl y byddent yn gwneud hynny ar ben eu patrwm gwylio naturiol, ac yn ychwanegol at y rhaglenni yr oeddent yn eu dilyn ac yn eu mwynhau.

Llwyddodd yr ymchwil hefyd i ddarganfod ffigurau calonogol iawn, wrth i fwy nag un o bob dau o'r Cymry Cymraeg, 54 y cant, nodi eu bod yn gwylio'r sianel yn feunyddiol. Cynyddodd y ffigwr hwnnw yn sylweddol wrth asesu faint o'r Cymry Cymraeg a oedd yn gwylio'r sianel yn wythnosol, gyda 91 y cant ohonynt yn cydnabod hynny. Yr oedd y rhain yn ffigurau cadarnhaol iawn a oedd yn dangos, mewn egwyddor ac os oedd y sampl yn gynrychioladol, bod S4C yn llwyddo i gyrraedd mwyafrif llethol o'i chynulleidfa darged a'u bod yn gwylio eu rhaglenni yn wythnosol. Yr oedd y ganran hon, yn ôl astudiaeth Research and Marketing Wales and the West Limited, yn gosod y sianel yn y trydydd safle o ran ei phoblogrwydd

[43] Research and Marketing Wales and the West Limited, 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru – A survey with particular emphasis both on the appreciation of S4C (English and Welsh content) and on the use of the Welsh Language' (Caerdydd, Mehefin 1984), Adran I.
[44] Ar gyfartaledd yr oedd y gwylwyr Cymraeg yn gwylio ychydig yn llai na'r di-Gymraeg, sef 3.8 awr y dydd o'i gymharu â 3.9 awr.
[45] Ibid., Adrannau IID1 – 2.

ymhlith y Cymry Cymraeg.[46] Ond ymysg y Cymry di-Gymraeg, S4C oedd y sianel a apeliai leiaf atynt, gyda dim ond 42 y cant o'r unigolion yn troi ati mewn wythnos.[47] Ymddengys yr awgrymai hyn sawl esboniad. Gellid dadlau nad oedd cynnwys Channel 4 yn apelio at fwy na hanner y gwylwyr di-Gymraeg yng Nghymru, neu fod amser darlledu y rhaglenni Saesneg y tu hwn i'r oriau brig yn golygu nad oedd y gynulleidfa yng Nghymru yn eu gwylio, ynteu yn olaf fod y gynulleidfa yn ystyried S4C yn sianel Gymraeg ac felly yn ymwrthod â hi yn llwyr. Cadarnheir yr agwedd olaf hon gan ddarganfyddiadau'r cwestiwn a holodd beth, yn nhyb yr ymatebwyr, oedd canran y rhaglenni Cymraeg a geid ar sianel. Nododd ymron hanner yr ymatebwyr di-Gymraeg, 47 y cant, eu cred bod mwy na hanner cynnwys y sianel yn Gymraeg.[48] Yr oedd hi'n amlwg felly na lwyddwyd i drosglwyddo'r neges yn gwbl lwyddiannus i'r gynulleidfa ddi-Gymraeg yng Nghymru y byddai mwyafrif llethol rhaglenni Channel 4 yn cael eu hailddarlledu ar y bedwaredd sianel yng Nghymru, ac mai rhaglenni Saesneg mewn gwirionedd a oedd yn y mwyafrif arni.

Er y ffigurau cadarnhaol iawn ynglŷn â phatrymau gwylio wythnosol y Cymry Cymraeg, dangoswyd perthynas glir iawn rhwng lefel gallu ieithyddol (neu'r hyn a ystyriai'r ymatebwyr oedd eu gallu ieithyddol) a pha mor aml yr oedd gwylwyr yn troi at S4C. Yr oedd y gwylwyr a ystyriai eu hunain yn siaradwyr rhugl yn llawer mwy tebygol o wylio'r sianel yn feunyddiol, gyda 48 y cant o'r ymatebwyr yn honni gwneud hynny. Disgynnai'r ffigwr hwnnw'n syfrdanol ymysg y siaradwyr cymarhol dda, gan mai dim ond 14 y cant o'r unigolion hynny nododd eu bod y gwylio'r sianel yn ddyddiol, gan ddisgyn ymhellach ymysg y garfan honno a ystyriai mai ychydig iawn o Gymraeg yn unig oedd ganddynt, a hynny i 7 y cant.[49] Yr oedd y ffigurau yr un mor drawiadol ar gyfer patrymau wythnosol y gwylwyr, gan ddangos yn glir felly i'r sianel ei chael hi'n anodd denu gwylwyr cyson a rheolaidd nad oeddent yn gwbl

[46] Yr oedd BBC Cymru ac HTV Cymru yn gydradd gyntaf, ill dau yn llwyddo i ddenu sylw 94 y cant o'r Cymry Cymraeg, tra llwyddai BBC2 i ddenu sylw 88 y cant o'r garfan mewn wythnos arferol.
[47] Ibid., Adran IID3. Llwyddai BBC2 i swyno 84 y cant; HTV Cymru yn hudo 79 y cant a BBC Cymru yn denu 73 y cant. Mae'r ffigurau hyn yn ymddangos yn hynod gan eu bod yn dangos mai BBC 2 oedd hoff sianel y Cymry di-Gymraeg. Diau y ceir y darlun hwn gan i'r arolwg holi yn benodol pwy a wyliai HTV Cymru a BBC Cymru, yn hytrach na phwy a wyliai'r BBC neu ITV. O ganlyniad mae'r ffigurau hyn yn hepgor y gwylwyr hynny a oedd yn byw yn agos at y ffin â Lloegr a oedd yn gwylio'r rhaglenni hynny a ddarlledid ar BBC 1 West, BBC 1 North, HTV West a Granada.
[48] Ibid., Adran IID.10.
[49] Ibid., IID.7.

hyderus yn eu gallu ieithyddol, gan leihau'r gynulleidfa debygol yn sylweddol.[50] Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau'r agwedd honno a welwyd ei mynegi ar noson agoriadol y sianel mewn cyfweliadau byrion *(vox pops)* yn ei rhaglen groeso, wrth i un o drigolion Gwynedd ddatgan, yn y Gymraeg, nad oedd hi'n bwriadu gwylio'r sianel oherwydd ei chred na fyddai'n deall y Gymraeg a ddefnyddir arni.[51] Caed cred felly ymysg carfan o'r gynulleidfa fod y sianel yn darlledu rhaglenni a oedd yn arddel Cymraeg rhy safonol a fyddai y tu hwnt i'w dealltwriaeth, gan rwystro eu mwynhad o raglenni penodol. Er i'r sianel geisio sicrhau ei bod yn defnyddio ieithwedd fyddai'n gyfarwydd ac yn gymharol anffurfiol yn ei chyflwyno yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol hyn, ni lwyddwyd i argyhoeddi rhannau sylweddol o'r gynulleidfa ddi-hyder o berthnasedd ac apêl y rhaglenni a ddarperid. Gellid dyfalu hefyd, oherwydd cynnal yr arolwg hwn un mis ar bymtheg ar ôl lansiad y sianel, bod rhai o'r gwylwyr di-hyder hyn wedi troi at raglenni Cymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw, ac wedi cael eu dychryn neu eu siomi gan natur yr iaith a ddefnyddiwyd, ac felly mai dim ond yn achlysurol, os o gwbl, yr oeddent yn troi at y sianel bellach. Beth bynnag fo'r rheswm, a pha bynnag mor ddisgwyliedig oedd y patrymau hyn, yr oedd tuedd y gwylwyr cymharol ddi-hyder eu Cymraeg i osgoi y sianel, yn agwedd a oedd yn peri pryder i'r sianel ac yn creu poen meddwl wrth iddi geisio troedio'r llwybr anodd hwnnw rhwng defnydd o iaith safonol a choeth a oedd yn dieithrio carfan sylweddol o'r gynulleidfa ac iaith anffurfiol, bob dydd a allai achosi carfan yr un mor sylweddol i droi eu cefn ar y sianel. Nid oedd y tensiwn hwn yn un y gellid ei ddatrys yn hawdd, ac yn ddiau y mae'n her y mae'r sianel yn parhau i ymrafael â hi.

Ffaith arall a ddatguddiwyd gan yr astudiaeth oedd bod bodolaeth y sianel wedi annog y Cymry Cymraeg i wylio mwy o raglenni Cymraeg, gyda 34 y cant o'r unigolion a holwyd yn nodi eu bod yn gwylio mwy ohonynt yn Chwefror 1984 nag yr oeddent flwyddyn ynghynt.[52] Gellid priodoli hynny'n rhannol i'r twf a fu yn y

[50] Ibid. Y ffigurau cyfatebol wythnosol oedd siaradwyr rhugl, 89 y cant; siaradwyr lled dda, 64 y cant a siaradwyr a feddai ar ychydig o Gymraeg, 47 y cant. Pe cymharir yr arolwg hwn gyda'r arolwg a gomisynwyd gan HTV flwyddyn ynghynt, yna mae'r canran o siaradwyr rhugl a oedd yn gwylio'r sianel yn wythnosol wedi codi o 65 y cant i 89 y cant. Mae'r cynnydd hwn yn mynd yn groes i'r patrwm a welwyd yn ffigurau gwylio'r sianel, gan fod rheiny ar eu hanterth ym misoedd cyntaf 1983, ac yr oeddent wedi disgyn yn sylweddol erbyn 1984. Mae'r arolwg hwn yn darlunio patrwm gwahanol i'r argraff a gaed o ffigurau gwylio BARB felly, gan brofi'r angen am arolwg manylach ac nad oedd ffigurau gwylio yn ddarlun cwbl deg o boblogrwydd y sianel gyda'i chynulleidfa darged.

[51] CS4C, *Croeso i S4C* (Cynhyrchiad mewnol, S4C, 1 Tachwedd 1982).

[52] 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru', Adran IID14.

nifer o oriau Cymraeg a ddarlledid bellach. Yr oedd hyn hefyd wedi arwain at fwy o ddewis ac amrywiaeth i'r gwylwyr, a theimlai canran sylweddol fod safon y rhaglenni wedi gwella a bod hyn yn cymhell y gynulleidfa i wylio mwy o raglenni'r sianel.[53] Ond yn arwyddocaol yr oedd bodolaeth S4C yn ei gwneud hi'n haws canfod y rhaglenni Cymraeg a hynny gan fod patrwm clir a chyson o ddarlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod yr oriau brig gan y sianel, nid oedd angen pori trwy'r sianeli nac astudio'r *TV Times* neu'r *Radio Times* yn fanwl bellach er mwyn dod o hyd iddynt.[54] Yn wir, credai 67 y cant o'r Cymry Cymraeg ei bod hi'n haws dod o hyd i'r rhaglenni y dymunent eu gwylio ers i'r rhaglenni Cymraeg gael eu crynhoi ar un sianel. Cytunai 54 y cant o'r Cymry di-Gymraeg hefyd gyda'r datganiad hwnnw, gan ddangos yn glir bod oddeutu hanner y gynulleidfa ddi-Gymraeg wedi ystyried presenoldeb rhaglenni Cymraeg ar brif sianeli'r BBC ac HTV yn drafferthus wrth geisio darganfod rhaglenni Saesneg penodol.

Ynghyd ag ystyried patrymau gwylio cyffredinol, yn unol â'r drefn mewn arolygon eraill a drafodwyd eisoes, holwyd rhai cwestiynau penodol am farn y gynulleidfa o elfennau penodol o wasanaeth a rhaglenni S4C. Un ffigwr a barodd peth syndod, o gofio'r ymateb anffafriol cynnar a gafwyd, oedd y credai 65 y cant o'r Cymry Cymraeg fod natur y cyflwyno yn hynod broffesiynol.[55] Ymddengys felly i natur anffurfiol y cyflwyno ennill ei blwyf gyda'r rhan helaeth o'r gynulleidfa erbyn 1984 a bod y patrwm anghyfarwydd a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf gan y sianel

[53] Ibid., Adran II.D.15. Ynghyd â'r 34 y cant a oedd yn gwylio mwy o raglenni Cymraeg, yr oedd deg y cant o'r siaradwyr Cymraeg yn honni eu bod yn gwylio llai o raglenni Cymraeg ar ddechrau 1984 na'r un cyfnod ym 1983. Yr oedd eu rhesymau dros wylio llai o raglenni i'r gwrthwyneb yn llwyr i'r gwellhad mewn safon a nodwyd gan y rheiny a oedd yn gwylio rhagor o raglenni bellach, wrth i 22 y cant o'r deg nodi bod safonau wedi dirywio a 20 y cant pellach nodi eu bod yn credu bod y rhaglenni yn wael. Yn anffodus nid yw'r arolwg yn datgan o ba ddosbarth cymdeithasol yr oedd y deg y cant hwn yn perthyn, na'u hoedran. Yn absenoldeb gwybodaeth o'r fath, nid oes modd bod yn sicr, ond gellir honni ei bod yn debygol i'r deg y cant hwn ddod o'r dosbarth AB (unigolion proffesiynol a rheolwyr) ac yn aelodau hŷn o'r gynulleidfa, a'u bod o bosibl yn gwrthwynebu i natur boblogaidd strategaeth rhaglenni Cymraeg S4C a oedd yn ceisio denu cynulleidfaoedd mawrion.
[54] Ibid., Adran IID.9 Continued.
[55] Ibid., Adran IIE1. Caed trafodaeth ar ardull gyflwyno'r sianel ym Mhennod 4, tt. 233–5.

Gymraeg ym 1982 bellach wedi ei dderbyn.[56]

Er y caed ffigurau cadarnhaol ar rai agweddau o waith y sianel, yr oedd ystadegau eraill nad oedd mor ffafriol. Cadarnhaodd yr arolwg yr hyn a welwyd eisoes yn adolygiad Cymdeithas yr Iaith, sef y farn nad oedd digon o newyddion am Gymru i'w gael ar y sianel (55 y cant), gyda'r ymatebwyr a oedd dros 45 oed yn llawer mwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad hwnnw ac yn gweld colli'r eitemau mwy lleol eu natur a ddarlledwyd yn Gymraeg cyn dyfodiad S4C.[57] Cafwyd argraff debyg gan ganlyniadau ymholiad pellach am safon agweddau gwahanol o wasanaeth newyddion y sianel, gyda dim ond 11 y cant o'r farn fod newyddion am eu hardal hwy yn dda iawn, 38 y cant o'r farn ei fod yn gymharol dda, ond 34 y cant yn nodi eu barn bod y gwasanaeth lleol yn wael neu hyd yn oed yn hynod wael.[58] Ceid tystiolaeth gadarn yma a ddangosai nad oedd y sianel wedi llwyddo i ddiwallu angen nac archwaeth y gynulleidfa Gymraeg am newyddion am eu cymunedau a'u hardaloedd hwy. Dengys yr adroddiad hefyd nad trigolion un ardal yn arbennig a deimlai i'r gwasanaeth cenedlaethol eu hesgeuluso hwy, gan i'r awduron nodi bod anesmwythyd ynglŷn â hyn ym mhob ardal, gan ddangos bod y strategaeth newyddion wedi methu gyda'r gynulleidfa yng Nghymru benbaladr.[59]

Er hynny parhai'r gynulleidfa i wylio'r rhaglen yn gymharol aml, gan y gwyliai 35 y cant o'r gynulleidfa Gymraeg *Newyddion Saith* bedair neu bum gwaith yr wythnos.[60] Yr oedd y ffigwr hwn ychydig yn uwch pe ystyrid patrymau gwylio'r gwylwyr hynny a oedd dros 45 oed yn unig. Er enghraifft, gwylwyr mwyaf cyson *Newyddion Saith* oedd gwylwyr 75 oed a hŷn, gyda 45 y cant ohonynt yn gwylio'r rhaglen

[56] Gellid honni i fodolaeth rhaglenni megis *Breakfast Time* a'r BBC 1 a *TV-AM* ar ITV, a lansiwyd rai misoedd wedi dyfodiad S4C yn Ionawr a Chwefror 1983, gyfrannu at y ffaith bod arddull cyflwyno llai ffurfiol yn llawer mwy cyfarwydd i gynulleidfaoedd, ac felly, o bosibl, yn llawer mwy derbyniol. Mae lle i amau y bu cynulleidfaoedd Cymreig yn fwy parod i dderbyn nodweddion newydd, megis arddull gyflwyno anffurfiol, ond dim ond ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu a'u derbyn gan gyfryngau Saesneg eu hiaith. Nid oedd pob carfan o'r gwylwyr Cymraeg yn cytuno, er hynny, gan i arolwg Research and Marketing Wales and the West Ltd, ddatgan fod unigolion dros 55 oed yn llawer llai tebygol o gredu bod y cyflwyno yn dderbyniol, gan ddangos nad oedd y natur anffurfiol a phoblogaidd yn apelio at bawb, yn enwedig y gynulleidfa hŷn, draddodiadol.

[57] 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru', Adran IIE1.

[58] Ibid., Adran IIE.3

[59] Ibid.

[60] O edrych ar y ffigurau cyfansawdd a ddangosai faint o'r ymatebwyr a oedd yn gwylio unwaith neu fwy yn ystod yr wythnos ceid ffigwr llawer mwy addawol sef 64 y cant o'r siaradwyr Cymraeg.

bedair neu bump gwaith yr wythnos.[61] Er bod y ffigurau yn is ar gyfer gwylwyr iau, nid oeddent mor isel ag y disgwylid, gan fod 59 y cant o'r gwylwyr rhwng 16 a 24 mlwydd oed yn gwylio'r newyddion Cymraeg un waith neu fwy yr wythnos, a 26 y cant o'r un garfan yn ei wylio pedair neu bum gwaith yr wythnos. Ynghyd â'r ystadegau addawol hyn, honnai 59 y cant o'r rheiny a wyliai'r rhaglen fod ei chynnwys yn ddiddorol, boed hynny yn 'eithriadol ddiddorol' neu'n 'ddiddorol iawn'.[62] Er nad oedd y gynulleidfa Gymraeg yn gwbl hapus gyda chydbwysedd y rhaglen yn enwedig o ystyried y cynnwys lleol, yr oeddent yn parhau i wylio'r rhaglen yn rheolaidd, ac yn cael eu difyrru ganddi. Neges gymysg a roddwyd felly i S4C, gan fod *Newyddion Saith* yn llwyddo i apelio at y gynulleidfa ar ei gwedd bresenol, ond bod bwlch yn parhau yn y ddarpariaeth. Ymhen rhai blynyddoedd llwyddwyd i ateb y gofyn hwn wrth i'r sianel gomisiynu a darlledu rhaglenni cylchgrawn megis *Hel Straeon, Heno* ac *Wedi 7* a lwyddai i fodloni peth o archwaeth y gynulleidfa am gynnwys lleol a roddai sylw i ddigwyddiadau yn eu trefi, pentrefi a'u dinasoedd hwy.[63]

Rhaglen arall a dafolwyd mewn manylder oedd *Y Byd ar Bedwar*. Yr oedd nifer gwylwyr y rhaglen hon ychydig yn is na'r niferoedd a geid ar gyfer *Newyddion Saith*, rhaglen a oedd yn gonglfaen i'r sianel. Ymddengys mai dim ond 28 y cant o'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn gwylio *Y Byd ar Bedwar* yn wythnosol, a 51 y cant yn ei gwylio o leiaf unwaith y mis. Er hynny, yr oedd bodlonrwydd y gynulleidfa gyda'r cynnwys yn uwch na'r hyn a gaed yn achos *Newyddion Saith*, gan i 68 y cant o'r gwylwyr nodi i'r rhaglen fod yn 'eithriadol ddifyr' neu'n 'ddifyr iawn'.[64] Yr oedd darpariaeth materion cyfoes y sianel yn llwyddo i blesio'r gynulleidfa, ond er natur gadarnhaol y ffigurau hyn ar gyfer *Newyddion Saith* ac *Y Byd ar Bedwar*, yr oedd un rhaglen a oedd yn rhagori arnynt, sef opera sebon y sianel, *Pobol y Cwm*. *Pobol y Cwm* oedd y rhaglen a lwyddodd i ddenu'r ganmoliaeth fwyaf gan yr ymatebwyr gan i 78 y cant o'r rheiny a wyliai'r gyfres nodi ei bod yn 'eithriadol ddifyr' neu'n

---

[61] *Gwylio a Gwrando yng Nghymru*, Adran IIE6.1.
[62] Ibid. Pe cynhwysid 'lled ddiddorol' hefyd yn y dadansoddiad hwn, byddai'r ffigwr yma'n neidio i 93 y cant.
[63] *Hel Straeon* (1987 - 1993); *Heno* (1993 - 2003), *Prynhawn Da* (2003 – 2005), *Wedi 7* (2003 - presennol) ac *Wedi 3* (2005 – presennol).
[64] 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru', Adran IIE6.2. Megis yn achos y ffigurau ar gyfer *Newyddion Saith*, neidia'r ffigwr hwn i 96 y cant pe cynhwysid y categori 'lled ddifyr' yn y dadansoddiad.

'ddifyr iawn'.[65] Mae lle i honni mai'r boddhad amlwg a esboniai'r galw clir a gaed gan yr ymatebwyr, am ragor o gyfresi drama ac operau sebon gan mai'r *genre* yma a ymddangosai ar frig y rhestr o dair *genre* ar ddeg yr hoffai'r ymatebwyr weld mwy ohonynt.[66] Yr oedd 78 y cant o'r ymatebwyr yn chwilio am ragor o gynnwys ffuglennol gan ddangos bod archwaeth sylweddol ymysg y gynulleidfa Gymraeg am gynnwys dramatig. Yr hyn a darodd awduron yr adroddiad oedd cyn lleied o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn dymuno gweld rhagor o raglenni gyda ffocws Cymreig megis cerddoriaeth werin (12 y cant), cyngherddau Cymraeg (7 y cant), hanes diwylliannol Cymreig (4 y cant) a sioeau cerdd Cymraeg (3 y cant). Mae'r ymateb hwn yn amlygu dau ateb posibl, sef un ai bod y sianel wedi llwyddo i ddarparu digon o raglenni tebyg a oedd yn diwallu angen y gynulleidfa, neu fe allai dystiolaethu nad oedd archwaeth y gynulleidfa Gymraeg am raglenni a oedd yn ymdrin â hanes Cymru a'r Celtiaid a cherddoriaeth werin mor helaeth ac y tybid gan y cynhyrchwyr a'r comisiynwyr. Codwyd y mater gan un o aelodau'r Awdurdod yn ystod cyfarfod i drafod polisi rhaglenni pan holodd: '. . . a oedd y Cymry cyffredin mewn gwirionedd yn diddori cymaint ym mhethau Celtaidd ag a awgrymwyd gan bwysau rhaglenni ar S4C.'[67] Ni cheir syniad o ymateb gweddill yr aelodau i'r datganiad hwn yn y cofnodion ac nid oes tystiolaeth ymhlith yr ohebiaeth a dderbynnid gan y sianel bod hon yn un o brif gwynion neu bryderon y gynulleidfa am y gwasanaeth. Wrth fwrw golwg dros y rhaglenni a ddarlledwyd gan y sianel yn ystod y cyfnod prawf, gellid gosod nifer o raglenni, megis *Cerddwn Ymlaen, Torth o Fara,* ambell rifyn o *Almanac* a *Lloffa* yn y categori hwn.

Er yr ymateb ffafriol a gaed i rai o raglenni mwyaf blaenllaw y sianel, rhoes yr arolwg rybudd nad oedd modd i swyddogion y sianel orffwys ar eu rhwyfau. Cadarnhawyd ofnau'r sianel am *Sbec,* wrth i'r ffigurau ddangos bod 61 y cant o'r Cymry Cymraeg wedi nodi nad oeddent erioed wedi edrych ar y cylchgrawn, a datganodd y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd y dylai S4C wneud mwy i

[65] Ibid., Adran IIE.7.1.
[66] Ibid., Adran IIE.9. Derbyniodd dramâu unigol, 36 y cant o'r bleidlais, a chomedi a rhaglenni dogfen yn gydradd ail gyda 26 y cant yr un. Nododd 16 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn dymuno gweld rhagor o ffilmiau ar y sianel hefyd. Yr oedd hyn yn dangos patrwm ychydig yn wahanol i arolwg Cymdeithas yr Iaith, a ddangosodd nad oedd consensws barn ynglŷn â thwf mewn darpariaeth dramâu cyfres.
[67] CS4C, *Cofnodion nawfed cyfarfod a deugain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru,* 7–8 Mehefin 1984, t. 3.

gefnogi dysgwyr Cymraeg.[68] Yn ôl yr arolwg hwn hefyd yr oedd bron i hanner y Cymry Cymraeg, 49 y cant, yn credu bod lle i'r sianel wella ei darpariaeth. Dangosodd dadansoddiad pellach o'r unigolion a honnai hynny mai dynion a oedd yn fwyaf anfodlon gyda'r ddarpariaeth ac nid merched, gan fod 54 y cant o ddynion a 46 y cant o ferched am weld gwelliannau.[69] Er bod 49 y cant o'r Cymry Cymraeg a 28 y cant o'r di-Gymraeg yn credu bod lle i wella ar y gwasanaeth, ni chafwyd unrhyw gonsensws sylweddol ar yr hyn a ellid ei weithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Cynigwyd dros ugain agwedd o'r gwasanaeth y gellid eu haddasu er mwyn ei wella, gyda rhagor o Gymraeg ac amrywiaeth rhaglenni yn derbyn y cydsyniad mwyaf.[70] Ynghyd â'r agweddau hynny, crybwyllwyd meysydd mor amrywiol â chynnwys llai o regi, darlledu llai o hen ffilmiau, sicrhau cyflwyno mwy proffesiynol, defnyddio amrywiaeth ehangach o actorion a chynnwys llai o acenion rhanbarthol, i'w haddasu hefyd.[71] Dengys y diffyg consensws hwn a'r amrywiaeth sylweddol o welliannau a gynigwyd pa mor anodd oedd plesio pob carfan o'r gynulleidfa Gymraeg, gan y ceid oddi mewn iddi amryfal ddisgwyliadau a safbwyntiau ar rinweddau a ffaeleddau'r sianel.

Agwedd ddifyr a amlygwyd gan yr arolwg wrth iddi geisio dirnad agweddau'r ymatebwyr at y Gymraeg a'i thwf neu ei thranc yng Nghymru ac yn eu hardaloedd hwy, oedd bod y mwyafrif o ymatebwyr, yn Gymry Cymraeg ac yn ddi-Gymraeg, yn credu bod y defnydd o'r Gymraeg ar gynnydd yng Nghymru yn gyffredinol. Er hynny, pan holwyd yr unigolion hynny am eu safbwyntiau ar y defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd hwy, yr oeddent o'r farn bod y defnydd yno yn dirywio.[72] Ceid darlun camarweiniol o les yr iaith felly, gan fod S4C yn creu'r argraff bod y defnydd o'r Gymraeg ar gynnydd ar draws Cymru oherwydd amlygrwydd yr iaith yn ei hamserlenni, ond mewn gwirionedd yr oedd hi ar drai yn y cymunedau. Dadleuir felly bod bodolaeth y sianel yn creu cam-argraff o hynt yr iaith, gan ei bod yn rhoi darlun i'r boblogaeth ei bod yn gymharol lewyrchus, a bod hyn yn ei dro yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd ffug i'r Cymry Cymraeg, gan arwain at bylu'r ymdrechion i achub yr iaith. Gellid dadlau hefyd bod hyn yn dystiolaeth bellach bod pryderon

[68] 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru', Adrannau IIF ac IIC4.
[69] Ibid., Adran IIE10.
[70] Ibid. Nododd 21 y cant o'r ymatebwyr yr hoffent weld mwy o raglenni Cymraeg na rhaglenni Saesneg, ac 20 y cant eu bod am weld rhagor o amrywiaeth.
[71] Ibid., Adran IIE10. Table 10.
[72] Ibid., Adran IIC1. Table 6.

Gwynfor Evans wedi ail dro-pedol y llywodraeth yn cael eu gwireddu a bod y tân a fu ym moliau nifer o'r ymgyrchwyr wedi diffodd ar ôl ennill y frwydr ddarlledu hanesyddol. A oedd y sianel felly trwy geisio 'achub yr iaith' trwy sicrhau lle teilwng iddi ar y teledu a chreu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn dangos y gellid defnyddio'r iaith er mwyn trafod nifer helaeth o feysydd, yn cyfrannu at ei thranc. Mae'n amhosibl profi unrhyw un o'r datganiadau hyn, gan fod cynifer o ffactorau yn effeithio ar dwf a thranc yr iaith o'r cynnydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r dylifiad o fewnfudwyr di-Gymraeg i ardaloedd Cymreig. Yr oedd yr holl elfennau hyn wedi eu hymblethu yn ei gilydd, ac o'r herwydd ni ellid gosod y bai, na'r clod wrth ddrws unrhyw sefydliad, nac unrhyw bolisi wrth geisio darganfod eu heffaith ar yr iaith.[73] Un datblygiad o blith nifer oedd sianel Gymraeg felly, a geisiai annog defnydd ehangach o'r Gymraeg a cheisiai greu delwedd gyfoes a chyffrous i'r iaith.

Pa bynnag mor ddifyr oedd y manylion a'r arlliwiau o batrymau gwylio cynulleidfaoedd Cymreig a Chymraeg a ddarganfuwyd yn yr arolwg hwn, eu darganfyddiad pwysicaf oedd agwedd y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg tuag at y patrwm o un sianel yn darlledu Cymraeg. Derbyniwyd cadarnhad boddhaol iawn bod y patrwm hwn yn bodloni y gynulleidfa yng Nghymru, wrth i 77 y cant o'r Cymry Cymraeg nodi mai ar un sianel yn unig y dylid darlledu rhaglenni Cymraeg, a 88 y cant o'r di-Gymraeg yn cytuno â'r un datganiad.[74] O gymryd sampl yr arolwg fel llinyn mesur ar gyfer y gynulleidfa yn gyffredinol, yr oedd mwyafrif helaeth y gynulleidfa yng Nghymru o blaid y patrwm darlledu cyfredol felly, gyda'r Cymry di-Gymraeg yn llawer hapusach ac yn argyhoeddedig nad oeddent am ddychwelyd i'r hen batrwm o sawl sianel ddwyieithog. Nid oedd y Cymry Cymraeg yr un mor unfryd, fel y buont yn ystod y frwydr i sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg yn y tirlun darlledu Prydeinig gydol y 1970au. Nid oedd bodolaeth y sianel wedi llwyddo i

---

[73] Ystyriodd y Swyddfa Gymreig gynnal prosiect ymchwil er mwyn asesu ddylanwad S4C ar y defnydd o'r Gymraeg ac hefyd ei dylanwad ar nodweddion ieithyddol yr iaith dros amser. Comisiynwyd astudiaeth dichonoldeb a weithredwyd gan Glyn Williams ac Alan R. Thomas o Prifysgol Cymru, Bangor, er mwyn dyfeisio technegau ymchwil i gynnal prosiect o'r fath ac asesu eu gwerth a'u perthnasedd. Glyn Williams ac Alan R. Thomas, *A Feasibility Study aimed to develop techniques to study the relationship between the Welsh Language output of S4C, and any changes to the extended pattern of use, and in the linguistic characteristics of the language over time* (Bangor, 1985). Penderfynodd y Swyddfa Gartref, er hynny, nad oedd modd cyfiawnhau cost astudiaeth ehangach ar y mater hwn gan mai'r gost arfaethedig oedd £366,000, ynghyd â unrhyw gostau chwyddiant. *Hansard*, House of Commons, 27 June 1986, col. 333.

[74] 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru', Adran IID.8. Anghytunodd 18 y cant o'r Cymry Cymraeg, gan eu bod yn dymuno gweld y Gymraeg ar fwy nag un sianel, a dim ond 9 y cant o'r di-Gymraeg a oedd yn dymuno gweld hynny.

argyhoeddi'r garfan honno a bryderai'n ddirfawr am dynged yr iaith mewn geto ieithyddol. Yr oedd carfan felly o'r Cymry Cymraeg yn parhau i arddel yr un safbwyntiau y dylid darlledu rhaglenni Cymraeg ar draws nifer o sianeli er mwyn i'r di-Gymraeg ddod i gysylltiad â'r Gymraeg ac er mwyn i bob sianel deledu yng Nghymru adlewyrchu amrywiaeth a phatrwm ieithyddol Cymru.

*Adolygiad y Swyddfa Gartref*

Darganfuwyd o fewn yr amryw arolygon batrymau ac agweddau a oedd yn fendithiol iawn i'r sianel wrth iddi agosáu at gyfnod yr adolygiad swyddogol gan y Swyddfa Gartref. Ceid ystadegau a fyddai o gymorth wrth i'r sianel geisio dwyn perswâd ar swyddogion yr adran Lywodraethol hon a allai, mewn egwyddor, ddod â'r sianel i ben. Dechreuwyd trafodaethau agoriadol rhwng S4C â swyddogion y Swyddfa Gartref yng nghanol 1984, ac erbyn Tachwedd 1984 yr oedd y sianel wedi derbyn cadarnhâd '. . . fod y Swyddfa Gartref am wireddu'r addewid i gynnal adolygiad o S4C â chyn lleied o ffwdan a phosib.'[75] Ymddengys nad oedd y Swyddfa Gartref am fynd allan o'i ffordd i geisio dangos nad oedd y sianel yn llwyddo i wireddu'r addewidion na'r gobeithion gwreiddiol ar gyfer sianel o'r fath. Yn hytrach y darlun a geir gan gofnodion Awdurdod S4C yw bod swyddogion y Swyddfa Gartref yn awyddus i sicrhau adolygiad pwrpasol a fyddai'n cadarnhau statws a safle digamsyniol S4C yn nhirlun darlledu Cymru. Agwedd a gadarnheir gan adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd fis yn ddiweddarach rhwng swyddogion y sianel a Quentin Thomas a Christopher Scoble o Adran Ddarlledu'r Swyddfa Gartref, lle nodir: 'Credai (Owen Edwards) mai'r agwedd a amlygwyd oedd gresynu bod ymrwymiad nad ellir mo'i osgoi i gynnal adolygiad, oherwydd y boddhad cyffredinol â'r drefn bresennol.'[76] Er yr ymateb cadarnhaol a chysurlon hwn, nid oedd y swyddogion yr Awdurdod yn gwbl esmwyth eu meddyliau â'r adolygiad, gan i'r drafodaeth ehangach a fu rhwng aelodau'r Awdurdod geisio dadelfennu a oedd y sianel wedi dehongli'r cymal am ddarlledu rhaglenni Channel 4 o boptu'r rhaglenni Cymraeg yn

[75] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a phedwar Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 9 Tachwedd 1984, t. 2.
[76] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a phump Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 6 – 7 Rhagfyr 1984, t. 3; Clywyd sylwadau yr un mor galonogol gan yr Ysgrifennydd Cartref, Leon Brittan A.S., yn ei anerchiad i Glwb Busnes Caerdydd ar 7 Ionawr 1985, lle nododd bod y wybodaeth am S4C a ddeuai ato'n ffafriol a bod gwerthiannau'r sianel dramor '. . . yn galondid iddo.' CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a chwech Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1985, t. 2.

y modd cywir, gyda rhai'n pryderu y gellid cosbi'r sianel pe dangosid nad oedd y sianel wedi dilyn gofynion y Ddeddf Ddarlledu.[77]

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau manylion yr adolygiad gan Quentin Thomas ar 26 Mawrth 1985, ac ynddo ceid argraff bellach o hyder y Swyddfa Gartref yn y gwaith a wnai S4C. Nodwyd na cheid galw cyhoeddus sylweddol am ddiddymu'r sianel, ffactor a fyddai'n fygythiad mawr i oroesiad y sianel. Meddai Thomas yn ei lythyr:

> In the 1980 debates, the Home Secretary also said that before reaching any decision on revision to a two-channel solution, the Government would have to be satisfied that there was widespread demand for change and that such a change would be in the interest of Wales as a whole and of the Welsh language . . . no such widespread public demand has become apparent in the past two years . . .[78]

Gan na fu na galw cyhoeddus sylweddol am ddiddymu'r sianel, un syniad yr oedd y Swyddfa Gartref yn ei ystyried, ac a gynigwyd fel dewis i'r sianel, oedd cynnal adolygiad mewnol yn y Swyddfa Gartref a fyddai'n ceisio tystiolaeth ysgrifenedig gyfyngedig gan y sefydliadau darlledu, ac a fyddai'n osgoi adolygiad ac ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.[79] Er mor atyniadol oedd y llwybr hwn i S4C, daeth yr Awdurdod i'r casgliad nad oedd cyfyngu'r dystiolaeth i sefydliadau darlledu yn dderbyniol ac y dylid cynnig cyfle a gwahoddiad cyffredinol i unrhyw gorff a oedd yn dymuno bwrw sylw ar y sianel i wneud hynny.[80] Diau yr ystyriai aelodau'r Awdurdod fod S4C yn sefydliad a berthynai i'r gymdeithas Gymreig ehangach ac nid dim ond i'r byd darlledu. Cynigwyd gan y Cadeirydd y gallai'r Swyddfa

[77] Ibid. Yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn pryderu amdano oedd ei fod wedi cam-ddiffinio 'normally' yng ngeiriad y Ddeddf Ddarlledu. Gan nad oedd y sianel wedi celu ei diffiniad o'r cymal hwn erioed, penderfynwyd peidio â chrybwyll yr amheuaeth hwn, rhag ofn iddo adlewyrchu'n wael ar y sianel. Ond ymrwymwyd i drafod y mater pe codai cyfle i drafod gwelliannau i'r Ddeddf gyda'r llywodraeth ar ôl yr adolygiad.

[78] CS4C, Llythyr oddi wrth Quentin Thomas o'r Swyddfa Gartref at Owen Edwards, 26 Mawrth 1985 - *Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a naw Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 12 Ebrill 1985.

[79] Ibid. Dyma'r cynllun a ffafriwyd gan y Cyngor Darlledu gan ei fod yn pryderu y gallai cynnal adolygiad agored arwain at drafodaethau a allai droi'n chwerw. BBC Written Archive Centre, *Minutes of the 363rd meeting of the Council held at the University College of Wales, Aberystwyth on Friday 19th April 1985*, tt. 6–7.

[80] CS4C, *Draft reply to the Home Office letter of 26 March 1985 – Papur atodol i Agenda cyfarfod hanner cant a naw Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, 12 Ebrill 1985*, t. 1. Yn y draft hwn o'r llythyr ceir cyfeiriadau at yr adolygiad arfaethedig i'r cytundeb rhaglenni rhwng S4C ac HTV gan awgrymu y dymunai swyddogion y Swyddfa Gartref daro golwg a chofnodi eu barn ar y sefyllfa honno. Ond awgrymwyd gan ddau aelod o'r Awdurdod y dylid hepgor yr adran hon. Diau mai er mwyn osgoi tynnu sylw'r Swyddfa Gartref at broblemau y sianel ar drothwy yr adolygiad y gwnaed hynny.

Gymreig lunio rhestr o sefydliadau perthnasol y gallai'r adolygiad gysylltu â hwy er mwyn gwahodd tystiolaeth. Ond yr oedd o leiaf dau aelod o'r Awdurdod yn argyhoeddedig na fyddai'n briodol gosod cyfyngiad o'r fath ar yr adolygiad hwn, ac y dylid gadael i unrhyw un a ddymunai fynegi barn yn ystod yr adolygiad. Er na chofnodir sylwadau i'r perwyl hwn, gellid cynnig mai'r hyn a boenai'r aelodau oedd y posibilrwydd y ceid amau dilysrwydd unrhyw adolygiad pe na bai'n gwbl agored. Petai'r adolygiad wedi ei gyfyngu i sefydliadau 'cyfeillgar' yn unig, fe ellid cyhuddo'r sianel a'r Swyddfa Gartref o arwain canlyniad yr adolygiad. Mynnid sicrhau na ellid edliw bodolaeth y sianel na chwestiynu dilysrwydd yr adolygiad tyngedfennol a chyfreithiol hwn.[81] Derbyniodd y Swyddfa Gartref ddymuniad yr Awdurdod a deallwyd mai: ". . . cynnal adolygiad mor ddi-ffwdan a syml â phosib oedd y gobaith, tra'n gwireddu'r addewid i roi cyfle i draethu barn gan bawb a ddymunai.'[82] Cyhoeddwyd felly ar 23 Awst 1985, mewn datganiad newyddion gan y Swyddfa Gartref, fod Giles Shaw, olynydd William Whitelaw fel Ysgrifennydd Cartref, yn gwahodd sylwadau gan sefydliadau darlledu ac unrhyw grwpiau ac unigolion eraill o Gymru a oedd ag unrhyw sylwadau i'w datgan ar fater y bedwaredd sianel.[83]

Un sefydliad y tu allan i'r byd darlledu a oedd yn dymuno cyfrannu at yr adolygiad oedd Cyngor Defnyddwyr Cymru (CDC) a hynny gan ei fod wedi llunio prosiect ymchwil a oedd yn ceisio darganfod pa mor atebol oedd S4C i'w chynulleidfa, gan ddilyn thema a godwyd eisoes gan Gymdeithas yr Iaith yn ei hadolygiad ym 1984. Bwriad y Cyngor oedd defnyddio'r ymchwil hwn er mwyn ffurfio a bwydo ei dystiolaeth i'r Swyddfa Gartref.[84] Yr hyn a luniwyd oedd dogfen a elwid yn *Watching S4C: the case for consumer representation for the Fourth Channel in*

[81] Caed cadarnhad gan y Swyddfa Gartref ym Medi 1985 ei bod yn croesawu sylwadau a gohebiaeth gan unigolion, ond penderfynwyd yn erbyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith hon ar S4C. Ni cheir rheswm yn y cofnodion, ond yr oedd perygl y gellid rhoi camargraff fod y sianel yn ceisio dylanwadu'n annheg ar yr adolygiad trwy annog anfon tystlythyrau at y Swyddfa Gartref; CS4C, *Cofnodion pedwerydd cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 13 Medi 1985, tt. 4–5.
[82] CS4C, *Cofnodion trigeinfed cyfarfod Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Mai 1985, t. 1.
[83] ITA/IBA/Cable Authority archive, Bournemouth University, 3997019, RK/6/53, Dienw, *News Release - Review of the Fourth Channel in Wales*, 23 Awst 1985,
[84] CS4C, *Cofnodion cyfarfod hanner cant a wyth Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 8 Mawrth 1985, t. 2. Caed adroddiad ar fwriad y CDC yn y cyfarfod hwn o'r Awdurdod.

*Wales*.[85] Yn y cyflwyniad i'r ddogfen ceir yr argraff nad oedd Cyngor Defnyddwyr Cymru yn gwbl hyderus o fwriad y Swyddfa Gartref gyda'r adolygiad, gan y nodwyd: 'WCC believes that it is appropriate at this time to look not only at the desirability of the single channel solution, but also to consider the operation and performance of S4C.'[86] Ceid yr argraff felly fod y CDC yn pryderu y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar egwyddor y bedwaredd sianel yn hytrach nac adolygu'n wrthrychol y penderfyniadau a'r strategaethau a weithredwyd gan S4C yn ystod y tair blynedd brawf. Pryder, gellid dadlau o edrych yn ôl dros yr ohebiaeth rhwng y Swyddfa Gartref a swyddogion y sianel, a oedd yn ddilys.

O'r cychwyn cyntaf, nododd CDC ei fod yn llwyr gefnogi'r patrwm un sianel ar gyfer darpariaeth Gymraeg ac y dylai S4C gael sêl bendith y llywodraeth i barhau fel sefydliad parhaol yn nhirlun darlledu Cymru.[87] Er hynny, nid oedd yn gwbl hapus gyda'r ffordd yr oedd y sianel yn ymwneud â'i gwylwyr wrth ganfasio a chanfod eu barn. Fel y trafodwyd eisoes, er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau a fodolai eisoes y penderfynodd S4C dynnu ar arbenigedd y sefydliadau cynghori cyffredinol a fodolai eisoes sef Cyngor Darlledu'r BBC a Phwyllgor Cymreig yr ADA yn ystod y cyfnod prawf.[88] Yr hyn a boenai CDC am y sefyllfa hon oedd: 'Neither of these bodies has as its primary role a concern with S4C.'[89] Yr oedd teimlad felly y gallai anghenion gwylwyr S4C gael eu hesgeuluso gan y cynllun hwn, ac argymhelliad y Cyngor Defnyddwyr oedd y dylai'r sianel Gymraeg lunio'r hyn a elwid yn Bwyllgor Ymgynghori Defnyddwyr (Consumers' Consultative Committee).[90] Cylch gorchwyl y pwyllgor fyddai ystyried holl agweddau ar waith S4C, yn hytrach na dim ond y rhannau ohono a oedd yn berthnasol i'r BBC neu'r ADA. Er i CDC gyfaddef nad oedd unrhyw awdurdod teledu arall ym Mhrydain yn defnyddio pwyllgor o'r fath, yr oedd yn argyhoeddedig y dylai S4C wneud hynny er mwyn amddiffyn a chynnig

---

[85] Welsh Consumer Council, *Watching S4C: the case for consumer representation for the Fourth Channel in Wales – The Welsh Consumer Council's Evidence to the Home Office Review of the Fourth Channel in Wales*, Hydref 1985.
[86] Ibid., t. 1.
[87] Ibid.
[88] Rhaid cofio nad oedd y Ddeddf Ddarlledu yn mynnu bod y sianel yn ffurfio cyfundrefn ymgynghorol annibynnol, er y rhoddwyd pwyslais arbennig ar feysydd addysg a chrefydd. I'r perwyl hwnnw felly yr oedd i'r sianel ei phwyllgorau cynghori annibynnol yn y meysydd hyn ynghyd â phwyllgor ychwanegol ar apeliadau elusennol. Gweler trafodaeth ehangach ym Mhennod 2, tt. 117–21.
[89] *Watching S4C*, t. 2.
[90] Ibid., tt. 6–14.

llais i 'ddefnyddwyr' S4C.[91] Nodwyd gan yr adroddiad nad oedd y CDC yn ceisio dangos bod gwylwyr S4C angen mwy ofal ac amddiffyniad na gwylwyr sianeli eraill. Er hynny, eir ati yn y ddogfen i wrthddweud y datganiad hwn trwy restru un rheswm ar ddeg pam yr oedd hi'n angenrheidiol i'r sianel sefydlu gweithgor o'r fath, a hynny ar fyrder. Un o'r rhesymau cyntaf a nodwyd dros ffurfio Pwyllgor Defnyddwyr oedd y ffaith fod S4C yn cynrychioli monopoli yng nghyd-destun teledu Cymraeg: '. . . it is the only supplier of Welsh language programmes and a selection of Channel Four UK output: hence it is a monopoly.'[92] Fe ellid dadlau nad oedd monopoli S4C dros ddarlledu Cymraeg yn gwbl gyflawn; ystyrier, er enghraifft, y monopoli dros ddarlledu a gafwyd gan y BBC cyn dyfodiad ITV ym 1955. Yn achos S4C, cynhyrchwyd ei rhaglenni gan sawl ffynhonnell, a phrin iawn oedd yr eitemau a gynhyrchwyd yn fewnol. Yr oedd lleisiau niferus felly yn ymddangos ar donfeddi S4C, ac nid oedd grym S4C dros y rhaglenni a ddarlledwyd yn gwbl gyflawn yn enwedig pan gynhyrchid y rhaglenni hynny oddi mewn i gyfundrefnau darlledu eraill.[93] Er hynny, gwir oedd dweud bod gan S4C fonopoli dros amseriad rhaglenni Cymraeg, hyd yn oed os nad oedd yr un monopoli ganddi dros y cynnwys.

Ynghyd â'r egwyddor bod angen mwy o ofal dros hawliau defnyddwyr yng nghyd-destun monopoli, nododd CDC bod ei ymchwil wedi dangos y gellid gwneud mwy i ddiwallu anghenion rhai carfannau o gynulleidfa'r sianel, er enghraifft y di-Gymraeg a'r cynulleidfaoedd iau. Honnai'r Cyngor y byddai sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr cytbwys yn sicrhau bod llais i'r carfannau hyn wrth i'r sianel ddatblygu ac esblygu yn y dyfodol.[94] Credai'r Cyngor hefyd nad oedd pwyllgorau cynghori cyffredinol, yr hyn a oedd yn draddodiadol i'r byd darlledu, yn sicrhau llais i'r defnyddwyr, ac mai'r patrwm yr anelid ato oedd yr hyn a fodolai ar gyfer y diwydiannau gwladol, megis iechyd. Nid oedd CDC ychwaith yn credu bod sefydlu'r Broadcasting Complaints Commission ar gyfer y diwydiant cyfan yn ôl Deddf Ddarlledu 1981, wedi ateb y gofyn ychwaith, gan y tybid bod rôl ehangach i'r pwyllgorau cynghori cyffredinol na delio â chwynion am raglenni penodol yn unig.

---

[91] Ibid., t. 6.
[92] Ibid.
[93] Ceir trafodaeth fanwl o'r trafodaethau dros reolaeth cynnwys rhaglenni wrth i S4C sefydlu ei pherthynas weithio gyda'r BBC ac HTV ym Mhennod 4.
[94] *Watching S4C*, t. 7.

Pryderai y Cyngor hefyd y byddai'r sianel yn llai agored i safbwyntiau gwylwyr ar ôl i'r cyfnod prawf ddod i ben, gan na fyddai hi'n gwbl dyngedfennol iddi ymateb i sylwadau a barn ei chynulleidfa. Honnai'r Cyngor mai cyfnod prawf y sianel a oedd wedi ei hysgogi i fod mor ymatebol â phosibl i safbwyntiau ei gwylwyr yn ystod ei thair blynedd gyntaf wrth iddi drefnu cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus, darlledu'r rhaglen *Arolwg* a chomisiynu prosiectau ymchwil penodol.[95] Yr oedd y Cyngor yn pryderu y byddai'r cymhelliad hwnnw'n diflannu ar ôl i'r sianel gael ei sefydlu fel rhan barhaol o'r byd darlledu ac y byddai'r sianel yn llai cydwybodol wrth fynd ati i ganfasio barn ei chynulleidfa.[96] Ynghyd â'r pryderon hyn am atebolrwydd y sianel wedi diwedd y cyfnod prawf yr oedd y Cyngor o'r farn nad oedd y patrwm o ddefnyddio sefydliadau ymgynghori'r BBC a'r ADA yn glir i'r gynulleidfa. Credid nad oedd hi'n naturiol i'r gynulleidfa ystyried troi at y BBC na'r ADA os am drafod materion a oedd yn ymwneud ag S4C.[97] At hynny, yr oedd y CDC yn argyhoeddedig nad oedd cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn fodd effeithiol o ymwneud â'r cyhoedd neu 'ddefnyddwyr' y sianel. Yn sicr, gellir gweld rhinwedd i'r safbwynt hwn a hynny oherwydd nad oedd cyfarfodydd cyhoeddus yn llwyddo i ddenu cynulleidfa helaeth nac amrywiol, hyd yn oed yn achos sianel y bu ymgyrch di-hafal gan y cyhoedd i'w sicrhau.[98] At hynny, yr oedd hi'n annhebygol fod y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn gynrychioladol, gyda'r carfannau a ddynodwyd eisoes gan y Cyngor a oedd yn cael eu hesgeuluso gan y sianel, sef y di-Gymraeg a'r ifanc yn annhebyg o'u mynychu. Taerai'r Cyngor y byddai cynrychiolwyr y carfannau gwahanol o'r gynulleidfa ar bwyllgor defnyddwyr yn sicr o fod yn fwy gweithgar a threiddgar na defnyddwyr unigol a fynychai gyfarfodydd cyhoeddus, er mwyn gwthio dadleuon a diddordebau personol yn hytrach na dymuniadau y gynulleidfa ehangach.

[95] Cyfres oedd *Arolwg* a gynhyrchid gan HTV ac a gyflwynwyd gan Derec Llwyd Morgan a oedd yn rhoi cyfle i wylwyr y sianel drin a thrafod ei rhaglenni.
[96] Ibid., t. 9. Gellid dadlau y bu y sianel yn llai cydwybodol wrth ymateb i sylwadau y gynulleidfa o edrych ar galwadau sydd yn 2010, nid yn unig i arbed cyllideb y sianel rhag toriadau yn ei chyllideb ond hefyd am 'S4C Newydd' gan nad yw'r sianel yn apelio at nifer fawr o'i chynulleidfa darged. Menna Machreth, Araith Rali 'Na i'r Toriadau, Ie i S4C newydd', *cymdeithas.org/2010/10/02/araith_menna_machreth_rali_na_ir_toriadau_ie_i_s4c_newydd.html* (cyrchwyd Rhagfyr 2010).
[97] *Watching S4C*, t.10.
[98] Gweler trafodaeth ar hynt cyfarfodydd cyhoeddus cynnar S4C ym Mhennod 2, t. 128.

Aeth CDC ymlaen i nodi ei argyhoeddiad nad baich ychwanegol fyddai sefydlu pwyllgor o'r fath, ond y byddai'n: '. . . supportive both by helping S4C to be a popular, comprehensive and widely respected broadcasting service and increasing the effectiveness of its communications with consumers.'[99] Credai'r Cyngor hefyd y dylai pwyllgor gwarchodol o'r fath, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf ohono, ystyried materion o bolisi yn hytrach na chanolbwyntio ar gwynion am raglenni unigol. Y ddelfryd a osodwyd yn yr adroddiad oedd pwyllgor a fyddai'n trafod cydbwysedd ac amseriad rhaglenni Cymraeg a Saesneg, meini prawf dethol rhaglenni Saesneg Channel 4, cynlluniau a chanllawiau cynhyrchu rhaglenni, prosesau ymdrin â chwynion a'r gwerth am arian a gynigiai S4C.[100] Er i'r Cyngor nodi nad ei fwriad oedd trawsfeddiannu cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod, yr oedd y gorchwylion hyn yn ddiamheuaeth yn llechfeddiannu'r gweithgareddau y bu'r Awdurdod yn ymwneud â hwy yn ystod pedair blynedd ei fodolaeth. Ond yn sicr y gwahaniaeth mwyaf a geid rhwng yr Awdurdod a chynlluniau CDC, oedd y ddelfryd y byddai'n gyngor cynrychioladol gan adlewyrchu'r amrywiaeth o unigolion a ystyriai eu hunain yn wylwyr S4C a hynny yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg. Yn y cyfnod dan sylw yr oedd Awdurdod S4C ymhell o fod yn gynrychioladol yn nhermau oedran, rhyw a natur ieithyddol, er ei fod yn gymharol gynrychioladol mewn termau daearyddol. Yr oedd CDC wedi adnabod un man sylweddol wan yn arfogaeth yr Awdurdod, felly, ac wedi llunio ymchwil ac adroddiad manwl a threiddgar y byddai'n anodd i S4C a'r Swyddfa Gartref ei ddiystyru.

Er i Gyngor Defnyddwyr Cymru honni i'r ymchwil ddangos bod nifer o sefydliadau yn cefnogi yr angen i S4C wneud mwy i gasglu gwybodaeth a barn am ei chynulleidfa, nid oedd y sefydliadau darlledu Cymreig yn cytuno â'r syniadau a arddelwyd gan yr adroddiad hwn.[101] Mewn cyfarfod ar y cyd rhwng Cyngor Darlledu'r BBC ac Awdurdod S4C ar ddechrau prosiect ymchwil CDC, gwelwyd cynrychiolwyr o'r BBC yn amau gwerth pwyllgorau cynghori ffurfiol, gyda Gareth Price, Pennaeth Rhaglenni Cymru, yn llafar ei farn. Ymddengys iddo nodi: '. . . in his experience formal advisory committees were an ineffective way of achieving information about the audience; letters and phone calls were much more helpful,

[99] *Watching S4C*, t. 10.
[100] Ibid., t. 12.
[101] Ibid., t. 10.

especially when taken together with efficient audience research.'[102] Credai Geraint Stanley Jones, bod y patrwm a luniwyd gan S4C wedi dangos cyd-weithio rhyfeddol rhwng y sefydliadau darlledu yng Nghymru, a nododd nad oedd yn llwyr ddeall ysgogiad a rhesymau CDC dros godi'r mater hwn.[103] Yr oedd hyd yn oed W. John Jones, aelod o'r Cyngor Darlledu a chyn-aelod o Gyngor Defnyddwyr Cymru, yn argyhoeddedig mai'r unig argymhelliad defnyddiol y gallai CDC ei wneud oedd cynnig bod strwythurau cwyno'r sianel yn gliriach ac yn adnabyddus i'r cyhoedd.[104] Yr oedd D. E. Alun Jones, aelod arall o'r Cyngor Darlledu, yn credu:

> . . . that S4C seemed to him to be under more public scrutiny proportionally than any other UK channel, to judge by the attention given to it in the Welsh press. In his opinion, there was no serious cause for concern on this issue.[105]

Cafwyd ymateb anffafriol o du'r ADA hefyd wrth iddo drafod dogfen ymgynghori Cyngor Defnyddwyr Cymru ym Medi 1985. Yn wahanol iawn i'r adroddiad terfynol, *Watching S4C*, yr oedd y ddogfen hon yn nodi nifer o gynigion a syniadau eraill ar wahân i'r Pwyllgor Ymgynghori Defnyddwyr wrth geisio sicrhau bod lleisiau amrywiol y gynulleidfa i'w clywed gan S4C. Cynigiwyd, er enghraifft, y gallai'r BBC a'r ADA ffurfio is-bwyllgor a fyddai'n gallu ymwneud â rhaglenni S4C yn eu cyfanrwydd. At hynny, awgrymwyd y gellid gwahodd Pwyllgor Cymreig yr ADA i ddarparu cyngor i Awdurdod S4C ar holl raglenni'r sianel neu y gellid ffurfio un pwyllgor ymgynghorol newydd a fyddai'n cynghori holl sefydliadau darlledu Cymru, y BBC, HTV a S4C.[106] Er y gwerthfawrogodd Pwyllgor Cymreig yr ADA y ffydd a ddangoswyd yn y pwyllgor hwn trwy gynnig bod rôl iddynt yn y gwaith, yr oedd yr aelodau yn gwbl argyhoeddedig nad oedd modd gweithredu unrhyw un o'r cynlluniau hyn oherwydd y gwahaniaethau sylfaenol a gaed rhwng strwythurau a chylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r ADA a'r BBC. Bu i'r ddogfen hefyd godi gwrychyn y Pwyllgor oherwydd yr argraff a roddid ynddo fod yr ADA yn

---

[102] CS4C, *Minutes of the joint meeting of the Broadcasting Council of Wales and S4C*, 15 Mawrth 1985, t. 3.
[103] Ibid.
[104] Ibid.
[105] Ibid., tt. 3–4.
[106] Casgliad Personol Dr Jamie Medhurst (CPJM), Casgliad yr ADA, *Minutes of the 175th Meeting of the Advisory Committee for Wales*, 27 Medi 1985, t. 5.

anwybyddu ymateb y defnyddwyr.[107] At hynny, datganodd Chris Jackson, un o aelodau'r Pwyllgor, nad oedd yr adroddiad na'i safbwynt yn ddilys a hynny gan nad oedd ei osodiad sylfaenol, nad oedd aelodaeth pwyllgorau'r ADA a'r BBC yn gynrychioladol a hynny gan eu bod gan amlaf yn deillio o'r dosbarth canol, yn gywir. Credai hefyd eu bod hi'n llawer anoddach nag y tybiai'r CDC i sicrhau pwyllgorau cwbl gynrychioladol.[108]

Bu natur fanwl adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru yn ddigon i ysgogi'r Swyddfa Gartref i ystyried o ddifrif ei dystiolaeth a mynd ati i ymchwilio a llunio ymateb manwl i'r argymhellion.[109] Er hynny, yr oedd rhai amheuon ymysg swyddogion y Swyddfa Gartref bod cysyniad canolog CDC yn wallus, sef y gellid ymdrin â darlledu yn yr un modd ac unrhyw gynnyrch arall, ac na ellid trin y gynulleidfa fel defnyddwyr yn unig oherwydd ystyriaethau lles y cyhoedd a oedd yn rhan annatod o ddarlledu.[110] Nid oedd ymateb S4C ei hun ychwaith yn ffafriol i argymhellion CDC, teimlai rhai aelodau bod nifer o'r awgrymiadau yn dyblygu gwaith yn ddi-anghenraid a nodwyd yn nrafft ymateb y sianel i'r Swyddfa Gartref ei chred i'r Cyngor Defnyddwyr weld cyfle i sefydlu pwyllgor fyddai'n gynsail i weddill y diwydiant, gan ddefnyddio S4C fel testun arbrawf.[111] Yr oedd Syr Goronwy Daniel yn gwbl yn erbyn yr egwyddor, a, chan ddatblygu'r safbwyntiau a fynegwyd gan Chris Jackson o Bwyllgor Cymreig yr ADA, nododd mai ateb 'elitaidd', er y cydnabuwyd gan y Cadeirydd bod angen gwneud mwy i ddenu'r di-Gymraeg i'r cyfarfodydd cyhoeddus hynny, a gynigwyd gan y Cyngor Defnyddwyr. Ymddengys mai safbwynt Syr Goronwy Daniel oedd y byddai pwyllgor o'r fath yn llai cynrychioladwy na'r cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan y sianel eisoes. Yr oedd teimlad cryf hefyd ymysg aelodau'r Awdurdod na ellid cyfiawnhau buddsoddi mewn swyddfa weinyddol ychwanegol er mwyn cynnal pwyllgor o'r fath.[112] Oherwydd y gwrthwynebiad sylweddol hwn o du'r sefydliadau darlledu a'r amheuaeth sylfaenol ymysg swyddogion y Swyddfa Gartref, yr oedd hi'n annhebygol iawn y byddai

[107] Ibid.
[108] Ibid.
[109] CS4C, *Llythyr oddi wrth Christopher Scoble at Owen Edwards, 20 Rhagfyr 1985 – Papur atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986.
[110] Ibid.
[111] CS4C, *A Consultative Committee for the WFCA (Draft for Discussion) - Papur atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986, t. 1.
[112] CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986, t. 3.

argymhellion Cyngor Defnyddwyr Cymru yn cael eu defnyddio, ond yn sicr fe lwyddodd yr ymchwiliad i godi'r mater i frig agenda'r sefydliadau perthnasol, ac fe luniwyd cynlluniau gan swyddogion S4C i ffurfio rhaglen o seminarau i drafod rhaglenni gyda'r gwylwyr, yr Awdurdod a'r cynhyrchwyr.[113]

Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol tuag at ymchwil nac argymhellion Cyngor Defnyddwyr Cymru yn y dystiolaeth a luniwyd gan S4C ar gyfer y Swyddfa Gartref. Yn hytrach aiff y sianel ati i groniclo ei chyraeddiadau ers ei sefydlu gan ganolbwyntio, yn ôl y disgwyl, ar agweddau cadarnhaol a llwyddiannus y gwaith a wnaed ganddynt.[114] Gwnaed defnydd o ffigurau gwylio, y gwaith ymchwil *Gwylio a Gwrando yng Nghymru* a wnaed ym 1984 gan Research and Marketing Wales and the West Limited, cydnabyddiaeth ryngwladol aruthrol y sianel yn ystod ei blynyddoedd cynnar a'r rhestr gynyddol drawiadol o wobrau yr oedd rhaglenni'r sianel wedi eu casglu rhwng 1983 ac 1985.[115] Canolbwyntiwyd ar yr holl agweddau a ychwanegodd y sianel i'r tirlun darlledu Cymreig, gan bwysleisio bodolaeth *gwasanaeth* Cymraeg bellach yn hytrach na chlwstwr o raglenni annibynnol.[116] At hynny, pwysleisiwyd yr egni newydd a gaed oddi mewn i'r sector gynhyrchu yng Nghymru, gydag ehangu niferoedd y cynhyrchwyr annibynnol, y cwmnïau adnoddau a'r staff newydd a gyflogwyd gan BBC Wales ac HTV Wales.[117] Honnir i'r egni hwn sicrhau nad oedd modd hawlio bellach nad oedd digon o dalent yn y Gymru Gymraeg i gynnal gwasanaeth annibynnol: 'The prophets of doom whose contention, before S4C started broadcasting, was that Wales lacked the necessary expertise and talent to sustain a high-quality programming service, have been proved embarassingly wrong.[118] Pwysleisiwyd hefyd yr ymdrech a wnaed gan y sianel i sicrhau nad oedd yr arian a ddeuai i'w choffrau yn cael ei wastraffu ar fiwrocratiaeth a staffio, a nodwyd bod 90 y cant o'r arian yn mynd yn uniongyrchol ar brynu rhaglenni.[119] Ceir yma gyfeiriad cynnil tuag at argymhellion Cyngor Defnyddwyr

[113] CS4C, *A Consultative Committee for the WFCA (Draft for Discussion)*, t. 3. Nodir hefyd yma fwriad S4C i sicrhau arbenigedd ymchwil mewnol er mwyn manteisio ac ehangu ar y defnydd o ystadegau a geid gan BARB.
[114] CS4C, *Adolygiad S4C, Tystiolaeth i'r Swyddfa Gartref (Drafft – Papur 11.85(2)) – Papur atodol i Agenda seithfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Tachwedd 1985.
[115] Ibid., tt. 3–4.
[116] Ibid., t. 1.
[117] Ibid., tt. 1–2.
[118] Ibid., t. 2.
[119] Ibid., t. 5.

Cymru i sefydlu cyfundrefn ymgynghori newydd gan ychwanegu at y costau hyn. Ynghyd â sylwadau canmoliaethus, fe gaed datganiadau eraill a oedd yn llawer mwy diymhongar, yn nodi bod swyddogion y sianel yn llwyr ymwybodol o'r gwendidau a fodolai eisoes yn ei darpariaeth. Nodwyd bod angen rhagor o ddatblygiadau er mwyn sicrhau gwasanaeth gwell i ddysgwyr trwy baratoi darpariaeth arbenigol ar eu cyfer a thrwy gynyddu'r gwasanaeth is-deitlo, gan ddangos bod y sianel yn cydnabod na lwyddodd y strategaeth yn y maes hwn daro deuddeg. Nodwyd hefyd fwriad y sianel i ddarparu gwasanaeth is-deitlo Cymraeg ar gyfer y byddar. At hynny, cyfeiriwyd at yr angen am ddarpariaeth ehangach ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, gan awgrymu y sylweddolai'r sianel nad oedd wedi llwyddo, er gwaethaf bodolaeth rhaglenni megis *Coleg*, i sicrhau teyrngarwch y garfan hon o'r gynulleidfa.

Crynhoir tystiolaeth y sianel, gan gyfuno'r cadarnhaol gyda phwyslais ar gymhlethdod y dasg, a cheir brawddeg olaf a fradychai hyder y sianel yn ei pharhad:

> Providing a comprehensive television service for a bilingual nation is no easy task. S4C has tackled the problem with efficiency, flair and professionalism. The greatest compliment that it could receive is that the people of Wales now take it for granted. It has become part of the fabric of Welsh society. It is now poised to meet the challenges of the next decade.[120]

Yr oedd y sianel yn hyderus felly o ganlyniad yr adolygiad, ac yr oedd hynny yn gwbl ddealladwy yn dilyn yr ohebiaeth gadarnhaol a chalonogol a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref. Ond er mwyn gwireddu dymuniadau'r ddau sefydliad, byddai'n rhaid derbyn tystiolaeth gadarnhaol gan amrywiaeth eang o sefydliadau Prydeinig, Cymreig ac unigolion er mwyn bod yn gwbl sicr o'i pharhad.

Yn unol ag ymatebion yr ADA a Chyngor Darlledu Cymru'r BBC i gynigion ac ensyniadau Cyngor Defnyddwyr Cymru o wendidau system ymghynghori S4C, yr oedd tystiolaeth y ddau sefydliad i'r Swyddfa Gartref yn gefnogol iawn i'r sianel.

---

[120] Ibid., t. 6. Er y cyfeirir at y ffaith y cymerid y sianel yn ganiataol fel tystiolaeth gadarnhaol yn ystod y cyfnod prawf fod y sianel wedi ei llwyr sefydlu yn nhirlun darlledu Cymru, ysytrir bellach fod hyn wedi arwain at leihad yng nghynulleidfa'r sianel, ac o ganlyniad y frwydr anodd a wynebai'r sianel ar ddiwedd 2010 i barhau i dderbyn arian teilwng.

Cymharol gyffredinol oedd tystiolaeth y BBC[121], a pwysleisiwyd llwyddiant aruthrol y cydweithio a gaed rhwng y BBC ac ITV i ffurfio a darparu gwasanaeth unedig Cymraeg gan barhau i gystadlu â'i gilydd mewn meysydd eraill.[122] Mae'r datganiad hwn, er yn clodfori llwyddiannau'r sianel, ychydig yn gamarweiniol gan ei fod ar un gogwydd yn anwybyddu cyfraniad S4C i sicrhau'r cydweithrediad hwnnw rhwng y ddwy gyfundrefn. Nid trafod gyda'i gilydd yn unig yr oedd HTV a'r BBC mewn gwirionedd ond trafod â swyddogion ac Awdurdod S4C a fyddai'n sicrhau bod darpariaeth y ddwy ochr yn plethu i greu'r gwasanaeth unedig hwnnw. Yr oedd pennaethiaid y tair cyfundrefn, Owen Edwards, Geraint Stanley Jones a Ron Wordley yn cwrdd yn gymharol aml i drafod a chynllunio, ond oni bai am fodolaeth yr Awdurdod newydd, y dyn canol annibynnol, byddai'r cydweithio hwnnw wedi bod yn anos ei gynnal.

Cyfeiriwyd hefyd yn nhystiolaeth y BBC at nifer o'r meysydd a fu'n feini tramgwydd i'r sianel yn ystod ei thair blynedd gyntaf gan roi gogwydd cadarnhaol a ffafriol i'r trafferthion hynny. Nodwyd, er enghraifft, ei bod yn llwyddiant nodedig bod i'r sianel gynulleidfa selog, ffyddlon a oedd yn cymharu'n ffafriol â'r gwasanaethau Prydeinig:

> . . . the most popular programmes are proportionately just as successful as the most popular programmes on the main UK networks. This is a remarkable achievement when it is considered that the bulk of S4C's output is transmitted in peak hours in direct competition with the most successful programmes on the UK networks.[123]

Un o wendidau sylfaenol y cynllun o fynnu darlledu y rhan helaeth o raglenni Cymraeg yn ystod yr oriau brig oedd bod y ddarpariaeth honno yn cystadlu'n uniongyrchol â arlwy mwyaf deniadol y tair sianel arall. Yr oedd temtasiwn sylweddol felly i droi at raglenni poblogaidd Saesneg, a pherygl sylweddol y gellid

[121] Lluniwyd tystiolaeth y BBC yn wreiddiol yng Nghymru ac fe'i awdurdodwyd gan y Cyngor Darlledu, cyn ei anfon am gymeradwyaeth gan Lywodraethwyr y BBC yn ganolog. Anfonwyd y ddogfen at y Swyddfa Gartref ar y cyd rhwng Cadeirydd y BBC Stuart Young ac Alwyn Roberts, Cadeirydd y Cyngor Darlledu. CS4C, *Cofnodion cyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor Darlledu a S4C*, 27 Medi 1985, t. 2.
[122] CS4C, *BBC Response to the Home Office request for views on the continuation of S4C – Papur atodol i Agenda Seithfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 7–8 Tachwedd 1985, t. 1.
[123] Ibid., t. 2.

colli cynulleidfa os nad oedd y rhaglenni Cymraeg yn ddigon deniadol. Yn y cyd-destun hwn, felly, yr oedd sicrhau cynulleidfa a oedd yn cyfateb i nifer y gynulleidfa a gaed i'r rhaglenni poblogaidd Saesneg yn aruthrol. Ceir cyfeiriad cyfrwys at yr ymchwil a wnaed gan Gyngor y Defnyddwyr hefyd wrth i dystiolaeth y BBC glodfori'r ohebiaeth, y galwadau ffôn a'r cyswllt personol a gaed gyda'r cyhoedd. Honnwyd bod y cysylltiadau hynny yn allweddol fel ffon fesur i agweddau a barn y gynulleidfa o'r sianel a'u cefnogaeth unfrydol iddi fel sefydliad, hyd yn oed os na cheid cefnogaeth unfryd i'r holl raglenni a ddarlledid arni.[124] Ond conglfaen y dystiolaeth a gaed gan y BBC oedd y gostyngiad sylweddol, os nad diflaniad, y cwynion a dderbyniwyd gan Gymry di-Gymraeg. Teimlid hefyd bod cynulleidfaoedd di-Gymraeg wedi dechrau dychwelyd at BBC 1 Wales ac HTV Wales yn hytrach na gwylio'r sianeli cyfatebol yng ngorllewin Lloegr. Yr oedd y cwmnïau cebl yn ogystal wedi dechrau diddymu sianeli Lloegr o'u darpariaeth i Gymru, gan sicrhau bod y Cymry di-Gymraeg yn mynd ati i wylio rhaglenni lleol am Gymru, gan adfer peth o'u Cymreictod. Ond rhybuddiwyd nad oedd modd esbonio'r newid hwn trwy chwilota am resymau y tu hwnt i fodolaeth S4C, megis aeddfedrwydd neu oddefgarwch newydd ymhlith y di-Gymraeg tuag at yr iaith. Caed tystiolaeth bod y teimladau cas yn parhau i fyrlymu oddi dan yr wyneb gan iddynt ffrwydro i'r golwg am gyfnod byr pan y darlledwyd rhaglenni dysgu Cymraeg a dramâu Cymraeg megis *Penyberth* a *Marathon* gydag is-deitlau Saesneg ar BBC Wales yn ystod 1983 ac 1984.[125] Yr oedd cefnogaeth ac ymrwymiad y BBC i'r cynllun un sianel, felly, yn gwbl gadarn, ond fel y rhagwelwyd nid oedd tystiolaeth y Gorfforaeth yn taro golwg feirniadol dros benderfyniadau a gweithgareddau S4C, gan yn hytrach ganolbwyntio ar y cysyniad o sianel ar wahân.

Yn wahanol iawn i'r BBC, a ffurfiodd un ddogfen ar ran y Gorfforaeth yn ei chyfanrwydd, derbyniwyd tystiolaeth ar wahân gan nifer o'r sefydliadau a oedd yn ymwneud â darlledu annibynnol yng Nghymru. Derbyniwyd tystiolaeth gan yr ADA yn ganolog, adroddiad gan Bwyllgor Cymreig yr ADA, dogfen gan HTV, ymateb gan yr ITCA, tystiolaeth ar y cyd oddi wrth Scottish Television a Grampian Television a thystiolaeth yn yr un modd gan Thames Television a Yorkshire

---

[124] Ibid.
[125] Ibid., t. 3; CS4C, *Llythyr Glyn Tegai Hughes at Tom Hooson*, 15 Mai 1985.

Television.[126] Ar frig tystiolaeth yr ADA yn ganolog ceid cyfaddefiad ei fod, ar ôl gwrthwynebu'r syniad o un sianel Gymraeg yn y blynyddoedd cyn 1981, wedi newid ei safbwynt, gan gydnabod bod y drefn newydd o fendith i'r ddwy garfan ieithyddol. Canolbwyntiwyd wedi hynny ar yr hyn a ystyrid yn gyfrifoldebau yr ADA yng nghyd-destun S4C sef ariannu, trosglwyddiad, cyfrifoldebau'r contractwr Cymreig (HTV) a rheolaeth hysbysebu.[127] Gwnaed datganiadau byrion yn cadarnhau bod HTV yn arddel ei gyfrifoldebau darparu rhaglenni a gwerthu hysbysebion.[128] Nodwyd hefyd â balchder, lwyddiant ymdrechion peirianyddion yr ADA i sicrhau bod modd i 90 y cant o drigolion Cymru dderbyn darllediadau'r sianel ar ei noson agoriadol, a bod y ffigwr hwnnw bellach wedi codi i 96–97 y cant, gan gyfateb, fwy na heb, â chyrhaeddiad HTV.[129] Er y datganiadau cadarnhaol hyn, yr oedd materion ariannol yn boen meddwl i'r ADA, ac fe nodwyd yn ddi-flewyn-ar-dafod, bod S4C yn ateb drud yn nhermau darlledu i'r trafferthion cymdeithasol a gwleidyddol a fu yng Nghymru yn ystod y 1960au a 1970au.[130] Yr oedd yr hyn a elwid gan yr ADA yn ddirwasgiad mewn cyllid hysbysebu ym 1985 wedi cael effaith ar elw nifer o gwmnïau ITV. Golygai hyn bod nifer ohonynt yn parhau i gyfrannu cyfran o'u harian hysbysebu at gost cynnal Channel 4 a S4C heb fod yn gymwys i'r lleihad mewn treth a gyflwynodd y Llywodraeth Geidwadol ym 1981 er mwyn lleihau'r pwysau ariannol ychwanegol ar gwmnïau ITV yn wyneb sefydlu S4C.[131] Yr oedd gwallau sylweddol a difrifol yn y trefniant ariannol a sefydlwyd, gan mai'r cwmnïau lleiaf, megis Yorkshire Television, a oedd yn dioddef fwyaf yn y sefyllfa hon, a byddai'r amgylchiadau hyn, os nad oedd modd eu haddasu, yn arwain at deimladau llawer mwy anghynnes ymysg cwmnïau rhwydwaith ITV tuag at S4C.[132] At hyn, yr oedd yr ADA yn bryderus ynglŷn â dibyniaeth S4C a Channel 4, a pha mor ddibynnol oedd y cydweithio a'r berthynas iach rhyngddynt, ar hyblygrwydd cyllid ITV. Rhagwelai'r ADA na fyddai cyllid ITV yn parhau yr un mor iach yn y

---

[126] CS4C, *Summary of Broadcasters' Comments (Annex C) – Papurau atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986.
[127] ITA/IBA/Cable Authority archive, Bournemouth University, 3997019, RK/6/28, *IBA Submission to the Home Office on the Fourth Channel in Wales*, t. 1.
[128] Ibid., t. 3.
[129] Ibid.
[130] Ibid., t. 5.
[131] Ibid., t. 2.
[132] Nodwyd gan Yorkshire Television yn ei dystiolaeth i'r Swyddfa Gartref nad oedd y cwmni wedi derbyn unrhyw iawndal yn dilyn ei gyfraniad o £1.5 miliwn tuag at gostau S4C gan nad oedd y cwmni wedi gwneud digon o elw i sicrhau ad-daliad. CS4C, *Summary of Broadcasters' Comments (Annex C)*, t. 2.

blynyddoedd i ddod, a chredai y gallai'r brwydro tebygol am gyllid teg a fyddai'n dilyn unrhyw setliad annigonol, greu rhwyg mewn perthynas â fu yn ystod y cyfnod prawf mor gyfeillgar a ffyniannus.[133] Yr awgrym clir a geid oedd bod patrwm darlledu S4C wedi bod yn llwyddiannus ac wedi ffynnu pan yr oedd yr holl amgylchiadau, ac arian yn enwedig, yn ffafriol. Mynegwyd amheuon yr ADA y byddai'r sianel yr un mor llewyrchus petai amgylchiadau ITV yn newid yn sylweddol yn y dyfodol. Yr oedd llwyddiant y sianel a'r ffaith y ceid rhaglenni Channel 4 yn rhad ac am ddim i'w darlledu ar y sianel yn llwyr ddibynnol ar y ffaith bod y sianel honno yn cael arian digonol gan yr ADA bob blwyddyn. Yr oedd arwydd yma y byddai'n rhaid i'r llywodraeth ailystyried patrwm ariannu'r ddwy bedwaredd sianel er mwyn sicrhau eu parhad, gan nad oedd y patrwm o ddibynnu ar ITV yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Cafwyd tystiolaeth i'r perwyl hwnnw hefyd gan yr ITCA wrth iddo ddatgelu gwallau a gwendidau'r patrwm ariannu. Yn flaenllaw ym meddwl yr ITCA yr oedd effaith unrhyw argymhellion y byddai Pwyllgor Peacock yn eu gwneud ym 1986 ynglŷn â chyflwyno hysbysebion ar sianeli'r BBC.[134] Rhagwelai'r ITCA y byddai gweithred o'r fath yn arwain at leihau incwm hysbysebu cwmnïau ITV yn sylweddol ac y byddai hynny yn cael effaith andwyol ar yr arian a fyddai ar gael i gynnal y sianel Gymraeg.[135] Ystyriai'r ITCA hefyd, hyd yn oed pe na bai'r llywodraeth yn creu rhagor o gystadleuaeth am incwm hysbysebu, bod angen ailystyried y gyfran o'r dreth a roed i gwmnïau ITV am ddim, a hynny gan fod costau S4C yn llawer iawn

---

[133] *IBA Submission to the Home Office on the Fourth Channel in Wales*, t. 2.

[134] CS4C, *Summary of Broadcasters' Comments (Annex C)*, t. 1.

[135] Yr oedd hon yn bryder a rannai S4C a Channel 4 fel y dengys eu tystiolaeth i Bwyllgor Peacock. Yr oedd S4C yn argyhoeddedig y byddai newidiadau radical i systemau ariannu'r cyfundrefnau darlledu yn y DU yn cael effaith andwyol ar wasanaeth lleiafrifol fel S4C a oedd yn gweithredu ar ymylon ariannol dwy gyfundrefn, hynny yw mai canran fechan o arian cwmnïau ITV a gyflwynid i S4C ac mai canran fechan o arian y BBC a ddefnyddid er mwyn cynhyrchu rhaglenni Cymraeg. Credai'r sianel hefyd, oherwydd ei phrofiadau gyda *Sbec*, nad oedd llawer o arian hysbysebu ychwanegol ar gael yn y system, ac felly yn hytrach na chynyddu'r gwariant hysbysebu, credid mai symud eu teyrngarwch o un sianel i un arall y byddai hysbysebwyr, ac, o ganlyniad, byddai'r arian hwnnw'n cael ei daenu'n denau. Byddai sefyllfa o'r fath yn anffafriol iawn i S4C a hynny gan y byddai dwy o ffynonellau ariannol y sianel, sef y deg awr 'am ddim' a ddeuai gan y BBC a'r arian o gyfundrefn ITV a ddeuai trwy'r ADA o dan fygythiad. CS4C, *Committee on Financing the BBC, WFCA Response to an invitation to submit evidence (draft) – Papur atodol i Agenda trydydd cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 11–12 Gorffennaf 1985.

uwch nag y rhagwelwyd pan osodwyd lefel y cymorth ariannol yn ôl ym 1981.[136] Yng nghrynodeb y Swyddfa Gartref o sylwadau'r ITCA nid oes tystiolaeth gymdeithas nodi unrhyw farn ar weithgareddau S4C, ac felly trafodaeth ac adolygiad o'r egwyddor a geir yma eto ac nid dadansoddiad o berfformiad y sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon tebyg am ariannu'r sianel yn nhystiolaeth Pwyllgor Cymreig yr ADA, ond cyflwynwyd mwy o sylwadau ar gyrhaeddiad y sianel yn ei dystiolaeth wrth iddo nodi sylwadau clodfawr megis: 'It has created a marriage of broadcasting skills, has successfully conserved resources and has effectively removed duplication of effort.'[137] Yr oedd y Pwyllgor hefyd yn cymeradwyo'r hyn a ystyrid ganddo yn amrediad eang o raglenni, y patrwm cyflwyno a'r safon uchel gyffredinol a oedd i'r ddarpariaeth. At hynny, cafwyd cyfeiriad at gyfraniad y sianel i ffyniant yr iaith Gymraeg, mater a anwybyddwyd yn nhystiolaeth y prif sefydliadau darlledu. Darparwyd dadansoddiad realaidd o gyfraniad y sianel i barhâd a thwf yr iaith a hynny, heb ddefnyddio rhethreg emosiynol : '. . . the service . . . augments the investment made by central and local government in bi-lingual education and in other spheres and that is of considerable value and assistance to the growing number of people of all ages currently learning Welsh.'[138] Ynghyd ag amlygu dylanwad y sianel ar yr iaith, nodwyd bod bodolaeth S4C wedi cael effaith arwyddocaol ar farchnad swyddi Cymru wrth i fodolaeth y sianel arwain at greu nifer o swyddi newydd oddi mewn i'r cyfundrefnau darlledu ac wrth i adnoddau technegol a chwmnïau annibynnol ymsefydlu mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd y sianel wedi arwain at sefydlu sector ddarlledu a chynhyrchu ffyniannus yng Nghymru, rhywbeth na fyddai wedi digwydd i'r un graddau pe na bai rhaglenni Cymraeg wedi derbyn sianel ar wahân.

---

[136] Ibid. Mae'r datganiad hwn gan yr ITCA yn anwybyddu'r ffaith fod y cymorth ariannol yma wedi ei adolygu ym 1982–83 ac na wnaed unrhyw newidiadau iddo bryd hynny. Gellid dirnad, felly, bod y cymorth a gaed gan y llywodraeth yn ddigonol wedi dwy flynedd o ariannu'r sianel. Mae'n wir nodi, er hynny, i daliadau S4C gynyddu yn uwch na'r lefel chwyddiant arferol ym 1984 oherwydd agor canolfan Croes Cwrlwys a phrynu rhagor o raglenni gan HTV oherwydd hynny. Caed trafodaeth ar fformiwla ariannu Channel 4 a S4C ym Mhennod 2, tt. 99–104.

[137] Dienw, *Review of the Fourth Television Channel in Wales – The Views of the IBA's Advisory Committee for Wales*, ITA/IBA/Cable Authority archive, Bournemouth University, 3997019, RK/6/32, t. 2.

[138] Ibid., t. 3.

Yr oedd y dystiolaeth a ddaeth gan HTV yn llawer mwy cymysg ei farn na'r hyn a fynegwyd gan y sefydliadau darlledu eraill. Yn unol â phatrwm Pwyllgor Cymreig yr ADA cafwyd trafod egwyddor a rhinweddau'r system un-sianel ynghyd â thrafodaeth feirniadol o rai o weithgareddau S4C. Ymgeisiwyd hefyd i wrthbrofi'r honiadau a fynegwyd wrth i S4C fynd ati i adolygu ei pherthynas gyda HTV, bod y cytundeb rhaglenni rhyngddynt yn ddrud i'r darlledwr Cymraeg ac yn rhoi elw rhagorol i'r cwmni annibynnol.[139] Nododd Ron Wordley yn ei dystiolaeth ar ran HTV, bod costau rhaglenni HTV yn cymharu'n ffafriol â chostau rhaglenni darparwyr eraill, a'u bod yn cyfateb, yn fras, i'r gost o'u cynhyrchu, gan geisio darlunio nad oedd y cwmni yn gwneud unrhyw elw o gwbl, er bod y defnydd o'r gair 'broadly' yn plannu egin amheuaeth ym meddwl y darllenydd.[140] Aed ymhellach trwy ychwanegu: 'The contract is marginally viable and the advantageous commercial terms granted to S4C for political reasons would not be acceptable to HTV in any other aspect of our business.'[141]

Cyhuddir sylwebyddion y byd darlledu hefyd o fod yn unllygeidiog wrth drafod llwyddiannau sefydliadau darlledu yng Nghymru. Meddai:

> It is a popular element of bradcasting politics in Wales for the non-creators of jobs and wealth to academically exaggerate financial aspects of HTV's operation whilst nationistically (sic) lauding S4C exports which, like those of UK's Channel Four, are properly reflected in Report and Accounts as the reality that sales costs exceed sales income by significant margins. We find it difficult to challenge the commercial broadcasters' view that ITV funds subscribed to support a necessary bilingual broadcasting system within Wales, should be used to sustain a loss-making export public relations exercise.[142]

Mae'n amlwg o'r datganiad hwn bod dwy agwedd o weithgareddau rhyngwladol S4C wedi mynd dan groen Rheolwr-Gyfarwyddwr HTV. Mae'n amlwg nad oedd

[139] ITA/IBA/Cable Authority archive, Bournemouth University, 3997016, RK/6/38, Ron Wordley, *The Fourth Channel in Wales, Comments to the Home Office by HTV Limited*, t. 2.
[140] Ibid. Dengys bod adroddiad blynyddol 1984–85 S4C yn cefnogi datganiad Ron Wordley gan y nodir yno bod cyfartaledd cost yr awr rhaglenni HTV am y flwyddyn honno yn £38,459 a chyfartaledd rhaglenni y cynhyrchwyr annibynnol yn £38,108 yr awr. Er hynny, nid cheir dadansoddiad o'r *genres* gwahanol a gynhyrchid oddi mewn i'r cyfartaledd hwnnw yn yr adroddiad hwn. S4C, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85*, t. 6.
[141] Ibid.
[142] Ibid., tt. 2–3.

cwmnïau ITV, ac HTV yn eu plith, yn hapus iawn bod yr arian a gyfranwyd ganddynt tuag at gynnal S4C yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau a ystyrid yn ymylol, ac, ar ben hynny, nad oedd, yn nhyb HTV, yn llwyddo i wneud unrhyw elw, rhywbeth a oedd yn anathema i gwmnïau masnachol eu bryd.[143] Yr agwedd arall a oedd yn amlwg wedi cynddeiriogi Ron Wordley oedd y cyhoeddusrwydd cadarnhaol a roddid i S4C oherwydd y gweithgareddau hyn, pan nad oedd sylw cyffelyb yn cael ei roi i weithgareddau gwerthu tebyg gan HTV a oedd, yn ôl y Rheolwr-Gyfarwyddwr, yn llwyddo i gynnal HTV yn ystod y dirwasgiad arian hysbysebu yr oedd y cwmni yn ei wynebu ar y pryd.[144]

Wedi'r datganiadau ffyrnig hyn a gyfeiriai at yr hyn a ystyrid yn llwyddiannau S4C â dibristod ac o gofio agwedd y cwmni tuag at y syniad o osod rhaglenni Cymraeg ar un sianel ar ddechrau'r 1980au, mae'r sylwadau sy'n cyfeirio at gostau gwasanaeth S4C yn peri peth syndod gan ei fod yn eu cyfiawnhau. Ceid cadarnhad ysgubol bod S4C yn darparu gwerth am arian yn nhermau darlledu o ystyried ei gost y pen, ac aed ati i geisio gwrthbrofi'r daliadau cyffredin mai dim ond 20 y cant o gynulleidfa Cymru a wasanaethid gan S4C. Hawliodd HTV fod S4C mewn gwirionedd yn darparu gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan, gan fod y bedwaredd sianel yn gyfrwng i sicrhau bod modd i HTV Wales a BBC Wales ddiwallu anghenion yr 80 y cant o boblogaeth ddi-Gymraeg y wlad. Meddai: '. . . the cost of the S4C service is often mistakenly inflated by critics who ignore the size of the total viewing universe actually "serviced".'[145] Aed ymlaen i gymharu costau arfaethedig y sianel fesul y pen, gyda chost rhwydwaith ITV. Gan ddefnyddio'r egwyddor bod S4C yn gwasanaethu'r holl ddwy filiwn a hanner o bobl a drigai yng Nghymru, nodir mai £13 y pen oedd cost y sianel, heb ystyried cost cynhyrchu rhaglenni'r BBC trwy'r drwydded. O'i gymharu yr oedd cost genedlaethol rhwydwaith ITV yn £17 fesul pen pob unigolyn ym Mhrydain Fawr.[146] Yr oedd datganiad HTV felly yn mynd ati i ddatgymalu'r haeriadau hynny mai S4C oedd y sianel ddrutaf y pen ym Mhrydain, os

---

[143] Bu ymateb chwyrn i'r datganiad hwn ymysg staff S4C, a phryder y byddai sylw o'r fath yn gwneud drwg i enw da'r sianel. CS4C, *Cofnodion degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986, t. 2.
[144] Ibid., t. 3. Nid gwerthu rhyngwladol yn unig y cyfeirir ato yma ond y rhaglenni a werthwyd i weddill rhwydwaith ITV hefyd.
[145] Ibid., t. 4.
[146] Ibid. Ceir datganiad tebyg yn nhystiolaeth S4C i'r Swyddfa Gartref hefyd, ond yn un o'r drafftiau o'r ddogfen fe nodir bod y gost y pen, pe cyfrifir siaradwyr Cymraeg yn unig, yn fwy na £300 y pen.

nad y byd, gan awgrymu fod S4C yn cymharu'n ffafriol iawn â, os nad yn rhatach na, sianeli eraill Prydain. Nid yw datganiad HTV, bod gwasanaeth S4C yn diwallu anghenion y tu hwnt i'r gynulleidfa Gymraeg, yn ymestyn y ffeithiau nac yn ystumio'r darlun er mwyn ffugio delwedd well i S4C. Mae'r datganiad, mewn gwirionedd, yn unol â thystiolaeth nifer o sefydliadau eraill a oedd yn clodfori'r lleihad sylweddol mewn cwynion gan y gynulleidfa ddi-Gymraeg, ond mae'r datganiad hwn wedi ei fynegi mewn ffordd amgenach a oedd yn herio'r rhagdybiaethau a fodolai am y sianel. Yr oedd HTV unwaith yn rhagor, yn unol â'i ymddygiad yn ystod gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig pan gyflwynwyd ffigurau realistig a theilwng ar gyfer ariannu sianel ar wahân, yn llwyddo i gynnig cefnogaeth allweddol i'r sianel pan yr oedd hi fwyaf ei angen.

Aeth HTV hefyd ati i herio honiadau y gallai Channel 4 ddarparu gwasanaeth S4C a hynny'n rhatach gan na fyddai'n rhaid ariannu cyfundrefn ar wahân, patrwm a fyddai'n dychwelyd at y cynllun cyntaf un a gynigwyd gan y Llywodraeth Geidwadol.[147] Ond cyflwynwyd dadl gan HTV y byddai costau sylweddol i Channel 4 o geisio darlledu rhaglenni Cymraeg, oherwydd y byddai'n rhaid i'r sianel barhau i brynu rhaglenni gan HTV a'r cynhyrchwyr annibynnol, y byddai'n rhaid sicrhau staff ac offer er mwyn gweithredu'r eithriadau lleol i'r gwasanaeth, a darparu offer arbennig er mwyn derbyn a throsglwyddo darpariaeth Gymraeg y BBC, ymysg costau eraill. Nodwyd bod y cynllun gwreiddiol hwnnw felly yn: '. . . hardly less costly and far less satisfactory than existing arrangements . . . the ultimate solution represents improved political value for about the same financial obligation, a difference of some £1½m per annum at 1985 price.'[148] Derbyniwyd tystiolaeth gadarnhaol iawn tuag at barhad S4C felly o du HTV, ond hefyd collfarniad o ddefnydd y sianel o gyfran o'r arian a ddeuai o goffrau ITV i dalu amdani.

Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd HTV at anhapusrwydd ac anfodlonrwydd rhai o'r cwmnïau darlledu rhanbarthol eraill, yn enwedig Grampian Television, Scottish Television ac Ulster Television dros y ffaith, fod 20 y cant o'u cyfraniadau tuag at Channel 4 yn mynd tuag at system ddarlledu a oedd yn gwasanaethu Cymru yn

[147] Nid yw tystiolaeth HTV yn nodi'n union pwy oedd yn arddel y syniadau hyn, er mae cyd-destun y trafod yn awgrymu mai cwmnïau eraill rhwydwaith ITV oedd yn datgan y gallai Channel 4 weithredu rôl S4C yn rhatach.
[148] Ibid., t. 5.

unig.[149] Anfonwyd tystiolaeth i'r perwyl hwnnw gan ddau o'r cwmnïau hynny, Grampian a Scottish, yn uniongyrchol at y Swyddfa Gartref.[150] Yn y ddogfen esbonnir asgwrn y gynnen o safbwynt y darlledwyr rhanbarthol hyn, sef nad oedd datblygiad yn y sector annibynnol yn eu hardaloedd hwy wedi derbyn yr un graddau o fuddsoddiad na chyfle i ddatblygu, ac nad oedd yr arian a ddeilliai o goffrau darlledu yn Yr Alban yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynnal a chefnogi talent greadigol a chynhyrchu yno. Nid oedd yr arian a wariai Channel 4 a chwmnïau ITV yr Alban ar gynyrchiadau annibynnol yn llwyddo i gyrraedd yr un lefel â'r symiau o arian a oedd yn cael eu buddsoddi gan S4C yng Nghymru. Er mwyn unioni'r anhegwch hwn cynigiwyd y gellid cadw'r £1.915m y byddai Grampian a Scottish yn ei fuddsoddi yn S4C yn ystod 1985–86, gan gynnig hwb i sector annibynnol Yr Alban a chynyddu'r nifer o raglenni a hanai o'r Alban ac a ddarlledid ar Channel 4.[151] Yr oedd yr awduron yn awyddus i nodi nad oeddent yn gofyn am sianel ar wahân ar gyfer Yr Alban, a hynny gan nad oedd unrhyw alw am ddarpariaeth o'r fath yno. Er hynny, yr oeddent yn awyddus i weld doniau creadigol lleol yn cael eu meithrin, a sicrhau nad oedd Yr Alban yn cael ei gadael ar ôl gan nad oedd ganddi ei sianel ei hun. Yr oedd y rhain yn bryderon teilwng ac yn un o wendidau'r system a ddyfeisiwyd gan y Swyddfa Gartref. Gellid dadlau bod cyfrifoldeb ar Channel 4 i sicrhau buddsoddiad teilwng yn Yr Alban o'u cyllideb gynhyrchu, ond mae'n amlwg na ellid sicrhau hynny i'r r'un graddau ac y gellid gydag S4C yng Nghymru. Yn yr un modd, nid oedd hi'n bosibl i S4C sicrhau mewn ffordd fympwyol bod pob ardal o Gymru yn derbyn ei chyfran deilwng o'r gyllideb gynhyrchu a hynny gan fod nifer o ffactorau eraill megis nifer cwmnïau, safon syniadau ac yn y blaen yn dylanwadu ar natur y dosraniad.

Yn ychwanegol at y deg o sefydliadau darlledu a wahoddwyd i anfon tystiolaeth at y Swyddfa Gartref derbyniwyd tystiolaeth gan ddau Awdurdod Lleol (Arfon a Dwyfor), a deugain a dau o sefydliadau eraill. Amrywiai'r sefydliadau eraill hyn o ganghennau Merched y Wawr i Brifysgol Cymru, o Blaid Cymru i'r Bwrdd Croeso a

[149] Ibid., t. 4.
[150] ITA/IBA/Cable Authority archive, Bournemouth University, 3997016, RK/6/28, William Brown ac Alex Mair, *Memorandum from Scottish Television plc and Grampian Television plc – The Fourth Channel in Wales*.
[151] Ibid.

chynhwyswyd sefydliadau o'r byd darlledu Cymreig, megis TAC a Siriol.[152] Ynghyd ag ymateb gan y sefydliadau hyn, derbyniwyd gohebiaeth gan wythdeg a dau o unigolion a oedd am fynegi eu barn am y sianel.[153] Derbyniwyd tystiolaeth felly gan 136 o sefydliadau ac unigolion, gyda'r mwyafrif llethol ohonynt, sef 108, o blaid parhau gyda'r trefniadau presennol, gyda'r 28 a oedd yn weddill yn erbyn. O'r wyth ar hugain o wrthwynebwyr, yr oedd saith ar hugain ohonynt yn unigolion, gyda dim ond un sefydliad yn gwrthwynebu'r patrwm darlledu, er nid yw dogfennau'r Swyddfa Gartref yn nodi pa sefydliad oedd yn gwrthwynebu.[154] Yn adroddiad y Swyddfa Gartref rhestrwyd y pedwar rheswm ar ddeg a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr i'r drefn gyfredol. Nodwyd bod hanner y cwynion yn ymwneud ag amserlennu rhaglenni Saesneg Channel 4 ar y sianel, tra bod y gweddill, y llythyrau o blaid, yn galw am ragor o raglenni Cymraeg.[155] Nodwyd y gwyn gyfarwydd mai yn ystod yr oriau brig yr oedd gwylwyr yn dymuno gwylio rhaglenni Channel 4 ac nid ar amseroedd anghyfleus. Mynegwyd rhwystredigaeth rhai gwylwyr eu bod yn darllen adolygiadau papurau newydd am raglenni Channel 4 cyn iddynt gael eu darlledu yng Nghymru, tra y cythruddwyd eraill gan y ffaith nad oedd modd iddynt ymwneud â'r drafodaeth gyhoeddus am rai rhaglenni yn sgil y drefn. Cwynai eraill am benderfyniad William Whitelaw i anwybyddu pleidlais cwsmeriaid Rediffusion ym 1982, ac eraill eu bod yn gorfod talu pris llawn am drwydded deledu er eu cred eu bod yn cael eu hamddifadu o chwarter y ddarpariaeth Saesneg.[156] Yr oedd rhai

---

[152] Y sefydliadau eraill oedd: Ymddiriedolwyr Capel yr Annibynnwyr Bethesda, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cyngor Cymreig y CBI, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Cymdeithas Gelfyddydol Dyffryn Ogwen, Cyngor Eglwys Rydd Ystalyfera, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cangen Gorllewin Morgannwg o Fudiad Ysgolion Meithrin, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, Cangen Caerfyrddin Plaid Cymru, Bwrdd Ffilmiau Cymraeg, Cyngor Defnyddwyr Cymru, Cymdeithas Bro Colwyn, Welsh Institute of Public Relations, The Association for Film and Television in the Celtic Countries, Jerusalem Welsh Presbyterian Church, National Foundation for Educational Research in England and Wales, Eglwys Annibynnol y Wern, Interdenominational Welsh-language committee (Arfon Division), canghennau Pwllheli, Bethesda, Abersoch, Ystalyfera, Bae Colwyn, Blaenau Ffestiniog, Chwilog, Llanfyllin, Cricieth, Waunfawr, Mynytho, Trefor a Golan o Ferched y Wawr, Pontypool Retired Men's Society a'r Swyddfa Gymreig.

[153] Nodir yn adroddiad y Swyddfa Gartref bod tystiolaeth i oddeutu ugain o'r llythyrau a dderbyniwyd gael eu cydlynu fel rhan o ymgyrch lythyru benodol, gan eu bod wedi dod o ddau bentref penodol yng Ngogledd Cymru ac mai dim ond dwy frawddeg yr un o blaid y sianel a geid ynddynt. Nid yw dogfennau'r Swyddfa Gartref yn enwi'r pentrefi dan sylw. CS4C, *Review of arrangements for the Fourth Channel in Wales – Papurau atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986, t. 2.

[154] CS4C, *Review of S4C – Table of Comments Received (Annex B) – Papurau atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986.

[155] CS4C, *Review of arrangements for the Fourth Channel in Wales*, t. 2.

[156] Nid oedd gwylwyr di-Gymraeg yn cael eu hamddifadu o chwarter y ddarpariaeth genedlaethol wrth gwrs oherwydd rhaglen ail-amseru S4C a lwyddai i ail-leoli 73 y cant o raglenni Channel 4, er hynny, dyma oedd canfyddiad carfan o'r gwylwyr.

gwylwyr yn rhwystredig nad oedd rhai *genres* o raglenni Channel 4 yn cael eu darlledu ar S4C, yn enwedig rhaglen newyddion estynedig unigryw'r sianel a'r ddarpariaeth materion cyfoes. Cafwyd cwynion hefyd bod lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hamddifadu yn llwyr o'r ddarpariaeth arbennig a geid ar eu cyfer ar Channel 4. Trwy ddiwallu anghenion un lleiafrif, yr oedd grwpiau lleiafrifol eraill, dadleuid, yn dioddef. Nododd un achwynydd nad oedd grwpiau lleiafrifol eraill, megis yr 1.5 miliwn o Fwslemiaid ym Mhrydain, yn cael eu sianel eu hunain, gan holi pam yr oedd y Cymry Cymraeg yn haeddu triniaeth arbennig.[157]

Ynghyd â'r cwynion hyn, mynegwyd rhai safbwyntiau cyfarwydd megis pan nodwyd yn blaen fod S4C yn wastraff arian a hynny gan fod siaradwyr Cymraeg yn deall ac yn siarad Saesneg. Ond nid y di-Gymraeg oedd yr unig rai a fynegodd eu hanfodlonrwydd. Caed gwrthwynebiad bod hysbysebion Saesneg yn cael eu darlledu ymysg rhaglenni Cymraeg, grwgnach am ddefnydd o ieithwedd ogleddol a oedd yn annealladwy i drigolion de Cymru a chwyn hefyd am safon amaturaidd rhaglenni Cymraeg. Ynghyd â'r cwynion hyn atgyfodwyd y ddadl dros ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar fwy nag un sianel a hynny gan ei fod yn annog pobl i ddysgu Cymraeg.[158] Yr oedd hi'n amlwg felly nad oedd S4C wedi llwyddo i berswadio pawb o'i rhinweddau, o safon ei rhaglenni na'i gallu i ail-leoli rhaglenni Channel 4 mewn modd a oedd yn ateb gofynion rhai aelodau o'r gynulleidfa. Er y cwynion hyn parhai'r agweddau negyddol i fod yn y lleiafrif, ac yr oedd nifer o'r achwynwyr yn barod i gyfaddef bod y sefyllfa yn llawer gwell nag y bu, ac o'r herwydd ni wnaed difrod mawr i achos y sianel.[159]

Ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth ffurfiwyd adroddiad byr gan y Swyddfa Gartref yn Nhachwedd 1985 yn cofnodi cyd-destun yr adolygiad, ac yn ailadrodd y safbwyntiau a fynegwyd ger ei bron, heb fawr o ddadansoddiad ychwanegol. Gan na welwyd mynegi unrhyw faterion nad oedd yn hysbys eisoes i'r Swyddfa Gartref neu S4C ei hun, fe gasglwyd: 'The review has demonstrated beyond doubt the continued strong level of support for S4C amongst the Welsh-speaking population in Wales and has confirmed that there is little dissatisfaction amongst either Welsh or English

---

[157] CS4C, *Summary of comments from those against present arrangements (Annex D) – Papurau atodol i Agenda degfed cyfarfod a thrigain Awdurdod Sianel Pedwar Cymru*, 10 Ionawr 1986.
[158] Ibid.
[159] CS4C, *Review of arrangements for the Fourth Channel in Wales*, t. 3.

speakers.'[160] Wrth gydnabod yr holl bryderon a fynegwyd gan amryw sefydliadau darlledu am fater ariannu'r sianel, cadarnhawyd y byddai'r Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad mewnol newydd i'r agweddau hynny gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r safbwyntiau a fynegwyd fel man cychwyn ar gyfer y gwaith hwnnw.[161] Esboniwyd i'r Swyddfa Gartref hepgor yn fwriadol faterion ariannol o'r adolygiad hwn, gan geisio osgoi drysu'r achos gan geisio canolbwyntio'r dystiolaeth ar fater gwleidyddol dyfodol y sianel Gymraeg. Gan mai adolygiad o drefniant darlledu rhaglenni Cymraeg ar un sianel oedd maes gorchwyl y Swyddfa Gartref, erbyn 1985 yr oedd canlyniad yr adolygiad yn *fait accompli*. Hynny yw, yr oedd y sianel wedi ei gwreiddio yn rhan annatod o'r tirlun darlledu Cymreig ac wedi gwrthbrofi'r proffwydi gwae a oedd yn argyhoeddedig nad oedd modd i'r Awdurdod a'r sianel newydd sefydlu a chynnal gwasanaeth cynhwysfawr yn y Gymraeg ar un sianel. O'r herwydd ni ellid dychmygu y gellid dod i gasgliad gwahanol o ystyried y lleihad aruthrol a fu yn yr anghydfod a'r llythyru gan y garfan ddi-Gymraeg o'r gynulleidfa. Mae'n wir nodi nad oedd yr adolygiad yn dadansoddi polisïau a strategaethau'r sianel nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r egwyddor sylfaenol honno. Ond gan nad oedd S4C wedi methu yn gyfan gwbl ar unrhyw agwedd o'i chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Ddarlledu, ac mewn sawl maes megis gwerthiant rhyngwladol, wedi llwyddo i gyflawni gweithgareddau na ellid eu rhagweld yn ôl ym 1980, teimlai swyddogion y Swyddfa Gartref nad oedd modd cyfiawnhau arolwg o'r fath. Penderfynwyd yn hytrach ar adolygiad cyflym a hwylus na fyddai'n ansefydlogi'r sector ddarlledu yng Nghymru gydag ansicrwydd am ddyfodol S4C.

Ar 13 Rhagfyr 1985 cyhoeddwyd gerbron y Tŷ Cyffredin barhad y sianel, a hynny heb fawr o seremoni gan mai ar ffurf ateb ysgrifenedig i gwestiwn Robert Harvey, A.S. Ceidwadol de-orllewin Clwyd y gwnaed hynny.[162] Dengys hyn ddau safbwynt, sef un ai fod Aelodau Seneddol wedi hen dderbyn bodolaeth y sianel, a'i bod bellach yn rhan annatod o'r tirlun darlledu Prydeinig neu ei bod yn fater ymylol i'r rhan helaeth o Aelodau'r Tŷ ac nad oedd digon o ddiddordeb yn y mater i gyfiawnhau trafodaeth ehangach. Ynghyd â dynodi parhad y sianel, cyhoeddwyd ymestyn tymor Cadeirydd yr Awdurdod, Syr Goronwy Daniel, am dri mis ychwanegol, hyd ddiwedd

---

[160] Ibid., t. 4.
[161] Ibid.
[162] *Hansard*, House of Commons, 13 December 1985, col. 796–7.

Mawrth 1986, a chyhoeddwyd hefyd enw'r Cadeirydd newydd fyddai â'r dasg o lywio'r sianel tua'r 1990au. Y gŵr hwnnw fyddai John Howard Davies, CBE, dyn â chefndir ym myd addysg fel aelod o wasanaeth addysg y Gymanwlad yng ngogledd Nigeria, fel Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg yn Sir Drefaldwyn a Sir y Fflint, ac yna fel Cyfarwyddwr Addysg cyntaf Clwyd rhwng 1974 ac 1985. Yr oedd ganddo gysylltiadau celfyddydol hefyd fel aelod o Gyngor y Llyfrgell Genedlaethol a Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.[163] Gellid disgwyl felly y byddai cefndir addysgol y Cadeirydd newydd, o'i gymharu â chefndir economaidd ei ragflaenydd, yn symbylu ffocws newydd i'r sianel. Yr oedd Syr Goronwy Daniel wedi llwyddo i lywio'r sianel yn hynod llwyddiannus trwy ei chyfnod ffurfiannol, ac yn gymharol ddidrafferth trwy adolygiad tyngedfennol. A fyddai cyfle cyfartal a lle i'r Cadeirydd newydd osod ei stamp ei hun ar weithgareddau'r sianel? Yr oedd hi'n newid cyfnod felly wrth i'r sianel a'r Awdurdod symud tuag at ei chweched blwyddyn a dechrau ail bennod yn ei hanes.

---

[163] Archif BBC Cymru, Caerdydd, *Mr John Howard Davies – biog*, Ffeil S4C (3835).

**Casgliadau**

Yn yr astudiaeth hon aethpwyd ati i olrhain datblygiad y sianel yn ystod blynyddoedd ffurfiannol ei chyfnod prawf gan bwyso a mesur a dadansoddi'r hyn a gaed ar ôl yr ymgyrchu hir a chaled gan y gymuned Gymraeg a'r di-Gymraeg a nifer o fudiadau cenedlaethol a lleol ledled Cymru. Cloriannwyd cyfraniad darlledwyr, cwmnïau, awdurdodau darlledu, pwyllgorau seneddol ac unigolion i'r dadleuon a gaed yn ystod y cyfnod o wrthdystio gan ystyried sut y prysurwyd y trafodaethau gan eu sylwadau nes arwain at sefydlu'r bedwaredd sianel Gymraeg. Ystyriwyd yn fanwl hefyd, ar ôl sefydlu Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, gyfraniad y BBC, HTV, Channel 4, yr Awdurdod Darlledu Annibynnol a'r cynhyrchwyr annibynnol at fodolaeth, datblygiad a llwyddiant S4C yn ystod y blynyddoedd allweddol hynny rhwng 1981 ac 1985. Bu'r traethawd hefyd yn tafoli yr amryfal sialensiau a wynebwyd gan y sianel a'i swyddogion yn ystod y cyfnod prawf hwnnw, gan ddadansoddi ymateb y swyddogion iddynt a'u heffaith ar ddatblygiad a llwybr y sianel. Byrdwn yr ymchwil, felly, oedd cofnodi dadansoddiad manwl o weithgareddau'r sianel wrth i'r Awdurdod a'i swyddogion osod y sianel ar seiliau cadarn a'i llywio yn llwyddiannus trwy ei chyfnod prawf a thrwy adolygiad gan y Swyddfa Gartref, a hynny trwy astudiaeth o ddogfennau na astudiwyd o'r blaen, erthyglau yn y wasg a chyfweliadau gydag unigolion allweddol o'r byd darlledu yn y cyfnod.

Gorchest fwyaf Awdurdod Sianel Pedwar Cymru a'i gyfraniad mwyaf yn ystod y cyfnod prawf oedd ei fod yn fodd o newid y tirlun darlledu yng Nghymru yn gyfan gwbl. Yn ddi-amau, llwyddwyd i ennill llawer mwy i'r gynulleidfa Gymraeg na'r disgwyl yn dilyn ail dro-pedol William Whitelaw, er y mae'n gwbl briodol dadlau na lwyddwyd i wireddu holl ddyheadau a galwadau'r gwrthdystwyr yn ystod y 1960au a'r 1970au. Sefydlwyd gwasanaeth a oedd yn cynnig mwy o reolaeth i Gymru dros ddarlledu na'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 1978 gan Lywodraeth Lafur James Callaghan a mwy hyd yn oed nag argymhellion gweithgorau seneddol Siberry a Trevelyan/Littler. Yr hyn a gyflwynwyd i Gymru yn Neddf Darlledu 1981 oedd Awdurdod darlledu cwbl newydd, annibynnol a oedd yn meddu ar yr holl hawliau statudol angenrheidiol i reoli ac arolygu ei faes gorchwyl. Golygai'r statws hwnnw nad oedd yn rhaid i Awdurdod y bedwaredd sianel yng Nghymru fod yn

ddarostyngedig nac ymddwyn yn wasaidd tuag at unrhyw bŵer arall yn y byd darlledu, gallai yn hytrach ymdrin â hwy, mewn egwyddor, ar delerau cyfartal. Yr oedd y statws hwn yn llawer mwy na'r un a gyflwynwyd i chwaer sianel Brydeinig S4C, gan y rhoddwyd i Channel 4, yn hytrach, statws is-gwmni i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol (ADA), ac, o ganlyniad, yr oedd Bwrdd y sianel honno yn atebol i'r Awdurdod Darlledu ac ar drugaredd mympwyon ei brif swyddogion.[1] Bu'r berthynas honno yn un llawn tensiwn, yn enwedig gan y coleddai swyddogion Channel 4 y gred fod yr ADA, ar rai achlysuron, yn ystyried buddiannau cwmnïau rhwydwaith ITV ar draul yr hyn a oedd orau ar gyfer Channel 4. Arbedwyd Awdurdod Sianel Pedwar Cymru rhag y tensiynau hynny trwy gyflwyno iddo reolaeth dros ei weithgareddau ei hun, ac annibyniaeth a olygai y gallai fynd ati i wneud penderfyniadau golygyddol a llunio a gweithredu ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer arlwy a darpariaeth y sianel.[2] Yr oedd yr annibyniaeth hon yn cydnabod mai sefydliad Cymreig gydag aelodau a oedd wedi eu trwytho yn niwylliant a chymhlethdodau gwleidyddol Cymru oedd yr unig sefydliad a allai wneud penderfyniadau doeth ynglŷn â ffurf a blaenoriaethau sianel Gymraeg. Trwy sefydlu Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, cafwyd cydnabyddiaeth na fyddai gosod amodau a chanllawiau gan sefydliadau Llundeinig na Phrydeinig yn ateb y gofyn. Cyflwynwyd i dirlun darlledu Prydain, felly, drydydd Awdurdod darlledu gan weddnewid patrwm rheoli'r diwydiant a oedd wedi bodoli yn ddigyfnewid ers 1955.

Yr oedd Sianel Pedwar Cymru, ynghyd â newid y tirlun darlledu Prydeinig, yn rhan o ddatblygiad chwyldroadol o fewn y diwydiant, a hynny gan ei bod yn cynnig patrwm gweithredu newydd i sianeli. Yr oedd y system darlledwr-gyhoeddwr a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf gyda lansiad S4C a Channel 4 yn sbardun i rym newydd dyfu, ffynnu a chystadlu â'r cyfundrefnau mawrion a oedd wedi tra-arglwyddiaethu dros y diwydiant teledu ym Mhrydain am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain. Yr oedd dyfodiad y cynhyrchwyr annibynnol yn gweddnewid y sector ddarlledu ym Mhrydain yn llwyr, a bu'r twf yn y sector hon yng Nghymru yn ogystal yn allwedd i weddnewid darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Prin iawn oedd y

[1] Gweler cofnod huawdl Edmund Dell, Cadeirydd Channel 4, o berthynas drafferthus y sianel â'r ADA ac amddiffyniad yr Arglwydd Thomson, Cadeirydd yr ADA, o weithgareddau'r Awdurdod yn y gyfrol Peter Catterall (gol.), *The Making of Channel 4* (London, 1999), tt. 1–52.

[2] Yr oedd hyn unwaith yn rhagor yn groes i brofiad Channel 4, gan mai'r ADA a benderfynodd ar hyd a lled cylch gwaith gwreiddiol y sianel gan lunio a chyhoeddi ei Ddatganiad Polisi Rhaglenni ym 1980.

cynhyrchwyr annibynnol a gaed yng Nghymru ar ddechrau 1981 pan ffurfiwyd yr Awdurdod newydd. Clwstwr bychan o unigolion a oedd un ai yn gyfarwyddwyr llawrydd neu'n bobl a oedd â diddordeb mewn gweithredu fel cynhyrchwyr pe bai'r amgylchiadau'n ffafriol a geid yn unig. Erbyn diwedd cyfnod prawf y sianel ym 1985 yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol wedi tyfu'n sector fawr a chref ac wedi eu gwasgaru ar draws Cymru, ac nid wedi eu lleoli yng nghyffiniau Caerdydd yn unig. Yn y cyfnod rhwng 1981 a diwedd blwyddyn ariannol 1985–6, yr oedd y sianel wedi comisiynu rhaglenni gan 56 o gynhyrchwyr annibynnol gwahanol, gyda chyfartaledd o 36 o gwmnïau yn cynhyrchu rhaglenni iddynt bob blwyddyn.[3] At hynny, sefydlwyd uned ddarlledu allanol Barcud er mwyn gwasanaethu nifer o'r cwmnïau hynny, a'u galluogi i gystadlu â'r BBC ac HTV trwy ddefnyddio canolfannau ledled Cymru i ffilmio a chynhyrchu rhaglenni a fyddai gan amlaf yn cael eu cynhyrchu mewn stiwdio yng Nghaerdydd. Ynghyd â thwf aruthrol yn nifer y cynhyrchwyr annibynnol, erbyn 1984 yr oeddent fel sector wedi ffurfio cymdeithas fasnach er mwyn gofalu am eu buddiannau, sef Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ac, ym 1985, dechreuwyd trafodaethau i ystyried anghenion hyfforddiant y diwydiant a fyddai'n arwain ymhen blwyddyn at sefydlu Cyfle ym 1986. Mewn pedair blynedd felly yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol wedi tyfu o fod yn glwstwr anelwig ac amhendant o unigolion y bu S4C yn eu meithrin a'u hannog i fod yn sector lwyddiannus a oedd yn gofalu am ei buddiannau ei hun, yn cynllunio tuag at ddyfodol ffyniannus ac yn darparu arlwy deniadol a safonol ar gyfer S4C.

Ceid nifer o sgîl effeithiau dylanwadol a sbardunwyd gan ddatblygiad y berthynas rhwng S4C a'r cynhyrchwyr annibynnol, ac un o'r amlycaf ohonynt oedd i nifer o'r cynhyrchwyr ymsefydlu mewn ardaloedd lle yr oedd diweithdra yn uchel, megis ardaloedd o ogledd orllewin Cymru a Bae Caerdydd, gan gyfrannu at economïau'r ardaloedd bregus hyn. Darparwyd gwaith yn sgil hynny mewn ardaloedd Cymreig, ac, er na welwyd atal llif yr allfudo o ardaloedd gwledig i ddinasoedd de Cymru a Lloegr, fe ddangoswyd bod modd sefydlu busnesau llwyddiannus, cynhyrchu rhaglenni teledu deniadol a difyr ac y ceid cyfleoedd cyffrous i weithio mewn dwydiant newydd atyniadol a hynny yng nghefn gwlad Cymru. Ynghyd â chreu gwaith, yr oedd dyfodiad y cynhyrchwyr annibynnol hefyd yn allweddol i sicrhau

3 Comisiynwyd fel a ganlyn: 1982–83 (33); 1983–84 (37); 1984–85 (38); 1985–86 (36). Gweler Atodiad B.

bod lle i newydd-ddyfodiaid fentro i fyd darlledu. Bu dyfodiad S4C yn sbardun i nifer o unigolion a oedd wedi gweithio i'r darlledwyr mawrion adael a sefydlu eu cwmnïau cynhyrchu eu hunain. At hynny, anogwyd nifer o gynhyrchwyr a chyfarwyddwyr i gefnu ar eu swyddi diogel gan swyddogion S4C, a hynny er mwyn cryfhau'r sector. Cafwyd dau ganlyniad arwyddocaol i'r allfudo hwn o weithwyr profiadol o'r darlledwyr. Yn gyntaf galluogwyd i'r unigolion hynny ymwneud â datblygu eu syniadau creadigol eu hunain, yn hytrach na gwireddu syniadau eraill a gweithredu i flaenoriaethau sefydliadol. Yn ail, yr oedd yn creu cyfleoedd oddi mewn i'r ddau brif ddarlledwr, y BBC ac HTV, i bobl ifanc di-brofiad i gael mynediad i'r diwydiant a chael hyfforddiant angenrheidiol wrth i weithwyr hŷn a mwy profiadol fentro ar eu pen eu hunain i fusnes. Yn wir, oherwydd y cynnydd sylweddol a'r amrywiaeth cryfach a oedd yn y ddarpariaeth Gymraeg a gynhyrchid gan y BBC ac HTV ar gyfer S4C, bu recriwtio sylweddol o fewn y ddau ddarlledwr a chafwyd chwistrelliad o waed newydd ac egni i'r diwydiant teledu yng Nghymru ac i'r arlwy teledu Cymraeg a oedd yn gwbl allweddol i lwyddiant y sianel a'i hapêl i'r gynulleidfa.

Cyflwynwyd bwrlwm newydd i'r diwydiant a'r arlwy nid yn unig oherwydd y gwaed newydd a geid ymhlith staff y darlledwyr ond oherwydd yr amrywiaeth ehangach o syniadau a gynhyrchid trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sicr yr oedd dyfodiad y cynhyrchwyr annibynnol yn sbardun i'r datblygiad hwnnw, gan eu bod yn dyfeisio a chynnig syniadau a oedd yn wahanol i'r rhai a gynhyrchid gan y BBC ac HTV. Y gwahaniaeth pennaf oedd nad oedd eu syniadau yn cael eu llyffetheirio gan gyfyngiadau stiwdio, yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol felly yn mynd ati i leoli eu rhaglenni mewn ardaloedd ledled Cymru. Yr oedd hyn yn sicrhau bod y cynhyrchwyr annibynnol, nid yn unig yn agosach at eu cynulleidfa a'r gymuned Gymreig o ran lleoliadau eu hamryfal swyddfeydd, ond eu bod hefyd yn darlunio y cymunedau hynny, yn gymeriadau ac yn lleoliadau yn eu cynyrchiadau. Ynghyd â rhoi llais a delwedd i nifer o gymunedau, yr oedd gweithgareddau'r cynhyrchwyr annibynnol yn cyfrannu yn economaidd at yr ardaloedd hynny wrth i'r cynhyrchwyr gyflogi staff a defnyddio nifer o wasanaethau lleol atodol. Yr oedd sgîl effeithiau economaidd nid ansylweddol felly i'r newydd-ddyfodiaid i ddarlledu Cymraeg, a bu'r buddiannau ychwanegol hyn yn allweddol wrth ennill enw da i'r sianel gan fod S4C nid yn unig yn darparu arlwy estynedig trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd yn

buddsoddi yn economaidd mewn ardaloedd ac mewn cymunedau. Yr oedd y sgîl effeithiau economaidd hyn yn strategaeth fwriadol gan Awdurdod S4C er mwyn sicrhau bod y sianel a'i gweithgareddau wedi eu gweu i mewn i fuddiannau y tu hwnt i'r byd darlledu. Rhwymwyd gweithgareddau'r sianel wrth fuddiannau eraill i'r fath raddau nes gwarantu y byddai'n gymaint â hynny'n anoddach ei diddymu, heb effeithio'n andwyol ar nifer o sectorau a diwydiannau eraill yn y broses. Yr oedd y strategaeth fwriadol hon yn un hynod graff ar ran y sianel, gan ei bod yn cydnabod bod angen sicrhau gwerth ychwanegol i'r sianel er mwyn cyfiawnhau a chadarnhau ei bodolaeth. Byddai dibynnu'n llwyr ar ffigurau gwylio yn gynllun anghyfrifol, a hynny gan nad oedd modd ffurfio cymhariaeth deg ag ystadegau sianeli eraill, ac y gellid eu defnyddio gan wrthwynebwyr y sianel er mwyn cyflwyno beirniadaeth hallt ar gost y gwasanaeth.

Yr oedd dyfodiad S4C ym 1981 wedi gwedd newid y byd darlledu yng Nghymru yn llwyr, ac yr oedd, ar y cyd â Channel 4, wedi trawsffurfio'r diwydiant teledu ym Mhrydain hefyd. Datblygodd y patrwm darlledwr-gyhoeddwr yn batrwm llawer mwy amlwg yn y diwydiant darlledu, ac, erbyn diwedd y 1980au, ar ôl Adroddiad Pwyllgor Peacock, rhoddwyd pwysau cynyddol ar rwydwaith ITV ac ar y BBC i gomisiynu cyfrannau amlwg o'u darpariaeth gan gynhyrchwyr annibynnol.[4] Ond er iddynt fraenaru'r tir gyda'i gilydd yng nghyd-destun y patrwm darlledwr-gyhoeddwr, yr oedd S4C yn parhau yn unigryw ac yn sianel gwbl wahanol i Channel 4 gan ei bod yn comisiynu cynnwys gan dair ffynhonnell wahanol o'i gymharu â Channel 4 a oedd yn dethol a phrynu rhaglenni gan gwmnïau ITV a chynhyrchwyr annibynnol. Yr oedd S4C ar y llaw arall yn comisiynu a darlledu gwaith nid yn unig gan y sector annibynnol fasnachol, ond hefyd gan y BBC a oedd yn ddarlledwr cyhoeddus a ddarparai raglenni yn rhad ac am ddim i'r sianel newydd. Yr oedd sialensiau ychwanegol yn wynebu swyddogion S4C felly nad oedd disgwyl i reolwyr Channel 4 ymhel â hwy.

---

[4] Cyhoeddwyd telerau masnachu gan yr ADA ym 1988 ar gyfer cynyrchiadau annibynnol ar rwydwaith ITV, ac yn Neddf Ddarlledu 1990 gosodwyd canllaw a oedd yn mynnu bod 25 y cant o raglenni cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol. Bu'r BBC yn wirfoddol yn comisiynu cynyrchiadau gan y sector annibynnol o 1992 ymlaen a ffurfiolwyd hynny ym manylion siarter y Gorfforaeth yn 2006. ITC Notes, 'Independent Productions', *www.ofcom.org.uk/static/archive /itc/itc_publications /itc_notes/view_note68.html* (cyrchwyd Rhagfyr 2010).

Oherwydd y cyfuniad unigryw hwn o ffynonellau rhaglenni, a'r telerau gwahanol a fodolai rhwng y sianel a'i darparwyr, yr oedd S4C yn anad dim yn bartneriaeth yn ei blynyddoedd cynnar. Yr oedd hyn yn glir o'r dechrau a hynny oherwydd cyfansoddiad Awdurdod y sianel, gan y penodwyd cynrychiolydd o'r BBC, yr ADA a Channel 4, a dau aelod annibynnol iddo. Er nad oedd y Ddeddf yn mynnu cynrychiolwyr o'r carfannau gwahanol ar yr Awdurdod, yr oedd presenoldeb yr aelodau hyn yn y blynyddoedd cynnar wedi sicrhau bod i'r Awdurdod aelodau a oedd wedi eu trwytho yn y tirlun darlledu Cymreig. Yr oedd y wybodaeth a feddai Alwyn Roberts, Glyn Tegai Hughes, yr Athro Huw Morris–Jones a Gwilym Peregrine, ynghyd â'u cysylltiadau sefydliadol, yn sicrhau y gellid gwneud penderfyniadau allweddol yn gyflym. Bu William Whitelaw yn hirben, felly, wrth lynu at yr egwyddor hon yng ngwyneb gwrthwynebiad cryf o sawl carfan, gan yr oedd y cysylltiadau sefydliadol yn arf anhepgor yn y cyfnod byr o baratoi a gafodd yr Awdurdod cyn lansio'r sianel. Ynghyd â'r wybodaeth hollbwysig a feddai'r aelodau yr oedd eu presenoldeb ar yr Awdurdod yn sicrhau bod ewyllys da ac ymrwymiad at lwyddiant y sianel o bwys i'r amryfal sefydliadau darlledu eraill. Derbyniwyd cyngor gan aelodau nifer o'r sefydliadau wrth i'r sianel ystyried materion peirianyddol, ariannol, ymgynghori a rhaglenni, a darparodd y sefydliadau amser eu swyddogion yn ddi-rwgnach er mwyn cynghori'r sianel ar y patrymau gweithredu mwyaf addas ar ei chyfer. Bu'r sianel hefyd yn ddibynnol iawn ar bob sefydliad yn ei dro wrth ymdrin â materion amrywiol, er enghraifft, dibynnwyd ar yr ADA i sicrhau bod ei darllediadau cyntaf ar gael i'r nifer mwyaf posibl o wylwyr Cymreig ar ei noson agoriadol trwy ei rwydwaith trosglwyddyddion, gan gynnig y cyfle gorau posibl i'r sianel lwyddo a denu gwylwyr. Yr oedd S4C yn ddibynnol ar ewyllys da o fewn y BBC tuag at y sianel Gymraeg a hynny gan fod y Gorfforaeth, oherwydd y trefniant ariannol a chan yr ystyriai'r BBC ei hun yn uwchbartner yn y berthynas, yn cadw rheolaeth olygyddol dros ei raglenni a ddarlledid gan y sianel Gymraeg. Yr oedd hi felly yn angenrheidiol i swyddogion S4C ymddiried yn y BBC a'i staff i ddarparu rhaglenni safonol a difyr oddi mewn i'r deg awr a ddarperid yn rhad ac am ddim, ac, heb yr ymddiriedaeth honno, yr oedd potensial i'r berthynas rhwng y ddwy garfan suro gan gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth. Dibynnwyd hefyd ar hwyluster y berthynas gyda Channel 4 oherwydd y cytundeb i ddarparu'r rhaglenni Saesneg yn rhad ac am ddim a chan na fu unrhyw wrthwynebiad i'r egwyddor y gallai swyddogion S4C amserlennu a dethol y rhaglenni hynny yn ôl eu

dymuniad. Gellir priodoli hynny i'r berthynas a gaed rhwng y ddau brif weithredwr, ond gellid hefyd ystyried i bresenoldeb Glyn Tegai Hughes ar Fwrdd Rheoli Channel 4 ac Awdurdod S4C gyfrannu at y rhwyddineb hwnnw. Er y bu tensiynau sylweddol yn y berthynas rhwng S4C ac HTV, ac er i'r cwmni masnachol frwydro ar y cyd â gweddill rhwydwaith ITV i sicrhau'r bedwaredd sianel at eu defnydd hwy gan rannu'r Gymraeg dros ddwy sianel, ar ôl i'r penderfyniad i sefydlu S4C gael ei gyhoeddi bu HTV yn allweddol wrth sicrhau telerau teg i'r sianel. Ymwrthododd HTV â'r pwysau i gydsynio â'r cwmnïau rhwydwaith ITV eraill na ddylid talu am y bedwaredd sianel Gymraeg o'u coffrau hwy. Yn hytrach nag ymwrthod â'r drafodaeth, aeth HTV ati i hyrwyddo'r ffaith bod angen sicrhau arian teilwng i'r bedwaredd sianel gan nad oedd cynhyrchu rhaglenni Cymraeg safonol yn rhatach na chynhyrchu rhaglenni Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd mwy. At hynny, ar ôl yr holl ymgecru dros arian a gaed rhwng HTV a S4C, llwyddodd rhai o swyddogion y cwmni i gladdu unrhyw ddrwgdeimlad a grëwyd gan ymrwymo i gynhyrchu rhai o raglenni mwyaf apelgar a hirhoedlog y sianel.

Nid cefnogaeth y sefydliadau darlledu yn unig a oedd yn allweddol i lwyddiant a pharhad y sianel, bu ewyllys da y Llywodraeth Geidwadol a'r Gwasanaeth Sifil yn dyngedfennol hefyd. Gorfodwyd y llywodraeth i wneud tro-pedol a barodd gywilydd iddi, ond, er hynny, ni fu'r Gweinidogion na'r swyddogion yn ddialgar tuag at y sianel wedi'r embaras hwnnw. Yn dilyn y penderfyniad i osod rhaglenni Cymraeg ar un sianel, rhoddwyd pob chwarae teg i'r sianel lwyddo ac fe sicrhawyd telerau ariannol teilwng iddi mewn cyfnod o gynni ariannol, a bu'r llywodraeth yn gadarn ar y mater hwnnw yn wyneb gwrthwynebiad chwyrn gan gwmnïau rhwydwaith ITV. Yn wir, ar noson agoriadol y sianel cyhoeddodd Gwynfor Evans:

> . . . mae nhw wedi ymddwyn yn gwbl anrhydeddus mae'n rhaid i mi ddweud hyn, y llywodraeth, byth ers i ni gael y fuddugoliaeth hon, mae nhw wedi bod yn hael ac yn barod i fynd bob cam o'r ffordd y gallen nhw i sicrhau bod yna lwyddiant i'r sianel Gymraeg.[5]

[5] AGSSC, *Newyddion Saith*, Cynhyrchiad BBC Cymru, darlledwyd ar S4C, 1 Tachwedd 1982.

Ynghyd â sicrhau telerau teg yn nyddiau cynnar yr Awdurdod a'r sianel, telerau a fyddai'n allweddol i ffyniant y sianel, parhaodd ymrwymiad y llywodraeth i lwyddiant y sianel gydol y cyfnod prawf. At hynny, wrth i'r sianel wynebu adolygiad i'w gweithgareddau, yr oedd y gweision sifil wedi eu hargyhoeddi mai parhâd y sianel oedd yr ateb gorau ar gyfer dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg. Ceir tystiolaeth o'r agwedd honno ym mhenderfyniad swyddogion Whitehall i ymgynghori â'r Awdurdod a swyddogion y sianel ynglŷn â'r ffurf fwyaf addas ar gyfer yr adolygiad, er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ei natur ond eto yn cael ei weithredu mewn modd hwylus na fyddai'n arwain at ansicrwydd andwyol i'r sianel na'r sector ddarlledu. Yr oedd ewyllys da ac ymrwymiad i'r sianel o bob cyfeiriad yn allweddol felly, a bu'n ffactor hollbwysig i lwyddiant y sianel yn ystod ei chyfnod prawf wrth iddi brofi'n ddiamheuol mai darlledu rhaglenni Cymraeg ar un sianel oedd yr unig ateb a lwyddai i ddiwallu anghenion y gynulleidfa Gymraeg am wasanaeth cyflawn ac a lwyddai i leihau yn sylweddol y tensiynau a geid rhwng y carfannau ieithyddol yng Nghymru.

Er bod llwyddiant a ffyniant S4C yn ddibynnol iawn ar bartneriaethau effeithiol er mwyn sicrhau hinsawdd ffafriol a rhaglenni difyr a deniadol i'r sianel, yr oedd gweledigaeth unigolion yr un mor dyngedfennol i barhad y sianel. Er y bu i bob aelod o'r Awdurdod a phob aelod o staff ei gyfraniad allweddol ac unigryw i lwyddiant y sianel, yr oedd cyfraniadau, syniadau a phrofiad rhai unigolion wrth lunio patrwm gweithredu'r sianel yn dyngedfennol i'w llwyddiant. Bu penodiad Owen Edwards yn arwyddocaol i'r fenter a hynny gan ei fod yn dod â phrofiad helaeth o reoli gwasanaeth darlledu yng Nghymru, ac yr oedd wedi goruchwylio datblygiad a thwf y gwasanaeth teledu Cymraeg i blant a lansiad BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales yn ystod y 1970au. Yr oedd yr enw da a enillodd oherwydd y gweithgareddau hynny yn y BBC yn golygu y rhoddwyd hygrededd newydd i fenter y sianel Gymraeg a gallai'r sylwebyddion a'r gymuned Gymreig fentro â chredu y gellid gwireddu'r freuddwyd mewn modd effeithiol a pharhaol. Deuai'r hygrededd hwnnw nid yn unig o'i brofiad proffesiynol ond hefyd o'i linach gan ei fod yn aelod o deulu a oedd wedi cyfrannu'n helaeth at ffyniant y Gymraeg, gan sicrhau ei bod yn parhau'n iaith fyw. Ynghyd â'r credadwyedd hwnnw, yr oedd perthynas Owen Edwards â'r BBC yn Llundain a swyddogion yr adran ddarlledu yn y Swyddfa Gartref yn arwyddocaol gan y sicrhawyd yr ymdriniwyd â'r sianel gyda pharch.

Yr oedd penodiad Syr Goronwy Daniel yn ogystal yn cynnig hygrededd i'r sianel, ac yntau yn enw cyfarwydd i'r gymuned Gymreig ac yn feistr ar ddiplomydda gan iddo dreulio'i yrfa yn ymdrin â gwleidyddion ac yn trin a thrafod polisi. Yr oedd ymwybyddiaeth a phrofiad Syr Goronwy Daniel ym maes ystadegau ac economeg hefyd yn allweddol i'r sianel, gan mai ei weledigaeth graff ef a esgorodd ar strategaeth a wreiddiodd y sianel yn ddwfn yn ffyniant economaidd Cymru. Er mai Syr Goronwy Daniel oedd ysgogwr y strategaeth hon, yr oedd brwdfrydedd aelodau o staff y sianel i weithredu'r cynlluniau, a Chris Grace yn benodol trwy sefydlu cytundebau creu nwyddau yn seiliedig ar raglenni S4C, yn allweddol i sicrhau llwyddiant aruthrol y strategaeth yn ystod y cyfnod prawf. Aethpwyd ati i greu ymateb, creu sgîl effeithiau, creu enw da a gwneud y sianel yn berthnasol i'r Gymru fodern. Yr oedd holl weithgareddau atodol y sianel trwy'r cwmni Mentrau, yn cyfrannu tuag at yr ethos hwnnw o wneud y sianel yn anhepgor i economi Cymru ac yn rhan hanfodol o'r ddelwedd o Gymru dramor. Yr oedd strategaeth o'r fath yn rhwymo ffyniant sectorau ac ardaloedd penodol i lwyddiant y sianel gan ei gwneud hi'n anoddach os nad yn amhosibl ei diddymu heb gael effaith pellgyrhaeddol ar economi ehangach y wlad. Mae hon yn parhau yn strategaeth a arddelir gan y sianel ac y mae bellach yn comisiynu ymchwil penodol yn y maes hwn er mwyn mesur mewn dull ariannol ac ystadegol effaith economaidd y sianel ar economi Cymru.[6] Ceisia'r adroddiadau hyn ddangos gwerth ychwanegol i'r sianel a'i gweithgareddau y tu hwnt i ddarparu rhaglenni Cymraeg i gynulleidfa leiafrifol. Yn Nhachwedd 2010, rhyddhawyd canlyniadau yr astudiaeth economaidd ddiweddaraf fel arf i amddiffyn y sianel yn ystod ei brwydrau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddi geisio cyfiawnhau'r buddsoddiad a dderbynia o'r pwrs cyhoeddus.

Unigolyn arall y gellir gweld ei weledigaeth yn glir ar y sianel oedd Golygydd Rhaglenni cyntaf y sianel, Euryn Ogwen Williams. Yr oedd Euryn Ogwen Williams wedi gweld, ar y blaen i unrhyw un arall, botensial y cyfraniad y gellid ei wneud gan gynhyrchwyr annibynnol i ddarpariaeth Gymraeg ehangach. Ef yn anad neb a fu'n

[6] Uned Ymchwil Economaidd Cyrmu, Prifysgol Caerdydd, *Economi a Diwylliant: S4C yng Nghymru, Effeithiau Economaidd Presennol a Phosib* (S4C, Caerdydd, 2001); S4C, *Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru, 2002–2006* (Caerdydd, 2007); Angharad Butler, Jane Bryan ac Annette Roberts, *Effaith Economaidd S4C 2007–2010* (Caerdydd, 2010).

gyfrifol am hyrwyddo achos y cynhyrchwyr annibynnol gerbron yr awdurdodau perthnasol wrth iddynt ystyried sut i ddiwallu'r gofyn am ragor o oriau o raglenni Cymraeg. Yn dilyn ei benodiad i swydd Golygydd Rhaglenni'r sianel, mae'n amlwg iddo hyrwyddo'r weledigaeth honno'n fewnol wrth annog a chymell y sector annibynnol i dyfu a datblygu fel bod modd iddi gystadlu â darpariaeth y BBC ac HTV, a chynnig arlwy safonol i'r sianel. Bu llwyddiant S4C felly yn ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, yn bartneriaethau, ewyllys da a gweledigaethau unigolion allweddol ac yr oedd y cyfraniadau hyn yn allweddol wrth i'r sianel fentro i'w chyfnod prawf.

Yr hyn sy'n anodd ei amgyffred wrth edrych yn ôl ar ddyddiau cynnar y sianel yw mai arbrawf tair blynedd yn unig oedd Sianel Pedwar Cymru i ddechrau. Nid oedd S4C yn arbrofol yn yr un ystyr â Channel 4, a oedd â'r dasg o geisio darparu gwasanaeth a oedd yn cynnig rhagor o amrywiaeth a rhaglenni arbenigol i'r gynulleidfa Brydeinig. Yr oedd disgwyl yn hytrach i S4C fynd ati i sefydlu sianel nad oedd rheidrwydd y byddai'n bodoli ar ôl i'r cyfnod o dair blynedd ddod i ben. Er hynny, yn hytrach na mynd ati i sefydlu sianel fechan, hyblyg y byddai'n hawdd ei datgymalu neu ei haddasu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, aeth yr Awdurdod ati i sefydlu sianel y byddai'n gynyddol anodd i'r llywodraeth ei difodi. Er hynny, yr oedd y cysyniad o arbrawf yn dylanwadu ar benderfyniadau a'r modd yr oedd swyddogion y sianel yn ymateb i wahanol sialensiau. Ym marn Chris Grace yr oedd y cyfnod o baratoi cyn i'r sianel ddechrau darlledu yn un anodd oherwydd y pwysau aruthrol a oedd arni i lwyddo, ond hefyd oherwydd y diffyg ymddiriedaeth, ymysg darlledwyr yn benodol, na fyddai'r fenter yn llwyddo. Bu'n gyfnod y teimlodd swyddogion S4C fagl methiant o amgylch eu gyddfau wrth iddynt ymdrechu hyd eithaf eu gallu i sicrhau ei llwyddiant.[7]

Ceir tystiolaeth bellach o'r pryder cefndirol hwnnw yn y modd y bu'r Awdurdod a'r Swyddogion yn ymdrin â ffigurau gwylio. Yr oedd angen i'r sianel ddenu cynulleidfaoedd parchus, ac er yr oedd hi'n wybyddus na fyddai'r sianel fyth yn sicrhau ffigurau gwylio a oedd yn cyfateb i'r hyn a geid gan sianeli eraill, yr oedd rheidrwydd ar y sianel i ddenu canran rhesymol o'r gynulleidfa Gymraeg. Byddai'r

[7] Cyfweliad yr awdur gyda Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010.

ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar y polisi o gynhyrchu rhaglenni poblogaidd a fyddai'n apelio at y gynulleidfa ehangaf posibl er mwyn sicrhau ffigurau gwylio iach. Bu'r polisi hwn yn llwyddiant yn ystod misoedd cyntaf y darlledu, ond wedi'r ffigurau gwylio uchel hynny nad oedd yn ddarlun realistig o gynulleidfa'r sianel, cafwyd y cwymp anochel a gwelwyd pryder am yr adolygiad a thynged y sianel yn y modd yr ymatebodd yr Awdurdod i'r ffigurau gwylio negyddol trwy lunio adroddiadau swmpus yn dadansoddi'r ffigurau a gofyn i BARB adolygu ac ailystyried ei ddulliau. Nid oedd yr ymateb y tu hwnt i bob rheswm, ond yr oedd y sianel yn awyddus i sicrhau y gellid llunio'r darlun gorau posibl ohoni gan y cyhoeddid y ffigurau gwylio yn y wasg, ac y defnyddid y ffigurau er mwyn mesur llwyddiant neu aflwyddiant y sianel. Gwyddai'r Awdurdod yn iawn y gallai'r straeon negyddol hyn gael effaith ar y farn gyhoeddus ac, yn ei dro, ar ganlyniad yr adolygiad.

Ynghyd â'r angen i apelio at y gynulleidfa ehangaf bosibl yr oedd angen gwrthbrofi'r holl broffwydi gwae a dangos yn ddiamheuaeth y gellid cynnal gwasanaeth cyflawn a safonol yn y Gymraeg. Aeth y sianel ati felly i sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni yn cael eu comisiynu a bod y sianel a'i darparwyr yn dyfeisio rhaglenni a chyfresi a oedd yn uchelgeisiol. Mynnid nad rhaglenni plwyfol yn unig y gallai sianel Gymraeg eu hariannu a'u darparu ar gyfer ei chynulleidfa. Yr oedd y strategaeth newyddion o drin a thrafod digwyddiadau o bwys y tu hwnt i ffiniau Cymru ynghyd â newyddion lleol, a'r patrwm a ddatblygwyd gyda'r rhaglen materion cyfoes *Y Byd ar Bedwar* o ymdrin yn fanwl â materion rhyngwladol, o Giwba i Ethiopia ac o Gymru i'r Ariannin, yn destament o'r uchelgais hwnnw. Yr oedd amheuaeth wirioneddol bod digon o dalent perfformio ar gael yng Nghymru i ddiwallu'r cynnydd yn y ddarpariaeth, a bu'r sianel yn ymwybodol iawn o'r angen i ddangos yn glir nad oedd prinder. Yn sicr ni lwyddodd y sianel i ddileu'r gŵyn am 'yr un hen wynebau' yn llwyr, ond bu'r sianel yn ysgogiad i nifer o bobl ifanc i fentro i'r maes. Yr oedd y gweithgareddau hyn yn dangos yn ddiamheuol nad oedd gwraidd i'r pryderon hynny nad oedd digon o dalent yng Nghymru i gynnal gwasanaeth Cymraeg.

Ynghyd â dangos dilysrwydd yr egwyddor o sianel Gymraeg, yr oedd rheidrwydd ar y sianel hefyd i beidio ag amddifadu'r gynulleidfa ddi-Gymraeg o ormod o gynnwys

Channel 4 er mwyn lleihau'r cwynion a fu'n bla yn ystod y 1960au a'r 1970au. Gan mai dim ond diwrnod yn unig a oedd rhwng lansiad S4C a Channel 4, nid oedd amser i S4C ymsefydlu ei hun yn y tirlun darlledu ac ym mhatrymau gwylio'r gynulleidfa cyn i'r chwaer-sianel Brydeinig ddechrau darlledu. O'r herwydd yr oedd pryder y gallai cyhoeddusrwydd o amgylch y sianel Saesneg roi camargraff i'r gynulleidfa ddi-Gymraeg ei bod yn colli darpariaeth Saesneg deniadol a hynny oherwydd gofynion y gynulleidfa leiafrifol Gymraeg. Yr oedd hi'n angenrheidiol i'r sianel Gymraeg, er mwyn diwallu prif ofyn y Swyddfa Gartref, ddangos nad oedd unrhyw alwadau sylweddol i ddychwelyd at y patrwm dwy sianel, ac aethpwyd ati i wireddu hynny trwy sicrhau nad oedd hi'n cynddeiriogi'r gynulleidfa ddi-Gymraeg. Yr oedd y berthynas hwylus a fodolai rhwng S4C a Channel 4 wedi sicrhau bod i swyddogion y sianel Gymraeg rwydd hynt i amserlennu'r rhaglenni Saesneg mewn modd a oedd yn eu galluogi i ddarlledu y rhan helaethaf o'r rhaglenni a ddangosid ar Channel 4 ar S4C hefyd. Bu'r hyblygrwydd hwnnw yn allweddol i sicrhau bod modd i'r gynulleidfa yng Nghymru wylio rhaglenni Channel 4, er nad ar yr amser yr hysbysebid hwy yn Lloegr. Parheid i dderbyn llythyrau yn cwyno am amseru'r rhaglenni Saesneg, a phan ddarlledid rhaglenni Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg ar y BBC yn enwedig atgyfodwyd yr hen deimladau cas. Dengys yr enghreifftiau hyn yn glir y bu S4C yn falm i'r poenau hynny ac i fynegiant cyhoeddus sylwadau gwrthwynebus i raglenni Cymraeg, ond ni fu'r sianel yn wellhad llwyr. Dadleuir felly nad diddymu'r trafferthion yn llwyr a wnaed gyda sefydlu S4C ond yn hytrach eu trosglwyddo o ddwy sianel boblogaidd i un sianel leiafrifol. Nid oedd S4C felly yn ateb perffaith i ddarlledu yng Nghymru, ond ar ddechrau y 1980au nid oedd gorlawnder o sianeli i'w dosbarthu, ac felly, rhannu'r bedwaredd sianel rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg oedd yr unig ateb posibl i drafferthion darlledu Cymru. Dadleuir hefyd yr ystyriai swyddogion ac Awdurdod S4C ganlyniad yr arolwg a pharhad y sianel yn bwysicach na dilyn canllaw y Ddeddf Ddarlledu a syniadau gwreiddiol y llywodraeth yn slafaidd. Anwybyddwyd geiriad y Ddeddf a fynnai ddarlledu rhaglenni Saesneg Channel 4 yn unol ag amserlen y sianel honno y tu hwnt i'r oriau brig, a hynny er mwyn osgoi creu sianel a gwasanaeth Cymraeg a deimlai fel eithriad rhanbarthol o wasanaeth Prydeinig. Sylweddolwyd yn gynnar iawn yn hanes y sianel nad oedd hwnnw'n batrwm a fyddai'n tawelu'r dyfroedd, felly aethpwyd ati i weithredu patrwm a oedd yn llawer mwy tebygol o leihau y tensiynau a darparu'r gwasanaeth gorau i'r gynulleidfa yng Nghymru. Dengys y weithred hon

fod yr arolwg, ynghyd â disgwyliadau'r gynulleidfa, yn flaenllaw ym meddyliau'r swyddogion a'r Awdurdod wrth iddynt ddehongli ysbryd y Ddeddf yn hytrach na dilyn ei chanllawiau yn llythrennol.

Oherwydd yr ymdrech aruthrol a fu i sicrhau bod y sianel yn llwyddo gyda'r gweithgareddau hyn, bu adolygiad y Swyddfa Gartref yn fater o ffurfioldeb yn unig yn hytrach nac adolygiad hynod fanwl o holl weithgareddau sianel. I'r perwyl hwnnw, felly, ac yn unol â'r addewid a gaed gan y Swyddfa Gartref, aethpwyd ati i asesu a oedd yna unrhyw dystiolaeth y dymunai y mwyafrif o aelodau y gynulleidfa yng Nghymru ddychwelyd at yr egwyddor o ddarlledu rhaglenni Cymraeg ar draws sawl sianel. Gellid dadlau y golygai'r penderfyniad hwnnw mai *fait accompli* oedd canlyniad yr adolygiad a hynny gan fod y sianel wedi llwyr sefydlu ym mhatrymau gwylio nifer fawr o gartrefi ac aelwydydd Cymraeg a chymysg, ac wedi tawelu'r dyfroedd o ran cwynion o'u cymharu â'r teimladau tymhestlog a welwyd yn y dyddiau cyn i'r sianel gael ei sefydlu. Yr oedd hwn yn benderfyniad teg yn y cyfnod, ond yr oedd y diffyg golwg feirniadol a roddwyd i weithgaredd ehangach y sianel ym 1985 yn gosod cynsail i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r sianel ers hynny, tawedogrwydd sydd wedi arwain, yn ôl nifer o sylwebyddion, at rai o drafferthion cyfredol y sianel.

Un o'r dadleuon a ddefnyddiwyd yn ystod y frwydr dros sefydlu sianel Gymraeg ar wahân oedd pa mor angenrheidiol oedd yr egwyddor o wasanaeth cyflawn Cymraeg i ddyfodol yr iaith. Er hynny, nid yw'n bosibl mesur mewn dull ystadegol gyfraniad penodol Sianel Pedwar Cymru i oroesiad yr iaith a hynny gan na ellir gwahanu cyfraniad y sianel oddi wrth yr holl fuddsoddiadau eraill a gaed mewn gweithgareddau a fu'n hybu defnydd o'r iaith, megis ysgolion cyfrwng Cymraeg, mudiadau meithrin ac Urdd Gobaith Cymru. Er na ellir mesur hynny, yn ddi-os yr oedd y sianel wedi creu hyder newydd yn y Gymraeg trwy ddangos bod modd creu a chynnal gwasanaeth teledu cyflawn Cymraeg. At hynny, trwy gynhyrchu rhaglenni a ffilmiau safonol a oedd yn cystadlu â goreuon y darlledwyr eraill, yn ennill gwobrau rif y gwlith, yn agor gwyliau ffilm llewyrchus, yn denu sylw yn y wasg Brydeinig, ac yn cael eu prynu gan ddarlledwyr Prydeinig a rhyngwladol fel ei gilydd, rhoddwyd bri a hyder i'r iaith. Profwyd gyda'r cynyrchiadau hyn bod marchnad i gynyrchiadau Cymraeg y tu hwnt i ffiniau Cymru, yr oedd y cyhoeddusrwydd ychwanegol hwn hefyd yn denu ac yn magu cynulleidfaoedd newydd i'r sianel a oedd yn cael eu

hysgogi gan chwilfrydedd i wylio'r rhaglenni a'r ffilmiau a oedd wedi ennill cryn sylw rhyngwladol.

Ynghyd â chreu rhaglenni a oedd yn creu hyder a diddordeb yn y sianel oherwydd eu safon a'u bri, yr oedd S4C hefyd yn darparu, fel rhan o'i dwy awr ar hugain yr wythnos, ddarpariaeth ehangach ar gyfer nifer o gynulleidfaoedd a oedd yn annog defnydd pellach o'r Gymraeg. Ar ddiwedd y 1970au buddsoddwyd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant, gan y credid mai hon oedd y garfan a effeithid fwyaf gan y diffyg darpariaeth yn yr iaith. Parhawyd gyda'r buddsoddiad hwnnw wedi dyfodiad S4C a chyda'r animeiddiadau hynod boblogaidd a ddarlledwyd yn gyntaf ar y sianel Gymraeg, llwyddwyd i ddenu plant, ac oedolion, na fyddai fel arfer yn troi at sianel Gymraeg ar gyfer eu hadloniant. Yr oedd y rhaglenni hyn yn sicrhau bod cynulleidfa iau ac eang yn dod ar draws y Gymraeg, gan wrthbrofi'n llwyr y pryderon hynny am greu geto ieithyddol lle na fyddai Cymry di-Gymraeg neu prin eu Cymraeg yn dod ar draws y rhaglenni. Yn hytrach yr hyn a lwyddwyd i'w greu gyda'r rhaglenni hyn, yr holl gyhoeddusrwydd, a'r nwyddau deniadol a oedd yn gysylltiedig â hwy, oedd sicrhau sefyllfa lle yr oedd y gwylwyr hynny yn dewis rhaglenni Cymraeg yn hytrach na tharo arnynt ar hap.

Carfan arall y darparwyd ar ei chyfer, ac a oedd yn sicrhau bod y sianel yn cyfrannu at hybu'r Gymraeg, oedd rhaglenni ar gyfer dysgwyr. Bu peth dryswch yn nyddiau cynnar y sianel ynglŷn â phwy yn union ddylai ddarparu rhaglenni ar gyfer dysgwyr. Credai S4C nad oedd y cyfrifoldeb i ddarparu rhaglenni ar gyfer dysgwyr cwbl newydd yn disgyn ar ei hysgwyddau. Yn ystod y rhan helaeth o'r cyfnod prawf, felly, rhaglenni a oedd yn helpu dysgwyr profiadol i groesi'r bont i fwynhau rhaglenni'r sianel trwy ddarparu cymorth gyda termau, geiriau ac ymadroddion dyrys yn unig a ddarlledwyd. Yr oedd hwn yn gamsyniad sylweddol ar ran swyddogion y sianel ac yn un o wendidau y sianel yn ei blynyddoedd prawf, wrth iddi beidio â manteisio ar frwdfrydedd ac angen carfan sylweddol o ddysgwyr a darparu ar eu cyfer. Ni welwyd unrhyw ddarpariaeth felly i ddysgwyr newydd tan ddechrau 1985, pan gywirwyd y camsyniad cynnar hwnnw mai ar y sianeli Saesneg y dylid darparu rhaglenni dysgu Cymraeg. Er y camgymeriad polisi hwnnw o ddiystyru cryfder teimlad a pha mor bwysig oedd y gynulleidfa o ddysgwyr i'r sianel, llwyddwyd yn ddi-os i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg gan sicrhau bod

amrediad ehangach o raglenni ar eu cyfer a sicrhau mwy o gyfleoedd i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg ar y cyfryngau.

Cyfle coll arall yn hanes y sianel yn ystod ei chyfnod prawf, oedd ei methiant i sicrhau cysylltiad agosach gyda'i chynulleidfa, gan iddi ddewis dibynnu am gyngor ar raglenni gan bwyllgorau ymgynghorol y BBC a'r ADA yn hytrach na sefydlu ei system ymgynghori arloesol ei hun. Nid oherwydd diffyg ysbrydoliaeth na diffyg syniadau ynglŷn â sut i fynd ati i gasglu safbwyntiau'r gynulleidfa y bu hynny, gan i'r Awdurdod ddyfeisio cynllun o'r fath yn ystod 1982. Yn hytrach, diffyg amser yn ystod y deunaw mis o baratoi fu'n gyfrifol am ddiddymu'r cynllun hwnnw, a diffyg o ran gosod blaenoriaethau wrth i'r sianel droi at yr ateb hawdd a chymharol ddiffwdan o gael adborth ar ei chynnyrch. Gellid gosod y bai yn rhannol am hyn ar yr oedi a fu cyn sefydlu Awdurdod S4C, y ffaith i'r Ddeddf Ddarlledu gynnig dihangfa i'r Awdurdod a hefyd i'r oedi a'r petruso a gafwyd gan yr Awdurdod a'r swyddogion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y gyfundrefn fwyaf addas. Ond, dagrau pethau o'r herwydd, yw na lwyddodd y sianel i sicrhau cysylltiad agos a ffyniannus gyda'i chynulleidfa yn y cyfnod cynnar hwn, gan yn hytrach eu cadw lled braich oddi wrthi.

Mae astudiaeth o hanes S4C yn berthnasol i ddatblygiad cyfredol y sianel, yn enwedig o ystyried y trafferthion a'r heriadau sydd yn wynebu'r sianel yn 2010, wrth i'r llywodraeth, mewn cyfnod o gynni economaidd, geisio lleihau ei chyfraniad ariannol tuag at y sianel a chyflwyno'r cyfrifoldeb hwnnw yn hytrach i ddarlledwr arall, sef y BBC. Nid yw gofyn i ddarlledwyr eraill ariannu S4C yn egwyddor wreiddiol. Ar ddechrau ei hoes yr oedd S4C yn cael ei hariannu gan rwydwaith ITV a dyna fu'r patrwm ariannu gydol y 1980au. Er hynny, parhai y sianel yn annibynnol ac ni fu'n atebol i gwmnïau ITV gan fod yr arian hwnnw yn cael ei ddosbarthu trwy'r ADA. Nid oedd yr arian, ychwaith, yn dod gydag unrhyw ddisgwyliadau y dylid sicrhau aelod o rwydwaith ITV ar Awdurdod S4C, na gofynion i'r sianel drafod ei chynlluniau â chwmnïau'r rhwydwaith honno neu ofyn caniatâd cyn gweithredu polisïau arbennig.[8] Nid oedd dylanwad rhwydwaith ITV felly yn pwyso'n drwm ar weithgareddau'r sianel a gallai Sianel Pedwar Cymru fynd ati i

[8] Yr oedd y patrwm ar gyfer Channel 4 yn wahanol i S4C gan yr eisteddai dri pennaeth cwmnïau o rwydwaith ITV ar Fwrdd y sianel honno.

lunio a gosod ei blaenoriaethau ei hun a chreu ei chymeriad nodweddiadol ei hun.[9] Nid yw partneriaethau ychwaith yn gysyniad newydd i'r sianel, dengys hanes cyfnod prawf y sianel fod partneriaethau yn allweddol i'r llwyddiant cynnar hwnnw. Ond, yn wahanol i'r cynlluniau bras a gyhoeddwyd ar gyfer y sianel yn Hydref 2010 gan y Gweinidog Diwylliant, Jeremy Hunt, A.S. ar ran Llywodraeth Glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n awgrymu ffurfio Bwrdd rheoli cyfun o aelodau Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC, nid un partner a oedd i'r sianel, ac a eisteddai ar ei hawdurdod rheoli yn ystod 1981–5, ond nifer. Yn yr un modd nad oedd yr Awdurdod Darlledu Annibynnol na rhwydwaith ITV yn llwyddo i ddylanwadu ar y sianel, nid oedd modd i'r partneriaid eraill, y BBC a Channel 4, ddylanwadu'n ormodol ar y sianel ychwaith gan nad oedd ganddynt ddigon o lais ar yr Awdurdod i wneud hynny. Gall partneriaethau felly fod yn fendithiol i'r sianel, yr hyn sydd yn peri pryder dealladwy, er hynny, yw y gall un sefydliad, y BBC, oherwydd ei statws a'i faint, dra-arglwyddiaethu dros yr Awdurdod a gweithgareddau'r sianel oherwydd ei rôl newydd fel ariannwr. At hynny, yn y bwriad i sefydlu nifer o strwythurau rheoli newydd ar ffurf Bwrdd ar y cyd rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC i oruchwylio trwydded y gwasanaeth, a Phwyllgor Rheoli newydd i weithredu'r gwasanaeth, ceir pryder ynglŷn â dyfodol bodolaeth yr Awdurdod.[10] Gellir gofyn yn y cyd-destun hwn, a fydd rol i'r Awdurdod yn annibynnol o'r pwyllgorau newydd hyn gan y rhagwelir gan rai y gall ei gyfrifoldebau gael eu llechfeddiannu ganddynt.[11]

Un o elfennau mwyaf nodweddiadol y tirlun darlledu Cymraeg yn ystod cyfnod prawf y sianel, sef 1981–5, oedd bwrlwm gweithgaredd y cynhyrchwyr annibynnol y cyfnod. Ceid nifer helaeth o gwmnïau amrywiol, a phob yn un yn wahanol i'r nesaf o ran maint, ethos a'r rhaglenni a gynhyrchid ganddynt. Erbyn hyn mae'r cynhyrchwyr annibynnol ei hunain yn gwmnïau a chyfundrefnau mawrion, ac yn wrthgyferbyniad llwyr i ysbryd gwreiddiol y sector annibynnol. Trwy geisio lleihau'r baich ar

[9] Er nad oedd cynrychiolydd uniongyrchol o rwydwaith ITV ar Awdurdod S4C, yr oedd cynrychiolydd yno o'r ADA, ond dim ond un o blith nifer o aelodau oedd cynrychiolydd yr ADA ac felly ni allai ddylanwadu'n ormodol na gwthio safbwyntiau un sefydliad ar y sianel.
[10] Bydd i'r Bwrdd ar y cyd gynrychiolaeth gytbwys rhwng aelodau Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC, a bydd aelodau annibynnol yn ymuno â chynrychiolwyr y BBC a S4C ar y Pwyllgor Rheoli.
[11] Dienw, 'Jeremy Hunt's letter to Sir Michael Lyons', 22 Hydref 2010, *www.guardian.co.uk/media/2010/oct/22/bbc-funding-settlement-jeremy-hunt* (cyrchwyd Rhagfyr 2010).

gomisiynwyr y sianel, lleihau'r cymorth sylweddol a gynigid gan staff y sianel i nifer o'r cynhyrchwyr llai, sicrhau arbedion ariannol i'r sianel a chynhyrchu mwy o oriau rhaglenni am yr un buddsoddiad ariannol, anogwyd nifer o'r cwmnïau annibynnol i uno a chreu cwmnïau mawrion a fyddai mewn egwyddor yn fwy abl i ymdopi â'r newidiadau hyn. O ganlyniad crëwyd sector anhyblyg sydd yn ymdebygu i'r tirlun darlledu a gaed yn ystod y 1970au lle gellid ond cynhyrchu syniadau trwy'r BBC ac HTV. Yn 2010 ceir mwy o gwmnïau mawrion na'r ddwy gyfundrefn hyn, ond nid yw'r amgylchiadau yn wahanol. Prin iawn yw'r cyfleoedd i gynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C y tu hwnt i'r cwmnïau mawrion hynny sy'n tra-arglwyddiaethu dros y diwydiant. Oherwydd yr holl ffactorau hyn, ym marn rhai ceir llai o amrywiaeth ac asbri yn narpariaeth y sianel.[12] Mae cymhariaeth â chyfnod cynnar y sianel yn awgrymu yn glir bod amrywiaeth ehangach o gwmnïau a chytundebau a chyfresi byrrach yn arwain at gynhyrchu gwasanaeth ac arlwy llawer mwy cyffrous a deinamig. Ond mae'r ddadl honno yn anwybyddu y problemau a gaed gyda'r strategaeth wreiddiol ym mlwyddyn gyntaf darlledu'r sianel, sef colli y cynulleidfaoedd a feithrinwyd dros gyfnod o wythnosau a misoedd wrth i gyfresi byrion dorri'r arlwy yn ei flas.[13] Ymddengys felly mai cydbwysedd rhwng y ddwy strategaeth fyddai'r cynllun mwyaf llwyddiannus, ond diau fod darganfod a gweithredu y cydbwysedd hwnnw yn dasg anodd ac yn sialens barhaol.

O gymharu S4C yn ei chyfnod prawf gyda'r sianel heddiw ar ddiwedd 2010, gwahaniaeth sylweddol sydd wedi amlygu ei hun yw'r tensiynau amlwg a geir ym mherthynas y sianel gyda'r llywodraeth Brydeinig. Yn ystod y cyfnod prawf nid oedd swyddogion S4C yn gweld gweision sifil Whitehall na'r llywodraeth fel gelynion. Yn wir, gellid awgrymu y bu'r Awdurdod ar ambell achlysur, ac yn enwedig ei Gadeirydd, yn or-barod i droi at Lundain er mwyn trafod trafferthion ac ymgynghori ar atebion.[14] Ni ellid cyhuddo'r sianel heddiw o fod yn rhy agored â gwleidyddion, yn enwedig o ystyried bod aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol wedi

---

[12] Emlyn Davies, 'Argyfwng S4C', *Barn* (Hydref 2010), tt. 8–9; Vaughan Hughes, 'S4C', *Barn* (Tachwedd 2010); t. 7; Gwion Owain, 'Arbrawf economaidd S4/C', *Barn* (Mehefin 2010), tt. 18–19; Gwion Owain, 'Dyfodol S4/C beth nesaf?', *Barn* (Medi 2010), tt.7–9; Martin Shipton, 'S4C "has lack of hunger for great programming"', 7 Rhagfyr 2010, *www.walesonline.co.uk/news/welsh-politics/welsh-politics-news/2010/12/07/s4c-has-lack-of-hunger-for-great-programming-91466-27779108/* (cyrchwyd Rhagfyr 2010); Sioned Williams, 'Teimlo min y fwyell', *Barn* (Awst 2010), tt. 91–2;

[13] Caed trafodaeth ar drafferthion y strategaeth honno ym mhennod 4, t. 223.

[14] Cyfweliad yr awdur gyda'r Parch. Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007.

datgan yn gyhoeddus eu syndod ynglŷn â'r diffyg cyfathrebu a fu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng y sianel a gwleidyddion Bae Caerdydd.[15] I'r gwrthwyneb yn llwyr, ar ddechrau'r 1980au ystyrid y berthynas rhwng y llywodraeth a swyddogion y sianel fel un a oedd o fantais i'r sianel a bu'r llywodraeth yn barod iawn i sicrhau'r hinsawdd gorau iddi lwyddo, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu mynd yn groes i ddatganiadau cyhoeddus a wnaed eisoes.[16] Yn wyneb cyfyng-gyngor presennol y sianel beirniadwyd yr Awdurdod yn hallt am ei ymddygiad naïf wrth ymdrin â'r llywodraeth. Bu Geraint Stanley Jones ac Euryn Ogwen Williams, ill dau yn allweddol i ddatblygiad y sianel yn eu cyfnod, yn bwrw eu llach yn gyhoeddus ar ymateb yr Awdurdod i gynlluniau'r llywodraeth drwy fygwth adolygiad barnwrol cyn yna beidio â gweithredu ar y bygythiad. At hynny, bu gwleidyddion Ceidwadol y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn galw ar i bob aelod o'r Awdurdod ymddiswyddo, a sylwebyddion eraill yn annog y Cadeirydd i ymddiswyddo.[17] Mae'n amlwg bellach bod perthynas y sianel a'i Hawdurdod gyda'r llywodraeth a'i gweision sifil yn Llundain ar ei gwaethaf, yn enwedig o gofio na ymgynghorwyd â'r Awdurdod dros gynlluniau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau mai'r BBC fydd yn mabwysiadu cyfrifoldebau ariannu'r sianel yn 2013–14. Er bod y tirlun gwleidyddol wedi newid yn llwyr ar ôl datganoli, ac er y galwadau cynyddol i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros S4C i Gymru, mae dirfawr angen adfer y berthynas rhwng Llanisien a Whitehall er mwyn sicrhau nad yw'r sianel a'i hannibyniaeth yn cael eu dryllio ymhellach a hynny oherwydd tensiynau cynyddol, diffyg cyfathrebu a diffyg ffydd mewn personél.

Gellir gwneud nifer o gymhariaethau felly rhwng blynyddoedd ffurfiannol Sianel Pedwar Cymru a'i sefyllfa gyfredol wrth iddi wynebu cyfnod newydd yn ei hanes.

[15] Wrth gwrs, nid yw darlledu yn fater datganoledig ac fe ellir dehongli y cwynion hyn fel ymgais i gryfhau'r achos dros ddatganoli darlledu. Er hynny, diau y bu'r diffyg cyfathrebu honedig a geid rhwng y sianel a gwleidyddion y Cynulliad a allai frwydro ochr y sianel mewn cyfnod trafferthus yn gam gwag ar ei rhan. Dienw, 'S4C crisis: Alun Davies's letter to Jeremy Hunt', 9 Awst 2010, *www.guardian.co.uk/media/2010/aug/09/s4c-alun-davies-jeremy-hunt* (cyrchwyd Awst 2010); Dienw, 'Galw ar Awdurdod S4C i ymddiswyddo', 20 Awst 2010, *www.golwg360.com/Celfyddydau/cat85/Erthygl_15104.aspx* (cyrchwyd Awst 2010); Dienw, 'Angen Adolygiad o Awdurdod S4C', 26 Hydref 2010, *news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_9120000/newsid_9125600/9125690.stm* (cyrchwyd Hydref 2010);

[16] Ceir tystiolaeth o hyn wrth i William Whitelaw yn yr unfed awr ar ddeg, gyhoeddi, yn groes i'w ddatganiad blaenorol, y byddai'n rhaid i gwmnïau cebl ddarlledu S4C fel rhan o'u darpariaeth yn hytrach na Channel 4. Ceir trafodaeth healeth ar y mater hwn ym Mhennod 4, tt. 216–19.

[17] *Week in Week out* (BBC, 26 Hydref 2010); *Post Cyntaf* (BBC, 24 Tachwedd 2010); Geraint Talfan Davies, 'Wales must fill the vacuum left by Hunt', 26 Tachwedd 2010, *www.clickonwales.org/2010/11/wales-must-fill-the-vacuum-left-by-hunt/* (cyrchwyd Tachwedd 2010).

Ar ddiwedd 1985, wedi cyhoeddi canlyniad arolwg y Swyddfa Gartref, yr oedd y sianel yn cychwyn ar bennod newydd yn ei hanes hefyd a hynny yn llawn sicrwydd yn ei dyfodol. Bu sialensiau diamheuol yn ystod y cyfnod prawf, ond wrth i'r degawd fynd rhagddo byddai heriau cwbl newydd yn wynebu'r sianel wrth iddi geisio adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd cynnar. Byddai argymhellion Pwyllgor Pilkington a'u heffaith ar agwedd Channel 4 tuag at werthu ei hysbysebion ei hun yn arwain at newid chwyldroadol ym mhatrwm ariannu'r sianel. At hynny, byddai datblygiadau technolegol a thwf teledu lloeren ac aml-sianel yn arwain at ragor o gystadleuaeth i arlwy'r sianel, a brwydrau pellach i sicrhau bod y sianel a'i rhaglenni yn parhau yn gyfoes ac yn apelgar ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg. Byddai gweddill y degawd hefyd yn gweld newidiadau sylweddol ym mhatrwm comisiynu'r sianel wrth i HTV golli rhagor o dir i'r cynhyrchwyr annibynnol wrth i ddeinameg a phŵer y sector gynhyrchu yng Nghymru newid. Ymddengys felly bod hanes cyfoethog a throellog i ddatblygiadau y sianel ar ôl 1985, cyfnodau sydd yn haeddu sylw ac astudiaeth bellach er mwyn deall yn llwyr ddatblygiad y sianel.

Dengys yr astudiaeth hon cyn lleied o ymchwil academaidd, dadansoddol a wnaed ar Sianel Pedwar Cymru dros yr wyth mlynedd ar hugain ddiwethaf. Ymddengys y bu tawelwch llethol ynglŷn â nifer o weithgareddau'r sianel oherwydd ofn cynhenid y gallai beirniadaeth hallt neu ddadansoddiad anffafriol arwain at beryglu ei bodolaeth. Caed tawelwch llethol hefyd ymysg y sector ddarlledu ac ymysg y cynhyrchwyr, a hynny oherwydd y pryder y byddai beirniadu'n gyhoeddus unrhyw agwedd ar y sianel yn arwain at beryglu bywoliaeth a diddymu cyfleoedd am gomisiynau yn y dyfodol.[18] Yr hyn a geir yn helbulon y sianel yn 2010 yw canlyniad y diffyg trafod beirniadol ac astudio manwl ar weithgareddau a pholisïau'r sianel. Oherwydd y diffyg trafod hwnnw ar bolisïau dadleuol y sianel, cafwyd sefyllfa lle gweithredwyd ar a sefydlwyd y strategaethau hynny yn gadarn yng ngwead y sianel. Dengys yr astudiaeth hon bod modd dysgu gwersi o hanes cyfoethog y sianel, a gobeithir y bydd hynny'n ysgogiad pellach i ragor o astudiaethau trylwyr o gryfderau a

[18] Mae sylwebyddion eraill hefyd wedi beirniadu'r diffyg trafodaeth a gaed am S4C yn y blynyddoedd diweddar. Dienw, ' "Bloated" S4C "must think small" says leading producer', 23 Tachwedd 2010, *www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11821971* (cyrchwyd Tachwedd 2010); Geraint Talfan Davies, 'Skewering of S4C carries wider lessons (part 1)', 4 Tachwedd 2010, *www.clickonwales.org/2010/11/skewering-of-s4c-carries-wider-lessons/* (cyrchwyd Tachwedd 2010); Gwion Owain, 'S4C's "too big to fail" problem', 13 Gorffennaf 2010, *www.clickonwales.org/2010/07/s4c's-'too-big-to-fail'-problem/* (cyrchwyd Tachwedd 2010).

gwendidau cyfredol ac hanesyddol y sianel. Ymddengys y bu trafferthion diweddar y sianel yn gyfrifol am adfywiad bychan yn y trafodaethau cyhoeddus am gyflwr a dyfodol y sianel Gymraeg a gofynion ac anghenion y gynulleidfa yng Nghymru. Gellir ond gobeithio y bydd yr adfywiad hwn yn arwain at dwf mewn astudiaethau cynhwysfawr a theilwng a fydd y darparu dealltwriaeth lawn o'r gwasanaeth a gaed gyda sefydlu Sianel Pedwar Cymru ym 1981 a'r ddarpariaeth sydd bellach o dan fygythiad.

**Atodiad A**

**Aelodau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru (1981–1985)**

| | |
|---|---|
| Syr Goronwy Daniel<br>*Cadeirydd* | Ionawr 1981 – Mawrth 1986 |
| Dr Glyn Tegai Hughes | Ionawr 1981 – Ionawr 1987 |
| Eleri Wynne Jones | Chwefror 1984 – Tachwedd 1990 |
| Yr Athro Huw Morris-Jones | Ionawr 1981 – Mawrth 1982 |
| D. Ken Jones | Ionawr 1981 – Ionawr 1984 |
| Gwilym Peregrine | Awst 1982 – Rhagfyr 1989 |
| Y Parch Dr Alwyn Roberts | Ionawr 1981 – Rhagfyr 1986 |

## ATODIAD B

**Cynhyrchwyr annibynnol a dderbyniodd gomisiynau gan S4C, 1981–1986**

| Cwmni | Lleoliad | 1981 – 1983 | 1983 – 1984 | 1984 – 1985 | 1985 – 1986 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clayton | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | |
| Anjou | Caerdydd | | ✔ | | |
| Atsain | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Bumper Films | Weston-Super-Mare | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Burum | Penygroes | ✔ | | | |
| Bwrdd Ffilmiau Cymru | Bangor | ✔ | | | |
| Chapter | Caerdydd | | | ✔ | |
| Chris Mercer | Caerdydd | | | | ✔ |
| CineCymru | Caerdydd | | | ✔ | ✔ |
| CinePedwar | Caerdydd | | | | ✔ |
| Clive Paton | Caerdydd | | ✔ | | |
| CTVC | Watford | | | ✔ | |
| Cwmni'r Castell | Bae Colwyn | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cynyrchiadau Jack Bellamy | Bryste | ✔ | | | ✔ |
| Cynyrchiadau ODA | Caer/Wrecsam | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cynyrchiadau Scan | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cynhyrchion Ffenics | Llangoed/Bangor | ✔ | ✔ | | ✔ |
| Dinas | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | |
| EME | Pontrhydfendigaid | | ✔ | | |
| Endaf Emlyn/ Gaucho | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Celtic | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Cineclair | Casnewydd/Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Eryri | Dinbych/Bangor | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |

| Cwmni | Lleoliad | 1981 – 1983 | 1983 – 1984 | 1984 – 1985 | 1985 – 1986 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffilmiau'r Garth | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Imago | Clevedon | ✔ | ✔ | | |
| Ffilmiau Llifon | Y Groeslon | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau'r Nant | Caernarfon | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Opix | Llundain | ✔ | | | |
| Ffilmiau Rebecca | Caerfyrddin | | | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Red Rooster | Llundain | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ffilmiau Seren | Bryste | | | | ✔ |
| Ffilmiau Tŷ Gwyn | Llanllyfni | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Fflam | Yr Wyddgrug | ✔ | | ✔ | ✔ |
| Fflic | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Gareth Lloyd Williams | Y Groeslon | ✔ | | | |
| Glansevin | Llangadog | ✔ | ✔ | ✔ | |
| Hanner Dwsin | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ian Bodenham | Llangennith | | ✔ | ✔ | |
| John Pickstock | Rossett/Wrecsam | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Laurie Jones | Bryste | | | ✔ | ✔ |
| Na-Nog | Porthmadog | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Narrowcast | Bryste | | ✔ | | |
| Roy Garner | Llundain | | | ✔ | |
| Sgrin '82 | Aberystwyth | ✔ | | | |
| Siriol | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Siôn Humphreys | Llanrug/Porthaethwy | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Stephen Weeks | Penhow, Casnewydd | | ✔ | | |
| Teledu'r Draethen | Machen | | | ✔ | |
| Teledu'r Dyffryn | Caerdydd | | | ✔ | ✔ |
| Teledu'r Tir Glas | Caernarfon | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Teledu Tŵr | Bangor | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Teledu Wyvern | Bryste/Swindon | ✔ | ✔ | | |

| **Cwmni** | **Lleoliad** | **1981 – 1983** | **1983 – 1984** | **1984 – 1985** | **1985 – 1986** |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Teliesyn | Caerdydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Telin | Caerdydd | | | ✔ | ✔ |
| Threadcross | Bryste | | | | ✔ |
| TWI | Llundain | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Wildacre | Windsor | | ✔ | | |

## Llyfryddiaeth

1. Llawysgrifau a Chasgliadau
2. Cyfweliadau a Gohebiaeth
3. Cyhoeddiadau Llywodraethol
4. Cyhoeddiadau Swyddogol ac Adroddiadau
5. Pamffledi a Darlithoedd
6. Llyfrau
7. Erthyglau ac Ysgrifau
8. Traethodau Ymchwil
9. Papurau Newydd a Cylchgronau
10. Gwefannau

## Llawysgrifau a Chasgliadau

**Archif yr ADA, ATA a'r Awdurdod Cebl, Prifysgol Bournemouth**
Advisory Committee for Wales – S4C Minutes/Agenda (Blwch 3997016)
The Welsh Fourth Channel Authority: Finance (Blwch 3997098)
Welsh Fourth Channel Finances and the Question of Levy Relief (Blwch 3997098)
S4C – Home Office Review (Blwch 3997019)

**Archifau Cenedlaethol, Kew**
*Conclusions of a Meeting of the Cabinet*, 11 Mehefin 1980 (CAB/128/68/9)
*Conclusions of a Meeting of the Cabinet*, 7 Awst 1980 (CAB/128/67/23)

**Archifau Seneddol, San Steffan**
*Broadcasting Bill, 2961* (London, 1980)
*Hansard*, House of Commons (1979–1985)
*Hansard*, House of Lords (1979–1985)
*Independent Broadcasting Authority Act 1979, Chapter 35* (London: HMSO, 1979)

**Archif Sianel Pedwar Cymru**
Cofnodion a Phapurau Awdurdod Sianel Pedwar Cymru (Mehefin 1981 – Ionawr 1987)
Gohebiaeth Syr Goronwy Daniel
Gohebiaeth Owen Edwards
Anerchiadau Owen Edwards
*HTV Limited and The Welsh Fourth Channel Authority – Sianel 4 Cymru – Programme Sales Agreement*, 27 Mai 1982.

**Canolfan Archifau Ysgrifenedig y BBC, Caversham**

Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru (1979–1985)

**Archif BBC Cymru (*BBC Wales Record Centre*), Caerdydd**
S4C, 1981–1987 (Ffeil 3573)
Fourth Channel (Ffeil 3666)
S4C (Ffeil 3835)
Working Papers – The setting up of S4C (Ffeil 3365)

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Casgliad Angharad Tomos – Areithiau ac Erthyglau 1979–1983 (A/1)
Casgliad Syr Goronwy Daniel – Broadcasting in Wales, 1970–85 (Blwch 3)
Casgliad Gwynfor Evans – Gohebiaeth Gyffredinol (G1/134); Brwydr y Sianel Gymraeg (M1/5); Pwyllgor Darlledu Prifysgol Cymru 1970–1972 (M1/7); S4C (M2/10); Teledu a Radio (P1/80 ); Y Wasg a Darlledu (P1/88); Ymgyrch deledu Gwynfor Evans dros S4C (P1/89).

**Casgliad Personol Dr Glyn Tegai Hughes (copïau a ddanfonwyd at yr awdur)**
Cofnodion Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, Ionawr – Mehefin 1981

**Casgliad Personol Dr Jamie Medhurst (ar fenthyg gan yr awdur)**
Cofnodion Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Teledu Annibynnol (1969–1972)
Cofnodion Pwyllgor Cymreig yr Awdurdod Darlledu Annibynnol (1972–1990)

## Cyfweliadau a Gohebiaeth

Cyfweliad â Wil Aaron, Llandwrog, 1 Hydref 2010. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Huw Davies, Penarth, 21 Gorffennaf 2008. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Owen Edwards, Caerdydd, 22 Rhagfyr 2006; 12 Ionawr 2007. Recordiadau ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Chris Grace, Caerdydd, 29 Tachwedd 2010. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, 31 Ionawr 2007. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Geraint Stanley Jones, Caerdydd, 10 Tachwedd 2008. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Huw Jones, Llandwrog, 2 Tachwedd 2010. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Robin Lyons, Caerdydd, 15 Hydref 2010. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Mair Owen, Caerdydd, 19 Ionawr 2007. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â'r Parch Dr Alwyn Roberts, Tregarth, 24 Mai 2007. Recordiad ym meddiant yr awdur.
Cyfweliad â Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 26 Ionawr 2007; 23 Chwefror 2007; 24 Ebrill 2007. Recordiadau ym meddiant yr awdur.
Gohebiaeth â Euryn Ogwen Williams, Caerdydd, 9 Tachwedd 2010; 3 Rhagfyr 2010. Copïau ym meddiant yr awdur.

Gohebiaeth â Richard Owen, Uwch Swyddog Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru, 26 Ebrill 2010. Copi ym meddiant yr awdur.

## Cyhoeddiadau Llywodraethol

*Broadcasting Act 1980* (London, 1980)

*Broadcasting Act 1981* (London, 1981)

*Broadcasting Act 1990, Chapter 42* (London, 1990)

*Broadcasting White Paper 1978, Cmnd. 7294* (London, 1978)

*Report of the Committee on the Future of Broadcasting – Appendices E-I: research Papers Commissioned by the Committee, Cmnd.6753–I* (London, 1977)

*Report of the Committee on Broadcasting 1960. Cmnd.1753* (London, 1962)

*Report on the Committee on Broadcasting, 1960. Cmnd.1819-1. Volume II, Appendix E, Memoranda submitted to the Committee (Papers 103 – 275)* (London, 1962)

*Report of the Committee on Broadcasting Coverage. Cmnd. 5774* (London, 1974)

*Report of the Committee on the Future of Broadcasting. Cmnd.6753* (London,1977)

*Report of the Working Party on the Welsh Fourth Channel Project* (London, 1978)

*Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implication for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners, Volume I – Report and Proceedings* (London, 1982)

*Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implication for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners, Volume II – Minutes of Evidence and Appendices* (London, 1982)

*Second Report from the Committee on Welsh Affairs – Broadcasting in the Welsh Language and the Implication for Welsh and Non-Welsh Speaking Viewers and Listeners. Observations by the Secretary of State for the Home Department and the Secretary of State for Wales, the British Broadcasting Corporation, the Independent Broadcasting Authority and the Welsh Fourth Channel Authority. Cmnd. 8469* (London, 1982)

The Welsh Fourth Channel Authority, *Minutes of Evidence Wednesday 6 May 1981, Committee on Welsh Affairs* (London, 1981)

## Cyhoeddiadau Swyddogol ac Adroddiadau

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1981–82* (Caerdydd, 1982)

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1982–83* (Caerdydd, 1983)

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1983–84* (Caerdydd, 1984)

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1984–85* (Caerdydd, 1985)

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1985–86* (Caerdydd, 1986)

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 1986–87* (Caerdydd, 1987)

Butler, A., Bryan, J., Roberts, A., *Effaith Economaidd S4C 2007–2010* (Caerdydd, 2010).

Fuller-Love, N., *The Impact of S4C on Small Businesses in Wales* (Aberystwyth, 2001)

HTV Group, *Annual Report and Accounts 1981* (Cardiff, 1982)

HTV Group, *Annual Report and Accounts 1982* (Cardiff, 1983)

HTV Group, *Annual Report and Accounts 1983* (Cardiff, 1984)

HTV Group, *Annual Report and Accounts 1984* (Cardiff, 1985)

HTV Group, *Annual Report and Accounts 1985* (Cardiff, 1986)

Research and Marketing Wales and the West Limited, 'Gwylio a Gwrando yng Nghymru – A survey with particular emphasis both on the appreciation of S4C (English and Welsh content) and on the use of the Welsh Language' (Caerdydd, Mehefin 1984)

Sianel Pedwar Cymru, *Sianel Pedwar Cymru: byd eang – international* (Caerdydd, 1982)

Sianel Pedwar Cymru, *Memorandwm i'r Swyddfa Gartref gan Sianel Pedwar Cymru: Hydref 1985* (Caerdydd, 1985)

Sianel Pedwar Cymru, *1982–87 teledu yng Nghymru – y diwydiant newydd* (Caerdydd, 1987)

Sianel Pedwar Cymru, *Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru, 2002–2006* (Caerdydd, 2007)

Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Prifysgol Caerdydd, *Economi a Diwylliant: S4C yng Nghymru, Effeithiau Economaidd Presennol a Phosib* (S4C, Caerdydd, 2001)

Welsh Consumer Council, *Watching S4C: the case for consumer representation for the fourth channel in Wales: the Welsh Consumer Council's evidence to the Home Office review of the fourth channel in Wales* (Cardiff, 1985)

Welsh Council of Labour, *Television in Wales – Report of a Labour Party Study Group* (Ionawr 1973)

Williams, G., a Thomas, A. R., *A Feasibility Study aimed to develop techniques to study the relationship between the Welsh Language output of S4C, and any changes to the extended pattern of use, and in the linguistic characteristics of the language over time* (Bangor, 1985)

## Pamffledi a Darlithoedd

Bryant, C., *Darlledu Cymru – Dyfodol Darlledu yng Nghymru* (Hydref 2007)

Curran, Sir Charles, *The fourth television network: a question of priorities* (London: BBC, 1974)

Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani? Hanes Ymgyrch Ddarlledu Cymdeithas yr Iaith – Argraffiad Cyntaf* (Aberystwyth, 1985)

Cymdeithas yr Iaith, *S4C Pwy Dalodd Amdani? Hanes Ymgyrch Ddarlledu Cymdeithas yr Iaith – Ail Argraffiad* (Aberystwyth, 2010)

Cymdeithas yr Iaith, *Teledu Cymru i Bobl Cymru* (Aberystwyth, 1977)

Davies, A. T., *Darlledu a'r Genedl* (Darlith Flynyddol BBC Cymru, 1972)

Evans, G., *Byw neu Farw? – Life or Death? The Struggle for the language and a Welsh T.V. Channel* (Plaid Cymru, 1980)

Evans, M., *Cloffi Rhwng Dau Feddwl; Darlledu Cymraeg Heddiw* (Cylch yr Iaith, 2004)

Evans, R., '"Softly Spoken Fanatics"? : Teledu, Iaith a'r Wladwriaeth Brydeinig, 1949–1979', *Cynhadledd S4C: 25*, Aberystwyth (Tachwedd 2007)

HTV, *Y Bedwaredd Sianel yng Nghymru, Datganiad gan HTV Cymru* (Llandysul, 1980)

Humphreys, E., *Bwrdd Datblygu Teledu Cymraeg* (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1979)

Humphreys, E., *Diwylliant Cymru a'r Cyfryngau Torfol* (Aberystwyth, 1977)

Isaacs, J., *Cheerio chaps, I'm off. . .* (Speech to Edinburgh Television Festival, 1987)

Lewis, S., *Tynged yr Iaith* (Darlith Flynyddol y BBC yng Nghymru, 1962)

Roberts, W., 'Teledu yng Nghymru' yn *Y Chwedegau, Cyfres o Ddarlithoedd a draddodwyd ar Deledu Harlech* (Caerdydd, 1970)

Williams, E. O., *Byw ynghanol chwyldro* (Darlith Cymru Heddiw, Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr, 1998)

## Llyfrau

Bailey, M. (gol.), *Narrating Media History* (London, 2009)

Baird, M. (gol.), *Television and Me – The Memoirs of John Logie Baird* (Edinburgh, 2004)

Barlow, D., Mitchell, P., O'Malley, T., *The Media in Wales – Voices of a Small Nation* (Cardiff, 2005)

Briggs, A., *The Golden Age of the Wireless – The History of Broadcasting in the United Kingdom, Volume II* (London, 1965)

Berger, S., Feldner, H., Passmore, K. (goln.), *Writing History: theory and practice* (London, 2003)

Bevan, T., *Years on Air – Living with the BBC* (Talybont, 2004)

Beckett, A., *When the Lights Went Out – Britain in the Seventies* (London, 2009)

Blanchard, S., Morley, D. (goln.), *What's this Channel Four? An alternative report* (London, 1982)

Blandford, S., *Film, Drama and the Break-up of Britain* (Bristol, 2007)

Bonner, P., Aston, L., *Independent Television in Britain – Vol.5, ITV and the IBA, 1981–92: The Old Relationship Changes* (Basingstoke, 1998)

Bonner, P., Aston, L., *Independent Television in Britain – Vol.6, New Developments in Independent Television, 1981–92: Channel 4, TV-am, Cable and Satellite* (Basingstoke, 2003)

Booth, W.C., Colomb, G.G.,Williams, J.M., *The Craft of Research* (Chicago, 1995)

Brown, M., *A Licence to be Different – The Story of Channel 4* (London, 2007)

Catteral, P., *The Making of Channel 4* (London, 1999)

Clarke, P., *Hope and Glory – Britain 1900–2000* (second edition, London, 2004)

Crickhowell, N., *Westminster, Wales and Water* (Cardiff, 1999)

Crisell, A., *An Introductory History of British Broadcasting* (second edition, London, 1997)

Curran, J., Seaton, J., *Power Without Responsibility: The Press and Broadcasting in Britain* (sixth edition, London, 2003)

Davies, G., T., *At Arm's Length* (Bridgend, 2008)

Davies, J., *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994)

Davies, J., *Hanes Cymru* (London, 2007)

Docherty, D., Morrison, D. E., Tracey, M., *Keeping Faith? Channel 4 and its audience* (London, 1988)

Dunkerley, D., Thompson, A., *Wales Today* (Cardiff, 1999)

Evans, D.G., *A history of Wales 1906 – 2000* (Cardiff, 2000)

Evans, G., *Bywyd Cymro* (Caernarfon, 1982)

Evans, G., *Fighting for Wales* (Talybont, 1991)

Evans, G., Stephens, M., *For the Sake of Wales – The Memoirs of Gwynfor Evans* (Caernarfon, 1996)

Evans, G., *The Fight for Welsh Freedom* (Talybont, 2000)

Evans, J. G., *Devolution in Wales: claims and responses, 1937–1979* (Cardiff, 2006)

Evans, R., *Gwynfor – Rhag pob Brad* (Talybont, 2005)

Goodwin, P., *Television under the Tories: Broadcasting Policy 1979 – 1997* (London, 1997)

Gwynfryn, H., *Y dyn 'i hun* (Caernarfon, 2004)

Hilmes, M. (gol.), *The Television History Book* (London, 2003)

Hannan, P., *Wales in Vision: the people and politics of television* (Llandysul, 1990)

Hobson, D., *Channel 4 – The early years and the Jeremy Isaacs Legacy* (London, 2008)

Hume, I., Pryce, W. T. R. (goln.), *The Welsh and their Country* (Llandysul, 1986)

Isaacs, J., *Look me in the Eye* (London, 2006)

Isaacs, J., *Storm over Four: A Personal Account* (London, 1989)

Jenkins, G. H., *A Concise History of Wales* (Cambridge, 2007)

Jenkins, G. H., Williams, M. A. (goln.), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2000)

Jenkins, G., *Prif Weinidog Answyddogol Cymru – Cofiant Huw T. Edwards* (Talybont, 2007)

Jones, A. G., *Press, Politics and Society – A History of Journalism in Wales* (Cardiff, 1993)

Jones, J. B., Balsom, D. (goln.), *The Road to the National Assembly for Wales* (Cardiff, 2000)

Jones, R.M., *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 1999)

Jones, R. W., *Rhoi Cymru'n Gyntaf – Syniadaeth Plaid Cymru, Cyfrol 1* (Caerdydd, 2007)

Jones, W. M., *Wyn Mel – Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da* (Talybont, 2010)

Lambert, S., *Channel Four: Television with a difference?* (London, 1982)

Lambie-Nairn, M., Myerson, J., *Brand identity for television: with knobs on* (London, 1997)

Lucas, R., *The Voice of a Nation? A concise account of the BBC in Wales, 1923–1973* (Llandysul, 1981)

Medhurst, J., *A History of Independent Television in Wales* (Cardiff, 2010)

Meredith, D., *Pwy Fase'n Meddwl* (Llandysul, 2002)

Morgan, K. O., *Britain Since 1945 – The People's Peace* (third edition, Oxford, 2001)

Morgan, K. O., *Wales – Rebirth of a Nation, 1880–1980* (Oxford 1981)

O'Malley, T., Jones, J. (goln.), *The Peacock Committee and UK Broadcasting Policy* (Basingstoke, 2009)

Owen, G., *Crych Dros Dro* (Caernarfon, 2003)

Perks, R., Thomson, A.(goln.), *The Oral History Reader* (London, 1998)

Phillips, D., *Trwy Ddulliau Chwyldro . . .? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1962–1992* (Llandysul, 1998)

Potter, J., *Independent Television in Britain: Vol.3, Politics and Control, 1968–1980* (Basingstoke, 1989)

Potter, J., *Independent Television in Britain: Vol.4, Companies and Programmes, 1968–1980* (Basingstoke, 1990)

Roberts, W., *Right from the Start – The Memoirs of Sir Wyn Roberts* (Cardiff, 2006)

Scannell, P., Cardiff, D., *A Social History of British Broadcasting – Volume One 1922–1939, Serving the Nation* (Oxford, 1991)

Sendall, B., *Independent Television in Britain – Vol. 2, Expansion and Change, 1958–68* (Basingstoke, 1983)

Smith, A., *Television: an international history* (second edition, Oxford, 1998)

Smith, D., Jones, G. E., (goln.), *The People of Wales* (Llandysul, 1999)

Smith, D., *Wales: a question for history?* (Bridgend, 1999)

Sounes, H., *Seventies – The Sights, Sounds and Ideas of a Brilliant Decade* (London, 2006)

Stephens, M. (gol.), *The Welsh Language Today – A New Revised Edition* (Llandysul, 1979)

Thomas, N., *The Welsh Extremist* (Talybont, 1971)

Thomas, S., *Dwy Genhedlaeth, Owen Edwards a Mari Emlyn* (Llandysul, 2003)

Thompson, P., *The Voice of the Past – Oral History* (Oxford, 1988)

Tomos, A., *Cnonyn Aflonydd* (Caernarfon, 2001)

Tomos, A., *Yma o Hyd* (Talybont, 1992)

Tonkin, E., *Narrating our Pasts: The social construction of oral history* (Cambridge, 1992)

Tudur, G. (gol.), *Wyt Ti'n Cofio? Chwarter Canrif o Frwydr yr Iaith* (Talybont, 1989)

Turner, A. W., *Crisis? What Crisis? Britain in the 1970s* (London, 2008)

Whitelaw, W, *The Whitelaw Memoirs* (London, 1989)

Wigley, D., *O ddifri* (Caernarfon, 1992)

Williams, J. R., *Yr eiddoch yn gywir: atgofion* (Penygroes, 1990)

Williams, K., *Get me a Murder a Day! A History of Mass Communication in Britain* (London, 1998)

Williams, K., *Shadows and Substance: The Development of a Media Policy for Wales* (Llandysul, 1997)

## Erthyglau ac Ysgrifau

Bayly, S., 'The Welsh Perspective', *Signt and Sound*, Vol. 52, No. 4 (Autumn 1983), 244–7.

Berry, D., 'Unearthing the Present: Television Drama in Wales', Blandford, S.(gol.), *Wales on Screen* (Bridegend, 2000), tt. 128–51.

Bevan, D., 'The Mobilisation of cultural minorities: the case of Sianel Pedwar Cymru', *Media, Culture and Society*, 6 (1984), tt. 103–17.

Beynon, A., 'S4C – y misoedd cyntaf' yn Ò Luain, C.(gol.), *For a Celtic Future: a tribute to Alan Heusaff* (Dublin, 1983)

Briggs, Asa, 'Problems and Possibilities in the Writing of Broadcasting History', *Media, Culture and Society*, 2 (1980), tt. 5–13.

Bromley, M., Williams, K., 'Owning the Welsh Voice', *Planet*, 135 (1999), 118–20

Comley, B., 'Heart of the Welsh Dragon', *Broadcast* (1987)

Davies, E., 'S4C – Sianel yr Iaith ar Waith', *Barn* (Mehefin 1984), 201–7.

Davies, G. T., 'Broadcasting and the nation', *Planet*, 92 (1992), 16–25.

Delamont, S., 'S4C and the grass roots? A review of past and future research on the mass media and the Welsh language', *Contemporary Wales*, 1 (1987),

Dienw, 'Gŵr o'r India yw Cadeirydd Newydd S4C!', *Barn* (Awst 1986), 281–6

Evans, G., 'Campaigning for Wales', *Radical Wales*, 18 (1988), 25–27.

Evans, G., 'Hanes Twf Plaid Cymru 1925–1995', *Cof Cenedl 10: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1995) tt. 153–84.

Evans, I.G., ''Drunk on hopes and ideas': the failure of Welsh television 1959–1963' *Llafur*, 7, rhif 2 (1997), tt. 81–93.

Evans, M., 'Ein Cynhysgaeth Ni', *Y Faner Newydd*, 20 (Gaeaf 2001), 44–5.

Evans, M., 'Meredydd Evans yn trafod canllawiau iaith newydd S4C', *Y Faner Newydd*, 11 (Gwanwyn 1999), 8–10.

Evans, R., 'Sefydlu'r Sianel', *Barn*, 478 (2002), 21–5

Evans, R. A., 'Brwydrau Darlledu'r Gorffennol', *Y Faner Newydd* (1999)

Howell, W. J., 'Britain's Fourth Television Channel and the Welsh Language Controversy', *Journal of Broadcasting and Electronic Media*, Vol. 25, Issue 2 (Spring 1981), tt. 123–37.

Hudson, C., 'TV Film World Turned Upside Down', *Planet*, 63 (1987), 111–16.

James, W., 'Frustrated Hopes', *Radical Wales*, 11 (1986), 11.

Jones, E. Ll., 'Er Cof am S4C: 1982–2012', *Barn*, 503/504 (2004–2005), 18–20.

Jones, H., 'Cultural Enterprise in Wales: the S4C experience', *Welsh Economic Review*, 12, rhif 2 (2000)

Lewis, E., 'Serving two cultures: Sianel Pedwar Cymru', *Airwaves* (1987–88), 20–1.

Martin, H., 'Gwneud safiad yn erbyn Seisnigo S4C a Radio Cymru – Buddugoliaeth i Gylch yr Iaith', *Y Faner Newydd*, 37 (2006)

Medhurst, J., 'Teledu Cymru: menter gyffrous neu breuddwyd ffôl?', *Cof Cenedl 17: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 2002), tt. 167–93.

Medhurst, J., 'You say Minority, Sir, we say a Nation', *Welsh History Review*, 22, rhif 2 (2004), tt. 302–32.

Morgan, D. Ll., 'Y Teledu a'i Ddiwylliant', *Barn* (Hydref 1984), 369–73.

Morgan, J., 'Welsh Language Television: a flowering of new talent', *The Listener* (1985)

Morris, N., 'Film and Broadcasting in Wales', *Books in Wales*, 1 (1995), 5–8.

Osmond, J., 'Fight for the Future of Televsion in Wales', *Arcade*, No. 33 (March 1982), 4–6.

Price, G., 'Cadw'r Ddysgl yn Wastad, *Barn* (Mawrth 1985), 101–6.

Roberts, A., 'From a beleaguered city', *Planet*, 63 (1987), 9–13.

Roberts, A., 'Some political implication of S4C', *Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion* (1989), tt. 211–28.

Roberts, B.M., 'Atgofion am ddyddiau cynnar teledu Cymraeg', *Y Faner Newydd*, 27 (2004)

Ryan, M., 'Blocking the Channels: TV and Film in Wales' yn Curtis, T., *Wales: the imagined nation, studies in cultural and national identity* (Bridgend, 1986), tt. 183–96.

Ryan, M., 'Channel No. Five?, *Radical Wales*, 11 (1986), 10–11.

Smith, R., 'A mirror of Wales?: Sound Broadcasting by the BBC's Welsh region 1937–1964', *Llafur*, 8, rhif 1 (2000), tt. 131–43.

Thomas, J., Lewis, J., '"Coming out of a mid-life crisis"?: The past, present and future audiences for Welsh Language Broadcasting, *Cyfrwng: Media Wales Journal*, 3 (2006), tt. 7–40.

Thomas, N., 'S4C and Europe', *Planet 66* (1987–8), 3–8.

Thomas, N., 'Iaith y Sianel – Gweithredwch – angen am bolisi', *Golwg*, Cyfrol 3, rhifyn 21 (1991)

Thomas, N., 'Ten Years On: Sianel Pedwar Cymru in a comparative perspective', *Planet*, 96 (1992–1993), 7–10.

Thomas, N., 'Sianel Pedwar Cymru; the first years of Television in Welsh', *Briezh na Poblou̇ Europa* (1999), tt. 627–34.

Thomas, N., 'Tynged yr Iaith – forty years on', *Planet*, 152 (2002), 58–62

Williams, E. O., 'Ymlaen i'r drydedd flwyddyn', *Barn*, 264 (1985), 21–7.

Williams, K., 'And even the Welsh?: the stereotyping of Wales in the Media', *Planet*, 104 (1994), 16–19.

Williams, K., 'An uncertain era: Welsh television, Broadcasting Policy and the National Assembly in a Multimedia world', *Contemporary Wales*, 18, 1 (2006)

Williams, K., 'Creating Myths and Writing Media History', *Planet*, 109 (1995), 12–5.

Williams, K., 'Crisis in Welsh Television', *Planet*, 96 (1992–3), 112–14.

Williams, K., 'Is there anybody out there?: the audience for Welsh broadcasting', *Planet*, 118 (1996), 18–21.

Williams, K., 'Mind your language: minority language broadcasting', *Planet*, 112 (1995), 21–4.

Williams, K., 'Misrepresenting Wales today: the broadcast media and the identity debate', *Planet*, 100 (1993), 40–3.

Williams, K., 'Serving the nation?: deterioration in TV programming', *Planet*, 89 (1993), tt. 111–12.

Williams, K., 'Sianel Pedwar Cymru – Corporate behemoth or cultural redeemer', *Planet*, 122 (1997), 59–62.

Williams, K., 'Whose life is it anyway?: Representation and Welsh Television', *Planet*, 108/109 (1994–5), 16–19.

Williams, K., 'What is this Channel for? Kevin Williams discusses calls for an English-language Channel for Wales', *Planet*, 114 (1995–6), 22–5.

Williams, P., 'How green is the Sianel?', *Broadcast*, 1 March 1982, 16–20

Williams, Rh., 'Sianel 4 Cymru', *Barn* (Mawrth 1982), 57–60

Wright, T., Hartley, J., 'Representations for the People? Television News, Plaid Cymru and Wales' yn Curtis, T., *Wales: the imagined nation, studies in cultural and national identity* (Bridgend, 1986), tt. 201–23.

## Traethodau Ymchwil

Black, C. E. S., ' The development of independent production in Wales and the role of S4C' (traethawd MSc Econ anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1988)

Hopkin, D. O., 'The Expectations of a Nation – Sianel Pedwar Cymru and Broadcasting in Wales' (traethawd BA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1996)

Johnson, V. I., 'Dying for Television: the demands for and of Sianel Pedwar Cymru' (traethawd MSc Econ anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1988)

Jones, E. M., 'Astudiaeth o adwaith pobl Cymru i S4C yn ystod y cyfnod 1982 – 1990' (traethawd Mphil anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, 1995)

Jones, H. E., 'S4C: y gynulleidfa a cherddoriaeth. Astudiaeth o ddarpariaeth rhaglenni cerddorol ar gyfer cynulleidfa S4C, 1982 – 1996' (traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1998)

Medhurst, J. L., 'Teledu Cymru – Teledu Mamon? Independent Television in Wales 1953 – 1963' (traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2004)

Smith, S. A., 'Agweddau ar S4C: i ba raddau y bu S4C gyflawni'r disgwyliadau o safbwynt gwylwyr' (traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Abertawe, 1999)

Williams, E. M., 'S4C: Hoff Sianel Plant Ysgol Brynhyfryd?' (traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1987)

Woodward, K. E., 'Y Cleddyf ym mrwydr yr iaith: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg, 1970 – 1986' (traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2009)

## Papurau Newydd a Cylchgronau

Arcade

Ariel
Barn
Brecon and Radnor Express
Broadcast
Caernarvon and Denbigh Herald
Cambrian News
Campaign
Carmarthen Times
Carmarthen Journal
Contact Cardiff
Curiad
Daily Express
Daily Mail
Daily Post
Daily Star
Daily Mirror
Eco'r Wyddfa
Eastern Daily Press
Exeter Express and Echo
Film and TV Technician
Glasgow Evening Times
Golwg
Greenock Telegraph
Gwent Gazette
Herald Môn
Hereford Evening News
Kent Evening Post
Llanelli Star
Llanw Llŷn
Lleu
Lol
Manchester Evening News
Media Week
Merthyr Express
North Wales Weekly News
North Wales Chronicle
Oldham Evening Chronicle
Radio Times
Rebecca
Sbec
Screen International
Sheffield Morning Telegraph
Shropshire Star
Sight and Sound
South Wales Argus
South Wales Echo
South Wales Evening Post
Sulyn
Sunday Mirror

Television – Journal of the Television Society
Television Today
Television Weekly
Televisual
The County Times
The Daily Telegraph
The Economist
The Financial Times
The Free Press
The Guardian
The Independent
The Irish Times
The Listener
The New York Times
The Observer
The Scotsman
The Stage and Television Today
The Sunday Times
The Sunday Telegraph
The Sun
The Times
TV Times
TV World
UK Press Gazettte
Video
Welsh Nation
Western Mail
Western Daily Press
Wolverhampton Express and Star
Worcester Evening News
Y Cymro
Y Faner
Y Pentan
Y Tyst
Y Wawr
Yr Herald Cymraeg
Yr Ysgub

## Deunyddiau Clyweledol

*A Fo Ben* (Cynhyrchiad Uned Hel Straeon, darlledwyd ar S4C 1989)

*Articles* (BBC Radio Wales, 30 Ionawr 1981)

*Y Byd ar Bedwar* (Cynhyrchiad ITV Wales, darlledwyd ar S4C, 8 Tachwedd 2010)

*Croeso i S4C* (Cynhyrchiad mewnol, S4C, 1 Tachwedd 1982)

*Newyddion Saith* (Cynhyrchiad BBC Cymru, darlledwyd ar S4C, 1 Tachwedd 2010)

*Noson Gwylwyr S4C* (Cynhyrchiad Tinopolis, darlledwyd ar S4C 25 Hydref 2010)

*Pethe - Rhaglen Goffa Owen Edwards* (Cynhyrchiad Cwmni Da, darlledwyd ar S4C 28 Medi 2010)

*Post Cyntaf* (BBC Radio Cymru, 24 Tachwedd 2010)

*S4C yn 20 Mlwydd Oed* (Cynh. Vaughan Hughes, Ffilmiau'r Bont, 31 Hydref 2002)

*Teledu'r Cymry* (Cynhyrchiad BBC Cymru, darlledwyd ar S4C 30 Hydref 2007 a 6 Tachwedd 2007)

*The Media Show* (BBC Radio Four, 18 Awst 2010)

*Week in Week Out* (BBC Wales, 26 Hydref 2010)

*Week in Week Out* (BBC Wales, 30 Hydref 2007)

*Wedi 7 – Rhaglen Goffa Owen Edwards* (Cynhrychiad Tinopolis, darlledwyd ar S4C 31 Awst 2010)

*Wythnos Gwilym Owen* (BBC Radio Cymru, 15 Mawrth 2010)

*Wythnos Gwilym Owen* (BBC Radio Cymru, 25 Hydref 2010)

## Gwefannau

*www.bbc.co.uk*
*www.clickonwales.org*
*www.cymdeithas.org*
*www.golwg360.com*
*www.guardian.co.uk*
*www.ofcom.org.uk*
*www.independent.co.uk*
*www.s4c.co.uk*
*www.telegraph.co.uk*
*www.walesoffice.gov.uk*
*www.walesonline.co.uk*